**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Cynllunio (Cymru)

[DRAFFT]

CYNNWYS

## RHAN 1

DARPARIAETHAU RHAGARWEINIOL

### PENNOD 1

CYFLWYNIAD A THROSOLWG

1 Cyflwyniad i'r Ddeddf hon [j2801]
2 Trosolwg o'r Ddeddf hon [j2802]

### PENNOD 2

"DATBLYGIAD" A DIFFINIADAU CYSYLLTIEDIG

3 Ystyr "datblygiad" [j401]
4 Gweithrediadau adeiladu, peirianneg a mwyngloddio [j478]
5 Defnyddiau o dir sy'n golygu newid sylweddol [j479]
6 Gweithrediadau a newidiadau mewn defnydd nad ydynt yn ddatblygiad [j480]

### PENNOD 3

AWDURDODAU CYNLLUNIO

7 Yr awdurdod cynllunio ar gyfer ardal [j201]
8 Pŵer i ddynodi ardal gydgynllunio a sefydlu bwrdd cydgynllunio [j202]
9 Ardaloedd cydgynllunio a Pharciau Cenedlaethol [j203]

## RHAN 2

Y CYNLLUN DATBLYGU

### PENNOD 1

RHAGARWEINIOL

10 Ystyr "y cynllun datblygu" ar gyfer ardal [j301]
11 Datblygu cynaliadwy [j335]

### PENNOD 2

FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU

12 Dyletswydd i lunio a chyhoeddi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol [j302]
13 Llunio'r Fframwaith: datganiad o gyfranogiad y cyhoedd [j303]

14 Y weithdrefn ar gyfer llunio a chyhoeddi'r Fframwaith [j304]
15 Adolygu a diwygio'r Fframwaith [j305]

**PENNOD 3**

CYNLLUNIO STRATEGOL A LLEOL: PRIF SWYDDOGAETHAU AWDURDODAU

*Cynllunio strategol gan gyd-bwyllgorau corfforedig*

16 Arolwg o ardal cyd-bwyllgor corfforedig [j306]
17 Dyletswydd i lunio cynllun datblygu strategol [j307]

*Cynllunio lleol gan awdurdodau cynllunio*

18 Arolwg o ardal awdurdod cynllunio [j308]
19 Dyletswydd i lunio cynllun datblygu lleol [j309]

**PENNOD 4**

CYNLLUNIAU DATBLYGU STRATEGOL A LLEOL: Y WEITHDREFN

*Cyflwyniad*

20 Ystyr "awdurdod sy'n gwneud cynllun" a "cynllun" [j310]

*Llunio a mabwysiadu cynlluniau*

21 Llunio cynllun: y weithdrefn a'r cytundeb cyflawni [j311]
22 Arfarniad o gynaliadwyedd [j312]
23 Archwiliad annibynnol [j313]
24 Mabwysiadu cynllun [j314]

*Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru a thynnu cynlluniau yn ôl cyn eu mabwysiadu*

25 Pŵer i gyfarwyddo awdurdod i addasu cynllun [j319]
26 Pŵer i gyfarwyddo awdurdod i gyflwyno cynllun i'w gymeradwyo [j320]
27 Pŵer i gyfarwyddo awdurdod i dynnu cynllun yn ôl [j321]
28 Tynnu cynllun yn ôl pan nad oes cyfarwyddyd [j322]
29 Pwerau diofyn Gweinidogion Cymru [j323]

*Sylwadau ynghylch cynlluniau*

30 Eithrio sylwadau penodol sy'n ymwneud â phriffyrdd a threfi newydd [j328]

*Adolygu, diwygio, dirymu a monitro cynlluniau ar ôl eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo*

31 Dyletswydd i ystyried pa un ai i adolygu cynllun [j315]
32 Adolygu cynllun [j316]
33 Diwygio cynllun [j317]

34 Dirymu cynllun [j318]
35 Adroddiad monitro blynyddol [j332]

*Cynlluniau datblygu lleol ar y cyd*

36 Arfer swyddogaethau ar y cyd gan awdurdodau cynllunio [j324]
37 Trefniadau ar y cyd rhwng awdurdodau cynllunio yn dod i ben [j325]

*Costau archwiliadau annibynnol o gynlluniau*

38 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n gwneud cynllun dalu costau archwiliad annibynnol [j327]

**PENNOD 5**

CYFFREDINOL

39 Corfforaethau datblygu trefol [j330]
40 Canllawiau [j331]
41 Rheoliadau ynghylch arfer swyddogaethau mewn perthynas â chynlluniau [j333]

**RHAN 3**

CANIATÂD CYNLLUNIO

**PENNOD 1**

RHAGARWEINIOL

*Trosolwg*

42 Trosolwg o'r Rhan hon [j404]

*Gofyniad i gael caniatâd cynllunio*

43 Caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer datblygiad [j403]

**PENNOD 2**

CANIATÂD CYNLLUNIO A RODDIR DRWY ORCHYMYN

44 Pŵer Gweinidogion Cymru i roi caniatâd drwy orchymyn datblygu [j405]
45 Pŵer awdurdod cynllunio i roi caniatâd drwy orchymyn datblygu lleol [j408]
46 Cwblhau datblygiad ar ôl tynnu caniatâd a roddir drwy orchymyn yn ôl [j411]

**PENNOD 3**

CANIATÂD CYNLLUNIO A RODDIR AR GAIS: RHAGARWEINIOL

47 Rhoi caniatâd cynllunio ar gais [j487]
48 Caniatâd cynllunio amlinellol [j489]
49 Caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a gynhaliwyd eisoes [j447]
50 Caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad heb gydymffurfio ag amodau blaenorol [j490a]

51 Dyletswydd datblygu cynaliadwy [j477]

**PENNOD 4**

Y WEITHDREFN CYN GWNEUD CAIS

52 Gofyniad i geisydd ymgynghori a rhoi cyhoeddusrwydd cyn gwneud cais [j412]
53 Gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru [j413]
54 Gwasanaethau cyn gwneud cais: cofnodion a datganiad o wasanaethau [j414]

**PENNOD 5**

GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO A CHYMERADWYAETHAU CYSYLLTIEDIG

*Gofynion ar gyfer ceisiadau i awdurdodau cynllunio*

55 Cais am ganiatâd cynllunio i gael ei wneud i awdurdod cynllunio [j491]
56 Cais am ganiatâd cynllunio, cymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl etc.: gofynion cyffredinol [j415a]
57 Cais am ganiatâd cynllunio: datganiad dylunio a mynediad ac adroddiad ymgynghoriad cyn gwneud cais [j415b]
58 Hysbysiad o gais am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl [j436]

*Methiant i gydymffurfio â gofynion ar gyfer ceisiadau*

59 Awdurdod cynllunio i beidio ag ystyried cais annilys [j436a]
60 Awdurdod cynllunio i roi hysbysiad nad yw cais yn ddilys [j416]
61 Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad o annilysrwydd [j417]
62 Penderfynu apêl yn erbyn hysbysiad [j417a]

**PENNOD 6**

YMDRIN Â CHEISIADAU

*Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau*

63 Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau: cyffredinol [j441]
64 Gofyniad i ymateb i ymgynghoriad [j495]
65 Rhoi hysbysiad o geisiadau i gynghorau cymuned [j433]

*Penderfynu ceisiadau ac amodau caniatâd cynllunio*

66 Ystyriaethau cyffredinol sy’n berthnasol i benderfynu ceisiadau [j438]
67 Rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio a gosod amodau [j445]
68 Penderfynu ceisiadau i ddatblygu heb gydymffurfedd ag amodau blaenorol [j446]
69 Hysbysiadau penderfynu [j442]

*Achosion pan na fo awdurdodau cynllunio yn ymdrin â cheisiadau a wneir iddynt*

70 Pŵer i wrthod ystyried ceisiadau tebyg [j439]
71 Pŵer i wrthod ystyried cais a wneir ar ôl dyroddi hysbysiad gorfodi [j440]
72 Atgyfeirio cais at Weinidogion Cymru [j451]

*Apelau i Weinidogion Cymru*

73 Yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio neu fethiant awdurdod cynllunio i wneud penderfyniad [j452]
74 Y weithdrefn ar gyfer gwneud apêl [j452a]
75 Cyfyngiad ar amrywio cais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl [j452b]
76 Penderfyniad ar gais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl [j453]
77 Penderfynu apêl [j454]

**PENNOD 7**

CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO A CHYMERADWYAETHAU CYSYLLTIEDIG: ACHOSION ARBENNIG

*Ceisiadau dewisol i Weinidogion Cymru*

78 Opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru [j429]
79 Dynodi awdurdod cynllunio at ddibenion adran 78 [j430]
80 Opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru: ceisiadau cysylltiedig [j431]
81 Pwerau i osod gofynion mewn perthynas â cheisiadau i Weinidogion Cymru [j432]
82 Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau cynllunio a wneir i Weinidogion Cymru [j434]
83 Gwasanaethau cyn gwneud cais a phenderfynu ceisiadau: swyddogaethau arolygwyr [j434a]

*Y Goron*

84 Ceisiadau gan y Goron [j496]
85 Ceisiadau sy'n ymwneud â datblygiad brys y Goron [j497]

*Cyfuno ceisiadau*

86 Cyfuno ceisiadau am ganiatâd cynllunio â cheisiadau eraill [j498]

**PENNOD 8**

CANIATÂD CYNLLUNIO AR GYFER DATBLYGIAD AG AWDURDODIAD Y LLYWODRAETH

87 Awdurdodiad ar gyfer datblygiad gan awdurdodau lleol ac ymgymerwyr statudol [j457]
88 Cydsyniad ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan a llinellau trydan [j483]
89 Gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 [j484]
90 Cymhwyso'r Ddeddf hon i ganiatâd cynllunio a roddir o dan y Bennod hon [j485]

## PENNOD 9

### EFFAITH, HYD A GWEITHREDIAD CANIATÂD CYNLLUNIO

*Effaith caniatâd cynllunio*


91 Budd caniatâd cynllunio [j449]
92 Caniatâd i godi adeilad: at ba ddibenion y caniateir defnyddio adeilad [j492]


*Hyd caniatâd cynllunio*


93 Amod ynghylch y cyfnod y mae rhaid i ddatblygiad ddechrau ynddo [j458]
94 Amodau caniatâd cynllunio amlinellol [j459]
95 Torri amod ynghylch y cyfnod y mae rhaid i ddatblygiad ddechrau ynddo etc. [j493]
96 Hyd caniatâd mwynau [j445a]


*Gweithrediad caniatâd cynllunio*


97 Hysbysiad o ddechrau a chynnal datblygiad [j443]


*Terfynu caniatâd cynllunio pan na fo datblygiad wedi ei gwblhau*


98 Pŵer i wneud gorchymyn terfynu [j461]


*Dehongli*


99 Yr adeg pan fydd datblygiad yn dechrau [j402]


## PENNOD 10

### NEWIDIADAU I GANIATÂD CYNLLUNIO

*Newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio*


100 Pŵer awdurdod cynllunio i wneud newid ansylweddol i ganiatâd cynllunio [j464]
101 Darpariaeth bellach ynghylch ceisiadau am newidiadau ansylweddol [j469]


*Addasu a dirymu caniatâd cynllunio*


102 Pŵer i wneud gorchymyn sy’n addasu neu’n dirymu caniatâd cynllunio [j465]


*Adolygiadau o ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mwynau*


103 Rhoi effaith i ganiatadau mwynau sy’n ymwneud â safleoedd segur [j495a]
104 Adolygiad cyfnodol o ganiatadau mwynau [j490]

**PENNOD 11**

DIGOLLEDIAD A PHRYNU BUDDIANNAU MEWN TIR

*Digolledtiad am newidiadau i ganiatâd cynllunio*

105 Digolledsiad am wrthod caniatâd cynllunio a roddwyd yn flaenorol drwy orchymyn neu am ei roi yn amodol [j602]
106 Digolledsiad pan fo caniatâd cynllunio yn cael ei addasu neu ei ddirymu [j601]
107 Digolledsiad am newidiadau i ganiatâd cynllunio: darpariaeth atodol [j603]
108 Dosrannu ac adennill digolledsiad am ddibrisiant [j605]
109 Digolledsiad am newidiadau i ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mwynau [j604]

*Yr hawl i wneud prynu buddiant mewn tir yn orfodol*

110 Cyflwyno hysbysiad prynu pan fo caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod, ei ddirymu neu ei wneud yn amodol [j618]

**PENNOD 12**

COFRESTR

111 Cofrestr o orchmynion datblygu lleol, ceisiadau cynllunio etc. [j437]

**RHAN 4**

GORFODI

*Rhagarweiniol*

112 Ymadroddion a ddefnyddir mewn cysylltiad â gorfodi [j501]
113 Terfynau amser i gymryd cam gorfodi [j502]

*Pwerau ymchwilio*

114 Pŵer awdurdod cynllunio i gyflwyno hysbysiad ymchwilio am orfodi [j503]
115 Y drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad ymchwilio am orfodi [j504]
116 Pwerau i fynd ar dir at ddibenion gorfodi [j535]
117 Gwarant i fynd ar dir [j536]
118 Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad [j537]

*Hysbysiadau rhybuddio am orfodi*

119 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad rhybuddio am orfodi [j505]

*Hysbysiadau stop dros dro*

120 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad stop dros dro [j506]
121 Cyfyngiadau ar y pŵer i ddyroddi hysbysiad stop dros dro [j507]
122 Hyd etc. hysbysiad stop dros dro [j544]

123 Y drosedd o dorri hysbysiad stop dros dro [j508]
124 Digolledíad am golled neu ddifrod a achosir gan hysbysiad stop dros dro [j509]

*Hysbysiadau tor amod*

125 Pŵer awdurdod cynllunio i gyflwyno hysbysiad tor amod [j510]
126 Y drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad tor amod [j511]
127 Effaith rhoi caniatâd cynllunio neu ddileu amod ar hysbysiad tor amod [j512]

*Hysbysiadau gorfodi*

128 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad gorfodi [j513]
129 Cyflwyno hysbysiad gorfodi, yr hysbysiad yn cymryd effaith etc. [j514]
130 Amrywio hysbysiad gorfodi a thynnu hysbysiad gorfodi yn ôl [j517]

*Apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi*

131 Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi [j518]
132 Penderfynu apêl: cyffredinol [j520]
133 Rhoi caniatâd cynllunio etc. wrth benderfynu apêl [j521]
134 Dyroddi tystysgrif cyfreithlondeb wrth benderfynu apêl [j522]

*Cydymffurfio â hysbysiadau gorfodi*

135 Gorchymyn i ganiatáu camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi [j548]
136 Pŵer i fynd ar dir a chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi [j524]
137 Adennill costau cydymffurfio â hysbysiad gorfodi [j549]
138 Troseddau o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi [j525]
139 Sicrwydd nad yw person yn wynebu risg o gael ei erlyn am drosedd o dan adran 138[j515]

*Darpariaethau pellach ynghylch effaith hysbysiadau gorfodi*

140 Y seiliau dros apelio i beidio â chael eu codi mewn achos arall [j541]
141 Effaith rhoi caniatâd cynllunio ar hysbysiad gorfodi [j526]
142 Caniatâd cynllunio tybiedig pan gydymffurfir â hysbysiad gorfodi [j516]
143 Effaith barhaus hysbysiad gorfodi mewn perthynas â datblygiad diweddarach [j527]

*Gorfodi gan Weinidogion Cymru*

144 Pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad gorfodi [j528]

*Hysbysiadau stop*

145 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad stop [j529]
146 Cyfyngiadau ar y pŵer i ddyroddi hysbysiad stop [j542]
147 Cyflwyno ac arddangos hysbysiad stop [j545]
148 Tynnu hysbysiad stop yn ôl [j546]
149 Hyd ac effaith hysbysiad stop [j530]

150 Pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad stop [j531]
151 Y drosedd o dorri hysbysiad stop [j532]
152 Digolllediad am golled neu ddifrod a achosir gan hysbysiad stop [j533]

*Gwaharddebau*

153 Gwaharddebau i atal tor rheolaeth gynllunio [j534]

*Cofrestr*

154 Cofrestr o hysbysiadau gorfodi, camau gorfodi eraill a hysbysiadau stop [j538]

**RHAN 5**

TYSTYSGRIFAU CYFREITHLONDEB

155 Ymadroddion yn ymwneud â chyfreithlondeb [j580]
156 Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnydd neu ddatblygiad presennol [j581]
157 Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnydd neu ddatblygiad arfaethedig [j582]
158 Darpariaeth bellach ynghylch ceisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb [j583]
159 Darpariaeth bellach ynghylch tystysgrifau cyfreithlondeb [j583b]
160 Yr hawl i apelio yn erbyn gwrthod cais neu fethu â gwneud penderfyniad [j585]
161 Cyfyngiad ar amrywio cais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl [j585b]
162 Penderfynu apêl [j586]
163 Dirymu tystysgrif cyfreithlondeb [j584]
164 Trosedd o wneud datganiad anwir etc. i ddylanwadu ar ganlyniad cais neu apêl [j584b]

**RHAN 6**

RHWYMEDIGAETHAU SY'N YMWNEUD Â DATBLYGIAD TIR A DEFNYDD O DIR

**PENNOD 1**

RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO

165 Rhwymedigaethau cynllunio [j473]
166 Gorfodi rhwymedigaethau cynllunio [j482]
167 Addasu a rhyddhau rhwymedigaethau cynllunio [j474]
168 Apelau sy'n ymwneud â cheisiadau i addasu neu ryddhau rhwymedigaethau cynllunio [j475]
169 Heriau cyfreithiol sy'n ymwneud â cheisiadau a wneir i Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol [j475a]
170 Dehongli'r Bennod hon [j475b]

**PENNOD 2**

ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL

*Yr ardoll*

171 Rheoliadau ASC [j901]

172 Codi tâl am ddatblygiad [j902]
173 Defnyddio ASC: cyllido seilwaith [j911]

*Atebolrwydd am ASC*

174 Termau sy'n ymwneud ag atebolrwydd[j905]
175 Ysgwyddo atebolrwydd [j903]
176 Atebolrwydd diofyn am ASC [j904]
177 Yr adeg pan fydd atebolrwydd yn codi [j906]
178 Atebolrwydd mewn achosion eraill [j907]
179 Darpariaeth bellach ynghylch atebolrwydd am ASC [j908]

*Esemptiadau a gostyngiadau*

180 Esemptiadau a gostyngiadau: cyffredinol [j908A]
181 Elusennau: esemptiad rhag atebolrwydd [j909]
182 Esemptiadau a gostyngiadau: y weithdrefn [j910A]

*Swm yr ASC*

183 Cofrestr codi tâl [j917]
184 Amcangyfrif o'r swm [j918]
185 Apelau yn ymwneud â chyfrifo ASC [j919]

*Casglu ASC*

186 Casglu a thalu ASC [j920]

*Gorfodi ASC*

187 Gorfodi: cyffredinol [j921]
188 Canlyniadau methu â chydymffurfio [j922]
189 Llog a chosbau [j923]
190 Pŵer i stopio datblygiad [j924]
191 Pwerau mynediad [j925]
192 Troseddau [j926]
193 Cofrestru atebolrwydd neu roi hysbysiad o atebolrwydd [j927]

*Digollediad*

194 Digollediad: colled neu ddifrod o ganlyniad i gamau gorfodi [j928]

*Defnyddio taliadau ASC*

195 Cyllido drwy ASC [j915]
196 Cyllid ASC: rhestrau [j916]
197 Dyletswydd i drosglwyddo ASC i bersonau eraill [j912]
198 Dyletswydd i drosglwyddo ASC: darpariaeth bellach [j913]

199 Defnyddio ASC mewn ardal nad yw’r ddyletswydd i drosglwyddo ASC yn gymwys iddi [j914]

*Adolygiadau ac apelau*

200 Adolygiadau ac apelau [j928A]

*Y weithdrefn*

201 Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch gweithdrefnau [j929]

*Canllawiau*

202 Canllawiau [j930]

*Y berthynas â phwerau eraill*

203 Y berthynas â phwerau eraill [j931]

*Cyffredinol*

204 Rheoliadau ASC: cyffredinol [j932]
205 Dehongli’r Bennod hon [j933]

**RHAN 7**

PWERAU ERAILL YN YMWNEUD Â DEFNYDD O DIR NEU GYFLWR TIR

**PENNOD 1**

PWERAU I’W GWNEUD YN OFYNNOL DATBARHAU DEFNYDD O DIR ETC.

*Gorchmynion datbarhau*

206 Pŵer i wneud gorchymyn datbarhau [j470]
207 Caniatâd cynllunio a roddir gan orchymyn datbarhau [j470a]

*Gorchmynion gwahardd a gorchmynion diogelu*

208 Pŵer i wneud gorchymyn gwahardd neu orchymyn diogelu [j470b]

*Gorfodi gorchmynion*

209 Pwerau i fynd ar dir, cymryd camau a wneir yn ofynnol gan orchymyn ac adennill costau [j570]
210 Y drosedd o fethu â chydymffurfio â gorchymyn [j571]

*Digolllediad a phrynu buddiannau mewn tir*

211 Digolllediad am ddifrod a achosir gan orchymyn datbarhau [j613]
212 Digolllediad am effeithiau gorchmynion sy’n ymwneud â mwynau [j614]
213 Cyflwyno hysbysiad prynu yn dilyn gwneud gorchymyn datbarhau [j619]

**PENNOD 2**

TIR SY’N EFFEITHIO’N ANDWYOL AR AMWYNDER CYMDOGAETH

*Hysbysiadau cynnal a chadw tir*

214 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad cynnal a chadw tir [j871]

*Apelau yn erbyn hysbysiadau cynnal a chadw tir*

215 Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad cynnal a chadw tir [j872]
216 Penderfynu apêl [j873]
217 Y seiliau dros apelio i beidio â chael eu codi mewn achosion eraill [j878]

*Gorfodi hysbysiadau cynnal a chadw tir*

218 Gorchymyn i ganiatáu camau sy’n ofynnol gan hysbysiad cynnal a chadw tir [j875]
219 Pwerau i fynd ar dir, cymryd camau sy’n ofynnol gan hysbysiad cynnal a chadw tir ac adennill costau [j876]
220 Y drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad cynnal a chadw tir [j877]

**RHAN 8**

RHEOLAETHU HYSBYSEBION

*Rheoliadau rheolaethu hysbysebion*

221 Rheoliadau rheolaethu hysbysebion [j851]
222 Cydsyniad ar gyfer arddangos hysbysebion [j852]
223 Cyfyngu ar arddangos hysbysebion pan na fo cydsyniad datganedig yn ofynnol fel arfer [j853]
224 Apelau [j854]
225 Newid neu ddirymu cydsyniad [j855]
226 Digolllediad [j855a]
227 Rheoliadau rheolaethu hysbysebion: atodol [j856]
228 Pŵer i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol, gan gynnwys ardaloedd rheolaeth arbennig [j858]

*Caniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer arddangos hysbysebion*

229 Caniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer hysbysebion a arddangosir yn unol â rheoliadau [j857]

*Gorfodi rheoliadau*

230 Y drosedd o arddangos hysbyseb yn groes i reoliadau [j859]
231 Pŵer i symud ymaith neu ddifodi placard a phoster [j860]
232 Digolllediad am ddifrod a achosir wrth symud ymaith neu ddifodi placard neu boster [j861]

## RHAN 9

## DIOGELU COED A CHOETIROEDD

### PENNOD 1

### GORCHMYNION DIOGELU COED A GORCHMYNION DIOGELU COETIR ETC.

*Dyletswydd gyffredinol awdurdodau cynllunio*

233 Caniatâd cynllunio i gynnwys darpariaeth ar gyfer diogelu a phlannu coed [j801]

*Gorchmynion diogelu coed a gorchmynion diogelu coetir*

234 Pŵer awdurdod cynllunio i wneud gorchymyn diogelu coed [j802]
235 Pŵer awdurdod cynllunio i wneud gorchymyn diogelu coetir [j803]
236 Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion diogelu coed a gorchmynion diogelu coetir [j804]

*Rheoliadau diogelu coed*

237 Rheoliadau diogelu coed: cyffredinol [j805]
238 Buddion amwynder: ffactorau i'w hystyried [j805a]
239 Gwneud, amrywio neu ddirymu gorchmynion diogelu coed a gorchmynion diogelu coetir [j806]
240 Gweithgareddau y caniateir eu gwahardd [j807]
241 Cydsyniad ar gyfer gweithgareddau gwaharddedig ac apelau [j808]
242 Digolllediad [j809]
243 Cofrestrau o wybodaeth sy'n ymwneud â gorchmynion diogelu coed a gorchmynion diogelu coetir [j810]
244 Rheoliadau diogelu coed: cyfyngiad sy'n ymwneud â thrwyddedau cwympo coed o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 [j812]

*Amnewid coed*

245 Amnewid coed: gorchmynion diogelu coed [j813]
246 Amnewid coed: gorchmynion diogelu coetir [j814]

### PENNOD 2

### COED MEWN ARDALOEDD CADWRAETH

247 Diogelu coed mewn ardaloedd cadwraeth [j815]
248 Amnewid coed mewn ardaloedd cadwraeth [j816]

249 Cofrestr o hysbysiadau o fwriad i gynnal gwaith [j817]

**PENNOD 3**

GORFODI

*Gorfodi gwaharddiad ar waith*

250 Troseddau torri darpariaethau diogelu coed [j818]
251 Gwaharddeb i atal torri darpariaethau diogelu coed [j825]

*Gorfodi'r gofyniad i amnewid coed*

252 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad amnewid coed [j819]
253 Amrywio hysbysiad amnewid coed [j819a]
254 Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad amnewid coed [j820]
255 Penderfynu apêl [j821]
256 Gorchymyn i ganiatáu i goed gael eu plannu [j822]
257 Pŵer i fynd ar dir a phlannu coed [j823]
258 Adennill costau plannu coed [j824]

*Pwerau mynediad*

259 Pwerau i fynd ar dir heb warant [j826]
260 Gwarant i fynd ar dir [j827]
261 Darpariaethau atodol ynghylch pwerau mynediad [j828]

**RHAN 10**

CAFFAEL A CHYFEDDU TIR AT DDIBENION CYNLLUNIO ETC.

*Pwerau awdurdod lleol perthnasol i gaffael tir at ddibenion cynllunio*

262 Caffael tir drwy gytundeb at ddibenion cynllunio [j651]
263 Caffael tir yn orfodol at ddibenion cynllunio [j652]

*Pŵer awdurdod lleol i gyfeddu tir sy'n ffurfio rhan o dir comin neu randir*

264 Cyfeddu tir sy'n ffurfio rhan o dir comin neu randir at ddiben arall [j653]

*Cyfeddu, gwaredu a datblygu tir a ddelir gan awdurdod lleol at ddibenion cynllunio*

265 Tir y mae adrannau 266 i 268 yn gymwys iddo [j654]
266 Cyfeddu tir a ddelir at ddibenion cynllunio [j655]
267 Gwaredu tir a ddelir at ddibenion cynllunio [j656]
268 Datblygiad tir a ddelir at ddibenion cynllunio a defnydd ohono [j657]

*Dileu cyfyngiadau ar gael meddiant o anheddau*

269 Pŵer awdurdod lleol i gael meddiant o anheddau a osodir o dan denantiaethau penodol [j667]

*Cyd-gorff i ddal tir a gaffaelir gan awdurdod lleol at ddibenion cynllunio*

270 Pŵer Gweinidogion Cymru i sefydlu cyd-gorff i ddal tir a gaffaelir at ddibenion cynllunio [j668]

*Caffael a gwaredu tir gan Weinidogion Cymru*

271 Caffael tir yn orfodol gan Weinidogion Cymru [j658]
272 Gwaredu tir a gaffaelwyd o dan adran 271 [j659]

*Dod â hawliau penodol ar gaffael tir yn orfodol i ben*

273 Dod â hawliau sy'n ymwneud â thir a gaffaelwyd yn orfodol o dan y Rhan hon i ben [j660]

*Dileu cyfyngiadau ar ddefnyddio mannau agored, claddfeydd, etc.*

274 Ystyr "caffaeliad perthnasol" a "cyfeddiant perthnasol" [j661]
275 Datblygiad tiroedd comin, mannau agored a rhandiroedd a defnydd ohonynt [j662]
276 Datblygiad claddfeydd a defnydd ohonynt [j663]
277 Datblygiad tir sy'n gysylltiedig ag addoliad crefyddol heblaw claddfeydd a defnydd ohono [j664]
278 Darpariaeth bellach ynghylch rheoliadau o dan adrannau 276 a 277[j666]

*Cyffredinol*

279 Dehongli'r Rhan hon [j669]

**RHAN 11**

PRIFFYRDD

**PENNOD 1**

PRIFFYRDD YR EFFEITHIR ARNYNT GAN DDATBLYGIAD

*Cau a gwyro priffyrdd: pwerau Gweinidogion Cymru*

280 Cau neu wyro priffordd er mwyn galluogi datblygiad [j2701]
281 Cau neu wyro priffordd sy'n croesi llwybr priffordd newydd neu'n mynd i lwybr priffordd newydd [j2702]
282 Y weithdrefn cyn cael caniatâd cynllunio [j2703]
283 Darpariaeth bellach ynghylch gorchmynion o dan adrannau 280 a 281 [j2704]
284 Gorchmynion o dan adran 281: cau mynedfeydd preifat [j2705]
285 Digolllediad pan fo mynedfa breifat yn cael ei chau [j2706]

*Pedestreiddio priffyrdd: pwerau Gweinidogion Cymru*

286 Pedestreiddio priffordd i wella amwynder [j2707]
287 Dirymu gorchymyn i bedestreiddio priffordd [j2708]
288 Darpariaeth bellach ynghylch gorchmynion o dan adrannau 286 a 287 [j2709]
289 Digollediad pan bedestreiddir priffordd [j2710]

*Pwerau pellach pan wneir gorchmynion gan Weinidogion Cymru*

290 Caffael tir yn orfodol mewn cysylltiad â gorchymyn [j2711]
291 Dod â hawliau ymgymerwyr statudol a gweithredwyr rhwydwaith i ben [j2723]
292 Cyfarpar cyfathrebiadau electronig yr effeithir arno gan orchymyn [j2712]

*Cau neu wyro llwybrau cyhoeddus: pwerau awdurdodau cynllunio*

293 Cau neu wyro llwybr cyhoeddus er mwyn galluogi datblygiad [j2713]
294 Cadarnhad o orchymyn a wneir gan yr awdurdod cynllunio [j2714]
295 Cyfarpar cyfathrebiadau electronig yr effeithir arno gan orchymyn [j2715]

*Gweithio mwynau: gorchmynion dros dro*

296 Cau dros dro neu wyro dros dro ar gyfer gweithio mwynau ar wyneb y tir [j2716]

**PENNOD 2**

DOD Â HAWLIAU TRAMWY DROS DIR A DDELIR AT DDIBENION CYNLLUNIO I BEN

*Pwerau Gweinidogion Cymru*

297 Pŵer Gweinidogion Cymru i ddod â hawl tramwy dros dir a ddelir at ddibenion cynllunio i ben [j2717]
298 Caffael tir yn orfodol i ddarparu hawl tramwy arall [j2718]
299 Achosion cydredol yn ymwneud â gorchmynion a chaffaeliadau [j2719]

*Pwerau awdurdodau lleol*

300 Pŵer awdurdod lleol i ddod â hawl tramwy dros lwybr cyhoeddus ar dir a ddelir at ddibenion cynllunio i ben [j2720]

*Cyfarpar cyfathrebiadau electronig*

301 Cyfarpar cyfathrebiadau electronig yr effeithir arno gan orchymyn [j2721]

**PENNOD 3**

CYFFREDINOL

302 Dehongli'r Rhan hon [j2722]

## RHAN 12

## YMGYMERWYR STATUDOL ETC.

*Dehongli termau sy'n ymwneud ag ymgymerwyr statudol*

303 Ystyr "ymgymerwr statudol" ac "ymgymeriad statudol" [j701]
304 Ystyr "tir gweithredol": ymgymerwyr statudol yn gyffredinol [j702]
305 Ystyr "tir gweithredol": yr Awdurdod Hedfan Sifil a thrwyddedeion traffig awyr [j703A]
306 Ystyr "tir gweithredol": darparwyr gwasanaeth post cyffredinol [j703B]
307 Ystyr "tir gweithredol": darpariaeth atodol [j704]
308 Ystyr "Gweinidog priodol" [j705]

*Datblygiad a defnydd o dir ymgymerwyr statudol*

309 Ceisiadau am ganiatâd cynllunio gan ymgymerwyr statudol [j706]
310 Rhoi caniatâd cynllunio amodol [j707]
311 Addasu neu ddirymu caniatâd cynllunio [j708]
312 Gorchmynion datbarhau, gorchmynion gwahardd a gorchmynion diogelu[j709]
313 Arddangos hysbysebion ar dir gweithredol [j720]

*Ymgymerwyr statudol a gweithredwyr rhwydwaith: dod â hawliau i ben a symud ymaith gyfarpar*

314 Hysbysiadau symud ymaith: dod â hawliau dros dir ymgymerwyr statudol a gweithredwyr rhwydwaith i ben etc. [j711]
315 Hysbysiadau symud ymaith: tynnu'n ôl neu gymryd effaith [j712]
316 Pwerau ymgymerwyr statudol neu weithredwyr rhwydwaith i fynd ar dir er mwyn symud ymaith neu ail-leoli cyfarpar [j713]

*Estyn neu addasu swyddogaethau ymgymerwyr statudol*

317 Gorchmynion i estyn neu addasu swyddogaethau ymgymerwyr statudol [j714]

*Rhyddhau ymgymerwyr statudol o rwymedigaethau anymarferol*

318 Gorchmynion i ryddhau ymgymerwyr statudol o rwymedigaethau anymarferol [j715]

*Digolledlad*

319 Yr hawl i ddigolledlad am effeithiau penderfyniadau cynllunio a gorchmynion penodol [j716]
320 Hawliau i ddigolledlad am ddod â hawliau dros dir i ben etc. [j717]
321 Asesu digolledlad [j718]
322 Pŵer ymgymerwyr statudol i eithrio adran 321 [j719]

## RHAN 13
## TIR O DAN FALLTOD

*Termau allweddol*

323 Termau allweddol [j951]

*Hysbysiadau malltod*

324 Hysbysiad sy’n ei gwneud yn ofynnol prynu tir o dan falltod [j952]

*Gwrth-hysbysiadau*

325 Gwrth-hysbysiad yn gwrthwynebu hysbysiad malltod [j954]
326 Seiliau gwrthwynebiad i hysbysiad malltod [j955]
327 Seiliau gwrthwynebiad: darpariaeth bellach [j956]
328 Gwrth-hysbysiad pellach pan fo cynigion penodol yn dod i rym [j957]
329 Atgyfeirio gwrthwynebiad i Uwch Dribiwnlys: cyffredinol [j958]
330 Effaith gwrthwynebiad pan na fo atgyfeiriad wedi ei wneud i’r Uwch Dribiwnlys [j958A]

*Hysbysiadau malltod pan na fo gwrthwynebiad neu pan gânt eu cadarnhau gan yr Uwch Dribiwnlys*

331 Effaith hysbysiad malltod[j959]
332 Hysbysiad malltod mewn cysylltiad â rhan o hereditament neu uned[j960]

*Effaith Seiliau 2, 3 a 4 ar bwerau caffael gorfodol*

333 Effaith ar bwerau caffael gorfodol pan na fo bwriad i gaffael[j961]
334 Effaith ar bwerau caffael gorfodol pan fwriedir caffael rhan[j962]

*Hysbysiad malltod sy’n ei gwneud yn ofynnol prynu ardal nad effeithir arni o uned amaethyddol*

335 Gofyniad i brynu rhannau o unedau amaethyddol nad effeithir arnynt gan falltod[j963]
336 Sail gwrthwynebiad ychwanegol i hysbysiad malltod sy’n cynnwys gofyniad i brynu ardal nad effeithir arni[j964]
337 Uwch Dribiwnlys: gwrthwynebiad i hysbysiad malltod sy’n cynnwys gofyniad i brynu ardal nad effeithir arni[j965]
338 Effaith hysbysiad malltod sy’n cynnwys gofyniad i brynu ardal nad effeithir arni[j966]
339 Effaith hysbysiad malltod pan fo hawliad mewn cysylltiad ag ardal nad effeithir arni yn cael ei dynnu’n ôl neu ei wrthod[j967]
340 Effaith hysbysiad malltod pan fo hawliad mewn cysylltiad ag ardal nad effeithir arni a rhan o ardal yr effeithir arni yn cael ei dynnu’n ôl neu ei wrthod[j968]

*Tynnu hysbysiad malltod yn ôl*

341 Tynnu hysbysiad malltod yn ôl[j969]

*Digolllediad: achosion arbennig*

342 Digolllediad: achosion pan anwybyddir y posibilrwydd o ganiatâd cynllunio [j969A]
343 Digolllediad: adeiladau rhestredig y mae angen eu hatgyweirio[j970]
344 Digolllediad: hysbysiad malltod sy'n cynnwys hawliad mewn cysylltiad ag ardal nad effeithir arni[j972]

*Cynrychiolwyr personol*

345 Pwerau cynrychiolwyr personol mewn cysylltiad â hysbysiad malltod a gyflwynwyd cyn marwolaeth[j973]
346 Pŵer cynrychiolydd personol i gyflwyno hysbysiad malltod [j974]
347 Seiliau gwrthwynebiad i hysbysiad malltod a gyflwynir gan gynrychiolwyr personol [j976]

*Morgeiseion*

348 Pŵer morgeisai i gyflwyno hysbysiad malltod[j977]
349 Seiliau gwrthwynebiad i hysbysiad malltod a gyflwynir gan forgeisai[j979]

*Gwaharddiad ar hysbysiadau malltod cydamserol*

350 Gwahardd cyflwyno hysbysiadau cydamserol o dan adrannau 324[j952], 346[j974] a 348[j977][j980]

*Partneriaethau*

351 Partneriaethau: darpariaeth arbennig[j981]

*Pwerau i gaffael tir pan fo hysbysiad malltod wedi ei gyflwyno*

352 Pŵer Gweinidogion Cymru i gaffael tir a nodir gan Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru[j982]
353 Pŵer Gweinidogion Cymru i gaffael tir yr effeithir arno gan orchymyn sy'n ymwneud â thref newydd [j983]
354 Pŵer Gweinidogion Cymru i gaffael tir yr effeithir arno gan orchymyn sy'n ymwneud ag ardal datblygu trefol[j983A]
355 Pŵer Gweinidogion Cymru i gaffael tir a nodir mewn datganiad polisi seilwaith[j983B]
356 Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i gaffael tir a nodir mewn datganiad polisi cenedlaethol [j984]

*Darpariaethau amrywiol ac atodol*

357 Dim tynnu'n ôl hysbysiad i drafod telerau y bernir ei fod wedi ei gyflwyno o dan y Rhan hon [j986]
358 Cymorth i gaffael eiddo pan fo gwrthwynebiad ar Sail 4[j986A]

*Dehongli*

359 Dehongli’r Rhan hon [j988]

**RHAN 14**

GWEINYDDU A DILYSRWYDD

**PENNOD 1**

ARFER SWYDDOGAETHAU AWDURDODAU CYNLLUNIO

*Ffioedd a thaliadau*

360 Ffioedd a thaliadau am arfer swyddogaethau gan awdurdodau cynllunio [j102]

*Trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau sy’n ymwneud â cheisiadau*

361 Pŵer i’w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu harfer gan bwyllgorau, is-bwyllgorau neu swyddogion [j211]
362 Maint a chyfansoddiad pwyllgorau sydd i arfer swyddogaethau [j212]
363 Trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau: atodol [j213]

**PENNOD 2**

ACHOSION GERBRON GWEINIDOGION CYMRU

*Ffioedd a thaliadau*

364 Ffioedd a thaliadau am geisiadau ac apelau i Weinidogion Cymru [j104]

*Darpariaethau gweithdrefnol sy’n gymwys i achosion gerbron Gweinidogion Cymru*

365 Penderfynu apêl gan arolygydd [j105]
366 Dewis o ymchwiliad, gwrandawiad neu weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer apelau a cheisiadau [j106]
367 Gofynion gweithdrefnol ar gyfer apelau, ceisiadau ac achosion eraill [j107]

*Ymchwiliadau lleol*

368 Pŵer Gweinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad lleol [j108]
369 Pŵer person sy’n cynnal ymchwiliad i wneud tystiolaeth yn ofynnol [j109]
370 Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad [j110]
371 Talu cynrychiolydd a benodir pan fo mynediad i dystiolaeth wedi ei gyfyngu [j111]

*Costau achosion gerbron Gweinidogion Cymru*

372 Talu costau Gweinidogion Cymru [j112]
373 Gorchmynion sy’n ymwneud â chostau partïon [j113]

**PENNOD 3**

DILYSRWYDD CYNLLUNIAU, PENDERFYNIADAU A GORCHMYNION

*Adolygiad gan yr Uchel Lys o gynlluniau, penderfyniadau a gorchmynion*

374 Adolygiad statudol o gynlluniau datblygu [j2501]
375 Dilysrwydd penderfyniadau a gorchmynion penodol [j2502]
376 Cais am adolygiad statudol o benderfyniad neu orchymyn [j2503]
377 Adolygiad statudol o orchmynion sy’n ymwneud â phriffyrdd ac ymgymerwyr statudol [j2504]

*Apelau i’r Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau sy’n ymwneud â hysbysiadau penodol*

378 Apêl yn erbyn penderfyniad sy’n ymwneud â hysbysiad gorfodi [j2505]
379 Apêl yn erbyn penderfyniad sy’n ymwneud â hysbysiad cynnal a chadw tir neu hysbysiad amnewid coed [j2506]

**PENNOD 4**

CYWIRO PENDERFYNIADAU GWEINIDOGION CYMRU

380 Ystyr “dogfen penderfyniad” a “gwall cywiradwy” [j2507]
381 Pŵer i gywiro gwallau cywiradwy mewn dogfennau penderfyniad [j2508]
382 Effaith a dilysrwydd hysbysiad cywiro [j2509]

**RHAN 15**

CYFFREDINOL

*Pwerau i wneud gwybodaeth am fuddiannau mewn tir yn ofynnol*

383 Pŵer i gyflwyno hysbysiad gwybodaeth [j2601]
384 Troseddau o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth [j2602]
385 Gwybodaeth am fuddiannau yn nhir y Goron [j2603]

*Pwerau mynediad*

386 Pwerau i fynd ar dir [j2604]
387 Pwerau mynediad: cwmpas a chyfyngiadau [j2605]
388 Pwerau mynediad: troseddau a digollediad [j2606]
389 Pwerau i fynd ar dir y Goron [j2607]

*Troseddau*

390 Troseddau gan gyrff corfforedig [j2608]

*Digollediad*

391 Gwneud hawliadau am ddigollediad [j617]

392 Penderfynu hawliadau digolledlediad gan yr Uwch Dribiwnlys [j616]
393 Digolledlediad am ddibrisiant yng ngwerth tir [j615]
394 Pŵer i addasu darpariaethau digolledlediad mewn perthynas â mwynau [j634]

*Cyfraniadau ariannol*

395 Cyfraniadau tuag at gostau yr eir iddynt gan awdurdodau [j103]

*Ffurflenni*

396 Ffurf ar ddogfennau awdurdod lleol [j101]
397 Pwerau i wneud darpariaeth ynghylch ffurflenni ceisiadau ac apelau [j2624]

*Cyflwyno dogfennau*

398 Cyflwyno hysbysiadau a dogfennau eraill: cyffredinol [j2609]
399 Cyflwyno dogfennau i bersonau sydd â buddiant mewn tir neu sy'n meddiannu tir [j2610]
400 Cyflwyno dogfennau i'r Goron [j2611]

*Y Goron*

401 Diffiniadau sy'n ymwneud â'r Goron [j2612]
402 Cynrychiolaeth buddiant y Goron a buddiant Dugiaeth mewn tir [j2613]
403 Camau gorfodi mewn perthynas â thir y Goron [j2614]

*Achosion arbennig eraill*

404 Adeiladau rhestredig a nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig [j2623]
405 Datblygiad gan awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru a thir sy'n perthyn iddynt [j2615]
406 Tir Eglwys Loegr [j2616]

*Cyffredinol*

407 Rheoliadau [j2620]
408 Dehongli [j001]
409 Dod i rym [j2621]
410 Enw byr [j2622]

Atodlen 1 [J408s] - Gorchmynion datblygu lleol
Atodlen 2 [J417s] - Apelau o dan adran 61[j417]: penderfynu gan arolygwyr
Atodlen 3 [J445s] - Amodau sy'n ymwneud â gweithrediadau mwyngloddio a dyddodi gwastraff
Atodlen 4 [J434s] - Ceisiadau i Weinidogion Cymru: arfer swyddogaethau gan arolygwyr
Atodlen 5 [J445b] - Amod sy'n cyfyngu ar hyd caniatâd mwynau
Atodlen 6 [J461s] - Gorchmynion terfynu
Atodlen 7 [J465s] - Gorchmynion sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio
Atodlen 8 [J495s] - Caniatadau mwynau sy'n ymwneud â safleoedd segur

Atodlen 9 [J490s] - Adolygiad cyfnodol o ganiatadau mwynau
Atodlen 10 [J605s] - Dosrannu ac adennill digollediad am ddibrisiant
Atodlen 11 [J604s] - Digollediad am newidiadau i ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mwynau
Atodlen 12 [J618s] - Hysbysiadau prynu
Atodlen 13 [J917s] - Ardoll Seilwaith Cymunedol: cofrestrau codi tâl
Atodlen 14 [J470s] - Gorchmynion datbarhau
Atodlen 15 [J470c] - Gorchmynion gwahardd a gorchmynion diogelu
Atodlen 16 [J614s] - Digollediad am effeithiau gorchmynion sy'n ymwneud â mwynau
Atodlen 17 [J271s] - Gorchmynion yn ymwneud â phriffyrdd
Atodlen 18 [J712s] - Gorchmynion sy'n ymwneud ag ymgymerwyr statudol a gweithredwyr rhwydwaith
Atodlen 19 [J951s] - Tir o dan falltod
Atodlen 20 [J105s] - Penderfynu apelau gan arolygwyr neu Weinidogion Cymru

# Bil Cynllunio (Cymru)

[DRAFFT]

Deddf gan Senedd Cymru i gydgrynhoi deddfiadau penodol sy'n ymwneud â chynllunio.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

## DARPARIAETHAU RHAGARWEINIOL

### PENNOD 1

### CYFLWYNIAD A THROSOLWG

**1 Cyflwyniad i'r Ddeddf hon [j2801]**

(1) Mae'r Ddeddf hon yn ffurfio rhan o god o gyfraith Cymru sy'n ymwneud â chynllunio, adeiladu a thir.

(2) Mae'n cydgrynhoi deddfiadau a gynhwysir mewn Deddfau amrywiol neu a wneir odanynt, gan gynnwys—

(a) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8);

(b) adran 22 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) ac Atodlen 2 iddi, ac Atodlenni 13 a 14 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25), i'r graddau y maent yn parhau i gael effaith yn union cyn i'r Ddeddf hon ddod i rym;

(c) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5);

(d) Rhan 11 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29);

(e) Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4).

(3) Mae Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2026 yn diwygio ac yn diddymu deddfiadau, ac yn gwneud darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed, mewn cysylltiad â'r Ddeddf hon.

**2 Trosolwg o'r Ddeddf hon [j2802]**

(1) Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r Ddeddf hon.

(2) Mae Penodau 2 a 3 o'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch ystyr "datblygiad" a thermau cysylltiedig, ac ystyr cyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio ar gyfer ardal, yn y Ddeddf hon.

(3) Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch y dogfennau sy'n ffurfio'r cynllun datblygu ar gyfer ardaloedd yng Nghymru, sef—

(a) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru,

(b) cynlluniau datblygu strategol a lunnir gan gyd-bwyllgorau corfforedig, ac

(c) cynlluniau datblygu lleol a lunnir gan awdurdodau cynllunio.

(4) Mae Rhan 3 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad tir yng Nghymru gael ei awdurdodi gan ganiatâd cynllunio, ac yn gwneud darpariaeth ynghylch rhoi caniatâd cynllunio a'i effaith ac ynghylch gwneud newidiadau i ganiatâd cynllunio. Mae adran 42[j404] yn darparu trosolwg manylach o'r Rhan honno.

(5) Mae Rhan 4 yn rhoi pwerau i awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru i orfodi'r gofyniad i ddatblygiad gael ei awdurdodi gan ganiatâd cynllunio, gan gynnwys pwerau i gael gwybodaeth a mynd ar dir, ac i ddyroddi hysbysiadau stop dros dro, hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop.

(6) Mae Rhan 5 yn darparu ar gyfer dyroddi tystysgrifau (y cyfeirir atynt fel "tystysgrifau cyfreithlondeb") sy'n cadarnhau bod defnyddiau presennol neu arfaethedig o dir neu weithrediadau presennol neu arfaethedig ar dir yn gyfreithlon yn yr ystyr na chaniateir cymryd unrhyw gamau gorfodi mewn cysylltiad â hwy o dan y Ddeddf hon.

(7) Yn Rhan 6—

(a) mae Pennod 1 yn darparu y caiff personau a chanddynt un neu ragor o fuddiannau mewn tir ymrwymo i rwymedigaethau (y cyfeirir atynt fel "rhwymedigaethau cynllunio") sy'n ymwneud â'r defnydd o'r tir neu'n gwneud taliadau i awdurdod cynllunio yn ofynnol, ac yn darparu ar gyfer gorfodi, addasu a rhyddhau rhwymedigaethau cynllunio;

(b) mae Pennod 2 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch gosod tâl ar berchnogion ar dir neu ddatblygwyr tir mewn cysylltiad â datblygiad ardolladwy (y cyfeirir ato fel "yr ardoll seilwaith cymunedol"), sydd i'w ddefnyddio ar gyfer ariannu seilwaith er mwyn cefnogi datblygiad.

(8) Yn Rhan 7—

(a) mae Pennod 1 yn rhoi pwerau i awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion (y cyfeirir atynt fel "gorchmynion datbarhau") a gaiff, ymysg pethau eraill, ei gwneud yn ofynnol i ddefnydd o dir gael ei ddatbarhau neu wneud y defnydd ohono yn ddarostyngedig i amodau; mae hefyd yn rhoi pwerau i wneud gorchmynion gwahardd a gorchmynion diogelu mewn perthynas â thir sydd wedi ei ddefnyddio i gynnal gweithrediadau mwyngloddio neu i ddyddodi gwastraff mwynau;

(b) mae Pennod 2 yn rhoi pwerau i awdurdodau cynllunio i ddyroddi hysbysiadau (y cyfeirir atynt fel "hysbysiadau cynnal a chadw tir") sy'n ei gwneud yn ofynnol cymryd camau unioni pan fo cyflwr tir yn cael effaith andwyol ar amwynder ardal, ac yn darparu ar gyfer apelau a gorfodi'r camau sy'n ofynnol gan hysbysiadau.

(9) Mae Rhan 8 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i gyfyngu ar y defnydd o dir yng Nghymru ar gyfer arddangos hysbysebion neu i reoleiddio'r defnydd hwnnw, ac yn darparu ar gyfer gorfodi'r rheoliadau.

(10) Mae Rhan 9 yn gwneud darpariaeth ar gyfer diogelu coed ac yn rhoi pwerau i awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion (y cyfeirir atynt fel "gorchmynion diogelu coed" a "gorchmynion diogelu coetir") at y diben hwnnw. Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer gofyniad i amnewid coed ac ar gyfer gorfodi gofynion y Rhan.

(11) Mae Rhan 10 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag—

(a) caffael tir, cyfeddu tir, gwaredu tir, datblygiad tir a defnydd o dir at ddibenion cynllunio ac at ddibenion eraill gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru, a

(b) datblygiad a defnydd o diroedd comin, mannau agored, rhandiroedd, claddfeydd, tiroedd cysegredig a thir arall sy'n gysylltiedig ag addoliad crefyddol pan fo tir wedi ei gaffael gan awdurdod lleol, gan adran o'r llywodraeth (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru ac un o Weinidogion y Goron) neu gan ymgymerwr statudol.

(12) Yn Rhan 11—

(a) mae Pennod 1 yn galluogi Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio i awdurdodi cau neu ddargyfeirio priffyrdd i alluogi cynnal datblygiad;

(b) mae Pennod 2 yn galluogi Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i ddiddymu hawliau tramwy cyhoeddus dros dir a gaffaelir neu a gyfeddir at ddibenion cynllunio.

(13) Mae Rhan 12 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwysiad y Ddeddf hon i ymgymerwyr statudol a'u tir gweithredol, ac ynghylch hawliau a swyddogaethau ymgymerwyr statudol a gweithredwyr rhwydwaith cyfathrebiadau electronig yn dilyn mathau penodol o gaffaeliadau a chyfeddiannau.

(14) Mae Rhan 13 yn galluogi person sydd â buddiant mewn tir a ddisgrifir yn Atodlen 19[J951S] (y cyfeirir ato fel "tir o dan falltod") i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod priodol brynu'r buddiant hwnnw ac mae'n cynnwys darpariaeth ynghylch yr amodau sydd i'w bodloni a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn.

(15) Mae Rhan 14 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, gan gynnwys—

(a) darpariaeth ynghylch trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau gan awdurdodau cynllunio ac ynghylch y weithdrefn ar gyfer ceisiadau ac apelau i Weinidogion Cymru;

(b) darpariaeth ar gyfer heriau i ddilysrwydd cynlluniau, gorchmynion a phenderfyniadau ac ar gyfer cywiro penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(16) Mae Rhan 15 yn gwneud darpariaeth gyffredinol at ddibenion y Ddeddf hon, gan gynnwys darpariaeth sy'n rhoi pwerau i gael gwybodaeth a mynd ar dir a darpariaeth gyffredinol ynghylch cyflwyno dogfennau a hawlio digolledled.

## PENNOD 2

### "DATBLYGIAD" A DIFFINIADAU CYSYLLTIEDIG

**3 Ystyr "datblygiad" [j401]**

(1) Mae'r Bennod hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon (ac eithrio Pennod [2] o Ran [6]).

(2) Ystyr "datblygiad" yw—

(a) cynnal gweithrediadau ar dir (gweler adran 4[j478]), neu

(b) gwneud newid sylweddol yn y defnydd o dir (gweler adran 5[j479]).

(3) Mae hyn yn ddarostyngedig i adran 6[j480] (gweithrediadau a newidiadau mewn defnydd nad ydynt yn ddatblygiad).

(4) Yn y Bennod hon nid yw cyfeiriadau at ddefnydd o dir yn cynnwys defnydd er mwyn cynnal gweithrediadau ar y tir.

**4 Gweithrediadau adeiladu, peirianneg a mwyngloddio [j478]**

(1) Ystyr "gweithrediadau" yw gweithrediadau adeiladu, peirianneg, mwyngloddio neu weithrediadau eraill.

(2) Mae "gweithrediadau adeiladu" yn cynnwys—

(a) dymchwel adeilad;

(b) ailadeiladu adeilad;

(c) gwneud unrhyw addasiad strwythurol neu ychwanegiad i adeilad;

(d) gweithrediadau eraill a gynhelir fel arfer gan berson sy'n cynnal busnes fel adeiladwr.

(3) Mae "gweithrediadau peirianneg" yn cynnwys ffurfio neu osod allan fynedfa i briffordd.

(4) Pan na fyddai rhoi neu gydosod tanc mewn dyfroedd mewndirol at ddiben ffermio pysgod yn ddatblygiad o'r tir islaw'r tanc fel arall, mae i'w drin fel cynnal gweithrediadau peirianneg dros y tir hwnnw.

(5) Ystyr "gweithrediadau mwyngloddio" yw ennill a gweithio mwynau ar dir, pa un ai drwy weithio o dan y ddaear neu ar wyneb y tir, ac mae'n cynnwys—

(a) symud ymaith ddeunydd o unrhyw ddisgrifiad o ddyddodyn o—

(i) gwastraff mwynau,

(ii) lludw tanwydd wedi ei falurio neu ludw ffwrnais arall neu glincer, neu

(iii) slag haearn, slag dur neu slagiau metelaidd eraill;

(b) echdynnu mwynau o arglawdd rheilffordd segur.

(6) Yn is-adran (3) mae "mynedfa" yn cynnwys unrhyw fynedfa, pa un a yw'n breifat neu'n gyhoeddus, ar gyfer cerbydau neu ar gyfer teithwyr ar droed, ac mae'n cynnwys stryd.

(7) Yn is-adran (4)—

ystyr "dyfroedd mewndirol" ("*inland waters*") yw dyfroedd nad ydynt yn rhan o'r môr nac o gilfach, bae neu foryd nac o afon am gyn belled ag y mae'r llanw'n llifo;

ystyr "ffermio pysgod" ("*fish farming*") yw bridio, magu neu gadw pysgod neu bysgod cregyn ( sy'n cynnwys yr holl fathau o gramenogion a molysgiaid);

mae "tanc" ("*tank*") yn cynnwys cawell ac unrhyw strwythur arall i'w ddefnyddio wrth ffermio pysgod.

**5 Defnyddiau o dir sy'n golygu newid sylweddol [j479]**

(1) Mae'r adran hon yn darparu bod defnyddiau penodol o dir yn golygu newid sylweddol yn y defnydd o'r tir (pa un a fyddent yn gwneud hynny fel arall ai peidio).

(2) Os oedd adeilad yn cael ei ddefnyddio fel annedd sengl yn flaenorol, mae ei ddefnyddio fel dwy annedd ar wahân neu ragor yn golygu newid sylweddol yn y defnydd o'r adeilad ac o bob rhan ohono a ddefnyddir fel annedd.

(3) Mae dyddodi gwastraff ar dir yn golygu newid sylweddol yn y defnydd o dir, hyd yn oed os yw'r tir wedi ei gynnwys ar safle a ddefnyddir eisoes at y diben hwnnw—

(a) os cynyddir arwynebedd y dyddodyn, neu

(b) os cynyddir uchder y dyddodyn a'i fod uwchlaw lefel y tir sy'n cyffinio â'r safle.

(4) Mae defnyddio er mwyn arddangos hysbysebion ran allanol o adeilad nas defnyddir fel arfer at y diben hwnnw yn golygu newid sylweddol yn y defnydd o’r rhan honno o’r adeilad.

**6 Gweithrediadau a newidiadau mewn defnydd nad ydynt yn ddatblygiad [j480]**

(1) Mae’r adran hon yn darparu nad yw gweithrediadau a newidiadau penodol yn y defnydd o dir yn ddatblygiad.

(2) Nid yw cynnal gwaith i gynnal a chadw, i wella neu i addasu adeilad yn ddatblygiad os—

(a) nad yw’r gwaith ond yn effeithio ar y tu mewn i’r adeilad neu nad yw’n cael effaith sylweddol ar ei olwg allanol, a

(b) nad yw’r gwaith yn cynyddu—

(i) arwynebedd gros llawr mewnol yr adeilad, na

(ii) cyfaint y gofod tanddaearol yn yr adeilad.

(3) Nid yw’r gweithrediadau a ganlyn yn ddatblygiad—

(a) cynnal gan awdurdod priffyrdd ar dir o fewn ffiniau ffordd—

(i) gwaith sy’n ofynnol yn unig er mwyn cynnal a chadw’r ffordd, neu

(ii) gwaith arall sy’n ofynnol er mwyn cynnal a chadw neu wella’r ffordd, ac eithrio gwaith a allai gael effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd;

(b) cynnal gan awdurdod lleol neu ymgymerwr statudol waith at ddiben arolygu, atgyweirio neu adnewyddu carthffosydd, prif bibellau, pibellau, ceblau neu gyfarpar arall, gan gynnwys torri ac agor stryd neu dir arall at y diben hwnnw.

(4) Gweler hefyd adran 5(2) o Ddeddf Piblinellau 1962 (p. 58), sy’n darparu nad yw gwaith penodol mewn perthynas â phiblinellau yn ddatblygiad.

(5) Nid yw’r newidiadau a ganlyn yn y defnydd o dir yn ddatblygiad—

(a) newid y defnydd o adeilad neu dir arall o fewn cwrtil annedd i unrhyw ddefnydd sy’n ddeilliadol i fwynhad o’r annedd;

(b) newid y defnydd o dir i unrhyw ddefnydd ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth (gan gynnwys coedwigo), neu newid y defnydd o adeilad sy’n cael ei feddiannu gyda thir a ddefnyddir felly i unrhyw ddefnydd at y naill neu’r llall o’r dibenion hynny.

(6) Caiff rheoliadau ddarparu, pan ddefnyddir tir at ddiben o fewn dosbarth a bennir yn y rheoliadau, nad yw newid y defnydd o’r tir i’w ddefnyddio at unrhyw ddiben arall o fewn yr un dosbarth yn ddatblygiad.

(7) Mae rheoliadau o dan is-adran (6) yn gymwys yn yr un modd i newid yn y defnydd o ran o’r tir, ac eithrio i’r graddau y bo’r rheoliadau yn darparu fel arall.

(8) Yn is-adran (3)(b) nid yw’r cyfeiriad at ymgymerwr statudol yn cynnwys darparwr post cyffredinol.

## PENNOD 3

AWDURDODAU CYNLLUNIO

**7 Yr awdurdod cynllunio ar gyfer ardal [j201]**

(1) Yr awdurdod cynllunio ar gyfer ardal yng Nghymru yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal.

(2) Ond—

(a) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer ardal y Parc;

(b) bwrdd cydgynllunio a sefydlwyd o dan adran 8[j202] yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer ei ardal gydgynllunio.

(3) Mae is-adran (2)(a) yn gymwys i awdurdod Parc Cenedlaethol o'r adeg a bennir yn y gorchymyn o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) sy'n sefydlu'r awdurdod.

(4) Mae is-adran (2)(b) yn gymwys i fwrdd cydgynllunio o'r adeg a bennir yn y rheoliadau o dan adran 8[j202] sy'n sefydlu'r bwrdd.

**8 Pŵer i ddynodi ardal gydgynllunio a sefydlu bwrdd cydgynllunio [j202]**

(1) Caiff rheoliadau—

(a) dynodi'n ardal gydgynllunio ddwy ardal neu ragor, pob un ohonynt yn sir neu'n fwrdeistref sirol gyfan, neu'n rhan o sir neu fwrdeistref sirol, yng Nghymru, a

(b) sefydlu cyd-fwrdd (o'r enw "bwrdd cydgynllunio") ar gyfer yr ardal gydgynllunio.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon oni bai naill ai—

(a) eu bod wedi peri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, neu

(b) bod yr holl gynghorau cyfansoddol wedi cytuno.

(3) Mae bwrdd cydgynllunio yn gorff corfforedig.

(4) Mae bwrdd cydgynllunio wedi ei gyfansoddi o aelodau a benodir gan y cynghorau cyfansoddol.

(5) Rhaid i'r rheoliadau sy'n sefydlu'r bwrdd bennu nifer yr aelodau.

(6) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon—

(a) rheoleiddio penodi aelodau o fwrdd cydgynllunio, deiliadaeth eu swydd a gadael eu swydd;

(b) rheoleiddio cyfarfodydd a thrafodion y bwrdd;

(c) darparu ar gyfer talu costau'r bwrdd gan y cynghorau cyfansoddol;

(d) cymhwyso i'r bwrdd (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â chyfansoddiad, swyddogaethau neu drefniadau ariannol (gan gynnwys archwilio) awdurdodau lleol o unrhyw ddisgrifiad;

(e) gwneud unrhyw ddarpariaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn briodol mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r bwrdd.

(7) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon hefyd—

(a) darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau ac atebolrwyddau (gan gynnwys hawliau ac atebolrwyddau sy'n ymwneud â chontractau cyflogaeth);

(b) darparu ar gyfer addasu cyfrifon a dosrannu atebolrwyddau.

(8) "Cynghorau cyfansoddol" bwrdd cydgynllunio yw pob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol y mae ei ardal gyfan neu ran ohoni wedi ei chynnwys yn ardal gydgynllunio'r bwrdd.

**9 Ardaloedd cydgynllunio a Pharciau Cenedlaethol [j203]**

(1) Ni chaiff ardal gydgynllunio gynnwys unrhyw ran o Barc Cenedlaethol y mae awdurdod Parc Cenedlaethol ar ei gyfer, ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran hon.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer galluogi ac mewn cysylltiad â galluogi—

(a) ardal sy’n cynnwys y cyfan neu ran o Barc Cenedlaethol y mae awdurdod Parc Cenedlaethol ar ei gyfer i gael ei dynodi’n ardal gydgynllunio, a

(b) sefydlu bwrdd cydgynllunio fel yr awdurdod cynllunio ar gyfer ardal gydgynllunio o’r fath at ddibenion y Ddeddf hon (ac eithrio Rhan 2) a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol.

(3) Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch pa un a yw swyddogaethau awdurdod cynllunio o dan y Ddeddf Sylweddau Peryglus i fod yn arferadwy, mewn perthynas ag unrhyw ran o Barc Cenedlaethol sydd wedi ei chynnwys mewn ardal gydgynllunio, gan y bwrdd cydgynllunio neu gan awdurdod y Parc Cenedlaethol.

(4) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddarparu bod swyddogaeth yn arferadwy gan berson arall neu mewn perthynas â pherson arall yn hytrach na, neu yn ogystal â, pherson y byddai’r swyddogaeth yn arferadwy ganddo neu mewn perthynas ag ef fel arall.

(5) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio neu fel arall addasu—

(a) unrhyw ddeddfiad sydd wedi ei gynnwys yn Neddfau cynllunio Cymru neu a wneir odanynt;

(b) unrhyw ddeddfiad arall sy’n ymwneud â swyddogaethau sy’n arferadwy gan awdurdodau cynllunio neu mewn perthynas â hwy;

(c) unrhyw ddeddfiad sy’n ymwneud â Pharciau Cenedlaethol neu â swyddogaethau sy’n arferadwy gan awdurdodau Parc Cenedlaethol neu mewn perthynas â hwy.

## RHAN 2

## Y CYNLLUN DATBLYGU

### PENNOD 1

### RHAGARWEINIOL

**10 Ystyr “y cynllun datblygu” ar gyfer ardal [j301]**

(1) Cynnwys y cynllun datblygu ar gyfer ardal yng Nghymru yw—

(a) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru,

(b) unrhyw gynllun datblygu strategol ar gyfer ardal sy’n cynnwys y cyfan o’r ardal o dan sylw neu ran ohoni, ac

(c) y cynllun datblygu lleol ar gyfer yr ardal o dan sylw.

(2) Os yw polisi yn y cynllun datblygu ar gyfer ardal yn gwrthdaro i unrhyw raddau â pholisi arall yn y cynllun datblygu, rhaid datrys y gwrthdaro o blaid y polisi sydd wedi ei gynnwys yn y ddogfen ddiwethaf i’w mabwysiadu, ei chymeradwyo neu ei chyhoeddi.

**11 Datblygu cynaliadwy [j335]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i arfer gan gorff cyhoeddus swyddogaeth o dan y Rhan hon mewn perthynas â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, cynllun datblygu strategol neu gynllun datblygu lleol.

(2) Rhaid arfer y swyddogaeth, fel rhan o gynnal datblygu cynaliadwy yn unol â'r Ddeddf Llesiant, at ddiben sicrhau bod datblygiad a defnydd o dir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

(3) Wrth gydymffurfio ag is-adran (2), rhaid i gorff cyhoeddus ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys canllawiau perthnasol a ddyroddir o dan adran 14 o'r Ddeddf Llesiant).

(4) Yn yr adran hon—

mae i "corff cyhoeddus" ("*public body*") yr ystyr a roddir gan adran 6 o'r Ddeddf Llesiant;

ystyr "y Ddeddf Llesiant" ("*the Well-being Act*") yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

## PENNOD 2

## FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU

### 12 Dyletswydd i lunio a chyhoeddi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol [j302]

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cynllun, o'r enw Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru.

(2) Rhaid i'r Fframwaith nodi unrhyw bolisïau gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â datblygiad a defnydd o dir yng Nghymru y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn briodol.

(3) Caiff y Fframwaith bennu bod datblygiad o ddisgrifiad penodol, mewn ardal benodol neu leoliad penodol yng Nghymru, i fod yn brosiect seilwaith arwyddocaol at ddibenion Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (dsc 3).

(4) Rhaid i'r Fframwaith roi rhesymau dros—

(a) y polisïau y mae'n eu nodi, a

(b) unrhyw ddarpariaeth y mae'n ei gwneud o dan is-adran (3).

(5) Rhaid i'r Fframwaith egluro sut y mae Gweinidogion Cymru, wrth lunio'r Fframwaith, wedi ystyried polisïau perthnasol a nodir yn—

(a) y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol a gyhoeddir o dan adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3),

(b) pob cynllun morol a fabwysiedir ac a gyhoeddir ganddynt o dan Ran 3 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), ac

(c) Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a gyhoeddir o dan adran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (p. 5).

(6) Rhaid i'r Fframwaith bennu'r cyfnod pan fo i gael effaith.

(7) Mae cynllun yn peidio â bod yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru ar ddiwedd y cyfnod a bennir o dan is-adran (6).

**13 Llunio'r Fframwaith: datganiad o gyfranogiad y cyhoedd [j303]**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi datganiad o gyfranogiad y cyhoedd sy'n nodi eu polisïau mewn perthynas â'r ymgynghoriad sydd i'w gynnal wrth lunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru.

(2) Yn benodol, rhaid i'r datganiad gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf yr ymgynghoriad,

(b) pryd y cynhelir yr ymgynghoriad, ac

(c) y camau a gymerir i gynnwys aelodau o'r cyhoedd wrth lunio'r Fframwaith.

(3) Rhaid i'r datganiad ddarparu y bydd Gweinidogion Cymru, fel rhan o'r ymgynghoriad—

(a) yn cyhoeddi drafft o'r Fframwaith, a

(b) yn caniatáu cyfnod o 12 wythnos sy'n dechrau â chyhoeddi'r drafft pan gaiff unrhyw berson gyflwyno sylwadau ynghylch y drafft.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r datganiad a rhaid iddynt gyhoeddi'r datganiad fel y'i diwygiwyd.

**14 Y weithdrefn ar gyfer llunio a chyhoeddi'r Fframwaith [j304]**

(1) Cyn cyhoeddi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) llunio drafft o'r Fframwaith,

(b) cynnal arfarniad o gynaliadwyedd y polisïau a nodir yn y drafft, ac

(c) cynnal ymgynghoriad yn unol â'r datganiad o gyfranogiad y cyhoedd.

(2) Wrth lunio'r drafft o'r Fframwaith, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r adroddiad diweddaraf ar reoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddir o dan adran 6 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4).

(3) Rhaid i'r arfarniad o dan is-adran (1)(b) gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y polisïau yn y drafft ar y defnydd o'r Gymraeg.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl cydymffurfio ag is-adran (1), yn dymuno bwrw ymlaen â'r drafft o'r Fframwaith (gyda newidiadau neu hebddynt), rhaid iddynt osod gerbron Senedd Cymru—

(a) y drafft, a

(b) adroddiad—

(i) sy'n crynhoi'r sylwadau a gawsant yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o dan is-adran (1)(c), a

(ii) sy'n egluro sut y maent wedi ystyried y sylwadau.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) unrhyw benderfyniad y mae Senedd Cymru yn ei basio mewn perthynas â'r drafft o'r Fframwaith yn ystod cyfnod ystyried y Senedd, a

(b) unrhyw argymhelliad a wneir gan bwyllgor o'r Senedd mewn perthynas â'r drafft yn ystod y cyfnod hwnnw.

(6) Ar ôl i gyfnod ystyried y Senedd ddod i ben, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru ar ffurf y drafft a osodwyd o dan is-adran (4), neu

(b) os ydynt yn bwriadu gwneud newidiadau i'r drafft hwnnw—

(i) gosod drafft diwygiedig o'r Fframwaith gerbron Senedd Cymru, a

(ii) cyhoeddi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru ar ffurf y drafft diwygiedig.

(7) Os pasiwyd penderfyniad neu os gwnaed argymhelliad fel y crybwyllir yn is-adran (5)[j304], rhaid i Weinidogion Cymru hefyd, heb fod yn hwyrach na'r diwrnod y cyhoeddir y Fframwaith, osod datganiad gerbron Senedd Cymru yn egluro sut y maent wedi rhoi sylw i'r penderfyniad neu'r argymhelliad.

(8) Yn yr adran hon, ystyr "cyfnod ystyried y Senedd" yw 60 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y gosodir drafft o'r Fframwaith gerbron Senedd Cymru o dan is-adran (4), heb gyfrif unrhyw adeg pan fo'r Senedd wedi ei diddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

**15 Adolygu a diwygio'r Fframwaith [j305]**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru yn barhaus.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r Fframwaith ar unrhyw adeg a rhaid iddynt gyhoeddi'r Fframwaith fel y'i diwygiwyd.

(3) Mae adrannau 13[j303] a 14[j304] yn gymwys at ddibenion diwygio'r Fframwaith, ond fel pe bai cyfeiriadau at y Fframwaith (neu ddrafft o'r Fframwaith) yn gyfeiriadau at y Fframwaith fel y'i diwygiwyd (neu ddrafft o'r Fframwaith fel y'i diwygiwyd).

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl cyhoeddi drafft o Fframwaith diwygiedig yn unol â'r datganiad o gyfranogiad y cyhoedd, yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â diwygio'r Fframwaith.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi hysbysiad o'u penderfyniad a'r rhesymau drosto, a

(b) os gosodwyd drafft o Fframwaith diwygiedig gerbron Senedd Cymru o dan adran 14(4)[j304], osod copi o'r hysbysiad gerbron Senedd Cymru.

(6) Mae is-adran (7) yn gymwys os—

(a) daw cyfnod adolygu i ben, a

(b) nad yw Gweinidogion Cymru, o fewn y cyfnod hwnnw—

(i) wedi cyhoeddi Fframwaith diwygiedig, neu

(ii) wedi gosod Fframwaith diwygiedig drafft gerbron Senedd Cymru o dan adran 14(4)[j304].

(7) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod adolygu, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod gerbron Senedd Cymru ddatganiad—

(a) yn nodi eu hasesiad o ba un a ddylid diwygio'r Fframwaith ac yn rhoi rhesymau dros yr asesiad hwnnw, a

(b) os ydynt o'r farn y dylid diwygio'r Fframwaith, yn nodi amserlen ar gyfer ei ddiwygio.

(8) At ddibenion is-adrannau (6) a (7)—

(a) mae’r cyfnod adolygu cyntaf—

(i) yn dechrau â’r diwrnod y cyhoeddir y Fframwaith gyntaf, a

(ii) yn dod i ben bum mlynedd i’r diwrnod hwnnw neu, os yw’n gynharach, â’r diwrnod y cyhoeddir Fframwaith diwygiedig;

(b) mae pob cyfnod adolygu wedi hynny—

(i) yn dechrau â thrannoeth diwrnod olaf y cyfnod adolygu blaenorol, a

(ii) yn dod i ben bum mlynedd i ddiwrnod olaf y cyfnod adolygu blaenorol neu, os yw’n gynharach, â’r diwrnod y cyhoeddir Fframwaith diwygiedig.

## PENNOD 3

## CYNLLUNIO STRATEGOL A LLEOL: PRIF SWYDDOGAETHAU AWDURDODAU

### *Cynllunio strategol gan gyd-bwyllgorau corfforedig*

### 16 Arolwg o ardal cyd-bwyllgor corfforedig [j306]

(1) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig adolygu’n barhaus y materion y gellir disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygiad a defnydd, neu ar gynllunio datblygiad a defnydd, o dir yn ei ardal.

(2) Mae’r materion hynny’n cynnwys—

(a) prif nodweddion ffisegol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal (gan gynnwys y graddau y defnyddir y Gymraeg yn yr ardal);

(b) y prif ddibenion y defnyddir tir atynt yn yr ardal;

(c) maint, cyfansoddiad a dosbarthiad poblogaeth yr ardal;

(d) rhwydweithiau cyfathrebu, system drafnidiaeth a thraffig yr ardal;

(e) unrhyw ystyriaethau eraill y gellir disgwyl iddynt effeithio ar y materion a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (d);

(f) unrhyw faterion eraill a bennir mewn rheoliadau neu mewn cyfarwyddyd a roddir i’r cyd-bwyllgor corfforedig gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff cyd-bwyllgor corfforedig hefyd adolygu’n barhaus y materion a grybwyllir yn is-adran (2) mewn perthynas ag ardal gyfagos y mae cyd-bwyllgor corfforedig ar ei chyfer, i’r graddau y gellir disgwyl i’r materion hynny effeithio ar ei ardal ei hun.

(4) Wrth wneud hynny, rhaid i’r pwyllgor ymgynghori â’r cyd-bwyllgor corfforedig ar gyfer yr ardal gyfagos.

### 17 Dyletswydd i lunio cynllun datblygu strategol [j307]

(1) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig lunio cynllun ar gyfer ei ardal, o’r enw cynllun datblygu strategol.

(2) Rhaid i’r cynllun nodi—

(a) amcanion y pwyllgor mewn perthynas â datblygiad a defnydd o dir yn ei ardal, a

(b) polisïau’r pwyllgor ar gyfer gweithredu’r amcanion hynny.

(3) Rhaid i'r cynllun gydymffurfio'n gyffredinol â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru.

(4) Rhaid i'r cynllun bennu'r cyfnod pan fo i gael effaith.

(5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y cyfnod y caniateir ei bennu.

(6) Wrth lunio ei gynllun datblygu strategol, rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig roi sylw i—

(a) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru;

(b) polisïau cenedlaethol eraill a ddyroddir gan Weinidogion Cymru;

(c) unrhyw gynllun datblygu strategol ar gyfer ardal sy'n cyffinio ag ardal y pwyllgor;

(d) y cynllun datblygu lleol ar gyfer pob ardal y mae'r cyfan neu ran ohoni wedi ei gynnwys neu ei chynnwys yn ardal y pwyllgor;

(e) yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael i weithredu'r cynllun datblygu strategol;

(f) unrhyw faterion eraill a bennir mewn rheoliadau.

(7) Nid yw cynllun yn gynllun datblygu strategol ond i'r graddau y mae—

(a) wedi ei fabwysiadu drwy benderfyniad gan y cyd-bwyllgor corfforedig fel ei gynllun datblygu strategol o dan adran 24[j314], neu

(b) wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(5)[j320] neu 29(5)[j323].

(8) Mae cynllun yn peidio â bod yn gynllun datblygu strategol ar ddiwedd y cyfnod a bennir o dan is-adran (4)[j307].

*Cynllunio lleol gan awdurdodau cynllunio*

**18 Arolwg o ardal awdurdod cynllunio [j308]**

(1) Rhaid i awdurdod cynllunio adolygu'n barhaus y materion y gellir disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygiad a defnydd, neu ar gynllunio datblygiad a defnydd, o dir yn ei ardal.

(2) Mae'r materion hynny'n cynnwys—

(a) prif nodweddion ffisegol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal (gan gynnwys y graddau y defnyddir y Gymraeg yn yr ardal);

(b) y prif ddibenion y defnyddir tir atynt yn yr ardal;

(c) maint, cyfansoddiad a dosbarthiad poblogaeth yr ardal;

(d) rhwydweithiau cyfathrebu, system drafnidiaeth a thraffig yr ardal;

(e) unrhyw ystyriaethau eraill y gellir disgwyl iddynt effeithio ar y materion a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (d);

(f) unrhyw faterion eraill a bennir mewn rheoliadau neu mewn cyfarwyddyd a roddir i'r awdurdod cynllunio gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff awdurdod cynllunio hefyd adolygu'n barhaus y materion a grybwyllir yn is-adran (2) mewn perthynas ag ardal gyfagos i'r graddau y gellir disgwyl i'r materion hynny effeithio ar ei ardal ei hun.

(4) Wrth wneud hynny, rhaid i'r awdurdod cynllunio ymgynghori—

(a) os yw'r ardal gyfagos yng Nghymru, â'r awdurdod cynllunio ar gyfer yr ardal honno;

(b) os yw'r ardal gyfagos yn Lloegr—

(i) â'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardal honno, o fewn yr ystyr a roddir i "local planning authority" gan Ran 2 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5), a

(ii) â'r awdurdod cynllunio mwynau a gwastraff ar gyfer yr ardal honno, o fewn yr ystyr a roddir i "minerals and waste planning authority" gan y Rhan honno.

**19 Dyletswydd i lunio cynllun datblygu lleol [j309]**

(1) Rhaid i awdurdod cynllunio lunio cynllun ar gyfer ei ardal, o'r enw cynllun datblygu lleol.

(2) Rhaid i'r cynllun nodi—

(a) amcanion yr awdurdod mewn perthynas â datblygiad a defnydd o dir yn ei ardal, a

(b) polisïau cyffredinol yr awdurdod ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny.

(3) Caiff y cynllun hefyd nodi polisïau penodol mewn perthynas ag unrhyw ran o ardal yr awdurdod.

(4) Rhaid i'r cynllun gydymffurfio'n gyffredinol ag—

(a) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, a

(b) unrhyw gynllun datblygu strategol ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal gyfan yr awdurdod neu ran ohoni.

(5) Rhaid i'r cynllun bennu'r cyfnod pan fo i gael effaith.

(6) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y cyfnod y caniateir ei bennu.

(7) Wrth lunio ei gynllun datblygu lleol, rhaid i awdurdod cynllunio roi sylw i—

(a) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru;

(b) polisïau cenedlaethol eraill a ddyroddir gan Weinidogion Cymru;

(c) unrhyw gynllun datblygu strategol ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal gyfan yr awdurdod neu ran ohoni neu sy'n cyffinio â'i ardal;

(d) unrhyw ddatganiad ardal a gyhoeddir o dan adran 11 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3) ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal gyfan yr awdurdod neu ran ohoni;

(e) y cynllun llesiant lleol a gyhoeddwyd o dan adran 39 neu 44(5) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) gan bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus y mae ei ardal yn cynnwys ardal gyfan yr awdurdod neu ran ohoni;

(f) yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael i weithredu'r cynllun datblygu lleol;

(g) unrhyw faterion eraill a bennir mewn rheoliadau.

(8) Nid yw cynllun yn gynllun datblygu lleol ond i'r graddau y mae—

(a) wedi ei fabwysiadu drwy benderfyniad gan yr awdurdod cynllunio fel ei gynllun datblygu lleol o dan adran 24[j314], neu

(b) wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(5)[j320] neu 29(5)[j323].

(9) Mae cynllun yn peidio â bod yn gynllun datblygu lleol ar ddiwedd y cyfnod a bennir o dan is-adran (5).

## PENNOD 4

CYNLLUNIAU DATBLYGU STRATEGOL A LLEOL: Y WEITHDREFN

*Cyflwyniad*

### 20 Ystyr "awdurdod sy'n gwneud cynllun" a "cynllun" [j310]

Yn y Bennod hon—

ystyr "awdurdod sy'n gwneud cynllun" ("*plan-making authority*") yw—

(a) mewn perthynas â chynllun datblygu strategol ar gyfer ardal, y cyd-bwyllgor corfforedig ar gyfer yr ardal;

(b) mewn perthynas â chynllun datblygu lleol ar gyfer ardal, yr awdurdod cynllunio ar gyfer yr ardal;

ystyr "cynllun" ("*plan*") yw cynllun datblygu strategol neu gynllun datblygu lleol.

*Llunio a mabwysiadu cynlluniau*

### 21 Llunio cynllun: y weithdrefn a'r cytundeb cyflawni [j311]

(1) Rhaid i awdurdod sy'n gwneud cynllun lunio ei gynllun yn unol ag—

(a) y weithdrefn a bennir mewn rheoliadau, a

(b) y cytundeb cyflawni ar gyfer y cynllun.

(2) Cynnwys cytundeb cyflawni ar gyfer y cynllun yw—

(a) yr amserlen ar gyfer llunio a mabwysiadu'r cynllun, a

(b) cynllun cynnwys cymunedau'r awdurdod.

(3) Mae cynllun cynnwys cymunedau'r awdurdod yn ddatganiad o'i bolisïau ar gyfer cynnwys wrth lunio'r cynllun bersonau sydd wedi eu rhestru yn y cynllun cynnwys cymunedau.

(4) O ran y personau sydd wedi eu rhestru yn y cynllun cynnwys cymunedau—

(a) rhaid iddynt gynnwys y personau a bennir mewn rheoliadau;

(b) caniateir iddynt gynnwys unrhyw bersonau eraill y mae'r awdurdod sy'n gwneud cynllun o'r farn bod ganddynt fuddiant mewn materion sy'n ymwneud â datblygiad a defnydd o dir yn ei ardal.

(5) Rhaid i'r awdurdod sy'n gwneud cynllun a Gweinidogion Cymru geisio cytuno ar delerau'r cytundeb cyflawni ar gyfer y cynllun.

(6) Ond i'r graddau na allant gytuno ar y telerau, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod rhaid i'r cytundeb cyflawni fod ar y telerau a bennir yn y cyfarwyddyd.

(7) Rhaid i'r awdurdod sy'n gwneud cynllun gydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

(8) Caiff rheoliadau bennu—

(a) y weithdrefn i’w dilyn wrth lunio cytundeb cyflawni;

(b) amgylchiadau lle nad oes angen cydymffurfio â gofynion cytundeb cyflawni.

**22 Arfarniad o gynaliadwyedd [j312]**

(1) Wrth lunio ei gynllun, rhaid i awdurdod sy’n gwneud cynllun—

(a) cynnal arfarniad o gynaliadwyedd y cynllun, a

(b) llunio adroddiad ar ganfyddiadau’r arfarniad.

(2) Rhaid i’r arfarniad gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o’r Gymraeg yn ardal yr awdurdod.

(3) Caiff rheoliadau bennu’r weithdrefn i’w dilyn wrth gynnal arfarniad o dan yr adran hon.

**23 Archwiliad annibynnol [j313]**

(1) Cyn i awdurdod sy’n gwneud cynllun fabwysiadu ei gynllun, rhaid iddo gyflwyno’r cynllun i Weinidogion Cymru ar gyfer ei archwilio’n annibynnol.

(2) Ond ni chaiff yr awdurdod gyflwyno ei gynllun onid yw—

(a) wedi cydymffurfio ag unrhyw ofynion perthnasol mewn rheoliadau o dan y Rhan hon, a

(b) o’r farn bod y cynllun yn barod i’w archwilio’n annibynnol.

(3) Caiff rheoliadau bennu dogfennau eraill a gwybodaeth arall y mae rhaid i’r awdurdod eu hanfon neu ei hanfon at Weinidogion Cymru yn ogystal â’r cynllun.

(4) Rhaid i archwiliad annibynnol gael ei gynnal gan arolygydd.

(5) Diben yr archwiliad yw penderfynu a yw’r cynllun—

(a) yn bodloni’r gofynion a osodir gan y Rhan hon ac odani, a

(b) yn gadarn.

(6) Os yw person sy’n cyflwyno sylwadau er mwyn ceisio newid y cynllun yn gofyn am gael cyfle i ymddangos gerbron yr arolygydd a chael gwrandawiad ganddo, rhaid rhoi’r cyfle hwnnw i’r person.

(7) Rhaid i’r arolygydd—

(a) gwneud argymhellion;

(b) rhoi rhesymau dros yr argymhellion.

(8) Rhaid i’r awdurdod sy’n gwneud cynllun gyhoeddi’r argymhellion a’r rhesymau.

(9) Caiff rheoliadau wneud darpariaethau ynghylch—

(a) y weithdrefn i’w dilyn mewn cysylltiad ag archwiliad annibynnol o dan y Bennod hon;

(b) y gydnabyddiaeth ariannol a’r lwfansau sy’n daladwy i arolygydd a benodir i gynnal archwiliad annibynnol.

**24 Mabwysiadu cynllun [j314]**

(1) Caiff awdurdod sy’n gwneud cynllun—

(a) mabwysiadu ei gynllun fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol i'w archwilio'n annibynnol os yw'r arolygydd a benodwyd i gynnal yr archwiliad yn argymell mabwysiadu'r cynllun fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol;

(b) mabwysiadu'r cynllun gydag addasiadau os yw'r arolygydd yn argymell yr addasiadau.

(2) Mae cynllun wedi ei fabwysiadu at ddibenion yr adran hon os yw wedi ei fabwysiadu drwy benderfyniad gan yr awdurdod.

(3) Ni chaiff awdurdod sy'n gwneud cynllun fabwysiadu cynllun os yw Gweinidogion Cymru yn ei gyfarwyddo i beidio â gwneud hynny.

*Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru a thynnu cynlluniau yn ôl cyn eu mabwysiadu*

**25 Pŵer i gyfarwyddo awdurdod i addasu cynllun [j319]**

(1) Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod cynllun nad yw wedi ei fabwysiadu eto yn anfoddhaol, cânt gyfarwyddo'r awdurdod sy'n gwneud cynllun i addasu'r cynllun yn unol â'r cyfarwyddyd.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, rhaid iddynt ddatgan eu rhesymau dros wneud hynny.

(3) O ran yr awdurdod sy'n gwneud cynllun—

(a) rhaid iddo gydymffurfio â'r cyfarwyddyd;

(b) ni chaiff fabwysiadu'r cynllun oni bai bod Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad eu bod wedi eu bodloni bod yr awdurdod wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

(4) Wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr adran hon mewn perthynas â chynllun, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r cytundeb cyflawni ar gyfer y cynllun (gweler adran 21[j311]).

**26 Pŵer i gyfarwyddo awdurdod i gyflwyno cynllun i'w gymeradwyo [j320]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg cyn i gynllun gael ei fabwysiadu gyfarwyddo'r awdurdod sy'n gwneud cynllun i gyflwyno'r cynllun iddynt i'w gymeradwyo ganddynt.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon—

(a) ni chaiff yr awdurdod sy'n gwneud cynllun gymryd unrhyw gamau pellach mewn cysylltiad â mabwysiadu'r cynllun;

(b) os rhoddir y cyfarwyddyd cyn i'r awdurdod gyflwyno'r cynllun i'w archwilio'n annibynnol, rhaid i Weinidogion Cymru beri i archwiliad annibynnol o'r cynllun gael ei gynnal yn unol ag adran 23(4)[j313] i (7)[j313];

(c) os rhoddir y cyfarwyddyd ar ôl i'r awdurdod gyflwyno'r cynllun i'w archwilio'n annibynnol, rhaid i'r arolygydd a benodwyd i gynnal yr archwiliad wneud argymhellion i Weinidogion Cymru;

(d) nid yw'r cynllun yn cael effaith onid yw wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r argymhellion a wnaed iddynt yn rhinwedd is-adran (2)(b) neu (c) a rhesymau'r arolygydd sy'n gwneud yr argymhellion.

(4) Wrth ystyried cynllun a gyflwynir iddynt yn unol â chyfarwyddyd o dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru ystyried unrhyw fater y maent o'r farn ei fod yn berthnasol, pa un a'i hystyriwyd gan yr awdurdod sy'n gwneud cynllun ai peidio.

(5) Pan gyflwynir cynllun iddynt yn unol â chyfarwyddyd o dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cymeradwyo'r cynllun fel y'i cyflwynwyd,

(b) ei gymeradwyo gydag addasiadau, neu

(c) ei wrthod.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru roi rhesymau dros eu penderfyniad.

(7) Wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr adran hon mewn perthynas â chynllun, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r cytundeb cyflawni ar gyfer y cynllun (gweler adran 21[j311]).

**27 Pŵer i gyfarwyddo awdurdod i dynnu cynllun yn ôl [j321]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg cyn i gynllun gael ei fabwysiadu gyfarwyddo'r awdurdod sy'n gwneud cynllun i dynnu'r cynllun yn ôl.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, rhaid iddynt ddatgan eu rhesymau dros wneud hynny.

(3) Rhaid i'r awdurdod dynnu'r cynllun yn ôl yn unol â'r cyfarwyddyd.

**28 Tynnu cynllun yn ôl pan nad oes cyfarwyddyd [j322]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan na chyfarwyddwyd awdurdod sy'n gwneud cynllun i dynnu ei gynllun yn ôl.

(2) Caiff yr awdurdod dynnu'r cynllun yn ôl ar unrhyw adeg cyn ei fabwysiadu; ond mae hyn yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ganlyn yn yr adran hon.

(3) Ni chaiff awdurdod sy'n gwneud cynllun dynnu cynllun yn ôl os yw Gweinidogion Cymru wedi—

(a) cyfarwyddo'r awdurdod i gyflwyno'r cynllun i'w gymeradwyo o dan adran 26[j320], neu

(b) cymryd unrhyw gam o dan adran 29[j323] mewn cysylltiad â'r cynllun.

(4) Ni chaiff awdurdod sy'n gwneud cynllun dynnu yn ôl gynllun a gyflwynwyd i'w archwilio'n annibynnol o dan adran 23[j313] ond os—

(a) yw'r arolygydd sy'n cynnal yr archwiliad yn argymell tynnu'r cynllun yn ôl, a

(b) nad yw'r argymhelliad yn cael ei drechu gan gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru.

(5) Ni chaiff awdurdod sy'n gwneud cynllun dynnu yn ôl gynllun y mae is-adran (6) yn gymwys iddo ond os—

(a) yw'r awdurdod wedi rhoi hysbysiad i Weinidogion Cymru o'i fwriad i dynnu'r cynllun yn ôl, a

(b) yw'r cyfnod hysbysu wedi dod i ben.

(6) Mae'r is-adran hon yn gymwys i gynllun os yw'r awdurdod—

(a) heb gyflwyno'r cynllun eto ar gyfer ei archwilio'n annibynnol o dan adran 23[j313], ond

(b) wedi cymryd camau mewn cysylltiad â llunio'r cynllun sydd wedi eu pennu mewn rheoliadau.

(7) Pan fo awdurdod sy'n gwneud cynllun wedi rhoi hysbysiad o dan is-adran (5)(a), caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r awdurdod yn gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r ddau—

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ddarparu gwybodaeth bellach;

(b) estyn y cyfnod hysbysu.

(8) Ystyr "y cyfnod hysbysu" yw'r cyfnod, yn dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad o dan is-adran (5)(a), a bennir mewn rheoliadau; ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (7)(b) mewn achos penodol.

**29 Pwerau diofyn Gweinidogion Cymru [j323]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod awdurdod sy'n gwneud cynllun yn methu â gwneud unrhyw beth y mae'n angenrheidiol i'r awdurdod ei wneud mewn cysylltiad â llunio neu fabwysiadu ei gynllun.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru lunio'r cynllun.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru beri i archwiliad annibynnol gael ei gynnal yn unol ag adran 23(4)[j313] i (7)[j313].

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi argymhellion a rhesymau'r arolygydd sy'n cynnal yr archwiliad.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun fel cynllun datblygu strategol neu gynllun ddatblygu lleol (yn ôl y digwydd).

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru roi rhesymau dros unrhyw beth a wnânt o dan is-adran (2)[j323] neu (5)[j323].

(7) Rhaid i'r awdurdod sy'n gwneud cynllun ad-dalu i Weinidogion Cymru unrhyw gostau y maent yn mynd iddynt mewn cysylltiad ag unrhyw beth—

(a) a wnânt o dan is-adran (2) neu (5), a

(b) y methodd yr awdurdod â'i wneud fel y crybwyllir yn is-adran (1).

*Sylwadau ynghylch cynlluniau*

**30 Eithrio sylwadau penodol sy'n ymwneud â phriffyrdd a threfi newydd [j328]**

(1) Caiff awdurdod sy'n gwneud cynllun neu Weinidogion Cymru ddiystyru sylw ynghylch cynllun os yw neu os ydynt o'r farn bod y sylw yn ei hanfod yn sylw neu'n wrthwynebiad y mae'r adran hon yn gymwys iddo.

(2) Mae'r adran hon yn gymwys i sylw ynghylch unrhyw beth, neu wrthwynebiad i unrhyw beth, a wnaed neu y bwriedir ei wneud yn unol ag—

(a) gorchymyn neu gynllun o dan adran 10, 14, 16, 18, 106(1) neu (3) neu 108(1) o'r Ddeddf Priffyrdd (gorchmynion a chynlluniau sy'n ymwneud â chefnffyrdd, ffyrdd dosbarthiadol, ffyrdd arbennig, pontydd, twneli a dargyfeirio cyrsiau dŵr);

(b) gorchymyn o dan adran 1 o Ddeddf Trefi Newydd 1981 (p. 64) (dynodi safle tref newydd arfaethedig).

*Adolygu, diwygio, dirymu a monitro cynlluniau ar ôl eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo*

**31 Dyletswydd i ystyried pa un ai i adolygu cynllun [j315]**

(1) Ar ôl i Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru neu Fframwaith diwygiedig gael ei gyhoeddi, rhaid i awdurdod sy'n gwneud cynllun ystyried pa un ai i gynnal adolygiad o'i gynllun.

(2) Ar ôl i gynllun datblygu strategol neu gynllun datblygu strategol diwygiedig ar gyfer ei ardal gyfan neu ran ohoni gael ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo, rhaid i awdurdod cynllunio ystyried pa un ai i gynnal adolygiad o'i gynllun datblygu lleol.

**32 Adolygu cynllun [j316]**

(1) Rhaid i awdurdod sy'n gwneud cynllun gynnal adolygiad o'i gynllun—

(a) os yw o'r farn, ar ôl ystyried o dan adran 31[j315], y dylid adolygu'r cynllun;

(b) ar unrhyw adeg arall a bennir mewn rheoliadau.

(2) Rhaid i'r awdurdod—

(a) adrodd am ganfyddiadau'r adolygiad i Weinidogion Cymru, a

(b) cyhoeddi'r adroddiad.

**33 Diwygio cynllun [j317]**

(1) Caiff awdurdod sy'n gwneud cynllun lunio diwygiad o'i gynllun ar unrhyw adeg.

(2) Rhaid i'r awdurdod lunio diwygiad o'i gynllun—

(a) os yw o'r farn, ar ôl adolygiad o dan adran 32[j316], y dylid diwygio'r cynllun;

(b) ar unrhyw adeg arall os cyfarwyddir ef gan Weinidogion Cymru i wneud hynny.

(3) Mae'r Rhan hon yn gymwys i ddiwygio cynllun fel y mae'n gymwys i lunio'r cynllun.

**34 Dirymu cynllun [j318]**

Caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg ddirymu cynllun ar gais yr awdurdod sy'n gwneud cynllun.

**35 Adroddiad monitro blynyddol [j332]**

Rhaid i awdurdod sy'n gwneud cynllun roi adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ynghylch y graddau y mae'r amcanion a nodir yn ei gynllun yn cael eu cyflawni.

*Cynlluniau datblygu lleol ar y cyd*

**36 Arfer swyddogaethau ar y cyd gan awdurdodau cynllunio [j324]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau awdurdod cynllunio neu ragor i lunio cynllun datblygu lleol ar y cyd ar gyfer eu hardaloedd.

(2) Ni chaniateir rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (1) i awdurdod Parc Cenedlaethol.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd, rhaid iddynt ddatgan eu rhesymau dros wneud hynny.

(4) Rhaid i'r awdurdodau y rhoddir y cyfarwyddyd iddynt gydymffurfio ag ef.

(5) Caiff dau awdurdod cynllunio neu ragor, os na roddir cyfarwyddyd i'r un ohonynt o dan is-adran (1), gytuno i lunio cynllun datblygu lleol ar y cyd ar gyfer eu hardaloedd.

(6) Mae'r Rhan hon yn gymwys mewn perthynas â chynllun datblygu lleol ar y cyd fel y mae'n gymwys mewn perthynas ag unrhyw gynllun datblygu lleol arall.

(7) Rhaid i unrhyw beth y mae rhaid ei wneud gan neu mewn perthynas ag awdurdod cynllunio mewn cysylltiad â chynllun datblygu lleol gael ei wneud gan neu mewn perthynas â phob un o'r awdurdodau a grybwyllir yn is-adran (1) neu (5) mewn cysylltiad â chynllun datblygu lleol ar y cyd.

(8) Yn yr adran hon ac adran 37[j325], ystyr "cynllun datblygu lleol ar y cyd" yw cynllun datblygu lleol a lunnir ar y cyd gan ddau awdurdod cynllunio neu ragor.

**37 Trefniadau ar y cyd rhwng awdurdodau cynllunio yn dod i ben [j325]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw Gweinidogion Cymru yn tynnu yn ôl gyfarwyddyd i lunio cynllun datblygu lleol ar y cyd neu'n ei amrywio fel ei fod yn peidio â bod yn gymwys i awdurdod cynllunio, neu

(b) os yw awdurdod cynllunio yn tynnu yn ôl o gytundeb i lunio cynllun datblygu lleol ar y cyd.

(2) Rhaid trin camau a gymerwyd mewn perthynas â'r cynllun datblygu lleol ar y cyd fel camau a gymerwyd—

(a) gan awdurdod cynllunio yr oedd y cyfarwyddyd neu'r cytundeb yn gymwys iddo at ddibenion cynllun datblygu lleol cyfatebol a luniwyd gan yr awdurdod, neu

(b) gan ddau awdurdod cynllunio neu ragor yr oedd y cyfarwyddyd neu'r cytundeb yn gymwys iddynt at ddibenion cynllun datblygu lleol ar y cyd cyfatebol a luniwyd gan yr awdurdodau hynny.

(3) Rhaid atal unrhyw archwiliad annibynnol o gynllun datblygu lleol ar y cyd yr oedd y cyfarwyddyd neu'r cytundeb yn gymwys iddo.

(4) Ond caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod—

(a) yr archwiliad i'w ailddechrau mewn perthynas â'r cynllun datblygu lleol cyfatebol neu'r cynllun datblygu lleol ar y cyd cyfatebol;

(b) camau a gymerwyd at ddibenion yr archwiliad a ataliwyd i gael effaith at ddibenion yr archwiliad sydd wedi ei ailddechrau.

(5) Ni chaiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan is-adran (4) ond—

(a) os yw awdurdod cynllunio yr oedd y cyfarwyddyd neu'r cytundeb yn gymwys iddo yn gofyn iddynt wneud hynny, a

(b) os gwneir y cais cyn diwedd y cyfnod a bennir mewn rheoliadau.

(6) Caiff rheoliadau—

(a) pennu amgylchiadau lle nad yw is-adrannau (2), (4) a (5) yn gymwys mewn perthynas ag awdurdod cynllunio;

(b) gwneud darpariaeth ynghylch beth yw cynllun datblygu lleol cyfatebol neu gynllun datblygu lleol ar y cyd cyfatebol.

*Costau archwiliadau annibynnol o gynlluniau*

**38 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n gwneud cynllun dalu costau archwiliad annibynnol [j327]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi arolygydd i gynnal archwiliad annibynnol o gynllun o dan y Bennod hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sy'n gwneud cynllun dalu'r costau y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddynt mewn perthynas â'r archwiliad (neu gymaint o'r costau hynny ag sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru).

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ardystio swm eu costau; ac mae swm a ardystir ganddynt ac y maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sy'n gwneud cynllun ei dalu yn adenilladwy oddi wrth yr awdurdod fel dyled sifil.

(4) Mae'r costau y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddynt mewn perthynas ag archwiliad annibynnol yn cynnwys—

(a) yr holl gost weinyddol y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddi mewn cysylltiad â'r archwiliad, gan gynnwys yn benodol swm rhesymol a benderfynir ganddynt mewn cysylltiad â chostau staff cyffredinol a gorbenion Llywodraeth Cymru;

(b) costau mewn cysylltiad ag archwiliad nad yw'n digwydd.

(5) Caiff rheoliadau bennu swm dyddiol safonol ar gyfer archwiliadau annibynnol o ddisgrifiad penodedig.

(6) Pan benodir arolygydd i gynnal archwiliad annibynnol o ddisgrifiad penodedig, cymerir mai'r costau y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddynt yw—

(a) y swm dyddiol safonol am bob diwrnod (neu gyfran briodol o'r swm hwnnw am ran o ddiwrnod) y mae'r arolygydd yn ei dreulio'n cynnal yr archwiliad neu'n gwneud gwaith sy'n gysylltiedig ag ef,

(b) costau yr eir iddynt mewn gwirionedd o ran lwfansau teithio neu gynhaliaeth sy'n daladwy i'r arolygydd neu ar ei ran mewn cysylltiad â'r archwiliad,

(c) costau y gellir eu priodoli i benodi asesydd i gynorthwyo'r arolygydd, a

(d) unrhyw gostau eraill y gellir eu priodoli i benodi'r arolygydd.

(7) Yn yr adran hon ystyr "penodedig" yw wedi ei bennu mewn rheoliadau.

## PENNOD 5

CYFFREDINOL

**39 Corfforaethau datblygu trefol [j330]**

Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo nad yw Penodau 3 a 4 yn gymwys i ardal corfforaeth datblygu trefol.

**40 Canllawiau [j331]**

Wrth arfer swyddogaethau a roddir gan Benodau 3 a 4 neu odanynt a chan reoliadau o dan adran 41[j333], rhaid i awdurdod cynllunio neu gyd-bwyllgor corfforedig roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

**41 Rheoliadau ynghylch arfer swyddogaethau mewn perthynas â chynlluniau [j333]**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau o dan Benodau 2 i 4 gan unrhyw berson.

(2) Caiff y rheoliadau yn benodol wneud darpariaeth ynghylch—

(a) hysbysu a chyhoeddusrwydd;

(b) ymgynghori â'r cyhoedd a chyfranogiad y cyhoedd;

(c) cyflwyno ac ystyried sylwadau ynghylch unrhyw beth i'w gynnwys mewn cynllun;

(d) ffurf a chynnwys cynlluniau neu ddogfennau eraill;

(e) peri bod cynlluniau neu ddogfennau eraill ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt;

(f) sut y mae hysbysiadau, cyfarwyddydau neu ddogfennau eraill i'w rhoi;

(g) sut y mae dogfennau i'w cyhoeddi;

(h) pryd y mae rhaid gwneud unrhyw beth;

(i) monitro arfer swyddogaethau gan gyd-bwyllgorau corfforedig ac awdurdodau cynllunio.

**RHAN 3**

CANIATÂD CYNLLUNIO

**PENNOD 1**

RHAGARWEINIOL

*Trosolwg*

**42 Trosolwg o'r Rhan hon [j404]**

(1) Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r Rhan hon.

(2) Mae adran 43[j403] yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad tir yng Nghymru gael ei awdurdodi gan ganiatâd cynllunio.

(3) Mae Penodau 2 i 8 yn ymwneud â rhoi caniatâd cynllunio. Maent yn darparu ar gyfer rhoi caniatâd cynllunio—

(a) drwy orchymyn datblygu a wneir gan Weinidogion Cymru (gweler Pennod 2);

(b) drwy orchymyn datblygu lleol a wneir gan awdurdod cynllunio (gweler Pennod 2);

(c) gan awdurdod cynllunio, neu o dan amgylchiadau penodol gan Weinidogion Cymru, ar gais am ganiatâd cynllunio (gweler Penodau 3 i 7);

(d) gan adran o'r llywodraeth wrth roi awdurdodiadau o dan ddeddfiadau penodol (gweler Pennod 8).

(4) Mae deddfiadau eraill y caniateir rhoi caniatâd cynllunio odanynt, neu y caniateir trin caniatâd cynllunio fel pe bai wedi ei roi odanynt, yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf hon—

paragraff 6[J618S] o Atodlen 12[J618S] (rhoi caniatâd yn hytrach na chadarnhau hysbysiad prynu);

adran 133 (rhoi caniatâd wrth benderfynu apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi);

adran 142 (trin caniatâd fel pe bai wedi ei roi pan gydymffurfir â hysbysiad gorfodi);

adran 207 (rhoi caniatâd drwy orchymyn datbarhau);

adran 229 (trin caniatâd fel pe bai wedi ei roi pan arddangosir hysbyseb yn unol â rheoliadau rheolaethu hysbysebion).

(5) Mae'r Rhan hon hefyd yn gwneud darpariaeth—

(a) ynghylch effaith, hyd a gweithrediad caniatâd cynllunio (gweler Pennod 9);

(b) ar gyfer gwneud newidiadau i ganiatâd cynllunio (gweler Pennod 10);

(c) sy'n rhoi hawliau i hawlio digolledіad ac i'w gwneud yn ofynnol prynu buddiannau mewn tir yn dilyn penderfyniadau cynllunio penodol a newidiadau penodol i ganiatâd cynllunio (gweler Pennod 11).

(6) Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau ynghylch caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n ymwneud â mwynau a gwastraff, yn benodol darpariaethau ynghylch amodau y caniateir rhoi caniatâd yn ddarostyngedig iddynt neu y mae rhaid rhoi caniatâd yn ddarostyngedig iddynt, adolygu amodau a digolledіad (gweler adrannau 67(6)[j445], 96[j445a], 103[j495a], 104[j490] a 109[j604] ac Atodlenni 3[J445S], 5[J445B], 8[J495S], 9[J490S] ac 11[J604S]).

*Gofyniad i gael caniatâd cynllunio*

**43 Caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer datblygiad [j403]**

(1) Mae caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer datblygiad tir yng Nghymru.

(2) Ond mae hyn yn ddarostyngedig i—

(a) adran 20(1) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 (dsc 3) (sy'n darparu nad yw caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer datblygiad i'r graddau y bo cydsyniad seilwaith yn ofynnol),

(b) adran 33(1) o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29) (sy'n darparu nad yw caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer datblygiad i'r graddau y bo cydsyniad datblygu yn ofynnol), ac

(c) y darpariaethau a ganlyn o'r adran hon.

(3) Pan roddwyd caniatâd cynllunio i ddatblygu tir yn ddarostyngedig i gyfyngiadau drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol, nid yw caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer y defnydd o'r tir sydd (heblaw am ei ddefnydd yn unol â'r caniatâd) y defnydd arferol ohono.

(4) Pan roddwyd, ar gais am ganiatâd cynllunio i ddatblygu tir, ganiatâd cynllunio am gyfnod cyfyngedig, nid yw caniatâd cynllunio yn ofynnol i ailddechrau ar ddiwedd y cyfnod hwnnw y defnydd o'r tir a oedd y defnydd arferol ohono cyn i'r caniatâd gael ei roi.

(5) Pan fo hysbysiad gorfodi wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad ag unrhyw ddatblygiad tir, nid yw caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer y defnydd o'r tir at ddiben y gellid bod wedi ei ddefnyddio ato yn gyfreithlon pe na bai'r datblygiad hwnnw wedi ei gynnal.

(6) Wrth benderfynu beth yw neu beth oedd y defnydd arferol o dir at ddibenion is-adrannau (3) a (4), nid oes unrhyw ystyriaeth i'w chymryd o unrhyw ddefnydd o'r tir a ddechreuodd yn groes i reolaeth gynllunio neu yn groes i orchymyn datbarhau, gorchymyn gwahardd neu rwymedigaeth gynllunio.

(7) Yn yr adran hon nid yw cyfeiriadau at ddefnydd o dir yn cynnwys defnydd ar gyfer cynnal gweithrediadau ar y tir.

## PENNOD 2

## CANIATÂD CYNLLUNIO A RODDIR DRWY ORCHYMYN

### 44 Pŵer Gweinidogion Cymru i roi caniatâd drwy orchymyn datblygu [j405]

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ("gorchymyn datblygu") roi caniatâd cynllunio ar gyfer—

(a) datblygiad penodedig;

(b) datblygiad o ddisgrifiad penodedig.

(2) Caiff gorchymyn datblygu wneud darpariaeth mewn perthynas ag—

(a) yr holl dir yng Nghymru (yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau penodedig);

(b) tir o ddisgrifiad penodedig yng Nghymru;

(c) tir penodedig yng Nghymru.

(3) Caiff gorchymyn datblygu roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau neu gyfyngiadau penodedig.

(4) Pan fo gorchymyn datblygu yn rhoi caniatâd cynllunio i godi adeilad, caiff amod (er enghraifft) ei gwneud yn ofynnol cael cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio ar gyfer dyluniad neu olwg allanol yr adeilad.

(5) Pan fo gorchymyn datblygu yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o ddisgrifiad penodedig, caiff alluogi Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod cynllunio i gyfarwyddo nad yw'r caniatâd yn gymwys i—

(a) datblygiad mewn ardal benodol, neu

(b) datblygiad penodol.

(6) Mae is-adran (7) yn gymwys pan fo gorchymyn datblygu yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio tir at unrhyw ddiben (pa un a yw wedi ei bennu yn y gorchymyn ai peidio) ar nifer cyfyngedig o ddiwrnodau mewn cyfnod penodedig.

(7) Mae'r gorchymyn i'w drin fel pe bai'n rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad na chaniateir defnyddio'r tir at unrhyw un diben gan ddibynnu ar y caniatâd ar fwy na'r nifer hwnnw o ddiwrnodau yn y cyfnod hwnnw.

(8) Caiff gorchymyn datblygu—

(a) gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol;

(b) gwneud darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(9) Rhaid gwneud gorchymyn datblygu drwy offeryn statudol Cymreig ac mae'n ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

(10) Ar gyfer darpariaeth bellach ynghylch y caniatâd cynllunio y caniateir ei roi drwy orchymyn datblygu mewn cysylltiad â chynigion ar gyfer datblygiad ardal datblygu trefol neu dref newydd, gweler adran 148 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (p. 65) ac adran 7 o Ddeddf Trefi Newydd 1981 (p. 64).

(11) Yn yr adran hon—

ystyr "yr awdurdod cynllunio" ("*the planning authority*") yw'r awdurdod cynllunio y mae neu y byddai'r datblygiad yn cael ei gynnal yn ei ardal;

ystyr "penodedig" ("*specified*") yw wedi ei bennu yn y gorchymyn datblygu.

(12) Nid yw is-adran (7) yn cyfyngu ar ystyr cyfeiriadau at gyfyngiadau yn y Ddeddf hon.

**45 Pŵer awdurdod cynllunio i roi caniatâd drwy orchymyn datblygu lleol [j408]**

(1) Caiff awdurdod cynllunio drwy orchymyn ("gorchymyn datblygu lleol") roi caniatâd cynllunio ar gyfer—

(a) datblygiad penodedig;

(b) datblygiad o ddisgrifiad penodedig.

(2) Caiff gorchymyn datblygu lleol ymwneud ag—

(a) yr holl dir yn ardal yr awdurdod;

(b) tir mewn rhan benodedig o ardal yr awdurdod;

(c) tir penodedig yn ardal yr awdurdod.

(3) Caiff gorchymyn datblygu lleol roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau neu gyfyngiadau penodedig.

(4) Pan fo gorchymyn datblygu lleol yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o ddisgrifiad penodedig, caiff alluogi'r awdurdod cynllunio i gyfarwyddo nad yw'r caniatâd yn gymwys i—

(a) datblygiad mewn ardal benodol, neu

(b) datblygiad penodol.

(5) Caiff gorchymyn datblygu lleol wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol.

(6) Caiff rheoliadau bennu ardal neu ddisgrifiad o ddatblygiad na chaniateir gwneud gorchymyn datblygu lleol mewn cysylltiad â hi neu ag ef.

(7) Nid yw gorchymyn datblygu lleol ond yn cael effaith i'r graddau y'i mabwysiedir drwy benderfyniad gan yr awdurdod cynllunio a'i lluniodd.

(8) Mae Atodlen 1[J408S] yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch gorchmynion datblygu lleol (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer eu llunio, eu diwygio a'u dirymu).

(9) Yn is-adrannau (1) i (4) ystyr "penodedig" yw wedi ei bennu yn y gorchymyn datblygu lleol.

**46 Cwblhau datblygiad ar ôl tynnu caniatâd a roddir drwy orchymyn yn ôl [j411]**

(1) Caiff gorchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol ganiatáu cwblhau datblygiad os yw—

(a) y gorchymyn yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad, a

(b) y caniatâd cynllunio yn cael ei dynnu yn ôl ar ôl i'r datblygiad ddechrau ond cyn iddo gael ei gwblhau.

(2) At ddibenion yr adran hon, caiff y caniatâd cynllunio ei dynnu yn ôl—

(a) os yw cyfarwyddyd a roddir wrth arfer pŵer a roddir drwy'r gorchymyn o dan adran 44(5)[j405] neu 45(4)[j408] yn cymryd effaith mewn perthynas â'r datblygiad;

(b) os caiff y gorchymyn ei ddiwygio neu ei newid—

(i) fel ei fod yn peidio â rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad, neu

(ii) er mwyn newid yn sylweddol unrhyw amod neu gyfyngiad y mae'r caniatâd yn ddarostyngedig iddo;

(c) os caiff y gorchymyn ei ddirymu.

**PENNOD 3**

CANIATÂD CYNLLUNIO A RODDIR AR GAIS: RHAGARWEINIOL

**47 Rhoi caniatâd cynllunio ar gais [j487]**

(1) Pan na roddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir yng Nghymru drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol, caniateir ei roi ar gais o dan y Rhan hon.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch rhoi caniatâd cynllunio ar gais o dan y Rhan hon.

**48 Caniatâd cynllunio amlinellol [j489]**

(1) Caiff rheoliadau o dan adran 47(2)[j487] ddarparu y caniateir rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau gan gadw yn ôl i'w cymeradwyo wedi hynny faterion nas nodir mewn cais am ganiatâd.

(2) Rhaid i'r datblygiad a ddisgrifir yn y rheoliadau fod yn ddatblygiad sy'n weithrediadau neu sy'n cynnwys gweithrediadau.

(3) Caiff y rheoliadau ddarparu y caniateir cadw materion yn ôl am gymeradwyaeth—

(a) yr awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef yn ei ardal, neu

(b) Gweinidogion Cymru.

(4) Yn y Ddeddf hon—

ystyr "caniatâd cynllunio amlinellol" ("*outline planning permission*") yw caniatâd cynllunio a roddir yn unol â darpariaeth a wneir o dan yr adran hon;

ystyr "mater a gadwyd yn ôl" ("*reserved matter*") yw mater a gadwyd yn ôl o dan ganiatâd cynllunio amlinellol.

(5) Mae adran 94[j459] yn gwneud darpariaeth ynghylch amodau y mae rhaid rhoi caniatâd cynllunio amlinellol yn ddarostyngedig iddynt.

**49 Caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a gynhaliwyd eisoes [j447]**

(1) Mae'r caniatâd cynllunio y caniateir ei roi ar gais yn cynnwys caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad perthnasol a gynhaliwyd cyn y diwrnod y gwnaed y cais.

(2) Yn yr adran hon ystyr "datblygiad perthnasol" yw datblygiad a gynhelir—

(a) heb ganiatâd cynllunio,

(b) heb gydymffurfio ag amod y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddynt, neu

(c) yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd am gyfnod cyfyngedig.

(3) Caniateir rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad perthnasol i gael effaith—

(a) o ddechrau'r diwrnod y cynhaliwyd y datblygiad, neu

(b) os y'i cynhaliwyd yn unol â chaniatâd cynllunio a roddir am gyfnod cyfyngedig, o ddiwedd y cyfnod hwnnw.

**50 Caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad heb gydymffurfio ag amodau blaenorol [j490a]**

(1) Mae'r caniatâd cynllunio y caniateir ei roi ar gais yn cynnwys caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir heb gydymffurfio ag amodau y rhoddwyd caniatâd cynllunio blaenorol yn ddarostyngedig iddynt.

(2) Mae adran 68[j446] yn gwneud darpariaeth ynghylch penderfynu ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir heb gydymffurfio ag amodau y rhoddwyd caniatâd cynllunio blaenorol yn ddarostyngedig iddynt.

**51 Dyletswydd datblygu cynaliadwy [j477]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i arfer gan gorff cyhoeddus swyddogaeth o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon mewn perthynas â chais (neu gais arfaethedig) am—

(a) caniatâd cynllunio, neu

(b) cymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl.

(2) Rhaid arfer y swyddogaeth, fel rhan o gynnal datblygiad cynaliadwy yn unol â'r Ddeddf Llesiant, at ddiben sicrhau bod datblygiad tir a defnydd o dir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

(3) Wrth gydymffurfio ag is-adran (2), rhaid i gorff cyhoeddus ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys canllawiau perthnasol a ddyroddir o dan adran 14 o'r Ddeddf Llesiant).

(4) Yn yr adran hon—

mae i "corff cyhoeddus" ("*public body*") yr ystyr a roddir gan adran 6 o'r Ddeddf Llesiant;

ystyr "y Ddeddf Llesiant" ("*the Well-being Act*") yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

(5) Nid oes unrhyw beth yn yr adran hon yn effeithio ar—

(a) a oes rhaid rhoi sylw i ystyriaeth benodol o dan adran 66[j438] (penderfynu ceisiadau), neu

(b) y pwys sydd i'w roi i ystyriaeth y rhoddir sylw iddi o dan yr adran honno.

## PENNOD 4

### Y WEITHDREFN CYN GWNEUD CAIS

**52 Gofyniad i geisydd ymgynghori a rhoi cyhoeddusrwydd cyn gwneud cais [j412]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo person ("y ceisydd") yn cynnig gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau.

(2) Rhaid i'r ceisydd roi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig ac ymgynghori arno yn unol â'r adran hon.

(3) Rhaid i'r ceisydd roi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig mewn modd y mae'r ceisydd yn ystyried yn rhesymol ei fod yn debygol o'i ddwyn i sylw mwyafrif y perchenogion a'r meddiannwyr ar dir yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig.

(4) Wrth wneud hynny, rhaid i'r ceisydd—

(a) nodi sut y gall personau sy'n dymuno gwneud sylwadau am y datblygiad arfaethedig gysylltu â'r ceisydd;

(b) rhoi digon o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer gwneud sylwadau am y datblygiad arfaethedig i sicrhau bod personau sy'n dymuno gwneud sylwadau yn gallu gwneud hynny mewn da bryd.

(5) Rhaid i'r ceisydd ymgynghori â phob person a bennir mewn rheoliadau, neu o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau, ynghylch y cais arfaethedig.

(6) Nid yw'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw'r cais arfaethedig yn gais o dan adran 85[j497] (datblygiad brys y Goron), neu

(b) mewn achosion a bennir mewn rheoliadau.

(7) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad â chyhoeddusrwydd ac ymgynghori o dan yr adran hon.

(8) Caiff y ddarpariaeth honno gynnwys—

(a) darpariaeth ynghylch sut y mae'r cyhoeddusrwydd a'r ymgynghori i'w cynnal (gan gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys dogfennau, ac ynghylch gwybodaeth a deunyddiau eraill sydd i'w darparu i berson at ddibenion y cyhoeddusrwydd neu'r ymgynghori, neu mewn cysylltiad â'r cyhoeddusrwydd neu'r ymgynghori);

(b) darpariaeth ynghylch yr amserlen (gan gynnwys terfynau amser) ar gyfer y cyhoeddusrwydd a'r ymgynghori;

(c) darpariaeth ynghylch ymateb i'r ymgynghori (gan gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson yr ymgynghorir ag ef ymateb i'r ymgynghoriad, ymateb iddo mewn modd penodol, neu ymateb o fewn cyfnod penodol);

(d) darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson yr ymgynghorir ag ef wneud adroddiad i Weinidogion Cymru ynghylch cydymffurfedd y person ag unrhyw ofyniad a osodir yn rhinwedd paragraff (c) (gan gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys yr adroddiad a phryd y mae rhaid ei wneud).

**53 Gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru [j413]**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer darparu gwasanaethau cyn gwneud cais gan awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru, ac mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau o'r fath.

(2) Caiff y rheoliadau, yn benodol, wneud darpariaeth—

(a) ynghylch yr amgylchiadau y mae'n ofynnol darparu gwasanaethau cyn gwneud cais odanynt (gan gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys archiadau am wasanaethau, a gwybodaeth sydd i'w chynnwys gydag archiad);

(b) ynghylch natur y gwasanaethau y mae'n ofynnol eu darparu, a phryd a sut y maent i'w darparu;

(c) i wybodaeth a dogfennau sy'n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir o dan y rheoliadau, neu ag archiadau am y gwasanaethau hynny, gael eu cyhoeddi neu eu rhoi ar gael fel arall i'r cyhoedd, neu i bersonau a bennir yn y rheoliadau, gan awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru;

(d) ynghylch camau eraill y mae'n ofynnol eu cymryd gan unrhyw berson mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau o dan y rheoliadau, neu at ddibenion darparu gwasanaethau o'r fath.

(3) Yn y Bennod hon ystyr "gwasanaethau cyn gwneud cais" yw gwasanaethau a ddarperir i berson, mewn cysylltiad â chais cymhwysol y mae'r person yn cynnig ei wneud mewn cysylltiad â datblygiad tir, at ddiben cynorthwyo'r person wrth wneud y cais.

(4) "Cais cymhwysol" yw cais o dan neu yn rhinwedd y Rhan hon sydd o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau.

**54 Gwasanaethau cyn gwneud cais: cofnodion a datganiad o wasanaethau [j414]**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol—

(a) cadw cofnodion o archiadau am wasanaethau cyn gwneud cais;

(b) cadw cofnodion o wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir;

(c) llunio a chyhoeddi neu roi ar gael fel arall ddatganiad sy'n rhoi gwybodaeth am yr ystod o wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru.

(2) Caiff y rheoliadau, yn benodol, wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys y cofnodion sydd i'w cadw;

(b) sut y mae'r cofnodion i'w cadw;

(c) ffurf a chynnwys y datganiad;

(d) cyhoeddi'r datganiad a'r personau y mae rhaid ei roi ar gael iddynt, a'r amgylchiadau y mae rhaid ei roi ar gael odanynt.

## PENNOD 5

GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO A CHYMERADWYAETHAU CYSYLLTIEDIG

*Gofynion ar gyfer ceisiadau i awdurdodau cynllunio*

**55 Cais am ganiatâd cynllunio i gael ei wneud i awdurdod cynllunio [j491]**

(1) Rhaid gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir i'r awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal.

(2) Ond mae hyn yn ddarostyngedig i—

(a) adran 78[j429] (opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru) ac adran 80[j431] (ceisiadau cysylltiedig);

(b) rheoliadau o dan adran 84[j496] (ceisiadau gan y Goron);

(c) adran 85[j497] (datblygiad brys y Goron);

(d) rheoliadau o dan adran 86[j498] (cyfuno ceisiadau am ganiatâd cynllunio â cheisiadau eraill);

(e) rheoliadau o dan adran 405 (datblygiad gan awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru a thir sy'n perthyn iddynt).

**56 Cais am ganiatâd cynllunio, cymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl etc.: gofynion cyffredinol [j415a]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i geisiadau i awdurdodau cynllunio am—

(a) caniatâd cynllunio;

(b) cymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl;

(c) unrhyw gydsyniad arall, unrhyw gytundeb arall neu unrhyw gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol gan amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch ceisiadau y mae'r adran hon yn gymwys iddynt.

(3) Caiff y ddarpariaeth honno gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys cais;

(b) sut y mae rhaid gwneud cais;

(c) dogfennau neu ddeunyddiau eraill sydd i'w cynnwys gyda chais.

(4) Caiff awdurdod cynllunio ei gwneud yn ofynnol i gais gynnwys—

(a) unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol;

(b) unrhyw dystiolaeth i ategu unrhyw beth yn y cais neu unrhyw beth sy'n ymwneud â'r cais, y mae'n ystyried ei bod yn angenrheidiol.

(5) O ran gofyniad a osodir o dan is-adran (4)—

(a) ni chaiff fod yn anghyson â darpariaeth a wneir o dan is-adran (3);

(b) rhaid iddo fod yn rhesymol gan roi sylw, yn benodol, i natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig;

(c) ni chaiff ond gwneud gwybodaeth neu dystiolaeth am fater yn ofynnol os yw'n rhesymol credu y bydd y mater yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu'r cais.

**57 Cais am ganiatâd cynllunio: datganiad dylunio a mynediad ac adroddiad ymgynghoriad cyn gwneud cais [j415b]**

(1) Rhaid i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i berson sy’n gwneud cais am ganiatâd cynllunio o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau gynnwys gyda’r cais ddatganiad ynghylch y naill neu’r llall o’r canlynol, neu’r ddau ohonynt (fel y’i pennir yn y rheoliadau)—

(a) yr egwyddorion dylunio sydd wedi eu cymhwyso i’r datblygiad;

(b) sut yr ymdriniwyd â materion sy’n ymwneud â mynediad i’r datblygiad.

(2) Rhaid i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i berson—

(a) yr oedd yn ofynnol iddo gan adran 52[j412] roi cyhoeddusrwydd i gais arfaethedig am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad ac ymgynghori arno, a

(b) sy’n gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad (pa un ai ar yr un telerau â’r datblygiad arfaethedig ai peidio),

gynnwys adroddiad ymgynghoriad cyn gwneud cais gyda’r cais.

(3) Adroddiad yw adroddiad ymgynghoriad cyn gwneud cais sy’n rhoi manylion ynghylch—

(a) sut y cydymffurfiodd y ceisydd ag adran 52[j412];

(b) ymatebion i’r ymgynghoriad a ddaeth i law oddi wrth bersonau a grybwyllir yn is-adran (3)[j412] neu (5)[j412] o’r adran honno;

(c) yr ystyriaeth a roddwyd i’r ymatebion hynny.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys—

(a) datganiad sy’n ofynnol o dan is-adran (1);

(b) adroddiad ymgynghoriad cyn gwneud cais.

**58 Hysbysiad o gais am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl [j436]**

(1) Rhaid i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i geisydd am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl roi hysbysiad o’r cais i bob person (heblaw y ceisydd) sydd ar ddyddiad a bennir yn y rheoliadau—

(a) yn berchennog ar unrhyw dir y mae’r cais yn ymwneud ag ef, neu

(b) yn denant amaethyddol ar unrhyw ran o’r tir.

(2) Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i’r ceisydd wneud declarasiwn y cydymffurfiwyd ag unrhyw ofynion yn y rheoliadau.

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys hysbysiad neu ddeclarasiwn;

(b) sut y mae rhaid rhoi hysbysiad neu ddeclarasiwn (a gaiff gynnwys darpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi hysbysiad).

(4) Mae’n drosedd i berson gan ymhonni ei fod yn cydymffurfio â gofyniad a osodir o dan yr adran hon—

(a) gwneud declarasiwn y mae’r person yn gwybod ei fod yn anwir neu’n gamarweiniol mewn modd perthnasol, neu

(b) yn ddi-hid, wneud declarasiwn sy’n anwir neu’n gamarweiniol mewn modd perthnasol.

(5) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (4) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

(6) Er gwaethaf adran 127 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p. 43), caiff llys ynadon brofi hysbysiaeth mewn cysylltiad â throsedd o dan is-adran (4) pa bryd bynnag y caiff ei chyflwyno.

(7) Yn yr adran hon—

ystyr "perchennog" ("*owner*"), mewn perthynas â thir, yw—

(a) perchennog ar yr ystad rydd-ddaliadol,

(b) tenant o dan les a roddir neu a estynnir am gyfnod penodol sydd ag o leiaf 7 mlynedd yn weddill, neu

(c) yn achos cais o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau, berson sydd â hawlogaeth i fuddiant mewn unrhyw fwyn a bennir yn y rheoliadau;

ystyr "tenant amaethyddol" ("*agricultural tenant*"), mewn perthynas â thir, yw—

(a) tenant, o dan denantiaeth y mae Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (p. 5) yn gymwys iddi, ar ddaliad amaethyddol (o fewn ystyr y Ddeddf honno) y mae unrhyw ran ohono wedi ei gynnwys yn y tir hwnnw, neu

(b) tenant, o dan denantiaeth busnes fferm o fewn ystyr Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (p. 8), ar dir y mae unrhyw ran ohono wedi ei gynnwys yn y tir hwnnw.

*Methiant i gydymffurfio â gofynion ar gyfer ceisiadau*

### 59 Awdurdod cynllunio i beidio ag ystyried cais annilys [j436a]

(1) Ni chaiff awdurdod cynllunio ystyried—

(a) cais a wneir iddo am ganiatâd cynllunio os na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o ofynion a osodir gan reoliadau o dan adran 56[j415a], 57[j415b] neu 58[j436];

(b) cais a wneir iddo am gymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl os na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion a osodir gan reoliadau o dan adran 56[j415a] neu 58[j436];

(c) cais a wneir iddo am unrhyw gydsyniad arall, unrhyw gytundeb arall neu unrhyw gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol gan amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo os na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o ofynion perthnasol.

(2) Yn is-adran (1)(c) ystyr "gofyniad perthnasol" yw—

(a) gofyniad a osodir gan reoliadau o dan adran 56[j415a], neu

(b) gofyniad a osodir gan orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol mewn perthynas ag—

(i) ffurf neu gynnwys cais neu sut y mae rhaid ei wneud, neu

(ii) ffurf neu gynnwys unrhyw ddogfennau neu ddeunyddiau eraill sydd i'w cynnwys gyda chais.

### 60 Awdurdod cynllunio i roi hysbysiad nad yw cais yn ddilys [j416]

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan wneir cais i awdurdod cynllunio am—

(a) caniatâd cynllunio,

(b) cymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl, neu

(c) unrhyw gydsyniad arall, unrhyw gytundeb arall neu unrhyw gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol gan amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo.

(2) Rhaid i'r awdurdod cynllunio roi hysbysiad i'r ceisydd os yw'n ystyried—

(a) na chaiff ystyried y cais am na chydymffurfiwyd â gofyniad a grybwyllir yn adran 59[j436a], neu

(b) nad yw cyfnod a bennir o dan adran 63(2)(f)[j441] neu 73(4)[j452] yn dechrau mewn perthynas â'r cais am na chydymffurfiwyd â gofyniad a osodwyd gan yr awdurdod o dan adran 56(4)[j415a].

(3) Yn achos cais am gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth a grybwyllir yn is-adran (1)(b) neu (c), rhaid i'r awdurdod cynllunio hefyd roi hysbysiad i'r ceisydd os yw'n ystyried nad yw'r cais yn cydymffurfio ag un o delerau'r caniatâd cynllunio sy'n gosod gofyniad mewn perthynas â—

(a) ffurf neu gynnwys y cais neu sut y mae rhaid ei wneud, neu

(b) ffurf neu gynnwys unrhyw ddogfennau neu unrhyw ddeunyddiau eraill sydd i'w cynnwys gyda'r cais.

(4) Rhaid i hysbysiad o dan yr adran hon—

(a) enwi'r gofyniad y mae'n ymwneud ag ef, a

(b) nodi rhesymau'r awdurdod cynllunio dros ystyried na chydymffurfiwyd â'r gofyniad.

(5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch rhoi hysbysiad o dan yr adran hon (gan gynnwys darpariaeth ynghylch gwybodaeth sydd i'w chynnwys mewn hysbysiad a sut a phryd y mae rhaid ei roi).

**61 Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad o annilysrwydd [j417]**

(1) Os yw awdurdod cynllunio yn rhoi hysbysiad i geisydd o dan adran 60[j416], caiff y ceisydd apelio i Weinidogion Cymru.

(2) Caniateir gwneud apêl ar y naill neu'r llall o'r seiliau a ganlyn, neu'r ddau ohonynt—

(a) bod y cais yn cydymffurfio â'r gofyniad a enwir yn yr hysbysiad;

(b) nad yw'r cais yn gais y mae'r gofyniad yn gymwys iddo.

(3) Yn achos hysbysiad a roddir o dan adran 60(2)[j416] mewn perthynas â gofyniad a osodir o dan adran 56(4)[j415a], caniateir hefyd wneud apêl ar y naill neu'r llall o'r seiliau a ganlyn, neu'r ddau ohonynt—

(a) bod y cyfnod a bennir o dan adran 63(2)(f)[j441] neu 73(4)[j452] yn dechrau mewn perthynas â'r cais ni waeth pa un a gydymffurfir â'r gofyniad ai peidio;

(b) nad yw'r gofyniad yn cydymffurfio ag adran 56(5)[j415a].

(4) Rhaid gwneud apêl drwy gyflwyno hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru.

(5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys hysbysiad o apêl;

(b) gwybodaeth y mae rhaid ei chynnwys gyda hysbysiad o apêl;

(c) y ffordd y mae rhaid cyflwyno hysbysiad o apêl, a'r cyfnod y mae rhaid cyflwyno hysbysiad o apêl ynddo (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i estyn y cyfnod).

### 62 Penderfynu apêl yn erbyn hysbysiad [j417a]

(1) Ar apêl o dan adran 61[j417], rhaid i Weinidogion Cymru naill ai—

(a) gwrthod yr apêl, neu

(b) diddymu neu amrywio'r hysbysiad y mae'n ymwneud ag ef.

(2) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar yr apêl yn derfynol.

(3) Mae'r apêl i'w phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig.

(4) Mae'r apêl i'w phenderfynu gan arolygydd oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo ei bod i'w phenderfynu ganddynt hwy.

(5) Pan fo arolygydd yn penderfynu apêl, mae penderfyniad yr arolygydd i'w drin fel pe bai'n benderfyniad gan Weinidogion Cymru.

(6) Mae Atodlen 2[J417S] yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch penderfynu apelau o dan yr adran hon gan arolygwyr.

## PENNOD 6

## YMDRIN Â CHEISIADAU

*Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau*

### 63 Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau: cyffredinol [j441]

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae awdurdodau cynllunio i ymdrin â cheisiadau am—

(a) caniatâd cynllunio;

(b) cymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl;

(c) unrhyw gydsyniad arall, unrhyw gytundeb arall neu unrhyw gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol gan amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo.

(2) Caiff y rheoliadau, yn benodol, wneud darpariaeth—

(a) sy'n gosod gofynion sy'n ymwneud â chyhoeddusrwydd ar gyfer ceisiadau;

(b) sy'n gosod gofynion ar gyfer hysbysu neu ymgynghori mewn perthynas â cheisiadau (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod cynllunio i hysbysu personau a bennir yn y cyfarwyddyd neu i ymgynghori â hwy);

(c) sy'n ei gwneud yn ofynnol na chaiff awdurdod benderfynu apêl cyn diwedd cyfnod a bennir yn y rheoliadau;

(d) sy'n pennu sylwadau y mae rhaid i awdurdod eu hystyried wrth benderfynu cais;

(e) sy'n ymwneud ag amrywio ceisiadau;

(f) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod roi hysbysiad i geisydd, o fewn cyfnod a bennir yn y rheoliadau, o sut yr ymdriniwyd â chais (gan gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys hysbysiad a sut y mae rhaid ei roi);

(g) sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybodaeth i Weinidogion Cymru neu unrhyw berson arall ynghylch sut yr ymdriniwyd â chais (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod cynllunio i roi gwybodaeth i berson).

(3) Caiff rheoliadau alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd sy'n cyfyngu ar ganiatáu ceisiadau am ganiatâd cynllunio gan awdurdod cynllunio—

(a) ar gyfer datblygiad a bennir yn y cyfarwyddyd neu o ddisgrifiad a bennir ynddo, a

(b) am gyfnod amhenodol neu am gyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd.

**64 Gofyniad i ymateb i ymgynghoriad [j495]**

(1) Pan fo awdurdod cynllunio yn ymgynghori â pherson sy'n arfer swyddogaethau at ddibenion unrhyw ddeddfiad a phan fodlonir y naill neu'r llall o'r amodau a ganlyn neu'r ddau ohonynt, rhaid i'r person roi ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad.

(2) Yr amod cyntaf yw bod yr ymgynghoriad yn ofynnol gan reoliadau o dan adran 63[j441].

(3) Yr ail amod yw—

(a) bod yr ymgynghoriad yn ymwneud â chais a wneir i'r awdurdod cynllunio am—

(i) cymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl, neu

(ii) unrhyw gydsyniad arall, unrhyw gytundeb arall neu unrhyw gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol gan amod y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo ar gais a wnaed i'r awdurdod o dan y Rhan hon, a

(b) yr oedd rheoliadau o dan adran 63[j441] yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio ymgynghori â'r person cyn penderfynu'r cais am y caniatâd cynllunio.

(4) Rhaid rhoi'r ymateb o sylwedd cyn diwedd—

(a) y cyfnod a bennir mewn rheoliadau, neu

(b) unrhyw gyfnod arall y cytunir arno yn ysgrifenedig rhwng y person yr ymgynghorir ag ef a'r awdurdod cynllunio.

(5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth—

(a) ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn at ddibenion yr adran hon;

(b) ynghylch gofynion ymateb o sylwedd;

(c) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson wneud adroddiad i Weinidogion Cymru ynghylch cydymffurfedd y person ag is-adrannau (1) a (4) (gan gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys yr adroddiad a phryd y mae rhaid ei wneud).

**65 Rhoi hysbysiad o geisiadau i gynghorau cymuned [j433]**

(1) Mae is-adran (3) yn gymwys os yw cyngor cymuned yn gwneud archiad ysgrifenedig i awdurdod cynllunio yn gofyn i gael ei hysbysu am—

(a) yr holl geisiadau cynllunio perthnasol, neu

(b) ceisiadau cynllunio perthnasol o ddisgrifiad a bennir yn yr archiad.

(2) Ystyr "cais cynllunio perthnasol" yw cais—

(a) sy'n gais am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl, a

(b) sy'n ymwneud â thir yn ardal y cyngor cymuned.

(3) Os gwneir cais cynllunio perthnasol sy'n dod o fewn telerau'r archiad i'r awdurdod cynllunio, rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad i'r cyngor cymuned—

(a) o'r cais, a

(b) o unrhyw amrywiad i'r cais a dderbynnir gan yr awdurdod, oni bai ei fod yn ystyried bod yr amrywiad yn ddibwys.

(4) Rhaid i awdurdod cynllunio gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi hysbysiad i gyngor cymuned o gais drwy anfon i'r cyngor—

(a) copi o'r cais, neu

(b) hysbysiad ysgrifenedig yn dangos natur y datblygiad sy'n destun y cais ac yn nodi'r tir y mae'n ymwneud ag ef.

(5) Rhaid i awdurdod cynllunio gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi hysbysiad i gyngor cymuned o amrywiad i gais drwy—

(a) anfon copi o'r amrywiad i'r cyngor, neu

(b) rhoi gwybod i'r cyngor yn ysgrifenedig am ei effaith gyffredinol.

(6) Caiff rheoliadau ddarparu, pan fo'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio roi hysbysiad i gyngor cymuned am gais perthnasol, fod rhaid i'r awdurdod—

(a) rhoi cyfle i'r cyngor i wneud sylwadau ynghylch sut y dylid penderfynu'r cais;

(b) ystyried sylwadau a wneir gan y cyngor;

(c) rhoi hysbysiad i'r cyngor o sut yr ymdriniwyd â'r cais.

*Penderfynu ceisiadau ac amodau caniatâd cynllunio*

**66 Ystyriaethau cyffredinol sy'n berthnasol i benderfynu ceisiadau [j438]**

(1) Wrth benderfynu cais am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl, rhaid i awdurdod cynllunio—

(a) rhoi sylw i'r cynllun datblygu ar gyfer ei ardal ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, a

(b) gwneud ei benderfyniad yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn dangos fel arall.

(2) Ni chaiff y ffaith bod person wedi ymrwymo i rwymedigaeth cynllunio neu ei fod yn cynnig gwneud hynny ond bod yn rheswm dros ganiatáu cais am ganiatâd cynllunio os yw'r rhwymedigaeth—

(a) yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r datblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef,

(b) yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio, ac

(c) yn gysylltiedig â'r datblygiad mewn modd teg a rhesymol o ran graddfa a math.

(3) Gweler hefyd—

(a) adran 404 (dyletswydd i roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu adeilad rhestredig, ei osodiad ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb arbennig);

(b) adran 160 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (dyletswydd i roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth).

**67 Rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio a gosod amodau [j445]**

(1) Wrth benderfynu cais am ganiatâd cynllunio, caiff awdurdod cynllunio—

(a) rhoi caniatâd yn ddarostyngedig i'r amodau sy'n ofynnol gan y Rhan hon ac unrhyw amodau eraill y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn briodol, neu

(b) gwrthod caniatâd.

(2) Mae'r amodau y caniateir eu gosod yn cynnwys (er enghraifft) amodau—

(a) sy'n rheoleiddio datblygiad unrhyw dir neu ddefnydd o unrhyw dir o dan reolaeth y ceisydd (pa un a yw'n dir y gwnaed y cais mewn cysylltiad ag ef ai peidio), neu

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal gwaith ar unrhyw dir o'r fath at ddibenion y datblygiad a awdurdodir gan y caniatâd cynllunio, neu mewn cysylltiad â'r datblygiad hwnnw.

(3) Mae'r amodau y caniateir eu gosod hefyd y cynnwys amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol—

(a) symud ymaith adeiladau neu waith a awdurdodir gan y caniatâd cynllunio, neu ddatbarhau defnydd o dir a awdurdodir gan y caniatâd, ar ddiwedd cyfnod penodedig, a

(b) cynnal unrhyw waith sy'n ofynnol i adfer tir ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

(4) Yn y Ddeddf hon ystyr "caniatâd cynllunio a roddir am gyfnod cyfyngedig" yw caniatâd cynllunio a roddir yn ddarostyngedig i amod a grybwyllir yn is-adran (3).

(5) Yn is-adran (3)(a) nid yw'r cyfeiriad at ddefnydd o dir yn cynnwys defnydd ar gyfer cynnal gweithrediadau ar y tir heblaw gweithrediadau mwyngloddio.

(6) Mae Atodlen 3[J445S] yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch amodau y caniateir eu gosod ar roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n weithrediadau mwyngloddio neu sy'n cynnwys dyddodi gwastraff.

(7) Gweler hefyd—

(a) Pennod 9 am ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau sy'n ymwneud â hyd a gweithrediad y caniatâd;

(b) adran 233 am ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio osod amodau priodol sy'n ymwneud â chadw neu blannu coed.

**68 Penderfynu ceisiadau i ddatblygu heb gydymffurfedd ag amodau blaenorol [j446]**

(1) Wrth benderfynu cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir heb gydymffurfio ag amodau y rhoddwyd caniatâd cynllunio blaenorol yn ddarostyngedig iddynt, ni chaiff awdurdod cynllunio ond ystyried y cwestiwn o'r amodau y dylid rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddynt.

(2) Os yw'r awdurdod yn penderfynu y dylid rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau sy'n wahanol i'r rheini y rhoddwyd y caniatâd blaenorol yn ddarostyngedig iddynt, rhaid iddo roi caniatâd cynllunio yn unol â hynny.

(3) Os yw'r awdurdod yn penderfynu y dylid rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i'r un amodau â'r rheini y rhoddwyd y caniatâd blaenorol yn ddarostyngedig iddynt, rhaid iddo wrthod y cais.

(4) Nid yw'r adran hon yn gymwys—

(a) os rhoddwyd y caniatâd cynllunio blaenorol yn ddarostyngedig i amod a oedd yn pennu'r cyfnod yr oedd rhaid i'r datblygiad yr oedd yn ymwneud ag ef ddechrau ynddo, a

(b) os yw'r cyfnod hwnnw wedi dod i ben heb i'r datblygiad fod wedi dechrau.

(5) Yn is-adran (4) mae i gyfeiriadau at ddatblygiad yn dechrau yr un ystyr ag ym Mhennod 9 (gweler adran 99[j402]).

**69 Hysbysiadau penderfynu [j442]**

(1) Yn yr adran hon ystyr "hysbysiad penderfynu" yw hysbysiad o benderfyniad o ran pa un ai i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad ar gais o dan y Rhan hon.

(2) Pan fo'r penderfyniad yn benderfyniad i roi caniatâd cynllunio, rhaid i'r hysbysiad penderfynu bennu planiau neu ddogfennau eraill y mae rhaid cynnal y datblygiad yn unol â hwy.

(3) Mae'r caniatâd cynllunio i'w drin fel pe bai wedi ei roi yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid cynnal y datblygiad yn unol â'r planiau hynny neu'r dogfennau eraill hynny.

(4) Nid yw is-adrannau (2) a (3) yn gymwys pan roddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a gynhaliwyd cyn i'r caniatâd gael ei roi.

(5) Pan, ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei roi ar gyfer datblygiad—

(a) bo awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru yn cymeradwyo mater a gadwyd yn ôl neu'n rhoi unrhyw gydsyniad arall, unrhyw gytundeb arall neu unrhyw gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol gan amod y rhoddwyd y caniatâd yn ddarostyngedig iddo, neu

(b) bo awdurdod cynllunio yn gosod, yn dileu neu'n amrywio amod mewn caniatâd o dan adran 100[j464] (pŵer i wneud newid ansylweddol i ganiatâd cynllunio),

rhaid i'r awdurdod cynllunio anfon hysbysiad penderfynu diwygiedig at y personau a bennir mewn rheoliadau.

(6) Caiff rheoliadau bennu gwybodaeth y mae rhaid i'r hysbysiad penderfynu diwygiedig ei chynnwys sy'n ymwneud ag—

(a) rhoi'r cydsyniad, y cytundeb neu'r gymeradwyaeth, neu

(b) gosod, dileu neu amrywio'r amod.

*Achosion pan na fo awdurdodau cynllunio yn ymdrin â cheisiadau a wneir iddynt*

**70 Pŵer i wrthod ystyried ceisiadau tebyg [j439]**

(1) Caiff awdurdod cynllunio wrthod ystyried cais am ganiatâd cynllunio os bodlonir yr amodau a ganlyn.

(2) Yr amod cyntaf yw, yn y 2 flynedd sy'n dod i ben â'r diwrnod y daw'r cais i law yr awdurdod, fod Gweinidogion Cymru wedi—

(a) gwrthod cais tebyg am ganiatâd cynllunio a atgyfeiriwyd atynt o dan adran 72[j451], neu

(b) gwrthod apêl yn erbyn gwrthodiad cais tebyg am ganiatâd cynllunio neu apêl o dan adran 73(3)[j452] sy'n ymwneud â chais tebyg.

(3) Yr ail amod yw bod yr awdurdod cynllunio yn ystyried na fu unrhyw newid sylweddol yn y cynllun datblygu ar gyfer ei ardal ers y gwrthodiad, i'r graddau y bo'n berthnasol i'r cais, nac mewn unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

(4) At ddibenion yr adran hon mae cais yn debyg i gais arall os (a dim ond os) yw'r awdurdod cynllunio yn ystyried bod y datblygiad a'r tir y mae'r ceisiadau'n ymwneud â hwy yr un fath neu'n sylweddol yr un fath.

**71 Pŵer i wrthod ystyried cais a wneir ar ôl dyroddi hysbysiad gorfodi [j440]**

Caiff awdurdod cynllunio wrthod ystyried cais am ganiatâd cynllunio—

(a) pe bai caniatáu'r cais yn golygu rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer materion y mae hysbysiad gorfodi yn pennu eu bod yn torri rheolaeth gynllunio, a

(b) os dyroddwyd yr hysbysiad gorfodi cyn i'r cais ddod i law yr awdurdod.

**72 Atgyfeirio cais at Weinidogion Cymru [j451]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i geisiadau a wneir i awdurdodau cynllunio am—

(a) caniatâd cynllunio,

(b) cymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl, neu

(c) unrhyw gymeradwyaeth sy'n ofynnol o dan orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol.

(2) Rhaid i awdurdod cynllunio atgyfeirio cais at Weinidogion Cymru yn hytrach nag ymdrin â'r cais ei hun—

(a) os yw'r cais o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau, neu

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r awdurdod i atgyfeirio'r cais iddynt hwy i'w benderfynu.

(3) Caiff cyfarwyddyd ymwneud ag—

(a) cais penodol, neu

(b) ceisiadau o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

(4) Caiff rheoliadau—

(a) gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi i geisydd, o fewn cyfnod a bennir yn y rheoliadau, hysbysiad bod cais wedi ei atgyfeirio atynt hwy o dan yr adran hon (gan gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys hysbysiad a sut y mae rhaid ei roi);

(b) darparu bod gofyniad a osodir o dan adran 58[j436] neu 63[j441] (hysbysiad o gais ac ymdrin â chais) yn gymwys, gydag addasiadau neu hebddynt, mewn perthynas â chais a atgyfeirir at Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

(5) Mae adrannau 64[j495] a 66[j438] i 69[j442] ac Atodlen 3[J445S] yn gymwys, gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, mewn perthynas â chais a atgyfeirir at Weinidogion Cymru o dan yr adran hon fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chais a benderfynir gan awdurdod cynllunio.

(6) Mae Pennod [2] o Ran [14] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried cais a atgyfeirir at Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

(7) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar gais yn derfynol.

*Apelau i Weinidogion Cymru*

**73 Yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio neu fethiant awdurdod cynllunio i wneud penderfyniad [j452]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo cais wedi ei wneud i awdurdod cynllunio am—

(a) caniatâd cynllunio,

(b) cymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl,

(c) unrhyw gydsyniad arall, unrhyw gytundeb arall neu unrhyw gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol gan amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo.

(2) Caiff y ceisydd apelio i Weinidogion Cymru os yw'r awdurdod cynllunio—

(a) yn gwrthod y cais, neu

(b) yn caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i amodau.

(3) Caiff y ceisydd hefyd apelio i Weinidogion Cymru os nad yw'r awdurdod cynllunio wedi gwneud yr un o'r canlynol erbyn diwedd y cyfnod penderfynu—

(a) rhoi hysbysiad i'r ceisydd o'i benderfyniad ar y cais,

(b) rhoi hysbysiad i'r ceisydd ei fod wedi arfer ei bŵer o dan adran 70[j439] neu 71[j440] i wrthod ystyried y cais, neu

(c) rhoi hysbysiad i'r ceisydd ei fod wedi atgyfeirio'r cais at Weinidogion Cymru o dan adran 72[j451].

(4) Yn is-adran (3) ystyr "y cyfnod penderfynu" yw—

(a) y cyfnod a bennir mewn rheoliadau, neu

(b) cyfnod hwy y cytunir arno yn ysgrifenedig rhwng y ceisydd a'r awdurdod cynllunio.

(5) Ni chaniateir gwneud na pharhau apêl o dan yr adran hon yn erbyn gwrthodiad cais am ganiatâd cynllunio—

(a) pe bai caniatáu'r cais yn golygu rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer materion y mae hysbysiad gorfodi yn pennu eu bod yn torri rheolaeth gynllunio, a

(b) wrth benderfynu apêl yn erbyn yr hysbysiad hwnnw o dan adran 131, na roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y materion hynny o dan adran 133.

(6) Ni chaniateir gwneud na pharhau apêl o dan yr adran hon yn erbyn amod y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo—

(a) os dygwyd apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi o dan adran 131 ar y sail y dylid dileu'r amod, a

(b) wrth benderfynu'r apêl hwnnw, na ddilëwyd yr amod o dan adran 133.

**74 Y weithdrefn ar gyfer gwneud apêl [j452a]**

(1) Rhaid gwneud apêl o dan adran 73[j452] drwy gyflwyno hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf hysbysiad o apêl;

(b) gwybodaeth y mae rhaid ei chynnwys gyda hysbysiad o apêl;

(c) y ffordd y mae rhaid cyflwyno hysbysiad o apêl, a'r cyfnod y mae rhaid cyflwyno hysbysiad o apêl ynddo (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i estyn y cyfnod).

(3) Rhaid i'r cyfnod a bennir gan reoliadau o dan is-adran (2)(c) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth—

(a) yn achos apêl o dan is-adran (2)[j452] o adran 73[j452], y diwrnod y daw hysbysiad o'r penderfyniad i law y ceisydd;

(b) yn achos apêl o dan is-adran (3)[j452] o'r adran honno, diwedd y cyfnod penderfynu (sydd â'r un ystyr ag yn yr is-adran honno).

**75 Cyfyngiad ar amrywio cais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl [j452b]**

(1) Unwaith y bydd hysbysiad o apêl o dan adran 73[j452] wedi ei gyflwyno, ni chaniateir amrywio'r cais y mae'r apêl yn ymwneud ag ef ac eithrio o dan amgylchiadau a bennir mewn rheoliadau.

(2) Pan fo cais yn cael ei amrywio o dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod rhaid ymgynghori ymhellach mewn perthynas â'r cais.

**76 Penderfyniad ar gais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl [j453]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw person sydd wedi gwneud cais i awdurdod cynllunio am ganiatâd cynllunio yn apelio i Weinidogion Cymru o dan adran 73(3)[j452] (methiant i roi hysbysiad o benderfyniad).

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru benderfynu'r apêl cyn diwedd y cyfnod a bennir mewn rheoliadau ac sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad o apêl.

(3) Caiff yr awdurdod cynllunio roi hysbysiad o'i benderfyniad ar y cais y mae'r apêl yn ymwneud ag ef ar unrhyw adeg cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(4) Os yw'r awdurdod yn rhoi hysbysiad yn unol ag is-adran (3) mai gwrthod y cais yw ei benderfyniad—

(a) rhaid trin yr apêl fel apêl o dan adran 73(2)[j452] yn erbyn y gwrthodiad, a

(b) rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle i'r apelydd i ddiwygio'r seiliau dros yr apêl.

(5) Os yw'r awdurdod cynllunio'n rhoi hysbysiad yn unol ag is-adran (3) mai caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i amodau yw ei benderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle i'r apelydd—

(a) i fwrw ymlaen â'r apêl fel apêl o dan adran 73(2)[j452] yn erbyn yr amodau, a

(b) i ddiwygio'r seiliau dros yr apêl.

**77 Penderfynu apêl [j454]**

(1) Ar apêl o dan adran 73[j452] caiff Gweinidogion Cymru—

(a) caniatáu neu wrthod yr apêl, neu

(b) gwrthdroi neu amrywio unrhyw ran o benderfyniad yr awdurdod cynllunio ar y cais y mae'r apêl yn ymwneud ag ef (pa un a yw'r apêl yn ymwneud â'r rhan honno ai peidio),

a chânt ymdrin â'r cais fel pe bai wedi ei wneud iddynt hwy.

(2) Pan wnaed yr apêl o dan adran 73(3)[j452] (methiant i roi hysbysiad o benderfyniad) ac nad yw'r awdurdod cynllunio wedi rhoi hysbysiad o dan adran 76(3)[j453], mae i'w thybio at ddibenion is-adran (1) i'r awdurdod benderfynu gwrthod y cais.

(3) Ar apêl o dan adran 73[j452] caiff Gweinidogion Cymru benderfynu a yw gofyniad a osodir o dan adran 56(4)[j415a] mewn perthynas â'r cais yn cydymffurfio ag adran 56(5)[j415a], oni bai eu bod wedi penderfynu'r cwestiwn hwnnw yn flaenorol ar apêl o dan adran 61[j417].

(4) Caiff rheoliadau ddarparu bod gofyniad a osodir o dan adran 58[j436] neu 63[j441] yn gymwys, gydag addasiadau neu hebddynt, mewn perthynas ag apêl o dan adran 73[j452].

(5) Mae adrannau 66[j438] i 68[j446] ac Atodlen 3[J445S] yn gymwys, gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, mewn perthynas ag apêl o dan adran 73[j452] fel yr oeddent yn gymwys mewn perthynas â'r cais y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

(6) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar apêl yn derfynol.

(7) Os yw Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg cyn neu yn ystod penderfynu apêl, yn ystyried bod yr apelydd yn gyfrifol am oedi gormodol yng nghynnydd yr apêl—

(a) cânt roi hysbysiad i'r apelydd y bydd yr apêl yn cael ei gwrthod oni bai, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, fod yr apelydd yn cymryd camau a bennir yn yr hysbysiad i gyflymu'r apêl, a

(b) os yw'r apelydd yn methu â chymryd y camau hynny o fewn y cyfnod hwnnw, cânt wrthod yr apêl.

(8) Mae Pennod [2] o Ran [14] yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried apelau o dan adran 73[j452] (gan gynnwys darpariaeth iddynt gael eu penderfynu gan arolygwyr).

## PENNOD 7

## CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO A CHYMERADWYAETHAU CYSYLLTIEDIG: ACHOSION ARBENNIG

*Ceisiadau dewisol i Weinidogion Cymru*

### 78 Opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru [j429]

(1) Os yw'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni, caniateir gwneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl (os yw'r ceisydd yn dewis gwneud hynny) yn hytrach nag i awdurdod cynllunio.

(2) Yr amod cyntaf yw bod yr awdurdod cynllunio wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru at ddibenion yr adran hon.

(3) Yr ail amod yw bod—

(a) y datblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef, yn achos cais am ganiatâd cynllunio, neu

(b) y datblygiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar ei gyfer, yn achos cais am gymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl,

yn ddatblygiad o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau.

(4) Y trydydd amod yw, yn achos cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir heb gydymffurfio ag amodau y rhoddwyd caniatâd cynllunio blaenorol yn ddarostyngedig iddynt, fod y cais o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau.

### 79 Dynodi awdurdod cynllunio at ddibenion adran 78 [j430]

(1) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi awdurdod cynllunio at ddibenion adran 78[j429] yn arferadwy drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu dynodiad awdurdod cynllunio drwy roi hysbysiad ysgrifenedig pellach i'r awdurdod.

(3) Wrth benderfynu pa un ai i wneud neu ddirymu dynodiad, ni chaiff Gweinidogion Cymru ond cymhwyso meini prawf y mae'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni mewn perthynas â hwy.

(4) Yr amod cyntaf yw bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phob awdurdod cynllunio ynghylch y meini prawf.

(5) Yr ail amod yw bod y meini prawf wedi eu nodi mewn dogfen y mae Gweinidogion Cymru wedi ei gosod gerbron Senedd Cymru.

(6) Y trydydd amod yw bod y cyfnod o 21 o ddiwrnodau wedi dod i ben heb i Senedd Cymru fod wedi penderfynu yn ystod y cyfnod hwnnw nad yw'n cymeradwyo'r ddogfen.

(7) Y pedwerydd amod yw bod Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi'r ddogfen (pa un ai cyn, yn ystod neu ar ôl y cyfnod o 21 o ddiwrnodau).

(8) Yn yr adran hon ystyr "y cyfnod o 21 o ddiwrnodau" yw'r 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y gosodir y ddogfen gerbron Senedd Cymru o dan is-adran (5), heb gyfrif unrhyw adeg pan fydd y Senedd wedi ei diddymu neu pan fo toriad o fwy na 4 diwrnod.

(9) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi copi o hysbysiad a roddir i awdurdod cynllunio o dan yr adran hon.

**80 Opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru: ceisiadau cysylltiedig [j431]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan wneir cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl ("y prif gais") o dan adran 78[j429].

(2) Caniateir gwneud cais cysylltiedig, y byddai rhaid ei wneud fel arall i awdurdod cynllunio , i Weinidogion Cymru yn lle hynny (os yw'r ceisydd yn dewis gwneud hynny), ond dim ond os y'i gwneir ar yr un diwrnod â'r prif gais.

(3) Ystyr "cais cysylltiedig" yw cais o dan Ddeddfau cynllunio Cymru—

(a) sydd o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau, a

(b) y mae'r person sy'n ei wneud yn ystyried ei fod yn gysylltiedig â'r prif gais.

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys os gwneir cais i Weinidogion Cymru ar y sail ei fod yn gais cysylltiedig ond bod Gweinidogion Cymru yn ystyried—

(a) nad yw'r cais yn gysylltiedig â'r prif gais, neu

(b) er bod y cais yn gysylltiedig â'r prif gais, na ddylai'r penderfyniad ar y cais gael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru atgyfeirio'r cais i'r awdurdod cynllunio y byddai'r cais wedi ei wneud iddo fel arall.

(6) Mae cais sydd wedi ei atgyfeirio i awdurdod cynllunio o dan is-adran (5)—

(a) i'w drin fel pe bai wedi ei wneud i'r awdurdod hwnnw (yn hytrach nag i Weinidogion Cymru) ar y diwrnod y'i atgyfeiriwyd, a

(b) i'w benderfynu gan yr awdurdod yn unol â hynny.

(7) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch atgyfeirio ceisiadau o dan is-adran (5) (gan gynnwys darpariaeth ynghylch yr hyn y mae atgyfeirio cais yn ei olygu at ddibenion is-adran (6)).

**81 Pwerau i osod gofynion mewn perthynas â cheisiadau i Weinidogion Cymru [j432]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod cynllunio i wneud pethau mewn perthynas â chais a wneir i Weinidogion Cymru o dan adran 78[j429] neu 80[j431] gais a fyddai wedi ei wneud i'r awdurdod fel arall.

(2) Caiff cyfarwyddyd ymwneud ag—

(a) cais penodol,

(b) ceisiadau o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd, neu

(c) ceisiadau yn gyffredinol.

(3) Caiff rheoliadau ddarparu, o ran deddfiad sy'n gymwys i gais i awdurdod cynllunio o dan Ddeddfau cynllunio Cymru—

(a) ei fod i fod yn gymwys, gydag addasiadau neu hebddynt, neu

(b) nad yw i fod yn gymwys,

i gais o'r math hwnnw pan y'i gwneir i Weinidogion Cymru o dan adran 78[j429] neu 80[j431].

**82 Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau cynllunio a wneir i Weinidogion Cymru [j434]**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae Gweinidogion Cymru i ymdrin ag—

(a) ceisiadau am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl a wneir iddynt o dan adran 78[j429] neu 80[j431], neu

(b) ceisiadau am unrhyw gydsyniad arall, unrhyw gytundeb arall neu unrhyw gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol gan amod neu gyfyngiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo, a wneir iddynt o dan adran 80[j431].

(2) Caiff y ddarpariaeth honno gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) rhoi cyhoeddusrwydd, hysbysu neu ymgyngoriadau sydd i'w cynnal mewn perthynas â cheisiadau;

(b) amrywio ceisiadau;

(c) yr hysbysiad sydd i'w roi o sut yr ymdriniwyd â chais.

(3) Os yw cais am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl—

(a) yn dod o fewn telerau archiad a wnaed gan gyngor cymuned i awdurdod cynllunio o dan adran 65(1)[j433] (rhoi hysbysiad o geisiadau i gynghorau cymuned), a

(b) yn cael ei wneud i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i'r awdurdod cynllunio o dan adran 78[j429] neu 80[j431],

rhaid i Weinidogion Cymru (yn hytrach na'r awdurdod cynllunio) roi hysbysiad i'r cyngor cymuned o'r cais yn unol ag adran 65(4)[j433].

(4) Rhaid i'r awdurdod cynllunio gydymffurfio ag unrhyw archiad a wneir gan Weinidogion Cymru at ddibenion yr adran hon i roi gwybodaeth iddynt am archiadau a ddaw i law yr awdurdod o dan adran 65(1)[j433].

**83 Gwasanaethau cyn gwneud cais a phenderfynu ceisiadau: swyddogaethau arolygwyr [j434a]**

(1) Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan reoliadau a wneir o dan adran 53[j413] (gwasanaethau cyn gwneud cais) i'w harfer gan arolygydd mewn perthynas â chais y mae person yn cynnig ei wneud i Weinidogion Cymru o dan adran 78[j429] neu 80[j431].

(2) Mae cais a wneir i Weinidogion Cymru o dan adran 78[j429] neu 80[j431] i'w benderfynu gan arolygydd.

(3) Ond caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo—

(a) bod swyddogaethau mewn perthynas â chais y cynigir ei wneud o dan adran 78[j429] neu 80[j431] i'w harfer ganddynt hwy yn hytrach na chan arolygydd;

(b) bod cais a wneir o dan y naill neu'r llall o'r adrannau hynny i'w benderfynu ganddynt hwy yn hytrach na chan arolygydd.

(4) Pan fo arolygydd yn penderfynu cais, mae penderfyniad yr arolygydd i'w drin fel penderfyniad Gweinidogion Cymru.

(5) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar gais yn derfynol.

(6) Mae Atodlen 4[J434S] yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch arfer swyddogaethau gan arolygwyr mewn cysylltiad â cheisiadau a wneir neu y cynigir eu gwneud o dan adran 78[j429] neu 80[j431].

(7) Gweler Pennod [2] o Ran [14] am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried ceisiadau a wneir i Weinidogion Cymru o dan adrannau 78[j429] a 80[j431].

*Y Goron*

**84 Ceisiadau gan y Goron [j496]**

(1) Caiff rheoliadau ddarparu nad yw darpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon i fod yn gymwys, neu ei bod i fod yn gymwys gydag addasiadau, i gais a grybwyllir yn is-adran (2) a wneir gan neu ar ran y Goron.

(2) Y ceisiadau y cyfeirir atynt y is-adran (1) yw ceisiadau am—

(a) caniatâd cynllunio, neu

(b) cymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl.

**85 Ceisiadau sy'n ymwneud â datblygiad brys y Goron [j497]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i—

(a) cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir y Goron a wneir gan awdurdod priodol y Goron;

(b) cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad unrhyw dir arall a wneir gan neu ar ran y Goron, Dugiaeth Caerhirfryn neu Ddugiaeth Cernyw.

(2) Caniateir gwneud cais y mae'r adran hon yn gymwys iddo i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon os yw'r ceisydd yn ardystio—

(a) bod y datblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef o bwysigrwydd cenedlaethol, a

(b) ei bod yn angenrheidiol cynnal y datblygiad fel mater o frys.

(3) Cyn gwneud y cais, rhaid i'r ceisydd gyhoeddi hysbysiad mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn ardal leol y datblygiad arfaethedig—

(a) sy'n disgrifio'r datblygiad arfaethedig, a

(b) sy'n datgan ei fod yn cynnig gwneud y cais i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

(4) Pan wneir cais i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon—

(a) rhaid i'r ceisydd roi i Weinidogion Cymru ddatganiad o'i seiliau dros wneud y cais;

(b) caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd roi iddynt unrhyw wybodaeth bellach y maent yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i'w galluogi i benderfynu'r cais.

(5) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i ddogfen neu ddeunydd arall yn rhinwedd is-adran (4) ddod i law, rhaid i Weinidogion Cymru roi copi o'r ddogfen neu'r deunydd arall ar gael i'r cyhoedd edrych arni neu arno yn ardal leol y datblygiad arfaethedig.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol ag unrhyw ofynion a osodir gan reoliadau, gyhoeddi hysbysiad o’r cais ac o’r ffaith bod dogfennau a deunydd arall ar gael i edrych arnynt.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r personau a ganlyn ynghylch y cais—

(a) yr awdurdod cynllunio y mae’r datblygiad arfaethedig i’w gynnal yn ei ardal,

(b) unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig y mae’r datblygiad arfaethedig i’w gynnal yn ei ardal, ac

(c) unrhyw berson arall a bennir mewn rheoliadau.

(8) Caiff rheoliadau ddarparu bod gofyniad a osodir o dan adran 58[j436] neu 63[j441] yn gymwys, gydag addasiadau neu hebddynt, mewn perthynas â chais a wneir i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

(9) Mae Pennod [2] o Ran [14] yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried ceisiadau a wneir o dan yr adran hon.

(10) Nid yw is-adran (5) yn gymwys i’r graddau y mae dogfen neu ddeunydd arall yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd o dan adran 370 (cyfyngu mynediad at dystiolaeth ar sail diogelwch gwladol).

(11) Mae adrannau 66[j438] i 69[j442] ac Atodlen 3[J445S] yn gymwys, gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, mewn perthynas â chais a wneir o dan yr adran hon fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chais am ganiatâd cynllunio a wneir i awdurdod cynllunio.

(12) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar gais yn derfynol.

*Cyfuno ceisiadau*

**86 Cyfuno ceisiadau am ganiatâd cynllunio â cheisiadau eraill [j498]**

(1) Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer cyfuno mewn un cais—

(a) cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad, a

(b) unrhyw gais arall y mae deddfiad a bennir yn y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol ei wneud i awdurdod cynllunio neu awdurdod lleol arall mewn cysylltiad â’r un datblygiad.

(2) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys cais cyfunol;

(b) sut y mae rhaid gwneud cais o’r fath;

(c) yr awdurdod y mae rhaid ei wneud iddo.

(3) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r awdurdodau lleol neu’r cymdeithasau awdurdodau lleol y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(4) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd lle mae deddfiadau gwahanol yn gymwys.

(5) Pan wneir cais sy’n ofynnol gan ddeddfiad a bennir mewn rheoliadau o dan yr adran hon yn unol â’r rheoliadau, nid oes angen iddo gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth wahanol a wneir gan neu o dan y deddfiad hwnnw ynghylch ffurf a chynnwys cais na sut y mae rhaid ei wneud.

(6) Nid yw is-adran (5)—

(a) yn atal cais rhag cael ei wneud yn unol â'r deddfiad o dan sylw, na

(b) yn cyfyngu unrhyw bŵer sydd gan awdurdod lleol o dan y deddfiad hwnnw i wneud gwybodaeth bellach yn ofynnol am y materion y mae'r cais yn ymwneud â hwy.

(7) Ni chaiff awdurdod cynllunio ystyried cais cyfunol a wneir iddo yn rhinwedd rheoliadau o dan yr adran hon os na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion a osodir gan y rheoliadau.

(8) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at wneud cais (heblaw cais am ganiatâd cynllunio) yn cynnwys rhoi hysbysiad neu gyflwyno unrhyw ddogfen arall.

## PENNOD 8

## CANIATÂD CYNLLUNIO AR GYFER DATBLYGIAD AG AWDURDODIAD Y LLYWODRAETH

### 87 Awdurdodiad ar gyfer datblygiad gan awdurdodau lleol ac ymgymerwyr statudol [j457]

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdodiad adran o'r llywodraeth yn ofynnol yn rhinwedd deddfiad ar gyfer datblygiad sydd i'w gynnal yng Nghymru gan awdurdod lleol neu ymgymerwr statudol.

(2) Wrth roi'r awdurdodiad, caiff yr adran o'r llywodraeth roi cyfarwyddyd sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad, yn ddarostyngedig i amodau a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) At ddibenion yr adran hon mae adran o'r llywodraeth yn rhoi awdurdodiad ar gyfer datblygiad os yw—

(a) yn rhoi unrhyw gydsyniad, unrhyw awdurdodiad neu unrhyw gymeradwyaeth ar gyfer y datblygiad o dan ddeddfiad;

(b) yn cadarnhau gorchymyn prynu gorfodol sy'n awdurdodi caffael tir at ddiben y datblygiad;

(c) yn cydsynio i gyfeddu tir at ddiben y datblygiad neu i gaffael tir drwy gytundeb at y diben hwnnw;

(d) yn awdurdodi—

(i) cael benthyg arian at ddiben y datblygiad, neu

(ii) cymhwyso at y diben hwnnw arian na fyddai fel arall yn gymwys at y diben hwnnw;

(e) yn rhoi ymrwymiad i dalu grant mewn cysylltiad â'r datblygiad.

(4) Yn is-adran (1) nid yw'r cyfeiriad at ymgymerwr statudol yn cynnwys trwyddedai trydan.

(5) Gweler hefyd—

(a) adran 5(1) o Ddeddf Piblinellau 1962 (p. 58), sy'n darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi ar gyfer datblygiad yn unol ag awdurdodiad adeiladu piblinell o dan adran 1 o'r Ddeddf honno neu hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol symud ymaith waith o dan adran 4 o'r Ddeddf honno;

(b) adran 4(6) o Ddeddf Nwy 1965 (p. 36), sy'n darparu y cymerir bod datblygiad penodol y dangosir ei fod wedi ei gymeradwyo mewn gorchymyn awdurdodi storio o dan yr adran honno, neu a gynhelir yn unol â gorchymyn o'r fath, wedi ei awdurdodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion yr adran hon.

**88 Cydsyniad ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan a llinellau trydan [j483]**

(1) Wrth roi neu amrywio cydsyniad o dan adran 36 neu 37 o Ddeddf Trydan 1989 (p. 29) (cydsyniad ar gyfer gorsaf gynhyrchu neu linell drydan), caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd sy'n rhoi caniatâd cynllunio, yn ddarostyngedig i amodau a bennir yn y cyfarwyddyd, ar gyfer—

(a) cymaint o'r gweithrediadau neu'r newid defnydd y mae'r cydsyniad yn ymwneud â hwy neu ag ef ag sy'n ffurfio datblygiad tir yng Nghymru;

(b) unrhyw ddatblygiad tir yng Nghymru sy'n atodol i'r gweithrediadau neu'r newid defnydd y mae'r cydsyniad yn ymwneud â hwy neu ag ef.

(2) Wrth amrywio cydsyniad o dan adran 36 neu 37 o Ddeddf Trydan 1989, caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol roi un neu ragor o'r cyfarwyddydau a ganlyn (yn hytrach na, neu yn ogystal â, chyfarwyddyd o dan is-adran (1))—

(a) cyfarwyddyd sy'n amrywio caniatâd cynllunio presennol a roddir gan gyfarwyddyd o dan is-adran (1);

(b) cyfarwyddyd sy'n amrywio amodau y rhoddwyd caniatâd cynllunio o'r fath yn ddarostyngedig iddynt;

(c) cyfarwyddyd bod cydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth a roddir mewn cysylltiad ag amod y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo i'w drin neu i'w thrin fel pe bai wedi ei roi neu ei rhoi mewn cysylltiad ag amod y rhoddir caniatâd cynllunio newydd neu ddiwygiedig yn ddarostyngedig iddo.

(3) Yn is-adran (1) nid yw'r cyfeiriad at ddatblygiad atodol, yn achos cydsyniad sy'n ymwneud ag estyniad gorsaf gynhyrchu, yn cynnwys datblygiad nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu trydan gan yr orsaf honno.

(4) Yn yr adran hon, mae i "llinell drydan", "estyniad" a "gorsaf gynhyrchu" yr ystyron a roddir i "electricity line", "extension" a "generating station" gan Ran 1 o Ddeddf Trydan 1989 (gweler adrannau 36(9) a 64(1) o'r Ddeddf honno.

**89 Gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 [j484]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud gorchymyn o dan adran 1 neu 3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (p. 42) (gorchmynion sy'n ymwneud ag adeiladu neu weithredu rheilffyrdd, tramffyrdd, dyfrffyrdd mewndirol etc.) sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer datblygiad yng Nghymru.

(2) Wrth wneud y gorchymyn, caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad hwnnw, yn ddarostyngedig i amodau a bennir yn y cyfarwyddyd.

**90 Cymhwyso'r Ddeddf hon i ganiatâd cynllunio a roddir o dan y Bennod hon [j485]**

(1) Y caniatâd cynllunio y caniateir ei roi gan gyfarwyddyd o dan y Bennod hon yw unrhyw ganiatâd cynllunio y gellid ei roi ar gais o dan y Rhan hon.

(2) Pan roddir caniatâd cynllunio gan gyfarwyddyd o dan y Bennod hon, mae'r Ddeddf hon (ac eithrio Penodau [3] a [4] o Ran [14] [*dilysrwydd penderfyniadau a chywiro penderfyniadau*]) yn gymwys mewn perthynas â'r caniatâd fel pe bai wedi ei roi gan Weinidogion Cymru ar gais a atgyfeiriwyd atynt o dan adran 72[j451].

(3) Yn unol â hynny—

(a) mae Atodlen 3[J445S] yn gymwys, gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddir gan gyfarwyddyd o dan y Bennod hon fel y mae'n gymwys mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddir gan awdurdod cynllunio;

(b) mae adran 69[j442] yn gymwys i gyfarwyddyd o dan y Bennod hon fel pe bai'n hysbysiad penderfynu.

(4) Gweler hefyd Bennod 9 am ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau sy'n ymwneud â hyd a gweithrediad y caniatâd.

## PENNOD 9

## EFFAITH, HYD A GWEITHREDIAD CANIATÂD CYNLLUNIO

*Effaith caniatâd cynllunio*

### 91 Budd caniatâd cynllunio [j449]

Mae caniatâd cynllunio i ddatblygu tir yn cael effaith er budd y tir a phob person a chanddo un neu ragor o fuddiannau ynddo am y tro; ond mae hyn yn ddarostyngedig i delerau'r caniatâd.

### 92 Caniatâd i godi adeilad: at ba ddibenion y caniateir defnyddio adeilad [j492]

(1) Caiff caniatâd cynllunio ar gyfer codi adeilad bennu at ba ddibenion y caniateir defnyddio'r adeilad.

(2) Os na phennir unrhyw ddibenion, mae'r caniatâd cynllunio i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys caniatâd i ddefnyddio'r adeilad at y diben y mae wedi ei ddylunio ar ei gyfer.

*Hyd caniatâd cynllunio*

### 93 Amod ynghylch y cyfnod y mae rhaid i ddatblygiad ddechrau ynddo [j458]

(1) Rhaid rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid i'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef ddechrau cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr amod ac sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir y caniatâd.

(2) Os rhoddir caniatâd cynllunio heb yr amod sy'n ofynnol gan is-adran (1), mae i'w drin fel pe bai wedi ei roi yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid i'r datblygiad ddechrau cyn diwedd 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd y caniatâd.

(3) Ond—

(a) os yw'r caniatâd cynllunio a roddir heb yr amod sy'n ofynnol gan is-adran (1) yn ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir heb gydymffurfio ag amodau y rhoddwyd caniatâd cynllunio blaenorol yn ddarostyngedig iddynt, a

(b) os oedd y caniatâd blaenorol yn ddarostyngedig i amod a oedd yn pennu cyfnod yr oedd yn ofynnol i ddatblygiad ddechrau cyn ei ddiwedd,

mae'r caniatâd cynllunio i'w drin fel pe bai wedi ei roi yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid i'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef ddechrau cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(4) Nid yw'r adran hon yn gymwys i—

(a) caniatâd cynllunio a roddir gan orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol;

(b) caniatâd cynllunio amlinellol (ond gweler adran 94[j459]);

(c) caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a gynhelir cyn rhoi'r caniatâd;

(d) caniatâd cynllunio a roddir am gyfnod cyfyngedig;

(e) caniatâd mwynau sy'n ddarostyngedig i amod bod rhaid i ddatblygiad mwynau ddechrau cyn diwedd cyfnod penodedig ar ôl—

(i) cwblhau datblygiad arall sy'n weithrediadau mwyngloddio y mae'r ceisydd am y caniatâd eisoes yn eu cynnal, neu

(ii) rhoi'r gorau i ddyddodi gwastraff mwynau y mae'r ceisydd eisoes yn ei gynnal.

(5) Nid yw'r ffaith bod caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amod yn rhinwedd yr adran hon yn atal yr amod rhag bod yn destun cais o dan adran 68[j446] neu apêl o dan adran 73[j452].

**94 Amodau caniatâd cynllunio amlinellol [j459]**

(1) Rhaid rhoi caniatâd cynllunio amlinellol yn ddarostyngedig i'r amodau—

(a) bod rhaid gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer pob mater a gadwyd yn ôl cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr amod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir y caniatâd, a

(b) bod rhaid i'r datblygiad ddechrau cyn—

(i) diwedd cyfnod a bennir yn yr amod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir y caniatâd, neu

(ii) os yw'n hwyrach na hynny, diwedd cyfnod a bennir yn yr amod sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y materion a gadwyd yn ôl eu cymeradwyo'n derfynol (neu, os cânt eu cymeradwyo'n derfynol ar ddiwrnodau gwahanol, â'r olaf o'r diwrnodau hynny).

(2) Caiff amod a osodir o dan is-adran (1)(a) bennu cyfnodau gwahanol ar gyfer rhannau gwahanol o'r datblygiad; ac os yw'n gwneud hynny, rhaid geirio'r amod sy'n ofynnol gan is-adran (1)(b) drwy gyfeirio at y rhannau hynny yn hytrach nag at y datblygiad yn ei gyfanrwydd.

(3) Os rhoddir caniatâd cynllunio amlinellol heb yr amod sy'n ofynnol gan is-adran (1)(a), mae i'w drin fel pe bai wedi ei roi yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer pob mater a gadwyd yn ôl cyn diwedd 3 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd y caniatâd.

(4) Ond—

(a) os yw'r caniatâd cynllunio amlinellol a roddir heb yr amod sy'n ofynnol gan is-adran (1)(a) yn ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir heb gydymffurfio ag amodau y rhoddwyd caniatâd cynllunio blaenorol yn ddarostyngedig iddynt, a

(b) os oedd y caniatâd blaenorol yn ddarostyngedig i amod a oedd yn pennu cyfnod yr oedd yn ofynnol gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer pob mater a gadwyd yn ôl cyn ei ddiwedd,

mae'r caniatâd cynllunio amlinellol i'w drin fel pe bai wedi ei roi yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer pob mater a gadwyd yn ôl cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(5) Os rhoddir caniatâd cynllunio heb yr amod sy'n ofynnol gan is-adran (1)(b), mae i'w drin fel pe bai wedi ei roi yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid i'r datblygiad ddechrau cyn—

(a) diwedd 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd y caniatâd, neu

(b) os yw'n hwyrach na hynny, diwedd 2 flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod mae'r materion a gadwyd yn ôl wedi eu cymeradwyo'n derfynol (neu, os cânt eu cymeradwyo'n derfynol ar ddiwrnodau gwahanol, â'r olaf o'r diwrnodau hynny).

(6) Ond—

(a) os yw'r caniatâd cynllunio amlinellol a roddir heb yr amod sy'n ofynnol gan is-adran (1)(b) yn ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir heb gydymffurfio ag amodau y rhoddwyd caniatâd cynllunio blaenorol yn ddarostyngedig iddynt, a

(b) os oedd y caniatâd blaenorol yn ddarostyngedig i amod a oedd yn pennu cyfnod yr oedd yn ofynnol i ddatblygiad ddechrau cyn ei ddiwedd,

mae'r caniatâd cynllunio amlinellol i'w drin fel pe bai wedi ei roi yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid i'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef ddechrau cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(7) Nid yw'r ffaith bod caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amod yn rhinwedd yr adran hon yn atal yr amod rhag bod yn destun cais o dan adran 68[j446] neu apêl o dan adran 73[j452].

(8) At ddibenion yr adran hon, mae mater a gadwyd yn ôl wedi ei gymeradwyo'n derfynol—

(a) pan ganiateir cais am gymeradwyaeth, neu

(b) mewn achos pan wneir cais am gymeradwyaeth i awdurdod cynllunio a bo Gweinidogion Cymru yn rhoi'r gymeradwyaeth ar apêl yn erbyn penderfyniad yr awdurdod neu ar apêl o dan adran 73(3)[j452] sy'n ymwneud â'r cais, pan benderfynir yr apêl.

## 95 Torri amod ynghylch y cyfnod y mae rhaid i ddatblygiad ddechrau ynddo etc. [j493]

(1) Pan fo caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amod bod rhaid i'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef ddechrau cyn diwedd cyfnod penodedig (pa un ai yn rhinwedd adran 93[j458] neu 94[j459] neu fel arall), nid yw datblygiad sy'n dechrau ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw yn ddatblygiad a awdurdodir gan y caniatâd.

(2) Pan fo caniatâd cynllunio amlinellol yn ddarostyngedig i amod bod rhaid gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer pob mater a gadwyd yn ôl cyn diwedd cyfnod penodedig, nid yw cais a wneir ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw yn gais a wneir yn unol â thelerau'r caniatâd.

## 96 Hyd caniatâd mwynau [j445a]

Mae Atodlen 5[J445B] yn darparu i bob caniatâd mwynau fod yn ddarostyngedig i amod sy'n cyfyngu hyd y caniatâd.

*Gweithrediad caniatâd cynllunio*

**97 Hysbysiad o ddechrau a chynnal datblygiad [j443]**

(1) Yn yr adran hon ystyr "caniatâd cynllunio perthnasol" yw caniatâd cynllunio o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau.

(2) Cyn i berson ddechrau unrhyw ddatblygiad y mae caniatâd cynllunio perthnasol yn ymwneud ag ef, rhaid i'r person roi hysbysiad i'r awdurdod cynllunio y mae'r datblygiad i'w gynnal yn ei ardal.

(3) Caiff rheoliadau bennu ffurf a chynnwys yr hysbysiad.

(4) Ar bob adeg pan fo person yn cynnal datblygiad y mae caniatâd cynllunio perthnasol yn ymwneud ag ef, rhaid i'r person arddangos yn y man y mae'r datblygiad yn cael ei gynnal neu gerllaw iddo hysbysiad ei fod yn cael ei gynnal yn unol â'r caniatâd cynllunio perthnasol.

(5) Caiff rheoliadau bennu—

(a) ffurf a chynnwys yr hysbysiad;

(b) sut y mae rhaid ei arddangos.

(6) Rhaid i hysbysiad o benderfyniad i roi caniatâd cynllunio perthnasol, neu offeryn arall sy'n rhoi caniatâd cynllunio perthnasol, gyfeirio at y dyletswyddau a osodir gan is-adrannau (2) i (5) ac odanynt.

(7) Mae caniatâd cynllunio perthnasol i'w drin fel pe bai wedi ei roi yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid cydymffurfio â'r dyletswyddau hynny.

*Terfynu caniatâd cynllunio pan na fo datblygiad wedi ei gwblhau*

**98 Pŵer i wneud gorchymyn terfynu [j461]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan—

(a) bo caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer datblygiad tir ac eithrio drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol,

(b) bo'r caniatâd yn ddarostyngedig i amod bod rhaid i'r datblygiad ddechrau cyn diwedd cyfnod penodedig,

(c) bo'r datblygiad wedi dechrau o fewn y cyfnod hwnnw, a

(d) bo'r cyfnod wedi dod i ben ac nad yw'r datblygiad wedi ei gwblhau.

(2) Caiff yr awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal wneud gorchymyn terfynu os yw'n ystyried na fydd y datblygiad yn cael ei gwblhau o fewn cyfnod rhesymol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn terfynu os ydynt yn ystyried na fydd y datblygiad yn cael ei gwblhau o fewn cyfnod rhesymol.

(4) Gorchymyn yw gorchymyn terfynu y bydd y caniatâd cynllunio yn peidio â chael effaith ar ddiwedd cyfnod pellach a bennir yn y gorchymyn.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir yn y gorchymyn fod o leiaf 12 mis sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r gorchymyn yn cymryd effaith.

(6) Yn Atodlen 6[J461S]—

(a) mae Rhan 1[J461S] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn y mae rhaid ei dilyn cyn i orchymyn terfynu a wneir gan awdurdod cynllunio gymryd effaith;

(b) mae Rhan 2[J461S] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn y mae rhaid ei dilyn cyn i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn terfynu.

(7) Pan fo gorchymyn terfynu yn cymryd effaith, mae’r caniatâd cynllunio y mae’r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod a bennir yn y gorchymyn.

(8) Nid yw gorchymyn terfynu yn effeithio ar ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a gynhelir cyn diwedd y cyfnod a bennir yn y gorchymyn.

(9) Caniateir gwneud gorchymyn terfynu sy’n diwygio neu’n dirymu gorchymyn terfynu cynharach ar unrhyw adeg cyn diwedd y cyfnod a bennir yn y gorchymyn cynharach.

(10) Nid yw Atodlen 6[J461S] yn gymwys i orchymyn terfynu a wneir at ddiben dirymu gorchymyn cynharach yn unig, ond pan wneir gorchymyn o’r fath rhaid i’r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o’r dirymiad ar unwaith i bob person y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan yr Atodlen honno mewn perthynas â’r gorchymyn cynharach.

*Dehongli*

### 99 Yr adeg pan fydd datblygiad yn dechrau [j402]

(1) At ddibenion y Bennod hon, cymerir bod datblygiad yn dechrau—

(a) yn achos datblygiad sy’n weithrediadau mwyngloddio, pan fo’r gweithrediadau mwyngloddio yn dechrau cael eu cynnal am y tro cyntaf;

(b) mewn unrhyw achos arall, pan fydd y naill neu’r llall o’r canlynol yn digwydd am y tro cyntaf—

(i) gweithrediad perthnasol sy’n rhan o’r datblygiad yn dechrau cael ei gynnal, neu

(ii) newid perthnasol mewn defnydd sy’n rhan o’r datblygiad yn cael ei wneud.

(2) Ystyr “gweithrediad perthnasol” yw—

(a) unrhyw waith adeiladu wrth godi adeilad;

(b) unrhyw waith i ddymchwel adeilad;

(c) cloddio ffos a fydd yn cynnwys sylfeini ar gyfer adeilad;

(d) gosod prif bibell danddaear neu bibell danddaear i sylfeini adeilad, neu i ffos a fydd yn cynnwys sylfeini ar gyfer adeilad;

(e) unrhyw weithrediad wrth osod allan neu adeiladu ffordd.

(3) Ystyr “newid perthnasol mewn defnydd” yw unrhyw newid sylweddol yn y defnydd o dir sy’n ffurfio datblygiad ac eithrio—

(a) datblygiad y rhoddir caniatâd cynllunio ar ei gyfer drwy orchymyn datblygu cyffredinol neu orchymyn datblygu lleol ac sy’n cael ei gynnal er mwyn cydymffurfio ag amod neu gyfyngiad y rhoddir y caniatâd yn ddarostyngedig iddo, a

(b) datblygiad o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau.

(4) Ystyr "gorchymyn datblygu cyffredinol" yw gorchymyn datblygu a wneir mewn perthynas â'r holl dir yng Nghymru (yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau a bennir yn y gorchymyn).

## PENNOD 10

## NEWIDIADAU I GANIATÂD CYNLLUNIO

*Newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio*

### 100 Pŵer awdurdod cynllunio i wneud newid ansylweddol i ganiatâd cynllunio [j464]

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir yn ardal awdurdod cynllunio wedi ei roi ac eithrio drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol.

(2) Caiff yr awdurdod cynllunio, ar gais a wneir gan berson sydd â buddiant yn y tir, wneud newid i'r caniatâd cynllunio.

(3) Ni chaiff yr awdurdod ond gwneud y newid i'r caniatâd os yw wedi ei fodloni nad yw'r newid yn sylweddol.

(4) Wrth benderfynu a yw'r newid yn sylweddol, rhaid i'r awdurdod roi sylw i effaith y newid, ynghyd ag unrhyw newidiadau blaenorol a wnaed o dan yr adran hon, ar y caniatâd cynllunio fel y'i rhoddwyd yn wreiddiol.

(5) Mae'r pŵer i newid caniatâd cynllunio o dan yr adran hon yn cynnwys pŵer—

(a) i osod amodau newydd;

(b) i amrywio neu ddileu amodau presennol.

(6) Pan fo gan berson fuddiant ym mheth, ond nid y cyfan, o'r tir y mae caniatâd cynllunio yn ymwneud ag ef, ni chaniateir i gais o dan yr adran hon gael ei wneud gan y person ond mewn cysylltiad â hynny o'r caniatâd ag sy'n effeithio ar y tir y mae gan y person fuddiant ynddo.

(7) At ddibenion yr adran hon nid oes gan berson fuddiant mewn tir onid yw'r person—

(a) yn berchennog ar yr ystad rydd-ddaliadol,

(b) yn denant o dan les a roddir neu a estynnir am gyfnod penodol sydd ag o leiaf 2 flynedd yn weddill,

(c) yn forgeisai i fuddiant neu ystad yn y tir, neu

(d) yn barti i gontract ystad o fewn yr ystyr a roddir i "estate contract" gan adran 2(4) o Ddeddf Pridiannau Tir 1972 (p. 61).

### 101 Darpariaeth bellach ynghylch ceisiadau am newidiadau ansylweddol [j469]

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys cais am newid i ganiatâd cynllunio o dan adran 100[j464];

(b) sut y mae rhaid gwneud cais.

(2) Ni chaiff awdurdod cynllunio ystyried cais a wneir iddo o dan adran 100[j464] os na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion a osodwyd o dan is-adran (1).

(3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae awdurdodau cynllunio i ymdrin â cheisiadau o dan adran 100[j464], gan gynnwys—

(a) darpariaeth sy'n gosod gofynion ar gyfer cyhoeddusrwydd ac ymgynghori mewn perthynas â cheisiadau;

(b) darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol na chaiff awdurdod benderfynu cais cyn diwedd cyfnod a bennir yn y rheoliadau;

(c) darpariaeth ynghylch pryd y mae rhaid cymryd camau a bennir yn y rheoliadau.

(4) Gweler hefyd adran 69(5)(b)[j442] a (6)[j442] (hysbysiad penderfynu diwygiedig pan fo awdurdod cynllunio yn gosod, yn dileu neu'n amrywio amod mewn caniatâd cynllunio o dan adran 100[j464]).

(5) Pan fo awdurdod cynllunio yn ymgynghori â pherson sy'n arfer swyddogaethau at ddibenion unrhyw ddeddfiad a bo'r amodau yn is-adran (6) wedi eu bodloni, rhaid i'r person roi ymateb sylweddol i'r ymgynghoriad.

(6) Yr amodau yw—

(a) bod yr ymgynghoriad yn ymwneud â chais am newid i ganiatâd cynllunio a wnaed i'r awdurdod o dan adran 100[j464],

(b) y rhoddwyd y caniatâd ar gais a wnaed i'r awdurdod o dan y Rhan hon, ac

(c) bod rheoliadau o dan adran 63[j441] wedi ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ymgynghori â'r person cyn penderfynu'r cais am y caniatâd.

(7) Rhaid i'r ymateb sylweddol gael ei roi cyn diwedd—

(a) cyfnod a bennir mewn rheoliadau, neu

(b) unrhyw gyfnod arall y cytunir arno yn ysgrifenedig rhwng y person yr ymgynghorwyd ag ef a'r awdurdod cynllunio.

(8) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth—

(a) ynghylch gofynion ymateb sylweddol;

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ynghylch cydymffurfedd y person ag is-adrannau (5) a (7) (gan gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys yr adroddiad a phryd y mae rhaid ei gyflwyno).

*Addasu a dirymu caniatâd cynllunio*

**102 Pŵer i wneud gorchymyn sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio [j465]**

(1) Pan fo caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir yn ardal awdurdod cynllunio wedi ei roi ac eithrio drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol, caiff yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru drwy orchymyn addasu neu ddirymu'r caniatâd i unrhyw raddau.

(2) Wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru—

(a) rhoi sylw i'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, a

(b) gwneud y penderfyniad yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn dangos fel arall.

(3) Caniateir i orchymyn sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio ar gyfer cynnal gweithrediadau gael ei wneud ar unrhyw adeg cyn cwblhau'r gweithrediadau, ond nid yw'n effeithio ar ganiatâd ar gyfer gweithrediadau sydd wedi eu cynnal cyn i'r gorchymyn gymryd effaith.

(4) Caniateir i orchymyn sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio ar gyfer newid sylweddol yn y defnydd o dir gael ei wneud ar unrhyw adeg cyn i'r newid ddigwydd.

(5) Yn Atodlen 7[J465S]—

(a) mae Rhan 1[J465S] yn gwneud darpariaeth ynghylch y gweithdrefnau y mae rhaid eu dilyn cyn i orchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio o dan yr adran hon gymryd effaith (naill ai gyda chadarnhad gan Weinidogion Cymru neu hebddo);

(b) mae Rhan 2[J465S] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn y mae rhaid ei dilyn cyn i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan yr adran hon;

(c) mae Rhan 3[J465S] yn gwneud darpariaeth ynghylch amodau y caniateir eu gosod gan orchymyn o dan yr adran hon sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n weithrediadau mwyngloddio neu sy'n cynnwys dyddodi gwastraff.

*Adolygiadau o ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mwynau*

**103 Rhoi effaith i ganiatadau mwynau sy'n ymwneud â safleoedd segur [j495a]**

(1) Mae caniatâd mwynau y mae'r adran hon yn gymwys iddo yn awdurdodi datblygiad mwynau dim ond pan fo'r amodau y mae'r caniatâd yn ddarostyngedig iddynt yn cael eu penderfynu yn unol ag Atodlen 8[J495S].

(2) Mae'r adran hon yn gymwys i—

(a) caniatâd mwynau cyn-1948—

(i) a gofrestrwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34), a

(ii) sy'n ymwneud â thir na chynhaliwyd unrhyw ddatblygiad mwynau arno i unrhyw raddau sylweddol yn y 2 flynedd a ddaeth i ben â'r diwrnod perthnasol;

(b) caniatâd mwynau ôl-1948 sy'n ymwneud â safle a ddangosir fel safle segur ar restr a luniwyd o dan baragraff 3 o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25).

(3) Ond nid yw'r adran hon yn gymwys i ganiatâd mwynau pan fo'r amodau y mae'n ddarostyngedig iddynt wedi eu penderfynu o dan—

(a) Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, neu

(b) Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

(4) Yn is-adran (2)(a) ystyr "y diwrnod perthnasol" yw—

(a) pan fo'r caniatâd mwynau cyn-1948 yn ymwneud â thir y Goron, 7 Mehefin 2006;

(b) pan fo'r caniatâd yn ymwneud ag unrhyw dir arall, 1 Mai 1991.

(5) Yn is-adran (2)(b), mae cyfeiriadau at ganiatâd mwynau ôl-1948 sy'n ymwneud â safle yn gyfeiriadau at ganiatâd mwynau ôl-1948 sy'n ymwneud ag unrhyw ran o'r tir sydd wedi ei gynnwys yn y safle.

(6) Yn y Ddeddf hon—

ystyr "caniatâd mwynau cyn-1948" ("*pre-1948 minerals permission*") yw caniatâd mwynau y bernir ei fod wedi ei roi o dan Ran 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 (p. 51) yn rhinwedd adran 77 o'r Ddeddf honno (datblygiad a awdurdodwyd o dan orchmynion datblygu interim a wnaed yn ystod y cyfnod a ddechreuodd â 22 Gorffennaf 1943 ac a ddaeth i ben â 30 Mehefin 1948);

ystyr "caniatâd mwynau ôl-1948" ("*post-1948 minerals permission*") yw unrhyw ganiatâd mwynau ac eithrio caniatâd mwynau cyn-1948.

**104 Adolygiad cyfnodol o ganiatadau mwynau [j490]**

(1) Mae Atodlen 9[J490S] yn darparu ar gyfer adolygiad cyfnodol o ganiatadau mwynau.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth, mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddir gan orchymyn datblygu ar gyfer datblygiad mwynau, sy'n debyg i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan Atodlen 9[J490S].

## PENNOD 11

DIGOLLEDIAD A PHRYNU BUDDIANNAU MEWN TIR

*Digolledidiad am newidiadau i ganiatâd cynllunio*

**105 Digolledidiad am wrthod caniatâd cynllunio a roddwyd yn flaenorol drwy orchymyn neu am ei roi yn amodol [j602]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) caniatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol wedi ei dynnu'n ôl (pa un ai gan gyfarwyddyd o dan y gorchymyn, neu drwy ddiwygio, newid neu ddirymu'r gorchymyn), a

(b) ar gais o dan y Rhan hon, ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a ganiatawyd gan y gorchymyn yn cael ei wrthod neu ei roi yn ddarostyngedig i amodau gwahanol i'r rhai a osodwyd gan y gorchymyn.

(2) Mae gan unrhyw berson a chanddo un neu ragor o fuddiannau yn y tir y mae'r penderfyniad cynllunio yn ymwneud ag ef hawlogaeth, wrth wneud hawliad i'r awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod am—

(a) unrhyw wariant y mae'r person yn mynd iddo wrth gynnal gwaith a ddaw yn ofer o ganlyniad i'r penderfyniad cynllunio;

(b) unrhyw golled arall neu unrhyw ddifrod arall a ddioddefir gan y person y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i'r penderfyniad.

(3) Rhaid i hawliad am ddigolledidiad o dan yr adran hon gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y gwneir y penderfyniad cynllunio.

(4) Pan fo—

(a) caniatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu ar gyfer datblygiad o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau wedi ei dynnu'n ôl drwy gyfarwyddyd o dan y gorchymyn, neu

(b) caniatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu lleol wedi ei dynnu'n ôl drwy gyfarwyddyd o dan y gorchymyn,

nid yw'r adran hon ond yn gymwys os gwneir y cais a grybwyllir yn is-adran (1)(b) cyn diwedd 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd y cyfarwyddyd effaith.

(5) Pan fo caniatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol wedi ei dynnu'n ôl drwy ddiwygio, newid neu ddirymu'r gorchymyn, nid yw'r adran hon ond yn gymwys os gwneir y cais a grybwyllir yn is-adran (1)(b) cyn diwedd 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd y diwygiad, y newid neu'r dirymiad effaith.

(6) Pan fo—

(a) caniatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu ar gyfer datblygiad o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau wedi ei dynnu'n ôl yn y ffordd a bennir mewn rheoliadau, neu

(b) caniatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu lleol wedi ei dynnu'n ôl drwy gyfarwyddyd o dan y gorchymyn neu drwy newid neu ddirymu'r gorchymyn,

nid yw'r adran hon yn gymwys os yw'r amodau yn is-adran (7) wedi eu bodloni.

(7) Yr amodau yw—

(a) y cyhoeddwyd hysbysiad o dynnu'r caniatâd yn ôl yn y ffordd a bennir mewn rheoliadau,

(b) y cyhoeddwyd yr hysbysiad heb fod yn llai na 12 mis, a heb fod yn fwy na'r cyfnod a bennir mewn rheoliadau, cyn i'r tynnu'n ôl gymryd effaith, ac

(c) naill ai—

(i) nad oedd y datblygiad a awdurdodwyd gan y gorchymyn wedi dechrau cyn cyhoeddi'r hysbysiad, neu

(ii) bod y gorchymyn yn cynnwys darpariaeth o dan adran 46[j411] sy'n caniatáu cwblhau'r datblygiad ar ôl i'r caniatâd gael ei dynnu'n ôl.

(8) Nid yw'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â chaniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir gweithredol ymgymerwr statudol (gweler adrannau 319 a 321 ynghylch hynny).

(9) Caiff rheoliadau ddarparu nad yw'r adran hon yn gymwys pan fo caniatâd cynllunio a roddwyd drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol ar gyfer dymchwel adeiladau, neu ddymchwel adeiladau o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau, wedi ei dynnu'n ôl drwy gyfarwyddyd o dan y gorchymyn.

**106 Digollediad pan fo caniatâd cynllunio yn cael ei addasu neu ei ddirymu [j601]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir yn ardal awdurdod cynllunio yn cael ei addasu neu ei ddirymu drwy orchymyn o dan adran 102[j465].

(2) Mae gan unrhyw berson a chanddo un neu ragor o fuddiannau yn y tir hawlogaeth, wrth wneud hawliad i'r awdurdod cynllunio, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod am—

(a) unrhyw wariant y mae'r person yn mynd iddo wrth gynnal gwaith a ddaw yn ofer o ganlyniad i addasu neu ddirymu'r caniatâd cynllunio;

(b) unrhyw golled arall neu unrhyw ddifrod arall a ddioddefir gan y person y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i'r addasu neu'r dirymu.

(3) Rhaid i hawliad am ddigollediad o dan yr adran hon gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r addasu neu'r dirymu yn cymryd effaith.

(4) Nid yw'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â chaniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir gweithredol ymgymerwr statudol (gweler adrannau 319 a 321 ynghylch hynny).

**107 Digollediad am newidiadau i ganiatâd cynllunio: darpariaeth atodol [j603]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys ar gyfer penderfynu digollediad o dan adrannau 105[j602] a 106[j601].

(2) At ddibenion yr adrannau hyn, mae gwariant yr eir iddo wrth lunio planiau at ddibenion unrhyw waith, neu ar faterion tebyg eraill sy'n baratoadol i unrhyw waith, i'w drin fel pe bai'n wariant yr eir iddo wrth gynnal y gwaith.

(3) Yn ddarostyngedig i hynny, nid oes digollediad yn daladwy o dan yr adrannau hynny mewn cysylltiad ag—

(a) gwaith a gynhelir cyn rhoi'r caniatâd cynllunio sy'n cael ei dynnu'n ôl, ei addasu neu ei ddirymu, neu

(b) colled neu ddifrod arall (ac eithrio colled neu ddifrod sy'n ddibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir) sy'n deillio o unrhyw beth a wnaed neu nas gwnaed cyn i'r caniatâd gael ei roi.

**108 Dosrannu ac adennill digollediad am ddibrisiant [j605]**

Mae Atodlen 10[J605S] yn darparu ar gyfer dosrannu ac adennill digollediad am ddibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir sy'n dod yn daladwy o dan adran 105[j602] neu 106[j601].

**109 Digollediad am newidiadau i ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mwynau [j604]**

Yn Atodlen 11[J604S]—

(a) mae Rhan 1[J604S] yn cyfyngu ar ddigollediad o dan adrannau 105[j602] a 106[j601] pan fo'r caniatâd cynllunio sy'n cael ei dynnu'n ôl, ei addasu neu ei ddirymu yn ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mwynau;

(b) mae Rhan 2[J604S] yn darparu i ddigollediad fod yn daladwy pan fo hawliau gweithio wedi eu cyfyngu ar adolygiad o'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â safle mwyngloddio o dan Atodlen 9[J490S];

(c) mae Rhan 3[J604S] yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli'r Atodlen.

*Yr hawl i wneud prynu buddiant mewn tir yn orfodol*

**110 Cyflwyno hysbysiad prynu pan fo caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod, ei ddirymu neu ei wneud yn amodol [j618]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) ar gais o dan y Rhan hon, benderfyniad yn cael ei wneud i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad unrhyw dir neu i roi caniatâd yn ddarostyngedig i amodau, neu

(b) gorchymyn o dan adran 102[j465] yn dirymu caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad unrhyw dir neu yn ei addasu drwy osod amodau.

(2) Os yw perchennog ar y tir y mae'r penderfyniad neu'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn honni bod yr amodau yn is-adran (3) wedi eu bodloni, caiff y perchennog gyflwyno i'r awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod brynu buddiant y perchennog yn y tir ("hysbysiad prynu").

(3) Yr amodau yw—

(a) bod y tir yn annefnyddiadwy yn ei gyflwr presennol,

(b) mewn achos pan fo caniatâd cynllunio wedi ei roi yn ddarostyngedig i amodau neu wedi ei addasu drwy osod amodau, na ellir gwneud y tir yn ddefnyddiadwy drwy gynnal y datblygiad y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef yn unol â'r amodau, ac

(c) pa un bynnag, na ellir gwneud y tir yn ddefnyddiadwy drwy gynnal unrhyw ddatblygiad arall y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer neu y mae'r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru wedi ymrwymo i roi caniatâd cynllunio ar ei gyfer.

(4) At ddibenion y cyfeiriadau yn is-adrannau (1)(a) a (3)(b) at roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau, rhaid anwybyddu unrhyw amod y mae caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo yn rhinwedd adran 93[j458] neu 94[j459] (cyfnodau ar gyfer dechrau datblygiad a gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl) neu Atodlen 5[J445B] (hyd caniatâd mwynau).

(5) Ni chaiff person gyflwyno hysbysiad prynu o dan yr adran hon mewn cysylltiad â thir sy'n annefnyddiadwy dim ond o ganlyniad i orchymyn datbarhau (ond gweler adran 213).

(6) Pan fo hysbysiad atgyweirio wedi ei gyflwyno i berchennog ar adeilad rhestredig o dan adran 138 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol, nid oes gan y perchennog hawlogaeth i gyflwyno hysbysiad prynu o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-adran (1)(a) mewn cysylltiad â'r adeilad—

(a) cyn diwedd 3 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad atgyweirio, neu

(b) os dechreuir caffael yr adeilad yn orfodol o dan adran 137 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (caffael adeilad rhestredig yn orfodol at ddiben ei ddiogelu) yn ystod y cyfnod hwnnw, oni bai bod y caffaeliad gorfodol yn cael ei ddatbarhau.

(7) At ddibenion is-adran (6)—

(a) mae caffaeliad gorfodol yn cael ei ddechrau—

(i) gan awdurdod cynllunio pan fydd yn cyflwyno'r hysbysiad sy'n ofynnol gan adran 12 o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p. 67);

(ii) gan Weinidogion Cymru pan fyddant yn cyflwyno'r hysbysiad sy'n ofynnol gan baragraff 3 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno;

(b) mae caffaeliad gorfodol yn cael ei ddatbarhau—

(i) yn achos caffaeliad gan awdurdod cynllunio, pan fydd y gorchymyn prynu gorfodol yn cael ei dynnu'n ôl neu pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â'i gadarnhau neu pan ddaw i ben (ar ôl iddo gael ei gadarnhau'n amodol) yn rhinwedd adran 13BA(2)(b) o Ddeddf Caffael Tir 1981;

(ii) yn achos caffaeliad gan Weinidogion Cymru, pan fyddant yn penderfynu peidio â gwneud y gorchymyn prynu gorfodol neu pan ddaw'r gorchymyn i ben (ar ôl iddo gael ei wneud yn amodol) yn rhinwedd paragraff 4AA(2) o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

(8) Mae Atodlen 12[J618S] yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch hysbysiadau prynu (gan gynnwys darpariaeth bellach ynghylch yr amgylchiadau pan ganiateir cyflwyno hysbysiadau prynu, a darpariaeth ynghylch y camau gweithredu sydd i'w cymryd yn dilyn cyflwyno hysbysiad prynu).

## PENNOD 12

## COFRESTR

### 111 Cofrestr o orchmynion datblygu lleol, ceisiadau cynllunio etc. [j437]

(1) Rhaid i awdurdod cynllunio gadw cofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth a bennir mewn rheoliadau sy'n ymwneud â—

(a) gorchmynion datblygu lleol a wneir gan yr awdurdod;

(b) ceisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir i'r awdurdod neu i Weinidogion Cymru mewn perthynas â thir yn ardal yr awdurdod;

(c) ceisiadau am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl a wneir mewn perthynas â thir yn ardal yr awdurdod;

(d) ceisiadau am newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio a wneir i'r awdurdod o dan adran 100[j464];

(e) ceisiadau a wneir i'r awdurdod o dan Atodlenni 8[J495S] a 9[J490S] (ceisiadau i bennu amodau caniatadau mwynau neu i ohirio dyddiadau adolygu);

(f) ceisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb a wneir i'r awdurdod o dan adrannau 156 a 157;

(g) penderfyniadau Gweinidogion Cymru i arfer y pwerau a roddir gan adran 133 (rhoi caniatâd cynllunio neu ddileu amodau wrth benderfynu apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi) mewn perthynas â thir yn ardal yr awdurdod;

(h) tystysgrifau cyfreithlondeb a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 134 (dyroddi tystysgrif wrth benderfynu apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi) mewn perthynas â thir yn ardal yr awdurdod.

(2) Rhaid i'r wybodaeth a bennir mewn perthynas â cheisiadau a grybwyllir yn is-adran (1)(b) i (f) gynnwys gwybodaeth am sut yr ymdriniwyd â hwy.

(3) Caiff y rheoliadau—

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r gofrestr gael ei chadw mewn dwy ran neu ragor;

(b) ei gwneud yn ofynnol i ran benodedig o'r gofrestr gynnwys copïau o geisiadau ac o ddogfennau neu ddeunyddiau eraill a gyflwynwyd gyda hwy;

(c) darparu i'r cofnod sy'n ymwneud â chais (a phopeth sy'n ymwneud ag ef) gael ei ddileu o'r rhan honno o'r gofrestr pan fydd y cais (gan gynnwys unrhyw apêl sy'n deillio ohono) wedi ei waredu yn derfynol.

(4) Nid yw darpariaeth a wneir o dan is-adran (3)(c) yn atal y rheoliadau rhag ei gwneud yn ofynnol cynnwys cofnod gwahanol sy'n ymwneud â'r cais mewn rhan arall o'r gofrestr.

(5) Rhaid cadw'r gofrestr yn y ffordd a bennir yn y rheoliadau.

(6) Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'r cyhoedd edrych arni ar bob adeg resymol.

## RHAN 4

## GORFODI

*Rhagarweiniol*

### 112 Ymadroddion a ddefnyddir mewn cysylltiad â gorfodi [j501]

(1) Yn y Ddeddf hon mae cyfeiriadau at dor rheolaeth gynllunio yn gyfeiriadau at—

(a) cynnal datblygiad tir yng Nghymru heb ganiatâd cynllunio pan fo caniatâd yn ofynnol (gweler adran 43), neu

(b) methu â chydymffurfio ag amod y mae caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir yng Nghymru wedi ei roi yn ddarostyngedig iddo.

(2) Yn y Ddeddf hon mae cyfeiriadau at gymryd cam gorfodi yn gyfeiriadau at—

(a) dyroddi hysbysiad rhybuddio am orfodi (gweler adran 119[j505]),

(b) cyflwyno hysbysiad tor amod (gweler adran 125[j510]), neu

(c) dyroddi hysbysiad gorfodi (gweler adrannau 128[j513] a 144[j528]).

(3) Yn y Rhan hon—

(a) mae cyfeiriadau at amod mewn caniatâd cynllunio (ac eithrio yn adran 131(4)[j518]) yn cynnwys cyfyngiad;

(b) nid yw cyfeiriadau at ddefnydd o dir yn cynnwys defnydd o dir i gynnal gweithrediadau ar y tir, ac eithrio bod cyfeiriadau at ddatbarhau defnydd o dir yn adrannau 128(6)(a)(ii)[j513] a 143(2)[j527] yn cynnwys datbarhau defnydd i gynnal gweithrediadau mwyngloddio.

### 113 Terfynau amser i gymryd cam gorfodi [j502]

(1) Pan fo tor rheolaeth gynllunio wedi digwydd yn unol â disgrifiad a nodir yng ngholofn gyntaf y Tabl, ni chaniateir cymryd unrhyw gam gorfodi mewn cysylltiad â'r toriad ar ôl diwedd y cyfnod a bennir yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn.

TABL 1

| Disgrifiad o dor rheolaeth gynllunio | Y cyfnod i gymryd cam gorfodi |
|---|---|
| Cynnal gweithrediadau ar dir heb ganiatâd cynllunio | 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cafodd y gweithrediadau eu cwblhau i raddau helaeth |
| Gwneud newid i ddefnydd o adeilad i'w ddefnyddio fel annedd neu (os defnyddiwyd yr adeilad fel un annedd neu ragor yn flaenorol) i'w ddefnyddio fel nifer gwahanol o anheddau | 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y digwyddodd y toriad |
| Unrhyw dor rheolaeth gynllunio arall | 10 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y digwyddodd y toriad |

(2) Nid yw is-adran (1) yn atal—

(a) cyflwyno hysbysiad tor amod mewn cysylltiad â thor rheolaeth gynllunio ar unrhyw adeg pan fydd hysbysiad gorfodi yn cael effaith mewn cysylltiad â'r toriad;

(b) cymryd cam gorfodi mewn cysylltiad â thor rheolaeth gynllunio yn ystod y 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerwyd unrhyw gam gorfodi (neu unrhyw gam gorfodi bwriadedig) arall mewn cysylltiad â'r toriad.

*Pwerau ymchwilio*

**114 Pŵer awdurdod cynllunio i gyflwyno hysbysiad ymchwilio am orfodi [j503]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod cynllunio yn ystyried y gallai tor rheolaeth gynllunio fod wedi digwydd mewn cysylltiad ag unrhyw dir yn ei ardal.

(2) Caiff yr awdurdod gyflwyno hysbysiad ymchwilio am orfodi i unrhyw berson—

(a) sy'n berchennog neu'n feddiannydd ar y tir neu sydd ag unrhyw fuddiant arall ynddo, neu

(b) sy'n cynnal gweithrediadau ar y tir neu'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben.

(3) Rhaid i hysbysiad ymchwilio am orfodi—

(a) pennu'r materion y mae'r awdurdod cynllunio yn ystyried y gallent fod yn dor rheolaeth gynllunio, a

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r person y'i cyflwynir iddo ("y derbynnydd") roi gwybodaeth a bennir yn yr hysbysiad i'r awdurdod, i'r graddau y gall y derbynnydd wneud hynny.

(4) Yr wybodaeth y caniateir ei phennu yn yr hysbysiad yw gwybodaeth ynghylch—

(a) unrhyw weithrediadau sy'n cael eu cynnal ar y tir, unrhyw ddefnydd o'r tir ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n cael eu cynnal arno, a

(b) unrhyw fater sy'n ymwneud â'r amodau y mae caniatâd cynllunio wedi ei roi yn ddarostyngedig iddynt mewn cysylltiad â'r tir.

(5) Caiff yr hysbysiad, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd wneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol (i'r graddau y gall y derbynnydd wneud hynny)—

(a) datgan pa un a yw'r tir yn cael ei ddefnyddio at ddiben a bennir yn yr hysbysiad ai peidio, neu pa un a yw gweithrediadau neu weithgareddau a bennir yn yr hysbysiad yn cael eu cynnal neu wedi eu cynnal ar y tir;

(b) datgan pa bryd y dechreuodd unrhyw ddefnydd o’r tir, neu unrhyw weithrediadau neu weithgareddau arno;

(c) rhoi enw a chyfeiriad [post] unrhyw berson y mae’r derbynnydd y gwybod ei fod yn defnyddio neu wedi defnyddio’r tir at unrhyw ddiben, neu’n cynnal neu wedi cynnal unrhyw weithrediadau neu weithgareddau ar y tir;

(d) rhoi gwybodaeth y mae’r derbynnydd yn ei dal ynghylch caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddefnydd o’r tir neu unrhyw weithrediadau arno, neu ynghylch unrhyw reswm pam nad yw caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer y defnydd neu’r gweithrediadau;

(e) datgan natur buddiant y derbynnydd (os oes ganddo fuddiant) yn y tir ac enw a chyfeiriad [post] unrhyw berson arall y mae’r derbynnydd yn gwybod bod ganddo fuddiant ynddo.

(6) Caiff hysbysiad ymchwilio am orfodi bennu pryd ac ymhle y bydd yr awdurdod cynllunio yn ystyried—

(a) unrhyw gynnig y mae’r derbynnydd yn dymuno ei wneud i—

(i) gwneud cais am ganiatâd cynllunio,

(ii) ymatal rhag cynnal gweithrediadau neu weithgareddau, neu

(iii) gwneud gwaith unioni, a

(b) unrhyw sylwadau y mae’r derbynnydd yn dymuno eu cyflwyno ynghylch yr hysbysiad.

(7) Os yw’n gwneud hynny, rhaid i’r awdurdod roi cyfle i’r derbynnydd i wneud cynnig ei hun neu i gyflwyno sylwadau ei hun ar yr amser ac yn y lle a bennir.

(8) Rhaid i hysbysiad ymchwilio am orfodi hysbysu’r derbynnydd—

(a) am ganlyniadau tebygol methu ag ymateb i’r hysbysiad ac, yn benodol, y gallai cam gorfodi gael ei gymryd, a

(b) am effaith adrannau 124(6)[j509] a 152(7)[j533] (sy’n eithrio hawliau penodol i ddigolledediad pan ellid bod wedi osgoi colled neu ddifrod drwy gydymffurfio â hysbysiad ymchwilio am orfodi).

(9) Rhaid i dderbynnydd hysbysiad ymchwilio am orfodi gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad drwy roi gwybodaeth yn ysgrifenedig i’r awdurdod cynllunio.

(10) Nid yw cyflwyno hysbysiad ymchwilio am orfodi yn effeithio ar unrhyw bŵer arall sy’n arferadwy mewn cysylltiad â thor rheolaeth gynllunio.

**115 Y drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad ymchwilio am orfodi [j504]**

(1) Mae person y mae hysbysiad ymchwilio am orfodi wedi ei gyflwyno iddo yn cyflawni trosedd os nad yw’r person, ar unrhyw adeg ar ôl diwedd 21 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad, wedi cydymffurfio â gofyniad yn yr hysbysiad.

(2) Caniateir i berson gael ei gyhuddo o drosedd o dan is-adran (1) drwy gyfeirio at ddiwrnod neu gyfnod hwy, a chaniateir iddo gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â’r un hysbysiad ymchwilio am orfodi drwy gyfeirio at gyfnodau gwahanol.

(3) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan is-adran (1), mae’n amddiffyniad i’r person brofi bod ganddo esgus rhesymol dros fethu â chydymffurfio â’r gofyniad.

(4) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(5) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person, wrth ymhonni ei fod yn cydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad ymchwilio am orfodi—

(a) yn darparu gwybodaeth y mae'r person yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol mewn modd perthnasol, neu

(b) yn ddi-hid, yn darparu gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn modd perthnasol.

(6) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (5) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**116 Pwerau i fynd ar dir at ddibenion gorfodi [j535]**

(1) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan awdurdod cynllunio fynd ar unrhyw dir er mwyn—

(a) asesu a yw tor rheolaeth gynllunio yn digwydd neu wedi digwydd ar y tir hwnnw neu ar unrhyw dir arall;

(b) penderfynu a ddylai'r awdurdod arfer unrhyw un neu ragor o'i bwerau o dan y Rhan hon;

(c) penderfynu sut y dylai unrhyw un neu ragor o'r pwerau hynny gael eu harfer;

(d) asesu a gydymffurfiwyd â gofyniad a osodwyd o ganlyniad i arfer unrhyw un neu ragor o'r pwerau hynny.

(2) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru fynd ar unrhyw dir er mwyn penderfynu a ddylid dyroddi hysbysiad gorfodi neu hysbysiad stop.

(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru awdurdodi person i fynd ar dir heb ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae yn ei ardal y tir y byddai'r hysbysiad gorfodi neu'r hysbysiad stop yn ymwneud ag ef.

(4) Ni chaniateir arfer pŵer i fynd ar dir o dan yr adran hon ond—

(a) ar adeg resymol, a

(b) os oes sail resymol dros fynd ar y tir at y diben o dan sylw.

(5) Ni chaiff person sydd wedi ei awdurdodi i fynd ar dir o dan yr adran hon fynnu mynediad fel hawl i adeilad a ddefnyddir fel annedd oni bai bod o leiaf 24 o oriau o rybudd o'r mynediad bwriadedig wedi ei roi i holl feddianwyr yr adeilad.

(6) O ran person sydd wedi ei awdurdodi i fynd ar dir o dan yr adran hon—

(a) rhaid iddo, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gan neu ar ran unrhyw berchennog neu unrhyw feddiannydd ar y tir, ddangos tystiolaeth o awdurdodiad y person a datgan diben mynd ar y tir cyn mynd arno,

(b) caiff fynd ag unrhyw bersonau eraill sy'n angenrheidiol ar y tir, ac

(c) rhaid iddo, os yw'n ymadael â'r tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol, ei adael wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aeth y person arno.

### 117 Gwarant i fynd ar dir [j536]

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw ynad heddwch wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) bod sail resymol dros fynd ar dir at ddiben a grybwyllir yn adran 116[j535], a

(b) bod—

(i) mynediad i'r tir wedi ei wrthod neu fod gwrthodiad yn cael ei ddisgwyl yn rhesymol, neu

(ii) yr achos yn un brys.

(2) Caiff yr ynad heddwch ddyroddi gwarant sy'n rhoi pŵer i fynd ar y tir i unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan awdurdod cynllunio neu (yn ôl y digwydd) Weinidogion Cymru.

(3) At ddibenion is-adran (1)(b) mae mynediad i dir i'w drin fel pe bai wedi ei wrthod os na cheir ateb i gais am fynediad o fewn cyfnod rhesymol.

(4) Mae gwarant o dan yr adran hon yn rhoi pŵer i fynd ar dir—

(a) ar un achlysur yn unig, a

(b) ar adeg resymol yn unig, oni bai bod yr achos yn un brys.

(5) O ran person sydd wedi ei awdurdodi i fynd ar dir o dan yr adran hon—

(a) rhaid iddo, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gan neu ar ran unrhyw berchennog neu unrhyw feddiannydd ar y tir, ddangos tystiolaeth o awdurdodiad y person a datgan diben mynd ar y tir cyn mynd arno,

(b) caiff fynd ag unrhyw bersonau eraill sy'n angenrheidiol ar y tir, ac

(c) rhaid iddo, os yw'n ymadael â'r tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol, ei adael wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aeth y person arno.

(6) Mae gwarant o dan yr adran hon yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 1 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y'i dyroddir.

### 118 Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad [j537]

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo gan berson bŵer i fynd ar dir a roddir gan adran 116[j535] neu drwy warant o dan adran 117[j536].

(2) Mae person sy'n rhwystro'n fwriadol berson sy'n arfer y pŵer mynediad yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(4) Os difrodir tir neu eiddo arall wrth arfer y pŵer mynediad, caiff person sy'n dioddef y difrod adennill digollediad oddi wrth yr awdurdod cynllunio a awdurdododd y mynediad neu (yn ôl y digwydd) Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid gwneud hawliad am ddigolledidad o dan is-adran (4) yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod yr achosir y difrod (neu os achosir y difrod dros fwy nag un diwrnod, y diwrnod olaf y'i hachosir).

(6) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn datgelu gwybodaeth a gafodd y person wrth arfer y pŵer mynediad, ac sy'n ymwneud â phroses weithgynhyrchu neu gyfrinach fasnach, at ddiben ac eithrio'r un yr awdurdodwyd y person i fynd ar y tir ato.

(7) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (6) yn agored—

(a) ar euogfarn ddiannod, i ddirwy;

(b) ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na 2 flynedd, neu'r ddau.

*Hysbysiadau rhybuddio am orfodi*

**119 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad rhybuddio am orfodi [j505]**

(1) Caiff awdurdod cynllunio ddyroddi hysbysiad rhybuddio am orfodi os yw'n ystyried—

(a) bod tor rheolaeth gynllunio wedi digwydd mewn cysylltiad ag unrhyw dir yn ei ardal, a

(b) ei bod yn rhesymol debygol y byddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi pe bai cais am ganiatâd yn cael ei wneud mewn cysylltiad â'r datblygiad o dan sylw.

(2) Wrth ystyried a yw'n rhesymol debygol y byddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi, rhaid i awdurdod cynllunio—

(a) rhoi sylw i'r cynllun datblygu ar gyfer ei ardal ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, a

(b) gwneud ei benderfyniad yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn dangos fel arall.

(3) Rhaid i hysbysiad rhybuddio am orfodi—

(a) pennu'r materion y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn dor rheolaeth gynllunio, a

(b) datgan y gellir cymryd cam gorfodi pellach oni bai bod cais am ganiatâd cynllunio yn cael ei wneud o fewn cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(4) Rhaid i'r awdurdod gyflwyno copi o'r hysbysiad i—

(a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'n ymwneud ag ef, a

(b) unrhyw berson arall sydd â buddiant yn y tir, os yw'r awdurdod yn ystyried y byddai cymryd cam gorfodi pellach yn cael effaith sylweddol ar fuddiant y person.

(5) Ni chaiff awdurdod cynllunio ddyroddi mwy nag un hysbysiad rhybuddio am orfodi mewn cysylltiad â'r un tor rheolaeth gynllunio.

(6) Nid yw dyroddi hysbysiad rhybuddio am orfodi yn cyfyngu ar unrhyw bŵer arall sy'n arferadwy mewn cysylltiad â thor rheolaeth gynllunio.

*Hysbysiadau stop dros dro*

**120 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad stop dros dro [j506]**

(1) Caiff awdurdod cynllunio ddyroddi hysbysiad stop dros dro os yw'n ystyried—

(a) bod tor rheolaeth gynllunio wedi digwydd mewn cysylltiad ag unrhyw dir yn ei ardal, a

(b) y dylai'r gweithgaredd sy'n doriad (neu unrhyw ran o'r gweithgaredd hwnnw) gael ei stopio ar unwaith.

(2) Rhaid i hysbysiad stop dros dro—

(a) pennu'r gweithgaredd y mae'r awdurdod yn ystyried ei fod yn dor rheolaeth gynllunio,

(b) gwahardd cynnal y gweithgaredd sy'n doriad (neu ba ran bynnag o'r gweithgaredd a bennir yn yr hysbysiad),

(c) nodi rhesymau'r awdurdod dros ddyroddi'r hysbysiad, a

(d) datgan effaith adran 123[j508] (y drosedd o dorri hysbysiad stop dros dro).

(3) Rhaid i'r awdurdod cynllunio arddangos copi o'r hysbysiad stop dros dro ar y tir y mae'n ymwneud ag ef; a rhaid i'r copi bennu'r dyddiad y caiff ei arddangos am y tro cyntaf.

(4) Ond os nad yw'n rhesymol ymarferol arddangos copi o'r hysbysiad ar y tir, caiff yr awdurdod yn lle hynny arddangos copi mewn lle amlwg mor agos i'r tir ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(5) Caiff yr awdurdod gyflwyno copi o'r hysbysiad i unrhyw berson y mae'r awdurdod yn ystyried—

(a) ei fod yn cynnal y gweithgaredd y mae'r hysbysiad yn ei wahardd neu'n peri neu'n caniatáu i'r gweithgaredd gael ei gynnal,

(b) ei fod yn feddiannydd ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, neu

(c) bod ganddo fuddiant yn y tir.

**121 Cyfyngiadau ar y pŵer i ddyroddi hysbysiad stop dros dro [j507]**

(1) Ni chaiff hysbysiad stop dros dro wahardd—

(a) defnyddio adeilad fel annedd, na

(b) cynnal gweithgaredd o ddisgrifiad, neu o dan amgylchiadau, a bennir mewn rheoliadau.

(2) Ni chaiff hysbysiad stop dros dro wahardd cynnal gweithgaredd sydd wedi ei gynnal (pa un ai yn ddi-dor ai peidio) am o leiaf 4 blynedd cyn y diwrnod yr arddangosir copi o'r hysbysiad yn unol ag adran 120[j506] am y tro cyntaf.

(3) At ddibenion is-adran (2) rhaid anwybyddu unrhyw gyfnod yr oedd y gweithgaredd wedi ei awdurdodi gan ganiatâd cynllunio ynddo.

(4) Nid yw is-adran (2) yn atal hysbysiad stop dros dro rhag gwahardd—

(a) cynnal gweithrediadau ar dir neu unrhyw weithgaredd sy'n ddeilliadol iddynt, na

(b) dyddodi gwastraff ar dir.

**122 Hyd etc. hysbysiad stop dros dro [j544]**

(1) Mae hysbysiad stop dros dro yn cymryd effaith pan arddangosir copi ohono yn unol ag adran 120[j506] am y tro cyntaf.

(2) Mae hysbysiad stop dros dro yn peidio â chael effaith—

(a) ar ddiwedd 28 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r diwrnod pan arddangosir y copi ohono yn unol ag adran 120[j506] am y tro cyntaf, neu

(b) os yw’n pennu cyfnod byrrach sy’n dechrau â’r diwrnod hwnnw, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

(3) Ond os yw’r awdurdod cynllunio yn tynnu’r hysbysiad yn ôl cyn diwedd y cyfnod y byddai fel arall yn cael effaith ar ei gyfer, mae’r hysbysiad yn peidio â chael effaith pan gaiff ei dynnu’n ôl.

(4) Ni chaiff awdurdod cynllunio ddyroddi ail hysbysiad stop dros dro na hysbysiad stop dros dro dilynol mewn perthynas â’r un gweithgaredd oni bai bod yr awdurdod, ers dyroddi’r hysbysiad blaenorol, wedi cymryd cam gorfodi mewn perthynas â’r gweithgaredd.

(5) Yn is-adran (4) mae’r cyfeiriad at gymryd cam gorfodi yn cynnwys cael gwaharddeb o dan adran 153[j534].

## 123 Y drosedd o dorri hysbysiad stop dros dro [j508]

(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw’r person, ar unrhyw adeg pan fydd hysbysiad stop dros dro yn cael effaith, yn cynnal gweithgaredd sydd wedi ei wahardd gan yr hysbysiad neu’n peri neu’n caniatáu i weithgaredd o’r fath gael ei gynnal.

(2) Caniateir i berson gael ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon drwy gyfeirio at ddiwrnod neu gyfnod hwy, a chaniateir iddo gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â’r un hysbysiad stop dros dro drwy gyfeirio at gyfnodau gwahanol.

(3) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan yr adran hon, mae’n amddiffyniad i’r person brofi—

(a) na chyflwynwyd copi o’r hysbysiad stop dros dro i’r person, a

(b) nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, am fodolaeth yr hysbysiad.

(4) Mae person sy’n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

(5) Wrth benderfynu swm y ddirwy, rhaid i’r llys roi sylw yn benodol i unrhyw fudd ariannol sydd wedi cronni, neu yr ymddengys ei fod yn debygol o gronni, i’r person o ganlyniad i’r drosedd.

## 124 Digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan hysbysiad stop dros dro [j509]

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) gweithgaredd a bennir mewn hysbysiad stop dros dro, ar yr adeg y mae’r hysbysiad yn cymryd effaith, wedi ei awdurdodi gan ganiatâd cynllunio a roddwyd cyn y diwrnod y mae’r hysbysiad yn cymryd effaith,

(b) tystysgrif cyfreithlondeb wedi ei dyroddi o dan adran 156 (pa un ai gan awdurdod cynllunio ar gais o dan yr adran honno neu gan Weinidogion Cymru ar apêl o dan adran 131[j518] neu 160) mewn cysylltiad â gweithgaredd a bennir mewn hysbysiad stop dros dro, neu

(c) awdurdod cynllunio yn tynnu’n ôl hysbysiad stop dros dro ar ôl iddo gymryd effaith.

(2) Nid yw’r adran hon yn gymwys yn rhinwedd is-adran (1)(c) pan fo—

(a) gweithgaredd a bennir yn yr hysbysiad stop dros dro wedi ei awdurdodi gan ganiatâd cynllunio a roddir ar y diwrnod y mae’r hysbysiad yn cymryd effaith neu ar ôl hynny, a

(b) yr awdurdod cynllunio yn tynnu’r hysbysiad yn ôl ar ôl i’r caniatâd hwnnw gael ei roi.

(3) Mae gan unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir y mae’r hysbysiad yn ymwneud ag ef ar yr adeg y mae’r hysbysiad yn cymryd effaith hawlogaeth, wrth wneud hawliad i’r awdurdod cynllunio, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod am unrhyw golled neu unrhyw ddifrod a ddioddefir gan y person y gellir ei phriodoli neu ei briodoli’n uniongyrchol i effaith yr hysbysiad.

(4) Mae’r golled neu’r difrod y mae digollediad yn daladwy amdani neu amdano yn cynnwys unrhyw swm sy’n daladwy gan yr hawlydd mewn cysylltiad â thor contract a achosir drwy gymryd camau gweithredu sy’n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â’r hysbysiad.

(5) Nid oes digolledíad yn daladwy o dan yr adran hon mewn cysylltiad â gwahardd gweithgaredd sydd, ar unrhyw adeg y mae’r hysbysiad stop dros dro yn cael effaith, yn dor rheolaeth gynllunio neu’n cyfrannu ato.

(6) Nid oes digolledíad yn daladwy o dan yr adran hon am golled neu ddifrod y gallai’r hawlydd fod wedi ei hosgoi neu ei osgoi drwy—

(a) darparu gwybodaeth yr oedd yn ofynnol i’r hawlydd ei darparu drwy—

(i) hysbysiad ymchwilio am orfodi,

(ii) hysbysiad gwybodaeth a gyflwynwyd gan yr awdurdod cynllunio (gweler adran 383), neu

(iii) hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod cynllunio o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (p. 57), neu

(b) cydweithredu â’r awdurdod cynllunio mewn unrhyw ffordd arall wrth ymateb i hysbysiad o’r fath.

(7) Rhaid i hawliad am ddigolledíad o dan yr adran hon gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy’n dechrau—

(a) mewn achos sy’n dod o fewn is-adran (1)(a) neu (b) ond nid o fewn is-adran (1)(c), â’r diwrnod y mae’r hysbysiad stop dros dro yn cymryd effaith;

(b) mewn achos sy’n dod o fewn is-adran (1)(c), â’r diwrnod y mae’r hysbysiad yn cael ei dynnu’n ôl.

*Hysbysiadau tor amod*

**125 Pŵer awdurdod cynllunio i gyflwyno hysbysiad tor amod [j510]**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan—

(a) bo caniatâd cynllunio i ddatblygu unrhyw dir yng Nghymru wedi ei roi yn ddarostyngedig i amodau, a

(b) na chydymffurfir ag amod yn y caniatâd.

(2) Caiff yr awdurdod cynllunio y mae’r tir yn ei ardal gyflwyno hysbysiad tor amod i—

(a) unrhyw berson sy'n cynnal neu sydd wedi cynnal y datblygiad, neu

(b) unrhyw berson arall sy'n rheolaethu'r tir.

(3) At ddibenion is-adran (2)(a), mae cynnal datblygiad yn cynnwys peri neu ganiatáu i berson arall ei gynnal.

(4) Rhaid i hysbysiad tor amod—

(a) ei gwneud yn ofynnol i'r person y'i cyflwynir iddo sicrhau cydymffurfedd â'r amodau caniatâd cynllunio sy'n cael eu pennu yn yr hysbysiad, a

(b) pennu'r camau y mae'r awdurdod cynllunio yn ystyried y dylid eu cymryd, neu'r gweithgareddau y mae'r awdurdod yn ystyried y dylid eu stopio, er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r amodau hynny.

(5) Yr unig amodau yn y caniatâd cynllunio y caniateir eu pennu mewn hysbysiad a gyflwynir yn rhinwedd is-adran (2)(b) yw amodau sy'n rheoleiddio'r defnydd o'r tir.

(6) Rhaid i hysbysiad tor amod bennu o fewn pa gyfnod y mae rhaid sicrhau cydymffurfedd â'r amodau a bennir ynddo.

(7) Rhaid i'r cyfnod fod yn 28 o ddiwrnodau o leiaf gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(8) Caiff yr awdurdod cynllunio estyn y cyfnod drwy gyflwyno hysbysiad pellach i'r person y cyflwynwyd yr hysbysiad tor amod iddo.

(9) Pan fo awdurdod cynllunio wedi cyflwyno hysbysiad tor amod i berson, caiff dynnu'r hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno hysbysiad pellach i'r person.

(10) Nid yw tynnu hysbysiad tor amod yn ôl yn atal yr awdurdod cynllunio rhag cyflwyno hysbysiad tor amod arall.

**126 Y drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad tor amod [j511]**

(1) Mae person y mae hysbysiad tor amod wedi ei gyflwyno iddo yn euog o drosedd os, ar unrhyw adeg ar ôl diwedd y cyfnod a ganiateir i gydymffurfio â'r hysbysiad—

(a) ceir anghydymffurfedd ag unrhyw un neu ragor o amodau a bennir yn yr hysbysiad, a

(b) yw unrhyw un neu ragor o gamau a bennir yn yr hysbysiad heb eu cymryd neu unrhyw un neu ragor o weithgareddau a bennir yn yr hysbysiad heb eu stopio.

(2) Caniateir i berson gael ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon drwy gyfeirio at ddiwrnod neu gyfnod hwy, a chaniateir iddo gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â'r un hysbysiad tor amod drwy gyfeirio at gyfnodau gwahanol.

(3) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan yr adran hon, mae'n amddiffyniad i'r person brofi—

(a) y cymerodd y person bob cam rhesymol i sicrhau cydymffurfedd â'r amodau a bennir yn yr hysbysiad, neu

(b) pan gyflwynwyd yr hysbysiad i'r person yn rhinwedd adran 125(2)(b)[j510], nad oedd y person yn rheolaethu'r tir mwyach ar adeg y drosedd honedig.

(4) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(5) Yn is-adran (1) mae'r cyfeiriad at y cyfnod a ganiateir i gydymffurfio â'r hysbysiad tor amod yn gyfeiriad at—

(a) y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad o dan adran 125(6)[j510], neu

(b) y cyfnod hwnnw fel y'i hestynnir o adran 125(8)[j510].

**127 Effaith rhoi caniatâd cynllunio neu ddileu amod ar hysbysiad tor amod [j512]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod cynllunio wedi cyflwyno hysbysiad tor amod.

(2) Os rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a gynhaliwyd cyn i'r caniatâd gael ei roi, mae'r hysbysiad yn peidio â chael effaith i'r graddau y bo'n anghyson â'r caniatâd.

(3) Os caiff amod mewn caniatâd cynllunio sy'n cael ei bennu yn yr hysbysiad ei ddileu (pa un a yw'n cael ei ddisodli gan amod arall ai peidio), mae'r hysbysiad yn peidio â chael effaith i'r graddau y bo'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sicrhau cydymffurfedd â'r amod hwnnw.

(4) Nid yw'r ffaith bod hysbysiad tor amod yn peidio â chael effaith yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn rhinwedd yr adran hon yn effeithio ar atebolrwydd unrhyw berson am drosedd mewn cysylltiad â methiant blaenorol i sicrhau cydymffurfedd ag amod a bennir yn yr hysbysiad.

*Hysbysiadau gorfodi*

**128 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad gorfodi [j513]**

(1) Caiff awdurdod cynllunio ddyroddi hysbysiad gorfodi os yw'n ystyried bod tor rheolaeth gynllunio wedi digwydd mewn cysylltiad ag unrhyw dir yn ei ardal.

(2) Wrth ystyried a yw am ddyroddi hysbysiad gorfodi, rhaid i awdurdod cynllunio—

(a) rhoi sylw i'r cynllun datblygu ar gyfer ei ardal ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, a

(b) gwneud ei benderfyniad yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn dangos fel arall.

(3) Rhaid i hysbysiad gorfodi bennu—

(a) y materion y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn dor rheolaeth gynllunio, a

(b) y paragraff yn adran 112(1)[j501] y mae'r awdurdod yn ystyried bod y toriad yn dod o'i fewn.

(4) Mae hysbysiad yn cydymffurfio ag is-adran (3)(a) os yw'n galluogi pob person y cyflwynir copi ohono iddo i wybod beth yw'r materion hynny.

(5) Rhaid i hysbysiad gorfodi bennu'r camau y mae'r awdurdod cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu cymryd, neu'r gweithgareddau y mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu stopio, er mwyn cyflawni (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) y naill neu'r llall o'r dibenion a nodir yn is-adran (6) neu'r ddau ohonynt.

(6) Y dibenion yw—

(a) unioni'r toriad drwy wneud un neu ragor o'r canlynol—

(i) gwneud i ddatblygiad gydymffurfio â thelerau (gan gynnwys amodau) unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd mewn cysylltiad â'r tir,

(ii) datbarhau defnydd o'r tir, neu

(iii) adfer y tir i'w gyflwr cyn i'r toriad ddigwydd;

(b) unioni unrhyw niwed i amwynder a achosir gan y toriad.

(7) Caiff gorchymyn gorfodi, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol—

(a) addasu neu symud ymaith adeiladau neu waith,

(b) cynnal gweithrediadau, neu

(c) diwygio amlinell dyddodyn gwastraff drwy addasu unrhyw un neu ragor o oleddfau ei ochrau.

(8) Caiff hysbysiad gorfodi ei gwneud yn ofynnol i weithgaredd gael ei stopio'n gyfan gwbl neu'n rhannol.

(9) Pan ddyroddir hysbysiad gorfodi mewn cysylltiad â dymchwel adeilad, caiff yr hysbysiad ei gwneud yn ofynnol codi adeilad amnewid sydd mor debyg â phosibl i'r adeilad a ddymchwelwyd.

(10) Ond—

(a) rhaid i'r adeilad amnewid gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan ddeddfiad sy'n gymwys i godi adeiladau;

(b) caiff yr adeilad amnewid fod yn wahanol i'r adeilad a ddymchwelwyd mewn unrhyw fodd na fyddai wedi bod yn dor rheolaeth gynllunio pe bai'r adeilad a ddymchwelwyd wedi ei addasu yn y modd hwnnw;

(c) rhaid i'r adeilad amnewid gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth mewn rheoliadau a wneir at ddibenion yr is-adran hon (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n addasu paragraffau (a) a (b)).

**129 Cyflwyno hysbysiad gorfodi, yr hysbysiad yn cymryd effaith etc. [j514]**

(1) Rhaid i hysbysiad gorfodi bennu—

(a) y dyddiad y mae i gymryd effaith, a

(b) o fewn pa gyfnod y mae rhaid cymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad neu y mae rhaid stopio'r gweithgareddau a bennir ynddo.

(2) Mae'r hysbysiad yn cymryd effaith ar ddechrau'r diwrnod a bennir o dan is-adran (1)(a); ond pan wneir apêl yn erbyn yr hysbysiad o dan adran 131[j518], mae hyn yn ddarostyngedig i adrannau 131(7)(a)[j518] a 378(6).

(3) Caiff hysbysiad gorfodi bennu cyfnodau gwahanol ar gyfer cymryd camau gwahanol neu stopio gweithgareddau gwahanol.

(4) Pan fo awdurdod cynllunio yn dyroddi hysbysiad gorfodi, rhaid iddo gyflwyno copi o'r hysbysiad i—

(a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, a

(b) unrhyw berson arall sydd â buddiant yn y tir, os yw'r awdurdod yn ystyried bod yr hysbysiad yn cael effaith sylweddol ar fuddiant y person.

(5) Rhaid cyflwyno pob copi o'r hysbysiad—

(a) cyn diwedd 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad, a

(b) o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y mae i gymryd effaith.

(6) Caiff rheoliadau—

(a) pennu materion ychwanegol y mae rhaid iddynt gael eu pennu mewn hysbysiad gorfodi;

(b) ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio gynnwys gyda phob copi o hysbysiad gorfodi a gyflwynir ganddo o dan yr adran hon nodyn esboniadol sy'n rhoi gwybodaeth a bennir yn y rheoliadau ynghylch yr hawl i apelio o dan adran 131.

**130 Amrywio hysbysiad gorfodi a thynnu hysbysiad gorfodi yn ôl [j517]**

(1) Pan fo awdurdod cynllunio wedi dyroddi hysbysiad gorfodi, caiff—

(a) tynnu'r hysbysiad yn ôl;

(b) hepgor neu lacio unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad, ac yn benodol estyn y cyfnod y mae'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd neu i unrhyw weithgaredd gael ei stopio ynddo.

(2) Caiff yr awdurdod arfer y pwerau yn is-adran (1) pa un a yw'r hysbysiad wedi cymryd effaith ai peidio.

(3) Nid yw tynnu hysbysiad gorfodi yn ôl yn atal yr awdurdod cynllunio rhag dyroddi hysbysiad gorfodi arall.

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys pan oedd yr awdurdod cynllunio wedi cyflwyno copïau o'r hysbysiad gorfodi o dan adran 129(4)[j514] cyn arfer y pwerau yn is-adran (1).

(5) Yn union ar ôl arfer unrhyw un neu ragor o'r pwerau hynny, rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad ei fod wedi gwneud hynny i—

(a) pob person y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi iddo, a

(b) unrhyw berson arall y byddai copi o'r hysbysiad yn cael ei gyflwyno iddo pe bai'n cael ei ailddyroddi.

*Apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi*

**131 Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi [j518]**

(1) Caiff y personau a ganlyn apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn hysbysiad gorfodi (pa un a oes copi o'r hysbysiad wedi ei gyflwyno iddynt ai peidio)—

(a) unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef;

(b) unrhyw berson sydd yn rhinwedd trwydded—

(i) yn meddiannu'r tir ar y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad, a

(ii) yn parhau i'w feddiannu pan wneir yr apêl.

(2) Caniateir gwneud apêl ar un neu ragor o'r seiliau a ganlyn—

(a) mewn perthynas â'r materion y pennir yn yr hysbysiad gorfodi eu bod yn dor rheolaeth gynllunio, y dylai caniatâd cynllunio gael ei roi neu y dylai amod mewn caniatâd cynllunio gael ei ddileu;

(b) nad yw'r materion y pennir yn yr hysbysiad eu bod yn dor rheolaeth gynllunio wedi digwydd;

(c) nad yw'r materion hynny (os digwyddasant) yn dor rheolaeth gynllunio;

(d) os nad yw'r materion hynny yn dor rheolaeth gynllunio, na ellid cymryd unrhyw gam gorfodi mewn cysylltiad â'r toriad ar y diwrnod y dyroddwyd yr hysbysiad;

(e) na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad i berson fel sy'n ofynnol gan adran 129[j514];

(f) bod y camau y mae'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol eu cymryd at y naill neu'r llall o'r dibenion a nodir yn adran 128(6)[j513], neu fod y gweithgareddau y mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu stopio at y naill neu'r llall o'r dibenion hynny, yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol at y diben o dan sylw;

(g) bod y cyfnod y mae'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd neu i unrhyw weithgaredd gael ei stopio ynddo yn afresymol o fyr.

(3) Ni chaniateir gwneud apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi ar y sail y dylai caniatâd cynllunio gael ei roi ar gyfer mater a bennir yn yr hysbysiad—

(a) os dyroddwyd yr hysbysiad gorfodi ar ôl i benderfyniad i wrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad gael ei gadarnhau ar apêl o dan adran 73, a

(b) pe bai rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad hwnnw wedi golygu rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y mater o dan sylw.

(4) Ni chaniateir gwneud apêl ar y sail y dylai amod mewn caniatâd cynllunio gael ei ddileu os dyroddwyd yr hysbysiad gorfodi ar ôl i benderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i'r amod gael ei gadarnhau ar apêl o dan adran 73.

(5) Yn is-adrannau (3) a (4), mae cyfeiriadau at benderfyniad a gafodd ei gadarnhau ar apêl yn cynnwys penderfyniad y gwnaeth Gweinidogion Cymru wrthod apêl mewn cysylltiad ag ef o dan adran 77(7) (oedi gormodol gan apelydd).

(6) Rhaid i apêl o dan yr adran hon gael ei gwneud drwy—

(a) cyflwyno hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad gorfodi fel y dyddiad y mae i gymryd effaith,

(b) anfon hysbysiad o apêl at Weinidogion Cymru mewn llythyr wedi ei gyfeirio'n briodol a'i ragdalu a'i bostio atynt ar adeg pan fyddai, yng nghwrs arferol y post, yn cael ei ddanfon atynt cyn y dyddiad hwnnw, neu

(c) anfon hysbysiad o apêl at Weinidogion Cymru drwy ddefnyddio cyfathrebiadau electronig ar adeg pan fyddai, yng nghwrs arferol trosglwyddo, yn cael ei ddanfon atynt cyn y dyddiad hwnnw.

(7) Pan fo apêl yn cael ei gwneud—

(a) nid yw'r hysbysiad gorfodi yn cael effaith hyd nes y penderfynir yr apêl yn derfynol neu y tynnir yr apêl yn ôl; ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw orchymyn o dan adran 378(6);

(b) nid oes gan yr apelydd nac unrhyw berson arall hawlogaeth, mewn unrhyw achos arall a ddechreuir ar ôl i'r apêl gael ei gwneud, i honni na chyflwynwyd yr hysbysiad gorfodi i'r apelydd yn unol ag adran 129[j514].

(8) Rhaid i apelydd gyflwyno datganiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ofynnol gan reoliadau.

(9) Rhaid i'r apelydd gyflwyno'r datganiad naill ai—

(a) gyda'r hysbysiad o apêl, neu

(b) o fewn y cyfnod a bennir mewn rheoliadau.

(10) Pan fo apêl yn cael ei gwneud ar fwy nag un sail, os yw'r apelydd yn methu â rhoi gwybodaeth sy'n ofynnol o dan is-adran (8) mewn perthynas â sail o fewn y cyfnod a bennir o dan is-adran (9)(b), caiff Gweinidogion Cymru benderfynu'r apêl heb ystyried y sail honno.

**132 Penderfynu apêl: cyffredinol [j520]**

(1) Ar apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cywiro unrhyw ddiffyg, unrhyw wall neu unrhyw gamddisgrifiad yn yr hysbysiad, neu

(b) amrywio telerau'r hysbysiad,

os ydynt wedi eu bodloni na fydd y cywiriad neu'r amrywiad yn achosi anghyfiawnder i'r apelydd na'r awdurdod cynllunio.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu apêl—

(a) os ydynt yn caniatáu'r apêl, cânt ddiddymu'r hysbysiad gorfodi;

(b) rhaid iddynt roi unrhyw gyfarwyddydau sy'n angenrheidiol i roi effaith i'w penderfyniad.

(3) Pan fyddai fel arall yn sail dros benderfynu caniatáu apêl na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi i berson fel sy'n ofynnol gan adran 129[j514], caiff Gweinidogion Cymru anwybyddu'r ffaith honno os nad yw'r methiant wedi cael effaith andwyol sylweddol ar yr apelydd na'r person hwnnw.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) gwrthod apêl os yw'r apelydd yn methu â chydymffurfio ag adran 131(9)[j518];

(b) caniatáu apêl a diddymu'r hysbysiad gorfodi os yw'r awdurdod cynllunio yn methu, o fewn y cyfnod a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 367, â chydymffurfio â gofyniad yn y rheoliadau—

(i) i gyflwyno datganiad o'r sylwadau y mae'r awdurdod yn cynnig eu gwneud ar apêl sy'n cynnwys y materion a bennir yn y rheoliadau, neu

(ii) i anfon at Weinidogion Cymru gopi o'r hysbysiad gorfodi a rhestr o'r personau y cyflwynwyd copïau ohono iddynt.

(5) Mae Pennod [2] o Ran [14] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi (gan gynnwys darpariaeth iddynt gael eu penderfynu gan arolygwyr).

**133 Rhoi caniatâd cynllunio etc. wrth benderfynu apêl [j521]**

(1) Wrth benderfynu apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y materion y pennir yn yr hysbysiad gorfodi eu bod yn dor rheolaeth gynllunio;

(b) dileu unrhyw amod y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo.

(2) Nid yw is-adran (1)(a) ond yn gymwys os yw'r seiliau ar gyfer gwneud yr apêl yn cynnwys y sail a grybwyllir yn adran 131(2)(a).

(3) Wrth ystyried a ydynt am roi caniatâd cynllunio o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) rhoi sylw i'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal y mae'r tir y mae'r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef ynddi ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, a

(b) gwneud eu penderfyniad yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn dangos fel arall.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru roi caniatâd cynllunio o dan yr adran hon—

(a) ar gyfer yr holl faterion y pennir eu bod yn dor rheolaeth gynllunio yn yr hysbysiad gorfodi neu unrhyw un neu ragor o'r materion hynny, a

(b) mewn perthynas â'r tir cyfan y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef neu unrhyw ran o'r tir hwnnw.

(5) Y caniatâd cynllunio y caniateir ei roi o dan yr adran hon yw unrhyw ganiatâd cynllunio y gellid ei roi ar gais o dan Ran [3].

(6) Os yw Gweinidogion Cymru yn dileu amod mewn caniatâd cynllunio o dan yr adran hon, cânt roi unrhyw amod arall yn ei le, pa un a yw'n fwy neu'n llai beichus.

(7) Mae Atodlen 3 (amodau sy'n ymwneud â gweithrediadau mwyngloddio a dyddodi gwastraff) yn gymwys, gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon fel y mae'n gymwys mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddir gan awdurdod cynllunio.

(8) Gweler hefyd Bennod [9] o Ran [3] ar gyfer darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau sy'n ymwneud â hyd a gweithrediad y caniatâd.

(9) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru mewn perthynas â rhoi caniatâd cynllunio neu ddileu amod mewn caniatâd cynllunio o dan yr adran hon yn derfynol.

**134 Dyroddi tystysgrif cyfreithlondeb wrth benderfynu apêl [j522]**

(1) Wrth benderfynu apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu a oedd ar y diwrnod y gwnaed yr apêl—

(a) defnydd presennol o'r tir y mae'r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon,

(b) gweithrediadau a oedd wedi eu cynnal ar y tir yn gyfreithlon, neu

(c) unrhyw fater arall sy'n fethiant i gydymffurfio ag amod mewn caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu'r tir yn gyfreithlon.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod unrhyw un neu ragor o'r pethau hynny yn gyfreithlon ar y diwrnod hwnnw, cânt ddyroddi tystysgrif cyfreithlondeb o dan adran 156.

(3) Mae adrannau 156(4) a 159(1), (2), (4) a (5) (cynnwys ac effaith tystysgrif) yn gymwys i dystysgrif cyfreithlondeb a ddyroddir yn rhinwedd yr adran hon, ond fel pe bai—

(a) y cyfeiriad at yr awdurdod cynllunio yn adran 156(4) yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru;

(b) cyfeiriadau at y cais am y dystysgrif yn gyfeiriadau at yr apêl yn erbyn yr hysbysiad gorfodi.

(4) Mae adran 163(2) i (4) (dirymu tystysgrif) yn gymwys i dystysgrif cyfreithlondeb a ddyroddir yn rhinwedd yr adran hon, ond fel pe bai'r cyfeiriad yn adran 163(2) at apêl o dan adran 160 yn gyfeiriad at apêl o dan adran 131[j518].

(5) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn gwneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol at ddiben peri penderfyniad penodol o dan yr adran hon ar apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi (pa un a yw'r apêl yn cael ei gwneud gan y person hwnnw neu gan unrhyw berson arall)—

(a) gwneud yn fwriadol neu'n ddi-hid ddatganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn modd perthnasol,

(b) gyda'r bwriad o dwyllo, defnyddio dogfen sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn modd perthnasol, neu

(c) gyda'r bwriad o dwyllo, celu gwybodaeth berthnasol.

(6) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (5) yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

(7) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru mewn perthynas â phenderfynu apêl o dan is-adran (1) yn derfynol.

*Cydymffurfio â hysbysiadau gorfodi*

### 135 Gorchymyn i ganiatáu camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi [j548]

(1) Caiff perchennog ar dir wneud cais drwy gŵyn i lys ynadon am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson arall sydd â buddiant yn y tir ganiatáu i'r perchennog gymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi.

(2) Caiff y llys wneud gorchymyn o'r fath os yw wedi ei fodloni bod y person arall yn atal y perchennog rhag cymryd camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad gorfodi.

### 136 Pŵer i fynd ar dir a chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi [j524]

(1) Os yw'r cyfnod y mae hysbysiad gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd ynddo wedi dod i ben ac nad yw'r cam wedi ei gymryd, caiff yr awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad ar unrhyw adeg resymol fynd ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef a chymryd y cam.

(2) Mae person sy'n fwriadol yn rhwystro person sy'n arfer pŵer o dan is-adran (1) yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sy’n euog o drosedd o dan is-adran (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw’n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**137 Adennill costau cydymffurfio â hysbysiad gorfodi [j549]**

(1) Pan fo awdurdod cynllunio yn arfer y pwerau o dan adran 136(1)[j524] i fynd ar dir a chymryd cam sy’n ofynnol gan hysbysiad gorfodi, caiff yr awdurdod adennill oddi wrth berson sydd ar y pryd yn berchennog ar y tir y costau y mae’n mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny.

(2) Os yw awdurdod cynllunio yn ceisio adennill costau o dan is-adran (1) oddi wrth berchennog ar dir—

(a) y mae ganddo hawlogaeth i gael crogrent y tir dim ond fel asiant neu ymddiriedolwr ar gyfer person arall (“y penadur”), a

(b) nad oes ganddo, ac nad oedd ganddo ar unrhyw adeg ers y diwrnod pan fynnwyd bod y costau yn cael eu talu, ddigon o arian ar ran y penadur i dalu’r costau yn llawn,

mae atebolrwydd yr asiant neu’r ymddiriedolwr wedi ei gyfyngu i gyfanswm yr arian y mae’r asiant neu’r ymddiriedolwr wedi ei gael ar ran y penadur ers y diwrnod hwnnw.

(3) Os yw is-adran (2) yn atal awdurdod cynllunio rhag adennill y cyfan o’i gostau oddi wrth asiant neu ymddiriedolwr, caiff eu hadennill oddi wrth y penadur, neu’n rhannol oddi wrth y penadur ac yn rhannol oddi wrth yr asiant neu’r ymddiriedolwr.

(4) Pan fo copi o hysbysiad gorfodi wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â thor rheolaeth gynllunio, mae—

(a) costau y mae perchennog neu feddiannydd ar y tir yn mynd iddynt at ddiben cydymffurfio â’r hysbysiad, a

(b) symiau y mae perchennog ar dir yn eu talu o dan is-adran (1) mewn cysylltiad â chostau y mae’r awdurdod cynllunio yn mynd iddynt wrth gymryd camau sy’n ofynnol gan yr hysbysiad,

i’w trin fel pe aed iddynt neu pe baent wedi eu talu at ddefnydd ac ar gais y person a gyflawnodd y tor rheolaeth gynllunio.

(5) Mae’r costau y gellir eu hadennill gan awdurdod cynllunio o dan is-adran (1), hyd nes iddynt gael eu hadennill, yn bridiant ar y tir y mae’r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef.

(6) Mae’r pridiant yn cymryd effaith fel pridiant tir lleol ar ddechrau’r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae’r awdurdod yn cwblhau’r camau y mae’r costau’n ymwneud â hwy.

(7) Mae is-adran (8) yn gymwys pan—

(a) bo awdurdod cynllunio yn symud ymaith ddeunyddiau o dir wrth gymryd camau sy’n ofynnol gan hysbysiad gorfodi, a

(b) na fo perchennog y deunyddiau, o fewn 3 diwrnod ar ôl y diwrnod y cânt eu symud ymaith, yn hawlio’r deunyddiau ac yn mynd â hwy i ffwrdd.

(8) O ran yr awdurdod cynllunio—

(a) caiff werthu’r deunyddiau, a

(b) os yw'n gwneud hynny, rhaid iddo dalu'r enillion i'r person a oedd yn berchen ar y deunyddiau, ar ôl didynnu unrhyw gostau y gall yr awdurdod eu hadennill oddi wrth y person.

**138 Troseddau o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi [j525]**

(1) Ar unrhyw adeg ar ôl diwedd y cyfnod y mae hysbysiad gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd neu i unrhyw weithgaredd gael ei stopio ynddo, os nad yw'r cam wedi ei gymryd neu os yw'r gweithgaredd yn cael ei gynnal, mae person sydd ar y pryd yn berchennog ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn euog o drosedd.

(2) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan is-adran (1), mae'n amddiffyniad i'r person brofi iddo wneud popeth y gellid bod wedi disgwyl iddo ei wneud i sicrhau i'r camau a bennir yn yr hysbysiad gael eu cymryd neu i'r gweithgareddau a bennir yn yr hysbysiad gael eu stopio.

(3) Mae is-adran (4) yn gymwys i berson, ac eithrio perchennog—

(a) sy'n rheolaethu'r tir y mae hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef, neu

(b) sydd â buddiant yn y tir.

(4) Mae'r person yn cyflawni trosedd os yw'r person, ar unrhyw adeg ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw weithgaredd gael ei stopio ynddo, yn cynnal y gweithgaredd neu'n peri neu'n caniatáu i'r gweithgaredd gael ei gynnal.

(5) Caniateir i berson gael ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon drwy gyfeirio at ddiwrnod neu gyfnod hwy, a chaniateir iddo gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â'r un hysbysiad gorfodi drwy gyfeirio at gyfnodau gwahanol.

(6) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan yr adran hon, mae'n amddiffyniad i'r person brofi—

(a) na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi i'r person,

(b) na chynhwyswyd yr hysbysiad ar y gofrestr a gedwir o dan adran 154[j538], ac

(c) nad oedd y person yn gwybod am fodolaeth yr hysbysiad.

(7) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

(8) Wrth benderfynu swm y ddirwy, rhaid i'r llys roi sylw yn benodol i unrhyw fudd ariannol sydd wedi cronni neu yr ymddengys ei fod yn debygol o gronni i'r person o ganlyniad i'r drosedd.

**139 Sicrwydd nad yw person yn wynebu risg o gael ei erlyn am drosedd o dan adran 138[j515]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod cynllunio wedi dyroddi hysbysiad gorfodi.

(2) Ar yr un pryd ag y cyflwynir copi o'r hysbysiad gorfodi i berson, neu ar unrhyw adeg ar ôl i gopi gael ei gyflwyno i'r person, caiff yr awdurdod cynllunio gyflwyno hysbysiad dim erlyn i'r person.

(3) Caiff yr awdurdod cynllunio hefyd gyflwyno hysbysiad dim erlyn i berson na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi iddo os—

(a) byddai copi o'r hysbysiad gorfodi yn cael ei gyflwyno iddo pe bai'n cael ei ailddyroddi, a

(b) yw'r person yn gofyn i'r awdurdod gyflwyno hysbysiad dim erlyn.

(4) Hysbysiad yw hysbysiad dim erlyn sy'n rhoi i'r person y'i cyflwynir iddo y sicrwydd nad yw'r person, o dan yr amgylchiadau fel y maent yn ymddangos i'r awdurdod cynllunio, naill ai—

(a) yn wynebu risg o gael ei erlyn am drosedd o dan adran 138[j525] mewn cysylltiad â'r hysbysiad gorfodi, na

(b) yn wynebu risg o gael ei erlyn am drosedd o'r fath mewn cysylltiad â materion sy'n ymwneud â'r hysbysiad gorfodi sy'n cael eu pennu yn yr hysbysiad dim erlyn.

(5) Os yw'r hysbysiad dim erlyn yn rhoi'r sicrwydd mewn cysylltiad â materion a bennir o dan is-adran (4)(b), rhaid iddo egluro ym mha gyswllt y mae'r person yn wynebu risg o gael ei erlyn am drosedd o dan adran 138[j525] mewn cysylltiad â'r hysbysiad gorfodi.

(6) Rhaid i hysbysiad dim erlyn ddatgan effaith is-adrannau (7) ac (8).

(7) Ar unrhyw adeg ar ôl i awdurdod cynllunio gyflwyno hysbysiad dim erlyn i berson, caiff gyflwyno hysbysiad i'r person yn tynnu'r sicrwydd yn ôl, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, o adeg a bennir yn yr hysbysiad.

(8) Rhaid i'r adeg a bennir yn yr hysbysiad roi cyfle rhesymol i'r person i gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol er mwyn osgoi risg o erlyniad na fydd y sicrwydd yn ei gwmpasu mwyach.

(9) Nid yw'r hysbysiad yn tynnu'r sicrwydd yn ôl i'r graddau y bo'n ymwneud ag erlyniad mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r hysbysiad gorfodi cyn yr adeg benodedig.

(10) Mae sicrwydd a roddir o dan yr adran hon (i'r graddau nad yw'n cael ei dynnu'n ôl) yn rhwymo unrhyw berson sydd â'r pŵer i erlyn am drosedd o dan adran 138[j525].

*Darpariaethau pellach ynghylch effaith hysbysiadau gorfodi*

**140 Y seiliau dros apelio i beidio â chael eu codi mewn achos arall [j541]**

(1) Ni chaniateir cwestiynu dilysrwydd hysbysiad gorfodi, ar unrhyw un neu ragor o'r seiliau y caniateir dwyn apêl arnynt o dan adran 131[j518], mewn unrhyw achos ac eithrio apêl o dan yr adran honno.

(2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i achos am drosedd o dan adran 138[j525] yn erbyn person—

(a) sydd wedi dal buddiant yn y tir y mae'r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef ers cyn i'r hysbysiad gael ei ddyroddi,

(b) na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad iddo, ac

(c) sy'n bodloni'r llys—

(i) nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, am fodolaeth yr hysbysiad, a

(ii) bod y methiant i gyflwyno copi o'r hysbysiad wedi cael effaith andwyol sylweddol ar fuddiannau'r person.

**141 Effaith rhoi caniatâd cynllunio ar hysbysiad gorfodi [j526]**

(1) Os—

(a) oes hysbysiad gorfodi wedi ei ddyroddi, a

(b) rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a gynhaliwyd cyn i'r caniatâd cynllunio gael ei roi,

mae'r hysbysiad yn peidio â chael effaith (neu nid yw'n cymryd effaith) i'r graddau y bo'n anghyson â'r caniatâd.

(2) Nid yw'r ffaith bod hysbysiad gorfodi wedi peidio â chael effaith yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn rhinwedd yr adran hon yn effeithio ar atebolrwydd unrhyw berson am drosedd mewn cysylltiad â methiant blaenorol i gydymffurfio â'r hysbysiad.

**142 Caniatâd cynllunio tybiedig pan gydymffurfir â hysbysiad gorfodi [j516]**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan—

(a) dyroddir hysbysiad gorfodi mewn cysylltiad â thor rheolaeth gynllunio,

(b) gallai'r hysbysiad ei gwneud yn ofynnol symud ymaith adeiladau neu waith neu stopio gweithgaredd, ond nad yw'n gwneud hynny, ac

(c) cydymffurfir â holl ofynion yr hysbysiad.

(2) Mae caniatâd cynllunio i'w drin fel pe bai wedi ei roi yn rhinwedd adran 49 ar gyfer—

(a) codi'r adeiladau neu adeiladu neu gynnal y gwaith, i'r graddau nad yw'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol eu symud ymaith neu ei symud ymaith;

(b) cynnal y gweithgaredd, i'r graddau nad yw'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei stopio.

(3) Mae is-adran (4) yn gymwys pan—

(a) bo hysbysiad gorfodi yn cael ei ddyroddi mewn cysylltiad â dymchwel adeilad,

(b) bo'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol codi adeilad amnewid, ac

(c) cydymffurfir â holl ofynion yr hysbysiad yn ymwneud â chodi'r adeilad amnewid.

(4) Mae caniatâd cynllunio i'w drin fel pe bai wedi ei roi yn rhinwedd adran 49 ar gyfer codi'r adeilad amnewid.383[j2601]

**143 Effaith barhaus hysbysiad gorfodi mewn perthynas â datblygiad diweddarach [j527]**

(1) Nid yw cydymffurfio â gofynion hysbysiad gorfodi yn peri i'r hysbysiad beidio â chael effaith.

(2) Yn unol â hynny, mae hysbysiad gorfodi sy'n ei gwneud yn ofynnol datbarhau defnydd o dir yn gwahardd ailddechrau'r defnydd hwnnw, i'r graddau y bo'n dor rheolaeth gynllunio, ar ôl iddo gael ei ddatbarhau mewn cydymffurfedd â'r hysbysiad.

(3) Mae is-adrannau (4) i (6) yn gymwys os—

(a) caiff adeiladau neu waith sydd wedi eu haddasu neu ei addasu neu eu symud ymaith neu ei symud ymaith mewn cydymffurfedd â hysbysiad gorfodi eu hadfer neu eu hailosod neu ei adfer neu ei ailosod, a

(b) yw'r adfer neu'r ailosod yn dor rheolaeth gynllunio, neu'n rhan ohono.

(4) Mae'r hysbysiad gorfodi yn gymwys i'r adeiladau fel y'u hadferwyd neu y'u hailosodwyd neu'r gwaith fel y'i hadferwyd neu y'i hailosodwyd (hyd yn oed os nad yw unrhyw un neu ragor o'i delerau yn addas ar eu cyfer neu ar ei gyfer) yn yr un modd ag yr oedd yn gymwys i'r adeiladau cyn iddynt gael eu haddasu neu eu symud ymaith neu'r gwaith cyn iddo gael ei addasu neu ei symud ymaith.

(5) Caiff yr awdurdod cynllunio arfer ei bwerau o dan adran 136(1)[j524] fel pe na bai'r camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad gorfodi i addasu neu i symud ymaith yr adeiladau neu'r gwaith wedi eu cymryd.

(6) O leiaf 28 o ddiwrnodau cyn arfer y pwerau hynny, rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad o'i fwriad i wneud hynny i bob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef.

(7) Mae is-adrannau (8) a (9) yn gymwys—

(a) os yw adeiladau sydd wedi eu haddasu neu eu symud ymaith neu waith sydd wedi ei addasu neu ei symud ymaith mewn cydymffurfedd â hysbysiad gorfodi yn cael eu hadfer neu eu hailosod neu ei adfer neu ei ailosod, a

(b) os yw'r adfer neu'r ailosod yn dor rheolaeth gynllunio.

(8) Mae person sy'n cynnal yr adfer neu'r ailosod yn cyflawni trosedd ac yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

(9) Nid yw unrhyw berson yn atebol o dan adran 138(1)[j525] mewn cysylltiad â methiant i gymryd camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad gorfodi i addasu neu i symud ymaith yr adeiladau fel y'u hadferwyd neu y'u hailosodwyd neu'r gwaith fel y'i hadferwyd neu y'i hailosodwyd.

*Gorfodi gan Weinidogion Cymru*

**144 Pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad gorfodi [j528]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad gorfodi os ydynt yn ystyried bod tor rheolaeth gynllunio wedi digwydd mewn cysylltiad ag unrhyw dir yng Nghymru.

(2) Wrth ystyried a ydynt am ddyroddi hysbysiad gorfodi, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) rhoi sylw i'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal y mae'r tir ynddi ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, a

(b) gwneud eu penderfyniad yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn dangos fel arall.

(3) Cyn dyroddi'r hysbysiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal.

(4) Mae i hysbysiad gorfodi a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yr un effaith ag un a ddyroddir gan yr awdurdod cynllunio.

(5) Mae adrannau 128(3)[j513] i 143[j527] yn gymwys mewn perthynas â hysbysiad gorfodi a ddyroddir gan Weinidogion Cymru fel pe bai—

(a) ac eithrio yn adrannau 134(3)(a)[j522] a 139(2)[j515] i (7)[j515], gyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio yn gyfeiriadau at Weinidogion Cymru;

(b) yn adran 139(2)[j515] i (7)[j515], gyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio yn gyfeiriadau at y Cwnsler Cyffredinol.

*Hysbysiadau stop*

**145 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad stop [j529]**

(1) Caiff awdurdod cynllunio ddyroddi hysbysiad stop os yw’r awdurdod—

(a) yn dyroddi hysbysiad gorfodi sy’n ei gwneud yn ofynnol i weithgaredd gael ei stopio o fewn cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, a

(b) yn ystyried y dylai gweithgaredd perthnasol gael ei stopio cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(2) Ystyr “gweithgaredd perthnasol” yw—

(a) gweithgaredd y mae’r hysbysiad gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei stopio;

(b) unrhyw weithgaredd a gynhelir fel rhan o’r gweithgaredd hwnnw neu sy’n gysylltiedig ag ef.

(3) Rhaid i hysbysiad stop—

(a) cyfeirio at yr hysbysiad gorfodi,

(b) gwahardd cynnal y gweithgaredd perthnasol ar y tir y mae’r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef (neu ar unrhyw ran o’r tir hwnnw a bennir yn yr hysbysiad stop), ac

(c) pennu’r dyddiad y mae i gymryd effaith arno.

**146 Cyfyngiadau ar y pŵer i ddyroddi hysbysiad stop [j542]**

(1) Ni chaiff awdurdod cynllunio ddyroddi hysbysiad stop ar ôl i’r hysbysiad gorfodi y mae’n ymwneud ag ef gymryd effaith.

(2) Ni chaiff hysbysiad stop wahardd defnyddio adeilad fel annedd.

(3) Ni chaiff hysbysiad stop wahardd cynnal gweithgaredd sydd wedi ei gynnal (boed hynny’n ddi-dor ai peidio) am o leiaf 4 blynedd cyn y diwrnod y cyflwynir copi o’r hysbysiad o dan adran 147[j545] am y tro cyntaf.

(4) At ddibenion is-adran (3) rhaid anwybyddu unrhyw gyfnod yr oedd y gweithgaredd wedi ei awdurdodi gan ganiatâd cynllunio ynddo.

(5) Nid yw is-adran (3) yn atal hysbysiad stop rhag gwahardd—

(a) cynnal gweithrediadau ar dir neu unrhyw weithgaredd sy’n ddeilliadol iddynt, na

(b) dyddodi gwastraff ar dir.

**147 Cyflwyno ac arddangos hysbysiad stop [j545]**

(1) Pan fo awdurdod cynllunio yn dyroddi hysbysiad stop, rhaid iddo gyflwyno copi o’r hysbysiad i unrhyw berson a grybwyllir yn is-adran (2) y mae’n ystyried ei fod yn briodol.

(2) Y personau yw unrhyw berson y mae’r awdurdod yn ystyried—

(a) bod ganddo fuddiant yn y tir y mae’r hysbysiad stop yn ymwneud ag ef, neu

(b) ei fod yn cynnal unrhyw weithgaredd y mae’r hysbysiad yn ei wahardd.

(3) Caiff yr awdurdod gyflwyno copi o'r hysbysiad stop ar yr un pryd ag y mae'n cyflwyno copi o'r hysbysiad gorfodi y mae'n ymwneud ag ef neu ar ôl gwneud hynny.

(4) Rhaid i gopi o'r hysbysiad gorfodi gael ei gynnwys gyda phob copi o'r hysbysiad stop a gyflwynir.

(5) Rhaid i bob copi o'r hysbysiad stop gael ei gyflwyno—

(a) dim mwy na 28 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad stop fel y dyddiad y mae i gymryd effaith;

(b) o leiaf 3 diwrnod cyn y dyddiad hwnnw, oni bai bod yr awdurdod cynllunio—

(i) yn ystyried bod rhesymau arbennig pam y dylai'r copi o'r hysbysiad gael ei gyflwyno yn hwyrach, a

(ii) yn cyflwyno datganiad o'r rhesymau hynny gyda'r copi.

(6) Pan fo awdurdod cynllunio yn dyroddi hysbysiad stop, caiff arddangos hysbysiad safle ar y tir y mae'r hysbysiad stop yn ymwneud ag ef.

(7) Os nad yw'n rhesymol ymarferol arddangos hysbysiad safle ar y tir, caiff yr awdurdod yn lle hynny arddangos hysbysiad safle mewn man amlwg mor agos i'r tir ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(8) Rhaid i hysbysiad safle—

(a) datgan bod hysbysiad stop wedi ei ddyroddi,

(b) pennu ar ba ddyddiad y mae'r hysbysiad stop yn cymryd effaith,

(c) dynodi gofynion yr hysbysiad stop, a

(d) datgan effaith adran 151[j532] (y drosedd o dorri hysbysiad stop).

### 148 Tynnu hysbysiad stop yn ôl [j546]

(1) Pan fo awdurdod cynllunio wedi dyroddi hysbysiad stop, caiff dynnu'r hysbysiad yn ôl ar unrhyw adeg.

(2) Yn union ar ôl i awdurdod dynnu hysbysiad stop yn ôl—

(a) rhaid iddo gyflwyno hysbysiad o'r tynnu'n ôl i bob person y mae copi o'r hysbysiad stop wedi ei gyflwyno iddo, a

(b) os yw wedi arddangos hysbysiad safle mewn cysylltiad â'r hysbysiad stop o dan adran 147(6)[j545] neu (7)[j545], rhaid iddo arddangos hysbysiad o'r tynnu'n ôl yn lle'r hysbysiad safle.

(3) Nid yw tynnu hysbysiad stop yn ôl yn atal yr awdurdod cynllunio rhag dyroddi hysbysiad stop arall.

### 149 Hyd ac effaith hysbysiad stop [j530]

(1) Mae hysbysiad stop yn cymryd effaith ar ddechrau'r diwrnod a bennir yn yr hysbysiad o dan adran 145(3)(c)[j529].

(2) Mae hysbysiad stop yn cael effaith hyd ddiwedd y cyfnod y mae'r hysbysiad gorfodi y mae'n ymwneud ag ef yn ei gwneud yn ofynnol i weithgaredd gael ei stopio ynddo.

(3) Ond mae'r hysbysiad stop yn peidio â chael effaith cyn diwedd y cyfnod hwnnw—

(a) os caiff yr hysbysiad gorfodi ei dynnu'n ôl neu ei ddiddymu, neu

(b) os caiff yr hysbysiad stop ei dynnu'n ôl.

(4) Os yw'r hysbysiad gorfodi yn cael ei amrywio fel bod gweithgaredd yn peidio â bod yn weithgaredd perthnasol (o fewn yr ystyr a roddir gan 145(2)[j529]), mae'r hysbysiad stop yn peidio â chael effaith i'r graddau y bo'n gwahardd y gweithgaredd hwnnw.

(5) Nid yw hysbysiad stop yn annilys am na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi y mae'n ymwneud ag ef i berson fel sy'n ofynnol gan adran 129[j514], os dangosir y gwnaeth yr awdurdod cynllunio bopeth a oedd yn rhesymol ymarferol i gyflwyno'r hysbysiad gorfodi fel sy'n ofynnol gan yr adran honno.

**150 Pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad stop [j531]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad stop—

(a) os dyroddir hysbysiad gorfodi (boed hynny gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdod cynllunio) sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithgaredd gael ei stopio o fewn cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, a

(b) os ydynt yn ystyried y dylai gweithgaredd perthnasol (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 145(2)[j529]) gael ei stopio cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(2) Cyn dyroddi'r hysbysiad stop, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn ei ardal.

(3) Mae i hysbysiad stop a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yr un effaith ag un a ddyroddir gan yr awdurdod cynllunio.

(4) Mae adrannau 145(2)[j529] i 149[j530] yn gymwys mewn perthynas â hysbysiad stop a ddyroddir gan Weinidogion Cymru fel pe bai cyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio yn gyfeiriadau at Weinidogion Cymru.

**151 Y drosedd o dorri hysbysiad stop [j532]**

(1) Mae person yn cyflawni trosedd—

(a) os yw'r person, ar unrhyw adeg pan fydd hysbysiad stop yn cael effaith, yn cynnal gweithgaredd perthnasol (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 145(2)[j529]) sydd wedi ei wahardd gan yr hysbysiad neu'n peri neu'n caniatáu i weithgaredd o'r fath gael ei gynnal, a

(b) os yw awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru—

(i) wedi cyflwyno copi o'r hysbysiad stop i'r person, neu

(ii) wedi arddangos hysbysiad safle mewn cysylltiad â'r hysbysiad stop o dan adran 147(6)[j545] neu (7)[j545].

(2) Caniateir i berson gael ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon drwy gyfeirio at ddiwrnod neu gyfnod hwy, a chaniateir iddo gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â'r un hysbysiad stop drwy gyfeirio at gyfnodau gwahanol.

(3) Mewn achos sy'n dod o fewn is-adran (1)(b)(ii), mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o drosedd o dan yr adran hon i brofi—

(a) na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad stop i'r person, a

(b) nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, am fodolaeth yr hysbysiad.

(4) Mae person sy’n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

(5) Wrth benderfynu swm y ddirwy, rhaid i’r llys roi sylw yn benodol i unrhyw fudd ariannol sydd wedi cronni, neu yr ymddengys ei fod yn debygol o gronni, i’r person o ganlyniad i’r drosedd.

**152 Digolllediad am golled neu ddifrod a achosir gan hysbysiad stop [j533]**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo, ar ôl i gopi o hysbysiad stop gael ei gyflwyno—

(a) yr hysbysiad gorfodi y mae’r hysbysiad stop yn ymwneud ag ef yn cael ei ddiddymu,

(b) yr hysbysiad gorfodi yn cael ei amrywio fel bod gweithgaredd a waherddir gan yr hysbysiad stop yn peidio â bod yn weithgaredd perthnasol (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 145(2)[j529]),

(c) yr hysbysiad gorfodi yn cael ei dynnu’n ôl, neu

(d) yr hysbysiad stop yn cael ei dynnu’n ôl.

(2) Yn is-adran (1)[j533]—

(a) nid yw paragraffau (a) a (b) yn gymwys os yw’r hysbysiad gorfodi yn cael ei ddiddymu neu ei amrywio ar sail a grybwyllir yn adran 131(2)(a)[j518] (apêl ar y sail y dylai caniatâd cynllunio gael ei roi neu y dylai amod mewn caniatâd cynllunio gael ei ddileu);

(b) nid yw paragraff (c) yn gymwys os yw—

(i) datblygiad y mae’r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef yn cael ei awdurdodi gan ganiatâd cynllunio a roddir ar y diwrnod y mae’r hysbysiad gorfodi yn cael ei gyflwyno neu ar ôl hynny, a

(ii) yr hysbysiad gorfodi yn cael ei dynnu’n ôl o ganlyniad i roi’r caniatâd hwnnw.

(3) Mae gan unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir neu sy’n meddiannu’r tir y mae’r hysbysiad stop yn ymwneud ag ef ar yr adeg y cyflwynir copi o’r hysbysiad am y tro cyntaf hawlogaeth i gael ei ddigolledu am unrhyw golled neu unrhyw ddifrod a ddioddefir gan y person y gellir ei phriodoli neu ei briodoli’n uniongyrchol i—

(a) y gwaharddiad a gynhwysir yn yr hysbysiad, neu

(b) mewn achos sy’n dod o fewn is-adran (1)(b), wahardd gan yr hysbysiad y gweithgareddau sy’n peidio â bod yn weithgareddau perthnasol.

(4) Mae’r golled neu’r difrod y mae digolllediad yn daladwy amdani neu amdano yn cynnwys unrhyw swm sy’n daladwy mewn cysylltiad â thor contract a achosir drwy gymryd camau gweithredu sy’n angenrheidiol i gydymffurfio â’r gwaharddiad.

(5) Mae digolllediad o dan yr adran hon yn daladwy—

(a) mewn achos pan mai awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad gorfodi y mae’r hysbysiad stop yn ymwneud ag ef, gan yr awdurdod cynllunio;

(b) mewn achos pan mai Gweinidogion Cymru a ddyroddodd yr hysbysiad gorfodi, gan Weinidogion Cymru.

(6) Nid oes digollediad yn daladwy o dan yr adran hon mewn cysylltiad â gwahardd gweithgaredd sydd, ar unrhyw adeg pan fydd yr hysbysiad stop yn cael effaith, yn dor rheolaeth gynllunio neu'n cyfrannu ato.

(7) Nid oes digollediad yn daladwy o dan yr adran hon am golled neu ddifrod y gallai'r hawlydd fod wedi ei hosgoi neu ei osgoi drwy—

(a) darparu gwybodaeth yr oedd yn ofynnol i'r hawlydd ei darparu drwy—

(i) hysbysiad ymchwilio am orfodi,

(ii) hysbysiad gwybodaeth (gweler adran 383), neu

(iii) hysbysiad o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (p. 57), neu

(b) cydweithredu â'r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd arall wrth ymateb i hysbysiad o'r fath.

(8) Rhaid i hawliad am ddigolledaid o dan yr adran hon gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) o fewn 12 mis sy'n dechrau—

(a) mewn achos sy'n dod o fewn is-adran (1)(a), (b) neu (c), â'r diwrnod y mae'r hysbysiad gorfodi yn cael ei ddiddymu, ei amrywio neu ei dynnu'n ôl;

(b) mewn achos sy'n dod o fewn is-adran (1)(d), â'r diwrnod y mae'r hysbysiad stop yn cael ei dynnu'n ôl.

*Gwaharddebau*

### 153 Gwaharddebau i atal tor rheolaeth gynllunio [j534]

(1) Caiff awdurdod cynllunio wneud cais i'r Uchel Lys neu'r llys sirol am waharddeb sy'n atal tor rheolaeth gynllunio gwirioneddol neu ddisgwyliedig mewn cysylltiad â thir yn ardal yr awdurdod.

(2) Caiff awdurdod wneud cais pa un a yw wedi arfer neu'n cynnig arfer unrhyw un neu ragor o'i bwerau eraill o dan y Rhan hon ai peidio.

(3) Caiff y llys roi gwaharddeb ar unrhyw delerau y mae'n ystyried eu bod yn briodol at ddiben atal y toriad.

(4) Caiff rheolau llys ddarparu i waharddeb gael ei dyroddi yn erbyn person nad yw'n hysbys pwy ydyw.

*Cofrestr*

### 154 Cofrestr o hysbysiadau gorfodi, camau gorfodi eraill a hysbysiadau stop [j538]

(1) Rhaid i awdurdod cynllunio gadw cofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth a bennir mewn rheoliadau sy'n ymwneud â—

(a) hysbysiadau rhybuddio am orfodi a ddyroddir gan yr awdurdod,

(b) hysbysiadau tor amod a gyflwynir gan yr awdurdod,

(c) hysbysiadau gorfodi a ddyroddir gan yr awdurdod neu Weinidogion Cymru mewn perthynas â thir yn ardal yr awdurdod, a

(d) hysbysiadau stop a ddyroddir gan yr awdurdod neu Weinidogion Cymru mewn perthynas â thir yn ardal yr awdurdod.

(2) Caiff y rheoliadau ddarparu ar gyfer tynnu'r cofnod sy'n ymwneud â hysbysiad (a phopeth arall sy'n ymwneud â'r hysbysiad) o'r gofrestr o dan amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau.

(3) Rhaid i'r gofrestr gael ei chadw yn y ffordd a bennir yn y rheoliadau.

(4) Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'r cyhoedd edrych arni ar bob adeg resymol.

## RHAN 5

## TYSTYSGRIFAU CYFREITHLONDEB

### 155 Ymadroddion yn ymwneud â chyfreithlondeb [j580]

(1) At ddibenion y Ddeddf hon, mae defnyddiau o dir a gweithrediadau a gynhelir ar dir yn gyfreithlon—

(a) os na chaniateir cymryd unrhyw gamau gorfodi mewn cysylltiad â hwy, a

(b) os nad ydynt yn fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ofynion hysbysiad gorfodi sy'n cael effaith.

(2) At ddibenion is-adran (1)(a)[j580] nid yw o bwys ai'r rheswm na chaniateir cymryd camau gorfodi yw—

(a) nad yw'r defnyddiau neu'r gweithrediadau yn golygu datblygiad,

(b) nad yw cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol (er enghraifft, am fod caniatâd wedi ei roi drwy orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol),

(c) bod y cyfnod ar gyfer cymryd cam gorfodi wedi dod i ben, neu

(d) unrhyw reswm arall.

(3) At ddibenion y Ddeddf hon, mae mater sy'n fethiant i gydymffurfio ag amod mewn caniatâd cynllunio yn gyfreithlon—

(a) os yw'r cyfnod ar gyfer cymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â'r methiant wedi dod i ben, a

(b) os nad yw'r mater yn fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ofynion hysbysiad tor amod neu hysbysiad gorfodi sy'n cael effaith.

(4) Gweler Rhan 4 am ddarpariaeth ynghylch y cyfnod ar gyfer cymryd cam gorfodi a'r adegau pan fydd hysbysiadau tor amod a hysbysiadau gorfodi yn cael effaith.

(5) Yn y Rhan hon—

(a) nid yw cyfeiriadau at ddefnydd o dir yn cynnwys defnydd er mwyn cynnal gweithrediadau ar y tir;

(b) mae cyfeiriadau at amod mewn caniatâd cynllunio yn cynnwys cyfyngiad;

(c) ystyr "tystysgrif cyfreithlondeb" yw tystysgrif a ddyroddir o dan adran 156[j581] neu 157[j582].

**156 Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnydd neu ddatblygiad presennol [j581]**

(1) Caiff unrhyw berson wneud cais i awdurdod cynllunio am dystysgrif sy'n cadarnhau—

(a) bod defnydd presennol o dir yn ardal yr awdurdod yn gyfreithlon,

(b) bod gweithrediadau sydd wedi eu cynnal ar dir yn ei ardal yn gyfreithlon, neu

(c) bod unrhyw fater arall sy'n fethiant i gydymffurfio ag amod mewn caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir yn ei ardal yn gyfreithlon.

(2) Rhaid i'r awdurdod ddyroddi tystysgrif os darperir gwybodaeth iddo sy'n ei fodloni ynghylch cyfreithlondeb, ar y diwrnod y gwnaed y cais—

(a) y defnydd, y gweithrediadau neu'r mater arall a ddisgrifir yn y cais, neu

(b) defnydd, gweithrediadau neu fater arall o'r disgrifiad hwnnw fel y'i haddaswyd gan yr awdurdod neu o ddisgrifiad a amnewidiwyd ganddo.

(3) Mewn unrhyw achos arall, rhaid i'r awdurdod wrthod y cais.

(4) Mae tystysgrif a ddyroddir o dan yr adran hon yn derfynol o ran cyfreithlondeb y defnydd, y gweithrediadau neu'r mater arall y mae'n ymwneud ag ef neu â hwy ar y diwrnod y gwnaed y cais.

(5) Am ddarpariaeth bellach ynghylch effaith tystysgrif a ddyroddir o dan yr adran hon mewn cysylltiad â defnydd, gweler—

(a) adran 39(5) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (dccc 6) (trwyddedu safleoedd cartrefi symudol sy'n safleoedd rheoleiddiedig);

(b) adran 29(4B) o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 (p. 62) (trwyddedu safleoedd carafannau eraill).

**157 Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnydd neu ddatblygiad arfaethedig [j582]**

(1) Caiff unrhyw berson wneud cais i awdurdod cynllunio am dystysgrif sy'n cadarnhau—

(a) y byddai defnydd arfaethedig o dir yn ardal yr awdurdod yn gyfreithlon, neu

(b) y byddai gweithrediadau y cynigir eu cynnal ar dir yn ei ardal yn gyfreithlon.

(2) Rhaid i'r awdurdod ddyroddi tystysgrif os darperir gwybodaeth iddo sy'n ei fodloni y byddai'r defnydd neu'r gweithrediadau a ddisgrifir yn y cais wedi bod yn gyfreithlon pe bai neu pe baent wedi dechrau ar yr un diwrnod ag y gwnaed y cais.

(3) Mewn unrhyw achos arall, rhaid i'r awdurdod wrthod y cais.

(4) Mae tystysgrif a ddyroddir o dan yr adran hon yn derfynol o ran cyfreithlondeb y defnydd neu'r gweithrediadau y mae'n ymwneud ag ef neu â hwy, oni bai bod newid sylweddol mewn unrhyw fater sy'n berthnasol i'w cyfreithlondeb rhwng y diwrnod y gwneir y cais am y dystysgrif a'r diwrnod y mae'r defnydd neu'r gweithrediadau yn dechrau.

**158 Darpariaeth bellach ynghylch ceisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb [j583]**

(1) Rhaid i gais am dystysgrif cyfreithlondeb—

(a) pennu'r tir y mae'n ymwneud ag ef, a

(b) disgrifio'r defnydd, y gweithrediadau neu'r mater arall y mae'n ymwneud ag ef neu â hwy.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch ceisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb, gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys cais;

(b) sut y mae rhaid gwneud cais;

(c) dogfennau neu ddeunyddiau eraill sydd i'w cynnwys gyda chais.

(3) Caiff awdurdod cynllunio ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i gais i'r awdurdod am dystysgrif cyfreithlondeb gynnwys—

(a) unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol;

(b) unrhyw dystiolaeth i ategu unrhyw beth sydd yn y cais neu'n ymwneud â'r cais y mae'n ystyried ei bod yn angenrheidiol.

(4) Ni chaiff awdurdod cynllunio ystyried cais a wneir iddo am dystysgrif cyfreithlondeb os yw'r cais yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan is-adrannau (1)[j583] i (3)[j583] neu odanynt.

(5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae awdurdod cynllunio i ymdrin â chais am dystysgrif cyfreithlondeb.

(6) Yn benodol, caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod—

(a) rhoi hysbysiad i geisydd, o fewn cyfnod a bennir yn y rheoliadau, am sut yr ymdriniwyd â chais, a

(b) rhoi gwybodaeth i Weinidogion Cymru neu i unrhyw berson arall ynghylch ceisiadau a wnaed i'r awdurdod (a gaiff gynnwys gwybodaeth ynghylch sut yr ymdriniwyd â chais).

(7) Caiff rheoliadau ddarparu bod unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf hon neu odani i beidio â bod yn gymwys, neu i fod yn gymwys gydag addasiadau, i gais am dystysgrif o dan adran 157[j582] a wneir gan y Goron neu ar ei rhan.

**159 Darpariaeth bellach ynghylch tystysgrifau cyfreithlondeb [j583b]**

(1) Rhaid i dystysgrif cyfreithlondeb—

(a) pennu'r tir y mae'n ymwneud ag ef,

(b) disgrifio'r defnydd, y gweithrediadau neu'r mater arall y mae'n ymwneud ag ef neu â hwy,

(c) rhoi rhesymau'r awdurdod cynllunio dros benderfynu bod y defnydd, y gweithrediadau neu'r mater arall yn gyfreithlon, a

(d) datgan ar ba ddyddiad y gwnaed y cais am y dystysgrif.

(2) Rhaid i dystysgrif mewn cysylltiad â defnydd o fewn dosbarth a bennir mewn rheoliadau o dan adran 6(6) hefyd bennu'r defnydd drwy gyfeirio at y dosbarth hwnnw.

(3) Caniateir dyroddi tystysgrif cyfreithlondeb—

(a) ar gyfer y tir cyfan a bennir yn y cais neu unrhyw ran o'r tir hwnnw, a

(b) pan fo'r cais yn pennu dau neu ragor o ddefnyddiau, gweithrediadau neu faterion eraill, ar gyfer pob un ohonynt neu unrhyw un neu ragor ohonynt.

(4) Nid yw tystysgrif cyfreithlondeb ond yn cael effaith mewn perthynas â mater sy'n fethiant i gydymffurfio ag amod mewn caniatâd cynllunio os yw'r mater yn cael ei ddisgrifio yn y dystysgrif.

(5) Caiff rheoliadau bennu ffurf a chynnwys tystysgrif cyfreithlondeb.

**160 Yr hawl i apelio yn erbyn gwrthod cais neu fethu â gwneud penderfyniad [j585]**

(1) Caiff person sydd wedi gwneud cais i awdurdod cynllunio am dystysgrif cyfreithlondeb apelio i Weinidogion Cymru—

(a) os yw'r awdurdod yn gwrthod y cais yn llwyr neu'n rhannol, neu

(b) os nad yw'r awdurdod yn rhoi hysbysiad i'r ceisydd am ei benderfyniad ynghylch y cais o fewn y cyfnod penderfynu.

(2) Yn yr adran hon ystyr "y cyfnod penderfynu" yw—

(a) y cyfnod a bennir mewn rheoliadau, neu

(b) cyfnod hwy y cytunir arno yn ysgrifenedig rhwng y ceisydd a'r awdurdod.

(3) Rhaid gwneud apêl drwy gyflwyno hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf hysbysiad o apêl;

(b) gwybodaeth y mae rhaid iddi gael ei chynnwys gyda hysbysiad o apêl;

(c) y ffordd y mae rhaid cyflwyno hysbysiad o apêl, a'r cyfnod y mae rhaid cyflwyno hysbysiad o apêl ynddo (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i estyn y cyfnod).

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir gan reoliadau o dan is-adran (4)(c)[j585] fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth—

(a) yn achos apêl o dan is-adran (1)(a)[j585], y diwrnod y mae'r ceisydd yn cael hysbysiad am y penderfyniad, neu

(b) yn achos apêl o dan is-adran (1)(b)[j585], diwedd y cyfnod penderfynu.

(6) Yn is-adran (1)(a)[j585] mae'r cyfeiriad at wrthod cais yn rhannol yn cynnwys addasu neu amnewid y disgrifiad o ddefnydd, gweithrediadau neu fater arall o dan adran 156(2)(b)[j581].

**161 Cyfyngiad ar amrywio cais ar ôl cyflwyno hysbysiad o apêl [j585b]**

(1) Unwaith y bydd hysbysiad o apêl o dan adran 160[j585] wedi ei gyflwyno, ni chaniateir amrywio'r cais y mae'r apêl yn ymwneud ag ef ac eithrio o dan amgylchiadau a bennir mewn rheoliadau.

(2) Pan fo cais yn cael ei amrywio o dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod rhaid ymgynghori ymhellach mewn perthynas â'r cais.

**162 Penderfynu apêl [j586]**

(1) Ar apêl o dan adran 160[j585] rhaid i Weinidogion Cymru ganiatáu'r apêl os ydynt wedi eu bodloni ac i'r graddau y bônt wedi eu bodloni—

(a) yn achos apêl o dan adran 160(1)(a)[j585], nad oedd y gwrthodiad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef ar sail dda;

(b) yn achos apêl o dan adran 160(1)(b)[j585], pe bai'r awdurdod cynllunio wedi gwrthod y cais y mae'r apêl yn ymwneud ag ef na fyddai'r gwrthodiad wedi bod ar sail dda.

(2) Mewn unrhyw achos arall, rhaid iddynt wrthod yr apêl.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn caniatáu'r apêl i unrhyw raddau, rhaid iddynt—

(a) mewn achos pan na ddyroddwyd tystysgrif cyfreithlondeb ar y cais, ddyroddi tystysgrif o dan adran 156[j581] neu 157[j582];

(b) mewn achos pan ddyroddwyd tystysgrif ar y cais, amrywio telerau'r dystysgrif.

(4) Mae adran 156(4)[j581] neu 157(4)[j582] ac adran 159[j583b] yn gymwys i dystysgrif a ddyroddir neu a amrywir gan Weinidogion Cymru ar apêl o dan adran 160[j585], ond fel pe bai'r cyfeiriad yn adran 159(1)(c)[j583b] at yr awdurdod cynllunio yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru.

(5) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar apêl yn derfynol.

(6) Mae pennod [2] o Ran [14] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried apelau o dan adran 160[j585] (gan gynnwys darpariaeth iddynt gael eu penderfynu gan arolygwyr).

**163 Dirymu tystysgrif cyfreithlondeb [j584]**

(1) Caiff awdurdod cynllunio ddirymu tystysgrif cyfreithlondeb a ddyroddwyd gan yr awdurdod os, mewn cysylltiad â'r cais am y dystysgrif—

(a) gwnaed datganiad, neu defnyddiwyd dogfen, a oedd yn anwir mewn modd perthnasol, neu

(b) cafodd gwybodaeth berthnasol ei hatal.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu tystysgrif cyfreithlondeb a ddyroddwyd neu a amrywiwyd ganddynt ar apêl o dan adran 160[j585] os, mewn cysylltiad â'r apêl—

(a) gwnaed datganiad, neu defnyddiwyd dogfen, a oedd yn anwir mewn modd perthnasol, neu

(b) cafodd gwybodaeth berthnasol ei hatal.

(3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â dirymu tystysgrif cyfreithlondeb.

(4) Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) yr hysbysiad sydd i'w roi ynghylch dirymiad arfaethedig;

(b) gwneud ac ystyried sylwadau mewn perthynas â dirymiad arfaethedig;

(c) yr hysbysiad sydd i'w roi ynghylch dirymiad.

**164 Trosedd o wneud datganiad anwir etc. i ddylanwadu ar ganlyniad cais neu apêl [j584b]**

(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn gwneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol at ddiben achosi penderfyniad penodol ar gais am dystysgrif cyfreithlondeb neu apêl o dan adran 160[j585] (pa un a wneir y cais neu'r apêl gan y person hwnnw neu gan unrhyw berson arall)—

(a) gwneud yn fwriadol neu'n ddi-hid ddatganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn modd perthnasol,

(b) gyda'r bwriad o dwyllo, defnyddio dogfen sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn modd perthnasol, neu

(c) gyda'r bwriad o dwyllo, atal gwybodaeth berthnasol.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

## RHAN 6

## RHWYMEDIGAETHAU SY'N YMWNEUD Â DATBLYGIAD TIR A DEFNYDD O DIR

### PENNOD 1

### RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO

**165 Rhwymedigaethau cynllunio [j473]**

(1) Caiff unrhyw berson a chanddo un neu ragor o fuddiannau mewn tir yng Nghymru, drwy gytundeb neu fel arall, ymrwymo i rwymedigaeth gynllunio mewn perthynas â'r tir.

(2) Mae rhwymedigaeth gynllunio yn rhwymedigaeth orfodadwy yn unol ag adran 166[j482], sydd—

(a) yn cyfyngu ar ddatblygiad neu ddefnydd y tir mewn ffordd benodedig,

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i weithrediadau neu weithgareddau penodedig gael eu cynnal ar y tir,

(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r tir gael ei ddefnyddio mewn ffordd benodedig, neu

(d) yn ei gwneud yn ofynnol i un neu ragor o daliadau gael eu gwneud i''r awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal.

(3) Mae'r cyfeiriad at ddatblygiad yn is-adran (2)(a) yn cynnwys—

(a) yn achos rhwymedigaeth cydsyniad seilwaith, unrhyw beth sy'n ddatblygiad at ddibenion Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (dsc 3) (gweler adran 133 o'r Ddeddf honno);

(b) yn achos rhwymedigaeth cydsyniad datblygiad, unrhyw beth sy'n ddatblygiad at ddibenion Deddf Cynllunio 2008 (p. 29) (gweler adran 32 o'r Ddeddf honno).

(4) Caiff rhwymedigaeth gynllunio—

(a) bod yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau, a

(b) gosod cyfyngiad neu ofyniad a grybwyllir yn is-adran (2)(a) i (c) naill ai am gyfnod amhenodol neu am un neu ragor o gyfnodau penodedig.

(5) Os yw rhwymedigaeth gynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i un neu ragor o daliadau gael eu gwneud, caiff—

(a) ei gwneud yn ofynnol i swm penodedig gael ei dalu neu i swm a benderfynir yn unol â'r offeryn yr ymrwymir i'r rhwymedigaeth drwyddo gael ei dalu,

(b) ei gwneud yn ofynnol i daliad gael ei wneud ar un neu ragor o ddyddiadau penodedig neu yn gyfnodol, ac

(c) os yw'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud yn gyfnodol, ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu gwneud am gyfnod amhenodol neu am gyfnod penodedig.

(6) Ni chaniateir ymrwymo i rwymedigaeth gynllunio ond drwy offeryn a gyflawnir fel gweithred sydd—

(a) yn datgan bod y rhwymedigaeth yn rhwymedigaeth gynllunio at ddibenion yr adran hon,

(b) os yw'r rhwymedigaeth yn rhwymedigaeth cydsyniad seilwaith neu'n rhwymedigaeth cydsyniad datblygiad, yn cynnwys datganiad i'r perwyl hwnnw,

(c) yn nodi'r tir y mae'r rhwymedigaeth yn ymwneud ag ef,

(d) yn nodi pob person sy'n ymrwymo i'r rhwymedigaeth ac yn datgan beth yw buddiant pob person yn y tir, ac

(e) yn pennu'r awdurdod y mae'r rhwymedigaeth yn orfodadwy ganddo ("yr awdurdod gorfodi").

(7) Rhaid mai'r awdurdod a bennir yn awdurdod gorfodi yw'r awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r rhwymedigaeth yn ymwneud ag ef yn ei ardal.

(8) Ond os yw'r rhwymedigaeth yn ymwneud â thir yn ardal bwrdd cydgynllunio, caiff yr awdurdod gorfodi yn hytrach fod yn gyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol y mae'r tir ynddi.

(9) Os nad yw'r awdurdod gorfodi yn barti i'r offeryn yr ymrwymir i'r rhwymedigaeth gynllunio drwyddo, rhaid i'r partïon i'r offeryn sicrhau bod copi ohono yn cael ei roi i'r awdurdod gorfodi.

(10) Yn yr adran hon ystyr "penodedig" yw a bennir yn yr offeryn yr ymrwymir i'r rhwymedigaeth gynllunio drwyddo.

## 166 Gorfodi rhwymedigaethau cynllunio [j482]

(1) Mae rhwymedigaeth gynllunio yn orfodadwy gan yr awdurdod gorfodi—

(a) yn erbyn unrhyw berson sy'n ymrwymo i'r rhwymedigaeth, a

(b) yn erbyn unrhyw berson y mae ei deitl yn deillio o berson sy'n ymrwymo i'r rhwymedigaeth.

(2) Ond caiff yr offeryn yr ymrwymir i rwymedigaeth gynllunio drwyddo ddarparu nad yw person wedi ei rwymo gan y rhwymedigaeth ar unrhyw adeg pan nad oes gan y person fuddiant mwyach yn y tir y mae'r rhwymedigaeth yn ymwneud ag ef.

(3) Mae cyfyngiad neu ofyniad a osodir gan rwymedigaeth gynllunio yn orfodadwy drwy waharddeb.

(4) Os oes methiant i gydymffurfio â gofyniad a osodir gan rwymedigaeth gynllunio i gynnal gweithrediadau ar y tir y mae'r rhwymedigaeth yn ymwneud ag ef, caiff yr awdurdod gorfodi—

(a) mynd ar y tir a chynnal y gweithrediadau, a

(b) adennill oddi wrth unrhyw berson y mae'r rhwymedigaeth yn orfodadwy yn ei erbyn y costau y mae'n mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny.

(5) O leiaf 21 o ddiwrnodau cyn i awdurdod arfer ei bŵer o dan is-adran (4)(a) rhaid iddo roi hysbysiad o'i fwriad i wneud hynny i bob person y mae'r rhwymedigaeth gynllunio yn orfodadwy yn ei erbyn.

(6) Mae person sy'n fwriadol yn rhwystro person sy'n arfer pŵer o dan is-adran (4)(a) yn cyflawni trosedd.

(7) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (6) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(8) Mae rhwymedigaeth gynllunio yn bridiant tir lleol, ac at ddibenion Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975 (p. 76) yr awdurdod gorfodi yw'r awdurdod tarddiadol mewn cysylltiad â'r pridiant.

(9) Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer pridiannu ar y tir—

(a) swm y mae'n ofynnol ei dalu o dan rwymedigaeth gynllunio, a

(b) costau y caiff awdurdod eu hadennill o dan is-adran (4)(b).

(10) Caiff pridiant a osodir gan reoliadau o dan is-adran (9) effaith er gwaethaf—

(a) unrhyw ddarpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr offeryn o dan is-adran (2), a

(b) unrhyw achos o addasu neu ryddhau'r rhwymedigaeth gynllunio o dan adran 167[j474] neu 168[j475].

(11) Yn is-adran (1)(b)—

(a) mae'r cyfeiriad at berson y mae ei deitl yn deillio o berson sy'n ymrwymo i'r rhwymedigaeth gynllunio yn cynnwys unrhyw olynydd yn nheitl person sy'n ymrwymo i'r rhwymedigaeth;

(b) mae'r cyfeiriad at deitl yn deillio o berson yn gyfeiriad at deitl yn deillio o'r person naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

**167 Addasu a rhyddhau rhwymedigaethau cynllunio [j474]**

(1) Ni chaniateir addasu na rhyddhau rhwymedigaeth gynllunio ond—

(a) drwy gytundeb rhwng yr awdurdod priodol a phob person y mae'r rhwymedigaeth yn orfodadwy yn ei erbyn, neu

(b) yn unol â'r adran hon ac adran 168[j475].

(2) Dim ond drwy offeryn a gyflawnir fel gweithred y caniateir ymrwymo i gytundeb o fewn is-adran (1)(a).

(3) Caiff unrhyw berson y mae rhwymedigaeth gynllunio yn orfodadwy yn ei erbyn, ar unrhyw adeg ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol, wneud cais i'r awdurdod priodol i'r rhwymedigaeth—

(a) cael effaith yn ddarostyngedig i addasiadau a bennir yn y cais, neu

(b) cael ei rhyddhau.

(4) Yn is-adran (3) ystyr "y cyfnod perthnasol" yw—

(a) y cyfnod a bennir mewn rheoliadau, neu

(b) os na phennir unrhyw gyfnod, 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod yr ymrwymir i'r rhwymedigaeth.

(5) Ni chaiff cais i addasu rhwymedigaeth gynllunio bennu addasiad sy'n gosod cyfyngiad neu ofyniad ar unrhyw berson arall y mae'r rhwymedigaeth yn orfodadwy yn ei erbyn.

(6) Pan wneir cais i addasu neu ryddhau rhwymedigaeth gynllunio, caiff yr awdurdod priodol benderfynu—

(a) bod y rhwymedigaeth gynllunio i barhau i gael effaith heb ei haddasu,

(b) os nad oes gan y rhwymedigaeth ddiben defnyddiol mwyach, ei bod i'w rhyddhau, neu

(c) os oes gan y rhwymedigaeth ddiben defnyddiol o hyd, ond y byddai'n cyflawni'r diben hwnnw yr un mor dda pe bai'n cael effaith yn ddarostyngedig i'r addasiadau a bennir yn y cais, ei bod i gael effaith yn ddarostyngedig i'r addasiadau hynny.

(7) Rhaid i'r awdurdod priodol roi hysbysiad o'i benderfyniad i'r ceisydd o fewn y cyfnod a bennir mewn rheoliadau.

(8) Pan fo'r awdurdod priodol yn penderfynu bod y rhwymedigaeth gynllunio i gael effaith yn ddarostyngedig i addasiadau a bennir yn y cais, mae'r rhwymedigaeth fel y'i haddesir yn orfodadwy fel ped ymrwymid iddi ar y diwrnod y rhoddwyd hysbysiad o'r penderfyniad i'r ceisydd.

(9) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch ceisiadau i addasu neu ryddhau rhwymedigaethau cynllunio, gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys cais;

(b) cyhoeddi hysbysiad o gais;

(c) y weithdrefn ar gyfer ystyried sylwadau a gyflwynir mewn perthynas â chais;

(d) yr hysbysiad sydd i'w roi i geisydd o benderfyniad.

(10) Nid yw adran 84 o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 (p. 20) (pŵer Uwch Dribiwnlys i ryddhau neu addasu cyfyngiad ar ddefnydd tir) yn gymwys i rwymedigaeth gynllunio.

(11) Yn yr adran hon ystyr "yr awdurdod priodol" yw—

(a) Gweinidogion Cymru, yn achos rhwymedigaeth cydsyniad seilwaith;

(b) yr Ysgrifennydd Gwladol, yn achos rhwymedigaeth cydsyniad datblygiad;

(c) yr awdurdod gorfodi, yn achos unrhyw rwymedigaeth gynllunio arall.

(12) Ni chaiff awdurdod gorfodi ystyried cais a wneir iddo o dan is-adran (3) os yw'r cais yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan neu o dan yr adran hon.

**168 Apelau sy'n ymwneud â cheisiadau i addasu neu ryddhau rhwymedigaethau cynllunio [j475]**

(1) Caiff person sydd wedi gwneud cais i awdurdod gorfodi o dan adran 167(3)[j474] apelio i Weinidogion Cymru—

(a) os yw'r awdurdod yn penderfynu bod y rhwymedigaeth gynllunio i barhau i gael effaith heb ei haddasu, neu

(b) os nad yw'r awdurdod yn rhoi hysbysiad o'i benderfyniad yn unol ag adran 167(7)[j474].

(2) At ddibenion apêl o dan is-adran (1)(b), mae i'w dybio bod yr awdurdod gorfodi wedi penderfynu bod y rhwymedigaeth gynllunio i barhau i gael effaith heb ei haddasu.

(3) Rhaid i apêl o dan yr adran hon gael ei gwneud drwy gyflwyno hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf hysbysiad o apêl;

(b) gwybodaeth y mae rhaid ei chynnwys gyda hysbysiad o apêl;

(c) y ffordd y mae rhaid cyflwyno hysbysiad o apêl, a'r cyfnod y mae rhaid cyflwyno hysbysiad o apêl ynddo (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i estyn y cyfnod).

(5) Mae is-adrannau (6) i (8) o adran 167[j474] yn gymwys mewn perthynas â phenderfynu apêl o dan yr adran hon gan Weinidogion Cymru fel y maent yn gymwys mewn perthynas â phenderfynu cais o dan yr adran honno gan yr awdurdod priodol.

(6) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar apêl yn derfynol.

(7) Mae Pennod [2] o Ran [14] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried apelau o dan yr adran hon (gan gynnwys darpariaeth iddynt gael eu penderfynu gan arolygwyr).

**169 Heriau cyfreithiol sy'n ymwneud â cheisiadau a wneir i Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol [j475a]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo cais wedi ei wneud i Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 167(3)[j474].

(2) Caiff llys ystyried achos i gwestiynu penderfyniad gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol bod y rhwymedigaeth gynllunio i barhau i gael effaith heb ei haddasu dim ond—

(a) os yw'r achos yn cael ei ddwyn drwy hawliad am adolygiad barnwrol, a

(b) os yw'r ffurflen hawlio yn cael ei ffeilio cyn diwedd 6 wythnos sy'n dechrau drannoeth y diwrnod y rhoddir hysbysiad o'r penderfyniad o dan adran 167(7)[j474].

(3) Caiff llys ystyried achos i gwestiynu methiant gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol i roi hysbysiad yn unol ag adran 167(7)[j474] dim ond—

(a) os yw'r achos yn cael ei ddwyn drwy hawliad am adolygiad barnwrol, a

(b) os yw'r ffurflen hawlio yn cael ei ffeilio cyn diwedd 6 wythnos sy'n dechrau drannoeth y diwrnod y mae'r cyfnod a bennir o dan adran 167(7)[j474] yn dod i ben.

**170 Dehongli'r Bennod hon [j475b]**

Yn y Bennod hon—

mae i "awdurdod gorfodi" ("*enforcing authority*") yr ystyr a roddir yn adran 165(6)(e)[j473];

ystyr “rhwymedigaeth cydsyniad datblygiad” (“*development consent obligation*”) yw rhwymedigaeth gynllunio yr ymrwymir iddi mewn cysylltiad â chais (neu gais arfaethedig) am orchymyn sy’n rhoi cydsyniad datblygiad;

ystyr “rhwymedigaeth cydsyniad seilwaith” (“*infrastructure consent obligation*”) yw rhwymedigaeth gynllunio yr ymrwymir iddi mewn cysylltiad â chais (neu gais arfaethedig) am orchymyn cydsyniad seilwaith.

## PENNOD 2

## ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL

*Yr ardoll*

### 171 Rheoliadau ASC [j901]

(1) Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer gosod tâl sydd i’w alw’n ardoll seilwaith cymunedol (“ASC”).

(2) Wrth wneud y rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru geisio sicrhau mai diben cyffredinol ASC yw sicrhau y gall perchnogion ar dir neu ddatblygwyr gyllido yn gyfan gwbl neu’n rhannol y costau yr eir iddynt wrth gefnogi datblygiad ardal yng Nghymru mewn ffordd nad yw’n gwneud y datblygiad yn anhyfyw yn economaidd.

(3) Yn y Ddeddf hon, cyfeirir at reoliadau o dan yr adran hon fel “rheoliadau ASC”.

(4) Mae adrannau 172[j902] i 204[j932] ac Atodlen 13[J917S] yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn rheoliadau ASC a’r hyn y caniateir, yn benodol, ei gynnwys ynddynt.

### 172 Codi tâl am ddatblygiad [j902]

(1) Rhaid i reoliadau ASC ddarparu y caiff awdurdod codi tâl godi ASC mewn cysylltiad â datblygiad ardolladwy yn ei ardal.

(2) Yn y Bennod hon, ystyr “datblygiad ardolladwy” yw—

(a) unrhyw beth a wneir at ddiben creu adeilad newydd,

(b) unrhyw beth a wneir i adeilad presennol neu mewn cysylltiad ag adeilad presennol, neu

(c) unrhyw newid mewn defnydd adeilad presennol neu ran o adeilad presennol.

(3) Caiff rheoliadau ASC ddarparu ar gyfer—

(a) gwaith neu newidiadau mewn defnydd o fath a bennir yn y rheoliadau i beidio â chael ei drin neu eu trin fel datblygiad ardolladwy;

(b) creu strwythur o fath a bennir yn y rheoliadau, neu unrhyw beth a wneir i strwythur o’r fath neu mewn cysylltiad â strwythur o’r fath, i gael ei drin fel datblygiad ardolladwy.

(4) Awdurdod cynllunio yw’r awdurdod codi tâl ar gyfer ei ardal.

(5) Caiff rheoliadau ASC ddarparu i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol fod yr awdurdod codi tâl ar gyfer unrhyw ran o’i ardal y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol neu fwrdd cydgynllunio yn awdurdod cynllunio ar ei chyfer.

**173 Defnyddio ASC: cyllido seilwaith [j911]**

(1) Rhaid i awdurdod codi tâl sy’n cael ASC ei chymhwyso, neu beri iddi gael ei chymhwyso, i gefnogi datblygiad drwy gyllido’r gwaith o ddarparu, gwella, amnewid, gweithredu neu gynnal a chadw seilwaith; ond mae hyn yn ddarostyngedig i adrannau 195[j915] i 199[j914].

(2) Yn y Bennod hon mae “seilwaith” yn cynnwys—

(a) ffyrdd a chyfleusterau trafnidiaeth eraill;

(b) amddiffynfeydd rhag llifogydd;

(c) ysgolion a chyfleusterau addysgol eraill;

(d) cyfleusterau meddygol;

(e) cyfleusterau chwaraeon a hamdden;

(f) mannau agored.

(3) Caiff rheoliadau ASC ddiwygio is-adran (2)[j911]) i—

(a) ychwanegu, addasu neu ddileu cofnod yn y rhestr o faterion a gynhwysir o fewn ystyr “seilwaith”;

(b) rhestru materion a eithrir o ystyr “seilwaith”.

*Atebolrwydd am ASC*

**174 Termau sy’n ymwneud ag atebolrwydd[j905]**

(1) Rhaid i reoliadau ASC gynnwys darpariaeth ar gyfer penderfynu pryd y trinnir datblygiad ardolladwy fel pe bai’n dechrau at ddibenion y Bennod hon.

(2) Caiff y rheoliadau, yn benodol, ddarparu i ddatblygiad ardolladwy gael ei drin fel pe bai’n dechrau pan ymgymerir â rhyw weithgaredd a bennir yn y rheoliadau neu pan fydd digwyddiad a bennir yn y rheoliadau, pan—

(a) na fo’r gweithgaredd na’r digwyddiad yn ddatblygiad ardolladwy, ond

(b) bo cysylltiad a bennir yn y rheoliadau rhwng y gweithgaredd neu’r digwyddiad a datblygiad ardolladwy.

(3) Rhaid i reoliadau ASC ddiffinio caniatâd cynllunio ASC at ddibenion y Bennod hon (a chaiff gynnwys caniatâd cynllunio o dan Ran [3] ac unrhyw fath arall o ganiatâd neu gydsyniad, pa un a yw’n gyffredinol neu’n benodol).

**175 Ysgwyddo atebolrwydd [j903]**

(1) Caiff person ysgwyddo atebolrwydd am ASC mewn cysylltiad â datblygiad ardolladwy arfaethedig y byddai atebolrwydd yn codi mewn cysylltiad ag ef yn rhinwedd y Bennod hon.

(2) Os yw person yn ysgwyddo atebolrwydd cyn i’r datblygiad ardolladwy ddechrau, daw’r person yn atebol pan fydd y datblygiad yn dechrau gan ddibynnu ar ganiatâd cynllunio ASC.

(3) Rhaid i berson sy’n ysgwyddo atebolrwydd wneud hynny yn unol â darpariaeth mewn rheoliadau ASC ynghylch y weithdrefn ar gyfer ysgwyddo atebolrwydd.

**176 Atebolrwydd diofyn am ASC [j904]**

(1) Rhaid i reoliadau ASC wneud darpariaeth i berchennog ar dir neu ddatblygwr fod yn atebol am ASC pan fo datblygiad ardolladwy yn dechrau gan ddibynnu ar ganiatâd cynllunio ASC ac na fo neb wedi ysgwyddo atebolrwydd yn unol â darpariaeth a wneir fel y'i crybwyllir yn adran 175(3)[j903].

(2) Caiff rheoliadau ASC bennu amgylchiadau eraill (megis ansolfedd person sydd wedi ysgwyddo atebolrwydd neu dynnu'n ôl ysgwyddo atebolrwydd) pan fydd perchennog ar dir neu ddatblygwr yn atebol am ASC pan fo datblygiad ardolladwy yn dechrau gan ddibynnu ar ganiatâd cynllunio ASC.

(3) Yn yr adran hon—

(a) ystyr "perchennog", mewn perthynas â thir, yw—

(i) perchennog ar yr ystad rhydd-ddaliadol, neu

(ii) tenant o dan les, y mae ei chyfnod yn dod i ben fwy na 7 mlynedd ar ôl y diwrnod y mae caniatâd cynllunio ASC yn caniatáu am y tro cyntaf y datblygiad ardolladwy;

(b) ystyr "datblygwr" ("*developer*") yw person sy'n gyfrifol yn gyfan gwbl neu'n rhannol am gynnal datblygiad ardolladwy.

(4) Ond caiff rheoliadau ASC ddarparu bod person i gael ei drin, neu nad yw person i gael ei drin, fel perchennog ar dir neu ddatblygwr o dan amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau.

**177 Yr adeg pan fydd atebolrwydd yn codi [j906]**

(1) Mae swm unrhyw atebolrwydd am ASC i'w gyfrifo drwy gyfeirio at y gofrestr codi tâl sy'n cael effaith ar yr adeg pan fydd caniatâd cynllunio ASC yn caniatáu am y tro cyntaf y datblygiad ardolladwy y daw ASC yn daladwy o ganlyniad iddo (ond gweler adran 178(2)[j907] hefyd).

(2) Rhaid i reoliadau ASC gynnwys darpariaeth ar gyfer penderfynu'r adeg pan drinnir caniatâd cynllunio ASC fel pe bai'n caniatáu am y tro cyntaf ddatblygiad ardolladwy.

(3) Caiff y rheoliadau, yn benodol, wneud darpariaeth—

(a) ynghylch caniatâd cynllunio amlinellol, a

(b) i ganiatâd gael ei drin fel pe bai wedi ei roi ar adeg benodol yn achos caniatâd cyffredinol neu gydsyniad cyffredinol.

**178 Atebolrwydd mewn achosion eraill [j907]**

(1) Caiff rheoliadau ASC ddarparu i atebolrwydd am ASC godi mewn perthynas â datblygiad ardolladwy pan—

(a) oedd esemptiad rhag atebolrwydd neu ostyngiad mewn atebolrwydd yn gymwys, a

(b) bo'r disgrifiad o'r datblygiad neu ddiben y datblygiad yn newid.

(2) Caiff rheoliadau ASC wneud darpariaeth i atebolrwydd am ASC godi pan fo datblygiad ardolladwy y mae caniatâd cynllunio ASC yn ofynnol ar ei gyfer yn dechrau heb y caniatâd hwnnw.

**179 Darpariaeth bellach ynghylch atebolrwydd am ASC [j908]**

(1) Caiff rheoliadau ASC wneud darpariaeth ynghylch—

(a) atebolrwydd ar y cyd am ASC (gydag atebolrwydd unigol neu hebddo);

(b) atebolrwydd partneriaethau am ASC;

(c) ysgwyddo atebolrwydd rhannol am ASC;

(d) dosrannu atebolrwydd am ASC;

(e) tynnu'n ôl ysgwyddo atebolrwydd am ASC;

(f) canslo ysgwyddo atebolrwydd am ASC gan awdurdod codi tâl;

(g) trosglwyddo atebolrwydd am ASC (pa un ai cyn neu ar ôl i ddatblygiad ardolladwy ddechrau a pha un a yw atebolrwydd wedi cael ei ysgwyddo ai peidio).

(2) Pan fo rheoliadau ASC yn gwneud darpariaeth o dan is-adran (1)(c)[j908], (e)[j908] neu (f)[j908], rhaid iddynt hefyd gynnwys darpariaeth o dan adran 176[j904] (atebolrwydd diofyn perchennog neu ddatblygwr).

(3) Pan fo rheoliadau ASC yn gwneud darpariaeth o dan is-adran (1)(d)[j908], cânt hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer atgyfeirio anghydfodau ynghylch dosrannu atebolrwydd i'w penderfynu gan berson a bennir yn y rheoliadau.

*Esemptiadau a gostyngiadau*

**180 Esemptiadau a gostyngiadau: cyffredinol [j908A]**

(1) Caiff rheoliadau ASC ddarparu ar gyfer—

(a) esemptiadau rhag atebolrwydd am ASC;

(b) gostyngiadau mewn atebolrwydd am ASC.

(2) Yn benodol, caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol—

(a) i amodau gael eu bodloni er mwyn i esemptiad neu ostyngiad fod yn gymwys, neu beidio â bod yn gymwys;

(b) i awdurdod codi tâl wneud trefniadau ar gyfer esemptiadau a gostyngiadau o dan amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau.

**181 Elusennau: esemptiad rhag atebolrwydd [j909]**

(1) Rhaid i reoliadau ASC ddarparu i elusen berthnasol a fyddai'n atebol fel arall am ASC mewn cysylltiad â datblygiad ardolladwy fod yn esempt rhag atebolrwydd os yw'r adeilad neu'r strwythur y byddai atebolrwydd yn codi fel arall mewn cysylltiad ag ef i'w ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at un neu ragor o ddibenion elusennol yr elusen.

(2) Yn is-adran (1)[j909]—

mae i "diben elusennol" yr ystyr a roddir i "charitable purpose" gan adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 (p. 25);

ystyr "elusen berthnasol" ("*relevant charity*") yw sefydliad—

(a) sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr o elusennau a gedwir gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 29 o Ddeddf Elusennau 2011, neu

(b) sy'n elusen o fewn yr ystyr a roddir i "charity" gan adran 1(1) o Ddeddf Elusennau 2011 ond nad yw'n ofynnol iddo fod wedi ei gofrestru yn y gofrestr honno.

(3) Caiff y rheoliadau ddarparu nad yw esemptiad yn gymwys os yw'r amodau a bennir yn y rheoliadau wedi eu bodloni.

**182 Esemptiadau a gostyngiadau: y weithdrefn [j910A]**

(1) Caiff rheoliadau ASC wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad ag esemptiad rhag atebolrwydd am ASC neu ostyngiad mewn atebolrwydd am ASC.

(2) Yn benodol, caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth—

(a) ynghylch y weithdrefn ar gyfer penderfynu a yw un neu ragor o amodau ar gyfer esemptiadau neu ostyngiadau wedi eu bodloni;

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi hysbysiad o esemptiadau a gostyngiadau i bersonau a bennir yn y rheoliadau;

(c) sy'n ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion o esemptiadau a gostyngiadau.

*Swm yr ASC*

**183 Cofrestr codi tâl [j917]**

(1) Rhaid i awdurdod codi tâl sy'n cynnig codi ASC gyhoeddi dogfen ("cofrestr codi tâl") sy'n gosod cyfraddau neu feini prawf eraill y mae swm yr ASC sy'n daladwy mewn cysylltiad â datblygiad ardolladwy yn ei ardal i'w benderfynu drwy gyfeirio atynt.

(2) Mae Atodlen 13[J917S] yn gwneud darpariaeth ynghylch llunio, cymeradwyo, cyhoeddi, etc. gofrestr codi tâl.

**184 Amcangyfrif o'r swm [j918]**

Caiff rheoliadau ASC ei gwneud yn ofynnol i awdurdod codi tâl ddarparu, o dan amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau, amcangyfrif o swm yr ASC y gellir ei godi mewn cysylltiad â datblygiad ardolladwy.

**185 Apelau yn ymwneud â chyfrifo ASC [j919]**

(1) Rhaid i reoliadau ASC ddarparu ar gyfer hawl i apelio ar gwestiwn ffeithiol mewn perthynas â chymhwysiad dulliau ar gyfer cyfrifo ASC.

(2) Rhaid i'r rheoliadau ddarparu i'r apêl gael ei gwneud i—

(a) swyddog prisio a benodir o dan adran 61 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41), neu

(b) prisiwr dosbarth o fewn yr ystyr a roddir i "district valuer" gan adran 622 o Ddeddf Tai 1985 (p. 68).

(3) Caiff y rheoliadau, yn benodol, wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y cyfnod y caniateir arfer yr hawl i apelio ynddo,

(b) y weithdrefn wrth apelio, ac

(c) talu ffioedd, a dyfarnu costau, mewn perthynas ag apêl.

(4) Mewn unrhyw achos ar gyfer adolygiad barnwrol o benderfyniad ar apêl, y Comisiynwyr ar gyfer Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yw'r diffynnydd ac nid y person a grybwyllir yn is-adran (2)[j919].

*Casglu ASC*

**186 Casglu a thalu ASC [j920]**

(1) Rhaid i reoliadau ASC gynnwys darpariaeth ynghylch casglu ASC.

(2) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer talu—

(a) ar gyfrif, neu

(b) mewn rhandaliadau.

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch ad-dalu (gyda llog neu hebddo) mewn achosion o ordalu.

(4) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch talu ar ffurfiau heblaw arian (megis rhoi tir ar gael, cynnal gwaith neu ddarparu gwasanaethau).

(5) Caiff y rheoliadau ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i awdurdod codi tâl neu awdurdod cyhoeddus arall gasglu ASC a godir gan awdurdod arall; ac mae cyfeiriadau at awdurdod codi tâl yn adran 185(3)(a)[j919] ac (c)[j919], i'r graddau y maent yn ymwneud â chasglu, yn cynnwys awdurdod sy'n casglu ASC a godir gan awdurdod arall.

(6) Caiff darpariaeth ynghylch casglu mewn rheoliadau ASC gynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â chasglu trethi lleol i gyllido gwariant awdurdodau lleol yng Nghymru (er enghraifft, y dreth gyngor ac ardrethi annomestig), neu sy'n cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad o'r fath.

(7) Caiff rheoliadau ASC wneud darpariaeth ynghylch ffynhonnell taliadau mewn cysylltiad â buddiannau'r Goron.

*Gorfodi ASC*

**187 Gorfodi: cyffredinol [j921]**

(1) Rhaid i reoliadau ASC gynnwys darpariaeth ynghylch gorfodi ASC.

(2) Caiff darpariaeth ynghylch gorfodi mewn rheoliadau ASC gynnwys darpariaeth—

(a) sy'n cyfateb i unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â gorfodi trethi lleol i gyllido gwariant awdurdodau lleol yng Nghymru (er enghraifft, y dreth gyngor ac ardrethi annomestig), neu sy'n cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad o'r fath;

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth;

(c) ar gyfer gorfodi symiau sy'n ddyledus (pa un ai drwy achos am ddyled, drwy gymryd rheolaeth o nwyddau neu mewn unrhyw ffordd arall);

(d) sy'n rhoi awdurdodaeth i lys roi rhyddhad gwaharddol neu ryddhad arall i orfodi darpariaeth yn y rheoliadau;

(e) ar gyfer gorfodi yn achos marwolaeth neu ansolfedd person sy'n atebol am ASC.

**188 Canlyniadau methu â chydymffurfio [j922]**

(1) Rhaid i ddarpariaeth ynghylch gorfodi mewn rheoliadau ASC gynnwys darpariaeth ynghylch canlyniadau talu'n hwyr a methu â thalu.

(2) Caiff darpariaeth ynghylch gorfodi mewn rheoliadau ASC gynnwys darpariaeth ynghylch canlyniadau—

(a) methu ag ysgwyddo atebolrwydd am ASC;

(b) methu â rhoi hysbysiad o dan reoliadau ASC;

(c) methu â chydymffurfio â gweithdrefn arall o dan reoliadau ASC.

**189 Llog a chosbau [j923]**

(1) Caiff darpariaeth ynghylch gorfodi mewn rheoliadau ASC gynnwys darpariaeth ar gyfer—

(a) talu llog, a

(b) gosod cosb neu ordal.

(2) Caiff y rheoliadau ddarparu bod unrhyw log, unrhyw gosb neu unrhyw ordal i'w drin neu i'w thrin at ddibenion adrannau 173[j911] a 186[j920] i 201[j929] fel pe bai'n ASC.

(3) Rhaid i'r rheoliadau sicrhau nad yw unrhyw gosb nac unrhyw ordal mewn cysylltiad â swm ASC yn fwy na'r uchaf o—

(a) 30% o'r swm hwnnw, a

(b) £20,000.

(4) Ond caiff y rheoliadau ddarparu i fwy nag un gosb neu ordal gael ei gosod neu ei osod mewn perthynas â thâl a godir am ASC.

**190 Pŵer i stopio datblygiad [j924]**

Caiff darpariaeth ynghylch gorfodi mewn rheoliadau ASC gynnwys darpariaeth—

(a) ar gyfer atal dros dro neu ganslo penderfyniad sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio ASC;

(b) sy'n galluogi awdurdod codi tâl neu awdurdod cyhoeddus arall i wahardd datblygiad hyd nes bod person—

(i) yn ysgwyddo atebolrwydd am ASC, neu

(ii) yn gwneud taliad ASC.

**191 Pwerau mynediad [j925]**

(1) Caiff darpariaeth ynghylch gorfodi mewn rheoliadau ASC roi pŵer mynediad i dir.

(2) Ond ni chaiff y rheoliadau awdurdodi mynediad i annedd heb warant a ddyroddir gan ynad heddwch.

**192 Troseddau [j926]**

(1) Caiff darpariaeth ynghylch gorfodi mewn rheoliadau ASC gynnwys darpariaeth—

(a) sy'n creu trosedd;

(b) sy'n rhoi pŵer i erlyn trosedd.

(2) Ni chaiff y rheoliadau ddarparu ar gyfer —

(a) carcharu am gyfnod sy'n fwy na'r uchafswm cyfnod am droseddau diannod, ar euogfarn am drosedd ddiannod,

(b) carcharu am gyfnod sy'n fwy na'r terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu, ar euogfarn ddiannod am drosedd neillffordd, nac

(c) carcharu am gyfnod sy'n fwy na 2 flynedd, ar euogfarn ar dditiad.

(3) Yn is-adran (2)(a)[J926], ystyr "yr uchafswm cyfnod am droseddau diannod" yw—

(a) mewn perthynas â throsedd a gyflawnir cyn i adran 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44) ddod i rym, 6 mis;

(b) mewn perthynas â throsedd a gyflawnir ar ôl iddi ddod i rym, 51 o wythnosau.

**193 Cofrestru atebolrwydd neu roi hysbysiad o atebolrwydd [j927]**

(1) Caiff darpariaeth ynghylch gorfodi mewn rheoliadau ASC gynnwys darpariaeth (pa un ai yng nghyd-destun talu'n hwyr neu fethu â thalu ai peidio) ynghylch cofrestru atebolrwydd gwirioneddol neu bosibl am ASC neu roi hysbysiad ohono.

(2) Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth—

(a) ar gyfer creu pridiannau tir lleol;

(b) ar gyfer cofrestru pridiannau tir lleol;

(c) ar gyfer gorfodi pridiannau tir lleol (gan gynnwys, yn benodol, ar gyfer gorfodi—

(i) yn erbyn perchnogion olynol, a

(ii) drwy werthiant neu warediad arall gyda chydsyniad llys);

(d) ar gyfer gwneud cofnodion mewn cofrestrau statudol;

(e) ar gyfer canslo taliadau a chofnodion.

*Digollediad*

**194 Digollediad: colled neu ddifrod o ganlyniad i gamau gorfodi [j928]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo rheoliadau ASC yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi o dan adrannau 187[j921] i 193[j927].

(2) Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod codi tâl neu awdurdod cyhoeddus arall dalu digollediad am golled neu ddifrod a ddioddefir o ganlyniad i gamau gweithredu a gymerir o dan y ddarpariaeth.

(3) Ni chaiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol talu digollediad i berson sydd wedi methu â bodloni atebolrwydd am ASC.

(4) Caiff y rheoliadau bennu amgylchiadau eraill pan na fo digollediad yn daladwy.

(5) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) pryd a sut y mae hawliad am ddigollediad i gael ei wneud, a

(b) y symiau, neu'r dull o benderfynu'r symiau, sy'n daladwy fel digollediad.

(6) Caiff rheoliadau ASC ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i awdurdod codi tâl ddefnyddio ASC (naill ai'n gyffredinol neu'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a osodir gan y rheoliadau neu a benderfynir yn unol â hwy) i dalu digolllediad sy'n daladwy o dan y rheoliadau.

(7) Caniateir atygfeirio anghydfod ynghylch digolledliad i'r Uwch Dribiwnlys a chaiff yr Uwch Dribiwnlys ei benderfynu.

(8) Mae adran 4 o Ddeddf Digolledliad Tir 1961 (p. 33) (costau) yn gymwys i benderfynu cwestiwn a atgyfeirir o dan is-adran (7)[j928] fel y mae'n gymwys i benderfynu cwestiwn a atgyfeirir o dan adran 1 o'r Ddeddf honno, ond fel pe bai cyfeiriadau at yr awdurdod caffael yn gyfeiriadau at yr awdurdod codi tâl neu awdurdod cyhoeddus arall yr hawlir digolledliad oddi wrtho.

*Defnyddio taliadau ASC*

**195 Cyllido drwy ASC [j915]**

(1) Caiff rheoliadau ASC bennu—

(a) y gwaith, y gosodiadau a'r cyfleusterau eraill y caniateir cyllido'r gwaith o'u darparu, eu gwella neu eu hamnewid drwy ASC, y mae rhaid ei gyllido drwy ASC, neu na chaniateir ei gyllido drwy ASC;

(b) gweithgareddau cynnal a chadw a gweithgareddau gweithredol (gan gynnwys gweithgareddau gweithredol o fath hyrwyddo) mewn cysylltiad â seilwaith y caniateir eu cyllido drwy ASC, y mae rhaid eu cyllido drwy ASC, neu na chaniateir eu cyllido drwy ASC;

(c) meini prawf ar gyfer penderfynu'r ardaloedd a gaiff elwa o gyllido drwy ASC;

(d) yr hyn sydd i'w drin, neu nad yw i'w drin, fel cyllido.

(2) Caiff darpariaeth ynghylch cyllido mewn rheoliadau ASC, yn benodol—

(a) caniatáu i ASC gael ei defnyddio i ad-dalu costau yr aed iddynt eisoes;

(b) caniatáu i ASC gael ei chadw ar gyfer costau y gellir mynd iddynt yn y dyfodol;

(c) caniatáu i ASC gael ei chymhwyso (naill ai'n gyffredinol neu'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a osodir gan y rheoliadau neu a benderfynir yn unol â hwy) i gostau gweinyddol mewn cysylltiad â seilwaith neu mewn cysylltiad ag ASC;

(d) cynnwys darpariaeth ar gyfer rhoi benthyciadau, gwarantau neu indemniadau;

(e) gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso ASC pan na fo angen cyllid mwyach ar rywbeth yr oedd i'w gymhwyso iddo.

(3) Yn is-adran (2)(c), mae'r cyfeiriad at gostau gweinyddol mewn cysylltiad ag ASC yn cynnwys costau gorfodi.

(4) Caiff y rheoliadau—

(a) ei gwneud yn ofynnol i awdurdod codi tâl roi cyfrif ar wahân, ac yn unol â'r rheoliadau, am ASC sy'n dod i law neu sy'n ddyledus;

(b) ei gwneud yn ofynnol i awdurdod codi tâl fonitro'r defnydd a wneir o ASC yn ei ardal a'r defnydd sydd i'w wneud o ASC yn ei ardal;

(c) ei gwneud yn ofynnol i awdurdod codi tâl adrodd ar y ffordd y caiff ASC ei godi, ei gasglu a'i gymhwyso mewn gwirionedd, a'r ffordd y disgwylir i ASC gael ei godi, ei gasglu a'i gymhwyso;

(d) caniatáu i awdurdod codi tâl beri i arian gael ei gymhwyso mewn cysylltiad â phethau a wneir y tu allan i'w ardal;

(e) caniatáu i awdurdod codi tâl neu berson arall wario arian;

(f) caniatáu i awdurdod codi tâl drosglwyddo arian i berson arall (ac ym mharagraffau (a)[j915] i (e)[j915] mae cyfeiriadau at awdurdod codi tâl yn cynnwys person y mae awdurdod codi tâl yn trosglwyddo arian iddo gan ddibynnu ar ddarpariaeth a wneir o dan y paragraff hwn).

**196 Cyllid ASC: rhestrau [j916]**

Caiff rheoliadau ASC—

(a) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau codi tâl lunio a chyhoeddi rhestr o'r hyn sydd i'w gyllido, neu'r hyn y caniateir ei gyllido, yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy ASC;

(b) cynnwys darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth lunio rhestr (a gaiff gynnwys darpariaeth ar gyfer penodi person annibynnol);

(c) cynnwys darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan gaiff awdurdod codi tâl gymhwyso ASC i rywbeth nad yw ar y rhestr, a phan na chaiff wneud hynny.

**197 Dyletswydd i drosglwyddo ASC i bersonau eraill [j912]**

(1) Caiff rheoliadau ASC ei gwneud yn ofynnol i awdurdod codi tâl drosglwyddo ASC sy'n dod i'w law mewn cysylltiad â datblygiad ardolladwy mewn ardal berthnasol i berson arall.

(2) Rhaid i'r rheoliadau gynnwys darpariaeth i sicrhau bod ASC a drosglwyddir i berson wrth gyflawni dyletswydd a osodir o dan is-adran (1)[j912] ar ffurf arian yn cael ei defnyddio i gefnogi datblygiad yr ardal berthnasol, neu unrhyw ran o'r ardal honno, drwy gyllido—

(a) y gwaith o ddarparu, gwella, amnewid, gweithredu neu gynnal a chadw seilwaith, neu

(b) unrhyw beth arall sy'n ymwneud â mynd i'r afael â gofynion y mae datblygiad yn eu rhoi ar yr ardal.

(3) "Ardal berthnasol" yw ardal a bennir yn y rheoliadau a chaiff fod y cyfan neu'n rhan o—

(a) ardal awdurdod codi tâl, neu

(b) ardal gyfunol dau awdurdod codi tâl neu ragor.

(4) Caiff rheoliadau ASC wneud darpariaeth ynghylch y personau y caniateir trosglwyddo ASC iddynt, y mae rhaid trosglwyddo ASC iddynt, neu na chaniateir trosglwyddo ASC iddynt, wrth gyflawni dyletswydd a osodir o dan is-adran (1)[j912].

(5) Caiff dyletswydd a osodir o dan is-adran (1)[j912] ymwneud ag—

(a) yr holl ASC sy'n dod i law mewn cysylltiad â'r ardal berthnasol, neu

(b) y rhan o'r ASC honno a bennir yn y rheoliadau, neu a benderfynir odanynt.

(6) Nid yw'r adran hon yn cyfyngu ar adran 195(4)(f)[j915].

**198 Dyletswydd i drosglwyddo ASC: darpariaeth bellach [j913]**

(1) Caiff rheoliadau ASC wneud darpariaeth ynghylch amseriad taliadau a wneir wrth gyflawni dyletswydd a osodir o dan adran 197(1)[j912].

(2) Caiff darpariaeth ynghylch cyllido mewn rheoliadau ASC—

(a) pennu pethau o fewn adran 197(2)(b)[j912] y caniateir eu cyllido drwy ASC a drosglwyddir i berson wrth gyflawni dyletswydd a osodir o dan adran 197(1)[j912], y mae rhaid eu cyllido drwy ASC o'r fath, neu na chaniateir eu cyllido drwy ASC o'r fath;

(b) caniatáu i ASC gael ei chymhwyso (naill ai'n gyffredinol neu'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a osodir gan y rheoliadau neu a benderfynir yn unol â hwy) i gostau gweinyddol mewn cysylltiad ag unrhyw beth o fewn adran 197(2)(b)[j912].

(3) Caiff rheoliadau ASC, mewn perthynas ag ASC a drosglwyddir i berson wrth gyflawni dyletswydd a osodir o dan adran 197(1)[j912], wneud darpariaeth ynghylch—

(a) cyfrif am yr ASC;

(b) monitro'r defnydd ohoni;

(c) adrodd ar y defnydd ohoni;

(d) cyfrifoldebau awdurdodau codi tâl o ran pethau a wneir gan y person mewn cysylltiad â'r ASC;

(e) adennill yr ASC ac unrhyw incwm neu elw sy'n cronni mewn cysylltiad â hi neu o'i chymhwyso, mewn achosion—

(i) pan nad yw unrhyw un neu ragor o'r pethau sydd i'w cyllido ganddi wedi eu darparu, neu

(ii) pan fo wedi ei cham-gymhwyso,

gan gynnwys adennill symiau neu asedau eraill sy'n cynrychioli'r ASC neu sy'n cynrychioli unrhyw incwm neu elw o'r fath;

(f) defnyddio unrhyw beth a adenillir mewn achosion pan nad yw unrhyw un neu ragor o'r pethau sydd i'w cyllido drwy'r ASC wedi eu darparu neu pan fo'r ASC wedi ei cham-gymhwyso.

**199 Defnyddio ASC mewn ardal nad yw'r ddyletswydd i drosglwyddo ASC yn gymwys iddi [j914]**

(1) Mae is-adran (2)[j914] yn gymwys pan—

(a) bo rheoliadau ASC yn gosod dyletswydd ar awdurdod codi tâl i drosglwyddo ASC i berson mewn cysylltiad ag ardal berthnasol, a

(b) bo hefyd ran o ardal yr awdurdod codi tâl nad yw'r ddyletswydd i drosglwyddo ASC yn gymwys iddi ("yr ardal nas cwmpesir").

(2) Caiff y rheoliadau ddarparu y caiff yr awdurdod codi tâl gymhwyso ASC sy'n dod i law mewn cysylltiad â datblygiad ardolladwy yn yr ardal nas cwmpesir, neu beri iddi gael ei chymhwyso, i—

(a) cefnogi datblygiad drwy gyllido'r gwaith o ddarparu, gwella, amnewid, gweithredu neu gynnal a chadw seilwaith, neu

(b) cefnogi datblygiad yr ardal nas cwmpesir, neu unrhyw ran o'r ardal honno, drwy gyllido unrhyw beth arall sy'n ymwneud â mynd i'r afael â gofynion y mae datblygiad yn eu rhoi ar ardal.

(3) Caiff darpariaeth o dan is-adran (2)[J914] ymwneud â'r cyfan o'r ardal nas cwmpesir neu ran ohoni.

(4) Caiff darpariaeth o dan is-adran (2)[j914] ymwneud ag—

(a) yr holl ASC sy'n dod i law mewn cysylltiad â'r ardal y mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â hi, neu

(b) y rhan o'r ASC honno a bennir yn y rheoliadau, neu a benderfynir o dan y rheoliadau.

(5) Caiff darpariaeth ynghylch cyllido mewn rheoliadau ASC—

(a) pennu pethau o fewn is-adran (2)(b)[j914] y caniateir eu cyllido, y mae rhaid eu cyllido, neu na chaniateir eu cyllido, drwy ASC y mae darpariaeth o dan is-adran (2)[j914] yn ymwneud â hi;

(b) caniatáu i ASC gael ei chymhwyso (naill ai'n gyffredinol neu'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a osodir gan y rheoliadau neu a benderfynir yn unol â hwy) i gostau gweinyddol mewn cysylltiad ag unrhyw beth o fewn is-adran (2)(b)[j914].

*Adolygiadau ac apelau*

**200 Adolygiadau ac apelau [j928A]**

(1) Caiff rheoliadau ASC gynnwys darpariaeth ynghylch adolygiadau ac apelau mewn cysylltiad ag ASC.

(2) Yn benodol, caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y cyfnod y caniateir arfer hawl i gael adolygiad neu hawl i apelio ynddo,

(b) y weithdrefn ar gyfer adolygiadau ac apelau, ac

(c) talu ffioedd, a dyfarnu costau.

*Y weithdrefn*

**201 Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch gweithdrefnau [j929]**

(1) Caiff rheoliadau ASC gynnwys darpariaeth ynghylch y gweithdrefnau sydd i'w dilyn mewn cysylltiad ag ASC.

(2) Caiff darpariaeth ynghylch gweithdrefnau mewn rheoliadau ASC gynnwys, yn benodol, ddarpariaeth ynghylch—

(a) ymgynghori;

(b) cyhoeddi adroddiadau neu ymdrin â hwy fel arall;

(c) amseriad a dulliau cyhoeddi;

(d) rhoi dogfennau ar gael i edrych arnynt;

(e) darparu copïau o ddogfennau (â thâl neu hebddo);

(f) ffurf a chynnwys dogfennau;

(g) rhoi hysbysiad;

(h) cyflwyno hysbysiadau neu ddogfennau eraill;

(i) archwiliadau i'w cynnal yn gyhoeddus wrth osod neu ddiwygio cyfraddau neu feini prawf eraill neu wrth lunio rhestrau;

(j) telerau ac amodau penodi personau annibynnol;

(k) cydnabyddiaeth a chostau personau annibynnol (y gall fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru neu awdurdod codi tâl eu talu);

(l) costau eraill mewn cysylltiad ag archwiliadau;

(m) ad-dalu costau yr eir iddynt gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi);

(n) dosrannu costau;

(o) cyfuno gweithdrefnau mewn cysylltiad ag ASC â gweithdrefnau at ddiben arall awdurdod codi tâl (gan gynnwys diben yr awdurdod hwnnw yn rhinwedd swyddogaeth arall);

(p) gweithdrefnau i'w dilyn mewn cysylltiad ag atebolrwydd gwirioneddol neu bosibl am ASC.

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan awdurdod codi tâl—

(a) sy'n cynnig dechrau codi ASC;

(b) mewn perthynas â chodi ASC;

(c) sy'n cynnig peidio â chodi ASC mwyach.

*Canllawiau*

**202 Canllawiau [j930]**

Rhaid i awdurdod codi tâl neu awdurdod cyhoeddus arall (gan gynnwys archwilydd a benodir o dan baragraff 6[J917S] o Atodlen 13[J917S]) roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag ASC.

*Y berthynas â phwerau eraill*

**203 Y berthynas â phwerau eraill [j931]**

(1) Caiff rheoliadau ASC gynnwys darpariaeth ynghylch y materion yn is-adran (2)[j931], ond dim ond at ddiben a nodir yn is-adran (4)[j931].

(2) Y materion yw—

(a) sut y mae pwerau o dan y darpariaethau a ganlyn i'w defnyddio, neu sut nad ydynt i'w defnyddio—

(i) adrannau [j473] a [j482] (rhwymedigaethau cynllunio a gorfodi rhwymedigaethau cynllunio), a

(ii) adran 278 o'r Ddeddf Priffyrdd (cytundebau sy'n ymwneud â chyflawni gwaith);

(b) arfer unrhyw bŵer arall sy'n ymwneud â chynllunio neu ddatblygiad.

(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau ynghylch sut y mae pŵer sy’n ymwneud â chynllunio neu ddatblygiad i’w arfer mewn cysylltiad ag ASC ac eithrio at ddiben a nodir yn is-adran (4)[j931]; ac os ydynt yn rhoi canllawiau o’r fath, rhaid i awdurdodau codi tâl ac awdurdodau cyhoeddus eraill roi sylw iddynt.

(4) Y dibenion yw—

(a) ategu prif ddiben rheoliadau ASC;

(b) gwella effeithiolrwydd rheoliadau ASC, neu gynyddu’r defnydd ohonynt;

(c) atal cytundebau, ymgymeriadau neu drafodiadau eraill rhag cael eu defnyddio i—

(i) tanseilio neu osgoi rheoliadau ASC;

(ii) cyflawni diben y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl y byddai’n cael ei gyflawni’n well drwy gymhwyso rheoliadau ASC;

(d) atal gosod beichiau, gwneud cytundebau neu roi ymgymeriadau yn ychwanegol at ASC, neu gyfyngu ar wneud hynny.

(5) Caiff rheoliadau ASC ddarparu na chaniateir rhoi canllawiau na chyfarwyddydau—

(a) mewn perthynas â materion a bennir yn y rheoliadau;

(b) mewn achosion neu o dan amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau;

(c) at ddiben a bennir yn y rheoliadau;

(d) i raddau a bennir yn y rheoliadau.

*Cyffredinol*

## 204 Rheoliadau ASC: cyffredinol [j932]

Caiff rheoliadau ASC—

(a) gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol;

(b) cymhwyso deddfiad, gydag addasiadau neu hebddynt;

(c) darparu (neu alluogi cofrestr codi tâl i ddarparu) ar gyfer eithriadau;

(d) rhoi (neu alluogi cofrestr codi tâl i roi) bŵer yn ôl disgresiwn i Weinidogion Cymru, awdurdod lleol neu berson arall a bennir yn y rheoliadau.

## 205 Dehongli’r Bennod hon [j933]

Yn y Bennod hon—

ystyr “archwilydd” (“*examiner*”) yw person a benodir o dan baragraff 6(3)[J917S] o Atodlen 13[J917S];

mae i “ASC” (“*CIL*”) yr ystyr a roddir gan adran 171(1)[j901];

mae i “awdurdod codi tâl” (“*charging authority*”) yr ystyr a roddir gan adran 172(4)[j902] a (5)[j902];

mae i “caniatâd cynllunio ASC” (“*CIL planning permission*”) yr ystyr a roddir gan adran 174(3)[j905];

mae i "cofrestr codi tâl" ("*charging schedule*") yr ystyr a roddir gan adran 183(1)[j917];

mae i "datblygiad ardolladwy" ("*chargeable development*") yr ystyr a roddir gan adran 172(2)[j902];

mae i "seilwaith" ("*infrastructure*") yr ystyr a roddir gan adran 173(2)[J911].

## RHAN 7

## PWERAU ERAILL YN YMWNEUD Â DEFNYDD O DIR NEU GYFLWR TIR

### PENNOD 1

### PWERAU I'W GWNEUD YN OFYNNOL DATBARHAU DEFNYDD O DIR ETC.

*Gorchmynion datbarhau*

**206 Pŵer i wneud gorchymyn datbarhau [j470]**

(1) Caiff awdurdod cynllunio wneud gorchymyn datbarhau mewn perthynas ag unrhyw dir yn ei ardal.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn datbarhau mewn perthynas ag unrhyw dir yng Nghymru.

(3) Ni chaniateir gwneud gorchymyn datbarhau onid yw'r awdurdod cynllunio yn ystyried neu (yn ôl y digwydd) onid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny er budd cynllunio'n briodol yr ardal y mae'r tir ynddo (gan gynnwys er budd amwynder).

(4) Wrth ystyried a yw'n briodol gwneud gorchymyn, rhaid i'r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru—

(a) rhoi sylw i'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, a

(b) gwneud y penderfyniad yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn dangos fel arall.

(5) Gorchymyn yw gorchymyn datbarhau sy'n—

(a) ei gwneud yn ofynnol datbarhau defnydd o'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef,

(b) gosod amodau a bennir yn y gorchymyn ar barhau â defnydd o'r tir,

(c) ei gwneud yn ofynnol i gamau a bennir yn y gorchymyn gael eu cymryd ar gyfer addasu neu symud ymaith adeiladau neu waith ar y tir, neu

(d) ei gwneud yn ofynnol i gamau a bennir yn y gorchymyn gael eu cymryd ar gyfer addasu neu symud ymaith gyfarpar neu beiriannau a ddefnyddir i gynnal gweithrediadau mwyngloddio neu i ddyddodi gwastraff ar y tir.

(6) Yn is-adran (5)(a)[j470] a (b)[j470], nid yw cyfeiriadau at ddefnydd o dir yn cynnwys defnydd ar gyfer cynnal gweithrediadau ar y tir heblaw gweithrediadau mwyngloddio.

(7) Pan—

(a) bydd gofynion gorchymyn datbarhau yn golygu dadleoli personau o fangre y maent yn byw ynddi, a

(b) nad oes unrhyw lety preswyl arall sy'n addas ar gyfer gofynion rhesymol y personau hynny ar gael ar delerau rhesymol,

rhaid i'r awdurdod cynllunio y mae'r fangre yn ei ardal sicrhau y darperir ar gyfer y personau hynny, cyn iddynt gael eu dadleoli, lety preswyl sy'n addas ar gyfer eu gofynion rhesymol.

(8) Yn Atodlen 14[J470S]—

(a) mae Rhan 1[J470S] yn gwneud darpariaeth ynghylch y gweithdrefnau y mae rhaid eu dilyn cyn i orchymyn datbarhau a wneir gan awdurdod cynllunio gymryd effaith;

(b) mae Rhan 2[J470S] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn y mae rhaid ei dilyn cyn i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn datbarhau;

(c) mae Rhan 3[J470S] yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch amodau y caniateir i orchymyn datbarhau eu gosod mewn perthynas â thir a ddefnyddir i gynnal gweithrediadau mwyngloddio neu i ddyddodi gwastraff.

**207 Caniatâd cynllunio a roddir gan orchymyn datbarhau [j470a]**

(1) Caiff gorchymyn datbarhau roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu'r tir y mae'n ymwneud ag ef, yn ddarostyngedig i amodau a bennir yn y gorchymyn.

(2) Y caniatâd cynllunio y caniateir i orchymyn datbarhau ei roi yw unrhyw ganiatâd cynllunio y gellid ei roi ar gais o dan Ran [3].

(3) Mae is-adran (4)[j470a] yn gymwys pan fo gorchymyn datbarhau yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n cael ei gynnal cyn—

(a) yn achos gorchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio, y diwrnod y cyflwynir y gorchymyn i Weinidogion Cymru o dan baragraff 1[J470S] o Atodlen 14[J470S];

(b) yn achos gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn arfaethedig o dan baragraff 2(2)[J470S] o Atodlen 14[J470S].

(4) Caniateir rhoi'r caniatâd i gael effaith—

(a) o ddechrau'r diwrnod y cynhaliwyd y datblygiad, neu

(b) os cynhaliwyd y datblygiad yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd am gyfnod cyfyngedig, o ddiwedd y cyfnod hwnnw.

(5) Mae Atodlen j445S (amodau sy'n ymwneud â gweithrediadau mwyngloddio a dyddodi gwastraff) yn gymwys, gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddir gan orchymyn datbarhau a wneir gan Weinidogion Cymru fel y mae'n gymwys mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddir gan awdurdod cynllunio.

(6) Pan fo gorchymyn datbarhau yn rhoi caniatâd cynllunio, mae adran [j442] (hysbysiadau penderfynu) yn gymwys fel pe bai'r gorchymyn yn hysbysiad penderfynu.

(7) Gweler hefyd—

(a) Pennod 9 o Ran [3] am ddarpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i ganiatâd cynllunio gael ei roi yn ddarostyngedig i amodau sy’n ymwneud â hyd a gweithrediad y caniatâd;

(b) adran [j801] am ddarpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio osod amodau priodol sy’n ymwneud â chadw neu blannu coed.

*Gorchmynion gwahardd a gorchmynion diogelu*

**208 Pŵer i wneud gorchymyn gwahardd neu orchymyn diogelu [j470b]**

Yn Atodlen 15[J470C]—

(a) mae Rhan 1[J470C] yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud gorchmynion gwahardd pan fo tir wedi ei ddefnyddio i gynnal gweithrediadau mwyngloddio neu i ddyddodi gwastraff mwynau ond bod y gweithrediadau neu’r dyddodi wedi dod i ben yn barhaol;

(b) mae Rhan 2[J470C] yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud gorchmynion diogelu pan fo tir wedi ei ddefnyddio i gynnal gweithrediadau mwyngloddio neu i ddyddodi gwastraff mwynau ond bod y gweithrediadau neu’r dyddodi wedi eu hatal neu ei atal dros dro.

*Gorfodi gorchmynion*

**209 Pwerau i fynd ar dir, cymryd camau a wneir yn ofynnol gan orchymyn ac adennill costau [j570]**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) gorchymyn datbarhau yn gosod gofyniad o dan adran 206(5)(c)[j470] neu (d)[j470] i gymryd camau i addasu neu symud ymaith unrhyw adeiladau neu unrhyw waith neu unrhyw gyfarpar neu unrhyw beiriannau;

(b) gorchymyn gwahardd yn gosod gofyniad o dan baragraff 1(6)(a) neu (b) o Atodlen 15[J470C] i gymryd camau i—

(i) addasu neu symud ymaith gyfarpar neu beiriannau, neu

(ii) dileu neu liniaru unrhyw niwed i amwynder;

(c) gorchymyn diogelu yn gosod gofyniad o dan baragraff 5(5) o Atodlen 15[J470C] i gymryd camau i ddiogelu’r amgylchedd.

(2) Os nad yw cam y mae’r gorchymyn yn ei wneud yn ofynnol wedi ei gymryd o fewn y cyfnod a bennir yn y gorchymyn, neu o fewn cyfnod hwy a ganiateir gan yr awdurdod cynllunio, caiff yr awdurdod cynllunio fynd ar y tir y mae’r gorchymyn yn ymwneud ag ef ar unrhyw adeg resymol a chymryd y cam.

(3) Pan fo’r awdurdod cynllunio yn arfer y pwerau a roddir gan is-adran (2)[j570], caiff adennill oddi wrth berson sydd ar y pryd yn berchennog ar y tir y costau y mae’n mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny.

(4) Mae is-adran (5)[j570] yn gymwys—

(a) pan fo’r awdurdod cynllunio yn symud ymaith ddeunyddiau o dir wrth gymryd camau sy’n ofynnol gan y gorchymyn, a

(b) pan na fo perchennog y deunyddiau, o fewn 3 diwrnod ar ôl y diwrnod y cânt eu symud ymaith, yn hawlio'r deunyddiau ac yn mynd â hwy ymaith.

(5) Mewn perthynas â'r awdurdod cynllunio—

(a) caiff werthu'r deunyddiau, a

(b) os yw'n gwneud hynny, rhaid iddo dalu'r enillion i'r person a oedd yn berchen ar y deunyddiau, ar ôl didynnu unrhyw gostau sy'n adenilladwy ganddo oddi wrth y person.

(6) Yn yr adran hon ystyr "yr awdurdod cynllunio" yw'r awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn ei ardal.

**210 Y drosedd o fethu â chydymffurfio â gorchymyn [j571]**

(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person, gan dorri rheolaeth gynllunio—

(a) yn defnyddio tir, neu'n peri neu'n caniatáu i dir gael ei ddefnyddio—

(i) at ddiben y mae gorchymyn datbarhau wedi ei gwneud yn ofynnol datbarhau ei ddefnydd o dan adran 206(5)(a)[j470], neu

(ii) gan dorri amod a osodir gan orchymyn datbarhau o dan adran 206(5)(b)[j470],

(b) yn ailddechrau, neu'n peri neu'n caniatáu ailddechrau, ddefnydd o dir y mae gorchymyn gwahardd o dan baragraff 1(5) o Atodlen 15[J470C] yn gwahardd ei ailddechrau, neu

(c) yn methu â chydymffurfio, neu'n peri neu'n caniatáu methiant i gydymffurfio, â gofyniad a osodir gan orchymyn gwahardd o dan baragraff 1(6) neu (7) o'r Atodlen honno.

(2) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn methu â chydymffurfio, neu'n peri neu'n caniatáu methiant i gydymffurfio, â gofyniad i gymryd camau i ddiogelu'r amgylchedd a osodir gan orchymyn diogelu o dan baragraff 5(5) o Atodlen 15[J470C].

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

(4) Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o drosedd o dan yr adran hon ("y diffynnydd") i brofi iddo gymryd pob rhagofal rhesymol ac arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd.

(5) Mae is-adran (6)[j571] yn gymwys mewn unrhyw achos pan fo'r amddiffyniad a ddarperir gan is-adran (4)[j571] yn ymwneud â honiad y cyflawnwyd y drosedd o ganlyniad i—

(a) gweithred neu ddiffyg person arall, neu

(b) dibynnu ar wybodaeth a ddarparwyd gan berson arall.

(6) Ni chaiff y diffynnydd ddibynnu ar yr amddiffyniad heb ganiatâd y llys oni bai bod y diffynnydd, o leiaf 7 niwrnod clir cyn diwrnod y gwrandawiad, wedi cyflwyno hysbysiad i'r erlynydd sy'n rhoi unrhyw wybodaeth a oedd ym meddiant y diffynnydd bryd hynny sy'n dangos pwy yw'r person arall neu'n cynorthwyo i ddangos pwy ydyw.

*Digolledyiad a phrynu buddiannau mewn tir*

**211 Digolledyiad am ddifrod a achosir gan orchymyn datbarhau [j613]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan wneir gorchymyn datbarhau mewn perthynas â thir yn ardal awdurdod cynllunio.

(2) Mae gan unrhyw berson hawlogaeth, wrth wneud hawliad i'r awdurdod cynllunio, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod am unrhyw ddifrod a ddioddefir gan y person o ganlyniad i'r gorchymyn—

(a) drwy ddibrisiant yng ngwerth buddiant y mae gan y person hawlogaeth iddo yn y tir, neu

(b) drwy darfu ar ei fwynhad o'r tir.

(3) Mae gan unrhyw berson sy'n cynnal gwaith yn unol â'r gorchymyn hawlogaeth, wrth wneud hawliad i'r awdurdod cynllunio, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod am unrhyw wariant y mae'r person yn mynd iddo yn rhesymol mewn cysylltiad â'r gwaith.

(4) Rhaid i hawliad am ddigolledyiad o dan yr adran hon gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r gorchymyn yn cymryd effaith.

(5) Rhaid lleihau'r digolledyiad sy'n daladwy o dan yr adran hon gan werth i'r hawlydd unrhyw bren defnyddiadwy, unrhyw gyfarpar neu unrhyw ddeunyddiau eraill a symudir ymaith at ddiben cydymffurfio â'r gorchymyn.

(6) Nid oes digolledyiad yn daladwy o dan yr adran hon os—

(a) yw person sydd â buddiant yn y tir y mae gorchymyn datbarhau yn ymwneud ag ef yn cyflwyno hysbysiad prynu o dan adran 213[j619] o ganlyniad i'r gorchymyn, a

(b) yw buddiant y person yn cael ei gaffael yn unol ag Atodlen 12.

**212 Digolledyiad am effeithiau gorchmynion sy'n ymwneud â mwynau [j614]**

Yn Atodlen 16[J614S]—12[J618S]

(a) mae Rhan 1[J614S] yn cyfyngu ar ddigolledyiad o dan adran 211[j613] pan fo gorchymyn datbarhau yn ymwneud â defnydd o dir ar gyfer cynnal gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau;

(b) mae Rhan 2[J614S] yn darparu i ddigolledyiad fod yn daladwy pan wneir gorchymyn gwahardd neu orchymyn diogelu.

**213 Cyflwyno hysbysiad prynu yn dilyn gwneud gorchymyn datbarhau [j619]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan wneir gorchymyn datbarhau mewn perthynas ag unrhyw dir.

(2) Os yw person sydd â buddiant yn y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn honni bod yr amodau yn is-adran (3) wedi eu bodloni, caiff y person gyflwyno i'r awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod brynu buddiant y person ("hysbysiad prynu").

(3) Yr amodau yw—

(a) bod y tir yn annefnyddiadwy yn ei gyflwr presennol o ganlyniad i'r gorchymyn datbarhau, a

(b) nad yw'n bosibl gwneud y tir yn ddefnyddiadwy drwy gynnal unrhyw ddatblygiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer (pa un ai drwy'r gorchymyn neu fel arall) neu y mae'r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru wedi ymrwymo i roi caniatâd cynllunio ar ei gyfer.

(4) Mae Atodlen 12 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch hysbysiadau prynu (gan gynnwys darpariaeth bellach ynghylch yr amgylchiadau pan ganiateir cyflwyno hysbysiadau prynu, a darpariaeth ynghylch y camau gweithredu sydd i'w cymryd yn dilyn cyflwyno hysbysiad prynu).

## PENNOD 2

## TIR SY'N EFFEITHIO'N ANDWYOL AR AMWYNDER CYMDOGAETH

*Hysbysiadau cynnal a chadw tir*

### 214 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad cynnal a chadw tir [j871]

(1) Caiff awdurdod cynllunio ddyroddi hysbysiad cynnal a chadw tir os yw'n ystyried bod cyflwr unrhyw dir yn ei ardal yn cael effaith andwyol ar amwynder rhan o'i ardal neu o ardal gyfagos.

(2) Ond ni chaiff awdurdod ddyroddi hysbysiad os yw'n ystyried bod cyflwr y tir o ganlyniad, yng nghwrs arferol digwyddiadau, i weithrediadau neu ddefnydd nad ydynt neu nad yw yn dor rheolaeth gynllunio neu'n fethiant i gydymffurfio â gorchymyn datbarhau, gorchymyn gwahardd, gorchymyn diogelu neu rwymedigaeth gynllunio.

(3) Rhaid i hysbysiad cynnal a chadw tir—

(a) ei gwneud yn ofynnol cymryd camau a bennir yn yr hysbysiad i unioni cyflwr y tir y mae'n ymwneud ag ef,

(b) pennu'r dyddiad y mae'r hysbysiad i gael effaith, ac

(c) pennu'r cyfnod y mae rhaid cymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad ynddo.

(4) Mae'r hysbysiad yn cael effaith ar ddechrau'r diwrnod a bennir o dan is-adran (3)(b)[j871]; ond pan fo apêl yn cael ei gwneud yn erbyn yr hysbysiad o dan adran 215[j872], mae hyn yn ddarostyngedig i is-adran (4)(a)[j872] o'r adran honno ac adran 379(4)[j2506].

(5) Pan fo awdurdod cynllunio yn dyroddi hysbysiad cynnal a chadw tir, rhaid iddo gyflwyno copi o'r hysbysiad i bob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

(6) Rhaid cyflwyno pob copi o'r hysbysiad—

(a) cyn diwedd 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad, a

(b) o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y mae i gael effaith.

(7) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio gynnwys gyda phob copi o hysbysiad cynnal a chadw tir a gyflwynir o dan yr adran hon nodyn esboniadol sy'n rhoi gwybodaeth a bennir yn y rheoliadau am yr hawl i apelio o dan adran 215[j872].

*Apelau yn erbyn hysbysiadau cynnal a chadw tir*

**215 Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad cynnal a chadw tir [j872]**

(1) Caiff person y cyflwynir copi o hysbysiad cynnal a chadw tir iddo, neu unrhyw berson arall sydd â buddiant yn y tir y mae’r hysbysiad yn ymwneud ag ef, apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Caniateir gwneud apêl ar un neu ragor o’r seiliau a ganlyn—

(a) nad yw cyflwr y tir yn effeithio’n andwyol ar amwynder unrhyw ran o ardal yr awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad, neu unrhyw ran o ardal gyfagos;

(b) bod cyflwr y tir o ganlyniad, yng nghwrs arferol digwyddiadau, i weithrediadau neu ddefnydd nad ydynt neu nad yw yn dor rheolaeth gynllunio neu’n fethiant i gydymffurfio â gorchymyn datbarhau, gorchymyn gwahardd, gorchymyn diogelu neu rwymedigaeth gynllunio;

(c) bod y camau sy’n ofynnol gan yr hysbysiad yn fwy na’r hyn sy’n angenrheidiol i atal cyflwr y tir rhag effeithio’n andwyol ar amwynder unrhyw ran o ardal yr awdurdod cynllunio neu o ardal gyfagos;

(d) bod y cyfnod y mae’r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol cymryd unrhyw gam ynddo yn afresymol o fyr.

(3) Rhaid gwneud apêl o dan yr adran hon drwy gyflwyno hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad cynnal a chadw tir fel y dyddiad y mae i gael effaith.

(4) Pan fo apêl yn cael ei gwneud—

(a) nid yw’r hysbysiad cynnal a chadw tir yn cael effaith hyd nes y penderfynir yr apêl yn derfynol neu y tynnir yr apêl yn ôl; ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 379(4)[j2506] pan ddygir achos o dan yr adran honno mewn perthynas â’r hysbysiad;

(b) nid oes gan yr apelydd nac unrhyw berson arall hawlogaeth, mewn unrhyw achos arall a ddechreuir ar ôl i’r apêl gael ei gwneud, i honni na chyflwynwyd copi o’r hysbysiad i’r apelydd yn unol ag adran 214[j871].

(5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) camau i’w cymryd mewn cysylltiad â gwneud apêl (gan gynnwys ffurf a chynnwys hysbysiad o apêl a phersonau y mae copïau o’r hysbysiad i’w darparu iddynt);

(b) gwybodaeth bellach sydd i’w darparu i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag apêl.

**216 Penderfynu apêl [j873]**

(1) Ar apêl yn erbyn hysbysiad cynnal a chadw tir caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cywiro unrhyw ddiffyg, unrhyw wall neu unrhyw gamddisgrifiad yn yr hysbysiad, neu

(b) amrywio telerau’r hysbysiad,

os ydynt wedi eu bodloni na fydd y cywiriad neu’r amrywiad yn achosi anghyfiawnder i’r apelydd na’r awdurdod cynllunio.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu apêl—

(a) os ydynt yn caniatáu'r apêl, cânt ddiddymu'r hysbysiad cynnal a chadw tir;

(b) rhaid iddynt roi unrhyw gyfarwyddydau sy'n angenrheidiol i roi effaith i'w penderfyniad.

(3) Mae Pennod 2 o Ran 14 yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried apelau yn erbyn hysbysiadau cynnal a chadw tir (gan gynnwys darpariaeth iddynt gael eu penderfynu gan arolygwyr).

**217 Y seiliau dros apelio i beidio â chael eu codi mewn achosion eraill [j878]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo copi o hysbysiad cynnal a chadw tir wedi ei gyflwyno i bob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn unol ag adran 214(5)[j871].

(2) Ni chaniateir cwestiynu dilysrwydd yr hysbysiad , ar y naill na'r llall o'r seiliau a bennir yn is-adran (2)(a)[j872] a (b)[j872] o adran 215[j872], mewn unrhyw achos ac eithrio apêl o dan yr adran honno.

*Gorfodi hysbysiadau cynnal a chadw tir*

**218 Gorchymyn i ganiatáu camau sy'n ofynnol gan hysbysiad cynnal a chadw tir [j875]**

(1) Caiff perchennog ar dir wneud cais drwy gŵyn i lys ynadon am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson arall â buddiant yn y tir ganiatáu i'r perchennog gymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad cynnal a chadw tir.

(2) Caiff y llys wneud gorchymyn o'r fath os yw wedi ei fodloni bod y person arall yn atal y perchennog rhag cymryd camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad cynnal a chadw tir.

**219 Pwerau i fynd ar dir, cymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad cynnal a chadw tir ac adennill costau [j876]**

(1) Os yw'r cyfnod y mae hysbysiad cynnal a chadw tir yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd ynddo, neu gyfnod hwy a ganiateir gan yr awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad, wedi dod i ben ac nad yw'r cam wedi ei gymryd, caiff yr awdurdod cynllunio—

(a) ar unrhyw adeg resymol fynd ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef a chymryd y cam, a

(b) adennill oddi wrth berson sydd ar y pryd yn berchennog ar y tir y costau y mae'n mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny.

(2) Os yw awdurdod cynllunio yn ceisio adennill costau o dan is-adran (1)(b)[j876] oddi wrth berchennog ar dir—

(a) y mae ganddo hawlogaeth i gael crogrent y tir dim ond fel asiant neu ymddiriedolwr ar gyfer person arall (y "penadur"), a

(b) nad oes ganddo, ac nad oedd ganddo ar unrhyw adeg ers y diwrnod pan fynnwyd bod y costau yn cael eu talu, ddigon o arian ar ran y penadur i dalu'r costau yn llawn,

mae atebolrwydd yr asiant neu'r ymddiriedolwr wedi ei gyfyngu i gyfanswm yr arian y mae'r asiant neu'r ymddiriedolwr wedi ei gael ar ran y penadur ers y diwrnod hwnnw.

(3) Os yw is-adran (2)[j876] yn atal awdurdod cynllunio rhag adennill y cyfan o'i gostau oddi wrth asiant neu ymddiriedolwr, caiff eu hadennill oddi wrth y penadur, neu'n rhannol oddi wrth y penadur ac yn rhannol oddi wrth yr asiant neu'r ymddiriedolwr.

(4) Pan fo copi o hysbysiad cynnal a chadw tir wedi cael ei gyflwyno mae—

(a) costau y mae perchennog neu feddiannydd ar y tir yn mynd iddynt at ddiben cydymffurfio â'r hysbysiad, a

(b) symiau y mae perchennog ar y tir yn eu talu o dan is-adran (1)(b)[j876] mewn cysylltiad â chostau y mae'r awdurdod cynllunio yn mynd iddynt wrth gymryd camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad,

i'w trin fel pe aed iddynt neu pe baent wedi eu talu at ddefnydd ac ar gais unrhyw berson a oedd wedi peri neu ganiatáu i'r tir fod yn y cyflwr yr oedd pan ddyroddwyd yr hysbysiad.

(5) Mae'r costau y gellir eu hadennill gan awdurdod cynllunio o dan is-adran (1)[j876], hyd nes iddynt gael eu hadenill, yn bridiant ar y tir y mae'r hysbysiad cynnal a chadw tir yn ymwneud ag ef.

(6) Mae'r pridiant yn cymryd effaith fel pridiant tir lleol ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r awdurdod yn cwblhau'r camau y mae'r costau'n ymwneud â hwy.

(7) Mae is-adran (8)[j876] yn gymwys pan—

(a) bo awdurdod cynllunio yn symud ymaith ddeunyddiau o dir yng nghwrs cymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad cynnal a chadw tir, a

(b) na fo perchennog y deunyddiau, o fewn 3 diwrnod ar ôl y diwrnod y cânt eu symud ymaith, yn hawlio'r deunyddiau ac yn mynd â hwy i ffwrdd.

(8) O ran yr awdurdod cynllunio—

(a) caiff werthu'r deunyddiau, a

(b) os yw'n gwneud hynny, rhaid iddo dalu'r enillion i'r person a oedd yn berchen ar y deunyddiau, ar ôl didynnu unrhyw gostau y gall yr awdurdod eu hadennill oddi wrth y person.

**220 Y drosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad cynnal a chadw tir [j877]**

(1) Mae person y mae copi o hysbysiad cynnal a chadw tir wedi ei gyflwyno iddo yn euog o drosedd os oes un neu ragor o'r camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad heb eu cymryd erbyn diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad.

(2) Mae is-adran (3)[j877] yn gymwys pan ddygir achos o dan is-adran (1)[j877] yn erbyn person sydd, cyn diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer cydymffurfio â hysbysiad cynnal a chadw tir, wedi peidio â bod yn berchennog neu'n feddiannydd ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

(3) Os yw'r person yn cyflwyno hysbysiaeth i'r perwyl hwnnw ac yn rhoi i'r erlynydd o leiaf 3 diwrnod clir o hysbysiad o fwriad y person, mae gan y person hawlogaeth i gael y perchennog dilynol neu'r meddiannydd dilynol wedi ei ddwyn gerbron y llys yn yr achos.

(4) Mae is-adrannau (5)[j877] a (6)[j877] yn gymwys pan ddygir achos yn erbyn person (y "diffynnydd gwreiddiol") am drosedd o dan is-adran (1)[j877], a bod perchennog dilynol neu feddiannydd dilynol yn cael ei wneud yn barti i'r achos o dan is-adran (3)[j877].

(5) O dan yr amgylchiadau a ganlyn pan—

(a) y'i profir nad yw pob cam sy'n ofynnol gan yr hysbysiad cynnal a chadw tir wedi ei gymryd erbyn diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad, a

(b) bo'r diffynnydd gwreiddiol yn profi bod unrhyw fethiant i gymryd y camau hynny o ganlyniad, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i fethiant y perchennog dilynol neu'r meddiannydd dilynol,

caiff y perchennog dilynol neu'r meddiannydd dilynol gael ei euogfarnu am y drosedd o dan is-adran (1)[J877].

(6) Mae'n amddiffyniad i'r diffynnydd gwreiddiol brofi—

(a) bod unrhyw fethiant i gymryd camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad cynnal a chadw tir o ganlyniad, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i fethiant y perchennog dilynol neu'r meddiannydd dilynol, a

(b) bod y diffynnydd gwreiddiol wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau cydymffurfedd â'r hysbysiad.

(7) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1)[j877] yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(8) Os nad yw person a euogfarnwyd o drosedd o dan is-adran (1)[j877], cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl yr euogfarn, yn gwneud popeth o fewn gallu'r person i sicrhau cydymffurfedd â'r hysbysiad cynnal a chadw tir, mae'r person yn euog o drosedd bellach.

(9) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (8)[j877] yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy nag un rhan o ddeg o lefel 3 ar y raddfa safonol ar gyfer pob diwrnod y mae'r methiant i gymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad yn parhau.

(10) At ddibenion yr adran hon y cyfnod a ganiateir ar gyfer cydymffurfio â hysbysiad cynnal a chadw tir yw—

(a) y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad fel y cyfnod y mae rhaid cymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad ynddo, neu

(b) cyfnod hwy a ganiateir gan yr awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad.

(11) Yn yr adran hon ystyr "perchennog dilynol neu feddiannydd dilynol" yw—

(a) pan fo achos wedi ei ddwyn yn erbyn person fel perchennog ar dir, berson a ddaeth yn berchennog ar y tir pan beidiodd y person hwnnw â bod yn berchennog;

(b) pan fo achos wedi ei ddwyn yn erbyn person fel meddiannydd ar dir—

(i) person a ddaeth yn feddiannydd ar y tir pan beidiodd y person hwnnw â bod yn feddiannydd, neu

(ii) os nad oedd meddiannydd ar y tir pan beidiodd y person hwnnw â bod yn feddiannydd, berson y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad cynnal a chadw tir iddo fel perchennog ar y tir.

## RHAN 8

## RHEOLAETHU HYSBYSEBION

*Rheoliadau rheolaethu hysbysebion*

### 221 Rheoliadau rheolaethu hysbysebion [j851]

(1) Rhaid i reoliadau (“rheoliadau rheolaethu hysbysebion”) wneud unrhyw ddarpariaeth sy’n cyfyngu ar y defnydd o dir yng Nghymru ar gyfer arddangos hysbysebion, neu sy’n rheoleiddio’r defnydd hwnnw, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol er budd amwynder neu ddiogelwch y cyhoedd.

(2) Caiff y rheoliadau, er enghraifft, wneud darpariaeth ynghylch—

(a) dimensiynau, golwg a lleoliad hysbysebion y caniateir eu harddangos;

(b) y tir y caniateir arddangos hysbysebion arno neu ohono;

(c) sut y caniateir rhoi hysbysebion yn sownd yn y tir.

(3) Mae adrannau 222[J852] i 228[j858] yn rhoi enghreifftiau pellach o’r mathau o ddarpariaeth y caniateir eu gwneud drwy reoliadau rheolaethu hysbysebion.

(4) Mae’r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau rheolaethu hysbysebion yn cynnwys darpariaeth sy’n gymwys i—

(a) hysbysebion sy’n cael eu harddangos ar yr adeg pan ddaw’r rheoliadau i rym, neu

(b) y defnydd, ar gyfer arddangos hysbysebion, o dir sy’n cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw ar yr adeg honno.

(5) Yn y Ddeddf hon—

(a) ystyr “hysbyseb” yw—

(i) unrhyw air, unrhyw lythyren, unrhyw fodel, unrhyw arwydd, unrhyw blacard, unrhyw fwrdd, unrhyw hysbysiad, unrhyw adlen, unrhyw fleind, unrhyw symbol neu unrhyw gynrychioliad, pa un a yw’n oleuedig ai peidio, sydd o ran ei natur yn cyhoeddi, yn rhoi cyhoeddusrwydd neu’n cyfarwyddo, ac sy’n cael ei ddefnyddio neu ei defnyddio i unrhyw raddau at y dibenion hynny,

(ii) unrhyw balis neu unrhyw strwythur tebyg sy’n cael ei ddefnyddio, ei ddylunio neu ei addasu i’w ddefnyddio at unrhyw un neu ragor o’r dibenion hynny, neu

(iii) unrhyw beth arall sy’n cael ei ddefnyddio yn bennaf, neu ei ddylunio neu ei addasu i’w ddefnyddio yn bennaf, at unrhyw un neu ragor o’r dibenion hynny,

ond nid yw’n cynnwys cofeb na signal rheilffordd, a

(b) mae cyfeiriadau at arddangos hysbysebion i’w dehongli yn unol â hynny.

### 222 Cydsyniad ar gyfer arddangos hysbysebion [j852]

(1) Caiff rheoliadau rheolaethu hysbysebion ddarparu na chaniateir arddangos hysbysebion o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau ar dir neu o dir ond gyda chydsyniad.

(2) Caiff y rheoliadau, yn benodol, wneud darpariaeth—

(a) ynghylch pwy a gaiff roi cydsyniad;

(b) ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â chael cydsyniad;

(c) ar gyfer rhoi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (2)(b)[j852] yn cynnwys darpariaeth ynghylch ceisiadau am gydsyniad, gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys cais;

(b) sut y mae rhaid gwneud cais;

(c) dogfennau neu ddeunyddiau eraill sydd i'w cynnwys gyda chais;

(d) y canlyniadau os bydd cais yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau.

(4) Caiff darpariaeth ynghylch ceisiadau am gydsyniad hefyd—

(a) gwneud darpariaeth ynghylch rhoi cyhoeddusrwydd, hysbysu neu ymgyngoriadau sydd i'w cynnal mewn perthynas â chais neu gais arfaethedig;

(b) gwneud darpariaeth ynghylch amgylchiadau pan gaiff person wrthod penderfynu cais;

(c) pan fo'r rheoliadau'n darparu i geisiadau gael eu gwneud i awdurdodau cynllunio, alluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod cynllunio i atgyfeirio cais atynt hwy i'w benderfynu yn hytrach nag ymdrin â'r cais ei hun.

(5) Mae'r amodau y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar eu cyfer o dan is-adran (2)(c)[j852] yn cynnwys—

(a) amodau sy'n rheoleiddio'r defnydd o unrhyw dir ar gyfer arddangos hysbysebion;

(b) amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cymeradwyaethau gan unrhyw berson;

(c) amodau sy'n cyfyngu ar hyd cydsyniad;

(d) amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol symud ymaith unrhyw hysbyseb, neu ddatbarhau defnydd o dir, ar ddiwedd cyfnod a bennir yn y rheoliadau;

(e) amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal gwaith ar unrhyw dir (gan gynnwys gwaith adfer).

**223 Cyfyngu ar arddangos hysbysebion pan na fo cydsyniad datganedig yn ofynnol fel arfer [j853]**

(1) Caiff rheoliadau rheolaethu hysbysebion sy'n gwneud cydsyniad yn ofynnol ar gyfer arddangos hysbysebion ddarparu, os cydymffurfir ag amodau a chyfyngiadau a bennir yn y rheoliadau—

(a) bod cydsyniad i'w drin fel pe bai wedi ei roi ar gyfer arddangos hysbysebion o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau, neu

(b) y caniateir arddangos hysbysebion o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau heb gydsyniad.

(2) Pan fo'r rheoliadau yn gwneud darpariaeth o'r fath, cânt hefyd—

(a) galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer arddangos hysbyseb er gwaethaf y ddarpariaeth;

(b) galluogi Gweinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio i'w gwneud yn ofynnol datbarhau arddangos hysbysiad er gwaethaf y ddarpariaeth.

**224 Apelau [j854]**

(1) Caiff rheoliadau rheolaethu hysbysebion sy'n gwneud cydsyniad yn ofynnol ar gyfer arddangos hysbysebion wneud darpariaeth ar gyfer apelau i Weinidogion Cymru ac mewn cysylltiad ag apelau o'r fath.

(2) Caiff y rheoliadau, yn benodol, ddarparu ar gyfer apelau—

(a) pan fo methiant i benderfynu cais am gydsyniad;

(b) yn erbyn gwrthod cydsyniad;

(c) yn erbyn amodau y rhoddir cydsyniad yn ddarostyngedig iddynt;

(d) yn erbyn penderfyniad i'w gwneud yn ofynnol datbarhau arddangos hysbyseb yn unol â darpariaeth a wneir o dan adran 223(2)(b)[j853].

(3) Caiff darpariaeth mewn cysylltiad ag apelau gynnwys—

(a) darpariaeth sy'n gosod terfynau amser (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n galluogi iddynt gael eu hestyn);

(b) darpariaeth mewn cysylltiad â'r weithdrefn sydd i'w dilyn pan fo apêl;

(c) darpariaeth sy'n gosod dyletswyddau ar berson sy'n penderfynu apêl, neu sy'n rhoi pwerau i'r person hwnnw.

**225 Newid neu ddirymu cydsyniad [j855]**

(1) Caiff rheoliadau rheolaethu hysbysebion sy'n gwneud cydsyniad yn ofynnol ar gyfer arddangos hysbysebion wneud darpariaeth ar gyfer newid neu ddirymu cydsyniad.

(2) Caiff darpariaeth ynghylch newid neu ddirymu cydsyniad gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) yr amgylchiadau pan ganiateir newid neu ddirymu cydsyniad;

(b) y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â newid neu ddirymu cydsyniad;

(c) effaith newid neu ddirymu cydsyniad.

**226 Digolllediad [j855a]**

(1) Caiff rheoliadau rheolaethu hysbysebion sy'n gwneud cydsyniad yn ofynnol ar gyfer arddangos hysbysebion wneud darpariaeth ar gyfer talu digolledIad.

(2) Caiff y rheoliadau, yn benodol, ddarparu ar gyfer hawlogaeth i ddigolledIad—

(a) pan fo cydsyniad yn cael ei wrthod neu pan fo yn cael ei roi yn ddarostyngedig i amodau;

(b) pan fo'n ofynnol datbarhau arddangos hysbyseb yn unol â darpariaeth a wneir o dan adran 223(2)(b)[j853];

(c) pan fo cydsyniad yn cael ei newid neu ei ddirymu.

(3) Caiff y rheoliadau ddarparu i hawlogaeth i ddigolledIad—

(a) bod yn gymwys dim ond mewn achosion a bennir yn y rheoliadau, neu ac eithrio mewn achosion a bennir yn y rheoliadau;

(b) bod yn ddarostyngedig i amodau, gan gynnwys amodau ynghylch terfynau amser.

(4) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) pwy sydd i dalu digolledіad;

(b) pwy sydd â hawlogaeth i ddigolledіad;

(c) yr hyn y mae digolledіad i'w dalu ar ei gyfer;

(d) swm digolledіad neu gyfrifo digolledіad.

(5) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â hawlio digolledіad.

(6) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer penderfynu anghydfodau ynghylch digolledіad, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad ag atgyfeirio anghydfodau i'r Uwch Dribiwnlys a'u penderfynu ganddo.

**227 Rheoliadau rheolaethu hysbysebion: atodol [j856]**

(1) Caiff rheoliadau rheolaethu hysbysebion wneud darpariaeth ar gyfer cadw cofrestrau sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau am gydsyniad ar gyfer arddangos hysbysebion (gan gynnwys gwybodaeth am sut yr ymdriniwyd â hwy), a mynediad y cyhoedd at y cofrestrau hynny.

(2) Caiff rheoliadau rheolaethu hysbysebion alluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod cynllunio i roi gwybodaeth iddynt at ddibenion arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau o dan y rheoliadau.

**228 Pŵer i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol, gan gynnwys ardaloedd rheolaeth arbennig [j858]**

(1) Caiff rheoliadau rheolaethu hysbysebion wneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol.

(2) Caiff y rheoliadau, yn benodol, wneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd sydd wedi eu dynodi'n ardaloedd rheolaeth arbennig drwy orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru neu a gymeradwyir ganddynt yn unol â'r rheoliadau.

(3) Caiff y ddarpariaeth honno gynnwys darpariaeth sy'n gwahardd—

(a) arddangos unrhyw hysbysebion mewn ardal rheolaeth arbennig, neu

(b) arddangos unrhyw hysbysebion mewn ardal o'r fath ac eithrio hysbysebion o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau.

(4) Rhaid i'r rheoliadau ddarparu na chaiff Gweinidogion Cymru wneud na chymeradwyo gorchymyn sy'n dynodi ardal yn ardal rheolaeth arbennig oni bai ei bod—

(a) yn ardal wledig, neu

(b) yn ardal y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen ei diogelu'n arbennig ar sail amwynder.

(5) Rhaid i reoliadau sy’n gwneud darpariaeth o dan is-adran (2)[j858] wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i’w dilyn cyn i Weinidogion Cymru wneud neu gymeradwyo gorchymyn sy’n dynodi ardal yn ardal rheolaeth arbennig, gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) cyhoeddi, mewn ffordd a bennir yn y rheoliadau, hysbysiad o’r bwriad i wneud neu i gymeradwyo’r gorchymyn;

(b) ystyried sylwadau;

(c) cynnal ymchwiliadau neu wrandawiadau eraill.

*Caniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer arddangos hysbysebion*

**229 Caniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer hysbysebion a arddangosir yn unol â rheoliadau [j857]**

Pan fo arddangos hysbyseb—

(a) yn golygu datblygiad tir, a

(b) yn cydymffurfio â rheoliadau rheolaethu hysbysebion,

mae caniatâd cynllunio i’w drin fel pe bai wedi ei roi ar gyfer y datblygiad.

*Gorfodi rheoliadau*

**230 Y drosedd o arddangos hysbyseb yn groes i reoliadau [j859]**

(1) Os yw hysbyseb yn cael ei harddangos yn groes i reoliadau rheolaethu hysbysebion, mae person y mae’r adran hon yn gymwys iddo yn euog o drosedd.

(2) Mae’r adran hon yn gymwys i berson—

(a) os yw’r person yn arddangos yr hysbyseb neu’n ei chynnal a’i chadw,

(b) os yw’r person yn berchennog neu’n feddiannydd ar y tir y mae’r hysbyseb yn cael ei harddangos arno neu ohono, neu

(c) os yw’r hysbyseb yn rhoi cyhoeddusrwydd i nwyddau, gwasanaethau neu faterion eraill y person.

(3) Mae person sydd wedi ei euogfarnu o drosedd o dan is-adran (1)[j859] yn euog o drosedd bellach os—

(a) yw’r adran hon yn parhau i fod yn gymwys i’r person, a

(b) yw’r hysbyseb yn parhau i gael ei harddangos yn groes i reoliadau rheolaethu hysbysebion.

(4) Mae person sy’n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw’n fwy na’r swm a bennir mewn rheoliadau.

(5) Ni chaiff y swm a bennir mewn rheoliadau fod yn fwy nag—

(a) mewn perthynas â throsedd o dan is-adran (1)[j859], lefel 4 ar y raddfa safonol;

(b) mewn perthynas â throsedd o dan is-adran (3)[J859], un rhan o ddeg o lefel 4 ar y raddfa safonol ar gyfer pob diwrnod y mae’r drosedd yn parhau.

(6) Mae is-adran (7)[j859] yn gymwys i berson—

(a) sy’n dod o fewn is-adran (2)(b)[j859] neu (c)[j859], a

(b) nad yw'n dod o fewn is-adran (2)(a)[j859].

(7) Mewn achos am drosedd o dan yr adran hon, mae'n amddiffyniad i'r person brofi—

(a) bod yr hysbyseb wedi ei harddangos heb i'r person wybod, neu

(b) bod y person wedi cymryd bob cam rhesymol i atal ei harddangos neu i sicrhau ei bod yn cael ei symud ymaith.

(8) Gweler hefyd adrannau 43 a 47 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (p. 38), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch rhoi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â throseddau o dan yr adran hon.

**231 Pŵer i symud ymaith neu ddifodi placard a phoster [j860]**

(1) Caiff awdurdod cynllunio symud ymaith neu ddifodi unrhyw blacard neu unrhyw boster a arddangosir yn ei ardal os yw'n ystyried—

(a) bod y placard neu'r poster yn cael ei arddangos yn groes i reoliadau rheolaethu hysbysebion, a

(b) ei bod yn briodol er budd amwynder neu ddiogelwch y cyhoedd ei symud ymaith neu ei ddifodi.

(2) Ond nid yw is-adran (1)[j860] yn awdurdodi symud ymaith na difodi placard neu boster a arddangosir mewn adeilad nad oes hawl mynediad cyhoeddus iddo.

(3) Mae is-adran (4)[j860] yn gymwys—

(a) pan fo placard neu boster yn ei gwneud yn bosibl adnabod y person a'i harddangosodd neu a berodd iddo gael ei arddangos, neu

(b) pan na fo placard neu boster yn ei gwneud yn bosibl adnabod y person a'i harddangosodd neu a achosodd iddo gael ei arddangos, ond mae'n rhoi cyhoeddusrwydd i nwyddau, gwasanaethau neu faterion eraill person y mae'n ei gwneud yn bosibl ei adnabod.

(4) Ni chaiff yr awdurdod cynllunio arfer ei bŵer o dan is-adran (1)[j860] oni bai—

(a) ei fod wedi cyflwyno hysbysiad i'r person y mae'r placard neu'r poster yn ei gwneud yn bosibl ei adnabod sy'n nodi fod yr awdurdod—

(i) yn ystyried bod y placard neu'r poster yn cael ei arddangos yn groes i reoliadau rheolaethu hysbysebion, a

(ii) yn bwriadu symud ymaith neu ddifodi'r placard neu'r poster ar ddiwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, a

(b) bod y cyfnod wedi dod i ben.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad fod o leiaf 2 ddiwrnod sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(6) At ddibenion yr adran hon, nid yw placard neu boster i'w drin fel pe bai'n ei gwneud yn bosibl adnabod person os—

(a) nad yw'n rhoi cyfeiriad y person, a

(b) nad yw'r awdurdod cynllunio yn gwybod y cyfeiriad ac nad yw'n gallu ei ddarganfod ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol.

(7) Caiff awdurdod cynllunio adennill y costau y mae'n mynd iddynt yn rhesymol wrth arfer ei bŵer o dan is-adran (1)[j860] oddi wrth berson y mae wedi cyflwyno hysbysiad iddo o dan is-adran (4)[j860], ond dim ond os oedd yr hysbysiad yn datgan bod yr awdurdod yn bwriadu adennill y costau hynny oddi wrth y person.

**232 Digolledіad am ddifrod a achosir wrth symud ymaith neu ddifodi placard neu boster [j861]**

(1) Os difrodir tir neu eiddo arall wrth arfer y pŵer o dan adran 231[j860], caiff person sy'n dioddef y difrod adennill digolledіad oddi wrth yr awdurdod cynllunio a arferodd y pŵer.

(2) Rhaid gwneud hawliad am ddigolledіad yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod yr achosir y difrod (neu os achosir y difrod dros fwy nag un diwrnod, y diwrnod olaf y'i hachosir).

(3) Nid oes unrhyw ddigolledіad yn daladwy o dan yr adran hon i'r person a arddangosodd y placard neu'r poster yr oedd yr awdurdod cynllunio yn arfer ei bŵer mewn perthynas ag ef o dan adran 231[j860], neu a berodd i'r placard neu'r poster gael ei arddangos.

## RHAN 9

## DIOGELU COED A CHOETIROEDD

### PENNOD 1

### GORCHMYNION DIOGELU COED A GORCHMYNION DIOGELU COETIR ETC.

*Dyletswydd gyffredinol awdurdodau cynllunio*

**233 Caniatâd cynllunio i gynnwys darpariaeth ar gyfer diogelu a phlannu coed [j801]**

Pan fo awdurdod cynllunio yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad—

(a) rhaid iddo, pan fo'n briodol, roi'r caniatâd yn ddarostyngedig i amodau sy'n gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer diogelu neu blannu coed, a

(b) rhaid iddo wneud y gorchmynion diogelu coed a'r gorchmynion diogelu coetir y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol mewn cysylltiad â rhoi caniatâd, pa un ai ar gyfer rhoi effaith i amodau y mae'r caniatâd yn ddarostyngedig iddynt ai peidio.

*Gorchmynion diogelu coed a gorchmynion diogelu coetir*

**234 Pŵer awdurdod cynllunio i wneud gorchymyn diogelu coed [j802]**

(1) Caiff awdurdod cynllunio wneud gorchymyn diogelu coed os yw'n ystyried ei bod yn briodol er budd amwynder gwneud darpariaeth ar gyfer diogelu coed yn ei ardal.

(2) Mae gorchymyn diogelu coed yn orchymyn ar gyfer diogelu'r coed unigol, y grwpiau o goed neu'r ardaloedd o goed a bennir yn y gorchymyn.

(3) Caiff gorchymyn diogelu coed fod yn gymwys i—

(a) coed sydd mewn bodolaeth pan wneir y gorchymyn, a

(b) coed y mae'n ofynnol eu plannu gan amod a osodir ar roi caniatâd cynllunio yn unol ag adran 233(a)[j801], o'r adeg y plannir y coed.

(4) Gweler hefyd—

(a) adran 241(5)[j808], sy'n darparu, os yw rheoliadau'n darparu nad yw gwaharddiad i fod yn gymwys i bethau a wneir gyda chydsyniad, y caiff y rheoliadau hefyd ddarparu bod gorchymyn diogelu coed yn gymwys i goed a blannir yn unol ag amod cydsyniad,

(b) adran 245(5)[j813], sy'n darparu bod gorchymyn diogelu coed yn gymwys i goed amnewid a blannir yn unol ag adran 245[j813].

**235 Pŵer awdurdod cynllunio i wneud gorchymyn diogelu coetir [j803]**

(1) Caiff awdurdod cynllunio wneud gorchymyn diogelu coetir os yw'n ystyried ei bod yn briodol er budd amwynder gwneud darpariaeth ar gyfer diogelu coetiroedd yn ei ardal.

(2) Mae gorchymyn diogelu coetir yn orchymyn ar gyfer diogelu'r coetiroedd a bennir yn y gorchymyn.

(3) Mae gorchymyn diogelu coetir yn gymwys i'r holl goed yn y coetiroedd y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hwy, pa un a oeddent mewn bodolaeth ai peidio pan wnaed y gorchymyn.

(4) Gweler hefyd—

(a) adran 241(5)[j808], sy'n darparu, os yw rheoliadau'n darparu nad yw gwaharddiad i fod yn gymwys i bethau a wneir gyda chydsyniad, y caiff y rheoliadau hefyd ddarparu bod gorchymyn diogelu coetir yn gymwys i goed a blannwyd yn unol ag amod cydsyniad,

(b) adran 246(6)[j814], sy'n darparu bod gorchymyn diogelu coetir yn gymwys i goed amnewid a blannwyd yn unol ag adran 246[j814].

**236 Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion diogelu coed a gorchmynion diogelu coetir [j804]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn diogelu coed os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol er budd amwynder gwneud darpariaeth ar gyfer diogelu unrhyw goed yng Nghymru.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn diogelu coetir os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol er budd amwynder gwneud darpariaeth ar gyfer diogelu unrhyw goetir yng Nghymru.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, amrywio neu ddirymu gorchymyn diogelu coed neu orchymyn diogelu coetir a wnaed gan awdurdod cynllunio os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny er budd amwynder.

(4) Cyn gwneud gorchymyn o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae'r coed neu'r coetiroedd y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hwy yn ei ardal.

*Rheoliadau diogelu coed*

**237 Rheoliadau diogelu coed: cyffredinol [j805]**

(1) Caiff rheoliadau ("rheoliadau diogelu coed") wneud darpariaeth ynghylch gorchmynion diogelu coed a gorchmynion diogelu coetir.

(2) Mae adrannau 238[j805a] i 243[j810] yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr hyn y caniateir, yn benodol, ei gynnwys yn y rheoliadau.

(3) Yn yr adran hon ac yn yr adrannau hynny, mae cyfeiriadau at orchmynion diogelu coed a gorchmynion diogelu coetir yn cynnwys gorchmynion o dan adran 236(3)[j804].

**238 Buddion amwynder: ffactorau i'w hystyried [j805a]**

Caiff rheoliadau diogelu coed bennu ffactorau y mae rhaid eu hystyried wrth benderfynu pa un a yw'n briodol er budd amwynder—

(a) gwneud darpariaeth ar gyfer diogelu coed neu goetiroedd o dan adran 234(1)[j802], 235(1)[j803] neu 236(1)[j804] neu (2)[j804], neu

(b) gwneud gorchymyn o dan adran 236(3)[j804].

**239 Gwneud, amrywio neu ddirymu gorchmynion diogelu coed a gorchmynion diogelu coetir [j806]**

(1) Caiff rheoliadau diogelu coed wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys gorchmynion diogelu coed a gorchmynion diogelu coetir;

(b) y weithdrefn i'w dilyn mewn cysylltiad â gwneud, amrywio neu ddirymu gorchmynion;

(c) pryd y bydd gorchmynion yn cymryd effaith;

(d) cyhoeddi gorchmynion a'u rhoi ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt.

(2) Os yw'r rheoliadau yn darparu i orchmynion beidio â chymryd effaith oni bai eu bod wedi eu cadarnhau, caiff y rheoliadau wneud darpariaeth—

(a) ynghylch pwy sydd i gadarnhau gorchmynion;

(b) ynghylch y weithdrefn ar gyfer cadarnhau gorchmynion;

(c) i orchmynion gymryd effaith dros dro hyd nes y cânt eu cadarnhau.

**240 Gweithgareddau y caniateir eu gwahardd [j807]**

(1) Caiff rheoliadau diogelu coed wahardd unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau a ganlyn, neu'r holl weithgareddau a ganlyn, mewn perthynas â choed y mae gorchymyn diogelu coed neu orchymyn diogelu coetir mewn grym mewn cysylltiad â hwy—

(a) torri coed i lawr;

(b) brigdorri coed;

(c) tocio coed;

(d) dadwreiddio coed;

(e) difrodi coed yn fwriadol neu'n ddi-hid;

(f) dinistrio coed yn fwriadol neu'n ddi-hid;

(g) peri neu ganiatáu cynnal unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau ym mharagraffau (a)[j807] i (f)[j807].

(2) Caiff y rheoliadau osod gwaharddiadau yn ddarostyngedig i eithriadau.

(3) Yn benodol, cânt ddarparu nad yw gwaharddiad i fod yn gymwys i bethau a wneir gyda chydsyniad.

**241 Cydsyniad ar gyfer gweithgareddau gwaharddedig ac apelau [j808]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw rheoliadau diogelu coed yn gosod gwaharddiad nad yw'n gymwys i bethau a wneir gyda chydsyniad.

(2) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth—

(a) ynghylch pwy a gaiff roi cydsyniad;

(b) ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â chael cydsyniad;

(c) ar gyfer rhoi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau.

(3) Mae'r amodau y caiff y rheoliadau ddarparu ar eu cyfer yn cynnwys—

(a) amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cymeradwyaethau gan y person sy'n rhoi'r cydsyniad;

(b) amodau sy'n cyfyngu ar hyd y cydsyniad;

(c) amodau ynghylch plannu coed.

(4) Caiff amodau ynghylch plannu coed gynnwys—

(a) amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol plannu coed;

(b) amodau ynghylch plannu'r coed hynny, gan gynnwys amodau ynghylch sut, ble neu pryd y maent i'w plannu;

(c) amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bethau gael eu gwneud, neu eu gosod, er mwyn gwarchod y coed hynny.

(5) Caiff y rheoliadau ddarparu, o ran y gorchymyn diogelu coed neu'r gorchymyn diogelu coetir y rhoddir cydsyniad mewn perthynas ag ef—

(a) ei fod yn gymwys i goed a blannir yn unol ag amod a grybwyllir yn is-adran (4)(a)[j808];

(b) nad yw'n gymwys i'r coed os yw'r person sy'n gosod yr amod yn pennu nad yw i fod yn gymwys.

(6) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (2)(b)[j808] yn cynnwys darpariaeth ynghylch ceisiadau am gydsyniad, gan gynnwys darpariaeth am—

(a) ffurf a chynnwys cais;

(b) sut y mae rhaid gwneud cais;

(c) dogfennau neu ddeunyddiau eraill sydd i'w cynnwys gyda chais;

(d) y canlyniadau os bydd cais yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau.

(7) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer apelau, ac mewn cysylltiad ag apelau—

(a) yn erbyn gwrthod cydsyniad;

(b) pan fo methiant i benderfynu cais am gydsyniad;

(c) yn erbyn amodau y rhoddir cydsyniad yn ddarostyngedig iddynt;

(d) yn erbyn gwrthod cymeradwyaeth sy'n ofynnol gan amod;

(e) pan fo methiant i benderfynu cais am gymeradwyaeth.

(8) Caiff darpariaeth mewn cysylltiad ag apelau gynnwys—

(a) darpariaeth sy’n gosod terfynau amser (a gaiff gynnwys darpariaeth yn eu galluogi i gael eu hestyn);

(b) darpariaeth ar gyfer apelau pellach;

(c) darpariaeth mewn cysylltiad â’r weithdrefn sydd i’w dilyn ar apêl (neu apêl bellach);

(d) darpariaeth ynghylch pwy sydd i benderfynu apêl (neu apêl bellach);

(e) darpariaeth sy’n gosod dyletswyddau ar berson sy’n penderfynu apêl (neu apêl bellach), neu sy’n rhoi pwerau i’r person hwnnw.

**242 Digollediad [j809]**

(1) Caiff rheoliadau diogelu coed wneud darpariaeth ar gyfer talu digollediad—

(a) pan fo unrhyw gydsyniad sy’n ofynnol o dan y rheoliadau yn cael ei wrthod;

(b) pan roddir cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau;

(c) pan fo unrhyw gymeradwyaeth sy’n ofynnol o dan amod yn cael ei wrthod.

(2) Caiff y rheoliadau ddarparu i hawlogaeth i ddigollediad—

(a) bod yn gymwys dim ond mewn achosion a bennir yn y rheoliadau, neu ac eithrio mewn achosion a bennir yn y rheoliadau;

(b) bod yn ddarostyngedig i amodau, gan gynnwys amodau ynghylch terfynau amser.

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) pwy sydd i dalu digollediad;

(b) pwy sydd â hawlogaeth i ddigollediad;

(c) yr hyn y mae digollediad i’w dalu ar ei gyfer;

(d) swm digollediad neu gyfrifo digollediad.

(4) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i’w dilyn mewn cysylltiad â hawlio digollediad.

(5) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer penderfynu anghydfodau ynghylch digollediad, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad ag atgyfeirio anghydfodau i’r Uwch Dribiwnlys a’u penderfynu gan y Tribiwnlys hwnnw.

**243 Cofrestrau o wybodaeth sy’n ymwneud â gorchmynion diogelu coed a gorchmynion diogelu coetir [j810]**

Caiff rheoliadau diogelu coed wneud darpariaeth ar gyfer cadw cofrestrau sy’n cynnwys gwybodaeth sy’n ymwneud â gorchmynion diogelu coed a gorchmynion diogelu coetir, a mynediad y cyhoedd atynt.

**244 Rheoliadau diogelu coed: cyfyngiad sy’n ymwneud â thrwyddedau cwympo coed o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 [j812]**

Mae rheoliadau diogelu coed yn cael effaith yn ddarostyngedig i adran 15 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 (p. 10) (ceisiadau am drwyddedau i gwympo coed y mae gorchymyn diogelu coed neu orchymyn diogelu coetir yn gymwys iddynt).

*Amnewid coed*

**245 Amnewid coed: gorchmynion diogelu coed [j813]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo unrhyw goeden y mae gorchymyn diogelu coed mewn grym mewn cysylltiad â hi—

(a) yn cael ei symud ymaith, ei dadwreiddio neu ei dinistrio—

(i) gan dorri rheoliadau diogelu coed, neu

(ii) o dan amgylchiadau eraill a bennir yn y rheoliadau, neu

(b) yn marw o dan amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau.

(2) Rhaid i berchennog neu berchnogion ar y tir yr oedd y goeden arno sicrhau bod coeden amnewid o faint a rhywogaeth briodol yn cael ei phlannu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Rhaid plannu'r goeden amnewid yn y man lle'r oedd y goeden wreiddiol neu'n agos i'r man hwnnw.

(4) Nid yw'r gofyniad yn is-adran (2)[j813] yn gymwys pan fo'r awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal, ar gais gan berchennog ar y tir, yn hepgor y gofyniad.

(5) Mae'r gorchymyn diogelu coed perthnasol yn cael effaith mewn perthynas ag unrhyw goeden a blannir yn unol â'r adran hon fel y cafodd effaith mewn perthynas â'r goeden wreiddiol.

(6) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at berchennog ar y tir yn gyfeiriadau at berson sydd o bryd i'w gilydd yn berchennog ar y tir.

(7) Ni chaniateir gorfodi'r gofyniad a osodir gan is-adran (2)[j813] ond drwy hysbysiad amnewid coed o dan adran 252[j819].

**246 Amnewid coed: gorchmynion diogelu coetir [j814]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo unrhyw goed y mae gorchymyn diogelu coetir mewn grym mewn cysylltiad â hwy yn cael eu symud ymaith, eu dadwreiddio neu eu dinistrio gan dorri rheoliadau diogelu coed.

(2) Rhaid i berchennog neu berchnogion ar y tir yr oedd y coed arno sicrhau bod coed amnewid o faint a rhywogaethau priodol yn cael eu plannu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Rhaid i nifer y coed a blannir fod—

(a) yr un fath â nifer y coed a gaiff eu symud ymaith, eu dadwreiddio neu eu dinistrio, neu

(b) pan nad yw'r rhif hwnnw'n hysbys, yr amcangyfrif gorau y gellir ei wneud yn rhesymol o nifer y coed a gaiff eu symud ymaith, eu dadwreiddio neu eu dinistrio.

(4) Rhaid plannu'r coed amnewid—

(a) yn y mannau lle'r oedd y coed gwreiddiol, neu'n agos i'r mannau hynny, neu

(b) mewn man arall a ddynodir gan yr awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal sydd—

(i) ar y tir yr oedd y coed gwreiddiol arno neu'n agos i'r y tir hwnnw, neu

(ii) ar dir arall y cytunir arno rhwng yr awdurdod cynllunio a pherchennog y tir arall hwnnw.

(5) Nid yw'r gofyniad yn is-adran (2)[j814] yn gymwys pan fo'r awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal, ar gais gan berchennog ar y tir, yn hepgor y gofyniad.

(6) Mae'r gorchymyn diogelu coetir perthnasol yn cael effaith mewn perthynas ag unrhyw goed a blannir yn unol â'r adran hon fel y cafodd effaith mewn perthynas â'r coed gwreiddiol.

(7) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at berchennog ar y tir yn gyfeiriadau at berson sydd o bryd i'w gilydd yn berchennog ar y tir.

(8) Ni chaniateir gorfodi'r gofyniad a osodir gan is-adran (2)[j814] ond drwy hysbysiad amnewid coed o dan adran 252[j819].

## PENNOD 2

### COED MEWN ARDALOEDD CADWRAETH

### 247 Diogelu coed mewn ardaloedd cadwraeth [j815]

(1) Ni chaiff person gynnal unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau a ganlyn, na pheri na chaniatáu i unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau gael eu cynnal, mewn perthynas â choeden y mae'r adran hon yn gymwys iddi—

(a) torri'r goeden i lawr;

(b) brigdorri'r goeden;

(c) tocio'r goeden;

(d) dadwreiddio'r goeden;

(e) difrodi'r goeden yn fwriadol neu'n ddi-hid;

(f) dinistrio'r goeden yn fwriadol neu'n ddi-hid.

(2) Mae'r adran hon yn gymwys i goeden mewn ardal gadwraeth nad oes gorchymyn diogelu coed na gorchymyn diogelu coetir mewn grym mewn cysylltiad â hi.

(3) Nid yw is-adran (1)[j815] yn gwahardd gweithgaredd—

(a) i'r graddau y mae'r gweithgaredd wedi ei awdurdodi gan orchymyn cydsyniad seilwaith neu orchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu, neu

(b) os bodlonir amodau 1 i 4.

(4) Amod 1 yw bod hysbysiad o fwriad i gynnal y weithgaredd wedi ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio y mae'r goeden yn ei ardal.

(5) Amod 2 yw bod yr hysbysiad yn cynnwys digon o wybodaeth fel bod modd adnabod y goeden.

(6) Amod 3 yw bod y gweithgaredd yn cael ei gynnal gyda chydsyniad yr awdurdod cynllunio neu ar ôl diwedd 6 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(7) Amod 4 yw bod y gweithgaredd yn cael ei gynnal cyn diwedd 2 flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(8) Caiff rheoliadau bennu achosion pan nad yw is-adran (1)[j815] yn gymwys.

(9) Cânt, yn benodol, ddarparu nad yw'n gymwys i—

(a) gweithgareddau penodedig neu ddisgrifiadau o weithgareddau;

(b) gweithgareddau a gynhelir mewn amgylchiadau penodedig;

(c) gweithgareddau a gynhelir yn ddarostyngedig i amodau penodedig;

(d) coed mewn ardaloedd cadwraeth penodedig;

(e) coed o faint neu o rywogaethau penodedig;

(f) coed sy'n eiddo i bersonau penodedig neu ddisgrifiadau penodedig o bersonau.

(10) Yn y Bennod hon ystyr "ardal gadwraeth" yw ardal a ddynodir o dan adran 158 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol.

**248 Amnewid coed mewn ardaloedd cadwraeth [j816]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo coeden y mae adran 247(1)[j815] yn gymwys iddi—

(a) yn cael ei symud ymaith, ei dadwreiddio neu ei dinistrio—

(i) gan dorri adran 247(1)[j815], neu

(ii) mewn amgylchiadau eraill a bennir mewn rheoliadau, neu

(b) yn marw mewn amgylchiadau a bennir mewn rheoliadau.

(2) Rhaid i berchennog neu berchnogion ar y tir yr oedd y goeden arno sicrhau bod coeden amnewid o faint a rhywogaeth briodol yn cael ei phlannu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Rhaid plannu'r goeden amnewid yn y man lle'r oedd y goeden wreiddiol neu'n agos i'r man hwnnw.

(4) Nid yw'r gofyniad yn is-adran (2)[j816] yn gymwys pan fo'r awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal, ar gais gan berchennog ar y tir, yn hepgor y gofyniad.

(5) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at berchennog ar y tir yn gyfeiriadau at berson sydd o bryd i'w gilydd yn berchennog ar y tir.

(6) Ni chaniateir gorfodi'r gofyniad a osodir gan is-adran (2)[j816] ond drwy hysbysiad amnewid coed o dan adran 252[j819].

**249 Cofrestr o hysbysiadau o fwriad i gynnal gwaith [j817]**

(1) Rhaid i awdurdod cynllunio gadw cofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth, o fath a bennir mewn rheoliadau, sy'n ymwneud â hysbysiadau a ddaw i'w law o dan adran 247(4)[j815] (hysbysiad o fwriad i gynnal gweithgaredd mewn perthynas â choeden mewn ardal gadwraeth).

(2) Rhaid cadw'r gofrestr yn y modd a bennir mewn rheoliadau.

(3) Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'r cyhoedd edrych arni ar bob adeg resymol.

## PENNOD 3

GORFODI

*Gorfodi gwaharddiad ar waith*

### 250 Troseddau torri darpariaethau diogelu coed [j818]

(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person, gan dorri rheoliadau diogelu coed neu adran 247(1)[j815]—

(a) yn torri coeden i lawr neu'n dadwreiddio coeden,

(b) yn fwriadol neu'n ddi-hid yn dinistrio coeden,

(c) yn fwriadol neu'n ddi-hid yn brigdorri, yn tocio neu'n difrodi coeden mewn modd sy'n debygol o'i dinistrio, neu

(d) yn peri neu'n caniatáu cynnal unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau ym mharagraffau (a)[j818] i (c)[j818].

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1)[j818] yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

(3) Wrth benderfynu swm unrhyw ddirwy sydd i'w gosod ar berson a euogfarnwyd o drosedd o dan is-adran (1)[j818], rhaid i'r llys roi sylw yn benodol i unrhyw fudd ariannol sydd wedi cronni, neu yr ymddengys ei fod yn debygol o gronni, i'r person o ganlyniad i'r drosedd.

(4) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn torri rheoliadau diogelu coed neu adran 247(1)[j815] ac eithrio fel y crybwyllir yn is-adran (1)[j818].

(5) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (4)[j818] yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

### 251 Gwaharddeb i atal torri darpariaethau diogelu coed [j825]

(1) Caiff awdurdod cynllunio wneud cais i'r Uchel Lys neu'r llys sirol am waharddeb i atal trosedd wirioneddol neu drosedd ddisgwyliedig o dan adran 250[j818] mewn cysylltiad â thir yn ardal yr awdurdod.

(2) Caiff awdurdod wneud cais pa un a yw wedi arfer, neu'n cynnig arfer, unrhyw un neu ragor o'i bwerau eraill o dan y Rhan hon ai peidio.

(3) Caiff y llys roi gwaharddeb ar unrhyw delerau y mae'n ystyried eu bod yn briodol at ddiben atal y toriad.

(4) Caiff rheolau llys ddarparu i waharddeb gael ei dyroddi yn erbyn person nad yw'n hysbys pwy ydyw.

*Gorfodi'r gofyniad i amnewid coed*

### 252 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad amnewid coed [j819]

(1) Caiff awdurdod cynllunio ddyroddi hysbysiad amnewid coed os yw'n ystyried na chydymffurfiwyd â gofyniad i blannu coed amnewid ar dir yn ei ardal.

(2) Rhaid i hysbysiad amnewid coed—

(a) ei gwneud yn ofynnol i goeden o'r maint a'r rhywogaeth a bennir yn yr hysbysiad, neu i goed o'r meintiau a'r rhywogaethau a bennir yn yr hysbysiad, gael ei phlannu neu eu plannu,

(b) pennu'r dyddiad y mae'r hysbysiad i gymryd effaith, ac

(c) pennu'r cyfnod y mae rhaid plannu'r goeden neu'r coed ynddo.

(3) Ni chaniateir dyroddi hysbysiad amnewid coed ar ôl diwedd 4 blynedd sy'n dechrau â dyddiad y methiant honedig i gydymffurfio.

(4) Pan fo awdurdod cynllunio yn dyroddi hysbysiad amnewid coed, rhaid iddo gyflwyno copi o'r hysbysiad i bob perchennog ar y tir y mae'r gofyniad i blannu coed amnewid yn gymwys mewn perthynas ag ef.

(5) Rhaid cyflwyno pob copi o'r hysbysiad—

(a) cyn diwedd 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad, a

(b) o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y mae i gymryd effaith.

(6) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio gynnwys gyda phob copi o hysbysiad amnewid coed a gyflwynir ganddo o dan yr adran hon nodyn esboniadol sy'n rhoi gwybodaeth a bennir yn y rheoliadau am yr hawl i apelio o dan adran 254[j820].

(7) Yn yr adran hon mae cyfeiriad at ofyniad i blannu coed amnewid yn gyfeiriad at ofyniad i sicrhau bod coeden amnewid neu goed amnewid yn cael ei phlannu neu eu plannu, a osodir gan—

(a) unrhyw un neu ragor o amodau cydsyniad a roddir o dan reoliadau diogelu coed,

(b) adran 245[j813] neu 246[j814] (coed y mae gorchmynion diogelu coed neu orchmynion diogelu coetir yn berthnasol iddynt), neu

(c) adran 248[j816] (coed mewn ardaloedd cadwraeth).

## 253 Amrywio hysbysiad amnewid coed [j819a]

(1) Pan fo awdurdod cynllunio wedi dyroddi hysbysiad amnewid coed, caiff hepgor neu lacio unrhyw un neu ragor o ofynion yr hysbysiad.

(2) Caiff yr awdurdod arfer y pŵer yn is-adran (1)[j819a] pa un a yw'r hysbysiad wedi cael effaith ai peidio.

(3) Mae is-adran (4)[j819a] yn gymwys pan fo'r awdurdod cynllunio wedi cyflwyno copïau o'r hysbysiad o dan adran 252(4)[j819] cyn arfer y pŵer yn is-adran (1)[j819a].

(4) Yn union ar ôl arfer y pŵer yn is-adran (1)[j819a], rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad ei fod wedi gwneud hynny i bob person y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad amnewid coed iddo.

## 254 Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad amnewid coed [j820]

(1) Caiff person y cyflwynir copi o hysbysiad amnewid coed iddo apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Caniateir gwneud apêl ar un neu ragor o'r seiliau a ganlyn—

(a) nad yw'r gofyniad i blannu coed amnewid yn gymwys neu y cydymffurfiwyd â'r gofyniad hwnnw;

(b) mewn achos pan fo'r gofyniad i blannu coed amnewid wedi ei osod gan adran 245[j813], 246[j814] neu 248[j816], y dylid, yn holl amgylchiadau'r achos, hepgor y gofyniad mewn perthynas ag unrhyw goeden neu goed;

(c) bod gofynion yr hysbysiad yn afresymol mewn cysylltiad â—

(i) y cyfnod y mae rhaid plannu'r goeden neu'r coed ynddo, neu

(ii) maint neu rywogaeth y goeden neu feintiau neu rywogaethau'r coed y mae rhaid ei phlannu neu eu plannu;

(d) nad yw budd amwynder yn ei gwneud yn ofynnol plannu coeden neu goed yn unol â'r hysbysiad neu y byddai hynny'n groes i'r arfer o goedwigaeth dda;

(e) bod y man lle mae rhaid plannu'r goeden neu'r coed yn anaddas at y diben hwnnw.

(3) Rhaid i apêl o dan yr adran hon gael ei gwneud drwy—

(a) cyflwyno hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad amnewid coed fel y dyddiad y mae i gymryd effaith,

(b) anfon hysbysiad o apêl at Weinidogion Cymru mewn llythyr wedi ei gyfeirio'n briodol a'i ragdalu a'i bostio atynt ar adeg pan fyddai, yng nghwrs arferol y post, yn cael ei ddanfon atynt cyn y dyddiad hwnnw, neu

(c) anfon hysbysiad o apêl at Weinidogion Cymru drwy ddefnyddio cyfathrebiadau electronig ar adeg pan fyddai, yng nghwrs arferol trosglwyddo, yn cael ei ddanfon atynt cyn y dyddiad hwnnw.

(4) Rhaid i'r hysbysiad o apêl—

(a) dangos y seiliau dros apelio; a

(b) nodi'r ffeithiau y mae'r apêl yn seiliedig arnynt.

(5) Caiff rheoliadau bennu gwybodaeth bellach y mae rhaid ei chyflwyno gyda'r hysbysiad o apêl.

(6) Pan fo apêl wedi ei gwneud—

(a) nid yw'r hysbysiad amnewid coed yn cael effaith hyd nes y penderfynir yr apêl yn derfynol neu y tynnir yr apêl yn ôl;

(b) nid oes gan yr apelydd nac unrhyw berson arall hawlogaeth, mewn unrhyw achos arall a ddechreuir ar ôl i'r apêl gael ei gwneud, i honni na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad amnewid coed i'r apelydd yn unol ag adran 252[j819].

(7) Yn yr adran hon mae i gyfeiriadau at ofyniad i blannu coed amnewid yr ystyr a roddir gan adran 252(7)[j819].

### 255 Penderfynu apêl [j821]

(1) Ar apêl o dan adran 254[j820], caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cywiro unrhyw ddiffyg, unrhyw wall neu unrhyw gamddisgrifiad yn yr hysbysiad amnewid coed y mae'r apêl yn ymwneud ag ef, neu

(b) amrywio unrhyw un neu ragor o'i ofynion,

os ydynt wedi eu bodloni na fydd y cywiriad neu'r amrywiad yn achosi anghyfiawnder i'r apelydd na'r awdurdod cynllunio.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu apêl—

(a) os ydynt yn caniatáu'r apêl, cânt ddiddymu'r hysbysiad amnewid coed;

(b) rhaid iddynt roi unrhyw gyfarwyddydau sy'n angenrheidiol i roi effaith i'w penderfyniad.

(3) Mae Pennod [2] o Ran [14] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried apelau yn erbyn hysbysiadau amnewid coed (gan gynnwys darpariaeth iddynt gael eu penderfynu gan arolygwyr).

**256 Gorchymyn i ganiatáu i goed gael eu plannu [j822]**

(1) Caiff perchennog ar dir wneud cais drwy gŵyn i lys ynadon am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson arall sydd â buddiant yn y tir ganiatáu cydymffurfiaeth â hysbysiad amnewid coed.

(2) Caiff y llys wneud gorchymyn o'r fath os yw wedi ei fodloni bod y person arall yn atal y perchennog rhag cydymffurfio â'r hysbysiad.

**257 Pŵer i fynd ar dir a phlannu coed [j823]**

(1) Os yw'r cyfnod y mae hysbysiad amnewid coed yn ei gwneud yn ofynnol plannu coeden neu goed ynddo, neu gyfnod hwy a ganiateir gan yr awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad, wedi dod i ben ac nad yw unrhyw un neu ragor o'r coed wedi eu plannu, caiff yr awdurdod cynllunio ar unrhyw adeg resymol fynd ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef a phlannu'r coed.

(2) Mae person sydd yn fwriadol yn rhwystro person sy'n arfer pŵer o dan is-adran (1)[j823] yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (2)[j823] yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**258 Adennill costau plannu coed [j824]**

(1) Pan fo awdurdod cynllunio yn arfer y pwerau o dan adran 257(1)[j823] i fynd ar dir a phlannu coed, caiff yr awdurdod adennill oddi wrth berson sydd ar y pryd yn berchennog ar y tir y costau y mae'n mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny.

(2) Os yw awdurdod cynllunio yn hawlio i adennill costau o dan is-adran (1)[j824] oddi wrth berchennog ar dir—

(a) y mae ganddo hawlogaeth i gael crogrent y tir dim ond fel asiant neu ymddiriedolwr ar gyfer person arall (y "penadur"), a

(b) nad oes ganddo, ac nad oedd ganddo ar unrhyw adeg ers y diwrnod pan fynnwyd bod y costau yn cael eu talu, ddigon o arian ar ran y penadur i dalu'r costau yn llawn,

mae atebolrwydd yr asiant neu'r ymddiriedolwr wedi ei gyfyngu i gyfanswm yr arian y mae'r asiant neu'r ymddiriedolwr wedi ei gael ar ran y penadur ers y diwrnod hwnnw.

(3) Os yw is-adran (2)[j824] yn atal awdurdod cynllunio rhag adennill y cyfan o'i gostau oddi wrth asiant neu ymddiriedolwr, caiff eu hadennill oddi wrth y penadur, neu'n rhannol oddi wrth y penadur ac yn rhannol oddi wrth yr asiant neu'r ymddiriedolwr.

(4) Pan fo copi o hysbysiad amnewid coed wedi ei gyflwyno mae—

(a) costau y mae perchennog ar y tir yn mynd iddynt at ddiben cydymffurfio â'r hysbysiad, a

(b) symiau y mae perchennog ar y tir yn eu talu o dan is-adran (1)[j824] mewn cysylltiad â chostau y mae'r awdurdod cynllunio yn mynd iddynt wrth blannu coed,

i'w trin fel ped aed iddynt neu pe baent wedi eu talu at ddefnydd ac ar gais unrhyw berson, ac eithrio perchennog ar y tir, sy'n gyfrifol am symud ymaith, dadwreiddio neu ddinistrio'r goeden neu'r coed gwreiddiol.

(5) Mae'r costau y gellir eu hadennill gan awdurdod cynllunio o dan is-adran (1)[j824], hyd nes iddynt gael eu hadenill, yn bridiant ar y tir y mae'r hysbysiad amnewid coed yn ymwneud ag ef.

(6) Mae'r pridiant yn cymryd effaith fel pridiant tir lleol ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r awdurdod yn cwblhau'r gwaith o blannu coed yn unol â gofyniad yr hysbysiad.

(7) Mae is-adran (8)[j824] yn gymwys pan—

(a) bo awdurdod cynllunio yn symud ymaith ddeunyddiau o dir yng nghwrs plannu coed sy'n ofynnol eu plannu gan hysbysiad amnewid coed, a

(b) na fo perchennog y deunyddiau, o fewn 3 diwrnod ar ôl y diwrnod y cânt eu symud ymaith, yn hawlio'r deunyddiau ac yn mynd â hwy i ffwrdd.

(8) O ran yr awdurdod cynllunio—

(a) caiff werthu'r deunyddiau, a

(b) os yw'n gwneud hynny, rhaid iddo dalu'r enillion i'r person a oedd yn berchen ar y deunyddiau, ar ôl didynnu unrhyw gostau y gall yr awdurdod eu hadennill oddi wrth y person.

*Pwerau mynediad*

**259 Pwerau i fynd ar dir heb warant [j826]**

(1) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan awdurdod cynllunio fynd ar unrhyw dir—

(a) er mwyn cynnal arolwg ohono mewn cysylltiad â gwneud gorchymyn diogelu coed neu orchymyn diogelu coetir mewn perthynas â'r tir;

(b) er mwyn asesu a yw trosedd o dan adran 250[j818] wedi cael ei chyflawni ar y tir;

(c) er mwyn penderfynu a ddylai hysbysiad amnewid coed gael ei ddyroddi mewn perthynas â'r tir;

(d) mewn cysylltiad ag arfer unrhyw swyddogaeth arall a roddir i'r awdurdod gan y Rhan hon neu odani.

(2) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru fynd ar unrhyw dir—

(a) er mwyn cynnal arolwg ohono mewn cysylltiad â gwneud, amrywio neu ddirymu gorchymyn diogelu coed neu orchymyn diogelu coetir mewn perthynas â'r tir;

(b) mewn cysylltiad ag arfer unrhyw swyddogaeth arall a roddir i Weinidogion Cymru gan neu o dan y Rhan hon.

(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru awdurdodi person i fynd ar dir at ddiben a grybwyllir yn is-adran (2)(a)[j826] heb ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal.

(4) Os yw rheoliadau diogelu coed yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu digollediad yn unol ag adran 242[j809], caiff swyddog o Swyddfa Brisio Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi fynd ar unrhyw dir i gynnal arolwg ohono, neu i amcangyfrif ei werth, mewn cysylltiad â hawliad am ddigolledìad.

(5) Caniateir arfer pŵer i fynd ar dir o dan yr adran hon dim ond—

(a) ar adeg resymol;

(b) os oes sail resymol dros fynd ar y tir at y diben o dan sylw.

(6) Ni chaiff person sydd wedi ei awdurdodi i fynd ar dir o dan yr adran hon fynnu mynediad fel hawl—

(a) yn rhinwedd is-adran (1)(a)[j826] i (c)[j826] neu (2)(a)[j826] i adeilad a ddefnyddir fel annedd, neu

(b) yn rhinwedd is-adran (1)(d)[j826], (2)(b)[j826] neu (4)[j826] i unrhyw dir sydd wedi ei feddiannu,

oni bai bod 24 o oriau o rybudd o'r mynediad bwriadedig wedi ei roi i bob meddiannydd ar yr adeilad neu'r tir.

(7) Os yw person wedi ei awdurdodi i fynd ar dir o dan yr adran hon—

(a) rhaid iddo, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gan neu ar ran unrhyw berchennog neu unrhyw feddiannydd ar y tir, ddangos tystiolaeth o awdurdodiad y person a datgan diben mynd ar y tir cyn mynd arno,

(b) caiff fynd ag unrhyw bersonau eraill sy'n angenrheidiol ar y tir,

(c) caiff gymryd samplau o unrhyw goeden neu bridd, a

(d) rhaid iddo, os yw'n ymadael â'r tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol, ei adael wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aeth y person arno.

**260 Gwarant i fynd ar dir [j827]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw ynad heddwch wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) bod sail resymol dros fynd ar dir at ddiben a grybwyllir yn adran 259(1)(a)[j826] i (c)[j826] neu (2)(a)[j826], a

(b) bod—

(i) mynediad i'r tir wedi ei wrthod neu fod gwrthodiad yn cael ei ddisgwyl yn rhesymol, neu

(ii) yr achos yn un brys.

(2) Caiff yr ynad heddwch ddyroddi gwarant sy'n rhoi pŵer i fynd ar y tir i unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan awdurdod cynllunio neu (yn ôl y digwydd) Weinidogion Cymru.

(3) At ddibenion is-adran (1)(b)(i)[j827] mae mynediad i dir i'w drin fel pe bai wedi ei wrthod os na cheir ateb i gais am fynediad o fewn cyfnod rhesymol.

(4) Mae gwarant o dan yr adran hon yn awdurdodi mynediad i dir—

(a) ar un achlysur yn unig, a

(b) ar adeg resymol yn unig, oni bai bod yr achos yn un brys.

(5) Os yw person wedi ei awdurdodi i fynd ar dir o dan yr adran hon—

(a) rhaid iddo, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gan neu ar ran unrhyw berchennog neu unrhyw feddiannydd ar y tir, ddangos tystiolaeth o awdurdodiad y person a datgan diben mynd ar y tir cyn mynd arno,

(b) caiff fynd ag unrhyw bersonau eraill sy'n angenrheidiol ar y tir,

(c) caiff gymryd samplau o unrhyw goeden neu bridd, a

(d) rhaid iddo, os yw'n ymadael â'r tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol, ei adael wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aeth y person arno.

(6) Mae gwarant o dan yr adran hon yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 1 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y'i dyroddir.

**261 Darpariaethau atodol ynghylch pwerau mynediad [j828]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo gan berson bŵer i fynd ar dir a roddir gan adran 259[j826] neu drwy warant o dan adran 260[j827].

(2) Mae person sy'n rhwystro'n fwriadol berson sy'n arfer y pŵer mynediad yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (2)[j828] yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(4) Os achosir difrod i dir neu eiddo arall wrth arfer y pŵer mynediad, caiff person sy'n dioddef y difrod adennill digolllediad oddi wrth yr awdurdod cynllunio a awdurdododd y mynediad neu (yn ôl y digwydd) Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid gwneud hawliad am ddigollediad o dan is-adran (4)[j828] yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod yr achosir y difrod (neu os achosir y difrod dros fwy nag un diwrnod, y diwrnod olaf y'i hachosir).

## RHAN 10

## CAFFAEL A CHYFEDDU TIR AT DDIBENION CYNLLUNIO ETC.

*Pwerau awdurdod lleol perthnasol i gaffael tir at ddibenion cynllunio*

**262 Caffael tir drwy gytundeb at ddibenion cynllunio [j651]**

(1) Caiff awdurdod lleol perthnasol gaffael unrhyw dir drwy gytundeb os yw'r amod cyntaf neu'r ail amod wedi ei fodloni.

(2) Yr amod cyntaf yw bod yr awdurdod yn ystyried—

(a) y bydd y caffaeliad yn hwyluso datblygiad neu welliant ar y tir, neu mewn perthynas â'r tir, a

(b) bod y datblygiad neu'r gwelliant yn debygol o gyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol ardal yr awdurdod.

(3) Yr ail amod yw bod y tir yn ofynnol at ddiben y mae'n angenrheidiol ei gyflawni er budd cynllunio'n briodol ardal yr awdurdod.

(4) Pan fo gan awdurdod lleol perthnasol y pŵer i gaffael tir o dan is-adran (1)[j651] (y "prif dir"), mae'r tir y caiff ei gaffael drwy gytundeb yn cynnwys—

(a) unrhyw dir sy'n cyffinio â'r prif dir sy'n ofynnol ar gyfer cynnal gwaith i hwyluso datblygiad y prif dir neu ddefnydd ohono;

(b) os yw'r prif dir yn ffurfio rhan o dir comin, man agored neu randir, unrhyw dir sy'n ofynnol ar gyfer ei roi yn gyfnewid am y prif dir.

(5) Nid oes gwahaniaeth pwy y mae'r awdurdod lleol perthnasol yn cynnig y dylai gynnal unrhyw weithgaredd, neu gyflawni unrhyw ddiben, a grybwyllir yn is-adran (2)[j651], (3)[j651] neu (4)(a)[j651] (ac yn benodol nid oes angen iddo gynnig cynnal y gweithgaredd na chyflawni'r diben ei hun).

(6) Pan fo gan awdurdod lleol perthnasol y pŵer i gaffael tir o dan is-adran (1)[j651], mae'r tir y caiff ei gaffael drwy gytundeb yn cynnwys tir sy'n ofynnol ar gyfer ei roi yn gyfnewid am dir a gyfeddir o dan adran 264[j653] (cyfeddu tir sy'n ffurfio rhan o dir comin neu randir).

(7) Mae Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 (p. 56), ac eithrio adrannau 4 i 8, 10 ac 31, yn gymwys (i'r graddau y bo'n berthnasol) i gaffael tir drwy gytundeb o dan yr adran hon.

(8) Yn y Rhan hon, ystyr "awdurdod lleol perthnasol" yw—

(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(b) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(c) bwrdd cydgynllunio.

**263 Caffael tir yn orfodol at ddibenion cynllunio [j652]**

(1) Caiff awdurdod lleol perthnasol gaffael tir yn ei ardal yn orfodol os—

(a) oes ganddo'r pŵer i gaffael y tir drwy gytundeb o dan adran 262[j651], a

(b) yw Gweinidogion Cymru yn ei awdurdodi i gaffael y tir yn orfodol.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru awdurdodi caffael tir o dan yr adran hon oni bai eu bod wedi eu bodloni bod achos cymhellol er budd y cyhoedd i'r tir gael ei gaffael yn orfodol.

(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru awdurdodi caffael buddiant yn nhir y Goron o dan yr adran hon oni bai—

(a) bod y buddiant yn cael ei ddal ac eithrio gan neu ar ran y Goron, a

(b) bod awdurdod priodol y Goron yn cydsynio i'r caffaeliad.

(4) Pan ganiateir awdurdodi bwrdd cydgynllunio i gaffael tir o dan yr adran hon, mae adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (p. 57) (sy'n darparu y caniateir awdurdodi awdurdod lleol i gaffael hawliau newydd dros y tir) yn gymwys i'r bwrdd fel pe bai'n awdurdod lleol y mae'r adran honno'n gymwys iddo.

(5) Ar gyfer cymhwyso'r adran honno i awdurdod Parc Cenedlaethol, gweler paragraff 1(2) o Atodlen 8 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25).

(6) Pan fo gan Weinidogion Cymru'r pŵer i awdurdodi awdurdod lleol perthnasol i gaffael tir o dan yr adran hon, cânt yn hytrach na hynny awdurdodi awdurdod lleol arall i gaffael y tir.

(7) Cyn gwneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob awdurdod lleol perthnasol y mae'r tir yn ei ardal.

(8) Mae Deddf Caffael Tir 1981 (p. 67) yn gymwys i gaffael tir o dan yr adran hon.

(9) Pan gyflwynir gorchymyn prynu gorfodol sy'n awdurdodi caffael tir o dan yr adran hon i Weinidogion Cymru yn unol â Rhan 2 o'r Ddeddf honno, cânt anwybyddu gwrthwynebiad i'r gorchymyn os ydynt yn ystyried ei fod yn gyfystyr o ran sylwedd â gwrthwynebiad i bolisi yn y cynllun datblygu sy'n ymwneud yn benodol â datblygiad y tir hwnnw neu unrhyw dir arall neu ddefnydd o'r tir hwnnw neu unrhyw dir arall.

*Pŵer awdurdod lleol i gyfeddu tir sy'n ffurfio rhan o dir comin neu randir*

**264 Cyfeddu tir sy'n ffurfio rhan o dir comin neu randir at ddiben arall [j653]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn dal tir sy'n dir comin neu'n rhandir neu sy'n ffurfio rhan o dir comin neu randir (gan gynnwys pan fo'r tir penodol yn cael ei reoleiddio'n benodol gan ddeddfiad).

(2) Caiff yr awdurdod, os yw wedi ei awdurdodi gan orchymyn a wnaed gan yr awdurdod ac a gadarnhawyd gan Weinidogion Cymru, gyfeddu'r tir at unrhyw ddiben y caniateir awdurdodi'r awdurdod i gaffael tir ato o dan unrhyw ddeddfiad.

(3) Mae adran 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p. 67) (darpariaeth arbennig ynghylch gorchmynion prynu gorfodol sy'n ymwneud â thir sy'n ffurfio rhan o dir comin, man agored neu randir) yn gymwys i orchymyn o dan yr adran hon fel y mae'n gymwys i orchymyn prynu gorfodol o dan y Ddeddf honno.

(4) Pan gaffaelwyd tir a gyfeddir o dan yr adran hon o dan ddeddfiad sy'n ymgorffori'r Deddfau Cymalau Tiroedd, mae unrhyw waith a gynhelir ar y tir ar ôl y cyfeddiant i'w drin, at ddibenion adran 68 o Ddeddf Cydgrynhoi Cymalau Tiroedd 1845 (p. 18) ac adran 10 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 (p. 56), fel pe bai wedi ei awdurdodi gan y deddfiad y caffaelwyd y tir odano.

(5) Pan gyfeddir tir gan awdurdod lleol o dan yr adran hon—

(a) mewn achos sy'n dod o fewn is-adran (6)[j653], rhaid i'r awdurdod wneud unrhyw addasiad yn ei gyfrifon a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru;

(b) mewn achos nad yw'n dod o fewn yr is-adran honno, rhaid i'r awdurdod wneud unrhyw addasiad yn ei gyfrifon sy'n ofynnol gan adran 24(1) o Ddeddf 1959.

(6) Mae cyfeddu tir yn dod o fewn yr is-adran hon os—

(a) nad yw'r awdurdod lleol sy'n cyfeddu'r tir yn awdurdod y mae Rhan 2 o Ddeddf 1959 yn gymwys iddo,

(b) yn union cyn y cyfeddiant, oedd y tir yn cael ei ddal at ddibenion swyddogaeth a gynorthwyir gan grant, neu

(c) caiff y tir ei gyfeddu at ddibenion swyddogaeth a gynorthwyir gan grant.

(7) Yn yr adran hon—

mae i "awdurdod y mae Rhan 2 o Ddeddf 1959 yn gymwys iddo" yr ystyr a roddir i "authority to whom Part 2 of the 1959 Act applies" yn adran 22(4) o Ddeddf 1959;

ystyr "Deddf 1959" ("*the 1959 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1959 (p. 53);

ystyr "y Deddfau Cymalau Tiroedd" ("*the Lands Clauses Acts*") yw Deddf Cydgrynhoi Cymalau Tiroedd 1845, Deddf Diwygio Deddfau Cydgrynhoi Cymalau Tiroedd 1860 (p. 106), ac unrhyw Ddeddfau sy'n diwygio'r Deddfau hynny;

mae i "swyddogaeth a gynorthwyir gan grant" yr ystyr a roddir i "grant-aided function" yn adran 57(1) o Ddeddf 1959.

*Cyfeddu, gwaredu a datblygu tir a ddelir gan awdurdod lleol at ddibenion cynllunio*

**265 Tir y mae adrannau 266 i 268 yn gymwys iddo [j654]**

(1) Mae adrannau 266[j655] i 268[j657] yn gymwys i dir y mae awdurdod lleol—

(a) wedi ei gaffael neu ei gyfeddu at ddibenion cynllunio, a

(b) yn ei ddal at y dibenion y'i caffaelwyd neu y'i cyfeddwyd atynt.

(2) Nid yw adrannau 122 a 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol (cyfeddu a gwaredu tir gan gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol) yn gymwys i dir a grybwyllir yn is-adran (1)[j654].

**266 Cyfeddu tir a ddelir at ddibenion cynllunio [j655]**

(1) Caiff awdurdod lleol gyfeddu tir y mae'r adran hon yn gymwys iddo at unrhyw ddiben y mae'r awdurdod wedi ei awdurdodi mewn unrhyw rinwedd i gaffael tir ato, neu y caniateir iddo gael ei awdurdodi mewn unrhyw rinwedd i gaffael tir ato, gan neu o dan unrhyw ddeddfiad nad yw wedi ei gynnwys yn y Rhan hon nac ym Mhennod 5 o Ran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (caffael adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig).

(2) Ond ni chaiff awdurdod lleol gyfeddu tir o dan yr adran hon heb gydsyniad Gweinidogion Cymru os—

(a) yw'r tir yn dir comin neu'n ffurfio rhan o dir comin, neu os oedd yn dir comin yn flaenorol neu'n ffurfio rhan o dir comin yn flaenorol, a

(b) yw'r awdurdod yn dal neu'n rheoli'r tir yn unol â Deddf leol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru roi cydsyniad—

(a) mewn perthynas â chyfeddiant penodol neu gyfeddiannau o ddisgrifiad penodol;

(b) naill ai'n ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau.

(4) Cyn cyfeddu tir sy'n fan agored neu sy'n ffurfio rhan o fan agored o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol—

(a) cyhoeddi hysbysiad o'i fwriad i wneud hynny am o leiaf ddwy wythnos olynol mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal, a

(b) ystyried unrhyw wrthwynebiadau i'r cyfeddiant arfaethedig a wneir iddo.

(5) Mae is-adrannau (4)[j653] i (6)[j653] o adran 264[j653] yn gymwys mewn perthynas â chyfeddu tir o dan yr adran hon fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chyfeddiant o dan yr adran honno.

**267 Gwaredu tir a ddelir at ddibenion cynllunio [j656]**

(1) Caiff awdurdod lleol waredu tir y mae'r adran hon yn gymwys iddo i unrhyw berson, mewn unrhyw ffordd ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae'n ystyried eu bod yn briodol er mwyn sicrhau—

(a) y defnydd gorau o'r tir hwnnw neu unrhyw dir arall, ac o—

(i) unrhyw adeiladau sydd wedi eu codi, neu sydd i'w codi, neu

(ii) unrhyw waith sydd wedi ei adeiladu neu ei gynnal, neu sydd i'w adeiladu neu ei gynnal,

ar y tir hwnnw neu ar unrhyw dir arall (pa un ai gan yr awdurdod neu gan unrhyw berson arall), neu

(b) y codir unrhyw adeiladau, neu yr adeiladir unrhyw waith neu y cynhelir unrhyw waith, pa un ai ar y tir hwnnw neu ar unrhyw dir arall, y mae'r awdurdod yn ystyried bod eu hangen neu ei angen ar gyfer cynllunio'n briodol ei ardal.

(2) Ond os yw'r amod cyntaf neu'r ail amod wedi ei fodloni, ni chaiff awdurdod lleol waredu tir o dan yr adran hon heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

(3) Yr amod cyntaf yw—

(a) bod y tir yn dir comin neu'n ffurfio rhan o dir comin, neu yr oedd yn dir comin yn flaenorol neu'n ffurfio rhan o dir comin yn flaenorol, a

(b) bod yr awdurdod yn dal neu'n rheoli'r tir yn unol â Deddf leol.

(4) Yr ail amod yw—

(a) bod y gwarediad i fod am lai na'r gydnabyddiaeth orau y gellir yn rhesymol ei chael, a

(b) nad yw'r gwarediad—

(i) ar ffurf rhoi les am gyfnod o 7 mlynedd neu lai, neu

(ii) ar ffurf aseinio les a roddwyd am gyfnod sydd â 7 mlynedd neu lai yn weddill ar ddyddiad yr aseiniad.

(5) Cyn gwaredu tir sy'n fan agored neu sy'n ffurfio rhan o fan agored o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol—

(a) cyhoeddi hysbysiad o'i fwriad i wneud hynny am o leiaf ddwy wythnos olynol mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal, a

(b) ystyried unrhyw wrthwynebiadau i'r gwarediad arfaethedig a wneir iddo.

(6) Pan fo tir wedi cael ei gaffael neu ei gyfeddu gan awdurdod lleol at ddiben a grybwyllir yn adran 262(2)[j651] neu (4)[j651], rhaid i'r awdurdod a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â rhoi cydsyniad), i'r graddau y bo'n ymarferol, arfer eu swyddogaethau o dan yr adran hon er mwyn sicrhau cyfle i feddianwyr perthnasol ar y tir gael llety addas arno.

(7) Yn is-adran (6)[j656]—

(a) ystyr "meddiannydd perthnasol" yw person—

(i) a oedd yn byw neu'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill ar y tir,

(ii) sy'n dymuno cael llety ar y tir, a

(iii) sy'n fodlon cydymffurfio ag unrhyw ofynion gan yr awdurdod sy'n ymwneud â datblygiad y tir a defnydd ohono;

(b) ystyr "llety addas", mewn perthynas â pherson sy'n feddiannydd perthnasol, yw llety—

(i) sy'n addas i ofynion rhesymol y person, a

(ii) a ddarperir ar delerau y daethpwyd iddynt gan ystyried am ba bris y caffaelwyd unrhyw ran o'r tir oddi wrth y person.

**268 Datblygiad tir a ddelir at ddibenion cynllunio a defnydd ohono [j657]**

(1) Caiff awdurdod lleol—

(a) codi adeiladau ac adeiladu neu gynnal gwaith ar dir y mae'r adran hon yn gymwys iddo;

(b) atgyweirio, cynnal a chadw ac yswirio unrhyw adeiladau neu unrhyw waith ar dir y mae'r adran hon yn gymwys iddo ac yn gyffredinol ymdrin â'r tir yng nghwrs priodol rheoli.

(2) Nid yw'r adran hon—

(a) yn rhoi i awdurdod lleol y pŵer i godi adeilad, neu i adeiladu neu gynnal unrhyw waith, os rhoddir pŵer i wneud hynny, neu os gellid ei roi, i'r awdurdod lleol neu unrhyw berson arall gan neu o dan unrhyw ddeddfiad heblaw un a grybwyllir yn is-adran (3);

(b) yn awdurdodi unrhyw weithred neu anweithred ar ran awdurdod lleol y gallai unrhyw berson ddwyn achos llys yn ei gylch.

(3) Y deddfiadau yw—

(a) y Rhan hon;

(b) adran 2 neu 5 o Ddeddf Awdurdodau Lleol (Tir) 1963 (p. 29) (pwerau awdurdodau lleol i ddatblygu tir a darparu parcio oddi ar y stryd);

(c) adran 14(1) neu (4) neu 17(3) o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982 (p. 52) (pwerau Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol i gaffael a datblygu tir mewn ardaloedd a gynorthwyir);

(d) adran 143 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (pwerau awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i wneud trefniadau ar gyfer rheoli, defnyddio neu waredu adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig etc.).

*Dileu cyfyngiadau ar gael meddiant o anheddau*

**269 Pŵer awdurdod lleol i gael meddiant o anheddau a osodir o dan denantiaethau penodol [j667]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i annedd y mae awdurdod lleol—

(a) wedi ei chaffael neu ei chyfeddu at ddibenion cynllunio, a

(b) yn ei dal at y dibenion y'i caffaelwyd neu y'i cyfeddwyd atynt.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn ardystio bod meddiant o'r annedd yn ofynnol ar unwaith at y dibenion hynny, nid oes dim yn Neddf Rhenti 1977 (p. 42) na Rhan 1 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50) sy'n atal yr awdurdod rhag cael meddiant o'r annedd.

*Cyd-gorff i ddal tir a gaffaelir gan awdurdod lleol at ddibenion cynllunio*

**270 Pŵer Gweinidogion Cymru i sefydlu cyd-gorff i ddal tir a gaffaelir at ddibenion cynllunio [j668]**

(1) Caiff rheoliadau—

(a) sefydlu cyd-gorff sydd wedi ei gyfansoddi o gynrychiolwyr o awdurdod lleol perthnasol ac o unrhyw awdurdod lleol arall, a

(b) trosglwyddo i'r cyd-gorff unrhyw dir a gaffaelir at ddibenion cynllunio gan yr awdurdod lleol perthnasol.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon oni bai eu bod wedi ymgynghori â'r awdurdodau lleol o dan sylw.

(3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad a swyddogaethau'r cyd-gorff, a gaiff gynnwys darpariaeth—

(a) iddo fod yn gorff corfforedig;

(b) iddo fod ag unrhyw un neu ragor o'r pwerau a fyddai gan yr awdurdod lleol perthnasol o dan y Rhan hon neu Bennod 5 o Ran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (caffael adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig) mewn perthynas â'r tir a drosglwyddir iddo;

(c) ar gyfer penderfynu sut y mae ei gostau i'w talu.

*Caffael a gwaredu tir gan Weinidogion Cymru*

**271 Caffael tir yn orfodol gan Weinidogion Cymru [j658]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gaffael yn orfodol unrhyw dir yng Nghymru—

(a) sy'n ofynnol ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus, neu

(b) y cynigir ei ddefnyddio nid yn unig ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus ond hefyd—

(i) at ddibenion eraill er budd cynllunio'n briodol unrhyw ardal yng Nghymru, neu

(ii) i sicrhau datblygiad gorau neu fwyaf economaidd y tir neu'r defnydd gorau neu fwyaf economaidd ohono at ddibenion eraill.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru gaffael buddiant yn nhir y Goron o dan is-adran (1)[j658] oni bai—

(a) bod y buddiant yn cael ei ddal ac eithrio gan neu ar ran y Goron, a

(b) bod awdurdod priodol y Goron yn cydsynio i'r caffaeliad.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi caffael neu yn cynnig caffael unrhyw dir o dan is-adran (1)[j658] ("y prif dir"), cânt gaffael yn orfodol dir arall y maent yn ystyried y dylid ei gaffael ynghyd â'r prif dir—

(a) er budd cynllunio'n briodol yr ardal o dan sylw,

(b) i sicrhau y gellir defnyddio, neu ddatblygu a defnyddio, y prif dir (ynghyd â'r tir arall hwnnw) yn y ffordd y maent yn ystyried ei bod orau neu fwyaf economaidd, neu

(c) pan fo'r prif dir, neu unrhyw dir y mae Gweinidogion Cymru wedi ei gaffael neu'n cynnig ei gaffael o dan baragraff (a)[j658] neu (b)[j658], yn ffurfio rhan o dir comin, man agored neu randir, at ddiben cael ei roi yn gyfnewid am y tir hwnnw.

(4) Mae'r pŵer i gaffael tir yn orfodol o dan yr adran hon yn cynnwys y pŵer i gaffael hawliau newydd dros dir, oni bai bod y tir yn ffurfio rhan o dir comin, man agored neu randir.

(5) Mae Deddf Caffael Tir 1981 (p. 67) yn gymwys i gaffaeliad gorfodol o dan yr adran hon.

(6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn unol ag Atodlen 1 i'r Ddeddf honno yn llunio drafft o orchymyn prynu gorfodol sy'n awdurdodi caffael tir o dan yr adran hon, cânt anwybyddu gwrthwynebiad i'r gorchymyn drafft os ydynt yn ystyried ei fod yn gyfystyr o ran sylwedd â gwrthwynebiad i bolisi yn y cynllun datblygu sy'n ymwneud yn benodol â datblygiad y tir hwnnw neu unrhyw dir arall neu ddefnydd o'r tir hwnnw neu unrhyw dir arall.

(7) Yn Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 (p. 56) fel y mae'n gymwys i gaffael tir o dan yr adran hon, mae cyfeiriadau at gyflawni'r gwaith yn cynnwys codi adeiladau ar y tir, neu adeiladu neu gynnal gwaith arno, ar ran Gweinidogion Cymru at y dibenion y caffaelwyd y tir atynt.

(8) Yn is-adran (1), mae "y gwasanaeth cyhoeddus" yn cynnwys gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig gan—

(a) llywodraeth y Deyrnas Unedig;

(b) sefydliad rhyngwladol (pa un a yw'r Deyrnas Unedig yn aelod ai peidio neu a yw i ddod yn aelod ai peidio);

(c) swyddfa neu asiantaeth a sefydlwyd gan neu at ddibenion sefydliad rhyngwladol, neu a sefydlwyd o dan gytundeb rhyngwladol (pa un a yw'r Deyrnas Unedig yn barti iddo ai peidio neu a yw i ddod yn barti iddo ai peidio);

(d) Gwladwriaeth heblaw'r Deyrnas Unedig.

**272 Gwaredu tir a gaffaelwyd o dan adran 271 [j659]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru waredu tir a ddelir ganddynt a gaffaelwyd o dan adran 271[j658].

(2) Cânt, yn benodol, waredu'r tir er mwyn sicrhau defnydd ohono at unrhyw ddiben y maent yn ei ddal ato.

(3) Cânt waredu'r tir i unrhyw berson, mewn unrhyw ffordd, ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau, y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

*Dod â hawliau penodol ar gaffael tir yn orfodol i ben*

**273 Dod â hawliau sy'n ymwneud â thir a gaffaelwyd yn orfodol o dan y Rhan hon i ben [j660]**

(1) Pan gwblheir caffaeliad gorfodol o dir o dan adran 263[j652] neu 271[j658]—

(a) diddymir yr holl hawliau tramwy preifat dros y tir,

(b) diddymir yr holl hawliau i osod cyfarpar, ei gadw neu ei gynnal a'i gadw ar y tir, ac

(c) mae gan yr awdurdod caffael hawlogaeth i unrhyw gyfarpar ar y tir.

(2) Nid yw is-adran (1)[j660] yn gymwys—

(a) i unrhyw hawl y mae gan ymgymerwr statudol hawlogaeth iddi, nac i gyfarpar sy'n perthyn i ymgymerwr statudol, at ddiben cynnal ei ymgymeriad (ond gweler adrannau [j711] a [j712]),

(b) i unrhyw hawl a roddir gan y cod cyfathrebiadau electronig neu yn unol â'r cod hwnnw i weithredwr rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig, nac i unrhyw gyfarpar cyfathrebiadau electronig sydd wedi ei osod at ddibenion rhwydwaith o'r fath (ond gweler adrannau [j711] a [j712]), nac

(c) i unrhyw hawl nac i unrhyw gyfarpar a bennir gan yr awdurdod caffael mewn cyfarwyddyd a roddir cyn cwblhau'r caffaeliad.

(3) Mae is-adran (1)[j660] yn ddarostyngedig i unrhyw gytundeb (pa un a yw wedi ei wneud cyn neu ar ôl cwblhau'r caffaeliad) rhwng yr awdurdod caffael a'r person sydd â hawlogaeth i'r hawl neu y mae'r cyfarpar yn perthyn iddo.

(4) Mae gan unrhyw berson sy'n dioddef colled drwy ddiddymu hawl neu drosglwyddo cyfarpar o dan yr adran hon hawlogaeth i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod caffael.

(5) Mae digollediad o dan yr adran hon i'w benderfynu yn unol â Deddf Digollediad Tir 1961 (p. 33).

*Dileu cyfyngiadau ar ddefnyddio mannau agored, claddfeydd, etc.*

**274 Ystyr "caffaeliad perthnasol" a "cyfeddiant perthnasol" [j661]**

(1) At ddibenion adrannau 275[j662] i 277[j664], mae "caffaeliad perthnasol" yn digwydd pan fo—

(a) awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru—

(i) yn caffael tir o dan y Rhan hon neu Ran 11 neu o dan Bennod 5 o Ran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol, neu

(ii) yn caffael tir yng Nghymru yn orfodol o dan unrhyw ddeddfiad arall;

(b) awdurdod lleol yn Lloegr neu adran o'r llywodraeth heblaw Gweinidogion Cymru yn caffael tir yng Nghymru yn orfodol o dan unrhyw ddeddfiad heblaw Rhan 9 neu 10 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8) neu Bennod 5 o Ran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p. 9);

(c) ymgymerwr statudol yn caffael tir yng Nghymru yn orfodol o dan unrhyw ddeddfiad.

(2) At ddibenion adrannau 275[j662] i 277[j664], mae "cyfeddiant perthnasol" yn digwydd pan fo tir yn cael ei gyfeddu gan awdurdod lleol at ddibenion cynllunio.

(3) Ar gyfer cymhwyso adrannau 275[j662] i 277[j664] i dir penodol arall, gweler—

(a) adran 54 o Ddeddf Hedfan Sifil 1982 (p. 16) (tir a gaffaelir drwy gytundeb gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yr Awdurdod Hedfan Sifil neu drwyddedai traffig awyr);

(b) adran 59(6) o Ddeddf Meysydd Awyr 1986 (p. 31) (tir a gaffaelir drwy gytundeb gan weithredwr maes awyr perthnasol);

(c) paragraff 3 o Atodlen 4 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21) (tir a gaffaelir yn orfodol gan weithredwr cod cyfathrebiadau electronig);

(d) paragraff 86A o Atodlen 4 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43) (tir a ddelir gan ymddiriedolaeth sefydledig y GIG);

(e) adran 159(7) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42) (tir a ddelir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y gwasanaeth iechyd) a pharagraff 32 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno (tir a ddelir gan ymddiriedolaeth y GIG);

(f) adran 211(8) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (p. 41) (tir yng Nghymru a ddelir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion y gwasanaeth iechyd yn Lloegr) a pharagraff 32 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno (tir yng Nghymru a ddelir gan ymddiriedolaeth y GIG yn Lloegr).

(4) Yn is-adran (1)[j661], nid yw "ymgymerwr statudol" ond yn cynnwys trwyddedai trydan os oes gan y trwyddedai hawlogaeth i arfer pŵer a roddir gan Atodlen 3 i Ddeddf Trydan 1989 (p. 29) (caffael tir yn orfodol gan drwyddedeion).

(5) Yn is-adran (1)(b)[j661], ystyr "awdurdod lleol yn Lloegr" yw awdurdod lleol, o fewn yr ystyr a roddir i "local authority" gan adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar gyfer ardal yn Lloegr, neu awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yn Lloegr.

**275 Datblygiad tiroedd comin, mannau agored a rhandiroedd a defnydd ohonynt [j662]**

(1) Pan fu caffaeliad perthnasol neu gyfeddiant perthnasol o dir sy'n dir comin, yn fan agored neu'n rhandir neu sy'n ffurfio rhan o dir comin, man agored neu randir—

(a) os yw'r tir wedi ei gaffael gan adran o'r llywodraeth, caniateir iddo gael ei ddatblygu neu ei ddefnyddio gan yr adran mewn unrhyw ffordd at unrhyw ddiben y'i caffaelwyd ato;

(b) mewn unrhyw achos arall, caniateir iddo gael ei ddatblygu neu ei ddefnyddio gan unrhyw berson mewn unrhyw ffordd.

(2) Mae is-adran (1) yn gymwys er gwaethaf unrhyw beth mewn—

(a) unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â thiroedd comin, mannau agored neu randiroedd, neu

(b) unrhyw ddeddfiad sy'n rheoleiddio'n benodol y tir o dan sylw.

(3) Nid yw'r adran hon yn awdurdodi—

(a) tor rheolaeth gynllunio,

(b) unrhyw weithred neu anweithred y gallai unrhyw berson ddwyn achos llys yn ei gylch ar unrhyw sail heblaw tramgwyddo deddfiad a grybwyllir yn is-adran (2), nac

(c) unrhyw weithred neu anweithred ar ran corff corfforedig sy'n tramgwyddo unrhyw gyfyngiad a osodir gan y gyfraith ar ei allu yn rhinwedd ei gyfansoddiad.

(4) Mewn perthynas â thir yn Lloegr, ystyr y cyfeiriad at dor rheolaeth gynllunio yn is-adran (3)(a)[j662] yw tor rheolaeth gynllunio o fewn yr ystyr a roddir i "breach of planning control" gan adran 171A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8).

**276 Datblygiad claddfeydd a defnydd ohonynt [j663]**

(1) Pan fu caffaeliad perthnasol neu gyfeddiant perthnasol o dir sy'n gladdfa neu sy'n ffurfio rhan o gladdfa—

(a) os yw'r tir wedi ei gaffael gan adran o'r llywodraeth, caniateir iddo gael ei ddatblygu neu ei ddefnyddio gan yr adran mewn unrhyw ffordd at unrhyw ddiben y'i caffaelwyd ato;

(b) mewn unrhyw achos arall, caniateir iddo gael ei ddatblygu neu ei ddefnyddio gan unrhyw berson mewn unrhyw ffordd.

(2) Mae is-adran (1) yn gymwys er gwaethaf—

(a) unrhyw beth mewn unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â chladdfeydd, a

(b) unrhyw rwymedigaeth neu unrhyw gyfyngiad a osodir o dan gyfraith eglwysig neu fel arall mewn perthynas â chladdfeydd.

(3) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i dir sydd wedi ei ddefnyddio ar gyfer claddu'r meirw hyd nes y cydymffurfir â'r gofynion a osodir gan reoliadau mewn perthynas â—

(a) symud ymaith weddillion dynol a'u hailgladdu, a

(b) gwaredu henebion.

(4) Nid yw'r adran hon yn awdurdodi—

(a) tor rheolaeth gynllunio,

(b) unrhyw weithred neu anweithred y gallai unrhyw berson ddwyn achos llys yn ei gylch ar unrhyw sail heblaw tramgwyddo deddfiad, rhwymedigaeth neu gyfyngiad a grybwyllir yn is-adran (2), nac

(c) unrhyw weithred neu anweithred ar ran corff corfforedig sy'n tramgwyddo unrhyw gyfyngiad a osodir gan y gyfraith ar ei allu yn rhinwedd ei gyfansoddiad.

(5) Mewn perthynas â thir yn Lloegr, ystyr y cyfeiriad at dor rheolaeth gynllunio yn is-adran (4)(a)[j663] yw tor rheolaeth gynllunio o fewn yr ystyr a roddir i "breach of planning control" gan adran 171A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8).

**277 Datblygiad tir sy'n gysylltiedig ag addoliad crefyddol heblaw claddfeydd a defnydd ohono [j664]**

(1) Pan fu caffaeliad perthnasol neu gyfeddiant perthnasol o dir sy'n gysylltiedig ag addoliad crefyddol—

(a) os yw'r tir wedi ei gaffael gan adran o'r llywodraeth, caniateir iddo gael ei ddatblygu neu ei ddefnyddio gan yr adran mewn unrhyw ffordd at unrhyw ddiben y'i caffaelwyd ato, a

(b) mewn unrhyw achos arall, caniateir i'r tir gael ei ddatblygu neu ei ddefnyddio gan unrhyw berson mewn unrhyw ffordd.

(2) Yn yr adran hon, ystyr "tir sy'n gysylltiedig ag addoliad crefyddol" yw—

(a) tir cysegredig, a

(b) tir arall a oedd ar adeg ei gaffael neu ei gyfeddu yn cynnwys—

(i) eglwys neu adeilad arall a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer addoliad crefyddol, neu

(ii) safle eglwys o'r fath neu adeilad arall o'r fath,

ond nid yw'n cynnwys tir sy'n gladdfa neu sy'n ffurfio rhan o gladdfa.

(3) Caniateir datblygu neu ddefnyddio tir sy'n gysylltiedig ag addoliad crefyddol yn unol ag is-adran (1)[j664] er gwaethaf unrhyw rwymedigaeth neu unrhyw gyfyngiad sy'n ymwneud â datblygiad tir o'r fath neu ddefnydd ohono (pa un a yw wedi ei gosod neu ei osod o dan gyfraith eglwysig neu fel arall).

(4) Mae unrhyw ddatblygiad tir neu unrhyw ddefnydd o dir a awdurdodir gan is-adran (1)[j664] yn ddarostyngedig i—

(a) cydymffurfedd ag unrhyw ofynion a osodir gan reoliadau mewn perthynas ag—

(i) symud ymaith weddillion dynol a'u hailgladdu, a

(ii) gwaredu henebion, gosodiadau a deunyddiau dodrefnu;

(b) unrhyw ddarpariaeth a wneir gan reoliadau yn gwahardd datblygiad y tir neu ddefnydd ohono neu'n cyfyngu ar ddatblygiad y tir neu ddefnydd ohono tra bo—

(i) unrhyw eglwys neu unrhyw adeilad arall a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer addoliad crefyddol yn parhau ar y tir, neu

(ii) unrhyw ran o eglwys neu adeilad arall o'r fath yn parhau ar y tir.

(5) Caiff rheoliadau sy'n gosod gwaharddiad neu gyfyngiad o dan is-adran (4)(b)[j664] ddarparu nad yw'n gymwys os cafwyd cydsyniad yn unol â'r rheoliadau.

(6) Nid yw'r adran hon yn awdurdodi—

(a) tor rheolaeth gynllunio,

(b) unrhyw weithred neu anweithred y gallai unrhyw berson ddwyn achos llys yn ei gylch ar unrhyw sail heblaw tramgwyddo rhwymedigaeth neu gyfyngiad a grybwyllir yn is-adran (3)[j664], nac

(c) unrhyw weithred neu anweithred ar ran corff corfforedig sy'n tramgwyddo unrhyw gyfyngiad a osodir gan y gyfraith ar ei allu yn rhinwedd ei gyfansoddiad.

(7) Mewn perthynas â thir yn Lloegr, ystyr y cyfeiriad at dor rheolaeth gynllunio yn is-adran (6)(a)[j664] yw tor rheolaeth gynllunio o fewn yr ystyr a roddir i "breach of planning control" gan adran 171A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8).

**278 Darpariaeth bellach ynghylch rheoliadau o dan adrannau 276 a 277[j666]**

(1) Rhaid i reoliadau o dan adran 277[j664]—

(a) gwneud unrhyw ddarpariaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiad tir neu unrhyw ddefnydd o dir y mae'r rheoliadau'n gymwys iddo, i'r graddau y bo'n bosibl, yn ddarostyngedig i'r un rheolaeth—

(i) ag a osodir gan y gyfraith mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad tebyg neu unrhyw ddefnydd tebyg a awdurdodir naill ai gan ddeddfiad heblaw'r Ddeddf hon neu gan Fesur gan Eglwys Loegr, neu

(ii) ag y byddai'n briodol ei gosod ar warediad o'r tir ac eithrio o dan ddeddfiad neu Fesur gan Eglwys Loegr;

(b) gosod unrhyw ofynion mewn perthynas â gwaredu'r tir y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir ag adran 277[j664] mewn perthynas â datblygiad y tir neu ddefnydd ohono.

(2) Caiff rheoliadau o dan adran 277[j664] sy'n cynnwys darpariaeth ddeilliadol neu ddarpariaeth ganlyniadol yn rhinwedd adran [j2620](3)(b), yn benodol, gynnwys darpariaeth ynghylch cau cofrestrau.

(3) Mae is-adrannau (4)[j666] i (8)[j666] yn gymwys i reoliadau o dan adrannau 276[j663] ac 277[j664] ynghylch symud ymaith weddillion dynol a'u hailgladdu a gwaredu henebion.

(4) Rhaid i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i'r person sydd â hawlogaeth i'r tir gyhoeddi hysbysiad o fwriad y person i symud ymaith unrhyw weddillion dynol a'u hailgladdu neu i waredu unrhyw henebion.

(5) Rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth—

(a) yn galluogi cynrychiolwyr personol neu berthnasau person ymadawedig i—

(i) symud ymaith weddillion yr ymadawedig a'u hailgladdu, a

(ii) gwaredu unrhyw heneb sy'n coffáu'r ymadawedig, a

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sydd â hawlogaeth i'r tir dalu'r gwariant y mae'r cynrychiolwyr personol neu'r perthnasau'n mynd iddo wrth wneud hynny (hyd at y swm, os oes un, a bennir yn y rheoliadau).

(6) Rhaid i'r rheoliadau wneud cydymffurfedd yn ofynnol—

(a) yn achos tir cysegredig, gyda'r amodau rhesymol (os oes rhai) a osodir gan esgob yr esgobaeth mewn perthynas â—

(i) sut y mae unrhyw weddillion dynol i'w symud ymaith,

(ii) sut a lle y mae unrhyw weddillion dynol i'w hailgladdu, a

(iii) gwaredu unrhyw henebion;

(b) mewn unrhyw achos, gydag unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â symud ymaith unrhyw weddillion dynol a'u hailgladdu.

(7) Nid yw hawleb yn ofynnol ar gyfer—

(a) symud ymaith unrhyw weddillion dynol a'u hailgladdu yn unol â'r rheoliadau, na

(b) symud ymaith neu waredu unrhyw henebion yn unol â'r rheoliadau,

ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb a wneir gan y rheoliadau.

(8) Nid yw adran 25 o Ddeddf Claddu 1857 (p. 81) (gwahardd symud ymaith weddillion dynol heb drwydded gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac eithrio mewn achosion penodol) yn gymwys i symud ymaith weddillion dynol yn unol â'r rheoliadau.

*Cyffredinol*

**279 Dehongli'r Rhan hon [j669]**

(1) Yn y Rhan hon—

(a) mae cyfeiriad at gaffael tir at ddibenion cynllunio yn gyfeiriad at gaffael tir o dan adran 262[j651] neu 263[j652], neu o dan adran 136 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol;

(b) mae cyfeiriad at gyfeddu tir at ddibenion cynllunio yn gyfeiriad at gyfeddu tir at ddibenion y gellir caffael tir atynt (neu y gellid bod wedi caffael tir atynt) o dan yr adrannau hynny.

(2) Yn y Rhan hon—

mae i "awdurdod lleol perthnasol" ("*relevant local authority*") yr ystyr a roddir gan adran 262(8)[j651];

mae "heneb" ("*monument*") yn cynnwys carreg fedd neu gofeb arall;

ystyr "rhandir" ("*allotment*") yw rhandir sydd wedi ei ragnodi fel rhandir tanwydd neu randir gardd gae o dan un o'r Deddfau Cau Tir;

mae "tir comin" ("*common*") yn cynnwys unrhyw dir sy'n ddarostyngedig i'w amgáu o dan Ddeddfau Cau Tir 1845 i 1882, ac unrhyw faes tref neu bentref.

## RHAN 11

## PRIFFYRDD

### PENNOD 1

### PRIFFYRDD YR EFFEITHIR ARNYNT GAN DDATBLYGIAD

*Cau a gwyro priffyrdd: pwerau Gweinidogion Cymru*

**280 Cau neu wyro priffordd er mwyn galluogi datblygiad [j2701]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn awdurdodi cau neu wyro unrhyw brifffordd os ydynt wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn galluogi cynnal datblygiad yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan y Ddeddf hon.

(2) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon awdurdodi cau neu wyro priffordd sydd wedi ei chau dros dro neu ei gwyro dros dro o dan unrhyw ddeddfiad arall.

(3) Mae Rhan 1 o Atodlen 17[J271S] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â gwneud gorchmynion o dan yr adran hon (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o orchymyn arfaethedig ac ar gyfer ystyried gwrthwynebiadau).

**281 Cau neu wyro priffordd sy'n croesi llwybr priffordd newydd neu'n mynd i lwybr priffordd newydd [j2702]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan—

(a) rhoddir caniatâd cynllunio o dan y Ddeddf hon ar gyfer adeiladu neu wella priffordd ("y brif brifffordd"), a

(b) bo priffordd arall yn croesi llwybr y brif briffordd neu'n mynd i lwybr y brif briffordd neu pan fo neu pan fydd adeiladu neu wella'r brif briffordd yn effeithio fel arall ar briffordd arall.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn awdurdodi cau neu wyro'r briffordd arall—

(a) er budd diogelwch defnyddwyr y brif briffordd, neu

(b) i hwyluso symudiad traffig ar y brif briffordd.

(3) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon awdurdodi cau neu wyro priffordd sydd wedi ei chau dros dro neu ei gwyro dros dro o dan unrhyw ddeddfiad arall.

(4) Mae Rhan 1 o Atodlen 17[J271S] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â gwneud gorchmynion o dan yr adran hon (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o orchymyn arfaethedig ac ar gyfer ystyried gwrthwynebiadau).

**282 Y weithdrefn cyn cael caniatâd cynllunio [j2703]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan—

(a) bodlonir y naill neu'r llall o'r amodau a nodir yn is-adrannau (4) a (5) (sy'n ymwneud â chymryd camau i gael caniatâd cynllunio) mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad, a

(b) byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer, pe bai caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer y datblygiad, i wneud gorchymyn o dan adran 280[j2701] neu 281[j2702] i alluogi cynnal y datblygiad.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad o dan Ran 1 o Atodlen 17[J271S] eu bod yn cynnig gwneud gorchymyn o dan adran 280[j2701] neu 281[j2702] (yn ôl y digwydd), er na roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad.

(3) Ond nid oes dim yn yr adran hon na Rhan 1 o Atodlen 17[J271S] yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i wneud y gorchymyn hyd nes y rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad.

(4) Yr amod cyntaf yw bod cais wedi ei wneud am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad a bod unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—

(a) gwnaed y cais gan adran o'r llywodraeth, awdurdod lleol, ymgymerwr statudol neu gwmni priffyrdd strategol,

(b) atgyfeiriwyd y cais at Weinidogion Cymru o dan adran [j451],

(c) mae'r ceisydd wedi gwneud apêl i Weinidogion Cymru o dan adran [j452], neu

(d) gwnaed y cais i Weinidogion Cymru o dan adran [j429] (opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru) neu adran [j431] (ceisiadau cysylltiedig).

(5) Yr ail amod yw—

(a) bod y datblygiad i'w gynnal gan awdurdod lleol neu ymgymerwr statudol,

(b) yn rhinwedd deddfiad, ei bod yn ofynnol cael awdurdodiad gan adran o'r llywodraeth ar gyfer y datblygiad, ac

(c) bod yr awdurdod neu'r ymgymerwr wedi—

(i) gwneud cais i'r adran am yr awdurdodiad, a

(ii) gofyn am gyfarwyddyd o dan adran [j457] yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad.

**283 Darpariaeth bellach ynghylch gorchmynion o dan adrannau 280 a 281 [j2704]**

(1) Caiff gorchymyn o dan adran 280[j2701] neu 281[j2702] ddarparu ar gyfer creu neu wella unrhyw briffordd ac eithrio'r briffordd sydd i'w chau neu ei gwyro o dan y gorchymyn.

(2) Caiff gorchymyn o dan adran 280[j2701] wneud darpariaeth o'r mathau a grybwyllir yn is-adran (4) mewn perthynas â phriffordd sydd i'w chreu neu ei gwella o dan y gorchymyn.

(3) Caiff gorchymyn o dan adran 281[j2702] wneud darpariaeth o'r mathau hynny mewn perthynas ag—

(a) y brif briffordd;

(b) unrhyw briffordd arall sydd i'w chreu neu ei gwella o dan y gorchymyn.

(4) Y mathau o ddarpariaeth yw—

(a) darpariaeth i'r briffordd fod yn briffordd sydd i'w chynnal ar draul y pwrs cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf Priffyrdd;

(b) darpariaeth i Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gwmni priffyrdd strategol fod yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd;

(c) os yw'r gorchymyn yn darparu i Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu gwmni priffyrdd strategol fod yr awdurdod priffyrdd, ddarpariaeth bod y briffordd i ddod yn gefnffordd ar ddyddiad a bennir yn y gorchymyn.

(5) Caiff gorchymyn o dan adran 280[j2701] neu 281[j2702] gynnwys darpariaethau deilliadol a darpariaethau canlyniadol, gan gynnwys yn benodol—

(a) darpariaeth sy'n awdurdodi Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol i dalu neu gyfrannu tuag at unrhyw gostau yr eir iddynt wrth gynnal unrhyw waith y mae'r gorchymyn yn darparu ar ei gyfer, neu mewn cysylltiad â chynnal unrhyw waith o'r fath, neu sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson arall wneud hynny;

(b) darpariaeth ar gyfer cadw unrhyw hawliau sydd gan ymgymerwr statudol mewn perthynas ag unrhyw gyfarpar sydd ganddo ar y briffordd y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hi yn union cyn y diwrnod y gwneir y gorchymyn.

(6) Nid yw'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan adrannau 280[j2701] a 281[j2702] yn cyfyngu ar—

(a) unrhyw bŵer a roddir iddynt gan unrhyw ddeddfiad arall i awdurdodi cau neu wyro priffordd;

(b) y pwerau i ddiddymu hawliau tramwy cyhoeddus a roddir iddynt gan Ran 6 o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p. 67) ac adran 297[j2717] o'r Ddeddf hon.

**284 Gorchmynion o dan adran 281: cau mynedfeydd preifat [j2705]**

(1) Caiff gorchymyn o dan adran 281[j2702] awdurdodi'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y brif briffordd—

(a) i gau unrhyw fynedfa breifat i dir sydd—

(i) yn cyffinio â llwybr y brif briffordd neu'n gyfagos iddo, neu

(ii) yn ffurfio safle unrhyw waith a awdurdodir drwy'r gorchymyn neu drwy orchymyn blaenorol o dan adran 281[j2702];

(b) i ddarparu mynedfa newydd i'r tir.

(2) Ni chaiff gorchymyn awdurdodi cau mynedfa breifat i dir ond os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) bod mynedfa resymol gyfleus arall i'r tir ar gael,

(b) y darperir mynedfa o'r fath i'r tir, pa un ai yn unol â darpariaeth a wneir o dan is-adran (1)(b) neu fel arall, neu

(c) nad yw unrhyw fynediad i'r tir yn rhesymol ofynnol.

(3) Wrth benderfynu a yw neu a fydd mynedfa arall i'r tir yn rhesymol gyfleus, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) yr angen (os oes un) am fynedfa i leoedd gwahanol ar y tir, a

(b) unrhyw ffyrdd, unrhyw lwybrau neu unrhyw dramwyfeydd eraill ar y tir hwnnw neu unrhyw dir arall sy'n darparu mynedfa o'r fath neu a fydd yn gallu darparu mynedfa o'r fath.

(4) Pan fo gorchymyn yn awdurdodi awdurdod priffyrdd i gau mynedfa breifat, caiff yr awdurdod wneud hynny mewn unrhyw ffordd y mae'n ystyried ei bod yn briodol.

(5) Mae person sy'n defnyddio mynedfa sydd wedi ei chau yn unol â darpariaeth a wneir o dan yr adran hon yn cyflawni trosedd oni bai bod y person yn arfer hawl tramwy cyhoeddus.

(6) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (5) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(7) Yn yr adran hon ac adran 285[j2706], mae cyfeiriadau at ddarparu mynedfa newydd i unrhyw dir yn cynnwys darparu ffordd, llwybr neu dramwyfa arall ar y tir hwnnw neu unrhyw dir arall.

**285 Digolledlad pan fo mynedfa breifat yn cael ei chau [j2706]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod priffyrdd yn cau mynedfa i dir yn unol â darpariaeth a wneir o dan adran 284[j2705].

(2) Mae gan unrhyw berson hawlogaeth, wrth wneud hawliad i'r awdurdod priffyrdd, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod am unrhyw ddifrod a ddioddefir gan y person o ganlyniad i gau'r fynedfa—

(a) drwy ddibrisiant yng ngwerth buddiant y mae gan y person hawlogaeth iddo yn y tir, neu

(b) drwy darfu arno yn ei fwynhad o'r tir.

(3) Rhaid i hawliad am ddigolledlad o dan yr adran hon gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r gorchymyn o dan adran 281[j2702] i rym.

(4) Wrth benderfynu swm y digolledlad sy'n daladwy o dan yr adran hon, rhaid rhoi sylw i unrhyw fynedfa newydd i dir yr hawlydd a ddarperir gan yr awdurdod priffyrdd.

(5) Nid oes gan berson sydd â hawlogaeth i ddigolllediad mewn cysylltiad ag unrhyw fater o dan yr adran hon hawlogaeth i ddigolllediad mewn cysylltiad â'r un mater o dan unrhyw ddeddfiad arall.

*Pedestreiddio priffyrdd: pwerau Gweinidogion Cymru*

**286 Pedestreiddio priffordd i wella amwynder [j2707]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) awdurdod cynllunio drwy benderfyniad yn mabwysiadu cynnig ar gyfer gwella amwynder rhan o'i ardal, a

(b) y cynnig yn golygu bod y cyhoedd yn peidio â chael unrhyw hawl tramwy gyda cherbydau dros briffordd yn ardal yr awdurdod nad yw'n gefnffordd nac yn brif ffordd.

(2) Ar gais gan yr awdurdod cynllunio, caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiddymu pob hawl i ddefnyddio cerbydau ar y briffordd.

(3) Cyn gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod cynllunio ymgynghori â'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd (os nad yr awdurdod cynllunio yw'r awdurdod priffyrdd).

(4) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon ganiatáu'r defnydd ar y briffordd o gerbydau (pa un a ydynt yn cael eu gyrru'n fecanyddol ai peidio) mewn achosion a bennir yn y gorchymyn, er gwaethaf diddymu unrhyw hawl a grybwyllir yn is-adran (2).

(5) Cyn gwneud gorchymyn sy'n cynnwys darpariaeth o dan is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag —

(a) yr awdurdod cynllunio, a

(b) yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd (os nad yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru yw'r awdurdod priffyrdd).

(6) Caniateir llunio darpariaeth o dan is-adran (4) drwy gyfeirio at—

(a) disgrifiadau penodol o gerbydau,

(b) personau penodol y caniateir defnyddio cerbydau ganddynt, neu ar eu hawdurdod, neu

(c) o dan ba amgylchiadau, neu ar ba adegau, y caniateir defnyddio cerbydau at ddibenion penodol.

(7) Nid yw unrhyw ddarpariaeth statudol sy'n gwahardd neu'n cyfyngu ar y defnydd o lwybrau troed, troetffyrdd neu lwybrau ceffylau yn gymwys i unrhyw ddefnydd o gerbyd a ganiateir gan ddarpariaeth o dan is-adran (4).

(8) Gweler Rhan 7A o'r Ddeddf Priffyrdd (darparu amwynderau ar briffyrdd penodol) am bwerau y caiff cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol eu harfer mewn perthynas â phriffordd pan fo gorchymyn o dan yr adran hon mewn grym.

(9) Yn yr adran hon—

ystyr "darpariaeth statudol" ("*statutory provision*") yw darpariaeth sydd wedi ei chynnwys mewn deddfiad, neu sy'n cael effaith o dan ddeddfiad;

mae "prif ffordd" ("*principal road*") i'w ddehongli yn unol ag adran 12 o'r Ddeddf Priffyrdd.

**287 Dirymu gorchymyn i bedestreiddio priffordd [j2708]**

(1) Ar gais gan awdurdod cynllunio, caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddirymu gorchymyn o dan adran 286[j2707] sy'n gymwys i briffordd yn ardal yr awdurdod.

(2) Cyn gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod cynllunio ymgynghori â'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd (os nad yr awdurdod cynllunio yw'r awdurdod priffyrdd).

(3) Os caiff gorchymyn o dan adran 286[j2707] ei ddirymu, adferir yr holl hawliau i ddefnyddio cerbydau ar y briffordd a ddiddymwyd gan y gorchymyn.

(4) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol symud ymaith unrhyw rwystr i briffordd o ganlyniad i arfer pwerau o dan Ran 7A o'r Ddeddf Priffyrdd.

**288 Darpariaeth bellach ynghylch gorchmynion o dan adrannau 286 a 287 [j2709]**

(1) Caiff gorchymyn a wneir o dan adran 286[j2707] neu 287[j2708] mewn perthynas â phriffordd ddarparu ar gyfer creu neu wella unrhyw briffordd arall.

(2) Os yw'r gorchymyn yn darparu ar gyfer creu neu wella priffordd arall, caiff hefyd—

(a) darparu i'r briffordd honno fod yn briffordd sydd i'w chynnal ar draul y pwrs cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf Priffyrdd;

(b) darparu i Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gwmni priffyrdd strategol fod yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd;

(c) os yw'n darparu i Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu gwmni priffyrdd strategol fod yr awdurdod priffyrdd, ddarparu bod y briffordd i ddod yn gefnffordd ar ddyddiad a bennir yn y gorchymyn.

(3) Caiff gorchymyn o dan adran 286[j2707] neu 287[j2708] gynnwys darpariaethau deilliadol a darpariaethau canlyniadol, gan gynnwys yn benodol—

(a) darpariaeth sy'n awdurdodi Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol i dalu neu gyfrannu tuag at unrhyw gostau yr eir iddynt wrth gynnal unrhyw waith y mae'r gorchymyn yn darparu ar ei gyfer, neu mewn cysylltiad â chynnal unrhyw waith o'r fath, neu sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson arall wneud hynny;

(b) darpariaeth ar gyfer cadw unrhyw hawliau sydd gan ymgymerwr statudol mewn perthynas ag unrhyw gyfarpar sydd ganddo ar y briffordd y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hi yn union cyn y diwrnod y gwneir y gorchymyn.

(4) Mae Rhan 1 o Atodlen 17[J271S] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â gwneud gorchmynion o dan adrannau 286[j2707] a 287[j2708] (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o orchymyn arfaethedig ac ar gyfer ystyried gwrthwynebiadau).

(5) Nid yw'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan yr adrannau hynny yn cyfyngu ar—

(a) unrhyw bŵer a roddir iddynt gan unrhyw ddeddfiad arall i awdurdodi cau neu wyro priffordd;

(b) y pwerau i ddiddymu hawliau tramwy cyhoeddus a roddir iddynt gan Ran 6 o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p. 67) ac adran 297[2717] o'r Ddeddf hon.

**289 Digolledu pan bedestreiddir priffordd [j2710]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) gorchymyn o dan adran 286[j2707] yn diddymu unrhyw hawl i ddefnyddio cerbydau ar briffordd, a

(b) ar yr adeg y daw'r gorchymyn i rym, fod gan berson fuddiant mewn tir sydd â mynediad cyfreithlon i'r briffordd.

(2) Mae gan y person hawlogaeth, wrth wneud hawliad i'r awdurdod cynllunio a wnaeth gais am y gorchymyn, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod am—

(a) unrhyw ddibrisiant yng ngwerth buddiant y person y gellir ei briodoli yn uniongyrchol i'r gorchymyn, a

(b) unrhyw golled arall neu unrhyw ddifrod arall a ddioddefir gan y person y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i'r gorchymyn.

(3) Rhaid i hawliad am ddigolledïad o dan yr adran hon gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r gorchymyn o dan adran 286[j2707] i rym.

*Pwerau pellach pan wneir gorchmynion gan Weinidogion Cymru*

**290 Caffael tir yn orfodol mewn cysylltiad â gorchymyn [j2711]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) caffael unrhyw dir yn orfodol, neu

(b) awdurdodi awdurdod priffyrdd lleol neu gwmni priffyrdd strategol i gaffael unrhyw dir yn orfodol,

at ddiben a grybwyllir yn is-adran (2).

(2) Y dibenion yw—

(a) creu neu wella priffordd yn unol â darpariaeth a wneir drwy orchymyn o dan adran 280[j2701], 281[j2702], 286[j2707] neu 287[j2708];

(b) unrhyw ddiben arall y mae angen tir ar ei gyfer mewn cysylltiad â gorchymyn o'r fath.

(3) Mae Deddf Caffael Tir 1981 (p. 67) yn gymwys i gaffaeliad o dan yr adran hon.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy'n galluogi unrhyw achos sy'n ymwneud â chaffael tir o dan yr adran hon i gael ei gymryd ar yr un pryd ag unrhyw achos sy'n ymwneud â'r gorchymyn.

**291 Dod â hawliau ymgymerwyr statudol a gweithredwyr rhwydwaith i ben [j2723]**

(1) Mewn perthynas â phriffordd sy'n cael ei chau neu ei gwyro yn unol â gorchymyn o dan adran 280[j2701] neu 281[j2702], mae adrannau [j711] a [j712] a Rhan 1 o Atodlen [j712S] (dod â hawliau ymgymerwyr statudol a gweithredwyr rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig i ben) yn gymwys fel pe bai—

(a) cyfeiriadau at dir y cafwyd caffaeliad perthnasol ohono yn gyfeiriadau at y tir y bu'r briffordd yn bodoli arno;

(b) cyfeiriadau at yr awdurdod a gaffaelodd neu a gyfeddodd y tir yn gyfeiriadau at y person a chanddo hawlogaeth i feddu ar y tir;

(c) cyfeiriadau yn adran [j712](3) a pharagraff 1(3)(c) o Atodlen [j712S] at awdurdod lleol neu ymgymerwr statudol yn cynnwys unrhyw berson (ac eithrio adran o'r llywodraeth) sydd â hawlogaeth i feddu ar y tir hwnnw.

(2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys mewn perthynas â thir sy'n ffurfio safle priffordd y rhoddwyd caniatâd cynllunio mwyngloddio brig mewn cysylltiad ag ef (o fewn yr ystyr a roddir i "opencast planning permission" gan adran 51 o Ddeddf Glo Brig 1958 (p. 69)).

**292 Cyfarpar cyfathrebiadau electronig yr effeithir arno gan orchymyn [j2712]**

(1) Mae is-adrannau (2) a (3) yn gymwys pan fo—

(a) priffordd yn cael ei chau neu ei gwyro yn unol â gorchymyn o dan adran 280[j2701] neu 281[j2702], neu pan fo unrhyw hawl i ddefnyddio cerbydau ar briffordd yn cael ei ddiddymu drwy orchymyn o dan adran 286[j2707], a

(b) yn union cyn y diwrnod y daeth y gorchymyn i rym, yr oedd cyfarpar cyfathrebiadau electronig wedi ei osod ar y briffordd at ddibenion rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig.

(2) Mae gan weithredwr y rhwydwaith yr un pwerau mewn perthynas â'r cyfarpar â phe na bai'r gorchymyn wedi dod i rym.

(3) Ond mae gan unrhyw berson sydd â hawlogaeth i dir yr oedd y briffordd neu'r hawl yn bodoli drosto hawlogaeth i'w gwneud yn ofynnol i'r cyfarpar gael ei addasu.

(4) Mae is-adrannau (5) a (6) yn gymwys pan fo—

(a) gorchymyn o dan adran 280[j2701], 281[j2702], 286[j2707] neu 287[j2708] yn darparu ar gyfer gwella priffordd nad Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar ei chyfer, ac nad Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod priffyrdd ar ei chyfer, a

(b) yn union cyn y diwrnod y daeth y gorchymyn i rym, yr oedd cyfarpar cyfathrebiadau electronig wedi ei osod ar y briffordd at ddibenion rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig.

(5) Mae gan yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd hawlogaeth i'w gwneud yn ofynnol i'r cyfarpar gael ei addasu.

(6) Nid yw is-adran (5) yn rhoi'r hawlogaeth i'r awdurdod priffyrdd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyfarpar gael ei addasu at ddiben gwaith mawr ar briffordd o fewn yr ystyr a roddir i "major highway works" yn Neddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), gwaith mawr ar bont o fewn yr ystyr a roddir i "major bridge works" yn y Ddeddf honno neu waith trafnidiaeth mawr o fewn ystyr a roddir i "major transport works" yn y Ddeddf honno.

(7) Yn yr adran hon mae cyfeiriadau at addasu cyfarpar yn cynnwys ei symud, ei symud ymaith a'i amnewid.

(8) Mae Rhan 6 o'r cod cyfathrebiadau electronig (hawliau i'w gwneud yn ofynnol symud ymaith gyfarpar cyfathrebiadau electronig) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw hawlogaeth o dan yr adran hon i'w gwneud yn ofynnol addasu, symud neu amnewid cyfarpar cyfathrebiadau electronig fel y mae'n gymwys mewn perthynas â hawlogaeth i'w gwneud yn ofynnol symud ymaith gyfarpar o'r fath.

*Cau neu wyro llwybrau cyhoeddus: pwerau awdurdodau cynllunio*

**293 Cau neu wyro llwybr cyhoeddus er mwyn galluogi datblygiad [j2713]**

(1) Caiff awdurdod cynllunio drwy orchymyn awdurdodi cau neu wyro unrhyw lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig os yw wedi ei fodloni ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn galluogi cynnal datblygiad yn ei ardal yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan y Ddeddf hon.

(2) Caiff awdurdod cynllunio drwy orchymyn awdurdodi cau neu wyro unrhyw lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig os yw wedi ei fodloni—

(a) bod cais wedi ei wneud am ganiatâd cynllunio i ddatblygu tir yn ei ardal, a

(b) pe roddir y caniatâd, y byddai angen awdurdodi'r cau neu'r gwyro er mwyn galluogi cynnal y datblygiad.

(3) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon awdurdodi cau neu wyro llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig sydd wedi ei gau dros dro neu ei wyro o dan unrhyw ddeddfiad arall neu ei chau dros dro neu ei gwyro o dan unrhyw ddeddfiad arall.

(4) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon—

(a) darparu ar gyfer creu priffordd arall, neu wella priffordd bresennol, yn lle'r briffordd sydd i'w chau neu ei gwyro;

(b) awdurdodi cynnal gwaith neu ei gwneud yn ofynnol i waith gael ei gynnal mewn perthynas ag unrhyw lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig sydd i'w gau neu ei wyro, ei greu neu ei wella o dan y gorchymyn neu ei chau neu ei gwyro, ei chreu neu ei gwella o dan y gorchymyn;

(c) darparu ar gyfer cadw unrhyw hawliau sydd gan ymgymerwr statudol mewn perthynas ag unrhyw gyfarpar sydd ganddo ar unrhyw lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig o'r fath, yn union cyn y diwrnod y gwneir y gorchymyn;

(d) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson dalu neu gyfrannu tuag at gostau cynnal unrhyw waith y mae'r gorchymyn yn darparu ar ei gyfer.

**294 Cadarnhad o orchymyn a wneir gan yr awdurdod cynllunio [j2714]**

(1) Nid yw gorchymyn a wneir o dan adran 293[j2713] yn cael effaith oni bai ei fod—

(a) wedi ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru, neu

(b) wedi ei gadarnhau fel gorchymyn diwrthwynebiad gan yr awdurdod cynllunio a'i gwnaeth.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru gadarnhau gorchymyn o dan adran 293(1)[j2713] oni bai eu bod wedi eu bodloni ynghylch y materion a grybwyllir yn yr is-adran honno.

(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod cynllunio gadarnhau gorchymyn o dan adran 293(2)[j2713] oni bai eu bod wedi eu bodloni neu ei fod wedi ei fodloni—

(a) bod caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer y datblygiad o dan sylw, a

(b) bod angen awdurdodi'r cau neu'r gwyro er mwyn galluogi cynnal y datblygiad yn unol â'r caniatâd.

(4) Ni chaniateir i'r dyddiad a bennir mewn gorchymyn fel y dyddiad y mae llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig i'w gau neu ei wyro neu ei chau neu ei gwyro fod yn gynharach na'r diwrnod y cadarnheir y gorchymyn.

(5) Mae Rhan 2 o Atodlen 17[J271S] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â chadarnhau gorchmynion o dan adran 293[j2713].

**295 Cyfarpar cyfathrebiadau electronig yr effeithir arno gan orchymyn [j2715]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) awdurdod cynllunio yn gwneud gorchymyn o dan adran 293[j2713] sy'n awdurdodi cau neu wyro llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig dros unrhyw dir, a

(b) ar yr adeg y cyhoeddodd yr awdurdod yr hysbysiad sy'n ofynnol gan baragraff 10[J271S] o Atodlen 17[J271S], yr oedd cyfarpar cyfathrebiadau electronig wedi ei osod ar y tir at ddibenion rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig.

(2) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud y gorchymyn, rhaid i'r awdurdod cynllunio roi hysbysiad ei fod wedi gwneud hynny i weithredwr y rhwydwaith.

(3) Er gwaethaf gwneud y gorchymyn, caiff y gweithredwr arfer ei bŵer i symud ymaith y cyfarpar cyfathrebiadau electronig ar unrhyw adeg cyn diwedd y cyfnod symud ymaith.

(4) Os yw'r gweithredwr yn rhoi hysbysiad i'r awdurdod cynllunio cyn diwedd y cyfnod symud ymaith yn datgan ei fwriad i symud ymaith y cyfarpar neu unrhyw ran ohono, caiff y gweithredwr arfer ei hawl i symud ymaith y cyfarpar neu'r rhan honno ohono ar ôl diwedd y cyfnod symud ymaith.

(5) Caiff gweithredwr y rhwydwaith gefnu ar y cyfarpar cyfathrebiadau electronig neu unrhyw ran ohono drwy roi hysbysiad i'r awdurdod cyn diwedd y cyfnod symud ymaith.

(6) Mae'r gweithredwr i'w drin ar ddiwedd y cyfnod symud ymaith fel pe bai wedi cefnu ar unrhyw ran o'r cyfarpar nad yw wedi cefnu arno, wedi ei symud ymaith neu wedi rhoi hysbysiad o'i fwriad i'w symud ymaith.

(7) Pan fo unrhyw gyfarpar cyfathrebiadau electronig yn cael ei symud ymaith neu pan gefnir arno o dan yr adran hon, caiff y gweithredwr adennill oddi wrth yr awdurdod cynllunio y gost o ddarparu unrhyw gyfarpar cyfathrebiadau electronig mewn lle arall yn lle—

(a) y cyfarpar sydd wedi ei symud ymaith neu y cefnwyd arno, a

(b) unrhyw gyfarpar cyfathrebiadau electronig arall sy'n gysylltiedig ag ef sy'n dod yn ddiwerth o ganlyniad i symud ymaith y cyfarpar neu gefnu arno.

(8) Pan gefnir ar unrhyw gyfarpar cyfathrebiadau electronig o dan yr adran hon—

(a) bydd gan yr awdurdod cynllunio hawlogaeth i gael y cyfarpar, a

(b) mae'r cyfarpar i'w drin fel pe na bai wedi ei osod at ddibenion rhwydwaith cyfathrebiadau electronig mwyach.

(9) Yn yr adran hon ystyr "y cyfnod symud ymaith" yw 3 mis sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod yr awdurdodir cau neu wyro'r llwybr troed, y llwybr ceffylau neu'r gilffordd gyfyngedig.

*Gweithio mwynau: gorchmynion dros dro*

**296 Cau dros dro neu wyro dros dro ar gyfer gweithio mwynau ar wyneb y tir [j2716]**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) ei bod yn angenrheidiol gwneud gorchymyn o dan adran 280[j2701] i awdurdodi cau neu wyro priffordd i alluogi i fwynau gael eu gweithio drwy weithio ar wyneb y tir, a

(b) y gellir adfer y briffordd i gyflwr nad yw'n sylweddol llai cyfleus i'r cyhoedd ar ôl i'r mwynau gael eu gweithio.

(2) Caiff y gorchymyn ddarparu i'r briffordd—

(a) cael ei chau neu ei gwyro am gyfnod a bennir gan y gorchymyn neu o dan y gorchymyn, a

(b) cael ei adfer ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

(3) Mae is-adran (4) yn gymwys pan fo awdurdod cynllunio wedi ei fodloni—

(a) ei bod yn angenrheidiol gwneud gorchymyn o dan adran 293[j2713] i awdurdodi cau neu wyro llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig i alluogi i fwynau gael eu gweithio drwy weithio ar wyneb y tir, a

(b) y gellir adfer y llwybr troed, y llwybr ceffylau neu'r gilffordd gyfyngedig i gyflwr nad yw'n sylweddol llai cyfleus i'r cyhoedd ar ôl i'r mwynau gael eu gweithio.

(4) Caiff y gorchymyn ddarparu i'r llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig—

(a) cael ei gau neu ei wyro neu ei chau neu ei gwyro am gyfnod a bennir gan y gorchymyn neu o dan y gorchymyn, a

(b) cael ei adfer neu ei hadfer ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

(5) Caiff gorchymyn a wneir yn rhinwedd yr adran hon gynnwys darpariaeth—

(a) i berson a fyddai fel arall yn ddarostyngedig i unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag atgyweirio'r briffordd wreiddiol yn ystod y cyfnod a bennir gan neu o dan y gorchymyn fod yn ddarostyngedig i atebolrwydd cyfatebol mewn perthynas ag atgyweirio unrhyw briffordd a ddarperir yn unol â'r gorchymyn;

(b) ar gyfer cau unrhyw briffordd a ddarperir yn unol â'r gorchymyn ar ddiwedd y cyfnod hwnnw ac ar gyfer ailadeiladu a chynnal a chadw'r briffordd wreiddiol.

(6) Pan fo gorchymyn a wneir yn rhinwedd yr adran hon yn cynnwys darpariaeth o dan adran 283(5)(a)[j2704] neu 293(4)(d)[j2713] sy'n ei gwneud yn ofynnol gwneud taliad mewn perthynas ag unrhyw gostau, caiff y ddarpariaeth honno ddarparu ar gyfer talu swm cyfalaf mewn perthynas â swm amcangyfrifedig y costau hynny.

## PENNOD 2

DOD Â HAWLIAU TRAMWY DROS DIR A DDELIR AT DDIBENION CYNLLUNIO I BEN

*Pwerau Gweinidogion Cymru*

**297 Pŵer Gweinidogion Cymru i ddod â hawl tramwy dros dir a ddelir at ddibenion cynllunio i ben [j2717]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod lleol—

(a) wedi caffael neu gyfeddu unrhyw dir at ddibenion cynllunio (o fewn yr ystyr a roddir gan adran [j669]), a

(b) yn dal y tir at y dibenion y cafodd ei gaffael neu ei gyfeddu ar eu cyfer.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiddymu unrhyw hawl tramwy cyhoeddus dros y tir os ydynt wedi eu bodloni—

(a) bod hawl tramwy arall wedi ei darparu neu y caiff ei darparu, neu

(b) nad oes angen hawl tramwy arall.

(3) Mae Rhan 1 o Atodlen 17[J271S] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â gwneud gorchmynion o dan yr adran hon (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o orchymyn arfaethedig ac ar gyfer ystyried gwrthwynebiadau).

**298 Caffael tir yn orfodol i ddarparu hawl tramwy arall [j2718]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) caffael unrhyw dir yn orfodol, neu

(b) awdurdodi awdurdod priffyrdd lleol neu gwmni priffyrdd strategol i gaffael unrhyw dir yn orfodol,

at ddiben darparu hawl tramwy cyhoeddus fel dewis arall yn lle hawl tramwy a ddiddymir drwy orchymyn o dan adran 297[j2717].

(2) Mae Deddf Caffael Tir 1981 (p. 67) yn gymwys i gaffaeliad o dan yr adran hon.

**299 Achosion cydredol yn ymwneud â gorchmynion a chaffaeliadau [j2719]**

Caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy'n galluogi—

(a) unrhyw achos sy'n ymwneud â gorchymyn o dan adran 297[j2717] i gael ei gymryd ar yr un pryd ag unrhyw achos sy'n ymwneud â chaffael at ddibenion cynllunio y tir y mae'r hawl tramwy drosto i'w diddymu;

(b) unrhyw achos sy'n ymwneud â chaffael unrhyw dir arall o dan adran 298[j2718] i gael ei gymryd ar yr un pryd â'r naill neu'r llall neu'r ddau o'r achosion y cyfeirir atynt ym mharagraff (a).

*Pwerau awdurdodau lleol*

**300 Pŵer awdurdod lleol i ddod â hawl tramwy dros lwybr cyhoeddus ar dir a ddelir at ddibenion cynllunio i ben [j2720]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod lleol—

(a) wedi caffael neu gyfeddu unrhyw dir at ddibenion cynllunio (o fewn yr ystyr a roddir gan adran [j669]), a

(b) yn dal y tir at y dibenion y cafodd ei gaffael neu ei gyfeddu ar eu cyfer.

(2) Caiff yr awdurdod drwy orchymyn ddiddymu unrhyw hawl tramwy cyhoeddus dros lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig dros y tir, os yw wedi ei fodloni—

(a) bod hawl tramwy arall wedi ei darparu neu y caiff ei darparu, neu

(b) nad oes angen hawl tramwy arall.

(3) Nid yw gorchymyn a wneir o dan yr adran hon yn cymryd effaith oni bai ei fod—

(a) wedi ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru, neu

(b) wedi ei gadarnhau fel gorchymyn diwrthwynebiad gan yr awdurdod lleol a'i gwnaeth.

(4) Ni chaiff Gweinidogion Cymru gadarnhau gorchymyn oni bai eu bod wedi eu bodloni ynghylch y materion a grybwyllir yn is-adran (2)(a) neu (b).

(5) Ni chaniateir i'r dyddiad a bennir mewn gorchymyn fel y dyddiad y mae hawl tramwy i gael ei diddymu fod yn gynharach na'r diwrnod y cadarnheir y gorchymyn.

(6) Mae Rhan 2 o Atodlen 17[J271S] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â chadarnhau gorchmynion o dan yr adran hon.

*Cyfarpar cyfathrebiadau electronig*

**301 Cyfarpar cyfathrebiadau electronig yr effeithir arno gan orchymyn [j2721]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) ar gais gan awdurdod lleol, Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn o dan adran 297[j2717] sy'n diddymu hawl tramwy cyhoeddus dros unrhyw dir, a

(b) ar yr adeg y cyhoeddodd Gweinidogion Cymru yr hysbysiad sy'n ofynnol gan baragraff 2[J271S] o Atodlen 17[J271S], yr oedd cyfarpar cyfathrebiadau electronig wedi ei osod ar y tir at ddibenion rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig.

(2) Mae'r adran hon yn gymwys hefyd pan fo—

(a) awdurdod lleol yn gwneud gorchymyn o dan adran 300[j2720] sy'n diddymu hawl tramwy cyhoeddus dros unrhyw dir, a

(b) ar yr adeg y cyhoeddodd yr awdurdod yr hysbysiad sy'n ofynnol gan baragraff 10[J271S] o Atodlen 17[J271S], yr oedd cyfarpar cyfathrebiadau electronig wedi ei osod ar y tir at ddibenion rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig.

(3) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud y gorchymyn a grybwyllir yn is-adran (1) neu (2), rhaid i'r person a wnaeth y gorchymyn roi hysbysiad ei fod wedi gwneud hynny i weithredwr y rhwydwaith.

(4) Er gwaethaf gwneud y gorchymyn, caiff y gweithredwr arfer ei bŵer i symud ymaith y cyfarpar cyfathrebiadau electronig ar unrhyw adeg cyn diwedd y cyfnod symud ymaith.

(5) Os yw'r gweithredwr yn rhoi hysbysiad i'r awdurdod lleol cyn diwedd y cyfnod symud ymaith yn datgan ei fwriad i symud ymaith y cyfarpar neu unrhyw ran ohono, caiff y gweithredwr arfer ei hawl i symud ymaith y cyfarpar neu'r rhan honno ohono ar ôl diwedd y cyfnod symud ymaith.

(6) Caiff gweithredwr y rhwydwaith gefnu ar y cyfarpar cyfathrebiadau electronig neu unrhyw ran ohono drwy roi hysbysiad i'r awdurdod cyn diwedd y cyfnod symud ymaith.

(7) Mae'r gweithredwr i'w drin ar ddiwedd y cyfnod symud ymaith fel pe bai wedi cefnu ar unrhyw ran o'r cyfarpar nad yw wedi cefnu arno, wedi ei symud ymaith neu wedi rhoi hysbysiad o'i fwriad i'w symud ymaith.

(8) Pan fo unrhyw gyfarpar cyfathrebiadau electronig yn cael ei symud ymaith neu pan gefnir arno o dan yr adran hon, caiff y gweithredwr adennill oddi wrth yr awdurdod lleol y gost o ddarparu unrhyw gyfarpar cyfathrebiadau electronig mewn lle arall yn lle—

(a) y cyfarpar sydd wedi ei symud ymaith neu y cefnwyd arno, a

(b) unrhyw gyfarpar cyfathrebiadau electronig arall sy’n gysylltiedig ag ef sy’n dod yn ddiwerth o ganlyniad i symud ymaith y cyfarpar neu gefnu arno.

(9) Pan gefnir ar unrhyw gyfarpar cyfathrebiadau electronig o dan yr adran hon—

(a) bydd gan yr awdurdod cynllunio hawlogaeth i gael y cyfarpar, a

(b) mae’r cyfarpar i’w drin fel pe na bai wedi ei osod at ddibenion rhwydwaith cyfathrebiadau electronig mwyach.

(10) Yn yr adran hon ystyr “y cyfnod symud ymaith” yw 3 mis sy’n dechrau â thrannoeth y diwrnod y diddymir yr hawl tramwy.

## PENNOD 3

CYFFREDINOL

### 302 Dehongli’r Rhan hon [j2722]

(1) Yn y Rhan hon—

mae i “y brif briffordd” (“*the main highway*”) yr ystyr a roddir gan adran 281(1)(a)[j2702];

mae i “cefnffordd” yr un ystyr ag a roddir i “trunk road” yn y Ddeddf Priffyrdd (gweler adran 329(1) o’r Ddeddf honno);

mae i “cilffordd gyfyngedig” yr un ystyr ag a roddir i “restricted byway” yn Rhan 2 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p. 37) (gweler adran 48(4) a (5) o’r Ddeddf honno);

mae i “llwybr ceffylau” yr un ystyr ag a roddir i “bridleway” yn y Ddeddf Priffyrdd (gweler adran 329(1) a (2) o’r Ddeddf honno);

mae i “llwybr troed” yr un ystyr ag a roddir i “footpath” yn y Ddeddf Priffyrdd (gweler adran 329(1) a (2) o’r Ddeddf honno).

(2) Yn y Rhan hon, o ran cyfeiriadau at ymgymerwr statudol—

(a) nid ydynt yn cynnwys darparwr gwasanaeth post cyffredinol;

(b) ac eithrio yn adran 282[j2703], nid ydynt yn cynnwys trwyddedai trydan ond os oes gan y trwyddedai hawlogaeth i arfer pŵer a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Trydan 1989 (p. 29) (gwaith stryd).

(3) Yn y Rhan hon mae cyfeiriadau at gyfarpar ar unrhyw briffordd neu dir yn cynnwys cyfarpar yn, o dan, dros, ar hyd neu ar draws y briffordd neu’r tir.

# RHAN 12

## YMGYMERWYR STATUDOL ETC.

*Dehongli termau sy'n ymwneud ag ymgymerwyr statudol*

### 303 Ystyr "ymgymerwr statudol" ac "ymgymeriad statudol" [j701]

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "ymgymerwr statudol" yw—

(a) person sydd wedi ei awdurdodi gan ddeddfiad i gyflawni—

(i) ymgymeriad rheilffordd, rheilffordd ysgafn, tramffordd neu drafnidiaeth ffyrdd,

(ii) ymgymeriad trafnidiaeth ar ddŵr, camlas neu fordwyo mewndirol, neu

(iii) ymgymeriad doc, harbwr, pier neu oleudy;

(b) gweithredwr maes awyr perthnasol;

(c) yr Awdurdod Hedfan Sifil;

(d) trwyddedai traffig awyr sy'n cynnal gweithgareddau a awdurdodir gan y drwydded;

(e) darparwr gwasanaeth post cyffredinol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth post cyffredinol;

(f) trwyddedai trydan;

(g) trawsgludydd nwy;

(h) person sydd wedi ei awdurdodi gan ddeddfiad i gyflawni ymgymeriad ar gyfer cyflenwi pŵer hydrolig;

(i) ymgymerwr dŵr neu ymgymerwr carthffosiaeth;

(j) Cyfoeth Naturiol Cymru;

(k) Asiantaeth yr Amgylchedd.

(2) Yn y Ddeddf hon, ystyr "ymgymeriad statudol" yw ymgymeriad ymgymerwr statudol, ond—

(a) mae cyfeiriadau at ymgymeriad statudol gweithredwr maes awyr perthnasol yn gyfeiriadau at faes awyr y mae Rhan 5 o Ddeddf Meysydd Awyr 1986 (p. 31) yn gymwys iddo;

(b) nid yw ymgymeriad person sy'n drwyddedai traffig awyr ond yn ymgymeriad statudol i'r graddau mai ymgymeriad y person fel trwyddedai ydyw;

(c) nid yw ymgymeriad darparwr gwasanaeth post cyffredinol ond yn ymgymeriad statudol i'r graddau y mae'n ymwneud â darparu gwasanaeth post cyffredinol.

### 304 Ystyr "tir gweithredol": ymgymerwyr statudol yn gyffredinol [j702]

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i ymgymerwr statudol heblaw'r Awdurdod Hedfan Sifil, trwyddedai traffig awyr neu ddarparwr gwasanaeth post cyffredinol (gweler adrannau 305[j703A] a 306[j703B] ynghylch y rheini).

(2) Yn y Ddeddf hon, ystyr "tir gweithredol", mewn perthynas ag ymgymerwr statudol y mae'r adran hon yn gymwys iddo, yw tir—

(a) sy’n cael ei ddefnyddio at ddiben cyflawni ymgymeriad statudol yr ymgymerwr, neu

(b) y mae’r ymgymerwr yn dal buddiant ynddo at y diben hwnnw,

ond nid yw’n cynnwys tir sydd, o ran ei natur a’i leoliad, yn gymaradwy â thir yn gyffredinol yn hytrach nag â thir sy’n cael ei ddefnyddio, neu y mae ymgymerwyr statudol yn dal buddiannau ynddo, at ddiben cyflawni ymgymeriadau statudol.

(3) Pan fo ymgymerwr statudol y mae’r adran hon yn gymwys iddo yn dal buddiant mewn tir at ddiben cyflawni ei ymgymeriad statudol, nid yw’r tir yn dir gweithredol oni fodlonir o leiaf un o’r amodau a ganlyn.

(4) Yr amod cyntaf yw bod caniatâd cynllunio penodol mewn grym, neu wedi bod mewn grym ar unrhyw adeg, ar gyfer datblygiad o’r tir sy’n ymwneud â defnydd ohono at ddiben cyflawni’r ymgymeriad statudol (gweler adran 307[j704]).

(5) Yr ail amod yw—

(a) yr oedd yr ymgymerwr statudol yn dal y buddiant yn y tir yn union cyn 6 Rhagfyr 1968 (y diwrnod y daeth adran 69 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968 (p. 72) i rym), a

(b) yr oedd y tir ar yr adeg honno yn dir gweithredol at ddibenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1962 (p. 38).

(6) Y trydydd amod yw—

(a) y caffaelodd yr ymgymerwr statudol ei fuddiant yn y tir o ganlyniad i drosglwyddiad o ymgymerwr statudol arall o dan—

(i) Rhan 2 o Ddeddf Meysydd Awyr 1986 (p. 31) (trosglwyddo ymgymeriadau meysydd awyr awdurdodau lleol i gwmnïau),

(ii) Rhan 2 o Ddeddf Nwy 1986 (p. 44) (trosglwyddo ymgymeriad Corfforaeth Nwy Prydain i gwmni),

(iii) Deddf Dŵr 1989 (p. 15) neu Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (p. 56) (trosglwyddiadau sy’n ymwneud ag ymgymerwyr dŵr, ymgymerwyr carthffosiaeth, etc.), neu

(iv) yn achos tir a ddelir gan Glandŵr Cymru, Ran 1 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 (p. 24) (trosglwyddo ymgymeriad Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain), a

(b) yr oedd y tir yn dir gweithredol yr ymgymerwr statudol arall yn union cyn y trosglwyddiad.

(7) Os bydd cwestiwn yn codi o dan y Ddeddf hon ynghylch a yw tir ymgymerwr statudol y mae’r adran hon yn gymwys iddo yn dir gweithredol, mae’r cwestiwn i’w benderfynu gan y Gweinidog priodol.

**305 Ystyr “tir gweithredol“: yr Awdurdod Hedfan Sifil a thrwyddedeion traffig awyr [j703A]**

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr “tir gweithredol“, mewn perthynas â’r Awdurdod Hedfan Sifil, yw tir—

(a) y mae'r Awdurdod yn ei ddefnyddio at ddiben gweithredu maes glanio (o fewn yr ystyr a roddir i "aerodrome" gan adran 105(1) o Ddeddf Hedfan Sifil 1982 (p. 16)) neu at unrhyw ddiben sy'n ategol i'r defnydd o'r tir at y diben hwnnw,

(b) y mae'r Awdurdod yn ei ddefnyddio at ddiben darparu cyfleusterau ar gyfer—

(i) rheoli traffig awyr, neu

(ii) cynorthwyo i lywio awyrennau, neu

(c) y mae'r Awdurdod yn dal buddiant ynddo at unrhyw un neu ragor o'r dibenion a grybwyllir ym mharagraff (a)[j703A] neu (b)[j703A].

(2) Caiff rheoliadau ddiwygio is-adran (1)[j703A] er mwyn ychwanegu, addasu neu ddileu disgrifiad o dir.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2)[j703A] bennu disgrifiad o dir drwy gyfeirio at unrhyw amgylchiadau o gwbl.

(4) Yn y Ddeddf hon, ystyr "tir gweithredol", mewn perthynas â thrwyddedai traffig awyr, yw tir—

(a) y mae'r trwyddedai, neu gwmni sy'n gysylltiedig ag ef, yn ei ddefnyddio at ddiben cynnal gweithgareddau a awdurdodir gan y drwydded, neu

(b) y mae'r trwyddedai, neu gwmni sy'n gysylltiedig ag ef, yn dal buddiant ynddo at y diben hwnnw.

(5) Os bydd cwestiwn yn codi o dan y Ddeddf hon ynghylch a yw tir trwyddedai traffig awyr yn dir gweithredol, mae'r cwestiwn i'w benderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**306 Ystyr "tir gweithredol": darparwyr gwasanaeth post cyffredinol [j703B]**

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "tir gweithredol", mewn perthynas â darparwr gwasanaeth post cyffredinol, yw tir—

(a) y mae'r darparwr yn ei ddefnyddio at ddiben gweithredu swyddfa ddidoli neu swyddfa ddosbarthu mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth post cyffredinol, neu

(b) y mae'r darparwr yn dal buddiant ynddo at y diben hwnnw.

(2) Pan fo darparwr gwasanaeth post cyffredinol yn dal buddiant mewn tir at ddiben a bennir yn is-adran (1)[j703B], nid yw'r tir yn dir gweithredol oni bai—

(a) bod caniatâd cynllunio penodol mewn grym, neu wedi bod mewn grym ar unrhyw adeg, ar gyfer datblygiad o'r tir sy'n ymwneud â defnydd ohono at y diben hwnnw (gweler adran 307[j704]), neu

(b) bod y darparwr wedi caffael ei fuddiant yn y tir o ganlyniad i drosglwyddiad o Swyddfa'r Post o dan Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 (p. 26) ac yn union cyn y trosglwyddiad yr oedd y tir yn dir gweithredol Swyddfa'r Post at ddibenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8).

(3) Caiff rheoliadau ddiwygio is-adran (1)[j703B] drwy reoliadau er mwyn ychwanegu, addasu neu ddileu disgrifiad o dir.

(4) Caiff y rheoliadau ddiwygio is-adran (1)[j703B] fel ei bod yn pennu unrhyw ddisgrifiad o dir—

(a) y mae darparwr gwasanaeth post cyffredinol, neu gwmni sy’n gysylltiedig ag ef, yn ei ddefnyddio at unrhyw ddiben mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth post cyffredinol, neu

(b) y mae’r darparwr, neu gwmni sy’n gysylltiedig ag ef, yn dal buddiant ynddo at unrhyw ddiben o’r fath.

(5) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon bennu disgrifiad o dir drwy gyfeirio at unrhyw amgylchiadau o gwbl.

**307 Ystyr “tir gweithredol”: darpariaeth atodol [j704]**

(1) Yn adrannau 304[j702] i 306[j703B], ystyr “caniatâd cynllunio penodol” yw caniatâd cynllunio—

(a) a roddir gan orchymyn datblygu pan fo’r datblygiad—

(i) yn cael ei ddisgrifio’n benodol yn y gorchymyn, neu

(ii) wedi ei gymeradwyo’n benodol gan Senedd Cymru neu Senedd y Deyrnas Unedig,

(b) a roddir gan orchymyn datblygu lleol,

(c) a roddir ar gais o dan y Ddeddf hon,

(d) a roddir gan gyfarwyddyd o dan adran 87[j457] (awdurdodiad gan adran o’r llywodraeth ar gyfer datblygiad), neu

(e) a roddir wrth benderfynu apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi o dan adran 133[j521].

(2) Yn is-adran (1)(a)(ii)[j704] mae’r cyfeiriad at ddatblygiad sydd wedi ei gymeradwyo’n benodol gan Senedd Cymru neu Senedd y Deyrnas Unedig yn gyfeiriad at ddatblygiad a awdurdodwyd gan—

(a) Deddf gan Senedd Cymru neu Senedd y Deyrnas Unedig,

(b) offeryn sydd wedi ei gymeradwyo gan Senedd Cymru neu gan ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig, neu

(c) offeryn sydd wedi dod yn weithredol ar ôl bod yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig Senedd Cymru neu weithdrefn arbennig Senedd y Deyrnas Unedig,

pan fo’r Ddeddf neu’r offeryn yn nodi’n benodol natur y datblygiad a’r tir y caniateir ei gynnal arno.

**308 Ystyr “Gweinidog priodol” [j705]**

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr “y Gweinidog priodol” yw—

(a) Gweinidogion Cymru mewn perthynas â—

(i) person sy’n cyflawni ymgymeriad rheilffordd, rheilffordd ysgafn, tramffordd neu drafnidiaeth ffyrdd;

(ii) person sy’n cyflawni ymgymeriad doc, harbwr, pier neu oleudy, heblaw ymgymeriad harbwr pan fo’r harbwr yn borthladd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl neu’n harbwr trawsffiniol;

(iii) gweithredwr maes awyr perthnasol, yr Awdurdod Hedfan Sifil neu drwyddedai traffig awyr;

(iv) ymgymerwr dŵr, ymgymerwr carthffosiaeth neu Gyfoeth Naturiol Cymru;

(b) yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â pherson sy'n cyflawni ymgymeriad trafnidiaeth ar ddŵr, camlas neu fordwyo mewndirol;

(c) yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth mewn perthynas â pherson sy'n cyflawni ymgymeriad harbwr pan fo'r harbwr yn borthladd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl neu'n harbwr trawsffiniol;

(d) yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach mewn perthynas â darparwr gwasanaeth post cyffredinol;

(e) yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net mewn perthynas â thrwyddedai trydan, trawsgludydd nwy neu berson sy'n cyflawni ymgymeriad ar gyfer cyflenwi pŵer hydrolig;

(f) yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag Asiantaeth yr Amgylchedd.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol i'w darllen—

(a) mewn achosion pan nad Gweinidogion Cymru yw'r Gweinidog priodol, fel cyfeiriadau at Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol yn gweithredu ar y cyd;

(b) mewn achosion pan mai Gweinidogion Cymru yw'r Gweinidog priodol, fel cyfeiriadau at Weinidogion Cymru yn unig.

(3) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at adran o'r llywodraeth a'r Gweinidog priodol i'w darllen—

(a) mewn achosion pan nad yr adran o'r llywodraeth yw'r Gweinidog priodol, fel cyfeiriadau at yr adran o'r llywodraeth a'r Gweinidog priodol yn gweithredu ar y cyd;

(b) mewn achosion pan mai'r adran o'r llywodraeth yw'r Gweinidog priodol, fel cyfeiriadau at yr adran o'r llywodraeth yn unig.

(4) Os bydd cwestiwn yn codi o dan y Ddeddf hon ynghylch pwy yw neu pwy oedd y Gweinidog priodol mewn perthynas ag ymgymerwr statudol, mae'r cwestiwn i'w benderfynu gan y Trysorlys.

(5) Nid yw is-adran (4)[j705] yn gymwys mewn perthynas â'r Awdurdod Hedfan Sifil, trwyddedai traffig awyr na darparwr gwasanaeth post cyffredinol.

(6) Yn is-adran (1)[j705]—

mae i "harbwr trawsffiniol" yr ystyr a roddir i "cross-border harbour" gan adran 34(5) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4);

mae i "porthladd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl" yr ystyr a roddir i "reserved trust port" gan adran 32 o Ddeddf Cymru 2017.

*Datblygiad a defnydd o dir ymgymerwyr statudol*

**309 Ceisiadau am ganiatâd cynllunio gan ymgymerwyr statudol [j706]**

(1) Mae is-adran (2)[j706] yn gymwys pan fo—

(a) ymgymerwr statudol yn gwneud cais i awdurdod cynllunio am ganiatâd cynllunio gweithredol a bo'r cais yn cael ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru o dan adran 72[j451],

(b) ymgymerwr statudol yn gwneud apêl i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio ar gais am ganiatâd cynllunio gweithredol neu ar apêl o dan adran 73(3)[j452] sy'n ymwneud â'r cais, neu

(c) ymgymerwr statudol yn gwneud apêl i Weinidogion Cymru o dan adran 131[j518] ar y sail y dylid rhoi caniatâd cynllunio gweithredol ar gyfer y materion a bennir mewn hysbysiad gorfodi neu y dylid dileu amod mewn caniatâd cynllunio gweithredol neu ddileu cyfyngiad ar ganiatâd cynllunio gweithredol.

(2) Rhaid mai Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol sydd i ymdrin â'r cais neu'r apêl os yw naill ai Gweinidogion Cymru neu'r Gweinidog priodol yn rhoi cyfarwyddyd i'r perwyl hwnnw.

(3) Nid yw cyfarwyddyd o dan is-adran (2)[j706] ond yn cael effaith mewn perthynas ag apêl i Weinidogion Cymru o dan adran 131[j518] i'r graddau y gwneir yr apêl ar y sail a grybwyllir yn is-adran (1)(c)[j706].

(4) Nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru neu (os rhoddir cyfarwyddyd o dan is-adran (2)[j706]) Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol ymdrin â chais sy'n ymwneud â datblygiad y mae awdurdodiad adran o'r llywodraeth yn ofynnol ar ei gyfer, oni bai bod yr awdurdodiad wedi ei roi heb gyfarwyddyd bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi.

(5) Mae'r Ddeddf hon yn gymwys i gais neu apêl y mae Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol yn ymdrin ag ef neu â hi o dan yr adran hon fel pe bai Gweinidogion Cymru wedi ymdrin â'r cais neu'r apêl.

(6) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (4)[j706] at awdurdodiad adran o'r llywodraeth i'w ddarllen yn unol ag adran 87[j457].

(7) Yn yr adran hon ac yn adrannau 310[j707] a 311[j708], ystyr "caniatâd cynllunio gweithredol" yw caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad—

(a) tir gweithredol ymgymerwr statudol, neu

(b) tir y mae ymgymerwr statudol yn dal neu'n cynnig caffael buddiant ynddo gyda'r bwriad o ddefnyddio'r tir at ddiben cyflawni ei ymgymeriad statudol, pan fo'r datblygiad yn ymwneud â defnydd o'r tir at y diben hwnnw.

(8) Mewn perthynas â'r Awdurdod Hedfan Sifil, mae'r cyfeiriad yn is-adran (7)(b)[J706] at ddefnyddio tir at ddiben cyflawni ei ymgymeriad i'w ddarllen fel cyfeiriad at ddefnyddio tir at ddiben a bennir yn adran 305(1)[j703A].

## 310 Rhoi caniatâd cynllunio amodol [j707]

Ni chaniateir rhoi caniatâd cynllunio gweithredol yn ddarostyngedig i amod a grybwyllir yn adran 67(3)(a)[j445] (caniatâd cynllunio a roddir am gyfnod cyfyngedig) heb gytundeb yr ymgymerwr statudol y mae'r caniatâd yn ymwneud â'i dir.

## 311 Addasu neu ddirymu caniatâd cynllunio [j708]

Mae adran 102[j465] ac Atodlen 7[J465S] (addasu neu ddirymu caniatâd cynllunio) yn cael effaith mewn perthynas â chaniatâd cynllunio gweithredol a roddir ar gais ymgymerwr statudol fel pe bai—

(a) y cyfeiriad at Weinidogion Cymru ym mharagraff 1(2)(b)[j465] o Atodlen 7[J465S] yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru neu Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol, a

(b) pob cyfeiriad arall at Weinidogion Cymru yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol.

**312 Gorchmynion datbarhau, gorchmynion gwahardd a gorchmynion diogelu[j709]**

Mae adrannau 206[j470] a 207[j470a] ac Atodlenni 14[J470S] a 15[J470C] (gorchmynion datbarhau, gorchmynion gwahardd a gorchmynion diogelu) yn cael effaith mewn perthynas â thir gweithredol ymgymerwr statudol fel pe bai—

(a) y cyfeiriad at Weinidogion Cymru ym mharagraff 4(3)[J470C] o Atodlen 15[J470C] yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru neu Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol, a

(b) pob cyfeiriad arall at Weinidogion Cymru yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol.

**313 Arddangos hysbysebion ar dir gweithredol [j720]**

Nid yw adrannau 309[j706] i 312[j709] yn gymwys mewn perthynas ag arddangos hysbysebion ar dir gweithredol ymgymerwr statudol.

*Ymgymerwyr statudol a gweithredwyr rhwydwaith: dod â hawliau i ben a symud ymaith gyfarpar*

**314 Hysbysiadau symud ymaith: dod â hawliau dros dir ymgymerwyr statudol a gweithredwyr rhwydwaith i ben etc. [j711]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo caffaeliad perthnasol neu gyfeddiant perthnasol o unrhyw dir wedi bod a—

(a) bo gan ymgymerwr statudol hawlogaeth i—

(i) hawl tramwy dros y tir, neu

(ii) hawl i osod, cadw neu gynnal a chadw cyfarpar ar y tir,

at ddiben cyflawni ei ymgymeriad, neu

(b) bo cyfarpar sy'n perthyn i ymgymerwr statudol ar y tir at ddiben cyflawni ei ymgymeriad.

(2) Mae'r adran hon hefyd yn gymwys pan fo caffaeliad perthnasol neu gyfeddiant perthnasol o unrhyw dir wedi bod a—

(a) bo gan weithredwr rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig hawlogaeth i—

(i) hawl tramwy dros y tir, neu

(ii) hawl i osod, cadw neu gynnal a chadw cyfarpar ar y tir,

a roddir gan y cod cyfathrebiadau electronig neu yn unol ag ef, neu

(b) bo cyfarpar cyfathrebiadau electronig wedi ei osod ar y tir at ddibenion rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig.

(3) Caiff yr awdurdod a gaffaelodd neu a gyfeddodd y tir gyflwyno hysbysiad symud ymaith i'r ymgymerwr neu'r gweithredwr.

(4) Hysbysiad yw hysbysiad symud ymaith—

(a) sy'n datgan y diddymir yr hawl y mae'n ymwneud â hi ar ddiwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, neu

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarpar y mae'n ymwneud ag ef gael ei symud ymaith cyn diwedd y cyfnod a bennir ynddo.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad fod o leiaf 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(6) Ni chaiff yr awdurdod a gaffaelodd neu a gyfeddodd y tir ond cyflwyno hysbysiad symud ymaith os yw wedi ei fodloni ei bod yn angenrheidiol i'r hawl gael ei diddymu neu i'r cyfarpar gael ei symud ymaith at ddiben cynnal unrhyw ddatblygiad y caffaelwyd neu y cyfeddwyd y tir gyda golwg ar ei gynnal.

(7) Mae'r diffiniadau o "caffaeliad perthnasol" a "cyfeddiant perthnasol" yn adran 274[j661] yn gymwys at ddibenion yr adran hon ond fel pe bai adran 274(4)[j661] wedi ei hepgor.

**315 Hysbysiadau symud ymaith: tynnu'n ôl neu gymryd effaith [j712]**

(1) Caiff ymgymerwr neu weithredwr y mae awdurdod wedi cyflwyno hysbysiad symud ymaith iddo o dan adran 314(3)[j711], o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y'i cyflwynwyd, gyflwyno gwrth-hysbysiad i'r awdurdod—

(a) sy'n datgan bod yr ymgymerwr neu'r gweithredwr yn gwrthwynebu holl ddarpariaethau neu unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r hysbysiad symud ymaith, a

(b) sy'n pennu sail y gwrthwynebiad.

(2) Pan na chyflwynir gwrth-hysbysiad—

(a) diddymir unrhyw hawl y mae'r hysbysiad symud ymaith yn ymwneud â hi ar ddiwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, a

(b) os, ar ddiwedd y cyfnod a bennir, na chydymffurfiwyd â gofyniad yn yr hysbysiad i symud ymaith gyfarpar, caiff yr awdurdod symud ymaith y cyfarpar a'i waredu mewn unrhyw ffordd y mae'n ystyried ei bod yn briodol.

(3) Os cyflwynir gwrth-hysbysiad i awdurdod lleol neu ymgymerwr statudol, caiff yr awdurdod neu'r ymgymerwr—

(a) tynnu'r hysbysiad symud ymaith yn ôl, neu

(b) gwneud cais i Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol am orchymyn sy'n ymgorffori darpariaethau'r hysbysiad symud ymaith, gydag addasiadau neu hebddynt.

(4) Os cyflwynir gwrth-hysbysiad i adran o'r llywodraeth—

(a) caiff yr adran o'r llywodraeth dynnu'r hysbysiad symud ymaith yn ôl, neu

(b) caiff yr adran o'r llywodraeth a'r Gweinidog priodol wneud gorchymyn sy'n ymgorffori darpariaethau'r hysbysiad symud ymaith, gydag addasiadau neu hebddynt.

(5) Nid yw tynnu hysbysiad yn ôl o dan is-adran (3)[j712] neu (4)[j712] yn atal yr awdurdod a gaffaelodd neu a gyfeddodd y tir rhag cyflwyno hysbysiad symud ymaith arall.

(6) Pan wneir gorchymyn o dan is-adran (3)[j712] neu (4)[j712]—

(a) diddymir unrhyw hawl y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hi ar ddiwedd y cyfnod a bennir ynddo, a

(b) os na chydymffurfiwyd â gofyniad i symud ymaith gyfarpar ar ddiwedd cyfnod a bennir ynddo, caiff yr awdurdod a gaffaelodd neu a gyfeddodd y tir symud ymaith y cyfarpar a'i waredu mewn unrhyw ffordd y mae'n ystyried ei bod yn briodol.

(7) Mae Rhan 1[J712S] o Atodlen 18[J712S] yn gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â gorchmynion o dan yr adran hon.

(8) At ddibenion is-adrannau (3)[j712] a (4)[j712] a Rhan 1[J712S] o Atodlen 18[J712S] fel y maent yn gymwys mewn perthynas â gorchmynion ynghylch hawliau neu gyfarpar gweithredwyr rhwydweithiau cod cyfathrebiadau electronig, y Gweinidog priodol yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

(9) Yn is-adran (3)[j712] a pharagraff 1(3)[j712] o Atodlen 18[J712S] mae "awdurdod lleol" yn cynnwys awdurdod lleol, o fewn yr ystyr a roddir i "local authority" gan adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8), ar gyfer ardal yn Lloegr, ac awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yn Lloegr.

**316 Pwerau ymgymerwyr statudol neu weithredwyr rhwydwaith i fynd ar dir er mwyn symud ymaith neu ail-leoli cyfarpar [j713]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) caffaeliad perthnasol neu gyfeddiant perthnasol o unrhyw dir wedi bod,

(b) cyfarpar sy'n perthyn i ymgymerwr statudol ar y tir, ac

(c) yr ymgymerwr yn honni, am resymau technegol neu am resymau eraill sy'n gysylltiedig â chyflawni ei ymgymeriad, fod datblygiad sydd i'w gynnal ar y tir yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarpar y mae'r datblygiad yn effeithio arno gael ei symud ymaith neu ei ail-leoli.

(2) Mae'r adran hon hefyd yn gymwys pan fo—

(a) caffaeliad perthnasol neu gyfeddiant perthnasol o unrhyw dir wedi bod,

(b) cyfarpar cyfathrebu electronig wedi ei osod ar y tir at ddibenion rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig, a

(c) gweithredwr y rhwydwaith yn honni, am resymau technegol neu resymau eraill sy'n gysylltiedig â darparu'r rhwydwaith, fod datblygiad sydd i'w gynnal ar y tir yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarpar y mae'r datblygiad yn effeithio arno gael ei symud ymaith neu ei ail-leoli.

(3) Caiff yr ymgymerwr neu'r gweithredwr gyflwyno i'r awdurdod a gaffaelodd neu a gyfeddodd y tir hysbysiad sy'n hawlio'r hawliau i fynd ar y tir a chynnal gwaith a bennir yn yr hysbysiad er mwyn symud ymaith neu ail-leoli'r cyfarpar.

(4) Rhaid cyflwyno hysbysiad o dan is-adran (3)[j713] cyn diwedd 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r datblygiad yn dechrau.

(5) Caiff awdurdod y cyflwynir hysbysiad iddo o dan is-adran (3)[j713], o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y'i cyflwynwyd, gyflwyno gwrth-hysbysiad i'r ymgymerwr neu'r gweithredwr—

(a) sy'n datgan bod yr awdurdod yn gwrthwynebu holl ddarpariaethau neu unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r hysbysiad a gyflwynwyd o dan is-adran (3)[j713], a

(b) sy'n pennu sail y gwrthwynebiad.

(6) Pan na chyflwynir gwrth-hysbysiad erbyn diwedd y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (5)[j713], mae gan yr ymgymerwr neu'r gweithredwr a gyflwynodd yr hysbysiad o dan is-adran (3)[j713] yr hawliau a hawlir yn yr hysbysiad.

(7) Pan fo gwrth-hysbysiad yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd y cyfnod hwnnw, caiff yr ymgymerwr neu'r gweithredwr—

(a) tynnu'r hysbysiad a gyflwynwyd ganddo o dan is-adran (3)[j713] yn ôl, neu

(b) gwneud cais i Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol am orchymyn sy'n rhoi iddo yr hawliau a hawlir yn yr hysbysiad o dan is-adran (3)[j713] neu unrhyw hawliau addasedig y mae Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol yn ystyried eu bod yn briodol.

(8) Pan fo gan ymgymerwr neu weithredwr yr hawl i gynnal gwaith ar dir yn rhinwedd is-adran (6)[j713] neu orchymyn o dan is-adran (7)[j713], caiff yn lle hynny drefnu gyda'r awdurdod a gaffaelodd neu a gyfeddodd y tir i'r gwaith gael ei gynnal gan yr awdurdod hwnnw o dan ei oruchwyliaeth.

(9) At ddibenion is-adran (7)[j713] fel y mae'n gymwys mewn perthynas â gorchmynion sy'n rhoi hawliau i weithredwyr rhwydweithiau cod cyfathrebiadau electronig, y Gweinidog priodol yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

(10) Mae'r diffiniadau o "caffaeliad perthnasol" a "cyfeddiant perthnasol" yn adran 274[j661] yn gymwys at ddibenion yr adran hon ond fel pe bai adran 274(4)[j661] wedi ei hepgor.

*Estyn neu addasu swyddogaethau ymgymerwyr statudol*

**317 Gorchmynion i estyn neu addasu swyddogaethau ymgymerwyr statudol [j714]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol yn ystyried—

(a) yn sgil sylw a gyflwynir gan ymgymerwr statudol, y dylid estyn neu addasu swyddogaethau'r ymgymerwr er mwyn—

(i) sicrhau y darperir gwasanaethau na fyddent yn cael eu darparu fel arall, neu na fyddent yn cael eu darparu'n foddhaol, at unrhyw ddiben y caiff awdurdod lleol neu adran o'r llywodraeth wneud caffaeliad perthnasol ar ei gyfer, neu

(ii) hwyluso addasiad i gyflawniad ei ymgymeriad, pan fo gweithred neu ddigwyddiad a grybwyllir yn is-adran (3)[j714] yn gwneud yr addasiad yn angenrheidiol, neu

(b) yn sgil sylw a gyflwynir gan awdurdod lleol neu adran o'r llywodraeth y dylid estyn neu addasu swyddogaethau ymgymerwr statudol er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau newydd, neu yr estynnir gwasanaethau presennol, at unrhyw ddiben y caiff yr awdurdod sy'n cyflwyno'r sylw wneud caffaeliad perthnasol ar ei gyfer.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol ddarparu drwy orchymyn ar gyfer unrhyw estyniad o swyddogaethau'r ymgymerwr neu unrhyw addasiad iddynt y maent yn ystyried ei fod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y darperir neu yr estynnir y gwasanaethau neu i hwyluso'r addasiad.

(3) Y gweithredoedd a'r digwyddiadau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(a)(ii)[j714] yw—

(a) penderfyniad ar gais a wnaed gan yr ymgymerwr statudol am ganiatâd cynllunio i ddatblygu unrhyw dir a ddefnyddiwyd, neu yr oedd yr ymgymerwr yn dal buddiant ynddo, at ddiben cyflawni ei ymgymeriad;

(b) addasu neu ddirymu caniatâd cynllunio a roddwyd ar gais o'r fath;

(c) gwneud gorchymyn datbarhau mewn perthynas ag unrhyw dir a grybwyllir ym mharagraff (a)[j714];

(d) caffaeliad perthnasol o unrhyw dir o'r fath;

(e) diddymu hawl neu osod gofyniad yn rhinwedd hysbysiad o dan adran 314[j711] neu orchymyn o dan adran 315[j712].

(4) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon—

(a) rhoi pŵer i'r ymgymerwr statudol—

(i) i gaffael (pa un ai yn orfodol neu drwy gytundeb) unrhyw dir a bennir yn y gorchymyn, a

(ii) i godi unrhyw adeiladau, neu i adeiladu unrhyw waith, a bennir yn y gorchymyn;

(b) cymhwyso, mewn perthynas ag arfer pŵer o'r fath, unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â chaffael tir neu adeiladu gwaith;

(c) os y'i gwneir er mwyn sicrhau y darperir neu yr estynnir gwasanaethau, wneud darpariaeth ar gyfer rhoi effaith i drefniadau ariannol—

(i) sydd i'w cytuno rhwng yr ymgymerwr statudol ac awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru, neu

(ii) sydd, yn absenoldeb cytundeb, i'w penderfynu mewn ffordd, a chan dribiwnlys, a bennir yn y gorchymyn;

(d) gwneud darpariaeth ddeilliadol neu ddarpariaeth atodol.

(5) Nid yw is-adran (4)[j714] yn cyfyngu ar yr hyn y caniateir darparu ar ei gyfer mewn gorchymyn o dan yr adran hon.

(6) Pan fo—

(a) gorchymyn o dan yr adran hon yn estyn neu'n addasu pwerau a dyletswyddau ymgymerwr statudol, a

(b) awdurdod lleol yn gwneud taliad i'r ymgymerwr yn unol â threfniadau ariannol y mae'r gorchymyn yn rhoi effaith iddynt o dan is-adran (4)(c)[j714],

caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol arall i gyfrannu swm y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn rhesymol, gan roi sylw i unrhyw fudd sy'n cronni i'r awdurdod arall hwnnw o ganlyniad i'r gorchymyn.

(7) Mae Rhan 2[J712S] o Atodlen 18[J712S] yn gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â gorchmynion o dan yr adran hon.

(8) Mae'r diffiniad o "caffaeliad perthnasol" yn adran 274[j661] yn gymwys at ddibenion yr adran hon ond fel pe bai adran 274(4)[j661] wedi ei hepgor.

(9) Yn is-adrannau (1)[j714], (4)[j714] a (6)[j714] a pharagraff 3(1)[j714] o Atodlen 18[J712S] mae "awdurdod lleol" yn cynnwys awdurdod lleol, o fewn yr ystyr a roddir i "local authority" gan adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8), ar gyfer ardal yn Lloegr, ac awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yn Lloegr.

*Rhyddhau ymgymerwyr statudol o rwymedigaethau anymarferol*

### 318 Gorchmynion i ryddhau ymgymerwyr statudol o rwymedigaethau anymarferol [j715]

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r Gweinidog priodol wedi ei fodloni, yn sgil sylw a gyflwynwyd gan ymgymerwr statudol, ei bod yn anymarferol i'r ymgymerwr fodloni rhwymedigaeth sy'n ymwneud â chyflawni ei ymgymeriad oherwydd gweithred neu ddigwyddiad a grybwyllir yn is-adran (3)[j715].

(2) Caiff y Gweinidog priodol ddarparu drwy orchymyn bod yr ymgymerwr i gael ei ryddhau o'r angen i fodloni'r rhwymedigaeth, naill ai'n llwyr neu i'r graddau a bennir yn y gorchymyn.

(3) Y gweithredoedd a'r digwyddiadau y cyfeirir atynt yn is-adran (1)[j715] yw—

(a) caffael yn orfodol unrhyw dir a ddefnyddiwyd, neu yr oedd ymgymerwr statudol yn dal buddiant ynddo, at ddiben cyflawni ymgymeriad statudol, pan fo'r tir—

(i) wedi ei gaffael o dan Ran 10 neu Ran 11,

(ii) wedi ei gaffael o dan Bennod 5 o Ran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol, neu

(iii) yng Nghymru ac wedi ei gaffael o dan unrhyw ddeddfiad arall heblaw Rhan 9 neu 10 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8) neu Bennod 5 o Ran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p. 9);

(b) y gweithredoedd a'r digwyddiadau a bennir ym mharagraffau (a)[j714] i (c)[j714] ac (e)[j714] o adran 317(3)[j714].

(4) Mae Rhan 3[J712S] o Atodlen 18[J712S] yn gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â gorchmynion o dan yr adran hon.

*Digolledliad*

### 319 Yr hawl i ddigolllediad am effeithiau penderfyniadau cynllunio a gorchmynion penodol [j716]

(1) Mae gan ymgymerwr statudol hawlogaeth i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod cynllunio yn unol ag adran 321[j718]—

(a) mewn cysylltiad â phenderfyniad a wnaed yn unol ag adran 309[j706] sy'n gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir gweithredol ymgymerwr statudol neu'n ei roi yn ddarostyngedig i amodau pan—

(i) byddai caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad wedi ei roi gan orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol oni bai am gyfarwyddyd a roddwyd o dan y gorchymyn nad yw'r caniatâd yn gymwys i'r datblygiad, a

(ii) nad yw'n ddatblygiad sydd wedi ei gymeradwyo'n benodol gan Senedd Cymru na Senedd y Deyrnas Unedig (o fewn ystyr adran 307(2)[j704]), neu

(b) mewn cysylltiad â gorchymyn a wnaed o dan adran 102[j465], fel y mae'n cael effaith yn rhinwedd adran 311[j708], sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio a roddwyd ar gais ymgymerwr statudol ar gyfer datblygiad tir gweithredol yr ymgymerwr.

(2) Rhaid i hawliad am ddigollediad o dan is-adran (1)[j716] gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 12 mis gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir y penderfyniad cynllunio neu (yn ôl y digwydd) y mae'r addasiad neu'r dirymiad yn cymryd effaith.

(3) Nid yw is-adran (1)[j716] yn gymwys mewn cysylltiad â phenderfyniad neu orchymyn os yw—

(a) yn ymwneud â thir a gaffaelwyd gan yr ymgymerwr statudol ar ôl 7 Ionawr 1947, a

(b) Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol yn cynnwys yn y penderfyniad neu'r gorchymyn gyfarwyddyd nad yw is-adran (1)[j716] yn gymwys iddo.

(4) Ni chaiff Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol roi cyfarwyddyd o dan is-adran (3)[J716] onid ydynt wedi eu bodloni, o roi sylw i natur, lleoliad a datblygiad presennol y tir ac unrhyw dir cyfagos, ac i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, ei bod yn afresymol y dylai digollediad fod yn daladwy mewn cysylltiad â'r penderfyniad neu'r gorchymyn o dan sylw.

(5) Yn is-adran (1)[j716]—

(a) ystyr "yr awdurdod cynllunio" yw'r awdurdod cynllunio y mae'r tir gweithredol o dan sylw yn ei ardal;

(b) at ddiben y cyfeiriad at roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau, rhaid anwybyddu unrhyw amod y mae caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig iddo yn rhinwedd adran 93[j458] neu 94[j459] (cyfnodau ar gyfer dechrau datblygiad a gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl) neu Atodlen 5[J445B] (hyd datblygiad mwynau).

**320 Hawliau i ddigolledìad am ddod â hawliau dros dir i ben etc. [j717]**

(1) Pan fo, yn rhinwedd adran 315[j712]—

(a) hawl y mae gan ymgymerwr statudol hawlogaeth iddi yn cael ei diddymu, neu

(b) gofyniad yn cael ei osod ar ymgymerwr statudol,

mae gan yr ymgymerwr hawlogaeth, wrth wneud hawliad i'r awdurdod a gaffaelodd neu a gyfeddodd y tir y mae'r hawl neu'r gofyniad yn ymwneud ag ef, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod yn unol ag adran 321[j718].

(2) Pan fo, yn rhinwedd adran 315[j712]—

(a) hawl y mae gan weithredwr rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig hawlogaeth iddi yn cael ei diddymu, neu

(b) gofyniad yn cael ei osod ar weithredwr o'r fath,

mae gan y gweithredwr hawlogaeth, wrth wneud hawliad i'r awdurdod a gaffaelodd neu a gyfeddodd y tir y mae'r hawl neu'r gofyniad yn ymwneud ag ef, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod yn unol ag adran 321[J718].

(3) Pan—

(a) bo gwaith yn cael ei gynnal ar gyfer symud ymaith neu ail-leoli cyfarpar ymgymerwr statudol, a

(b) bo gan yr ymgymerwr yr hawl i gynnal y gwaith hwnnw yn rhinwedd adran 316[j713] neu orchymyn a wnaed o dan yr adran honno,

mae gan yr ymgymerwr hawlogaeth, wrth wneud hawliad i'r awdurdod a gaffaelodd neu a gyfeddodd y tir yr oedd y cyfarpar arno, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod yn unol ag adran 321[J718].

**321 Asesu digolledu [j718]**

(1) Mae swm y digollediad sy'n daladwy yn yr achosion a grybwyllir yn is-adran (2)[j718] i'w asesu yn unol â'r adran hon (ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 322[j719]).

(2) Yr achosion yw'r rhai pan fo gan—

(a) ymgymerwr statudol hawlogaeth i gael ei ddigolledu—

(i) o dan adran 319(1)[j716] neu 320(1)[j717] neu (3)[j717],

(ii) o dan adran 211[j613] mewn cysylltiad â gorchymyn datbarhau a wnaed o dan adran 206[j470] neu orchymyn gwahardd neu orchymyn diogelu a wnaed o dan baragraff 1[J470C] neu 5[J470C] o Atodlen 15[J470C], fel y mae'r darpariaethau hynny yn cael effaith yn rhinwedd adran 312[j709], neu

(iii) mewn cysylltiad â chaffael tir yr ymgymerwr yn orfodol o dan orchymyn prynu gorfodol a gadarnhawyd neu a wnaed heb dystysgrif y Gweinidog priodol, pan fo'r tir wedi ei gaffael gan yr ymgymerwr at ddiben ei ymgymeriad;

(b) gweithredwr rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig hawlogaeth i gael ei ddigolledu o dan adran 320(2)[j717].

(3) Y swm sy'n daladwy yw cyfanred—

(a) swm y gwariant yr aed iddo yn rhesymol wrth gaffael tir, darparu cyfarpar, codi adeiladau neu wneud gwaith at ddiben addasiad busnes, pan fo'r addasiad yn dod yn angenrheidiol o ganlyniad i'r weithred sy'n arwain at ddigollediad,

(b) y swm priodol am golli elw, ac

(c) pan fo'r digollediad yn daladwy o dan adran 320(1)[j717] neu (2)[j717] ac mewn cysylltiad â gosod gofyniad i symud ymaith gyfarpar, swm y gwariant yr aeth yr ymgymerwr statudol neu'r gweithredwr iddo'n rhesymol wrth gydymffurfio â'r gofyniad, wedi ei leihau yn ôl gwerth y cyfarpar o dan sylw ar ôl ei symud ymaith.

(4) Yn is-adran (3)(b)[j718] ystyr "y swm priodol am golli elw" yw—

(a) pan wneir addasiad busnes, cyfanred—

(i) swm amcangyfrifedig unrhyw ostyngiad mewn derbyniadau net o gyflawni'r ymgymeriad neu ddarparu'r rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig hyd nes y gwneir yr addasiad, i'r graddau y gellir priodoli'r gostyngiad yn uniongyrchol i'r weithred sy'n arwain at ddigollediad, a

(ii) unrhyw swm yr ymddengys ei fod yn ddigolllediad rhesymol am unrhyw ostyngiad amcangyfrifedig mewn derbyniadau net o gyflawni'r ymgymeriad neu ddarparu'r rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig yn y cyfnod ar ôl i'r addasiad gael ei gwblhau, i'r graddau y gellir priodoli'r gostyngiad yn uniongyrchol i'r addasiad;

(b) pan na wneir addasiad busnes, unrhyw swm yr ymddengys ei fod yn ddigolllediad rhesymol am unrhyw ostyngiad amcangyfrifedig mewn derbyniadau net o gyflawni'r ymgymeriad neu ddarparu'r rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r weithred sy'n arwain at ddigolllediad.

(5) Pan wneir addasiad busnes, mae'r swm cyfanredol a grybwyllir yn is-adran (3)[j718] yn cael ei leihau yn ôl swm priodol (os o gwbl) er mwyn gwrthbwyso—

(a) gwerth amcangyfrifedig unrhyw eiddo sy'n perthyn i'r ymgymerwr statudol neu'r gweithredwr (pa un a yw'n symudol neu sefydlog) sy'n peidio â chael ei ddefnyddio i gyflawni'r ymgymeriad neu i ddarparu'r rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig oherwydd yr addasiad, i'r graddau nad yw gwerth yr eiddo wedi ei ystyried o dan is-adran (3)(c)[j718], a

(b) swm amcangyfrifedig unrhyw gynnydd mewn derbyniadau net o gyflawni'r ymgymeriad neu ddarparu'r rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig yn y cyfnod ar ôl i'r addasiad gael ei gwblhau, i'r graddau nad yw wedi ei ystyried wrth benderfynu'r swm a grybwyllir yn is-adran (3)(b)[j718] ac y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r addasiad.

(6) Pan wneir addasiad busnes, mae'r swm cyfanredol a grybwyllir yn is-adran (3)[j718] yn cael ei leihau hefyd yn ôl swm priodol (os o gwbl), gan roi sylw i unrhyw gynnydd yng ngwerth cyfalaf eiddo sefydlog sy'n perthyn i'r ymgymerwr statudol neu'r gweithredwr y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r addasiad, ond gan ystyried hefyd unrhyw leihad a wneir o dan is-adran (5)(b)[j718].

(7) Pan—

(a) bo digolllediad yn daladwy o dan adran 320(3)[j717], a

(b) cynhaliodd yr awdurdod a gaffaelodd neu a gyfeddodd y tir yr oedd y cyfarpar arno y gwaith ar gyfer symud ymaith neu ail-leoli'r cyfarpar,

caiff y swm cyfanredol a grybwyllir yn is-adran (3)[j718] ei ostwng yn ôl y gost wirioneddol i'r awdurdod o gynnal y gwaith (yn ogystal ag unrhyw ostyngiad i'r swm cyfanredol yn unol ag is-adrannau (5)[j718] a (6)[j718]).

(8) Yn yr adran hon mae cyfeiriadau at ostyngiad mewn derbyniadau net yn gyfeiriadau—

(a) at swm y gostyngiad mewn balans derbyniadau dros wariant,

(b) at swm y cynnydd mewn balans gwariant dros dderbyniadau, neu

(c) pan fo balans derbyniadau dros wariant yn cael ei drosi'n falans gwariant dros dderbyniadau, at gyfanred y ddau falans,

ac mae cyfeiriadau at gynnydd mewn derbyniadau net i'w dehongli yn unol â hynny.

(9) Yn yr adran hon—

ystyr "addasiad busnes" ("*business adjustment*") yw unrhyw addasiad o—

(a) cyflawni ymgymeriad statudol, neu

(b) darparu rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig;

ystyr "gweithred sy'n arwain at ddigolllediad" ("*proceeding giving rise to compensation*") yw—

(c) mewn perthynas â digolllediad sy'n daladwy o dan adran 320(3)[j717], yr amgylchiadau sy'n ei gwneud yn angenrheidiol i'r cyfarpar o dan sylw gael ei symud ymaith neu ei ail-leoli;

(d) mewn perthynas â digolllediad sy'n daladwy o dan unrhyw ddarpariaeth arall a grybwyllir yn yr adran hon, y cam gweithredu (sef y penderfyniad, y gorchymyn, y diddymu hawl, y gosod gofyniad neu'r caffaeliad) y mae digolllediad yn daladwy mewn cysylltiad ag ef (sy'n wahanol i unrhyw ddatblygiad neu unrhyw brosiect y gallai'r cam gweithredu fod wedi ei gymryd mewn cysylltiad ag ef);

ystyr "tystysgrif y Gweinidog priodol" ("*the appropriate Minister's certificate*") yw tystysgrif a grybwyllir yn adran 16(2) o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p. 67) neu baragraff 3(2) o Atodlen 3 iddi (tystysgrif y caniateir prynu tir gweithredol yn orfodol heb niwed difrifol i ymgymeriad; gweler hefyd adran 31 o'r Ddeddf honno, sy'n datgymhwyso adran 16(2) a pharagraff 3(2) mewn achosion penodol).

**322 Pŵer ymgymerwyr statudol i eithrio adran 321 [j719]**

(1) Pan fo gan ymgymerwr statudol hawlogaeth i gael ei ddigolledu mewn cysylltiad â chaffaeliad gorfodol a grybwyllir yn adran 321(2)(a)(iii)[j718], caiff yr ymgymerwr drwy hysbysiad ysgrifenedig ddewis bod y digolllediad i'w asesu yn unol â'r deddfiadau (heblaw rheol (5) o'r rheolau a nodir yn adran 5 o Ddeddf Digolllediad Tir 1961 (p. 33)) a fyddai'n gymwys oni bai am adran 321[j718].

(2) Os yw'r ymgymerwr statudol yn dewis felly, rhaid i'r digolllediad gael ei asesu yn unol â'r deddfiadau hynny.

(3) Caiff ymgymerwr statudol ddewis bod digolllediad i'w asesu yn unol â'r deddfiadau hynny naill ai mewn cysylltiad â'r cyfan o'r tir sy'n ddarostyngedig i'r caffaeliad gorfodol neu mewn cysylltiad â rhan o'r tir.

(4) Rhaid rhoi hysbysiad o dan yr adran hon i'r awdurdod caffael o fewn dau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â buddiant yr ymgymerwr statudol.

(5) Mewn achos pan fo hysbysiad i drafod telerau yn cael ei drin fel pe bai wedi ei gyflwyno yn rhinwedd deddfiad, mae'r cyfeiriad yn is-adran (4)[j719] at y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad i drafod telerau i'w ddarllen fel cyfeiriad at y diwrnod y mae'r hysbysiad yn cael ei drin fel pe bai wedi ei gyflwyno.

# RHAN 13

## TIR O DAN FALLTOD

*Termau allweddol*

**323 Termau allweddol [j951]**

(1) Yn y Rhan hon, ystyr “tir o dan falltod” yw tir yng Nghymru sy’n dod o fewn paragraff o Ran 1[J951S] o Atodlen 19[J951S].

(2) Yn y Rhan hon, ystyr “hysbysiad malltod” yw hysbysiad o dan adran 324[j952], 346[j974] neu 348[j977] sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r awdurdod priodol brynu buddiant yn y cyfan neu ran o hereditament neu uned amaethyddol sy’n dir o dan falltod neu sy’n cynnwys tir o dan falltod.

(3) Yn y Rhan hon, ystyr “buddiant cymhwysol” yw—

(a) buddiant mewn hereditament neu ran o hereditament sy’n bodloni’r amod cyntaf neu’r ail amod, neu

(b) buddiant mewn uned amaethyddol neu ran o uned amaethyddol sy’n fuddiant perchen-feddiannydd ar yr uned.

(4) Yr amod cyntaf yw bod y buddiant yn fuddiant perchen-feddiannydd preswyl ar yr hereditament.

(5) Yr ail amod yw—

(a) bod y buddiant yn fuddiant perchen-feddiannydd ar yr hereditament, a

(b) nad yw gwerth blynyddol yr hereditament yn fwy na swm a bennir mewn rheoliadau.

(6) Mae Rhannau 2[J951S] i 4[J951S] o Atodlen 19[J951S] yn gwneud darpariaeth ynghylch ystyr—

(a) perchen-feddiannydd, perchen-feddiannydd preswyl a gwerth blynyddol,

(b) awdurdod priodol, ac

(c) deddfiad priodol.

*Hysbysiadau malltod*

**324 Hysbysiad sy’n ei gwneud yn ofynnol prynu tir o dan falltod [j952]**

(1) Pan fo person yn honni bod yr amodau yn is-adran (3)[j952] wedi eu bodloni, caiff y person gyflwyno hysbysiad malltod o dan yr adran hon i awdurdod priodol.

(2) Rhaid i reoliadau bennu ffurf yr hysbysiad malltod.

(3) Yr amodau yw—

(a) bod y cyfan neu ran o hereditament neu uned amaethyddol yn dir o dan falltod,

(b) bod gan y person hawlogaeth i fuddiant cymhwysol yn yr hereditament hwnnw neu’r uned amaethyddol honno, ac

(c) bod un o’r canlynol yn gymwys—

(i) bod y person wedi gwneud ymdrechion rhesymol i werthu'r buddiant hwnnw ac, oherwydd bod yr hereditament, yr uned neu'r rhan yn dir o dan falltod neu'n debygol o fod yn dir o dan falltod, wedi methu â gwerthu'r buddiant cymhwysol ac eithrio am bris gostyngol,

(ii) bod y tir yn dod o fewn paragraff 18[J951S], 19[J951S], 21[J951S], 23[J951S], 25[J951S] neu 27[J951S] o Atodlen19[J951S] a bod y pwerau caffael gorfodol yn parhau i fod yn arferadwy, neu

(iii) bod y tir yn dod o fewn paragraff 24[J951S] neu 26[J951S] o Atodlen 19[J951S].

(4) Yn is-adran (3)(c)(i)[j952], ystyr "pris gostyngol" yw pris sy'n sylweddol is na'r pris y gellid bod wedi disgwyl yn rhesymol i'r buddiant gael ei werthu amdano pe na bai unrhyw ran o'r hereditament neu'r uned yn dir o dan falltod, neu'n debygol o fod yn dir o dan falltod.

(5) Rhaid cyflwyno'r hysbysiad malltod mewn cysylltiad â'r cyfan o fuddiant y person yn yr hereditament neu'r uned (pa un a yw'r buddiant hwnnw yn y cyfan neu ran o'r hereditament neu'r uned).

*Gwrth-hysbysiadau*

**325 Gwrth-hysbysiad yn gwrthwynebu hysbysiad malltod [j954]**

(1) Pan fo hysbysiad malltod wedi ei gyflwyno, caiff yr awdurdod priodol gyflwyno gwrth-hysbysiad i'r hawlydd o dan yr adran hon yn gwrthwynebu'r hysbysiad.

(2) Rhaid i reoliadau bennu ffurf gwrth-hysbysiad.

(3) Rhaid cyflwyno gwrth-hysbysiad cyn diwedd 2 fis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad malltod.

(4) Rhaid i wrth-hysbysiad bennu ar ba seiliau y mae'r awdurdod priodol yn gwrthwynebu'r hysbysiad malltod.

(5) Rhaid i'r seiliau fod yn un neu ragor o'r seiliau a bennir yn adran 326[j955] neu, os yw'n berthnasol, adran 336(3)[j964], 347(1)[j976] neu 349(1)[j979].

**326 Seiliau gwrthwynebiad i hysbysiad malltod [j955]**

(1) Sail 1 yw nad yw unrhyw ran o'r hereditament neu'r uned amaethyddol y mae'r hysbysiad malltod yn ymwneud ag ef neu hi yn dir o dan falltod.

(2) Sail 2 yw nad yw'r awdurdod priodol yn cynnig, wrth arfer pwerau caffael—

(a) caffael buddiant mewn unrhyw ran o'r hereditament, neu yn achos uned amaethyddol, unrhyw ran o'r ardal yr effeithir arni,

[(b) yn achos tir sy'n dod o fewn paragraff 27[J951S] o Atodlen 19[J951S], gymryd meddiant dros dro o unrhyw ran o'r hereditament neu'r ardal,] nac

(c) pan fo'r deddfiad priodol yn rhoi pŵer i gaffael hawliau dros dir, gaffael buddiant mewn unrhyw ran o'r hereditament neu'r ardal, neu gaffael unrhyw hawl dros unrhyw ran o'r hereditament neu'r ardal.

(3) Sail 3 yw—

(a) bod yr awdurdod priodol yn cynnig, wrth arfer pwerau caffael, gaffael buddiant mewn rhan o'r hereditament, neu, yn achos uned amaethyddol, ran o'r ardal yr effeithir arni, a bennir yn y gwrth-hysbysiad, ond

(b) nad yw'r awdurdod priodol yn cynnig—

(i) caffael buddiant mewn unrhyw ran arall o'r hereditament hwnnw neu'r ardal honno wrth arfer y pwerau hynny, na

(ii) pan fo'r deddfiad priodol yn rhoi pŵer i gaffael hawliau dros dir, gaffael buddiant mewn unrhyw ran arall o'r hereditament hwnnw neu'r ardal honno, neu gaffael unrhyw hawl dros unrhyw ran arall o'r hereditament hwnnw neu'r ardal honno wrth arfer y pwerau hynny.

(4) Sail 4 yw, yn achos tir sy'n dod o fewn paragraff 1[J951S], 2[J951S] neu 12[J951S] ond nad yw hefyd yn dod o fewn paragraff 13[J951S], 14[J951S] neu 15[J951S] o Atodlen 19[J951S], nad yw'r awdurdod priodol yn cynnig, yn ystod y cyfnod perthnasol ac wrth arfer pwerau caffael—

(a) caffael buddiant mewn unrhyw ran o'r hereditament neu, yn achos uned amaethyddol, unrhyw ran o'r ardal yr effeithir arni, na

(b) pan fo'r deddfiad priodol yn rhoi pŵer i gaffael hawliau dros dir, gaffael buddiant mewn unrhyw ran o'r hereditament neu'r ardal, neu gaffael unrhyw hawl dros unrhyw ran o'r hereditament neu'r ardal.

(5) Yn is-adran (4)[J955], "y cyfnod perthnasol" yw—

(a) y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd y gwrth-hysbysiad ac sy'n dod i ben â—

(i) pan fo'r tir wedi ei nodi gan gynllun datblygu perthnasol (o fewn ystyr paragraff 1[J951S] o Atodlen 1[J951S]), diwedd y cyfnod a bennir yn y cynllun fel y cyfnod y mae i gael effaith ynddo;

(ii) pan fo'r tir wedi ei nodi gan Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (o fewn ystyr paragraff 2[J951S] o Atodlen 19[J951S], diwedd y cyfnod a bennir yn y Fframwaith fel y cyfnod y mae i gael effaith ynddo, neu

(b) cyfnod hwy sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd y gwrth-hysbysiad ac a bennir yn y gwrth-hysbysiad.

(6) Sail 5 yw, ar y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad o dan adran 324[J952], nad oedd gan yr hawlydd hawlogaeth i fuddiant mewn unrhyw ran o'r hereditament neu'r uned amaethyddol y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef neu hi.

(7) Sail 6 yw (am resymau a bennir yn y gwrth-hysbysiad) nad yw buddiant yr hawlydd yn fuddiant cymhwysol.

(8) Sail 7 yw nad yw'r amod a bennir yn adran 324(3)(c)[j952] wedi ei fodloni.

(9) Yn yr adran hon, ystyr "pwerau caffael" yw pwerau y mae'r awdurdod priodol wedi ei awdurdodi odanynt, neu y gellid ei awdurdodi odanynt, i gaffael buddiant mewn tir yn orfodol, [i gymryd meddiant dros dro o dir yn orfodol (yn achos tir sy'n dod o fewn paragraff 27[J951S] o Atodlen 19[J951S])] neu gaffael unrhyw hawliau dros dir yn orfodol—

(a) fel tir sy'n dod o fewn paragraff o Atodlen 19[J951S], neu

(b) at ddiben y mae’r tir, yn unol â’r amgylchiadau y mae’r tir yn dod o fewn paragraff o’r Atodlen honno yn eu rhinwedd, yn agored i gael ei gaffael neu wedi ei nodi fel tir y cynigir ei gaffael.

(10) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriadau at Seiliau 1 i 7 yn gyfeiriadau at y seiliau a grybwyllir yn yr adran hon.

**327 Seiliau gwrthwynebiad: darpariaeth bellach [j956]**

(1) Ni chaniateir gwneud gwrthwynebiad ar Sail 4 os caniateir ei wneud ar Sail 2.

(2) Pan fo hysbysiad malltod wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â thir sy’n dod o fewn paragraff 28[J951S] neu 29[J951S] o Atodlen 19[J951S], ni chaniateir gwneud gwrthwynebiad ar Sail 2.

**328 Gwrth-hysbysiad pellach pan fo cynigion penodol yn dod i rym [j957]**

(1) Mae is-adran (2)[j957]yn gymwys—

(a) pan fo awdurdod priodol wedi cyflwyno gwrth-hysbysiad sy’n gwrthwynebu hysbysiad malltod mewn cysylltiad â thir sy’n dod o fewn y ddarpariaeth yn Atodlen 19[J951S] a bennir yn ail golofn y tabl, a

(b) pan fo’r digwyddiad a bennir yn y cofnod cyfatebol yn nhrydedd golofn y tabl yn digwydd.

TABL 2

| Disgrifiad | Darpariaeth yn Atodlen 19[J951S] | Digwyddiad |
|---|---|---|
| Tir a nodwyd ar gyfer swyddogaethau cyhoeddus gan gynllun datblygu perthnasol (neu gynllun diwygiedig) sy’n destun archwiliad annibynnol | Paragraff 1 oherwydd paragraff (c) neu (d) yn y diffiniad o “cynllun datblygu perthnasol” ym mharagraff 1(2) | Caiff y cynllun ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo (pa un ai ar ei ffurf wreiddiol neu gydag addasiadau) |
| Tir a nodwyd ar gyfer swyddogaethau cyhoeddus gan ddrafft o’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (neu Fframwaith diwygiedig) a osodwyd gerbron Senedd Cymru | Paragraff 2 oherwydd paragraff (b) neu (c) yn y diffiniad o “Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru” ym mharagraff 2(3) | Caiff y Fframwaith ei gyhoeddi (pa un ai ar ei ffurf wreiddiol neu gyda newidiadau) |
| Tir a nodwyd ar gyfer priffordd arfaethedig mewn gorchymyn neu gynllun a gyflwynwyd i’w gadarnhau gan Weinidogion Cymru neu a luniwyd ganddynt ar ffurf drafft | Paragraff 13 oherwydd is-baragraff (2)(b) o’r paragraff hwnnw | Daw’r gorchymyn neu gynllun yn weithredol (pa un ai ar ei ffurf wreiddiol neu gydag addasiadau) |

(2) Caiff yr awdurdod priodol gyflwyno gwrth-hysbysiad pellach i’r hawlydd o dan adran 325[j954] sydd—

(a) yn pennu seiliau gwahanol i'r gwrthwynebiad, a

(b) yn lle'r gwrth-hysbysiad cynharach.

(3) Nid yw adran 325(3)[j954] yn gymwys i wrth-hysbysiad pellach, ond yn hytrach rhaid cyflwyno hysbysiad o'r fath cyn diwedd 2 fis gan ddechrau â'r diwrnod y mae'r digwyddiad a bennir yn y cofnod yn nhrydedd golofn y tabl yn digwydd.

(4) Ni chaniateir cyflwyno gwrth-hysbysiad pellach os—

(a) yw'r gwrthwynebiad yn y gwrth-hysbysiad blaenorol wedi ei dynnu'n ôl, neu

(b) yw'r Uwch Dribiwnlys eisoes wedi penderfynu pa un ai i gadarnhau'r gwrthwynebiad hwnnw ai peidio.

**329 Atgyfeirio gwrthwynebiad i Uwch Dribiwnlys: cyffredinol [j958]**

(1) Pan fo awdurdod priodol wedi cyflwyno gwrth-hysbysiad yn gwrthwynebu hysbysiad malltod, caiff yr hawlydd atgyfeirio'r gwrthwynebiad i'r Uwch Dribiwnlys.

(2) Yn achos gwrth-hysbysiad pellach, mae is-adran (1)[J958] yn gymwys pa un a atgyfeiriwyd y gwrthwynebiad yn y gwrth-hysbysiad cynharach ai peidio.

(3) Pan gaiff gwrthwynebiad ei atgyfeirio, rhaid i'r Uwch Dribiwnlys ystyried—

(a) y materion a nodir yn yr hysbysiad malltod, a

(b) seiliau'r gwrthwynebiad a bennir yn y gwrth-hysbysiad.

(4) Rhaid i'r Uwch Dribiwnlys wrthod gwrthwynebiad ar Sail 2, 3 neu 4 oni ddangosir er boddhad yr Uwch Dribiwnlys bod sail dda i'r gwrthwynebiad.

(5) Rhaid i'r Uwch Dribiwnlys wrthod gwrthwynebiad ar Sail 3 oni bai ei fod hefyd wedi ei fodloni y gellir cymryd y rhan benodedig o'r hereditament neu'r ardal yr effeithir arni—

(a) yn achos tŷ, adeilad neu ffatri, heb niwed sylweddol i'r tŷ, adeilad neu ffatri, neu

(b) yn achos parc neu ardd sy'n perthyn i dŷ, heb effeithio'n ddifrifol ar amwynder neu gyfleustra'r tŷ.

(6) Rhaid i'r Uwch Dribiwnlys gadarnhau gwrthwynebiad ar unrhyw sail arall a bennir yn y gwrth-hysbysiad oni ddangosir er boddhad yr Uwch Dribiwnlys nad oes sail dda i'r gwrthwynebiad.

(7) Os yw'r Uwch Dribiwnlys yn gwrthod y gwrthwynebiad, rhaid iddo gadarnhau'r hysbysiad malltod.

(8) Os yw'r Uwch Dribiwnlys yn cadarnhau'r gwrthwynebiad ond dim ond ar Sail 3, rhaid iddo gadarnhau'r hysbysiad malltod—

(a) mewn perthynas â'r rhan benodedig o'r hereditament neu'r ardal yr effeithir arni, ond

(b) nid mewn perthynas ag unrhyw ran arall o'r hereditament neu'r ardal yr effeithir arni.

(9) Pan fo is-adran (7)[j958] neu (8)[j958] yn gymwys, rhaid i'r Uwch Dribiwnlys roi cyfarwyddydau sy'n pennu'r diwrnod y mae hysbysiad i drafod telerau (fel y'i crybwyllir yn adrannau 331(2)(b)[j959] a 332(4)(b)[j960]]) i'w drin fel pe bai wedi ei gyflwyno.

(10) Yn is-adrannau (5)[j958] ac (8)[j958], ystyr “rhan benodedig” yw’r rhan o’r hereditament neu’r rhan o’r ardal yr effeithir arni a bennir yn y gwrth-hysbysiad fel y rhan y mae’r awdurdod priodol yn cynnig ei gaffael.

**330 Effaith gwrthwynebiad pan na fo atgyfeiriad wedi ei wneud i’r Uwch Dribiwnlys [j958A]**

(1) Mae is-adran (2)[j958A] yn gymwys pan fo—

(a) gwrth-hysbysiad yn gwrthwynebu hysbysiad malltod wedi ei gyflwyno ac nad yw wedi ei dynnu’n ôl, a

(b) y cyfnod ar gyfer atgyfeirio’r gwrthwynebiad i’r Uwch Dribiwnlys yn dod i ben heb iddo gael ei atgyfeirio.

(2) Mae’r hawlydd i’w drin fel pe bai wedi tynnu’r hysbysiad malltod yn ôl.

*Hysbysiadau malltod pan na fo gwrthwynebiad neu pan gânt eu cadarnhau gan yr Uwch Dribiwnlys*

**331 Effaith hysbysiad malltod[j959]**

(1) Mae is-adran (2)[j959] yn gymwys pan fo hysbysiad malltod wedi ei gyflwyno a—

(a) nad oes unrhyw wrth-hysbysiad yn gwrthwynebu’r hysbysiad hwnnw wedi ei gyflwyno o dan adran 325[j954], neu

(b) bod gwrth-hysbysiad wedi ei gyflwyno ond bod y gwrthwynebiad wedi ei dynnu’n ôl neu wedi ei wrthod gan yr Uwch Dribiwnlys.

(2) Mae’r awdurdod priodol i’w drin fel pe bai—

(a) wedi ei awdurdodi i gaffael yn orfodol o dan y deddfiad priodol—

(i) buddiant yr hawlydd yn yr hereditament, neu

(ii) yn achos uned amaethyddol, buddiant yr hawlydd yn yr ardal yr effeithir arni, a

(b) wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â’r buddiant hwnnw ar y diwrnod a grybwyllir yn is-adran (3)[j959].

(3) Y diwrnod yw—

(a) y diwrnod a bennir mewn cyfarwyddydau a roddir gan yr Uwch Dribiwnlys o dan adran 329(9)[j958], neu

(b) pan na fo adran 329(9)[j958] yn gymwys, diwrnod olaf y cyfnod o 2 fis.

(4) Y cyfnod o 2 fis yw 2 fis sy’n dechrau â’r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad malltod.

**332 Hysbysiad malltod mewn cysylltiad â rhan o hereditament neu uned[j960]**

(1) Mae is-adran (4)[j960] yn gymwys—

(a) pan fo’r awdurdod priodol wedi cyflwyno gwrth-hysbysiad yn gwrthwynebu hysbysiad malltod ar Sail 3, a

(b) pan fodlonir yr amod cyntaf neu’r ail amod.

(2) Yr amod cyntaf yw nad yw'r hawlydd yn atgyfeirio'r gwrthwynebiad i'r Uwch Dribiwnlys, ond cyn diwedd y cyfnod ar gyfer ei atgyfeirio, yn cyflwyno hysbysiad i'r awdurdod priodol—

(a) yn derbyn ei gynnig i gaffael buddiant yn y rhan o'r hereditament neu'r ardal yr effeithir arni a bennir yn y gwrth-hysbysiad, a

(b) yn tynnu'n ôl yr hysbysiad malltod mewn perthynas â gweddill yr hereditament hwnnw neu weddill yr ardal honno.

(3) Yr ail amod yw bod yr Uwch Dribiwnlys yn cadarnhau'r hysbysiad malltod o dan adran 329(8)[j958] mewn perthynas â'r rhan o'r hereditament neu'r ardal yr effeithir arni a bennir yn y gwrth-hysbysiad.

(4) Mae'r awdurdod priodol i'w drin—

(a) fel pe bai wedi ei awdurdodi i gaffael yn orfodol o dan y deddfiad priodol fuddiant yr hawlydd yn y rhan o'r hereditament neu'r ardal yr effeithir arni a bennir yn y gwrth-hysbysiad (ond nid mewn unrhyw ran arall o'r hereditament neu'r ardal), a

(b) fel pe bai wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â'r buddiant hwnnw ar y diwrnod a grybwyllir yn is-adran (5)[j960].

(5) Y diwrnod yw—

(a) y diwrnod y cyflwynir hysbysiad o dan is-adran (2)[j960], neu

(b) pan fo is-adran (3)[j960] yn gymwys, y diwrnod a bennir mewn cyfarwyddydau a roddir gan yr Uwch Dribiwnlys o dan adran 329(9)[j958].

*Effaith Seiliau 2, 3 a 4 ar bwerau caffael gorfodol*

**333 Effaith ar bwerau caffael gorfodol pan na fo bwriad i gaffael[j961]**

(1) Mae is-adran (2)[j961] yn gymwys pan fo gwrthwynebiad ar Sail 2 neu 4 yn cael ei wneud mewn gwrth-hysbysiad a—

(a) pan fo'r gwrthwynebiad yn cael ei gadarnhau gan yr Uwch Dribiwnlys, neu

(b) pan fo'r cyfnod ar gyfer atgyfeirio'r gwrthwynebiad i'r Uwch Dribiwnlys yn dod i ben heb iddo gael ei atgyfeirio.

(2) Mae pŵer caffael gorfodol yn peidio â chael effaith mewn perthynas â buddiant yr hawlydd yn y rhan honno o'r tir perthnasol y mae'r gwrth-hysbysiad yn ymwneud â hi.

(3) Yn yr adran hon—

ystyr "pŵer caffael gorfodol" ("*compulsory acquisition power*") yw pŵer a roddir gan y deddfiad priodol—

(a) i gaffael buddiant mewn tir perthnasol yn orfodol, neu gaffael hawliau dros dir perthnasol yn orfodol, [neu

(b) ar gyfer cymryd meddiant dros dro o dir perthnasol yn orfodol,] ;

ystyr "tir perthnasol" ("*relevant land*") yw tir sy'n neu sy'n cynnwys, y cyfan neu ran o'r hereditament neu'r uned amaethyddol y mae'r gwrth-hysbysiad yn ymwneud ag ef neu hi.

**334 Effaith ar bwerau caffael gorfodol pan fwriedir caffael rhan[j962]**

(1) Mae is-adran (2)[j962] yn gymwys pan fo gwrthwynebiad ar Sail 3 yn cael ei wneud mewn gwrth-hysbysiad a—

(a) pan fo'r gwrthwynebiad yn cael ei gadarnhau gan yr Uwch Dribiwnlys, neu

(b) pan fo'r cyfnod ar gyfer atgyfeirio'r gwrthwynebiad i'r Uwch Dribiwnlys yn dod i ben heb iddo gael ei atgyfeirio.

(2) Mae pŵer caffael gorfodol yn peidio â chael effaith mewn perthynas â buddiant yr hawlydd yn y rhan amhenodedig.

(3) Yn yr adran hon, ystyr "pŵer caffael gorfodol" yw pŵer a roddir gan y deddfiad priodol i gaffael buddiant mewn tir perthnasol yn orfodol neu gaffael hawliau dros dir perthnasol yn orfodol.

(4) Yn yr adran hon—

ystyr "rhan amhenodedig" ("*unspecified part*") yw'r cyfan o'r hereditament neu'r ardal yr effeithir arni y mae'r gwrth-hysbysiad yn ymwneud ag ef neu hi ac eithrio'r rhan a bennir yn y gwrth-hysbysiad fel y rhan y mae'r awdurdod priodol yn bwriadu caffael buddiant ynddi;

ystyr "tir perthnasol" ("*relevant land*") yw tir sy'n rhan amhenodedig neu'n cynnwys rhan amhenodedig.

*Hysbysiad malltod sy'n ei gwneud yn ofynnol prynu ardal nad effeithir arni o uned amaethyddol*

**335 Gofyniad i brynu rhannau o unedau amaethyddol nad effeithir arnynt gan falltod[j963]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—

(a) hawlydd yn cyflwyno hysbysiad malltod mewn cysylltiad â buddiant mewn uned amaethyddol gyfan neu ran ohoni, a

(b) ar y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad malltod, yr uned amaethyddol gyfan honno neu'r rhan honno yn cynnwys tir nad yw'n dir o dan falltod ("yr ardal nad effeithir arni") yn ogystal â thir o dan falltod.

(2) Caiff yr hawlydd gynnwys yn yr hysbysiad malltod—

(a) hawliad na ellir yn rhesymol ffermio'r ardal nad effeithir arni fel uned amaethyddol ar wahân, naill ai ar ei phen ei hun neu ar y cyd â thir perthnasol arall, a

(b) gofyniad bod yr awdurdod priodol yn prynu buddiant yr hawlydd yn yr uned gyfan, neu yn y cyfan o'r rhan o'r uned y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi.

(3) Yn is-adran (2)[j963] ac adran 336(3)[j964], ystyr "tir perthnasol arall" yw—

(a) os cyflwynir yr hysbysiad malltod mewn cysylltiad â buddiant mewn rhan o'r uned amaethyddol, gweddill yr uned honno;

(b) tir—

(i) sy'n unrhyw uned amaethyddol arall a feddiannir gan yr hawlydd ar y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad malltod neu'n ffurfio rhan ohoni, a

(ii) y mae'r hawlydd ar y diwrnod hwnnw â hawlogaeth i fuddiant perchennog ynddo (fel y'i diffinnir ym mharagraff 34(1)[J951S] o Atodlen 19[J951S]),

(ond gweler adran 337(3)[j965] ar gyfer y diffiniad o "tir perthnasol arall" pan fo gwrthwynebiad ar Sail 3).

**336 Sail gwrthwynebiad ychwanegol i hysbysiad malltod sy'n cynnwys gofyniad i brynu ardal nad effeithir arni[j964]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo hawlydd yn cyflwyno hysbysiad malltod sy'n cynnwys yr hawliad a'r gofyniad a grybwyllir yn adran 335(2)[j963].

(2) Caniateir i wrthwynebiad mewn gwrth-hysbysiad i'r hysbysiad malltod gael ei wneud ar Sail 8.

(3) Sail 8 yw y gellir yn rhesymol ffermio'r ardal nad effeithir arni fel uned amaethyddol ar wahân, naill ai ar ei phen ei hun neu ar y cyd â thir perthnasol arall.

(4) Ni chaniateir gwneud gwrthwynebiad mewn gwrth-hysbysiad i'r hysbysiad malltod ar Sail 3 oni bai ei fod hefyd yn cael ei wneud ar Sail 8.

(5) Yn yr adran hon ac adrannau 337[j965] i 340[j968], 347[j976] a 349[j979], mae cyfeiriadau at Sail 8 yn gyfeiriadau at y sail a grybwyllir yn is-adran (3)[j964].

**337 Uwch Dribiwnlys: gwrthwynebiad i hysbysiad malltod sy'n cynnwys gofyniad i brynu ardal nad effeithir arni[j965]**

(1) Os yw'r Uwch Dribiwnlys yn cadarnhau gwrthwynebiad i hysbysiad malltod ar Sail 8 yn unig, rhaid iddo gadarnhau'r hysbysiad malltod mewn perthynas â'r ardal yr effeithir arni ond nid mewn perthynas â'r ardal nad effeithir arni.

(2) Mae is-adrannau (3)[j965] i (6)[j965] yn gymwys pan fo seiliau gwrthwynebiad i hysbysiad malltod yn cynnwys Sail 8 a Sail 3.

(3) Wrth benderfynu pa un ai i gadarnhau'r gwrthwynebiad ai peidio, rhaid i'r Uwch Dribiwnlys drin y rhan honno o'r ardal yr effeithir arni nas pennir yn y gwrth-hysbysiad fel pe bai wedi ei chynnwys mewn "tir perthnasol arall" fel y'i diffinnir yn adran 335(3)[j963].

(4) Ni chaiff yr Uwch Dribiwnlys gadarnhau'r gwrthwynebiad ar Sail 3 oni bai ei fod hefyd yn ei gadarnhau ar Sail 8.

(5) Os yw'r Uwch Dribiwnlys yn cadarnhau'r gwrthwynebiad ar Sail 8 ac ar Sail 3 ill dau (ond nid ar unrhyw seiliau eraill), rhaid iddo gadarnhau'r hysbysiad malltod mewn perthynas â'r rhan o'r ardal yr effeithir arni a bennir yn y gwrth-hysbysiad fel y rhan y mae'r awdurdod priodol yn cynnig caffael buddiant ynddi, ond nid mewn perthynas ag unrhyw ran arall o'r ardal yr effeithir arni neu mewn perthynas â'r ardal nad effeithir arni.

(6) Pan fo is-adran (1)[j965] neu (5)[j965] yn gymwys, rhaid i'r Uwch Dribiwnlys roi cyfarwyddydau sy'n pennu'r diwrnod y mae hysbysiad i drafod telerau (fel y'i crybwyllir yn adrannau 331(2)(b)[j959], 332(4)(b)[j960] a 339(3)(b)[j967]) i'w drin fel pe bai wedi ei gyflwyno.

**338 Effaith hysbysiad malltod sy'n cynnwys gofyniad i brynu ardal nad effeithir arni[j966]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo hawlydd yn cyflwyno hysbysiad malltod sy'n cynnwys yr hawliad a'r gofyniad a grybwyllir yn adran 335(2)[j963].

(2) Mae adran 331(2)[j959] yn cael effaith fel pe bai cyfeiriadau at fuddiant yr hawlydd yn yr ardal yr effeithir arni yn gyfeiriadau at fuddiant yr hawlydd yn yr uned amaethyddol.

(3) Nid yw adran 332[j960] yn gymwys mewn perthynas â'r hysbysiad malltod.

**339 Effaith hysbysiad malltod pan fo hawliad mewn cysylltiad ag ardal nad effeithir arni yn cael ei dynnu'n ôl neu ei wrthod[j967]**

(1) Mae is-adran (3)[j967] yn gymwys pan na fo'r awdurdod priodol ond wedi cyflwyno gwrth-hysbysiad yn gwrthwynebu hysbysiad malltod ar Sail 8, ac—

(a) nad yw'r hawlydd yn atgyfeirio'r gwrthwynebiad i'r Uwch Dribiwnlys, ond

(b) cyn diwedd y cyfnod ar gyfer ei atgyfeirio, fod yr hawlydd yn cyflwyno hysbysiad i'r awdurdod priodol yn tynnu'n ôl yr hysbysiad malltod mewn perthynas â'r ardal nad effeithir arni.

(2) Mae is-adran (3)[j967] hefyd yn gymwys pan fo'r Uwch Dribiwnlys yn cadarnhau hysbysiad malltod o dan adran 337(1)[j965] mewn perthynas â'r ardal yr effeithir arni ond nid mewn perthynas â'r ardal nad effeithir arni.

(3) Mae'r awdurdod priodol i'w drin fel pe bai—

(a) wedi ei awdurdodi i gaffael yn orfodol o dan y deddfiad priodol fuddiant yr hawlydd yn yr ardal yr effeithir arni (ond nid yn yr ardal nad effeithir arni), a

(b) wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad ag ef ar y diwrnod a grybwyllir yn is-adran (4)[j967].

(4) Y diwrnod yw—

(a) y diwrnod y cyflwynir hysbysiad o dan is-adran (1)(b)[j967], neu

(b) pan fo is-adran (2)[j967] yn gymwys, y diwrnod a bennir mewn cyfarwyddydau a roddir gan yr Uwch Dribiwnlys o dan adran 337(6)[j965].

**340 Effaith hysbysiad malltod pan fo hawliad mewn cysylltiad ag ardal nad effeithir arni a rhan o ardal yr effeithir arni yn cael ei dynnu'n ôl neu ei wrthod[j968]**

(1) Mae is-adran (3)[j968] yn gymwys pan fo'r awdurdod priodol wedi cyflwyno gwrth-hysbysiad yn gwrthwynebu hysbysiad malltod ar Sail 8 ac ar Sail 3 (ond nid ar unrhyw seiliau eraill), ac—

(a) nad yw'r hawlydd yn atgyfeirio'r gwrthwynebiad i'r Uwch Dribiwnlys, ond

(b) bod yr hawlydd, cyn diwedd y cyfnod ar gyfer ei atgyfeirio, yn cyflwyno hysbysiad i'r awdurdod priodol—

(i) yn derbyn ei gynnig i gaffael buddiant yn y rhan o'r ardal yr effeithir arni a bennir yn y gwrth-hysbysiad, a

(ii) yn tynnu'n ôl yr hysbysiad malltod mewn perthynas â gweddill yr ardal honno a'r ardal nad effeithir arni.

(2) Mae is-adran (3)[j968] hefyd yn gymwys pan fo'r Uwch Dribiwnlys yn cadarnhau'r hysbysiad malltod o dan adran 337(5)[j965] mewn cysylltiad â'r rhan honno o'r ardal yr effeithir arni a bennir yn y gwrth-hysbysiad, ond nid mewn perthynas ag unrhyw ran arall o'r ardal yr effeithir arni nac mewn perthynas â'r ardal nad effeithir arni.

(3) Mae'r awdurdod priodol i'w drin fel pe bai—

(a) wedi ei awdurdodi i gaffael yn orfodol o dan y deddfiad priodol fuddiant yr hawlydd yn y rhan o'r ardal yr effeithir arni a bennir yn y gwrth-hysbysiad (ond nid yn unrhyw ran arall o'r ardal honno nac yn yr ardal nad effeithir arni), a

(b) wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad ag ef ar y diwrnod a grybwyllir yn is-adran (4)[j968].

(4) Y diwrnod yw—

(a) y diwrnod y cyflwynir hysbysiad o dan is-adran (1)(b)[j968], neu

(b) pan fo is-adran (2)[j968] yn gymwys, y diwrnod a bennir mewn cyfarwyddydau a roddir gan yr Uwch Dribiwnlys o dan adran 337(6)[j965].

*Tynnu hysbysiad malltod yn ôl*

**341 Tynnu hysbysiad malltod yn ôl[j969]**

(1) Ni chaiff hawlydd dynnu hysbysiad malltod yn ôl ar ôl diwedd 6 wythnos sy’n dechrau â’r diwrnod y mae’r Uwch Dribiwnlys yn penderfynu’r digolllediad sy’n daladwy am gaffaeliad gorfodol yn unol â’r hysbysiad malltod.

(2) Ni chaiff hawlydd ychwaith dynnu hysbysiad malltod yn ôl ar ôl i’r awdurdod priodol arfer hawl i fynd ar dir a chymryd meddiant ohono yn unol â hysbysiad i drafod telerau y mae’r awdurdod yn cael ei drin fel pe bai wedi ei gyflwyno o ganlyniad i’r hysbysiad malltod.

(3) Pan fo hawlydd yn tynnu hysbysiad malltod yn ôl a bod yr awdurdod priodol yn cael ei drin fel pe bai wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau o ganlyniad i’r hysbysiad malltod—

(a) mae’r awdurdod i’w drin fel pe bai wedi tynnu’n ôl yr hysbysiad i drafod telerau, ond

(b) nid yw’r awdurdod yn agored i dalu digolledlad mewn perthynas â thynnu’r hysbysiad yn ôl.

*Digolledlad: achosion arbennig*

**342 Digolledlad: achosion pan anwybyddir y posibilrwydd o ganiatâd cynllunio [j969A]**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo buddiant mewn tir yn cael ei gaffael yn unol â hysbysiad malltod,

(b) pan fo gorchymyn prynu gorfodol mewn grym sy’n awdurdodi caffael y buddiant, ac

(c) pan fo’r gorchymyn yn cynnwys cyfarwyddyd bod digolledlad i’w asesu yn unol ag adran 14A o Ddeddf Digolledlad Tir 1961 (p. 33) (achosion pan anwybyddir y posibilrwydd o ganiatâd cynllunio).

(2) Mae’r digolledlad sy’n daladwy am y caffaeliad i’w asesu—

(a) yn unol â’r cyfarwyddyd yn y gorchymyn prynu gorfodol, a

(b) fel pe bai’r hysbysiad i drafod telerau a grybwyllir yn adran 331[j959] neu 332[j960] wedi ei gyflwyno yn unol â’r gorchymyn.

**343 Digolledlad: adeiladau rhestredig y mae angen eu hatgyweirio[j970]**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo buddiant mewn tir yn cael ei gaffael yn unol â hysbysiad malltod,

(b) pan fo gorchymyn prynu gorfodol mewn grym sy'n awdurdodi caffael y buddiant o dan adran 137 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (caffael adeilad rhestredig yn orfodol at ddiben ei ddiogelu), a

(c) pan fo'r gorchymyn yn cynnwys cyfarwyddyd ar gyfer digolledIad isafol o dan adran 140 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (adeiladau y caniatawyd iddynt fynd i gyflwr gwael yn fwriadol).

(2) Mae'r digollediad sy'n daladwy am y caffael i'w asesu—

(a) yn unol â'r cyfarwyddyd yn y gorchymyn prynu gorfodol, a

(b) fel pe bai'r hysbysiad i drafod telerau a grybwyllir yn adran 331[j959] neu 332[j960] wedi ei gyflwyno yn unol â'r gorchymyn.

**344 Digollediad: hysbysiad malltod sy'n cynnwys hawliad mewn cysylltiad ag ardal nad effeithir arni[j972]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo, yn rhinwedd adran 338[j966], fuddiant yn cael ei gaffael mewn tir sydd—

(a) yr ardal nad effeithir arni o uned amaethyddol, neu

(b) pan fo'r awdurdod priodol wedi cyflwyno gwrth-hysbysiad yn gwrthwynebu'r hysbysiad malltod ar Sail 3, yn faint bynnag o'r ardal yr effeithir arni o'r uned nas pennir yn y gwrth-hysbysiad.

(2) Mae'r digollediad sy'n daladwy am y caffaeliad i'w asesu—

(a) gan ragdybio na fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi ar gyfer unrhyw ddatblygiad o'r tir, a

(b) gan anwybyddu unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiad o'r tir, i'r graddau nad yw'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef wedi ei gyflawni.

*Cynrychiolwyr personol*

**345 Pwerau cynrychiolwyr personol mewn cysylltiad â hysbysiad malltod a gyflwynwyd cyn marwolaeth[j973]**

Mewn perthynas ag unrhyw adeg ar ôl marwolaeth person sydd wedi cyflwyno hysbysiad malltod, mae adrannau 325(1)[j954], 328(2)[j957], 329(1)[j958], 332(2)[j960], 339(1)[j967], 340(1)[j968] a 341[j969] yn gymwys fel pe bai'r cyfeiriadau ynddynt at yr hawlydd yn gyfeiriadau at gynrychiolwyr personol yr hawlydd.

**346 Pŵer cynrychiolydd personol i gyflwyno hysbysiad malltod [j974]**

(1) Pan fo person yn honni bod yr amodau yn is-adran (3)[j974] wedi eu bodloni, caiff y person gyflwyno hysbysiad malltod o dan yr adran hon i awdurdod priodol.

(2) Rhaid i reoliadau bennu ffurf yr hysbysiad malltod.

(3) Yr amodau yw—

(a) bod y cyfan neu ran o hereditament neu uned amaethyddol yn dir o dan falltod,

(b) mai'r person yw cynrychiolydd personol person ("yr ymadawedig") a oedd yn union cyn ei farwolaeth â hawlogaeth i fuddiant yn yr hereditament hwnnw neu'r uned honno,

(c) y byddai'r buddiant wedi bod yn fuddiant cymhwysol pe bai hysbysiad o dan adran 324[j952] wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad ag ef yn union cyn y farwolaeth,

(d) bod un o'r canlynol yn berthnasol—

(i) bod y person wedi gwneud ymdrechion rhesymol i werthu'r buddiant hwnnw ac, oherwydd bod yr hereditament, yr uned neu'r rhan yn dir o dan falltod neu'n debygol o fod yn dir o dan falltod, wedi methu â gwerthu'r buddiant cymhwysol ac eithrio am bris gostyngol,

(ii) bod y tir yn dod o fewn paragraff 18[J951S], 19[J951S], 21[J951S], 23[J951S], 25[J951S] neu 27[J951S] o Atodlen 19[J951S] a bod y pwerau caffael gorfodol yn parhau i fod yn arferadwy, neu

(iii) bod y tir yn dod o fewn paragraff 24[J951S] neu 26[J951S] o Atodlen 19[J951S], ac

(e) bod gan un neu ragor o unigolion (ac nid unrhyw gorff corfforedig) hawlogaeth lesiannol i'r buddiant hwnnw.

(4) Yn is-adran (3)(d)(i)[j974], ystyr "pris gostyngol" yw pris sy'n sylweddol is na'r pris y gellid bod wedi disgwyl yn rhesymol i'r buddiant gael ei werthu amdano pe na bai unrhyw ran o'r hereditament neu'r uned yn dir o dan falltod neu'n debygol o fod yn dir o dan falltod.

(5) Rhaid cyflwyno'r hysbysiad malltod mewn cysylltiad â'r hyn a oedd y cyfan o fuddiant yr ymadawedig yn yr hereditament neu'r uned (pa un a oedd y buddiant hwnnw yn y cyfan neu ran o'r hereditament neu'r uned).

**347 Seiliau gwrthwynebiad i hysbysiad malltod a gyflwynir gan gynrychiolwyr personol [j976]**

(1) Y seiliau y caniateir gwneud gwrthwynebiad arnynt mewn gwrth-hysbysiad o dan adran 325[j954] i hysbysiad malltod a gyflwynir o dan adran 346[j974] yw—

(a) Sail 1;

(b) Sail 2;

(c) Sail 3;

(d) Sail 4 (yn achos tir sy'n dod o fewn paragraff 1[J951S], 2[J951S] neu 12[J951S] ond nid hefyd o fewn paragraff 13[J951S], 14[J951S] neu 15[J951S] o Atodlen 19[J951S]);

(e) nad yw'r hawlydd yn gynrychiolydd personol yr ymadawedig;

(f) nad oedd gan yr ymadawedig, yn union cyn ei farwolaeth, hawlogaeth i fuddiant mewn unrhyw ran o'r hereditament neu'r uned amaethyddol y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef neu hi;

(g) na fyddai buddiant yr ymadawedig wedi bod yn fuddiant cymhwysol (am resymau a bennir yn y gwrth-hysbysiad) pe bai hysbysiad o dan adran 324[j952] wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad ag ef yn union cyn y farwolaeth;

(h) nad oes unrhyw un o'r amodau a bennir yn adran 346(3)(d)[j974] wedi ei fodloni;

(i) nad yw'r amod a bennir yn adran 346(3)(e)[j974] wedi ei fodloni;

(j) Sail 8.

(2) Gweler adrannau 327[J956] a 336(4)[J964] ar gyfer darpariaeth bellach ynghylch seiliau gwrthwynebiad.

*Morgeiseion*

**348 Pŵer morgeisai i gyflwyno hysbysiad malltod[j977]**

(1) Pan fo person yn honni bod yr amodau yn is-adran (3)[j977] wedi eu bodloni, caiff y person gyflwyno hysbysiad malltod o dan yr adran hon i awdurdod priodol.

(2) Rhaid i reoliadau bennu ffurf yr hysbysiad malltod.

(3) Yr amodau yw—

(a) bod y cyfan neu ran o hereditament neu uned amaethyddol yn dir o dan falltod,

(b) bod gan y person hawlogaeth fel morgeisai (yn rhinwedd pŵer sydd wedi dod yn arferadwy) i werthu buddiant yn yr hereditament neu'r uned, gan roi meddiant gwag ar unwaith ar y tir,

(c) bod un o'r canlynol yn gymwys—

(i) bod y person wedi gwneud ymdrechion rhesymol i werthu'r buddiant hwnnw ac, oherwydd bod yr hereditament, yr uned neu'r rhan yn dir o dan falltod neu'n debygol o fod yn dir o dan falltod, wedi methu â gwerthu'r buddiant cymhwysol ac eithrio am bris gostyngol,

(ii) bod y tir yn dod o fewn paragraff 18[J951S], 19[J951S], 21[J951S], 23[J951S], 25[J951S] neu 27[J951S] o Atodlen 19[J951S] a bod y pwerau caffael gorfodol yn parhau i fod yn arferadwy, neu

(iii) bod y tir yn dod o fewn paragraff 24[J951S] neu 26[J951S] o Atodlen 19[J951S], a

(d) y gallai'r buddiant fod wedi bod yn destun hysbysiad malltod a gyflwynir o dan adran 324[j952] gan y morgeisiwr ar—

(i) y diwrnod y cyflwynir hysbysiad o dan yr adran hon, neu

(ii) unrhyw ddiwrnod yn ystod y 6 mis blaenorol.

(4) Yn is-adran (3)(c)(i)[j977], ystyr "pris gostyngol" yw pris sy'n sylweddol is na'r pris y gellid bod wedi disgwyl yn rhesymol i'r buddiant gael ei werthu amdano pe na bai unrhyw ran o'r hereditament neu'r uned yn dir o dan falltod neu'n debygol o fod yn dir o dan falltod.

(5) Rhaid cyflwyno'r hysbysiad malltod mewn perthynas â buddiant cyfan y morgeisai yn yr hereditament neu'r uned (pa un a yw'r buddiant hwnnw yn y cyfan neu ran o'r hereditament neu'r uned).

**349 Seiliau gwrthwynebiad i hysbysiad malltod a gyflwynir gan forgeisai[j979]**

(1) Y seiliau y caniateir gwneud gwrthwynebiad arnynt mewn gwrth-hysbysiad o dan adran 325[j954] i hysbysiad malltod a gyflwynir o dan adran 348[j977] yw—

(a) Sail 1;

(b) Sail 2;

(c) Sail 3;

(d) Sail 4 (yn achos tir sy'n dod o fewn paragraff 1[J951S], 2[J951S] neu 12[J951S] ond nid hefyd o fewn paragraff 13[J951S], 14[J951S] neu 15[J951S] o Atodlen 19[J951S]);

(e) nad oedd gan yr hawlydd, ar y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad malltod, unrhyw fuddiant fel morgeisai yn unrhyw ran o'r hereditament neu'r uned amaethyddol y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef neu hi;

(f) nad oedd gan yr hawlydd (am resymau a bennir yn y gwrth-hysbysiad), ar y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad malltod, y pŵer y cyfeirir ato yn adran 348(3)(b)[j977];

(g) nad yw unrhyw un o'r amodau a bennir yn adran 348(3)(c)[j977] wedi ei fodloni;

(h) nad yw'r naill na'r llall o'r amodau a bennir yn adran 348(3)(d)[j977] wedi ei fodloni;

(i) Sail 8.

(2) Gweler adrannau 327[J956] a 336(4)[J964] ar gyfer darpariaeth bellach ynghylch seiliau gwrthwynebiad.

*Gwaharddiad ar hysbysiadau malltod cydamserol*

**350 Gwahardd cyflwyno hysbysiadau cydamserol o dan adrannau 324[j952], 346[j974] a 348[j977][j980]**

(1) Ni chaniateir cyflwyno hysbysiad malltod o dan adran 324[j952] neu 346[j974] mewn cysylltiad â hereditament neu uned amaethyddol, neu unrhyw ran ohono neu ohoni, ar adeg pan fo hysbysiad malltod a gyflwynwyd o dan adran 348[j977] heb ei weithredu mewn perthynas â'r hereditament, yr uned neu'r rhan.

(2) Ni chaniateir cyflwyno hysbysiad malltod o dan adran 348[j977] mewn cysylltiad â hereditament neu uned amaethyddol, neu unrhyw ran ohono neu ohoni, ar adeg pan fo hysbysiad malltod a gyflwynwyd o dan adran 324[j952] neu 346[j974] heb ei weithredu mewn perthynas â'r hereditament, yr uned neu'r rhan.

(3) At ddibenion yr adran hon, mae hysbysiad malltod heb ei weithredu mewn perthynas â hereditament, uned neu ran—

(a) hyd nes y caiff ei dynnu'n ôl mewn perthynas â'r hereditament, yr uned neu'r rhan, neu

(b) pan fo gwrthwynebiad iddo wedi ei wneud drwy wrth-hysbysiad o dan adran 325[j954], hyd nes—

(i) i'r cyfnod ar gyfer atgyfeirio'r gwrthwynebiad i'r Uwch Dribiwnlys o dan adran 329(1)[j958] ddod i ben heb i'r hawlydd ei atgyfeirio, neu

(ii) i'r gwrthwynebiad gael ei gadarnhau gan yr Uwch Dribiwnlys mewn perthynas â'r hereditament, yr uned neu'r rhan.

*Partneriaethau*

**351 Partneriaethau: darpariaeth arbennig[j981]**

(1) At ddibenion y Rhan hon, mae meddiannu hereditament neu uned amaethyddol at ddibenion cyflawni busnes mewn partneriaeth i'w drin fel meddiannu gan y bartneriaeth, ac nid fel meddiannu gan unrhyw un neu ragor o'r partneriaid yn unigol.

(2) Mae’r diffiniadau o “perchen-feddiannydd” ym mharagraffau 31[J951S] a 33[J951S] o Atodlen 19[J951S] yn gymwys mewn perthynas â’r bartneriaeth yn unol â hynny.

(3) Mae partneriaeth i’w thrin fel yr un bartneriaeth er gwaethaf newid mewn aelodaeth ar ôl iddi gyflwyno hysbysiad malltod.

*Pwerau i gaffael tir pan fo hysbysiad malltod wedi ei gyflwyno*

**352 Pŵer Gweinidogion Cymru i gaffael tir a nodir gan Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru[j982]**

Pan fo hysbysiad malltod wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â thir sy’n dod o fewn paragraff 2[J951S] o Atodlen 19[J951S], mae pŵer gan Weinidogion Cymru i gaffael yn orfodol unrhyw fuddiant yn y tir yn unol â’r hysbysiad malltod.

**353 Pŵer Gweinidogion Cymru i gaffael tir yr effeithir arno gan orchymyn sy’n ymwneud â thref newydd [j983]**

(1) Pan fo hysbysiad malltod wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â thir sy’n dod o fewn paragraff 5[J951S] neu 6[J951S] o Atodlen 19[J951S], mae pŵer gan Weinidogion Cymru i gaffael yn orfodol unrhyw fuddiant yn y tir yn unol â’r hysbysiad malltod hyd nes y sefydlir corfforaeth ddatblygu ar gyfer y dref newydd.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn caffael buddiant o dan is-adran (1)[j983]—

(a) os yw’r tir yn dir, neu’n dod yn dir, sy’n dod o fewn paragraff 6[J951S] o Atodlen 19[J951S], rhaid iddynt, pan sefydlir y gorfforaeth ddatblygu ar gyfer y dref newydd, drosglwyddo’r buddiant iddi;

(b) mewn unrhyw achos arall, cânt waredu’r buddiant fel y gwelant yn dda.

(3) Yn achos tir sy’n dod o fewn paragraff 5[J951S] o Atodlen 1[J951S], mae Deddf Digolledu Tir 1961 (p. 33) yn cael effaith mewn perthynas â’r digollediad sy’n daladwy mewn cysylltiad â chaffael buddiant gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1)[j983] fel pe bai y tir yn ffurfio rhan o ardal a ddynodir yn safle tref newydd drwy orchymyn sydd wedi dod i rym o dan adran 1 o Ddeddf Trefi Newydd 1981 (p. 64).

**354 Pŵer Gweinidogion Cymru i gaffael tir yr effeithir arno gan orchymyn sy’n ymwneud ag ardal datblygu trefol[j983A]**

(1) Pan fo hysbysiad malltod wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â thir sy’n dod o fewn paragraff 7[J951S] o Atodlen 19[J951S], mae pŵer gan Weinidogion Cymru i gaffael yn orfodol unrhyw fuddiant yn y tir yn unol â’r hysbysiad malltod hyd nes y sefydlir corfforaeth datblygu trefol ar gyfer yr ardal datblygu trefol.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn caffael buddiant o dan is-adran (1)[j983A]—

(a) os yw’r gorchymyn sy’n dynodi’r tir yn ardal datblygu trefol wedi dod i rym neu’n dod i rym, rhaid iddynt, pan sefydlir y gorfforaeth datblygu trefol ar gyfer yr ardal datblygu trefol, drosglwyddo’r buddiant iddi;

(b) mewn unrhyw achos arall, cânt waredu’r buddiant fel y gwelant yn dda.

(3) Os nad yw'r gorchymyn sy'n dynodi tir yn ardal datblygu trefol wedi dod i rym, mae Deddf Digolllediad Tir 1961 (p. 33) yn cael effaith mewn perthynas â'r digolllediad sy'n daladwy mewn cysylltiad â chaffael buddiant gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1)[j983A] fel pe bai'r gorchymyn wedi dod i rym.

**355 Pŵer Gweinidogion Cymru i gaffael tir a nodir mewn datganiad polisi seilwaith[j983B]**

Pan fo hysbysiad malltod wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â thir sy'n dod o fewn paragraff 28[J951S] o Atodlen 19[J951S], mae pŵer gan Weinidogion Cymru i gaffael yn orfodol unrhyw fuddiant yn y tir yn unol â'r hysbysiad malltod.

**356 Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i gaffael tir a nodir mewn datganiad polisi cenedlaethol [j984]**

Pan fo hysbysiad malltod wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad â thir sy'n dod o fewn paragraff 29[J951S] o Atodlen 19[J951S], mae pŵer gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gaffael yn orfodol unrhyw fuddiant yn y tir yn unol â'r hysbysiad malltod.

*Darpariaethau amrywiol ac atodol*

**357 Dim tynnu'n ôl hysbysiad i drafod telerau y bernir ei fod wedi ei gyflwyno o dan y Rhan hon [j986]**

Pan drinnir hysbysiad i drafod telerau fel pe bai wedi ei gyflwyno yn rhinwedd adran 331[j959], 332[j960], 339[j967] neu 340[j968], ni chaiff awdurdod priodol ei dynnu'n ôl o dan adran 31 o Ddeddf Digolllediad Tir 1961 (p. 33) (ond gweler adran 341(3)[j969] ar gyfer amgylchiadau pan fernir bod hysbysiad i drafod telerau yn cael ei dynnu'n ôl pan fo hysbysiad malltod yn cael ei dynnu'n ôl).

**358 Cymorth i gaffael eiddo pan fo gwrthwynebiad ar Sail 4[j986A]**

(1) Caiff cyngor sir neu fwrdeistref sirol roi arian blaenswm i berson i alluogi'r person hwnnw i gaffael hereditament neu uned amaethyddol y cyflwynwyd gwrth-hysbysiad mewn cysylltiad ag ef neu hi o dan adran 325[j954] sy'n pennu Sail 4 fel sail ar gyfer gwrthwynebiad.

(2) Ni chaniateir rhoi arian blaenswm ar gyfer caffael hereditament os yw ei werth blynyddol yn fwy na'r swm a bennir mewn rheoliadau o dan adran 323(5)(b)[j951].

(3) Caniateir rhoi arian blaenswm yn ddarostyngedig i amodau.

*Dehongli*

**359 Dehongli'r Rhan hon [j988]**

(1) Yn y Rhan hon—

mae i "yr ardal nad effeithir arni" ("*the unaffected area*") yr ystyr a roddir gan adran 335(1)(b)[j963];

ystyr "yr ardal yr effeithir arni" ("*the affected area*"), mewn perthynas ag uned amaethyddol, yw faint bynnag o'r uned sydd, ar y diwrnod y cyflwynir hysbysiad malltod mewn cysylltiad â'r uned, yn dir o dan falltod;

mae i "awdurdod bilio" yr ystyr a roddir i "billing authority" gan adran 1(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14);

mae i "awdurdod priodol" ("*appropriate authority*") yr ystyr a roddir gan Ran 3[J951S] o Atodlen 19[J951S];

mae i "buddiant cymhwysol" ("*qualifying interest*") yr ystyr a roddir gan adran 323(3)[j951];

ystyr "buddiant yr hawlydd" ("*the claimant's interest*") yw'r buddiant y mae hysbysiad malltod yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol ei brynu;

mae i "datganiad polisi cenedlaethol" yr ystyr a roddir i "national policy statement" gan adran 5(2) o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29);

mae i "datganiad polisi seilwaith" ("*infrastructure policy statement*") yr ystyr a roddir gan adran 127(2) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 (dsc 3);

ystyr "deddfiad arbennig" ("*special enactment*") yw—

(a) Deddf gan Senedd Cymru neu Senedd y Deyrnas Unedig, neu

(b) offeryn sydd wedi dod yn weithredol ar ôl bod yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig Senedd Cymru neu weithdrefn arbennig Senedd y Deyrnas Unedig,

sy'n nodi tir yn benodol ac yn awdurdodi ei gaffael yn orfodol;

mae i "deddfiad priodol" ("*appropriate enactment*") yr ystyr a roddir gan Ran 4[J951S] o Atodlen 19[J951S];

mae i "gwerth blynyddol" ("*annual value*") yr ystyr a roddir gan Ran 2[J951S] o Atodlen 19[J951S];

ystyr "yr hawlydd" ("*the claimant*"), mewn perthynas â hysbysiad malltod, yw'r person a gyflwynodd yr hysbysiad;

ystyr "hereditament" ("*hereditament*") yw hereditament perthnasol o fewn yr ystyr a roddir i "relevant hereditament" gan adran 64(4)(a) i (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41) (tiroedd a mwyngloddiau);

mae i "hysbysiad malltod" ("*blight notice*") yr ystyr a roddir gan adran 323(2)[j951][j951];

mae i "perchen-feddiannydd" ("*owner-occupier*") yr ystyr a roddir gan Ran 2[J951S] o Atodlen 19[J951S];

mae i "perchen-feddiannydd preswyl" ("*resident owner- occupier*") yr ystyr a roddir gan baragraff 32[J951S] o Atodlen 19[J951S];

mae i "tir o dan falltod" ("*blighted land*") yr ystyr a roddir gan adran 323(1)[j951];.

(2) Mae tir a fyddai (heblaw am yr is-adran hon) yn hereditamentau ar wahân dim ond oherwydd ei fod wedi ei rannu â ffin rhwng ardaloedd dau neu ragor o awdurdodau bilio i'w drin at ddibenion y diffiniad o "hereditament" yn is-adran (1)[j988] fel pe na bai wedi ei rannu felly.

# RHAN 14

## GWEINYDDU A DILYSRWYDD

## PENNOD 1

## ARFER SWYDDOGAETHAU AWDURDODAU CYNLLUNIO

*Ffioedd a thaliadau*

**360 Ffioedd a thaliadau am arfer swyddogaethau gan awdurdodau cynllunio [j102]**

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i ffi gael ei thalu neu i dâl gael ei dalu i awdurdod cynllunio am—

(a) arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau;

(b) gwneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu sy'n ffafriol i'w harfer neu'n ddeilliadol i'w harfer.

(2) Yn is-adran (1) nid yw cyfeiriadau at swyddogaethau awdurdod cynllunio yn cynnwys ei swyddogaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (gweler adran 167 o'r Ddeddf honno ynghylch hynny).

(3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon yn benodol—

(a) gwneud darpariaeth ynghylch pryd y mae rhaid talu ffi neu dâl;

(b) gwneud darpariaeth ynghylch pwy y mae rhaid iddo dalu ffi neu dâl;

(c) gwneud darpariaeth ynghylch swm ffi neu dâl (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n pennu'r swm neu'n rhoi swyddogaeth o'i bennu, neu ddarpariaeth ynghylch sut y mae'r swm i'w gyfrifo a phwy sydd i wneud y cyfrifiad);

(d) pennu amgylchiadau pan fo ffi i'w hepgor neu ei had-dalu neu dâl i'w hepgor neu ei ad-dalu (yn gyfan gwbl neu'n rhannol);

(e) pennu amgylchiadau pan nad oes ffi i'w thalu neu dâl i'w dalu;

(f) gwneud darpariaeth ynghylch effaith talu neu fethu â thalu ffi neu dâl yn unol â'r rheoliadau (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon).

(4) Os yw rheoliadau o dan yr adran hon yn darparu i awdurdod cynllunio bennu neu gyfrifo swm unrhyw ffioedd neu daliadau, rhaid i'r awdurdod sicrhau, gan ystyried un flwyddyn ariannol gydag un arall, nad yw ei incwm o'r ffioedd neu'r taliadau yn fwy na chost arfer y swyddogaethau, neu wneud y pethau, y maent yn ymwneud â hwy.

*Trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â cheisiadau*

**361 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu harfer gan bwyllgorau, is-bwyllgorau neu swyddogion [j211]**

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio wneud trefniadau o dan adran 101 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol i unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau perthnasol gael ei harfer neu eu harfer gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog i'r awdurdod.

(2) Caiff y rheoliadau bennu telerau'r trefniadau (a gaiff gynnwys eithriadau) ac unrhyw amrywiadau a ganiateir yn y telerau hynny.

(3) Pan fo trefniadau sy'n ofynnol gan y rheoliadau mewn grym mewn perthynas â swyddogaeth berthnasol sydd gan awdurdod cynllunio, ni chaniateir arfer y swyddogaeth ond yn unol â'r trefniadau (ac nid yw adran 101(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol yn gymwys).

(4) Yn y Bennod hon, ystyr "swyddogaeth berthnasol" yw swyddogaeth sy'n arferadwy mewn perthynas â chais o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon.

**362 Maint a chyfansoddiad pwyllgorau sydd i arfer swyddogaethau [j212]**

(1) Caiff rheoliadau osod gofynion sy'n ymwneud â maint a chyfansoddiad pwyllgor neu is-bwyllgor sydd i arfer swyddogaeth berthnasol sydd gan awdurdod cynllunio.

(2) Ni chaiff awdurdod cynllunio drefnu i swyddogaeth berthnasol sydd gan yr awdurdod gael ei harfer gan bwyllgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod sy'n methu â bodloni gofyniad mewn rheoliadau o dan yr adran hon.

(3) Os yw pwyllgor neu is-bwyllgor sy'n arfer swyddogaeth berthnasol yn methu â bodloni gofyniad o'r fath, nid yw paragraff 43 o Atodlen 12 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol (nid yw swyddi gwag etc. yn effeithio ar ddilysrwydd trafodion) yn gymwys mewn perthynas â'r methiant.

**363 Trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau: atodol [j213]**

(1) Mae adrannau 101 a 102 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau awdurdodau lleol) yn cael effaith yn ddarostyngedig i adrannau 361[j211] a 362[j212] a rheoliadau a wneir odanynt.

(2) Pan fo trefniadau mewn grym o dan adran 101(5) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol i ddau awdurdod cynllunio neu ragor arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau perthnasol ar y cyd, mae adrannau 361[j211] a 362[j212] yn gymwys mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny fel pe bai—

(a) cyfeiriadau at bwyllgor neu is-bwyllgor awdurdod cynllunio yn gyfeiriadau at gyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdodau hynny;

(b) cyfeiriadau at swyddog awdurdod cynllunio yn gyfeiriadau at swyddog i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau hynny.

(3) Caiff rheoliadau o dan adrannau 361[j211] a 362[j212]—

(a) gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol;

(b) gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer achosion pan fo dau neu ragor o awdurdodau wedi gwneud trefniadau ar gyfer arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau perthnasol o dan adran 101(1)(b) neu (5) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (cyflawni swyddogaethau gan awdurdod arall neu gan awdurdodau'n gweithredu ar y cyd).

## PENNOD 2

### ACHOSION GERBRON GWEINIDOGION CYMRU

*Ffioedd a thaliadau*

**364 Ffioedd a thaliadau am geisiadau ac apelau i Weinidogion Cymru [j104]**

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i ffi gael ei thalu neu i dâl gael ei dalu i Weinidogion Cymru am—

(a) arfer unrhyw swyddogaethau sydd ganddynt mewn perthynas â chais a wnaed neu y bwriedir ei wneud iddynt o dan adran 78 (opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl) neu adran 80(ceisiadau cysylltiedig);

(b) gwneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau hynny, neu sy'n ffafriol i'w harfer neu'n ddeilliadol i'w harfer.

(2) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol talu ffi i Weinidogion Cymru pan wneir cais am ganiatâd cynllunio iddynt o dan adran 85 (datblygiad brys y Goron).

(3) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gwneud apêl i Weinidogion Cymru o dan unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon dalu ffi i Weinidogion Cymru.

(4) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol talu ffi i Weinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio (neu dalu ffioedd i'r ddau ohonynt) pan wneir apêl i Weinidogion Cymru o dan adran 131 (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi) ar y sail y dylid rhoi caniatâd cynllunio neu y dylid dileu amod mewn caniatâd cynllunio neu gyfyngiad arno.

(5) Mae ffi sy'n daladwy o dan reoliadau a wneir o dan is-adran (4) yn ychwanegol at unrhyw ffi sy'n daladwy o dan reoliadau a wneir o dan is-adran (3).

(6) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon yn benodol—

(a) gwneud darpariaeth ynghylch pryd y mae rhaid talu ffi neu dâl;

(b) yn achos rheoliadau o dan is-adran (1), (2) neu (4), wneud darpariaeth ynghylch pwy y mae rhaid iddo dalu ffi neu dâl;

(c) gwneud darpariaeth ynghylch swm ffi neu dâl (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n pennu'r swm neu'n rhoi swyddogaeth o'i bennu, neu ddarpariaeth ynghylch sut y mae'r swm i'w gyfrifo a phwy sydd i'w gyfrifo);

(d) pennu amgylchiadau pan fo ffi i'w hepgor neu ei had-dalu neu dâl i'w hepgor neu ei ad-dalu (yn gyfan gwbl neu'n rhannol);

(e) pennu amgylchiadau pan nad oes ffi i'w thalu neu dâl i'w dalu;

(f) gwneud darpariaeth ynghylch effaith talu neu fethu â thalu ffi neu dâl yn unol â'r rheoliadau (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon);

(g) pennu amgylchiadau pan fo ffi neu dâl a delir i Weinidogion Cymru yn unol â'r rheoliadau i'w throsglwyddo neu ei drosglwyddo i berson arall.

(7) Nid yw'r adran hon yn cyfyngu ar unrhyw bŵer arall a roddir gan y Ddeddf hon i wneud darpariaeth ynghylch talu ffioedd neu daliadau i Weinidogion Cymru.

*Darpariaethau gweithdrefnol sy'n gymwys i achosion gerbron Gweinidogion Cymru*

**365 Penderfynu apêl gan arolygydd [j105]**

(1) Mae apêl y mae'r adran hon yn gymwys iddi i'w phenderfynu gan arolygydd yn hytrach na chan Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r adran hon yn gymwys i unrhyw apêl a wneir i Weinidogion Cymru o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon ac eithrio apêl o dan adran [j417] (gweler adran [j417a](4) i (6) ac Atodlen [j417S] ynghylch hynny) neu o dan reoliadau ASC.

(3) Ond nid yw'r adran hon yn gymwys i apêl—

(a) os yw'n apêl o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau, neu

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod yr apêl i'w phenderfynu ganddynt hwy yn hytrach na chan arolygydd.

(4) Pan fo arolygydd yn penderfynu apêl, mae penderfyniad yr arolygydd i'w drin fel pe bai'n benderfyniad gan Weinidogion Cymru.

(5) Mae Atodlen 20[J105S] yn gwneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad â phenodi arolygwyr i benderfynu apelau ac mewn cysylltiad â rhoi cyfarwyddydau o dan is-adran (3)(b).

**366 Dewis o ymchwiliad, gwrandawiad neu weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer apelau a cheisiadau [j106]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i'r achosion a ganlyn—

(a) unrhyw gais a wneir i Weinidogion Cymru neu a atgyfeirir atynt o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon, ac eithrio cais am orchymyn o dan Ran 11 (priffyrdd) neu Ran 12 (ymgymerwyr statudol);

(b) unrhyw apêl a wneir i Weinidogion Cymru o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon ac eithrio apêl o dan adran [j417] (gweler adran [j417a](3) ynghylch hynny) neu o dan reoliadau ASC.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ym mhob achos benderfynu'r weithdrefn ar gyfer ystyried achos y mae'r adran hon yn gymwys iddo.

(3) Rhaid i benderfyniad ddarparu i'r achos gael ei ystyried mewn un neu ragor o'r ffyrdd a ganlyn—

(a) mewn ymchwiliad lleol;

(b) mewn gwrandawiad;

(c) ar sail sylwadau ysgrifenedig.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad cyn diwedd y cyfnod a bennir mewn rheoliadau.

(5) Caniateir i benderfyniad gael ei amrywio drwy benderfyniad pellach ar unrhyw adeg cyn penderfynu'r achos y mae'r penderfyniad yn ymwneud ag ef.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r personau a ganlyn am benderfyniad—

(a) y ceisydd neu'r apelydd (fel y bo'n briodol), a

(b) yr awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r achos yn ymwneud ag ef yn ei ardal.

(7) Mewn achos pan fo cais wedi ei wneud i Weinidogion Cymru o dan adran 78 (opsiwn i wneud cais am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl i Weinidogion Cymru) neu adran 80 (ceisiadau cysylltiedig), rhaid iddynt hefyd hysbysu unrhyw bersonau cynrychioliadol y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(8) Yn is-adran (7) ystyr "person cynrychioliadol" yw person y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn cynrychioli personau (ac eithrio'r ceisydd a'r awdurdod cynllunio) sydd â buddiant yn yr achos.

(9) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r meini prawf y byddant yn eu cymhwyso wrth wneud penderfyniadau o dan yr adran hon.

(10) Caiff rheoliadau ddiwygio is-adran (1)—

(a) i ychwanegu achos o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon,

(b) i ddileu achos, neu

(c) i addasu disgrifiad o achos.

**367 Gofynion gweithdrefnol ar gyfer apelau, ceisiadau ac achosion eraill [j107]**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad—

(a) ag achos ar unrhyw gais, unrhyw apêl neu unrhyw atgyfeiriad a wneir i neu at Weinidogion Cymru o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon (pa un a yw'n cael ei ystyried mewn ymchwiliad lleol, mewn gwrandawiad neu ar sail sylwadau ysgrifenedig);

(b) ag unrhyw ymchwiliad lleol arall neu unrhyw wrandawiad arall a gynhelir neu sydd i'w gynnal gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon.

(2) Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â materion paratoadol ar gyfer ymchwiliad neu wrandawiad neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu faterion sy'n codi yn dilyn ymchwiliad neu wrandawiad neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig;

(b) cynnal achos.

(3) Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn—

(a) pan fo camau wedi eu cymryd gyda golwg ar gynnal ymchwiliad neu wrandawiad nad yw'n digwydd,

(b) pan fo camau wedi eu cymryd gyda golwg ar benderfynu unrhyw fater gan arolygydd a bod yr achos yn destun cyfarwyddyd bod rhaid i'r mater gael ei benderfynu yn lle hynny gan Weinidogion Cymru, neu

(c) pan fo camau wedi eu cymryd yn unol â chyfarwyddyd o'r fath a bod cyfarwyddyd pellach yn cael ei roi sy'n dirymu'r cyfarwyddyd hwnnw,

a chânt ddarparu bod camau o'r fath i'w trin fel cydymffurfedd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, â gofynion y rheoliadau.

(4) Caiff y rheoliadau—

(a) pennu terfyn amser y mae rhaid i barti i achos gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ac unrhyw ddogfennau ategol ynddo, neu alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau sy'n gosod y terfyn amser mewn achos penodol neu mewn achosion o ddisgrifiad penodol;

(b) galluogi Gweinidogion Cymru i fynd ymlaen i wneud penderfyniad gan ystyried dim ond y sylwadau ysgrifenedig a'r dogfennau ategol a gyflwynwyd o fewn y terfyn amser;

(c) galluogi Gweinidogion Cymru, ar ôl rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r partïon o'u bwriad i wneud hynny, i fynd ymlaen i wneud penderfyniad er na chyflwynwyd unrhyw sylwadau ysgrifenedig o fewn y terfyn amser, os ydynt yn ystyried bod ganddynt ddigon o ddeunydd ger eu bron i'w galluogi i ddod i benderfyniad ar rinweddau'r achos.

(5) Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan—

(a) caniateir i gyfarwyddyd ynghylch talu costau Gweinidogion Cymru gael ei roi o dan adran 372[j112];

(b) caniateir i orchymyn ynghylch talu costau parti gael ei wneud o dan adran 373[j113].

(6) Caiff y rheoliadau ddarparu na chaniateir, o dan amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau, godi mater mewn achos ar apêl i Weinidogion Cymru oni bai—

(a) y codwyd y mater yn flaenorol cyn adeg a bennir yn y rheoliadau, neu

(b) y dangosir na ellid bod wedi codi'r mater cyn yr adeg honno.

(7) Nid yw'r adran hon yn cyfyngu ar unrhyw bŵer arall a roddir gan y Ddeddf hon i wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn ar gais neu apêl a wneir i Weinidogion Cymru neu atgyfeiriad a wneir atynt.

*Ymchwiliadau lleol*

**368 Pŵer Gweinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad lleol [j108]**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal at ddibenion arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau o dan neu yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Ddeddf hon ac eithrio Pennod 2 o Ran 6 (ardoll seilwaith cymunedol).

(2) Gweler hefyd—

(a) paragraff 2(2) o Atodlen [j434S] a pharagraff 2(1) o Atodlen 20[J102S] ar gyfer pwerau arolygydd i gynnal ymchwiliad lleol yn unol â phenderfyniad o dan adran 366[j106];

(b) paragraffau 4 a 13 o Atodlen [j271S] ar gyfer dyletswyddau Gweinidogion Cymru i beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal mewn achosion penodol pan wneir gwrthwynebiadau neu pan gyflwynir sylwadau mewn perthynas â gorchmynion o dan Ran 11(priffyrdd).

**369 Pŵer person sy'n cynnal ymchwiliad i wneud tystiolaeth yn ofynnol [j109]**

(1) Caiff person sy'n cynnal ymchwiliad lleol o dan y Ddeddf hon ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs i unrhyw berson—

(a) bod yn bresennol yn yr ymchwiliad, ar adeg ac mewn lle a ddatgenir yn y wŷs, a rhoi tystiolaeth, neu

(b) dangos unrhyw ddogfennau sydd ym meddiant y person neu sydd o dan reolaeth y person, sy'n ymwneud ag unrhyw fater o dan sylw yn yr ymchwiliad.

(2) Caiff y person sy'n cynnal yr ymchwiliad gymryd tystiolaeth ar lw, ac at y diben hwnnw caiff weinyddu llwon.

(3) Nid yw gwŷs o dan yr adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson fod yn bresennol yn yr ymchwiliad oni bai bod treuliau angenrheidiol y person ar gyfer bod yn bresennol yn cael eu talu neu eu cynnig i'r person.

(4) Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol o dan yr adran hon i berson ddangos teitl (nac unrhyw offeryn sy'n ymwneud â theitl) unrhyw dir nad yw'n perthyn i awdurdod lleol.

(5) Mae'n drosedd i berson—

(a) gwrthod cydymffurfio â gofyniad mewn gwŷs o dan yr adran hon neu fethu'n fwriadol â chydymffurfio â gofyniad o'r fath, neu

(b) newid, atal, cuddio neu ddinistrio'n fwriadol ddogfen y mae'n ofynnol i'r person ei dangos o dan yr adran hon, neu y mae'r person yn agored i orfod ei dangos o dan yr adran hon.

(6) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (5) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na'r uchafswm cyfnod am droseddau diannod, neu'r ddau.

(7) Yn is-adran (6) ystyr "yr uchafswm cyfnod am droseddau diannod" yw—

(a) mewn perthynas â throsedd a gyflawnir cyn i adran 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44) ddod i rym, 6 mis;

(b) mewn perthynas â throsedd a gyflawnir ar ôl iddi ddod i rym, 51 o wythnosau.

**370 Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad [j110]**

(1) Mewn ymchwiliad lleol a gynhelir o dan y Ddeddf hon—

(a) rhaid clywed tystiolaeth lafar yn gyhoeddus, a

(b) rhaid i dystiolaeth ddogfennol fod ar gael i'r cyhoedd edrych arni.

(2) Ond os yw awdurdod gweinidogol wedi ei fodloni bod y ddau amod yn is-adran (3) wedi eu bodloni mewn perthynas ag ymchwiliad, caiff gyfarwyddo nad yw tystiolaeth o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd i'w chlywed nac ar gael i edrych arni yn yr ymchwiliad hwnnw ond gan bersonau a bennir yn y cyfarwyddyd neu gan bersonau o ddisgrifiad a bennir ynddo.

(3) Yr amodau yw—

(a) y byddai rhoi tystiolaeth o ddisgrifiad penodol yn gyhoeddus neu ei rhoi ar gael i'r cyhoedd edrych arni yn debygol o arwain at ddatgelu gwybodaeth—

(i) am ddiogelwch gwladol, neu

(ii) am y mesurau a gymerwyd neu sydd i'w cymryd i sicrhau diogelwch unrhyw dir neu unrhyw eiddo arall, a

(b) y byddai datgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd yn erbyn y buddiant cenedlaethol.

(4) Os yw awdurdod gweinidogol yn ystyried rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, caiff y Cwnsler Cyffredinol benodi person ("cynrychiolydd a benodir") i gynrychioli buddiannau unrhyw berson a fydd yn cael ei atal rhag clywed unrhyw dystiolaeth neu edrych ar unrhyw dystiolaeth mewn ymchwiliad lleol os rhoddir y cyfarwyddyd.

(5) Os nad oes cynrychiolydd a benodir pan fydd awdurdod gweinidogol yn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, caiff y Cwnsler Cyffredinol benodi person yn gynrychiolydd a benodir ar unrhyw adeg at ddibenion yr ymchwiliad.

(6) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y weithdrefn sydd i'w dilyn gan awdurdod gweinidogol cyn iddo roi cyfarwyddyd o dan yr adran hon mewn achos pan fo cynrychiolydd a benodir;

(b) swyddogaethau cynrychiolydd a benodir.

(7) Yn yr adran hon ac adran 371[j111], ystyr "awdurdod gweinidogol" yw Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

**371 Talu cynrychiolydd a benodir pan fo mynediad i dystiolaeth wedi ei gyfyngu [j111]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw person wedi ei benodi o dan adran 370[j110] yn gynrychiolydd a benodir at ddibenion ymchwiliad lleol, pa un a yw'r ymchwiliad yn digwydd ai peidio.

(2) Caiff awdurdod gweinidogol gyfarwyddo person ("y person cyfrifol") i dalu ffioedd a threuliau'r cynrychiolydd a benodir.

(3) Rhaid i'r person cyfrifol fod yn berson y mae'r awdurdod gweinidogol yn ystyried bod ganddo un neu ragor o fuddiannau yn yr ymchwiliad, neu y byddai wedi bod ag un neu ragor o fuddiannau yn yr ymchwiliad, mewn perthynas—

(a) â diogelwch gwladol, neu

(b) â'r mesurau a gymerwyd neu sydd i'w cymryd i sicrhau diogelwch unrhyw dir neu unrhyw eiddo arall.

(4) Os nad yw'r cynrychiolydd a benodir a'r person cyfrifol yn gallu cytuno ar swm y ffioedd a'r treuliau, rhaid i'r swm gael ei benderfynu gan yr awdurdod gweinidogol a roddodd y cyfarwyddyd.

(5) Rhaid i'r awdurdod gweinidogol beri i'r swm y cytunir arno rhwng y cynrychiolydd a benodir a'r person cyfrifol, neu a benderfynir gan yr awdurdod gweinidogol, gael ei ardystio.

(6) Gellir adennill y swm ardystiedig oddi wrth y person cyfrifol fel dyled.

*Costau achosion gerbron Gweinidogion Cymru*

**372 Talu costau Gweinidogion Cymru [j112]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i'r achosion a ganlyn—

(a) achos ar gais, apêl neu atgyfeiriad a wneir i neu at Weinidogion Cymru o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon (pa un a yw'n cael ei ystyried neu ei hystyried mewn ymchwiliad lleol, mewn gwrandawiad neu ar sail sylwadau ysgrifenedig);

(b) unrhyw ymchwiliad lleol arall neu unrhyw wrandawiad arall a gynhelir neu sydd i'w gynnal gan neu ar ran Gweinidogion Cymru o dan neu yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r ceisydd neu’r apelydd, neu awdurdod cynllunio neu barti arall i’r achos, dalu’r costau yr eir iddynt gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â’r achos (neu gymaint o’r costau hynny ag a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru).

(3) Mae’r costau yr eir iddynt gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw achos yn cynnwys—

(a) yr holl gost weinyddol yr eir iddi gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â’r achos, gan gynnwys yn benodol swm rhesymol y maent yn ei benderfynu mewn cysylltiad â chostau staff cyffredinol a gorbenion Llywodraeth Cymru;

(b) costau mewn cysylltiad ag ymchwiliad neu wrandawiad nad yw’n digwydd.

(4) Caiff rheoliadau bennu swm dyddiol safonol ar gyfer achos o ddisgrifiad penodedig.

(5) Pan fo achos o ddisgrifiad penodedig yn digwydd, rhaid cymryd mai’r costau yr eir iddynt gan Weinidogion Cymru yw—

(a) y swm dyddiol safonol am bob diwrnod (neu gyfran briodol o’r swm hwnnw am ran o ddiwrnod) y mae person penodedig yn ymwneud ag ymdrin â’r achos arno;

(b) costau yr eir iddynt mewn gwirionedd mewn cysylltiad ag ymdrin â’r achos—

(i) ar lwfansau teithio neu gynhaliaeth, neu

(ii) ar ddarparu llety neu gyfleusterau eraill;

(c) unrhyw gostau y gellir eu priodoli i benodi personau penodedig i gynorthwyo i ymdrin â’r achos;

(d) unrhyw gostau neu alldaliadau cyfreithiol yr eir iddynt neu a wneir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan mewn cysylltiad â’r achos.

(6) Yn yr adran hon ystyr “penodedig” yw wedi ei bennu mewn rheoliadau.

(7) Nid yw’r adran hon yn gymwys i achosion o dan reoliadau ASC (ac nid yw’n cyfyngu ar y ddarpariaeth y caiff rheoliadau ASC ei gwneud ynghylch costau achosion odanynt).

**373 Gorchmynion sy’n ymwneud â chostau partïon [j113]**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys i’r achosion a ganlyn—

(a) achos ar gais, apêl neu atgyfeiriad a wneir i neu at Weinidogion Cymru o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon (pa un a yw’n cael ei ystyried neu ei hystyried mewn ymchwiliad lleol, mewn gwrandawiad neu ar sail sylwadau ysgrifenedig);

(b) unrhyw ymchwiliad lleol arall neu unrhyw wrandawiad arall a gynhelir neu sydd i’w gynnal gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchmynion ynghylch—

(a) costau’r ceisydd neu’r apelydd neu awdurdod cynllunio neu barti arall i’r achos (a gaiff gynnwys costau mewn cysylltiad ag ymchwiliad neu wrandawiad nad yw’n digwydd), a

(b) y person neu’r personau y mae rhaid iddo neu y mae rhaid iddynt dalu’r costau hynny.

(3) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru orchymyn i berson dalu costau parti arall oni bai eu bod wedi eu bodloni—

(a) bod y person wedi ymddwyn yn afresymol mewn perthynas â'r achos, a

(b) bod ymddygiad afresymol y person wedi achosi i'r parti arall fynd i wariant diangen neu wariant a wastraffwyd.

(4) Rhaid i'r pŵer i wneud gorchmynion o dan yr adran hon hefyd gael ei arfer yn unol ag unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan adran 367[j107] (gofynion gweithdrefnol).

(5) Nid yw'r adran hon yn gymwys i achosion o dan reoliadau ASC (ac nid yw'n cyfyngu ar y ddarpariaeth y caiff rheoliadau ASC ei gwneud ynghylch costau achosion odanynt).

## PENNOD 3

## DILYSRWYDD CYNLLUNIAU, PENDERFYNIADAU A GORCHMYNION

*Adolygiad gan yr Uchel Lys o gynlluniau, penderfyniadau a gorchmynion*

### 374 Adolygiad statudol o gynlluniau datblygu [j2501]

(1) Ni chaniateir cwestiynu dilysrwydd cynllun y mae'r adran hon yn gymwys iddo mewn unrhyw achos cyfreithiol ac eithrio cais am adolygiad statudol o dan yr adran hon.

(2) Y cynlluniau y mae'r adran hon yn gymwys iddynt yw—

(a) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru neu Fframwaith diwygiedig;

(b) cynllun datblygu strategol neu ddiwygiad o gynllun o'r fath;

(c) cynllun datblygu lleol neu ddiwygiad o gynllun o'r fath.

(3) Caiff person a dramgwyddir gan gynllun y mae'r adran hon yn gymwys iddo wneud cais am adolygiad statudol o dan yr adran hon.

(4) Mae cais am adolygiad statudol o dan yr adran hon yn gais i'r Uchel Lys sy'n cwestiynu dilysrwydd y cynllun ar y sail—

(a) nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ran 2, neu

(b) na chydymffurfiwyd â gofyniad a osodir gan y Rhan honno, neu gan reoliadau a wneir odani, sy'n ymwneud â chyhoeddi, mabwysiadu neu gymeradwyo'r cynllun.

(5) Ni chaniateir gwneud cais am adolygiad statudol ond gyda chaniatâd yr Uchel Lys.

(6) Rhaid i gais am ganiatâd gael ei wneud cyn diwedd 6 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth—

(a) mewn achos sy'n ymwneud â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (neu Fframwaith diwygiedig), y diwrnod caiff y Fframwaith ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru;

(b) mewn achos sy'n ymwneud â chynllun datblygu strategol (neu ddiwygiad ohono), y diwrnod y caiff y cynllun ei fabwysiadu gan gyd-bwyllgor corfforedig neu ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru;

(c) mewn achos sy'n ymwneud â chynllun datblygu lleol (neu ddiwygiad ohono), y diwrnod y caiff y cynllun ei fabwysiadu gan awdurdod cynllunio neu ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

(7) Wrth ystyried pa un ai i roi caniatâd, caiff yr Uchel Lys wneud gorchymyn interim sy'n atal dros dro weithrediad y cynllun hyd nes y penderfynir yr achos yn derfynol—

(a) ar y cais am ganiatâd, neu

(b) pan fo caniatâd wedi ei roi, ar y cais am adolygiad statudol.

(8) Ar gais am adolygiad statudol, caiff yr Uchel Lys wneud gorchymyn interim sy'n atal dros dro weithrediad y cynllun hyd nes y penderfynir yr achos yn derfynol.

(9) Mae is-adran (10) yn gymwys os yw'r Uchel Lys wedi ei fodloni—

(a) bod y cynllun i unrhyw raddau y tu allan i'r pwerau a roddir gan Ran 2, neu

(b) bod methiant i gydymffurfio â gofyniad a osodir gan y Rhan honno, neu gan reoliadau a wneir odani, sy'n ymwneud â chyhoeddi, mabwysiadu neu gymeradwyo'r cynllun, wedi cael effaith andwyol sylweddol ar fuddiannau'r ceisydd.

(10) Caiff y llys—

(a) diddymu'r cynllun;

(b) anfon y cynllun yn ôl at berson â swyddogaeth sy'n ymwneud â llunio, cyhoeddi, mabwysiadu neu gymeradwyo'r cynllun.

(11) Os yw'r llys yn anfon y cynllun yn ôl at berson, caiff roi cyfarwyddydau ynghylch camau gweithredu i'w cymryd mewn perthynas â'r cynllun.

(12) Caiff y cyfarwyddydau yn benodol—

(a) ei gwneud yn ofynnol trin y cynllun (yn gyffredinol neu at ddibenion penodedig) fel pe na bai wedi ei gyhoeddi, ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo;

(b) ei gwneud yn ofynnol trin camau penodedig yn y broses sydd wedi arwain at gyhoeddi, mabwysiadu neu gymeradwyo'r cynllun (yn gyffredinol neu at ddibenion penodedig) fel pe baent wedi eu cymryd neu fel pe na baent wedi eu cymryd;

(c) ei gwneud yn ofynnol i'r person yr anfonir y cynllun yn ôl ato, neu i unrhyw berson arall â swyddogaeth sy'n ymwneud â llunio, cyhoeddi, mabwysiadu neu gymeradwyo'r cynllun, gymryd camau gweithredu;

(d) darparu bod y camau gweithredu sy'n ofynnol gan un person yn dibynnu ar ba gamau gweithredu sydd wedi eu cymryd gan berson arall.

(13) Caiff yr Uchel Lys arfer ei bwerau o dan is-adrannau (7) i (12) mewn perthynas â chynllun—

(a) yn gyfan gwbl neu'n rhannol;

(b) yn gyffredinol neu fel y mae'n effeithio ar eiddo'r ceisydd.

**375 Dilysrwydd penderfyniadau a gorchmynion penodol [j2502]**

(1) Ni chaniateir cwestiynu dilysrwydd—

(a) penderfyniad y mae'r adran hon yn gymwys iddo, na

(b) gorchymyn y mae'r adran hon yn gymwys iddo (pa un ai cyn neu ar ôl iddo gael ei wneud, ei gadarnhau neu ei gymeradwyo),

mewn unrhyw achos cyfreithiol ac eithrio cais am adolygiad statudol o dan adran 376[j2503].

(2) Y penderfyniadau y mae'r adran hon yn gymwys iddynt yw—

(a) penderfyniad ar gais a atgyfeirir at Weinidogion Cymru o dan adran [j451] (atgyfeirio cais am ganiatâd cynllunio, cymeradwyaeth etc.);

(b) penderfyniad ar apêl o dan adran [j452] (apêl yn erbyn penderfyniad neu fethiant i wneud penderfyniad ar gais am ganiatâd cynllunio, cymeradwyaeth etc.);

(c) penderfyniad ar gais a wneir i Weinidogion Cymru o dan adran [j429] (opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl) neu adran [j431] (ceisiadau cysylltiedig) (heb gynnwys penderfyniad i atgyfeirio cais o dan adran [j431](5));

(d) penderfyniad ar gais am ganiatâd cynllunio a wneir i Weinidogion Cymru o dan adran [j497] (datblygiad brys y Goron);

(e) penderfyniad ar gais a atgyfeirir at Weinidogion Cymru, neu apêl a wneir iddynt, o dan Atodlen [j495S] (penderfynu amodau caniatadau mwynau sy'n ymwneud â safle segur);

(f) penderfyniad ar gais a atgyfeirir at Weinidogion Cymru, neu apêl a wneir iddynt, o dan Atodlen [j490S] (adolygiad cyfnodol o ganiatadau mwynau sy'n ymwneud â safle mwyngloddio);

(g) penderfyniad o dan baragraff 6 neu 7 o Atodlen [j618S] i gadarnhau neu beidio â chadarnhau hysbysiad prynu, gan gynnwys—

(i) penderfyniad i gadarnhau'r hysbysiad mewn perthynas â rhan yn unig o'r tir y mae'n ymwneud ag ef, a

(ii) penderfyniad i roi caniatâd cynllunio, neu gyfarwyddo bod rhaid rhoi caniatâd, yn hytrach na chadarnhau'r hysbysiad mewn perthynas â'r tir neu unrhyw ran ohono;

(h) penderfyniad o dan adran [j521] i roi caniatâd cynllunio neu ddileu amod mewn caniatâd cynllunio neu gyfyngiad ar ganiatâd cynllunio wrth benderfynu apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi;

(i) penderfyniad ar apêl o dan adran [j586] (apêl yn erbyn penderfyniad neu fethiant i wneud penderfyniad ar gais am dystysgrif cyfreithlondeb);

(j) penderfyniad o dan reoliadau rheolaethu hysbysebion ar gais a wneir i Weinidogion Cymru neu a atgyfeirir atynt neu ar apêl a wneir iddynt;

(k) penderfyniad o dan reoliadau diogelu coed ar gais a wneir i Weinidogion Cymru neu a atgyfeirir atynt neu ar apêl a wneir iddynt.

(3) Y gorchmynion y mae'r adran hon yn gymwys iddynt yw—

(a) gorchymyn terfynu;

(b) gorchymyn o dan adran [j465] (gorchmynion sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio);

(c) gorchymyn datbarhau;

(d) gorchymyn gwahardd;

(e) gorchymyn diogelu;

(f) gorchymyn o dan reoliadau rheolaethu hysbysebion sy'n dynodi ardal rheolaeth arbennig;

(g) gorchymyn diogelu coed neu orchymyn diogelu coetir;

(h) gorchymyn o dan adran [j113] (gorchmynion sy'n ymwneud â chostau partïon i achos) a wneir mewn cysylltiad â phenderfyniad y mae'r adran hon yn gymwys iddo neu orchymyn a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (g).

(4) Nid yw'r adran hon yn atal unrhyw lys rhag arfer unrhyw awdurdodaeth mewn perthynas â gwrthodiad neu fethiant i wneud penderfyniad y mae'r adran hon yn gymwys iddo.

**376 Cais am adolygiad statudol o benderfyniad neu orchymyn [j2503]**

(1) Caiff person a dramgwyddir gan benderfyniad neu orchymyn y mae adran 375[j2502] yn gymwys iddo, neu'r awdurdod sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phenderfyniad neu orchymyn o'r fath, wneud cais am adolygiad statudol o dan yr adran hon.

(2) Mae cais am adolygiad statudol o dan yr adran hon yn gais i'r Uchel Lys sy'n cwestiynu dilysrwydd y penderfyniad neu'r gorchymyn ar y sail—

(a) nad yw o fewn y pwerau a roddir gan y Ddeddf hon, neu

(b) na chydymffurfiwyd â gofyniad a osodir gan y Ddeddf hon, neu gan is-ddeddfwriaeth a wneir odani, mewn perthynas â'r penderfyniad neu'r gorchymyn.

(3) Ni chaniateir gwneud cais am adolygiad statudol ond gyda chaniatâd yr Uchel Lys.

(4) Rhaid i gais am ganiatâd gael ei wneud cyn diwedd 6 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth—

(a) mewn achos sy'n ymwneud â phenderfyniad, y diwrnod y gwneir y penderfyniad;

(b) mewn achos sy'n ymwneud â gorchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio ac a gadarnheir neu a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru (gydag addasiadau neu hebddynt), y diwrnod y cadarnheir neu y cymeradwyir y gorchymyn;

(c) mewn achos sy'n ymwneud ag unrhyw orchymyn arall ac eithrio gorchymyn o dan adran 373[j113], y diwrnod y mae'r gorchymyn yn cymryd effaith;

(d) mewn achos sy'n ymwneud â gorchymyn o dan adran 373[j113], y diwrnod y gwneir y gorchymyn.

(5) Wrth ystyried pa un ai i roi caniatâd, caiff yr Uchel Lys wneud gorchymyn interim sy'n atal dros dro weithrediad y penderfyniad neu'r gorchymyn y mae'r cais arfaethedig am adolygiad statudol yn ymwneud ag ef hyd nes y penderfynir yr achos yn derfynol—

(a) ar y cais am ganiatâd, neu

(b) pan fo caniatâd wedi ei roi, ar y cais am adolygiad statudol.

(6) Ar gais am adolygiad statudol caiff yr Uchel Lys—

(a) gwneud gorchymyn interim sy'n atal dros dro weithrediad y penderfyniad neu'r gorchymyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef hyd nes y penderfynir yr achos yn derfynol;

(b) diddymu'r penderfyniad hwnnw neu'r gorchymyn hwnnw os yw wedi ei fodloni—

(i) nad yw o fewn y pwerau a roddir gan y Ddeddf hon, neu

(ii) bod methiant i gydymffurfio â gofyniad a osodir gan y Ddeddf hon, neu gan is-ddeddfwriaeth a wneir odani, mewn perthynas â'r penderfyniad neu'r gorchymyn, wedi cael effaith andwyol sylweddol ar fuddiannau'r ceisydd.

(7) Mewn perthynas â gorchymyn o dan reoliadau rheolaethu hysbysebion sy'n dynodi ardal rheolaeth arbennig, caiff yr Uchel Lys arfer ei bwerau o dan is-adrannau (5) a (6) i ddiddymu'r gorchymyn neu i'w atal dros dro yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

(8) Mewn perthynas â gorchymyn diogelu coed neu orchymyn diogelu coetir—

(a) nid yw is-adrannau (5) na (6)(a) yn gymwys;

(b) caiff yr Uchel Lys arfer ei bŵer o dan is-adran (6)(b) i ddiddymu'r gorchymyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

(9) At ddibenion yr adran hon yr awdurdod sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phenderfyniad neu orchymyn yw—

(a) yn achos penderfyniad ar gais a atgyfeiriwyd at Weinidogion Cymru, yr awdurdod cynllunio a wnaeth yr atgyfeiriad;

(b) yn achos penderfyniad ar apêl a wneir i Weinidogion Cymru yn dilyn cais i awdurdod cynllunio, yr awdurdod y gwnaed y cais iddo;

(c) yn achos penderfyniad i gadarnhau neu beidio â chadarnhau hysbysiad prynu—

(i) yr awdurdod cynllunio y cyflwynwyd yr hysbysiad prynu iddo, a

(ii) os yw Gweinidogion Cymru wedi addasu'r hysbysiad yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy roi awdurdod lleol arall neu ymgymerwr statudol yn lle'r awdurdod cynllunio, yr awdurdod lleol arall hwnnw neu'r ymgymerwr statudol hwnnw;

(d) yn achos penderfyniad sy'n ymwneud â hysbysiad gorfodi, yr awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad neu, os dyroddwyd yr hysbysiad gan Weinidogion Cymru, yr awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn ei ardal;

(e) yn achos unrhyw orchymyn ac eithrio gorchymyn o dan adran [j113], yr awdurdod cynllunio a wnaeth y gorchymyn neu, os gwnaed y gorchymyn gan Weinidogion Cymru, yr awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn ei ardal;

(f) yn achos gorchymyn a wneir o dan adran [j113] mewn cysylltiad â phenderfyniad neu orchymyn a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (e), yr awdurdod a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r penderfyniad hwnnw neu'r gorchymyn hwnnw.

(10) Yn is-adrannau (4)(b) a (9)(e) mae'r cyfeiriadau at orchymyn a gadarnheir neu a wneir gan Weinidogion Cymru yn cynnwys gorchymyn a gadarnheir neu a wneir gan Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol yn rhinwedd Rhan [*ymgymerwyr statudol*].

**377 Adolygiad statudol o orchmynion sy'n ymwneud â phriffyrdd ac ymgymerwyr statudol [j2504]**

(1) Ni chaniateir cwestiynu dilysrwydd gorchymyn y mae'r adran hon yn gymwys iddo mewn unrhyw achos cyfreithiol (pa un ai cyn neu ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud neu ei gadarnhau) ac eithrio cais am adolygiad statudol o dan yr adran hon.

(2) Y gorchmynion y mae'r adran hon yn gymwys iddynt yw—

(a) gorchymyn o dan Ran 11 (gorchmynion sy'n cau neu'n gwyro priffyrdd neu sy'n diddymu hawliau tramwy cyhoeddus);

(b) gorchymyn o dan adran [j715] (gorchmynion sy'n rhyddhau ymgymerwyr statudol rhag rhwymedigaethau).

(3) Caiff person a dramgwyddir gan orchymyn y mae'r adran hon yn gymwys iddo wneud cais am adolygiad statudol o dan yr adran hon.

(4) Mae cais am adolygiad statudol o dan yr adran hon yn gais i'r Uchel Lys sy'n cwestiynu dilysrwydd y gorchymyn ar y sail—

(a) nad yw o fewn y pwerau a roddir gan y darpariaethau y'i gwneir odanynt, neu

(b) na chydymffurfiwyd â gofyniad gweithdrefnol.

(5) Ni chaniateir gwneud cais am adolygiad statudol ond gyda chaniatâd yr Uchel Lys.

(6) Rhaid i gais am ganiatâd gael ei wneud cyn diwedd 6 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad perthnasol am y tro cyntaf.

(7) Wrth ystyried pa un ai i roi caniatâd, caiff yr Uchel Lys wneud gorchymyn interim sy'n atal dros dro weithrediad y gorchymyn y mae'r cais arfaethedig am adolygiad statudol yn ymwneud ag ef hyd nes y penderfynir yr achos yn derfynol—

(a) ar y cais am ganiatâd, neu

(b) pan fo caniatâd wedi ei roi, ar y cais am adolygiad statudol.

(8) Ar gais am adolygiad statudol caiff yr Uchel Lys—

(a) gwneud gorchymyn interim sy'n atal dros dro weithrediad y gorchymyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef hyd nes y penderfynir yr achos yn derfynol;

(b) diddymu'r gorchymyn hwnnw os yw wedi ei fodloni—

(i) nad yw o fewn y pwerau a roddir gan y darpariaethau y'i gwneir odanynt, neu

(ii) bod methiant i gydymffurfio â gofyniad gweithdrefnol wedi cael effaith andwyol sylweddol ar fuddiannau'r ceisydd.

(9) Caiff yr Uchel Lys arfer ei bwerau o dan is-adrannau (7) ac (8) mewn perthynas â gorchymyn—

(a) yn gyfan gwbl neu'n rhannol;

(b) yn gyffredinol neu fel y mae'n effeithio ar eiddo'r ceisydd.

(10) Yn is-adran (6) ystyr "yr hysbysiad perthnasol" yw—

(a) mewn achos sy'n ymwneud â gorchymyn o dan adran [j2701], [j2702], [j2707], [j2708] neu [j2717], yr hysbysiad sy'n ofynnol gan baragraff [6] o Atodlen [j271S];

(b) mewn achos sy'n ymwneud â gorchymyn o dan adran [j2713] neu [j2720], yr hysbysiad sy'n ofynnol gan baragraff [16] o Atodlen [j271S];

(c) mewn achos sy'n ymwneud â gorchymyn o dan adran [j715], yr hysbysiad sy'n ofynnol gan baragraff [11] o Atodlen [j712S].

(11) Pan fo gorchymyn o dan adran [j715] yn ddarostyngedig i weithdrefn seneddol arbennig yn rhinwedd paragraff [10] o Atodlen [j712S]—

(a) os yw'r gorchymyn wedi ei gadarnhau gan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig yn unol ag adran 6 o Ddeddf Gorchmynion Statudol (Gweithdrefn Arbennig) 1945 (9 a 10 Geo. 6 p. 18), nid yw'r adran hon yn gymwys iddo;

(b) mewn unrhyw achos arall, mae'r adran hon yn gymwys i'r gorchymyn fel pe bai'r cyfeiriad yn is-adran (6) at y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad perthnasol am y tro cyntaf yn gyfeiriad at y diwrnod y daw'r gorchymyn yn weithredol o dan adran 6 o'r Ddeddf honno.

*Apelau i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â hysbysiadau penodol*

**378 Apêl yn erbyn penderfyniad sy'n ymwneud â hysbysiad gorfodi [j2505]**

(1) Rhaid i reolau llys ddarparu naill ai—

(a) y caiff person a chanddo un neu ragor o fuddiannau apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol yn erbyn penderfyniad y mae'r adran hon yn gymwys iddo a wneir gan Weinidogion Cymru, neu

(b) pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad y mae'r adran hon yn gymwys iddo, y caiff person a chanddo un neu ragor o fuddiannau ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatgan a llofnodi achos i gael barn yr Uchel Lys.

(2) Y penderfyniadau y mae'r adran hon yn gymwys iddynt yw unrhyw benderfyniad (gan gynnwys cyfarwyddyd neu orchymyn) a wneir mewn achos ar apêl o dan adran [j518] yn erbyn hysbysiad gorfodi, ac eithrio penderfyniad o dan adran [j521] i roi caniatâd cynllunio neu i ddileu amod mewn caniatâd neu gyfyngiad ar ganiatâd.

(3) At ddibenion yr adran hon mae'r canlynol yn bersonau a chanddynt un neu ragor o fuddiannau—

(a) y person a wnaeth yr apêl,

(b) yr awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef yn ei ardal, a

(c) unrhyw berson arall sydd â buddiant yn y tir.

(4) Ar unrhyw gam o'r achos ar apêl o dan adran [j518], caiff Gweinidogion Cymru ddatgan cwestiwn cyfreithiol sy'n codi yn ystod yr achos ar ffurf achos arbennig i gael penderfyniad yr Uchel Lys.

(5) Mae penderfyniad gan yr Uchel Lys ar achos a ddatgenir o dan is-adran (4) i'w drin fel pe bai'n ddyfarniad gan y llys at ddibenion adran 16 o Ddeddf Uwchlysoedd 1981 (p. 54) (awdurdodaeth y Llys Apêl i glywed a phenderfynu apelau o ddyfarniadau neu orchmynion yr Uchel Lys).

(6) Pan fo achos yn cael ei ddwyn yn rhinwedd yr adran hon, caiff yr Uchel Lys neu'r Llys Apêl (yn ôl y digwydd) orchymyn bod yr hysbysiad gorfodi i gael effaith, naill ai'n llawn neu i'r graddau a bennir yn y gorchymyn, hyd nes y penderfynir yr achos yn derfynol ac y cynhelir unrhyw ail wrandawiad o'r apêl gan Weinidogion Cymru ac y'i penderfynir ganddynt.

(7) Caniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (6) ar ba delerau bynnag y mae'r llys yn ystyried eu bod yn briodol, a gaiff gynnwys telerau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio roi ymgymeriad ynghylch iawndal neu unrhyw fater arall.

(8) Caiff rheolau llys wneud darpariaeth—

(a) i Weinidogion Cymru fod yn barti i achos yn yr Uchel Lys neu'r Llys Apêl a ddygir yn rhinwedd yr adran hon, naill ai'n gyffredinol neu o dan amgylchiadau a bennir yn y rheolau;

(b) ynghylch pwerau'r Uchel Lys neu'r Llys Apêl i anfon y mater yn ôl at Weinidogion Cymru ar gyfer ail wrandawiad a phenderfyniad yn unol â barn neu gyfarwyddyd y llys;

(c) i'r Uchel Lys neu'r Llys Apêl roi cyfarwyddydau ynghylch arfer unrhyw bwerau eraill mewn cysylltiad â'r materion y mae'r hysbysiad gorfodi yn ymwneud â hwy hyd nes y penderfynir yr achos yn derfynol ac y cynhelir unrhyw ail wrandawiad o'r apêl gan Weinidogion Cymru ac y'i penderfynir ganddynt.

(9) Ni chaniateir dwyn achos yn yr Uchel Lys o dan yr adran hon ond gyda chaniatâd yr Uchel Lys.

(10) Ni chaniateir dwyn apêl i'r Llys Apêl yn rhinwedd yr adran hon ond gyda chaniatâd yr Uchel Lys neu'r Llys Apêl.

**379 Apêl yn erbyn penderfyniad sy'n ymwneud â hysbysiad cynnal a chadw tir neu hysbysiad amnewid coed [j2506]**

(1) Rhaid i reolau llys ddarparu naill ai—

(a) y caiff person a chanddo un neu ragor o fuddiannau apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol yn erbyn penderfyniad y mae'r adran hon yn gymwys iddo a wneir gan Weinidogion Cymru, neu

(b) pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad y mae'r adran hon yn gymwys iddo, y caiff person a chanddo un neu ragor o fuddiannau ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatgan a llofnodi achos i gael barn yr Uchel Lys.

(2) Y penderfyniadau y mae'r adran hon yn gymwys iddynt yw unrhyw benderfyniad (gan gynnwys cyfarwyddyd neu orchymyn) a wneir gan Weinidogion Cymru ar—

(a) apêl o dan adran [j872] yn erbyn hysbysiad cynnal a chadw tir;

(b) apêl o dan adran [j820] yn erbyn hysbysiad amnewid coed.

(3) At ddibenion yr adran hon mae'r canlynol yn bersonau a chanddynt un neu ragor o fuddiannau—

(a) y person a wnaeth yr apêl;

(b) yr awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad;

(c) mewn achos sy'n ymwneud â hysbysiad cynnal a chadw tir, unrhyw berson arall sydd â buddiant yn y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef;

(d) mewn achos sy'n ymwneud â hysbysiad amnewid coed, unrhyw berson arall y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad iddo.

(4) Pan fo achos yn cael ei ddwyn yn rhinwedd yr adran hon, nid yw'r hysbysiad y mae'r achos yn ymwneud ag ef yn cael unrhyw effaith hyd nes y penderfynir yr achos yn derfynol ac y cynhelir unrhyw ail wrandawiad o'r apêl gan Weinidogion Cymru ac y'i penderfynir ganddynt.

(5) Caiff rheolau llys wneud darpariaeth—

(a) i Weinidogion Cymru fod yn barti i achos yn yr Uchel Lys neu'r Llys Apêl a ddygir yn rhinwedd yr adran hon, naill ai'n gyffredinol neu o dan amgylchiadau a bennir yn y rheolau;

(b) ynghylch pwerau'r Uchel Lys neu'r Llys Apêl i anfon y mater yn ôl at Weinidogion Cymru ar gyfer ail wrandawiad a phenderfyniad yn unol â barn neu gyfarwyddyd y llys.

(6) Ni chaniateir dwyn achos yn yr Uchel Lys o dan yr adran hon ond gyda chaniatâd yr Uchel Lys.

(7) Ni chaniateir dwyn apêl i'r Llys Apêl yn rhinwedd yr adran hon ond gyda chaniatâd yr Uchel Lys neu'r Llys Apêl.

## PENNOD 4

## CYWIRO PENDERFYNIADAU GWEINIDOGION CYMRU

### 380 Ystyr "dogfen penderfyniad" a "gwall cywiradwy" [j2507]

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Bennod hon.

(2) Ystyr "dogfen penderfyniad" yw dogfen sy'n cofnodi—

(a) penderfyniad y mae adran 375[j2502] yn gymwys iddo (gweler is-adran (2)[j2502] o'r adran honno),

(b) penderfyniad mewn achos ar apêl o dan adran [j518], [j872] neu [j820] (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi, hysbysiad cynnal a chadw tir neu hysbysiad amnewid coed), neu

(c) unrhyw benderfyniad arall a wneir o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon sydd o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau.

(3) Ystyr "gwall cywiradwy" yw gwall—

(a) sydd wedi ei gynnwys mewn unrhyw ran o'r ddogfen penderfyniad sy'n cofnodi'r penderfyniad, ond

(b) nad yw'n rhan o unrhyw resymau a roddir dros y penderfyniad,

ac mae "gwall" yn cynnwys hepgoriad.

### 381 Pŵer i gywiro gwallau cywiradwy mewn dogfennau penderfyniad [j2508]

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo dogfen penderfyniad yn cael ei dyroddi sy'n cynnwys gwall cywiradwy.

(2) Os bydd Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod adolygu—

(a) yn cael cais ysgrifenedig i gywiro'r gwall oddi wrth unrhyw berson, neu

(b) yn anfon datganiad ysgrifenedig at y ceisydd sy'n esbonio'r gwall ac yn datgan eu bod yn ystyried ei gywiro,

rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu pa un ai i gywiro'r gwall ai peidio.

(3) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud cywiriad oni bai eu bod wedi hysbysu'r awdurdod cynllunio eu bod wedi cael y cais a grybwyllir yn is-adran (2)(a) neu wedi anfon y datganiad a grybwyllir yn is-adran (2)(b).

(4) Y cyfnod adolygu yw—

(a) pan fo’r ddogfen penderfyniad yn cofnodi penderfyniad y mae adran 375[j2502] yn gymwys iddo, y cyfnod y caniateir i gais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad statudol o dan adran 376[j2503] gael ei wneud ynddo i’r Uchel Lys;

(b) pan fo’r ddogfen penderfyniad yn cofnodi penderfyniad ar apêl o dan adran [j518] nad yw adran 375[j2502] yn gymwys iddo, y cyfnod y caniateir i gais am ganiatâd i ddwyn achos o dan adran 378[j2505] gael ei wneud ynddo i’r Uchel Lys, heb gynnwys unrhyw amser y gall yr Uchel Lys estyn y cyfnod hwnnw,

(c) pan fo’r ddogfen penderfyniad yn cofnodi penderfyniad ar apêl o dan adran [j872] neu [j820], y cyfnod y caniateir i gais am ganiatâd i ddwyn achos o dan adran 379[j2506] gael ei wneud ynddo i’r Uchel Lys, heb gynnwys unrhyw amser y gall yr Uchel Lys estyn y cyfnod hwnnw,

ac nid oes gwahaniaeth a wneir unrhyw gais o’r fath mewn gwirionedd.

(5) Cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl i Weinidogion Cymru gywiro’r gwall neu ar ôl iddynt benderfynu peidio â’i gywiro, rhaid iddynt ddyroddi hysbysiad cywiro.

(6) Hysbysiad yw hysbysiad cywiro—

(a) sy’n pennu cywiriad y gwall, neu

(b) sy’n rhoi hysbysiad o benderfyniad i beidio â’i gywiro.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno’r hysbysiad cywiro—

(a) i’r ceisydd;

(b) os nad y ceisydd yw perchennog y tir y mae’r penderfyniad gwreiddiol yn ymwneud ag ef, i bob perchennog ar y tir;

(c) i’r awdurdod cynllunio;

(d) os gofynnodd unrhyw berson arall am y cywiriad, i’r person hwnnw;

(e) i unrhyw berson arall a bennir, neu sydd o ddisgrifiad a bennir, mewn rheoliadau.

(8) Pan ddyroddwyd y ddogfen penderfyniad gan arolygydd, caniateir i swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan yr adran hon gael eu harfer hefyd gan yr arolygydd hwnnw neu unrhyw arolygydd arall.

(9) Yn yr adran hon—

ystyr “yr awdurdod cynllunio” (“*the planning authority*”) yw’r awdurdod cynllunio y mae’r tir y mae’r penderfyniad gwreiddiol yn ymwneud ag ef yn ei ardal;

ystyr “y ceisydd” (“*the applicant*”) yw’r person a wnaeth y cais neu’r apêl, neu a gyflwynodd yr hysbysiad prynu, y mae’r penderfyniad gwreiddiol yn ymwneud ag ef neu â hi;

ystyr “perchennog” (“*owner*”), mewn perthynas â thir, yw—

(a) perchennog ar yr ystad rydd-ddaliadol, neu

(b) tenant o dan les a roddir neu a estynnir am gyfnod penodol sydd ag o leiaf 7 mlynedd yn weddill.

**382 Effaith a dilysrwydd hysbysiad cywiro [j2509]**

(1) Os gwneir cywiriad o dan adran 381[j2508]—

(a) mae'r penderfyniad gwreiddiol i'w drin fel pe na bai wedi ei wneud;

(b) mae'r penderfyniad i'w drin at bob diben fel pe bai wedi ei wneud ar y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad cywiro.

(2) Os na wneir cywiriad—

(a) mae'r penderfyniad gwreiddiol yn parhau i gael effaith;

(b) nid yw adran 381[j2508] na'r adran hon yn effeithio ar unrhyw beth a wneir yn unol â'r penderfyniad neu mewn perthynas ag ef.

(3) Pan fo hysbysiad cywiro yn cael ei ddyroddi mewn perthynas â phenderfyniad y mae adran 375[j2502] yn gymwys iddo, mae adran 376[j2503] yn gymwys i'r hysbysiad cywiro fel pe bai'n benderfyniad y mae adran 375[j2502] yn gymwys iddo.

(4) Pan fo hysbysiad cywiro yn cael ei ddyroddi mewn perthynas â phenderfyniad y mae adran 378[j2505] neu 379[j2506] yn gymwys iddo, mae'r adran o dan sylw yn gymwys i'r hysbysiad cywiro fel pe bai'n benderfyniad y mae yr adran honno'n gymwys iddo.

(5) Pan fo rheoliadau o dan adran 380(2)(c)[j2507] yn pennu disgrifiad o benderfyniad, rhaid iddynt wneud darpariaeth sy'n cyfateb i adran 376[j2503], 377[j2504] neu 378[j2505] ar gyfer cwestiynu dilysrwydd hysbysiad cywiro a ddyroddir mewn perthynas â phenderfyniad o'r disgrifiad hwnnw.

(6) Ni chaniateir cwestiynu dilysrwydd hysbysiad cywiro mewn unrhyw achos cyfreithiol ac eithrio i'r graddau a ddarperir yn rhinwedd yr adran hon.

## RHAN 15

## CYFFREDINOL

*Pwerau i wneud gwybodaeth am fuddiannau mewn tir yn ofynnol*

### 383 Pŵer i gyflwyno hysbysiad gwybodaeth [j2601]

(1) Caiff awdurdod perthnasol, at ddiben ei alluogi i wneud gorchymyn neu i ddyroddi neu gyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon (ac eithrio Pennod 2 o Ran 6), gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i—

(a) meddiannydd ar unrhyw dir, neu

(b) person sy'n cael rhent (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) mewn cysylltiad ag unrhyw dir.

(2) Hysbysiad gwybodaeth yw hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person y'i cyflwynir iddo roi gwybodaeth ysgrifenedig i'r awdurdod perthnasol am y materion a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Y materion y caniateir eu pennu yw—

(a) natur buddiant y person yn y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef;

(b) enw a chyfeiriad post unrhyw berson arall sy'n wybyddus i'r person fel rhywun y mae ganddo fuddiant yn y tir;

(c) y diben y defnyddir y tir ato;

(d) yr adeg pan ddechreuodd y defnydd o'r tir at y diben hwnnw;

(e) enw a chyfeiriad post unrhyw berson sy'n wybyddus i'r person y cyflwynir yr hysbysiad iddo fel rhywun sydd wedi defnyddio'r tir at y diben hwnnw;

(f) yr adeg pan ddechreuodd unrhyw weithgareddau sy'n cael eu cynnal ar y tir.

(4) Caiff hysbysiad gwybodaeth ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei rhoi o fewn—

(a) 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad, neu

(b) unrhyw gyfnod hwy a bennir gan yr hysbysiad neu a ganiateir gan yr awdurdod perthnasol.

(5) Yn yr adran hon ystyr "awdurdod perthnasol" yw Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol.

**384 Troseddau o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth [j2602]**

(1) Mae person y mae hysbysiad gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth yn cyflawni trosedd os yw'r person yn methu, heb esgus rhesymol, â darparu'r wybodaeth.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(3) Mae person y mae hysbysiad gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth yn cyflawni trosedd os yw'r person, gan ymhonni ei fod yn cydymffurfio â'r hysbysiad, yn darparu gwybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol mewn modd perthnasol.

(4) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (3) yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

**385 Gwybodaeth am fuddiannau yn nhir y Goron [j2603]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i fuddiant yn nhir y Goron nad yw'n fuddiant preifat.

(2) Ni chaiff awdurdod perthnasol gyflwyno hysbysiad gwybodaeth mewn perthynas â buddiant y mae'r adran hon yn gymwys iddo.

(3) Ond caiff Gweinidogion Cymru, at ddiben galluogi awdurdod perthnasol i wneud gorchymyn neu i ddyroddi neu gyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon (ac eithrio Pennod 2 o Ran 6), wneud archiad i awdurdod priodol y Goron roi gwybodaeth ysgrifenedig iddynt am y materion a bennir yn yr archiad.

(4) Y materion y caniateir eu pennu yn yr archiad yw'r materion a grybwyllir yn adran 383(3)[j2601].

(5) Rhaid i awdurdod priodol y Goron gydymffurfio â'r archiad ac eithrio i'r graddau—

(a) nad yw'r wybodaeth y gofynnir amdani o fewn gwybodaeth yr awdurdod, neu

(b) y bydd gwneud hynny yn datgelu gwybodaeth am—

(i) diogelwch gwladol, neu

(ii) y mesurau sydd wedi eu cymryd neu sydd i'w cymryd i sicrhau diogelwch unrhyw dir neu unrhyw eiddo arall.

(6) Yn yr adran hon mae i "awdurdod perthnasol" yr un ystyr ag yn adran 383[j2601].

*Pwerau mynediad*

**386 Pwerau i fynd ar dir [j2604]**

(1) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan gyd-bwyllgor corfforedig neu Weinidogion Cymru fynd ar unrhyw dir i gynnal arolwg ohono mewn cysylltiad â llunio, diwygio, mabwysiadu neu gymeradwyo cynllun datblygu strategol.

(2) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru fynd ar unrhyw dir i gynnal arolwg ohono mewn cysylltiad â llunio, diwygio, mabwysiadu neu gymeradwyo cynllun datblygu lleol.

(3) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru fynd ar unrhyw dir i gynnal arolwg ohono mewn cysylltiad â chais a grybwyllir yn is-adran (4) sy'n ymwneud â'r tir hwnnw neu unrhyw dir arall.

(4) Y ceisiadau yw—

(a) cais am ganiatâd cynllunio;

(b) cais am gymeradwyaeth ar gyfer mater a gadwyd yn ôl;

(c) cais am unrhyw gydsyniad arall, unrhyw gytundeb arall neu unrhyw gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol gan amod neu gyfyngiad y mae caniatâd cynllunio wedi ei roi yn ddarostyngedig iddo;

(d) cais a wneir i Weinidogion Cymru o dan adran 80 (opsiwn i wneud cais i Weinidogion Cymru: ceisiadau cysylltiedig);

(e) cais o dan adran 100 am newid ansylweddol i ganiatâd cynllunio;

(f) cais o dan Atodlen xref_C23_1[J495S] neu xref_C5_1[j490S] (cais i benderfynu amodau caniatadau mwynau neu i ohirio'r dyddiad adolygu);

(g) cais o dan adran 167 i addasu neu ryddhau rhwymedigaeth gynllunio;

(h) cais am gydsyniad o dan reoliadau rheolaethu hysbysebion.

(5) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru fynd ar unrhyw dir i—

(a) cynnal arolwg ohono mewn cysylltiad â chynnig i wneud gorchymyn, neu i ddyroddi hysbysiad, a grybwyllir yn is-adran (6), neu

(b) asesu a gydymffurfiwyd â gorchymyn neu hysbysiad a grybwyllir yn yr is-adran honno.

(6) Y gorchmynion a'r hysbysiadau yw—

(a) gorchymyn datblygu sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â thir a bennir yn y gorchymyn neu dir o ddisgrifiad a bennir yn y gorchymyn;

(b) gorchymyn datblygu lleol sy'n ymwneud â thir a bennir yn y gorchymyn neu dir mewn rhan o ardal awdurdod cynllunio a bennir yn y gorchymyn;

(c) gorchymyn o dan adran 102 (gorchmynion sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio);

(d) gorchymyn datbarhau;

(e) gorchymyn gwahardd;

(f) gorchymyn diogelu;

(g) hysbysiad cynnal a chadw tir;

(h) gorchymyn neu hysbysiad o dan reoliadau rheolaethu hysbysebion.

(7) Pe bai'n amhosibl arfer pŵer a roddir i awdurdod cynllunio gan adran 231 (symud ymaith a difodi placardau a phosteri) heb fynd ar unrhyw dir, caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod fynd ar y tir er mwyn arfer y pŵer.

(8) Caiff person awdurdodedig fynd ar unrhyw dir i gynnal arolwg ohono, neu i amcangyfrif ei werth, mewn cysylltiad â hawliad am ddigollediad mewn cysylltiad â'r tir hwnnw neu unrhyw dir arall sy'n daladwy gan awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru o dan—

(a) Pennod 51 o Ran [3] (newidiadau i ganiatâd cynllunio);

(b) adran 124 neu 152 (hysbysiadau stop dros dro a hysbysiadau stop);

(c) Pennod [1] o Ran [7] (gorchmynion datbarhau, gorchmynion gwahardd a gorchmynion diogelu);

(d) adran 232 (difrod a achosir wrth symud ymaith neu ddifodi placard neu boster);

(e) adran 289 (pedestreiddio priffordd);

(f) adran 319 neu 320(3) (ymgymerwyr statudol: newidiadau i ganiatâd cynllunio ac ail-leoli cyfarpar).

(9) Yn is-adran (8) ystyr "person awdurdodedig" yw—

(a) swyddog o Swyddfa Brisio Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, neu

(b) person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio neu (yn achos hawliad am ddigolledliad o dan adran 152 neu 320(3) sy'n daladwy gan Weinidogion Cymru) Weinidogion Cymru.

**387 Pwerau mynediad: cwmpas a chyfyngiadau [j2605]**

(1) Caniateir i bŵer i fynd ar dir o dan adran 386[j2604] gael ei arfer ar unrhyw adeg resymol.

(2) Ni chaiff person sydd wedi ei awdurdodi i fynd ar dir o dan yr adran honno fynnu mynediad fel hawl i unrhyw dir sydd wedi ei feddiannu oni bai bod o leiaf 24 awr o rybudd o'r mynediad bwriadedig wedi ei roi i bob meddiannydd.

(3) Rhaid i berson sydd wedi ei awdurdodi i fynd ar dir o dan yr adran honno, os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gan neu ar ran unrhyw berchennog neu unrhyw feddiannydd ar y tir, ddangos tystiolaeth o awdurdodiad y person a datgan diben mynd ar y tir cyn mynd arno.

(4) Mae pŵer i fynd ar dir o dan adran 386[j2604] i gynnal arolwg ohono yn cynnwys pŵer i chwilio a thurio i benderfynu natur yr isbridd neu i benderfynu a oes mwynau yn bresennol.

(5) Mae is-adran (6)[j2605] yn gymwys pan, mewn perthynas â pherson sydd wedi ei awdurdodi i fynd ar dir i gynnal arolwg ohono—

(a) bo'n ofynnol iddo roi rhybudd o'r mynediad bwriadedig o dan is-adran (2), a

(b) bo'n cynnig cynnal gwaith o dan is-adran (4).

(6) Ni chaiff y person gynnal y gwaith oni bai bod y rhybudd o'r mynediad bwriadedig yn cynnwys hysbysiad o fwriad y person i'w gynnal.

(7) Pan—

(a) bo person yn cynnig cynnal gwaith o dan is-adran (4) ar dir sy’n perthyn i ymgymerwr statudol, a

(b) bo’r ymgymerwr yn gwrthwynebu’r gwaith arfaethedig ar y sail y byddai ei gynnal yn ddifrifol andwyol i gyflawni ei ymgymeriad,

ni chaiff y person gynnal y gwaith heb gytundeb y Gweinidog priodol.

**388 Pwerau mynediad: troseddau a digolllediad [j2606]**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo gan berson bŵer i fynd ar dir o dan adran 386.

(2) Mae person sy’n rhwystro’n fwriadol berson sy’n arfer y pŵer mynediad yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sy’n euog o drosedd o dan is-adran (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw’n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(4) Os achosir difrod i dir neu eiddo arall—

(a) wrth arfer y pŵer mynediad, neu

(b) wrth wneud unrhyw arolwg at y diben y rhoddwyd y pŵer mynediad ato,

caiff person sy’n dioddef y difrod adennill digolledigad oddi wrth y person a awdurdododd y mynediad.

(5) Rhaid gwneud hawliad am ddigolledigad o dan is-adran (4) yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy’n dechrau â’r diwrnod yr achosir y difrod (neu os achosir y difrod dros fwy nag un diwrnod, y diwrnod olaf y’i hachosir).

(6) Mae person yn cyflawni trosedd os yw’r person yn datgelu gwybodaeth a gafodd y person wrth arfer y pŵer mynediad, ac sy’n ymwneud â phroses weithgynhyrchu neu gyfrinach fasnach, at ddiben heblaw’r un yr awdurdodwyd y person i fynd ar y tir ato.

(7) Mae person sy’n euog o drosedd o dan is-adran (6) yn agored—

(a) ar euogfarn ddiannod, i ddirwy;

(b) ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy neu i’w garcharu am gyfnod nad yw’n hwy na 2 flynedd, neu’r ddau.

**389 Pwerau i fynd ar dir y Goron [j2607]**

(1) Ni chaiff person fynd ar dir y Goron o dan adran 386[j2604] heb gytundeb—

(a) person yr ymddengys i’r person sy’n ceisio cael mynediad i’r tir fod ganddo hawlogaeth i roi’r cytundeb hwnnw, neu

(b) awdurdod priodol y Goron.

(2) Nid yw adrannau 387[j2605] a 388[j2606] yn gymwys i unrhyw beth a wneir yn rhinwedd yr adran hon.

*Troseddau*

**390 Troseddau gan gyrff corfforedig [j2608]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan brofir bod trosedd o dan ddarpariaeth yn y Ddeddf hon a gyflawnwyd gan gorff corfforedig wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad y canlynol, neu y gellir ei phriodoli i esgeulustod ar ran y canlynol—

(a) uwch-swyddog i'r corff, neu

(b) person a oedd yn ymhonni ei fod yn uwch-swyddog i'r corff.

(2) Mae'r uwch-swyddog neu'r person (yn ogystal â'r corff corfforedig) yn euog o'r drosedd, ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(3) Yn yr adran hon ystyr "uwch-swyddog" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforedig.

(4) Ond yn achos corff corfforedig y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, ystyr "cyfarwyddwr" yw aelod o'r corff.

*Digolledlad*

**391 Gwneud hawliadau am ddigolledlad [j617]**

(1) Caiff rheoliadau—

(a) gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae rhaid gwneud hawliad am ddigolledlad o dan unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon;

(b) diwygio unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon sy'n pennu'r cyfnod y mae rhaid gwneud hawliad am ddigolledlad ynddo.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru estyn y cyfnod ar gyfer gwneud hawliad am ddigolledlad o dan ddarpariaeth yn y Ddeddf hon mewn achos penodol, os ydynt wedi eu bodloni bod rhesymau da dros wneud hynny.

(3) Caniateir estyn y cyfnod ar gyfer gwneud hawliad—

(a) ar unrhyw adeg, pa un ai cyn neu ar ôl i'r cyfnod ddod i ben, a

(b) mwy nag unwaith.

**392 Penderfynu hawliadau digolledlad gan yr Uwch Dribiwnlys [j616]**

(1) Mae unrhyw anghydfod ynghylch digolledlad o dan ddarpariaeth yn y Ddeddf hon i'w atgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys ac i'w benderfynu ganddo.

(2) Mae adran 4 o Ddeddf Digolledlad Tir 1961 (p. 33) (costau) yn gymwys i benderfynu cwestiwn a atgyfeirir o dan yr adran hon fel y mae'n gymwys i benderfynu cwestiwn a atgyfeirir o dan adran 1 o'r Ddeddf honno, ond fel pe bai cyfeiriadau at yr "acquiring authority" yn gyfeiriadau at y person yr hawlir digolledlad oddi wrtho.

**393 Digolledlad am ddibrisiant yng ngwerth tir [j615]**

(1) Mae'r rheolau yn adran 5 o Ddeddf Digolledlad Tir 1961 (p. 33) yn cael effaith at ddiben asesu unrhyw ddigolledlad am ddibrisiant sy'n daladwy o dan ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, i'r graddau y maent yn berthnasol a chydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, fel y maent yn cael effaith at ddiben asesu digolledlad am gaffael yn orfodol fuddiant mewn tir.

(2) Pan fo buddiant mewn tir yn ddarostyngedig i forgais—

(a) rhaid i unrhyw ddigolllediad am ddibrisiant sy'n daladwy o dan y Ddeddf hon mewn cysylltiad â'r buddiant gael ei asesu fel pe na bai'r buddiant yn ddarostyngedig i'r morgais;

(b) caniateir i hawliad am ddigollediad am ddibrisiant gael ei wneud gan unrhyw forgeisai i'r buddiant, ond nid yw hynny yn effeithio ar hawl y person y mae ei fuddiant yn ddarostyngedig i'r morgais i wneud hawliad;

(c) nid oes digolledediad am ddibrisiant yn daladwy mewn cysylltiad â buddiant y morgeisai (sy'n wahanol i'r buddiant sy'n ddarostyngedig i'r morgais);

(d) rhaid i unrhyw ddigolledediad am ddibrisiant sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r buddiant sy'n ddarostyngedig i'r morgais gael ei dalu i'r morgeisai neu, os oes mwy nag un morgeisai, i'r morgeisai cyntaf; a rhaid iddo gael ei gymhwyso gan y morgeisai y telir y digolledediad iddo fel pe bai'n enillion gwerthu.

(3) Yn yr adran hon ystyr "digolledediad am ddibrisiant" yw digolledediad am golled neu ddifrod sy'n ddibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir.

**394 Pŵer i addasu darpariaethau digolledediad mewn perthynas â mwynau [j634]**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch hawlogaeth i ddigolledediad pan fo—

(a) gorchymyn o dan adran 102 yn addasu caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mwynau;

(b) gorchymyn datbarhau yn cael ei wneud mewn perthynas â defnydd o dir ar gyfer cynnal gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau;

(c) gorchymyn gwahardd neu orchymyn diogelu yn cael ei wneud.

(2) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n diwygio'r Ddeddf hon)—

(a) i adrannau 106, 107 a 211 gael effaith yn ddarostyngedig i addasiadau gwahanol i'r rhai a nodir yn Atodlenni 11 ac 16 (neu heb unrhyw un neu ragor o'r addasiadau hynny neu bob un ohonynt);

(b) i adrannau 319, 321 a 393[j615] gael effaith yn ddarostyngedig i addasiadau.

(3) Caiff y rheoliadau, er enghraifft—

(a) pennu amgylchiadau pan nad yw digolledediad yn daladwy;

(b) newid y sail y mae unrhyw ddigolledediad i'w asesu arni.

(4) Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau y maent yn ystyried eu bod yn cynrychioli—

(a) personau sy'n cynnal gweithrediadau mwyngloddio;

(b) perchnogion ar fuddiannau mewn tir sy'n cynnwys mwynau;

(c) awdurdodau cynllunio.

*Cyfraniadau ariannol*

**395 Cyfraniadau tuag at gostau yr eir iddynt gan awdurdodau [j103]**

(1) Caiff unrhyw awdurdod lleol neu unrhyw ymgymerwr statudol gyfrannu tuag at gostau y mae cyd-bwyllgor corfforedig, neu awdurdod cynllunio, awdurdod priffyrdd lleol neu awdurdod lleol arall yn mynd iddynt wrth arfer, neu mewn cysylltiad ag arfer, unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon (ac eithrio Pennod 2 o Ran 6).

(2) Caiff unrhyw awdurdod lleol gyfrannu tuag at gostau y mae awdurdod priffyrdd lleol yn mynd iddynt wrth adeiladu neu wella ffordd at ddiben darparu hawl tramwy cyhoeddus yn lle hawl tramwy a ddiddymir gan orchymyn o dan adran 297 neu 300.

(3) Mae is-adran (4) yn gymwys pan fo digollediad yn daladwy gan awdurdod cynllunio, awdurdod priffyrdd lleol neu awdurdod lleol arall o ganlyniad i unrhyw beth a wneir o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon (ac eithrio Pennod 2 o Ran 6).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cyfrannu tuag at dalu'r digolledDiad, os gwnaed y peth y mae'n daladwy o ganlyniad iddo yn gyfan gwbl neu'n rhannol er budd gwasanaeth a ddarperir gan Weinidogion Cymru, neu

(b) cyfarwyddo awdurdod lleol arall i gyfrannu swm y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn rhesymol, gan roi sylw i unrhyw fudd sy'n cronni i'r awdurdod arall hwnnw o ganlyniad i wneud y peth.

(5) Mae is-adran (7) yn gymwys—

(a) pan fo digolledDiad yn daladwy gan awdurdod cynllunio neu awdurdod lleol arall o ganlyniad i unrhyw benderfyniad neu unrhyw orchymyn a wneir o dan neu yn rhinwedd Rhannau 3 i 9 (ac eithrio Pennod 2 o Ran 6), a

(b) pan wnaed y penderfyniad neu'r gorchymyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol er budd gwasanaeth—

(i) a ddarperir gan un o Weinidogion y Goron neu un o adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig, a

(ii) y telir ei gost allan o arian a ddarperir gan Senedd y Deyrnas Unedig.

(6) Caiff y Gweinidog neu'r adran, gyda chydsyniad y Trysorlys, gyfrannu tuag at dalu'r digolledDiad.

(7) Nid yw'r pwerau a roddir i awdurdodau lleol gan yr adran hon yn cyfyngu ar y pwerau a roddir gan adrannau 274 a 275 o'r Ddeddf Priffyrdd (cyfraniadau tuag at gostau awdurdodau priffyrdd a chostau yn ymwneud â llwybrau cyhoeddus).

(8) Gweler hefyd adran 272 o'r Ddeddf honno am ddarpariaeth ynghylch Gweinidogion Cymru yn rhoi blaensymiau at ddibenion priffyrdd.

*Ffurflenni*

**396 Ffurf ar ddogfennau awdurdod lleol [j101]**

Caiff rheoliadau bennu ffurf a chynnwys unrhyw hysbysiad, unrhyw orchymyn neu unrhyw ddogfen arall y mae awdurdod lleol wedi ei awdurdodi i'w gyflwyno neu ei chyflwyno, i'w wneud neu ei gwneud neu i'w ddyroddi neu ei dyroddi neu y mae'n ofynnol iddo ei gyflwyno neu ei chyflwyno, ei wneud neu ei gwneud neu ei ddyroddi neu ei dyroddi o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon.

**397 Pwerau i wneud darpariaeth ynghylch ffurflenni ceisiadau ac apelau [j2624]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i bŵer o dan y Ddeddf hon i wneud darpariaeth mewn rheoliadau neu orchymyn datblygu ynghylch ffurf—

(a) cais,

(b) hysbysiad o apêl, neu

(c) unrhyw ddogfen arall sydd i'w darparu gan geisydd neu apelydd.

(2) Mae'r pŵer yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio ffurflen sydd i'w chyhoeddi neu ei darparu gan Weinidogion Cymru neu berson arall.

(3) Nid oes gwahaniaeth at ddibenion yr adran hon sut y caiff y pŵer ei fynegi.

*Cyflwyno dogfennau*

**398 Cyflwyno hysbysiadau a dogfennau eraill: cyffredinol [j2609]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Ddeddf hon neu a wneir odani yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad neu ddogfen arall gael ei gyflwyno neu ei chyflwyno i berson neu'n awdurdodi cyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall i berson (pa un a yw'r ddarpariaeth yn defnyddio'r gair "cyflwyno" neu "rhoi" neu unrhyw derm arall).

(2) Caniateir cyflwyno'r ddogfen i'r person yn unrhyw un o'r ffyrdd a ganlyn—

(a) drwy ei rhoi â llaw i'r person neu, yn achos person sy'n gorff corfforedig, ei rhoi â llaw i ysgrifennydd neu glerc y corff yn ei swyddfa gofrestredig neu ei brif swyddfa;

(b) drwy ei gadael ym man preswylio arferol y person neu ym man preswylio hysbys diwethaf y person neu, os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno, yn y cyfeiriad hwnnw;

(c) drwy ei hanfon gan ddefnyddio gwasanaeth post cofrestredig neu wasanaeth danfon cofnodedig—

(i) wedi ei chyfeirio at y person ym man preswylio arferol y person neu ym man preswylio hysbys diwethaf y person neu, yn achos person sy'n gorff corfforedig, wedi ei chyfeirio at ysgrifennydd neu glerc y corff yn ei swyddfa gofrestredig neu ei brif swyddfa, neu

(ii) os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno, wedi ei chyfeirio at y person yn y cyfeiriad hwnnw;

(d) os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig, drwy ei hanfon at y person yn y cyfeiriad hwnnw gan ddefnyddio cyfathrebiad electronig sy'n cydymffurfio â'r amodau yn is-adran (3).

(3) Yr amodau yw—

(a) bod modd i'r person yr anfonir y ddogfen ato gyrchu'r ddogfen,

(b) bod y ddogfen yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol, ac

(c) bod y ddogfen yn gallu cael ei defnyddio i gyfeirio ati yn ddiweddarach.

(4) Pan fo cyfathrebiad electronig yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno dogfen i berson a bod y ddogfen yn dod i law'r person y tu allan i oriau busnes y person, mae'r ddogfen i'w thrin fel pe bai wedi ei chyflwyno ar y diwrnod gwaith nesaf.

(5) Nid yw is-adran (2)(d) yn gymwys i gyflwyno—

(a) hysbysiad ymchwilio am orfodi;

(b) hysbysiad stop dros dro;

(c) hysbysiad tor amod neu hysbysiad sy'n tynnu hysbysiad tor amod yn ôl;

(d) copi o hysbysiad gorfodi;

(e) hysbysiad bod hysbysiad gorfodi wedi ei dynnu'n ôl neu fod unrhyw un neu ragor o'i ofynion wedi eu hepgor neu eu llacio;

(f) hysbysiad o dan adran 143(6) o fwriad i fynd ar dir a chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi;

(g) hysbysiad stop neu hysbysiad bod hysbysiad stop wedi ei dynnu'n ôl;

(h) copi o orchymyn diogelu coed neu orchymyn diogelu coetir, neu hysbysiad bod gorchymyn o'r fath wedi ei wneud, yn unol â rheoliadau diogelu coed;

(i) hysbysiad cynnal a chadw tir;

(j) hysbysiad gwybodaeth.

(6) Gweler adran 233 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol am ddarpariaeth ychwanegol ynghylch y dulliau y caiff awdurdodau lleol eu defnyddio i gyflwyno dogfennau.

(7) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon.

**399 Cyflwyno dogfennau i bersonau sydd â buddiant mewn tir neu sy'n meddiannu tir [j2610]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys (yn ychwanegol at adran 398[j2609]) pan fo darpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Ddeddf hon neu a wneir odani yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad neu ddogfen arall gael ei gyflwyno neu ei chyflwyno i berson, neu'n awdurdodi cyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall i berson—

(a) am fod ganddo fuddiant mewn tir, neu

(b) am ei fod yn feddiannydd ar dir.

(2) Pan fo'r ddogfen i'w chyflwyno i berson am fod ganddo fuddiant mewn unrhyw dir, ac na ellir darganfod enw'r person ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol, caniateir cyfeirio'r ddogfen at y person fel "perchennog" y tir (y mae rhaid ei ddisgrifio).

(3) Pan fo'r ddogfen i'w chyflwyno i berson am ei fod yn feddiannydd ar unrhyw dir, caniateir ei chyfeirio at y person wrth ei enw neu fel "meddiannydd" y tir (y mae rhaid ei ddisgrifio).

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys—

(a) pan—

(i) bo dogfen i'w chyflwyno i berson am fod ganddo fuddiant mewn unrhyw dir,

(ii) na fo modd darganfod man preswylio arferol neu fan preswylio hysbys diwethaf y person ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol, a

(iii) na fo’r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno’r ddogfen, neu

(b) pan fo dogfen i’w chyflwyno i berson am ei fod yn feddiannydd ar unrhyw dir.

(5) Mae’r ddogfen i’w thrin fel pe bai wedi ei chyflwyno’n briodol os yw wedi ei chyfeirio at y person, wedi ei marcio’n glir fel cyfathrebiad pwysig sy’n effeithio ar eiddo’r person, a’i bod—

(a) wedi ei hanfon i’r tir gan ddefnyddio gwasanaeth post cofrestredig neu wasanaeth danfon cofnodedig ac nad yw wedi ei dychwelyd fel dogfen nas danfonwyd,

(b) wedi ei rhoi â llaw i berson sydd, neu yr ymddengys ei fod, yn preswylio neu wedi ei gyflogi ar y tir, neu

(c) wedi ei gosod yn sownd mewn lle gweladwy ar wrthrych ar y tir.

(6) Mae’r adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i’r gwrthwyneb a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon.

**400 Cyflwyno dogfennau i’r Goron [j2611]**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys pan fo cyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall i’r Goron yn ofynnol neu wedi ei awdurdodi o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon.

(2) Rhaid cyflwyno’r ddogfen i awdurdod priodol y Goron.

(3) Nid yw adrannau 398[j2609] a 399[j2610] yn gymwys i gyflwyno’r ddogfen.

*Y Goron*

**401 Diffiniadau sy’n ymwneud â’r Goron [j2612]**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Ystyr “tir y Goron” yw tir y mae buddiant y Goron neu fuddiant Dugiaeth ynddo.

(3) Ystyr “buddiant y Goron” yw buddiant—

(a) sy’n perthyn i’w Fawrhydi yn hawl y Goron neu yn hawl Ei ystadau preifat, neu

(b) sy’n perthyn i adran o’r llywodraeth neu sy’n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer Ei Fawrhydi at ddibenion adran o’r llywodraeth.

(4) Ystyr “buddiant Dugiaeth” yw—

(a) buddiant sy’n perthyn i’w Fawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn, neu

(b) buddiant sy’n perthyn i Ddugiaeth Cernyw.

(5) Ystyr “buddiant preifat”, mewn perthynas â thir y Goron, yw buddiant nad yw’n fuddiant y Goron nac yn fuddiant Dugiaeth.

(6) Ystyr “awdurdod priodol y Goron”, mewn perthynas â thir y Goron, yw—

(a) mewn perthynas â thir sy’n perthyn i’w Fawrhydi yn hawl y Goron ac sy’n ffurfio rhan o Ystad y Goron, Comisiynwyr Ystad y Goron;

(b) mewn perthynas ag unrhyw dir arall sy’n perthyn i’w Fawrhydi yn hawl y Goron, yr adran o’r llywodraeth sy’n rheoli’r tir;

(c) mewn perthynas â thir sy'n perthyn i'w Fawrhydi yn hawl Ei ystadau preifat, person a benodir gan Ei Fawrhydi yn ysgrifenedig o dan y Llofnod Brenhinol neu, os na wneir unrhyw benodiad o'r fath, Gweinidogion Cymru;

(d) mewn perthynas â thir sy'n perthyn i'w Fawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn, Canghellor y Ddugiaeth;

(e) mewn perthynas â thir sy'n perthyn i Ddugiaeth Cernyw, person a benodir gan Ddug Cernyw neu gan berson sy'n meddu ar y Ddugiaeth am y tro;

(f) mewn perthynas â thir sy'n perthyn i adran o'r llywodraeth neu sy'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer Ei Fawrhydi at ddibenion adran o'r llywodraeth, yr adran.

(7) Mae "y Goron" i'w drin fel pe bai'n cynnwys Comisiwn y Senedd.

(8) Rhaid atgyfeirio unrhyw gwestiwn sy'n codi ynghylch pwy yw awdurdod priodol y Goron mewn perthynas ag unrhyw dir i'r Trysorlys, y mae ei benderfyniad yn derfynol.

(9) Yn yr adran hon—

(a) mae cyfeiriadau at ystadau preifat Ei Fawrhydi i'w darllen yn unol ag adran 1 o Ddeddf Ystadau Preifat y Goron 1862 (p. 37);

(b) mae cyfeiriadau at adran o'r llywodraeth yn cynnwys Comisiwn y Senedd.

**402 Cynrychiolaeth buddiant y Goron a buddiant Dugiaeth mewn tir [j2613]**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu sydd wedi ei awdurdodi i'w wneud at ddibenion unrhyw ddarpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Ddeddf hon neu a wneir odani (ac eithrio Pennod 2 o Ran 6) gan berchennog ar fuddiant mewn tir (gan gynnwys buddiant fel meddiannydd ar y tir yn unig) neu mewn perthynas â pherchennog o'r fath.

(2) I'r graddau y mae'r buddiant yn fuddiant y Goron neu'n fuddiant Dugiaeth, rhaid i'r peth gael ei wneud gan awdurdod priodol y Goron neu mewn perthynas â'r awdurdod hwnnw.

**403 Camau gorfodi mewn perthynas â thir y Goron [j2614]**

(1) Ni chaiff awdurdod cynllunio gymryd cam gorfodi perthnasol mewn perthynas â thir y Goron heb gytundeb awdurdod priodol y Goron.

(2) Caiff awdurdod priodol y Goron roi cytundeb yn ddarostyngedig i amodau.

(3) Yn yr adran hon ystyr "cam gorfodi perthnasol" yw unrhyw beth a wneir mewn cysylltiad â gorfodi gofyniad neu waharddiad a osodir gan neu o dan y Ddeddf hon (ac eithrio Pennod 2 o Ran 6).

(4) Mae'n cynnwys—

(a) mynd ar dir, a

(b) dwyn achos neu wneud cais.

(5) Ond nid yw'n cynnwys—

(a) dyroddi neu gyflwyno hysbysiad (er enghraifft, hysbysiad stop dros dro neu hysbysiad gorfodi), neu

(b) gwneud gorchymyn (er enghraifft, gorchymyn o dan adran [j465]).

*Achosion arbennig eraill*

**404 Adeiladau rhestredig a nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig [j2623]**

(1) Wrth benderfynu pa un ai i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei osodiad, rhaid i Weinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio roi sylw arbennig i ddymunoldeb diogelu—

(a) yr adeilad rhestredig,

(b) gosodiad yr adeilad, ac

(c) unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd gan yr adeilad.

(2) Wrth arfer y pwerau a roddir gan adrannau [j655], [j656] a [j657] (cyfeddu, gwaredu a datblygiad tir a ddelir at ddibenion cynllunio), rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ddymunoldeb diogelu nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, ac adeiladau rhestredig yn benodol.

(3) Yn yr adran hon ystyr "adeilad rhestredig" yw—

(a) adeilad rhestredig (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 76 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol) yng Nghymru, neu

(b) adeilad rhestredig (o fewn yr ystyr a roddir i "listed building" gan adran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p. 9)) yn Lloegr.

**405 Datblygiad gan awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru a thir sy'n perthyn iddynt [j2615]**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch cymhwyso'r darpariaethau a grybwyllir yn is-adran (2) mewn perthynas â—

(a) datblygiad tir yn ardal awdurdod cynllunio gan yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru (pa un ai ar ei ben ei hun neu ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd ag unrhyw berson arall);

(b) tir yn ardal awdurdod cynllunio y mae gan yr awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru fuddiant ynddo.

(2) Y darpariaethau yw unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau—

(a) Rhan [3] (caniatâd cynllunio) ac eithrio Pennod [8] (datblygiad ag awdurdodiad y llywodraeth);

(b) Pennod [1] o Ran [6] (rhwymedigaethau cynllunio);

(c) Pennod [1] o Ran [7] (gorchmynion datbarhau, gorchmynion gwahardd a gorchmynion diogelu);

(d) Rhan [9] (diogelu coed a choetiroedd).

(3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon—

(a) darparu i unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hynny fod yn gymwys yn ddarostyngedig i eithriadau neu addasiadau, neu i beidio â bod yn gymwys, mewn perthynas â datblygiad a grybwyllir yn is-adran (1)(a) neu dir a grybwyllir yn is-adran (1)(b);

(b) gwneud darpariaeth newydd ynghylch unrhyw fater yr ymdrinnir ag ef yn unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hynny.

(4) Caiff y rheoliadau, yn benodol, ddarparu—

(a) i gais am gydsyniad perthnasol gael ei wneud i'r awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru, neu gael ei benderfynu ganddo neu ganddynt;

(b) ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â chais am gydsyniad perthnasol.

(5) Os yw'r rheoliadau yn darparu i gais gael ei benderfynu gan yr awdurdod cynllunio, cânt reoleiddio trefniadau'r awdurdod ar gyfer arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r cais, er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth a wneir gan adrannau 361 i 363 neu odanynt neu gan adran 101 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol.

(6) Caiff y rheoliadau, mewn perthynas â chais sy'n ymwneud â datblygiad gan awdurdod cynllunio neu sy'n ymwneud â thir y mae gan awdurdod cynllunio fuddiant ynddo—

(a) darparu i unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy reoliadau o dan adran 58 neu 63 fod yn gymwys yn ddarostyngedig i eithriadau neu addasiadau, neu

(b) gwneud darpariaeth gyfatebol.

(7) Yn is-adran (4) ystyr "cydsyniad perthnasol" yw—

(a) caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a grybwyllir yn is-adran (1)(a);

(b) caniatâd cynllunio i ddatblygu tir a grybwyllir yn is-adran (1)(b);

(c) unrhyw gydsyniad arall, unrhyw gytundeb arall neu unrhyw gymeradwyaeth arall sy'n ofynnol mewn cysylltiad â datblygiad a grybwyllir yn is-adran (1)(a) neu dir a grybwyllir yn is-adran (1)(b).

**406 Tir Eglwys Loegr [j2616]**

(1) Pan fo unrhyw ddarpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Ddeddf hon neu a wneir odani yn ei gwneud yn ofynnol neu'n awdurdodi cyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall i berchennog ar dir, a thir Eglwys Loegr yw'r tir, rhaid cyflwyno dogfen gyfatebol i'r Bwrdd Cyllid priodol hefyd.

(2) Mae tir Eglwys Loegr sy'n perthyn i fywoliaeth eglwysig sydd heb ddeiliad i'w drin at ddibenion caffael y tir yn orfodol o dan unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon fel pe bai'n perthyn i'r Bwrdd Cyllid perthnasol.

(3) Rhaid i unrhyw ddigolledigad sy'n daladwy mewn perthynas â thir Eglwys Loegr o dan unrhyw ddarpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Ddeddf hon neu a wneir odani—

(a) cael ei dalu i'r Bwrdd Cyllid priodol, a

(b) cael ei gymhwyso gan y Bwrdd hwnnw at y dibenion y byddai enillion gwerthu'r tir drwy gytundeb yn gymwys iddynt o dan unrhyw ddeddfiad neu Fesur gan Eglwys Loegr sy'n awdurdodi neu'n gwaredu enillion gwerthiant o'r fath.

(4) Pan fo swm o ddigolledigad yn adenilladwy o dan baragraff 5 neu 6 o Atodlen [j605S] mewn perthynas â thir Eglwys Loegr, caiff y Bwrdd Cyllid priodol gymhwyso unrhyw arian neu unrhyw warannau a ddelir ganddo i ad-dalu'r swm hwnnw.

(5) Yn yr adran hon—

ystyr "Bwrdd Cyllid priodol" ("*appropriate Board of Finance*"), mewn perthynas ag unrhyw dir, yw'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol ar gyfer yr esgobaeth y mae'r tir ynddi;

ystyr "tir Eglwys Loegr" ("*Church of England land*") yw tir—

(a) sy'n perthyn i fywoliaeth eglwysig i Eglwys Loegr,

(b) sy'n eglwys neu'n ffurfio rhan o eglwys sy'n ddarostyngedig i awdurdodaeth esgob yn un o esgobaethau Eglwys Loegr neu safle eglwys o'r fath, neu

(c) sy'n gladdfa neu'n ffurfio rhan o gladdfa sy'n ddarostyngedig i awdurdodaeth esgob o'r fath.

*Cyffredinol*

**407 Rheoliadau [j2620]**

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r Ddeddf hon (ac eithrio adran [j703B]) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran [j703B] (tir gweithredol darparwyr gwasanaeth post cyffredinol) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach yn gweithredu ar y cyd.

(3) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(4) Yn achos rheoliadau a wneir o dan y pwerau a grybwyllir yn is-adran (5), mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (3)(b) yn cynnwys darpariaeth sy'n datgymhwyso, yn addasu effaith, yn diwygio, yn diddymu neu'r dirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon.

(5) Y pwerau y cyfeirir atynt yn is-adran (4) yw'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan—

(a) Rhan [2] (y cynllun datblygu);

(b) Pennod [2] o Ran [6] (rheoliadau ASC);

(c) adran [j102] (ffioedd am arfer swyddogaethau awdurdodau cynllunio);

(d) adran [j104] (ffioedd am geisiadau ac apelau i Weinidogion Cymru);

(e) adran [j106](10) (achosion y mae rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu'r weithdrefn ar eu cyfer);

(f) Pennod [4] o Ran [14] (cywiro penderfyniadau Gweinidogion Cymru).

(6) Rhaid i reoliadau o dan y Ddeddf hon (ac eithrio rheoliadau o dan adran [j703B]) gael eu gwneud drwy offeryn statudol Cymreig.

(7) Mae'r rheoliadau a ganlyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd—

(a) rheoliadau o dan adran [j203] (ardaloedd cydgynllunio a Pharciau Cenedlaethol);

(b) rheoliadau o dan baragraff 1(9) o Atodlen [j445S] (cyfnod ôl-ofal);

(c) rheoliadau o dan baragraff 1(4) o Atodlen [j445B] (hyd caniatadau mwynau);

(d) rheoliadau ASC;

(e) rheoliadau o dan adran [j703A] (tir gweithredol yr Awdurdod Hedfan Sifil);

(f) rheoliadau o dan adran [j212] (maint a chyfansoddiad pwyllgorau awdurdodau cynllunio);

(g) rheoliadau o dan adran [j102] (ffioedd am arfer swyddogaethau awdurdodau cynllunio);

(h) rheoliadau o dan adran [j104] (ffioedd am geisiadau ac apelau i Weinidogion Cymru);

(i) rheoliadau o dan adran [j106](10) (achosion y mae rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu'r weithdrefn ar eu cyfer);

(j) rheoliadau o dan adran 394[j634] (digollediad am orchmynion yn ymwneud â mwynau);

(k) rheoliadau o dan adran 405[j2615] sy'n ymwneud â datblygiad tir gan Weinidogion Cymru neu â thir y mae gan Weinidogion Cymru fuddiant ynddo;

(l) rheoliadau o dan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Ddeddf hon (ac eithrio adran [j703B]) sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ddeddfiad sydd wedi ei gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon).

(8) Mae unrhyw reoliadau eraill o dan y Ddeddf hon (ac eithrio rheoliadau o dan adran [j703B]) yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

(9) Mewn perthynas â rheoliadau o dan adran [j703B]—

(a) rhaid iddynt gael eu gwneud drwy offeryn statudol,

(b) maent yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, ac

(c) ni chaniateir eu gwneud oni bai bod drafft o'r offeryn sy'n eu cynnwys wedi ei osod gerbron dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig ac wedi ei gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad.

(10) Yn is-adran (7)(l) ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw—

(a) Deddf gan Senedd Cymru;

(b) Mesur Cynulliad;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

**408 Dehongli [j001]**

(1) Yn y Ddeddf hon—

ystyr "adeilad" ("*building*") (ac eithrio ym Mhennod [2] o Ran [6]) yw—

(a) unrhyw adeilad neu strwythur, neu

(b) unrhyw ran o adeilad neu strwythur,

ond nid yw'n cynnwys cyfarpar na pheiriannau sy'n ffurfio rhan o adeilad neu strwythur;

mae "adran o'r llywodraeth" ("*government department*") yn cynnwys Gweinidogion Cymru ac un o Weinidogion y Goron;

mae “amaethyddiaeth” (“*agriculture*”) yn cynnwys—

(a) garddwriaeth, tyfu ffrwythau a thyfu hadau,

(b) ffermio llaeth a bridio a chadw da byw (gan gynnwys unrhyw greadur a gedwir i gynhyrchu bwyd, gwlân, crwyn neu ffwr, neu i’w ddefnyddio wrth ffermio tir),

(c) y defnydd o dir fel tir pori, gweirglodd, tir helyg gwiail, gerddi marchnad a phlanhigfeydd, a

(d) y defnydd o dir ar gyfer coetiroedd, pan fo’r defnydd hwnnw’n ategol i ffermio tir at ddibenion amaethyddol eraill;

mae i “amod adfer” (“*restoration condition*”) yr ystyr a roddir gan baragraff 1(2)(a) o Atodlen xref_C4_1[J445S];

mae i “amod ôl-ofal” (“*aftercare condition*”) yr ystyr a roddir gan baragraff 1(2)(b) o Atodlen xref_C4_1[J445S];

mae i “ardal datblygu trefol” yr un ystyr ag “urban development area” yn Rhan 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (p. 65) (gweler adran 171 o’r Ddeddf honno);

mae “arddangos” (“*display*”) mewn perthynas â hysbyseb, i’w ddehongli yn unol ag adran [j851](5);

ystyr “arolygydd” (“*inspector*”) yw person a benodir gan Weinidogion Cymru;

ystyr “awdurdod caffael” (“*acquiring authority*”), mewn perthynas â chaffaeliad neu gaffaeliad arfaethedig buddiant mewn tir (pa un ai yn orfodol neu drwy gytundeb), yw’r awdurdod cyhoeddus neu’r person arall sy’n caffael y buddiant neu’n cynnig ei gaffael;

mae i “awdurdod cynllunio” (“*planning authority*”) yr ystyr a roddir gan adran [j201];

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw—

(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(b) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(c) cyngor cymuned;

(d) comisiynydd heddlu a throseddu yng Nghymru;

(e) awdurdod tân ac achub yng Nghymru a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) neu gynllun y mae adran 4 o’r Ddeddf honno’n gymwys iddo;

(f) corff yng Nghymru sy’n gorff codi ardoll o fewn ystyr “levying body” yn adran 74(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41);

(g) corff yng Nghymru y mae adran 75 o’r Ddeddf honno (ardollau arbennig) yn gymwys iddo;

(h) cyd-fwrdd neu gyd-bwyllgor, os yw pob un o’r awdurdodau cyfansoddol yn awdurdodau lleol o fewn paragraffau (a) i (g);

mae i ”awdurdod priffyrdd” yr un ystyr â “highway authority” yn y Ddeddf Priffyrdd (gweler Rhan 1 o’r Ddeddf honno);

ystyr "awdurdod priffyrdd lleol" ("*local highway authority*") yw awdurdod priffyrdd heblaw Gweinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu gwmni priffyrdd strategol;

mae i "awdurdod priodol y Goron" ("*appropriate Crown authority*"), mewn perthynas â thir y Goron, yr ystyr a roddir gan adran 401(6)[j2612];

mae i "buddiant Dugiaeth" ("*Duchy interest*") yr ystyr a roddir gan adran 401(4)[j2612];

mae i "buddiant y Goron" ("*Crown interest*") yr ystyr a roddir gan adran 401(3)[j2612];

mae i "buddiant preifat" ("*private interest*"), mewn perthynas â thir y Goron, yr ystyr a roddir gan adran 401(5)[j2612];

ystyr "bwrdd cydgynllunio" ("*joint planning board*") yw bwrdd cydgynllunio a sefydlir o dan adran [j202](1)(b);

nid yw "caffaeliad gorfodol"("*compulsory acquisition*") yn cynnwys trosglwyddo eiddo o un person i'r llall drwy ddeddfiad;

mae "cam gorfodi" ("*enforcement action*"), a chyfeiriadau at gymryd cam gorfodi, i'w dehongli yn unol ag adran [j501](2);

ystyr "caniatâd cynllunio" ("*planning permission*") yw caniatâd o dan Ran [3];

mae i "caniatâd cynllunio a roddir am gyfnod cyfyngedig" ("*planning permission granted for a limited period*") yr ystyr a roddir gan adran 67(4);

mae i "caniatâd cynllunio amlinellol" ("*outline planning permission*") yr ystyr a roddir gan adran 48(4);

ystyr "caniatâd mwynau" ("*minerals permission*") yw caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mwynau, ond nid yw'n cynnwys caniatâd cynllunio a roddir gan orchymyn datblygu;

mae i "caniatâd mwynau cyn-1948" ("*pre-1948 minerals permission*") yr ystyr a roddir gan adran j495a(6);

mae i "caniatâd mwynau ôl-1948" ("*post-1948 minerals permission*") yr ystyr a roddir gan adran j495a(6);

mae "claddfa" ("*burial ground*") yn cynnwys unrhyw gorfflan, unrhyw fynwent neu unrhyw dir arall, pa un a yw'n gysegredig ai peidio, sydd wedi ei neilltuo ar unrhyw adeg ar gyfer claddu gweddillion dynol;

ystyr "cod cyfathrebiadau electronig" ("*electronic communications code*") yw'r cod a nodir yn Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21);

mae "codi" ("*erection*"), mewn perthynas ag adeilad, yn cynnwys estyn, addasu ac ailgodi;

mae i "corfforaeth datblygu trefol" yr un ystyr ag "urban development corporation" yn Rhan 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (gweler adran 171 o'r Ddeddf honno);

ystyr "cwmni priffyrdd strategol" ("*strategic highways company*") yw cwmni a benodir am y tro o dan Ran 1 o Ddeddf Seilwaith 2015 (p. 7);

ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("*corporate joint committee*") yw cyd-bwyllgor corfforedig y mae Rhan [2] o'r Ddeddf hon yn gymwys iddo yn rhinwedd rheoliadau o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);

ystyr "cydsyniad datblygu" ("*development consent*") yw cydsyniad datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29);

mae i "cyfarpar cyfathrebiadau electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communications apparatus" gan baragraff 1(1) o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" gan adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000 (p. 7);

ystyr "cyfeiriad" ("*address*"), mewn perthynas â chyfathrebiadau electronig, yw unrhyw rif neu unrhyw gyfeiriad a ddefnyddir at ddiben cyfathrebiadau electronig;

mae "cyfreithlon" ("*lawful*"), mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd o dir neu weithrediadau ar dir, neu unrhyw fethiant i gydymffurfio ag amod mewn caniatâd cynllunio, i'w ddehongli yn unol ag adran [j580];

ystyr "Cymru" ("*Wales*") yw ardal gyfunol y siroedd a'r bwrdeistrefi sirol yng Nghymru;

mae "y cynllun datblygu" ("*the development plan*"), mewn perthynas ag ardal, i'w ddehongli yn unol ag adran [j301];

mae "cynllun datblygu lleol" ("*local development plan*") i'w ddehongli yn unol ag adran [j309];

mae "cynllun datblygu strategol" ("*strategic development plan*") i'w ddehongli yn unol ag adran [j307];

mae i "cyn-weithredwr telathrebu cyhoeddus" ("*former public telecommunications operator*"") yr ystyr a roddir i "former PTO" gan baragraff 1(1) o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;

ystyr "darparwr gwasanaeth post cyffredinol" ("*universal postal service provider*") yw darparwr gwasanaeth cyffredinol o fewn yr ystyr a roddir i "universal service provider" gan adran 65 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 (p. 5), ac mae cyfeiriadau at ddarparu gwasanaeth post cyffredinol i'w darllen yn unol â'r adran honno;

mae i "datblygiad" ("*development*") (ac eithrio ym Mhennod [2] o Ran [6]) yr ystyr a roddir gan adran [j401] (gweler hefyd adrannau [j478] i [j480]);

ystyr "datblygiad mwynau" ("*minerals development*") yw datblygiad—

(a) sy'n weithrediadau mwyngloddio, neu

(b) sy'n cynnwys dyddodi gwastraff mwynau;

ystyr "Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol" ("*the Historic Environment Act*") yw Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (dsc 3);

ystyr "Deddfau cynllunio Cymru" ("*the Welsh planning Acts*") yw—

(a) y Ddeddf hon,

(b) y Ddeddf Sylweddau Peryglus, fel y mae'n gymwys o ran Cymru, ac

(c) Rhannau 3 i 5 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol, a Rhan 7 o'r Ddeddf honno fel y mae'n gymwys at ddibenion y Rhannau hynny;

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw unrhyw ddeddfiad, pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir;

ystyr "dyddodi gwastraff mwynau" ("*depositing of mineral waste*") yw unrhyw broses y crëir neu y cynyddir dyddodyn gwastraff mwynau drwyddi;

ystyr "y Ddeddf Llywodraeth Leol" ("*the Local Government Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70);

ystyr "y Ddeddf Priffyrdd" ("*the Highways Act*") yw Deddf Priffyrdd 1980 (p. 66);

ystyr "y Ddeddf Sylweddau Peryglus" ("*the Hazardous Substances Act*") yw Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (p. 10);

mae "ffermio" ("*farming*"), mewn perthynas â thir, yn cynnwys cynnal unrhyw weithgareddau amaethyddol mewn perthynas ag ef;

mae "Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru" ("*National Development Framework for Wales*") i'w ddehongli yn unol ag adran [j302];

mae i "gorchymyn cydsyniad seilwaith" ("*infrastructure consent order*") yr ystyr a roddir gan adran 143(1) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 (dsc 3);

ystyr "gorchymyn datbarhau" ("*discontinuance order*") yw gorchymyn o dan adran [j470];

mae i "gorchymyn datblygu" ("*development order*") yr ystyr a roddir gan adran 44(1);

mae i "gorchymyn datblygu lleol" ("*local development order*") yr ystyr a roddir gan adran 45(1);

ystyr "gorchymyn diogelu" ("*protection order*") yw gorchymyn o dan baragraff 5 o Atodlen [j470C];

ystyr "gorchymyn diogelu coed" ("*tree preservation order*") yw gorchymyn o dan adran [j802] neu [j804](1);

ystyr "gorchymyn diogelu coetir" ("*woodland preservation order*") yw gorchymyn o dan adran [j803] neu [j804](2);

ystyr "gorchymyn gwahardd" ("*prohibition order*") yw gorchymyn o dan baragraff 1 o Atodlen [j470C];

ystyr "gorchymyn terfynu" ("*termination order*") yw gorchymyn o dan adran [j461];

mae "y Goron" ("*the Crown*") i'w ddehongli yn unol ag adran 401(7)[j2612];

mae "gwaith" ("*works*") yn cynnwys gwastraff sy'n cael ei ddyddodi ar dir, ac mae cyfeiriadau at adeiladu gwaith yn cynnwys dyddodi gwastraff ar dir;

ystyr "gwaredu" ("*disposal*"), mewn perthynas â thir, yw gwaredu drwy werthu, drwy gyfnewid neu drwy les, drwy greu hawddfraint, hawl neu fraint, neu mewn unrhyw ffordd arall, ond nid yw'n cynnwys gwaredu drwy gyfeddu, drwy rodd neu drwy forgais;

mae "gwastraff" ("*waste*") yn cynnwys unrhyw beth sydd—

(a) yn wastraff o fewn cwmpas Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb (EU) 2018/851, neu

(b) yn wastraff mwynau;

ystyr "gwastraff mwynau" ("*mineral waste*") yw deunydd sy'n weddill ar ôl i fwynau gael eu hechdynnu o dir neu sy'n deillio fel arall o gynnal gweithrediadau mwyngloddio;

mae i "Gweinidog priodol" ("*appropriate Minister*"), mewn perthynas ag ymgymerwr statudol, yr ystyr a roddir gan adran [j705];

ystyr "gweithdrefn arbennig Senedd Cymru" ("*special Senedd procedure*") yw'r weithdrefn a bennir yn rheolau sefydlog Senedd Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefn arbennig Senedd Cymru;

ystyr "gweithdrefn arbennig Senedd y Deyrnas Unedig" ("*special parliamentary procedure*") yw'r weithdrefn a nodir yn Neddf Gorchmynion Statudol (Gweithdrefn Arbennig) 1945 (9 a 10 Geo. 6 p. 18);

mae i "gweithrediadau" ("*operations*") yr ystyr a roddir gan adran [j478](1);

mae i "gweithrediadau mwyngloddio" ("*mining operations*") yr ystyr a roddir gan adran [j478](5);

mae i "gweithredwr", mewn perthynas â rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig, yr ystyr a roddir i "operator" gan baragraff 1(1) o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;

mae i "gweithredwr cod cyfathrebiadau electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communications code operator" gan baragraff 1(1) o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;

mae i "gweithredwr maes awyr perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant airport operator" gan adran 57A o Ddeddf Meysydd Awyr 1986 (p. 31);

mae i "gwella", mewn perthynas â phriffordd, yr un ystyr ag "improvement" yn y Ddeddf Priffyrdd (gweler adrannau 329(1) a 332 o'r Ddeddf honno);

mae i "hysbyseb" ("*advertisement*") yr ystyr a roddir gan adran [j851](5);

ystyr "hysbysiad amnewid coed" ("*tree replacement notice*") yw hysbysiad a ddyroddir o dan adran [j819];

ystyr "hysbysiad cynnal a chadw tir" ("*maintenance of land notice*") yw hysbysiad a ddyroddir o dan adran [j871];

ystyr "hysbysiad gorfodi" ("*enforcement notice*") yw hysbysiad a ddyroddir o dan adran [j513] neu [j528];

ystyr "hysbysiad gwybodaeth" ("*information notice*") yw hysbysiad a gyflwynir o dan adran 383[j2601];

ystyr "hysbysiad rhybuddio am orfodi" ("*enforcement warning notice*") yw hysbysiad a ddyroddir o dan adran [j505];

ystyr "hysbysiad stop" ("*stop notice*") yw hysbysiad a ddyroddir o dan adran [j529] neu [j531];

ystyr "hysbysiad stop dros dro" ("*temporary stop notice*") yw hysbysiad a ddyroddir o dan adran [j506];

ystyr "hysbysiad tor amod" ("*breach of condition notice*") yw hysbysiad a gyflwynir o dan adran [j510];

ystyr "hysbysiad ymchwilio am orfodi" ("*enforcement investigation notice*") yw hysbysiad a gyflwynir o dan adran [j503];

mae "les" ("*lease*") yn cynnwys is-les a chytundeb am les neu is-les, ond nid yw'n cynnwys opsiwn i gymryd les neu forgais;

ystyr "man agored" ("*open space*") yw unrhyw dir—

(c) sydd wedi ei osod fel gardd gyhoeddus,

(d) a ddefnyddir gan y cyhoedd at ddiben hamdden, neu

(e) sy'n gladdfa nas defnyddir;

mae i "mater a gadwyd yn ôl" ("*reserved matter*") yr ystyr a roddir gan adran [j489](4);

ystyr "Mesur gan Eglwys Loegr" ("*Church of England Measure*") yw Mesur gan Gynulliad Eglwys Loegr neu gan Synod Cyffredinol Eglwys Loegr;

mae "morgais" ("*mortgage*") yn cynnwys unrhyw arwystl neu hawlrwym ar unrhyw eiddo ar gyfer sicrhau arian neu gyfwerth ariannol;

mae "mwynau" ("*minerals*") yn cynnwys pob sylwedd o fath sy'n cael ei weithio i'w symud ymaith fel arfer drwy weithio o dan y ddaear neu ar wyneb y tir, ac eithrio nad yw'n cynnwys mawn sydd wedi ei dorri at ddibenion heblaw i'w werthu;

mae "newid sylweddol yn y defnydd o dir" ("*material change in the use of land*") i'w ddehongli yn unol â Phennod [2] o Ran [1]);

ystyr "penderfyniad cynllunio" ("*planning decision*") yw penderfyniad ar gais am ganiatâd cynllunio a wneir o dan y Ddeddf hon (gweler hefyd is-adrannau (5) a (6));

ystyr "perchennog" ("*owner*"), mewn perthynas â thir (ac eithrio pan fo darpariaeth yn y Ddeddf hon yn pennu ystyr gwahanol), yw person, pa un ai yn ei hawl ei hun neu fel ymddiriedolwr ar gyfer unrhyw berson arall—

(a) sydd â hawlogaeth i gael crogrent y tir, neu

(b) a fyddai â hawlogaeth o'r fath pe bai'r tir yn cael ei osod am grogrent,

ond nid yw'n cynnwys morgeisai nad yw mewn meddiant;

mae i "priffordd" yr un ystyr â "highway" yn y Ddeddf Priffyrdd (gweler adran 328(1) a (2) o'r Ddeddf honno);

mae i "rheoliadau ASC" ("*CIL regulations*") yr ystyr a roddir gan adran [j901](3);

mae i "rheoliadau diogelu coed" ("*tree preservation regulations*") yr ystyr a roddir gan adran [j805](1);

mae i "rheoliadau rheolaethu hysbysebion" ("*control of advertisements regulations*") yr ystyr a roddir gan adran [j851](1);

mae i “rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig” yr ystyr a roddir i “electronic communications code network” gan baragraff 1(1) o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;

mae i “rhwydwaith cyfathrebiadau electronig cyhoeddus” a “gwasanaeth cyfathrebiadau electronig cyhoeddus” yr un ystyron â “public electronic communications network” a “public electronic communications service” ym Mhennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (gweler adran 151 o’r Ddeddf honno);

ystyr “rhwymedigaeth gynllunio” (“*planning obligation*”) yw rhwymedigaeth yr ymrwymir iddi o dan adran [j473];

mae “swyddogaethau” (“*functions*”) yn cynnwys pwerau a dyletswyddau;

mae “symud ymaith” (“*removal*”)—

(a) mewn perthynas ag adeilad, yn cynnwys dymchwel;

(b) mewn perthynas â gwaith, yn cynnwys llenwi ffosydd;

mae “tir” (“*land*”)—

(a) yn golygu unrhyw hereditament corfforol, gan gynnwys—

(i) adeilad;

(ii) unrhyw fwynglawdd neu unrhyw fwynau, pa un a ydynt wedi eu hollti oddi wrth wyneb y tir ai peidio;

(b) mewn perthynas â chaffael tir, yn cynnwys unrhyw fuddiant mewn tir neu unrhyw hawl dros dir;

mae i “tir y Goron” (“*Crown land*”) yr ystyr a roddir gan adran 401(2)[j2612];

mae i “tir gweithredol” (“*operational land*”), mewn perthynas ag ymgymerwr statudol, yr ystyr a roddir gan adran [j702], [j703A] neu [j703B];

mae i “tor rheolaeth gynllunio” (“*breach of planning control*”) yr ystyr a roddir yn adran [j501](1);

mae i “trawsgludydd nwy” yr ystyr a roddir i “gas transporter” gan adran 7(1) o Ddeddf Nwy 1986 (p. 44) (trwyddedu cludo nwy drwy bibellau);

ystyr “trwyddedai traffig awyr“ (“*air traffic licensee*”) yw person sy’n dal trwydded o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38) (gwasanaethau traffig awyr);

ystyr “trwyddedai trydan“ (“*electricity licensee*“) yw deiliad trwydded o dan adran 6 o Ddeddf Trydan 1989 (p. 29) (cynhyrchu, dosbarthu, cyflenwi etc. drydan);

ystyr “uned amaethyddol” (”*agricultural unit*”) yw tir a feddiennir fel uned at ddibenion amaethyddiaeth, gan gynnwys unrhyw un neu ragor o’r canlynol sydd ar y tir—

(a) annedd neu adeilad arall a feddiennir at ddiben ffermio’r tir gan y person sy’n meddiannu’r uned, a

(b) annedd a feddiennir gan weithiwr amaethyddol;

mae "ymgymerwr dŵr" ("*water undertaker*") ac "ymgymerwr carthffosiaeth" ("*sewerage undertaker*") i'w darllen yn unol ag adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (p. 56);

mae i "ymgymerwr statudol" ("*statutory undertaker*") ac "ymgymeriad statudol" ("*statutory undertaking*") yr ystyron a roddir gan adran [j701].

(2) Yn y Ddeddf hon (ac eithrio yn Rhan [11])—

(a) mae cyfeiriadau at bethau ar dir yn cynnwys pethau yn y tir, o dan y tir neu dros y tir;

(b) mae cyfeiriadau at wneud unrhyw beth ar dir yn cynnwys ei wneud yn y tir, o dan y tir neu dros y tir.

(3) Pan fo darpariaeth yn y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson roi sylw i'r cynllun datblygu ar gyfer ardal ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill wrth arfer swyddogaeth, mae'r ystyriaethau y mae rhaid i'r person roi sylw iddynt yn cynnwys—

(a) polisïau cenedlaethol yn ymwneud â datblygiad tir a defnydd o dir a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, i'r graddau y mae'r polisïau hynny yn berthnasol i arfer y swyddogaeth, a

(b) ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg, i'r graddau y maent yn berthnasol i arfer y swyddogaeth.

(4) Nid yw is-adran (3) yn effeithio ar—

(a) a yw'r ystyriaethau y mae'n eu crybwyll, neu unrhyw ystyriaethau eraill, yn berthnasol i arfer swyddogaeth, na

(b) y pwysau y mae rhaid ei roi ar unrhyw ystyriaeth y mae person yn rhoi sylw iddi.

(5) Yn y Ddeddf hon mae cyfeiriad at benderfyniad cynllunio (sut bynnag y'i mynegir)—

(a) mewn perthynas â phenderfyniad gan awdurdod cynllunio sydd wedi ei newid ar apêl drwy wrthdroi neu amrywio'r penderfyniad cyfan neu ran ohono, yn gyfeiriad at y penderfyniad fel y'i newidiwyd ar apêl;

(b) mewn perthynas â phenderfyniad gan awdurdod cynllunio sydd wedi ei gadarnhau ar apêl, yn gyfeiriad at benderfyniad yr awdurdod cynllunio ac nid at benderfyniad Gweinidogion Cymru ar yr apêl;

(c) mewn perthynas â phenderfyniad sydd wedi ei roi ar apêl o dan adran xref_C2_41(3)[j452] (methiant i roi hysbysiad o benderfyniad etc.), yn gyfeiriad at y penderfyniad ar yr apêl.

(6) Mewn achos pan fo apêl, mae penderfyniad cynllunio i'w drin fel pe bai wedi ei wneud—

(a) pan wnaeth yr awdurdod cynllunio ei benderfyniad (pa un a yw'r penderfyniad hwnnw wedi ei newid ar yr apêl ai peidio), neu

(b) os gwneir yr apêl o dan adran xref_C2_41(3)[j452], ar ddiwedd y cyfnod a grybwyllir yn yr is-adran honno,

ond at ddiben penderfynu a yw hysbysiad prynu wedi ei gyflwyno o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff 4(2) o Atodlen 12, mae hyn yn ddarostyngedig i baragraffau 4(3) a 10(2) o'r Atodlen honno.

**409 Dod i rym [j2621]**

(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym drannoeth y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol—

(a) Pennod 1 o Ran 1 (rhagarweiniad a throsolwg);

(b) adran 42 (trosolwg o Ran 3);

(c) adran 407[j2620] (rheoliadau);

(d) adran 408[j001] (dehongli);

(e) yr adran hon;

(f) adran 410[j2622].

(2) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(3) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2) wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaeth yn y Ddeddf hon i rym.

**410 Enw byr [j2622]**

Caniateir cyfeirio at y Ddeddf hon fel—

(a) Deddf Cynllunio (Cymru) 2026, neu

(b) the Planning (Wales) Act 2026.

## ATODLEN 1 [J408S]

*(a gyflwynir gan adran 45(8)[j408])*

## GORCHMYNION DATBLYGU LLEOL

*Llunio gorchymyn*

1 Rhaid i orchymyn datblygu lleol gael ei lunio yn unol â'r weithdrefn a bennir mewn rheoliadau.

*Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod i addasu gorchymyn cyn ei fabwysiadu*

2 (1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod gorchymyn datblygu lleol sy'n cael ei lunio gan awdurdod lleol yn anfoddhaol, cânt ar unrhyw adeg cyn i'r gorchymyn gael ei fabwysiadu gyfarwyddo'r awdurdod i addasu'r gorchymyn yn unol â'r cyfarwyddyd.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan y paragraff hwn, rhaid iddynt ddatgan eu rhesymau dros wneud hynny.

(3) Ni chaiff yr awdurdod cynllunio fabwysiadu'r gorchymyn oni bai bod Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad eu bod wedi eu bodloni bod yr awdurdod wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

*Pŵer i gyfarwyddo awdurdod i gyflwyno gorchymyn i'w gymeradwyo*

3 (1) Ar unrhyw adeg cyn i orchymyn datblygu lleol gael ei fabwysiadu gan awdurdod cynllunio, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod i gyflwyno'r gorchymyn (neu ran ohono) iddynt i'w gymeradwyo ganddynt.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan y paragraff hwn, ni chaiff yr awdurdod cynllunio gymryd unrhyw gamau pellach mewn cysylltiad â mabwysiadu'r gorchymyn oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ei gymeradwyo (neu, os yw'r cyfarwyddyd yn ymwneud â rhan yn unig o'r gorchymyn, eu bod yn cymeradwyo'r rhan).

(3) Wrth ystyried gorchymyn (neu ran o orchymyn) a gyflwynir iddynt yn unol â chyfarwyddyd o dan y paragraff hwn, caiff Gweinidogion Cymru ystyried unrhyw fater y maent yn ystyried ei fod yn berthnasol, pa un a ystyriwyd y mater gan yr awdurdod cynllunio ai peidio.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo neu wrthod gorchymyn (neu ran o orchymyn) a gyflwynir iddynt yn unol â chyfarwyddyd o dan y paragraff hwn.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru roi rhesymau dros eu penderfyniad.

*Diwygio gorchymyn ar ôl ei fabwysiadu*

4 (1) Caiff awdurdod cynllunio ddiwygio gorchymyn datblygu lleol a wnaed gan yr awdurdod ar unrhyw adeg.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo awdurdod cynllunio i ddiwygio gorchymyn datblygu lleol, rhaid i'r awdurdod ddiwygio'r gorchymyn yn unol â'r amserlen (os oes amserlen) a nodir yn y cyfarwyddyd.

(3) Mae adran 45[j408] a'r Atodlen hon yn gymwys i ddiwygio gorchymyn datblygu lleol fel y maent yn gymwys i lunio'r gorchymyn.

*Dirymu gorchymyn*

5 (1) Caiff awdurdod cynllunio ddirymu gorchymyn datblygu lleol a wnaed gan yr awdurdod ar unrhyw adeg.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu gorchymyn datblygu lleol drwy orchymyn ar unrhyw adeg.

(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud hynny heb ymgynghori â'r awdurdod cynllunio a wnaeth y gorchymyn datblygu lleol.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cynnig gwneud gorchymyn sy'n dirymu gorchymyn datblygu lleol, rhaid iddynt gyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn arfaethedig i'r awdurdod cynllunio.

(5) Rhaid i'r hysbysiad bennu'r cyfnod y caiff yr awdurdod cynllunio wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ynddo am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo.

(6) Os yw'r awdurdod cynllunio yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru roi'r cyfle hwnnw i'r awdurdod cyn gwneud y gorchymyn.

(7) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (5) fod yn 28 o ddiwrnodau o leiaf sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(8) Os yw Gweinidogion Cymru yn dirymu gorchymyn datblygu lleol, rhaid iddynt ddatgan eu rhesymau dros wneud hynny.

*Adroddiad monitro blynyddol*

6 (1) Rhaid i adroddiad a wneir gan awdurdod cynllunio o dan adran 35 gynnwys adroddiad ynghylch i ba raddau y mae gorchymyn datblygu lleol a wnaed gan yr awdurdod yn cyflawni ei ddibenion.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys yr adroddiad fel y mae'n ymwneud â gorchymyn datblygu lleol.

*Rheoliadau*

7 (1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth mewn cysylltiad â llunio, cyflwyno, cymeradwyo, mabwysiadu, tynnu yn ôl, diwygio a dirymu gorchymyn datblygu lleol.

(2) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth yn benodol ynghylch—

(a) hysbysu a chyhoeddusrwydd;

(b) ymgynghori â phersonau a bennir yn y rheoliadau a chyfranogiad ganddynt;

(c) gwneud ac ystyried sylwadau;

(d) sicrhau bod dogfennau ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt.

# ATODLEN 2 [J417S]

*(a gyflwynir gan adran 62(6)[j417a])*

## APELAU O DAN ADRAN 61[J417]: PENDERFYNU GAN AROLYGWYR

*Pwerau a dyletswyddau arolygydd*

1 (1) Mae gan arolygydd yr un pwerau a'r un dyletswyddau mewn perthynas ag apêl o dan adran 61[j417] ag y mae gan Weinidogion Cymru o dan—

(a) adran 62(1)[j417a],

(b) rheoliadau o dan adran 367 (gofynion gweithdrefnol), ac

(c) adrannau 372 a 373 (costau).

*Amnewid arolygydd*

2 Ar unrhyw adeg cyn i arolygydd benderfynu apêl o dan adran 61[j417], caiff Gweinidogion Cymru—

(a) dirymu penodiad yr arolygydd, a

(b) penodi arolygydd arall i benderfynu'r apêl.

*Cyfarwyddyd bod apêl i'w phenderfynu gan Weinidogion Cymru*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 62(4)[j417a] fod apêl i'w phenderfynu ganddynt hwy yn hytrach na chan arolygydd.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o'r cyfarwyddyd i—

(a) yr arolygydd (os oes un) a benodir i benderfynu'r apêl,

(b) yr apelydd, ac

(c) yr awdurdod cynllunio a roddodd yr hysbysiad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

(3) Wrth benderfynu'r apêl, caiff Gweinidogion Cymru ystyried unrhyw adroddiad a wneir iddynt gan arolygydd a benodwyd yn flaenorol i'w phenderfynu.

*Dirymu cyfarwyddyd*

4 (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd pellach ddirymu cyfarwyddyd o dan adran 62(4)[j417a] ar unrhyw adeg cyn i'r apêl gael ei phenderfynu.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o gyfarwyddyd pellach o dan y paragraff hwn i—

(a) yr arolygydd (os oes un) a benodwyd yn flaenorol i benderfynu'r apêl,

(b) yr apelydd, ac

(c) yr awdurdod cynllunio.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd pellach o dan y paragraff hwn—

(a) rhaid iddynt benodi arolygydd ("yr arolygydd newydd") i benderfynu'r apêl;

(b) mae unrhyw beth a wneir gan neu ar ran Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r apêl a allai fod wedi ei wneud gan arolygydd, oni bai bod yr arolygydd newydd yn cyfarwyddo fel arall, i'w drin fel pe bai wedi ei wneud gan yr arolygydd newydd;

(c) yn ddarostyngedig i hynny, mae adran 62[j417a] a'r Atodlen hon yn gymwys i'r apêl fel pe na bai unrhyw gyfarwyddyd o dan adran 62(4)[j417a] wedi ei roi.

*Atodol*

5 Ni chaniateir i'r apelydd na'r awdurdod cynllunio gwestiynu dilysrwydd penderfyniad arolygydd ar apêl mewn unrhyw achos cyfreithiol ar y sail mai Gweinidogion Cymru a ddylai fod wedi penderfynu'r apêl yn hytrach nag arolygydd, oni bai bod yr apelydd neu'r awdurdod cynllunio yn herio pŵer yr arolygydd i benderfynu'r apêl cyn i'r penderfyniad ar yr apêl gael ei roi.

# ATODLEN 3 [J445S]

*(a gyflwynir gan adran 67(6)[j445])*

# AMODAU SY'N YMWNEUD Â GWEITHREDIADAU MWYNGLODDIO A DYDDODI GWASTRAFF

*Pŵer i roi caniatâd yn ddarostyngedig i amodau ôl-ofal*

1 (1) Os caiff caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n weithrediadau mwyngloddio neu sy'n cynnwys dyddodi gwastraff ei roi yn ddarostyngedig i un neu ragor o amodau adfer sydd i gael effaith ar ôl i'r gweithrediadau gael eu cwblhau neu i'r dyddodi gwastraff ddod i ben, caniateir iddo hefyd gael ei roi yn ddarostyngedig i un neu ragor o amodau ôl-ofal.

(2) Yn y Ddeddf hon—

(a) ystyr "amod adfer" yw amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r tir yr effeithiwyd arno gan y gweithrediadau mwyngloddio neu'r dyddodi gwastraff gael ei adfer drwy ddefnyddio isbridd, uwchbridd neu ddeunydd creu pridd;

(b) ystyr "amod ôl-ofal" yw amod sy'n ei gwneud yn ofynnol cymryd camau sy'n angenrheidiol er mwyn dod â thir i'r safon ofynnol (a nodir ym mharagraff 2[J445S]) ar gyfer un neu ragor o'r defnyddiau a bennir yn yr amod.

(3) Rhaid i ddefnydd o dir a bennir mewn amod ôl-ofal fod yn ddefnydd ar gyfer amaethyddiaeth, ar gyfer tyfu pren defnyddiadwy neu ar gyfer amwynder.

(4) Caiff amod ôl-ofal naill ai—

(a) pennu'r camau y mae rhaid eu cymryd i ddod â'r tir i'r safon ofynnol, neu

(b) ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd yn unol â chynllun ("cynllun ôl-ofal") a gymeradwyir gan yr awdurdod cynllunio.

(5) Caiff awdurdod cynllunio gymeradwyo cynllun ôl-ofal gydag addasiadau neu hebddynt.

(6) Caiff y camau y caniateir eu pennu mewn amod ôl-ofal neu gynllun ôl-ofal gynnwys plannu, meithrin, gwrteithio, dyfrhau, draenio neu drin tir fel arall.

(7) Caiff yr amod neu'r cynllun bennu'r cyfnod y mae rhaid cymryd cam ynddo; ond ni chaiff ei gwneud yn ofynnol i gam gael ei gymryd ar ôl diwedd y cyfnod ôl-ofal.

(8) Ystyr y "cyfnod ôl-ofal" yw 5 mlynedd sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cwblheir y gwaith sy'n ofynnol gan yr amod adfer; ac ar gyfer unrhyw ran o'r tir y mae'r amod adfer yn ymwneud ag ef, mae'r cyfnod yn dechrau â thrannoeth y diwrnod y cwblheir y gwaith sy'n ofynnol mewn perthynas â'r rhan honno.

(9) Caiff rheoliadau bennu cyfnod gwahanol, sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cydymffurfir â gofynion yr amod adfer, at ddibenion is-baragraff (8) (gan gynnwys drwy ddiwygio'r is-baragraff hwnnw).

*Ystyr "safon ofynnol" ar gyfer defnydd a bennir mewn amod ôl-ofal*

2 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys pan fo pob un o'r amodau a ganlyn wedi ei fodloni—

(a) mae amod ôl-ofal yn pennu defnydd o dir ar gyfer amaethyddiaeth,

(b) yr oedd y tir, pan roddwyd y caniatâd cynllunio, naill ai—

(i) yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, neu

(ii) wedi ei ddefnyddio yn flaenorol ar gyfer amaethyddiaeth ac nad oedd wedi ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall a awdurdodwyd gan ganiatâd cynllunio ers iddo beidio â chael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, ac

(c) mae Gweinidogion Cymru wedi hysbysu'r awdurdod cynllunio am nodweddion ffisegol y tir pan y'i defnyddiwyd ar gyfer amaethyddiaeth ddiwethaf.

(2) Dygir y tir i'r safon ofynnol pan fo ei nodweddion ffisegol yn cael eu hadfer, i'r graddau y bo'n ymarferol, i'r hyn yr oeddent pan ddefnyddiwyd y tir ar gyfer amaethyddiaeth ddiwethaf.

(3) Mewn unrhyw achos arall pan fo amod ôl-ofal yn pennu defnydd o dir ar gyfer amaethyddiaeth, dygir y tir i'r safon ofynnol pan fo'n rhesymol addas at y defnydd hwnnw.

(4) Pan fo amod ôl-ofal yn pennu defnydd o dir ar gyfer tyfu pren defnyddiadwy, dygir y tir i'r safon ofynnol pan fo'n rhesymol addas at y defnydd hwnnw.

(5) Pan fo amod ôl-ofal yn pennu defnydd o dir ar gyfer amwynder, dygir y tir i'r safon ofynnol pan fo'n addas i gynnal coed, llwyni neu blanhigion eraill.

*Ymgynghoriad ar amod ôl-ofal sy'n pennu defnydd ar gyfer amaethyddiaeth neu ar gyfer tyfu pren defnyddiadwy*

3 (1) Cyn gosod amod ôl-ofal sy'n pennu defnydd o dir ar gyfer amaethyddiaeth neu ar gyfer tyfu pren defnyddiadwy, rhaid i awdurdod cynllunio ymgynghori â'r awdurdod priodol ynghylch a yw'n briodol pennu'r defnydd hwnnw.

(2) Os yw'r awdurdod cynllunio wedi ei fodloni ar ôl yr ymgynghoriad hwnnw y dylai'r amod ôl-ofal bennu defnydd ar gyfer amaethyddiaeth neu ar gyfer tyfu pren defnyddiadwy, rhaid iddo ymgynghori â'r awdurdod priodol ynghylch a ddylid pennu'r camau y mae rhaid eu cymryd yn yr amod ôl-ofal neu mewn cynllun ôl-ofal.

(3) Pan fo amod ôl-ofal yn pennu defnydd ar gyfer amaethyddiaeth neu ar gyfer tyfu pren defnyddiadwy, rhaid i'r awdurdod cynllunio—

(a) os yw'r camau y mae rhaid eu cymryd i'w pennu yn yr amod, ymgynghori â'r awdurdod priodol ynghylch y camau y dylid eu pennu;

(b) os yw'r camau i'w pennu mewn cynllun ôl-ofal, ymgynghori â'r awdurdod priodol cyn cymeradwyo cynllun a gyflwynir iddo.

(4) Rhaid i'r awdurdod cynllunio hefyd ymgynghori â'r awdurdod priodol o bryd i'w gilydd ynghylch a yw'r camau a bennir yn yr amod neu'r cynllun yn cael eu cymryd.

(5) Yn y paragraff hwn, ystyr "yr awdurdod priodol" yw—

(a) Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â defnydd ar gyfer amaethyddiaeth;

(b) Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn perthynas â defnydd ar gyfer tyfu pren defnyddiadwy.

*Tystysgrif cydymffurfio ag amod ôl-ofal*

4 Os yw’r awdurdod cynllunio, ar gais unrhyw berson â buddiant mewn tir y mae amod ôl-ofal wedi ei osod mewn perthynas ag ef, wedi ei fodloni y cydymffurfiwyd â’r amod, rhaid iddo ddyroddi tystysgrif i’r perwyl hwnnw.

*Adennill costau cydymffurfio*

5 (1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys pan—

(a) bo person (“A”) wedi cydymffurfio ag amod ôl-ofal y mae caniatâd cynllunio wedi ei roi yn ddarostyngedig iddo, ond

(b) nad yw A wedi cynnal yn bersonol weithrediadau mwyngloddio nac wedi dyddodi gwastraff ar y tir y mae’r caniatâd yn ymwneud ag ef.

(2) Mae gan A hawlogaeth i adennill gan y person diwethaf a wnaeth gynnal gweithrediadau mwyngloddio neu a wnaeth ddyddodi gwastraff (“B”) unrhyw gostau yr aeth A iddynt yn rhesymol wrth gydymffurfio â’r amod ôl-ofal; ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i’r gwrthwyneb a gynhwysir mewn contract sy’n orfodadwy yn erbyn A gan B.

# ATODLEN 4 [J434S]

*(a gyflwynir gan adran 83(6)[j434a])*

# CEISIADAU I WEINIDOGION CYMRU: ARFER SWYDDOGAETHAU GAN AROLYGWYR

## RHAN 1

## DARPARU GWASANAETHAU CYN GWNEUD CAIS GAN AROLYGYDD

*Amnewid arolygydd*

1 Pan fo arolygydd wedi ei benodi i arfer swyddogaethau o dan reoliadau a wneir o dan adran 53[j413] (gwasanaethau cyn gwneud cais) mewn perthynas â chais arfaethedig o dan adran 78[j429] neu 80[j431], caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg—

(a) dirymu penodiad yr arolygydd, a

(b) penodi arolygydd arall i arfer y swyddogaethau.

*Cyflwyno cyfarwyddyd bod swyddogaethau i'w harfer gan Weinidogion Cymru*

2 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 83(3)(a)[j434a] fod swyddogaethau mewn cysylltiad â chais arfaethedig i'w harfer ganddynt hwy yn hytrach na chan arolygydd.

(2) Rhaid cyflwyno copi o'r cyfarwyddyd i—

(a) yr arolygydd (os oes un) a benodir mewn perthynas â'r cais arfaethedig,

(b) y person sy'n cynnig gwneud y cais, ac

(c) yr awdurdod cynllunio y byddai'r cais yn cael ei wneud iddo fel arall.

*Dirymu cyfarwyddyd*

3 (1) Caiff Gweinidogion drwy gyfarwyddyd pellach ddirymu cyfarwyddyd o dan adran 83(3)(a)[j434a].

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o gyfarwyddyd pellach o dan y paragraff hwn i'r personau yr oedd paragraff 2(2) yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno'r cyfarwyddyd o dan adran 83(3)(a)[j434a] iddynt.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd pellach o dan y paragraff hwn, rhaid iddynt benodi arolygydd i arfer swyddogaethau o dan reoliadau a wneir o dan adran 53[j413] mewn perthynas â'r cais arfaethedig.

RHAN 2

PENDERFYNU CAIS GAN AROLYGYDD

*Pwerau a dyletswyddau arolygydd*

4 (1) Mae gan arolygydd a benodir i benderfynu cais a wneir o dan adran 78[j429] neu 80[j431], i'r graddau y mae'r cyd-destun yn caniatáu, yr un pwerau a dyletswyddau ag sydd gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 81(3)[j432].

(2) Mae is-baragraff (3) yn gymwys pan fo deddfiad (ac eithrio adran 83[j434a] neu'r Atodlen hon)—

(a) yn cyfeirio (neu i'w ddarllen fel pe bai'n cyfeirio) at Weinidogion Cymru mewn cyd-destun sy'n ymwneud neu sy'n gallu ymwneud â chais a wneir o dan adran 78[j429] neu 80[j431], neu

(b) yn cyfeirio (neu i'w ddarllen fel pe bai'n cyfeirio) at unrhyw beth (ac eithrio gwneud cais) a wneir neu a awdurdodir neu y mae'n ofynnol ei wneud gan Weinidogion Cymru, iddynt neu ger eu bron mewn cysylltiad ag unrhyw gais o'r fath.

(3) I'r graddau y mae'r cyd-destun yn caniatáu hynny, mae'r deddfiad i'w ddarllen, mewn perthynas â chais a benderfynir neu sydd i'w benderfynu gan arolygydd, fel pe bai'r cyfeiriad at Weinidogion Cymru yn gyfeiriad at arolygydd, neu'n cynnwys cyfeiriad o'r fath.

*Ymchwiliad lleol, gwrandawiad neu sylwadau ysgrifenedig*

5 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo cais a wneir o dan adran 78[j429] neu 80[j431] i'w benderfynu gan arolygydd.

(2) Caiff yr arolygydd gynnal ymchwiliad lleol neu wrandawiad mewn cysylltiad â'r cais os yw penderfyniad o dan adran 366 yn darparu i'r cais gael ei ystyried yn y ffordd honno.

(3) Mae costau'r ymchwiliad lleol neu'r gwrandawiad i'w talu gan Weinidogion Cymru; ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 372.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru neu arolygydd benodi asesydd i gynghori'r arolygydd ar unrhyw faterion sy'n codi—

(a) mewn ymchwiliad lleol neu wrandawiad a gynhelir gan yr arolygydd mewn cysylltiad â'r cais neu o ganlyniad i ymchwiliad neu wrandawiad o'r fath, neu

(b) mewn sylwadau ysgrifenedig a gyflwynir i'r arolygydd mewn cysylltiad â'r cais neu o ganlyniad i sylwadau o'r fath.

*Amnewid arolygydd*

6 Ar unrhyw adeg cyn i arolygydd benderfynu cais a wneir o dan adran 78[j429] neu 80[j431], caiff Gweinidogion Cymru—

(a) dirymu penodiad yr arolygydd, a

(b) penodi arolygydd arall i benderfynu'r cais.

*Cyfarwyddyd bod cais i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru*

7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 83(3)(b)[j434a] bod cais i'w benderfynu ganddynt hwy yn hytrach na chan arolygydd.

(2) Rhaid cyflwyno copi o'r cyfarwyddyd—

(a) i'r arolygydd (os oes un) a benodwyd i benderfynu'r cais,

(b) i'r ceisydd, ac

(c) i'r awdurdod cynllunio y byddai'r cais wedi ei wneud iddo fel arall.

(3) Wrth benderfynu'r cais, caiff Gweinidogion Cymru ystyried unrhyw adroddiad a wneir iddynt gan arolygydd a benodwyd yn flaenorol i'w benderfynu.

(4) Yn ddarostyngedig i hynny, at ddiben penderfynu'r cais gan Weinidogion Cymru, mae'r cais i'w drin fel pe na bai unrhyw arolygydd erioed wedi ei benodi i'w benderfynu.

*Dirymu cyfarwyddyd*

8 (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd pellach ddirymu cyfarwyddyd o dan adran 83(3)(b)[j434a] ar unrhyw adeg cyn i'r cais gael ei benderfynu.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o gyfarwyddyd pellach o dan y paragraff hwn i'r personau yr oedd paragraff 7(2) yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno'r cyfarwyddyd iddynt o dan adran 83(3)(b)[j434a].

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd pellach o dan y paragraff hwn—

(a) rhaid iddynt benodi arolygydd (yr "arolygydd newydd") i benderfynu'r cais;

(b) mae unrhyw beth a wneir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan mewn cysylltiad â'r cais a allai fod wedi cael ei wneud gan yr arolygydd, oni bai bod yr arolygydd newydd yn cyfarwyddo fel arall, i'w drin fel pe bai wedi ei wneud gan yr arolygydd newydd;

(c) yn ddarostyngedig i hynny, mae adran 83[j434a] a'r Atodlen hon yn gymwys i'r cais fel pe na bai unrhyw gyfarwyddyd wedi ei roi o dan adran 83(3)(b)[j434a].

*Atodol*

9 Nid yw'n sail i gais i'r Uchel Lys am adolygiad statudol o dan adran 376 y dylai cais a wnaed o dan adran 78[j429] neu 80[j431] fod wedi cael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru yn hytrach na chan arolygydd, oni bai bod y ceisydd yn herio pŵer yr arolygydd i benderfynu'r cais cyn i'r penderfyniad ar y cais gael ei roi.

## ATODLEN 5 [J445B]

*(a gyflwynir gan adran 96[j445a])*

## AMOD SY'N CYFYNGU AR HYD CANIATÂD MWYNAU

*Caniatâd a roddir ar 22 Chwefror 1982 neu ar ôl hynny*

1 (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys i bob caniatâd mwynau a roddir ar 22 Chwefror 1982 (y diwrnod y daeth adran 7 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Mwynau) 1981 (p. 36) i rym) neu ar ôl hynny.

(2) Rhaid i'r caniatâd gael ei roi yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid i'r gweithrediadau mwyngloddio neu'r dyddodi gwastraff mwynau y mae'r caniatâd yn ymwneud â hwy neu ag ef stopio cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr amod ac sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir y caniatâd.

(3) Os rhoddir y caniatâd heb yr amod sy'n ofynnol gan is-baragraff (2), mae i'w drin fel pe bai wedi ei roi yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid i'r gweithrediadau mwyngloddio neu'r dyddodi gwastraff mwynau stopio cyn diwedd 60 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir y caniatâd.

(4) Caiff rheoliadau bennu cyfnod gwahanol, sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir y caniatâd, at ddibenion is-baragraff (3) (gan gynnwys drwy ddiwygio'r is-baragraff hwnnw).

*Caniatâd a roddwyd cyn 22 Chwefror 1982*

2 Mae'n amod o bob caniatâd mwynau a roddwyd cyn 22 Chwefror 1982 fod rhaid i'r gweithrediadau mwyngloddio neu'r dyddodi gwastraff mwynau y mae'r caniatâd yn ymwneud â hwy neu ag ef stopio ar 21 Chwefror 2042 (diwedd y 60 mlynedd sy'n dechrau â 22 Chwefror 1982) neu cyn hynny.

*Cyffredinol*

3 (1) Nid yw amod y mae caniatâd mwynau yn ddarostyngedig iddo yn rhinwedd yr Atodlen hon i'w ystyried yn amod a grybwyllir yn adran 67(3)[j445] (caniatâd cynllunio a roddir am gyfnod cyfyngedig).

(2) Nid yw'r ffaith bod caniatâd mwynau yn ddarostyngedig i amod yn rhinwedd yr Atodlen hon yn atal yr amod rhag bod yn destun cais o dan adran 68[j446] neu apêl o dan adran 73[j452].

# ATODLEN 6 [J461S]

*(a gyflwynir gan adran 98(6)[j461])*

## GORCHMYNION TERFYNU

### RHAN 1

### Y WEITHDREFN AR GYFER GORCHMYNION A WNEIR GAN AWDURDODAU CYNLLUNIO

*Gofyniad i gael cadarnhad Gweinidogion Cymru*

1 (1) Nid yw gorchymyn terfynu a wneir gan awdurdod cynllunio yn cymryd effaith oni bai ei fod yn cael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru.

(2) Pan fo awdurdod cynllunio yn cyflwyno gorchymyn terfynu i Weinidogion Cymru am gadarnhad, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad o gyflwyno'r gorchymyn i—

(a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, a

(b) unrhyw berson arall y mae'n meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu'r cyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ynddo am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo.

(4) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, cyn cadarnhau'r gorchymyn rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw a'r awdurdod cynllunio.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(6) Wrth gadarnhau gorchymyn terfynu caiff Gweinidogion Cymru addasu'r gorchymyn drwy roi cyfnod hwy yn lle'r cyfnod a bennir yn y gorchymyn a gyflwynir iddynt fel y cyfnod y mae'r caniatâd cynllunio i beidio â chael effaith ar ei ddiwedd.

### RHAN 2

### Y WEITHDREFN AR GYFER GORCHMYNION A WNEIR GAN WEINIDOGION CYMRU

*Ymgynghori a hysbysu cyn gwneud gorchymyn*

2 (1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn terfynu heb ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn ei ardal.

(2) Cyn gwneud gorchymyn terfynu, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad eu bod yn cynnig gwneud hynny—

(a) i'r awdurdod cynllunio,

(b) i bob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, ac

(c) i unrhyw berson arall y maent yn meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(3) Rhaid i'r hysbysiad o dan is-baragraff (2) bennu'r cyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ynddo am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo.

(4) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, cyn gwneud y gorchymyn rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw ac (os nad yr awdurdod cynllunio yw'r person hwnnw) i'r awdurdod cynllunio.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

# ATODLEN 7 [J465S]

*(a gyflwynir gan adran 102[j465])*

# GORCHMYNION SY'N ADDASU NEU'N DIRYMU CANIATÂD CYNLLUNIO

## RHAN 1

## Y GWEITHDREFNAU AR GYFER GORCHMYNION A WNEIR GAN AWDURDODAU CYNLLUNIO

*Yr amgylchiadau pan fydd gorchymyn yn cymryd effaith*

1 (1) Pan fo awdurdod cynllunio yn gwneud gorchymyn o dan adran 102[j465] sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio a roddir gan yr awdurdod (ac eithrio gorchymyn sy'n addasu amod y mae caniatâd yn ddarostyngedig iddo yn rhinwedd adran 93[j458] neu 94[j459]), nid yw'r gorchymyn ond yn cymryd effaith—

(a) os caiff ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2, neu

(b) yn unol â pharagraff 3.

(2) Pan fo awdurdod cynllunio yn gwneud gorchymyn o dan adran 102[j465]—

(a) sy'n addasu amod y mae caniatâd cynllunio a roddir gan yr awdurdod yn ddarostyngedig iddo yn rhinwedd adran 93[j458] neu 94[j459]), neu

(b) sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio a roddir gan Weinidogion Cymru,

nid yw'r gorchymyn ond yn cymryd effaith os caiff ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru (ac yn unol â hynny nid yw paragraff 3 yn gymwys).

*Y weithdrefn ar gyfer cadarnhau gorchymyn gan Weinidogion Cymru*

2 (1) Pan fo awdurdod cynllunio yn cyflwyno gorchymyn o dan adran 102[j465] i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad o gyflwyno'r gorchymyn—

(a) i bob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, a

(b) i unrhyw berson arall y mae'n meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(2) Rhaid i'r hysbysiad bennu'r cyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ynddo am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo.

(3) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, cyn cadarnhau'r gorchymyn rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw a'r awdurdod cynllunio.

(4) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (2) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r gorchymyn gydag addasiadau neu hebddynt.

*Y weithdrefn i orchymyn gymryd effaith heb gadarnhad*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan—

(a) bo awdurdod cynllunio wedi gwneud gorchymyn o dan adran 102[j465], a

(b) bo'r personau a ganlyn wedi hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig nad ydynt yn gwrthwynebu'r gorchymyn—

(i) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, a

(ii) pob person arall y mae'r awdurdod yn meddwl bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(2) Rhaid i'r awdurdod cynllunio (yn hytrach na chyflwyno'r gorchymyn i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau)—

(a) cyhoeddi hysbysiad o wneud y gorchymyn yn y ffordd a bennir mewn rheoliadau,

(b) cyflwyno copi o'r hysbysiad i'r personau a grybwyllir yn is-baragraff (1)(b), ac

(c) anfon copi o'r hysbysiad at Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 3 diwrnod ar ôl y diwrnod y'i cyhoeddir.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu—

(a) y cyfnod y caiff personau y mae'r gorchymyn yn effeithio arnynt roi hysbysiad i Weinidogion Cymru ynddo eu bod am i'r gorchymyn gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau o dan y weithdrefn ym mharagraff 2[j465];

(b) y cyfnod, os na roddir hysbysiad o'r fath ac nad yw Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod rhaid cyflwyno'r gorchymyn iddynt i'w gadarnhau, y bydd y gorchymyn yn cymryd effaith ar ei ddiwedd heb gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru.

(4) Os ar ddiwedd y cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(a)—

(a) nad yw unrhyw berson y mae'r gorchymyn yn effeithio arno wedi rhoi hysbysiad i Weinidogion Cymru fel y'i crybwyllir yn is-baragraff (3)(a), a

(b) nad yw Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo bod rhaid cyflwyno'r gorchymyn iddynt i'w gadarnhau,

mae'r gorchymyn yn cymryd effaith ar ddiwedd y cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(b).

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(a) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y caiff yr hysbysiad o wneud gorchymyn ei gyhoeddi am y tro cyntaf.

(6) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(b) fod o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl diwedd y cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(a).

## RHAN 2

## Y WEITHDREFN AR GYFER GORCHMYNION A WNEIR GAN WEINIDOGION CYMRU

*Ymgynghori a hysbysu cyn gwneud gorchymyn*

4 (1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan adran 102[j465] heb ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn ei ardal.

(2) Cyn gwneud gorchymyn o dan adran 102[j465] rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn arfaethedig—

(a) i'r awdurdod cynllunio,

(b) i bob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, ac

(c) i unrhyw berson arall maent yn meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu'r cyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ynddo am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo.

(4) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, cyn gwneud y gorchymyn rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw ac (os nad yr awdurdod cynllunio yw'r person hwnnw) i'r awdurdod cynllunio.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

## RHAN 3

## ADDASU NEU DDIRYMU CANIATÂD CYNLLUNIO AR GYFER GWEITHREDIADAU MWYNGLODDIO NEU DDYDDODI GWASTRAFF

*Pŵer i osod amod ôl-ofal wrth addasu neu ddirymu caniatâd*

5 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i orchymyn o dan adran 102[j465] sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad—

(a) sy'n weithrediadau mwyngloddio, neu

(b) sy'n cynnwys dyddodi gwastraff mwynau.

(2) Os yw'r gorchymyn yn gosod un neu ragor o amodau adfer, neu os oes un neu ragor o amodau adfer wedi ei osod neu eu gosod yn flaenorol o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, caiff y gorchymyn hefyd osod un neu ragor o amodau ôl-ofal.

(3) Mae paragraffau 1(3) i 5[J445S] o Atodlen 3[J445S] yn gymwys mewn perthynas ag amod ôl-ofal a osodir gan orchymyn o dan adran 102[j465] fel y maent yn gymwys mewn perthynas ag amod ôl-ofal a osodir wrth roi caniatâd cynllunio (gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, yn achos gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru).

## ATODLEN 8 [J495S]

*(a gyflwynir gan adran 103[j495a])*

## CANIATADAU MWYNAU SY'N YMWNEUD Â SAFLEOEDD SEGUR

*Cais i benderfynu amodau caniatadau mwynau sy'n ymwneud â safleoedd segur*

1 (1) Caiff person a chanddo un neu ragor o fuddiannau wneud cais i'r awdurdod cynllunio i benderfynu—

(a) yr amodau y mae caniatâd mwynau cyn-1948 y mae adran 103[j495a] yn gymwys iddo i fod yn ddarostyngedig iddynt;

(b) yr amodau y mae pob caniatâd mwynau ôl-1948 y mae'r adran honno yn gymwys iddo ynghylch safle i fod yn ddarostyngedig iddynt.

(2) Rhaid i gais fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) nodi'r tir neu'r safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

(b) nodi'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â'r tir neu'r safle hwnnw;

(c) pennu'r tir sydd wedi ei gynnwys yn y tir neu'r safle hwnnw y mae'r ceisydd yn berchennog arno, neu'r mwynau sydd wedi eu cynnwys yn y tir neu'r safle y mae gan y ceisydd hawlogaeth i fuddiant ynddynt;

(d) dangos, a rhoi cyfeiriad post ar gyfer, pob person arall y mae'r ceisydd yn gwybod ei fod, neu ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol y mae ganddo achos dros gredu ei fod, yn berson a chanddo un neu ragor o fuddiannau;

(e) nodi'r amodau y mae'r ceisydd yn cynnig y dylai pob caniatâd mwynau y mae'r cais yn ymwneud ag ef fod yn ddarostyngedig iddynt.

(3) Pan fo rheoliadau'n gwneud darpariaeth o dan adran 58[j436] a fyddai'n gymwys i gais am ganiatâd mwynau, mae'r ddarpariaeth yn gymwys i gais o dan y paragraff hwn gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

(4) Yn y paragraff hwn—

ystyr "yr awdurdod cynllunio" ("*the planning authority*") yw'r awdurdod cynllunio y mae'r tir neu'r safle y mae cais yn ymwneud ag ef yn ei ardal;

ystyr "perchennog" ("*owner*"), mewn perthynas â thir, yw—

(a) perchennog ar yr ystad rydd-ddaliadol, neu

(b) tenant o dan les a roddir neu a estynnir am gyfnod penodol o flynyddoedd sydd ag o leiaf 7 mlynedd yn weddill;

ystyr "person a chanddo un neu ragor o fuddiannau" ("*interested person*") yw—

(a) mewn perthynas â chaniatâd mwynau cyn-1948—

(i) perchennog ar unrhyw dir y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef, neu

(ii) person sydd â buddiant mewn unrhyw fwyn y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef;

(b) mewn perthynas â safle y mae un neu ragor o ganiatadau mwynau ôl-1948 yn ymwneud ag ef—

(i) perchennog ar unrhyw dir y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef (neu, os oes mwy nag un caniatâd, y mae unrhyw un neu ragor ohonynt yn ymwneud ag ef) sydd wedi ei gynnwys yn y safle, neu

(ii) person sydd â buddiant mewn unrhyw fwyn y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef (neu, os oes mwy nag un caniatâd, y mae unrhyw un neu ragor ohonynt yn ymwneud ag ef) sydd wedi ei gynnwys yn y safle.

*Ymdrin â chais*

2 (1) Pan fo cais yn dod i law awdurdod cynllunio o dan baragraff 1, rhaid i'r awdurdod—

(a) rhoi cydnabyddiaeth ysgrifenedig i'r ceisydd o'r cais cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a

(b) penderfynu'r amodau y mae pob caniatâd mwynau y mae'r cais yn ymwneud ag ef i fod yn ddarostyngedig iddynt.

(2) O ran yr amodau hynny—

(a) cânt gynnwys unrhyw amodau y gellid eu gosod ar roi caniatâd mwynau;

(b) caniateir eu gosod yn ychwanegol at, neu yn lle, unrhyw amodau presennol y mae'r caniatâd o dan sylw yn ddarostyngedig iddynt;

(c) mewn perthynas â chaniatâd mwynau cyn-1948, rhaid iddynt gynnwys amod bod rhaid i'r datblygiad mwynau stopio ar neu cyn 21 Chwefror 2042.

(3) Wrth benderfynu pa un a yw caniatâd i fod yn ddarostyngedig i unrhyw amod sy'n ymwneud â datblygiad y rhoddir caniatâd cynllunio ar ei gyfer gan orchymyn datblygu, rhaid i'r awdurdod cynllunio roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

(4) Os yw'r awdurdod cynllunio yn ystyried nad yw'n gallu penderfynu cais o dan baragraff 1 oni ddarperir rhagor o fanylion, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad i'r perwyl hwnnw i'r ceisydd o fewn 1 mis ar ôl y diwrnod y daw'r cais i law yr awdurdod.

(5) Rhaid i'r hysbysiad bennu'r manylion pellach sydd eu hangen ar yr awdurdod i benderfynu'r cais, a gaiff (er enghraifft) gynnwys—

(a) unrhyw wybodaeth, unrhyw blaniau neu unrhyw luniadau, neu

(b) unrhyw dystiolaeth i ategu unrhyw fanylion a ddarperir i'r awdurdod mewn cysylltiad â'r cais,

y mae'n rhesymol i'r awdurdod ofyn amdanynt.

(6) Mae is-baragraff (7) yn gymwys os nad yw'r awdurdod cynllunio yn rhoi hysbysiad i'r ceisydd o'i benderfyniad ar y cais o fewn y cyfnod o 3 mis neu gyfnod hwy y cytunir arno yn ysgrifenedig rhwng yr awdurdod a'r ceisydd.

(7) Mae'r awdurdod i'w drin fel pe bai wedi penderfynu, ar ddiwedd y cyfnod o 3 mis neu'r cyfnod hwy y cytunir arno rhwng yr awdurdod a'r ceisydd, mai'r amodau y mae pob caniatâd mwynau y mae'r cais yn ymwneud ag ef i fod yn ddarostyngedig iddynt yw'r amodau a gynigir yn y cais.

(8) Yn y paragraff hwn, ystyr "y cyfnod o 3 mis" yw—

(a) mewn achos pan nad yw'r awdurdod yn cyflwyno hysbysiad o dan is-baragraff (4), y 3 mis ar ôl y diwrnod y daw'r cais i law yr awdurdod;

(b) mewn achos pan fo'r awdurdod yn cyflwyno hysbysiad o dan is-baragraff (4), y 3 mis ar ôl y diwrnod y daw'r holl fanylion pellach a bennir yn yr hysbysiad i law yr awdurdod.

(9) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy'n gosod gofynion ar awdurdodau cynllunio sy'n ymwneud â chyhoeddusrwydd ar gyfer ceisiadau o dan baragraff 1.

(10) Nid yw amod y mae caniatâd mwynau cyn-1948 yn ddarostyngedig iddo yn rhinwedd is-baragraff (2)(c) i'w ystyried yn amod a grybwyllir yn adran 67(3)[j445] (caniatâd cynllunio a roddir am gyfnod cyfyngedig).

*Atgyfeirio ceisiadau at Weinidogion Cymru*

3 (1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod cynllunio i atgyfeirio cais a wneir i'r awdurdod o dan baragraff 1 atynt i'w benderfynu yn hytrach nag ymdrin â'r cais ei hun.

(2) Caiff cyfarwyddyd ymwneud ag—

(a) cais penodol, neu

(b) ceisiadau o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Rhaid i awdurdod cynllunio atgyfeirio cais y mae cyfarwyddyd yn gymwys iddo at Weinidogion Cymru.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i geisydd, o fewn cyfnod a bennir yn y rheoliadau, fod cais wedi ei atgyfeirio atynt o dan y paragraff hwn (gan gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys hysbysiad a sut y mae rhaid ei roi).

(5) Pan fo cais yn cael ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru o dan y paragraff hwn, mae paragraff 2(1)(b), (2), (4) a (5) yn gymwys i'r cais, ond fel pe bai cyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio yn gyfeiriadau at Weinidogion Cymru.

(6) Mae Pennod [2] o Ran [14] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried cais a atgyfeirir at Weinidogion Cymru o dan y paragraff hwn.

(7) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar y cais yn derfynol.

*Yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad ar gais*

4 (1) Pan fo awdurdod cynllunio, wrth benderfynu cais o dan baragraff 1, yn penderfynu amodau sy'n wahanol mewn unrhyw ffordd i'r amodau a gynigir yn y cais, caiff y ceisydd apelio i Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid gwneud apêl drwy gyflwyno hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru cyn diwedd 6 mis sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r awdurdod cynllunio yn gwneud ei benderfyniad ar y cais.

(3) Rhaid i hysbysiad o apêl—

(a) bod ar ffurflen a gyhoeddir neu a ddarperir gan Weinidogion Cymru neu berson a awdurdodir ganddynt, a

(b) rhoi'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y ffurflen, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol.

(4) Ar apêl o dan y paragraff hwn caiff Gweinidogion Cymru—

(a) caniatáu neu wrthod yr apêl, neu

(b) gwrthdroi neu amrywio unrhyw ran o benderfyniad yr awdurdod cynllunio (pa un a yw'r apêl yn ymwneud â'r rhan honno ai peidio),

a chânt ymdrin â'r cais fel pe bai wedi ei wneud iddynt hwy yn y lle cyntaf.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg cyn neu yn ystod penderfynu'r apêl, yn ystyried bod yr apelydd yn gyfrifol am oedi gormodol yng nghynnydd yr apêl—

(a) cânt roi hysbysiad i'r apelydd y bydd yr apêl yn cael ei gwrthod oni bai, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, fod yr apelydd yn cymryd camau a bennir yn yr hysbysiad i gyflymu'r apêl, a

(b) os yw'r apelydd yn methu â chymryd y camau hynny o fewn y cyfnod hwnnw, cânt wrthod yr apêl.

(6) Mae Pennod [2] o Ran [14] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried apelau o dan y paragraff hwn (gan gynnwys darpariaeth iddynt gael eu penderfynu gan arolygwyr).

(7) Pan fo rheoliadau'n gwneud darpariaeth o dan adran 58[j436] a fyddai'n gymwys i gais am ganiatâd mwynau, mae'r ddarpariaeth yn gymwys i apêl o dan y paragraff hwn gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

(8) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar yr apêl yn derfynol.

*Yr adeg pan fydd amodau caniatâd yn cymryd effaith*

5 (1) Mae pob caniatâd mwynau y gwneir cais mewn perthynas ag ef o dan baragraff 1 yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r amodau a benderfynir o dan yr Atodlen hon o'r adeg y penderfynir y cais yn derfynol.

(2) Penderfynir y cais yn derfynol—

(a) mewn achos pan fo paragraff 2(7) yn gymwys, pan fydd yr awdurdod cynllunio i'w drin fel pe bai wedi penderfynu'r amodau;

(b) mewn unrhyw achos arall, pan fydd—

(i) yr amodau wedi eu penderfynu o dan baragraff 2(1)(b),

(ii) unrhyw apêl o dan baragraff 4, ac unrhyw achos o dan adran 376 ar gyfer cwestiynu penderfyniad gan Weinidogion Cymru ar y cais neu ar apêl, wedi ei phenderfynu neu ei thynnu'n ôl neu wedi ei benderfynu neu ei dynnu'n ôl, a

(iii) unrhyw gyfnod ar gyfer apelio o dan baragraff 4, neu ar gyfer gwneud cais o dan adran 376 am ganiatâd i wneud cais am adolygiad statudol o benderfyniad gan Weinidogion Cymru ar y cais neu ar apêl, wedi dod i ben.

*Ceisiadau a wneir yn electronig*

6 Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch defnyddio cyfathrebiadau electronig mewn cysylltiad â cheisiadau o dan baragraff 1.

*Dau gais neu ragor*

7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo cais wedi dod i law awdurdod cynllunio o dan baragraff 1.

(2) Ni chaiff y ceisydd wneud cais arall o dan baragraff 1 sy'n gysylltiedig â'r cais hwnnw.

(3) Os penderfynwyd y cais (pa un a yw wedi ei benderfynu'n derfynol ai peidio), ni chaiff unrhyw berson arall wneud cais cysylltiedig o dan baragraff 1.

(4) Mae is-baragraff (5) yn gymwys os, cyn penderfynu'r cais, daw cais cysylltiedig gan berson arall o dan baragraff 1 i law'r awdurdod cynllunio.

(5) At ddibenion penderfynu'r ceisiadau ac unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad ar y ceisiadau hynny, mae'r Atodlen hon yn cael effaith—

(a) fel pe baent yn un cais a wnaed i'r awdurdod cynllunio ar y diwrnod y daeth y cais diweddarach i law;

(b) fel pe bai cyfeiriadau at y ceisydd yn gyfeiriadau at bob un o'r ceiswyr.

(6) At ddibenion y paragraff hwn—

(a) mae ceisiadau mewn cysylltiad â chaniatadau mwynau cyn-1948 yn gysylltiedig pan fônt yn ymwneud â'r un caniatâd;

(b) mae ceisiadau mewn cysylltiad â chaniatadau mwynau ôl-1948 yn gysylltiedig pan fônt yn ymwneud â'r un safle.

## ATODLEN 9 [J490S]

*(a gyflwynir gan adran 104[j490])*

## ADOLYGIAD CYFNODOL O GANIATADAU MWYNAU

*Dyletswydd i gynnal adolygiadau cyfnodol o ganiatadau mwynau*

1 (1) Rhaid i awdurdod cynllunio beri i adolygiadau cyfnodol gael eu cynnal yn unol â'r Atodlen hon o'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â phob safle mwyngloddio yn ei ardal.

(2) Yn yr Atodlen hon—

(a) ystyr "safle mwyngloddio" yw'r tir y mae caniatâd mwynau yn ymwneud ag ef; ond os yw'r awdurdod cynllunio yn ystyried y dylid trin y tir y mae dau neu ragor o ganiatadau mwynau yn ymwneud ag ef fel un safle at ddibenion yr Atodlen hon, mae'n golygu yr holl dir y mae'r caniatadau hynny'n ymwneud ag ef;

(b) mae cyfeiriadau at ganiatâd mwynau sy'n ymwneud â safle mwyngloddio yn gyfeiriadau at ganiatâd mwynau sy'n ymwneud ag unrhyw ran o'r tir sydd wedi ei gynnwys yn y safle.

(3) Wrth benderfynu a ddylid trin y tir y mae dau neu ragor o ganiatadau mwynau yn ymwneud ag ef fel un safle, rhaid i awdurdod cynllunio roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

*Y dyddiad adolygu cyntaf*

2 (1) Mae'r paragraff hwn yn penderfynu'r dyddiad adolygu ar gyfer yr adolygiad cyfnodol cyntaf o'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â safle mwyngloddio (yn ddarostyngedig i'r pŵer i ohirio'r dyddiad adolygu o dan baragraff 6).

(2) Y dyddiad adolygu ar gyfer safle mwyngloddio o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn gyntaf y Tabl yw'r dyddiad 15 mlynedd ar ôl y diwrnod a bennir yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn.

TABL 3

| **Disgrifiad o'r safle mwyngloddio** | **Y diwrnod i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrifo'r dyddiad adolygu cyntaf** |
|---|---|
| Mae'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â'r safle yn cynnwys caniatâd mwynau cyn-1948. | Y diwrnod y penderfynwyd yn derfynol amodau'r caniatâd mwynau cyn-1948 ar gais o dan baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) neu baragraff 1(1)(a)[j495a] o Atodlen 8[J495S] i'r Ddeddf hon (neu os oes mwy nag un caniatâd mwynau cyn-1948 ac y penderfynwyd yn derfynol eu hamodau ar ddiwrnodau gwahanol, yr olaf o'r diwrnodau hynny). |

| | |
|---|---|
| Dangosir y safle ar restr a luniwyd o dan baragraff 3 o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). | Y diwrnod y penderfynwyd yn derfynol amodau'r caniatâd mwynau ôl-1948 sy'n ymwneud â'r safle ar gais o dan baragraff 9 o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 neu baragraff 1(1)(b) o Atodlen 8[J495S] i'r Ddeddf hon. |
| Nid oes unrhyw ganiatadau mwynau cyn-1948 yn ymwneud â'r safle ac ni ddangosir y safle ar restr a luniwyd o dan baragraff 3 o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995. | Y diwrnod y rhoddwyd y caniatâd mwynau diweddaraf sy'n ymwneud â'r safle (ond gweler is-baragraffau (3) i (5)). |
| Mae gorchymyn wedi ei wneud o dan adran 102[j465] mewn cysylltiad â chaniatâd mwynau sy'n ymwneud â'r safle. | Y diwrnod y cymerodd y gorchymyn effaith (neu os oes mwy nag un gorchymyn a'u bod wedi cael effaith ar ddiwrnodau gwahanol, yr olaf o'r diwrnodau hynny). |
| Mae gorchymyn datbarhau wedi ei wneud mewn cysylltiad â defnydd o'r safle, neu unrhyw ran ohono, ar gyfer cynnal gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff. | Y diwrnod y cymerodd y gorchymyn effaith (neu os oes mwy nag un gorchymyn a'u bod wedi cymryd effaith ar ddiwrnodau gwahanol, yr olaf o'r diwrnodau hynny). |

(3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys pan—

(a) nad oes unrhyw ganiatadau mwynau cyn-1948 yn ymwneud â safle mwyngloddio, ac ni ddangosir y safle ar restr a luniwyd o dan baragraff 3 o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995,

(b) bo'r caniatâd mwynau diweddaraf sy'n ymwneud â'r safle yn ymwneud â rhan o'r safle yn unig, neu pan fo'r caniatadau mwynau diweddaraf (pa un a roddwyd y caniatadau ar yr un diwrnod ai peidio) rhyngddynt yn ymwneud â rhan o'r safle yn unig, ac

(c) bo'r awdurdod cynllunio yn ystyried y dylid cyfrifo'r dyddiad adolygu ar gyfer y safle drwy gyfeirio at y diwrnod y rhoddwyd yr olaf o'r caniatadau mwynau eraill sy'n ymwneud â'r safle.

(4) At ddibenion y paragraff hwn, mae'r caniatâd neu'r caniatadau mwynau diweddaraf sy'n ymwneud â'r safle mwyngloddio i'w trin fel pe baent wedi eu rhoi ar yr un pryd â'r olaf o'r caniatadau mwynau eraill sy'n ymwneud â'r safle.

(5) Wrth i awdurdod cynllunio benderfynu pa un a yw o'r farn a grybwyllir yn is-baragraff (3)(c), rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

(6) Os yw'r Tabl yn pennu mwy nag un diwrnod ar gyfer yr un safle mwyngloddio, mae'r dyddiad adolygu ar gyfer y safle i'w gyfrifo drwy gyfeirio at y diweddaraf o'r diwrnodau hynny.

(7) Caiff rheoliadau, mewn perthynas â safle mwyngloddio y mae caniatâd mwynau cyn-1948 yn ymwneud ag ef neu a ddangosir ar restr a luniwyd o dan baragraff 3 o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995—

(a) pennu dyddiad adolygu sy'n wahanol i'r dyddiad a benderfynir fel arall yn unol â'r paragraff hwn, neu

(b) pe na phenderfynir dyddiad adolygu fel arall yn unol â'r paragraff hwn, bennu dyddiad adolygu.

(8) Yn y Tabl, mae i "penderfynwyd yn derfynol" yr ystyr a roddir—

(a) mewn perthynas ag amodau a benderfynir ar gais o dan baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, gan baragraff 10(2) o'r Atodlen honno;

(b) mewn perthynas ag amodau a benderfynir ar gais o dan baragraff 9 o Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995, gan baragraff 1(7) o'r Atodlen honno;

(c) mewn perthynas ag amodau a benderfynir ar gais o dan baragraff 1(1)(a)[j495a] neu (b)[J495S] o Atodlen 8[J495S] i'r Ddeddf hon, gan baragraff 5(2)[J495S] o'r Atodlen honno.

*Dyddiadau adolygu diweddarach*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn penderfynu'r dyddiad adolygu ar gyfer yr ail adolygiad a'r adolygiadau cyfnodol dilynol o'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â safle mwyngloddio (yn ddarostyngedig i'r pŵer i ohirio'r dyddiad adolygu o dan baragraff 6).

(2) Y dyddiad adolygu yw'r dyddiad 15 mlynedd ar ôl y diwrnod y penderfynwyd y cais diweddaraf o dan baragraff 7 mewn cysylltiad â'r safle yn derfynol (gweler paragraff 12).

*Cymhwyso darpariaethau'r Atodlen hon*

4 Mae gweddill darpariaethau'r Atodlen hon yn gymwys at ddibenion pob adolygiad cyfnodol o'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â safle mwyngloddio.

*Hysbysiad o adolygiad cyfnodol*

5 (1) Rhaid i'r awdurdod cynllunio, o leiaf 12 mis cyn y dyddiad adolygu ar gyfer y safle mwyngloddio, gyflwyno hysbysiad i bob person y mae'r awdurdod yn ystyried ei fod yn berson a chanddo un neu ragor o fuddiannau.

(2) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) pennu'r safle mwyngloddio y mae'n ymwneud ag ef;

(b) nodi'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â'r safle;

(c) dynodi bod tir y mae'r person yn berchen arno, neu fwyn y mae gan y person fuddiant ynddo, wedi ei gynnwys yn y safle;

(d) nodi'r dyddiad adolygu;

(e) datgan bod rhaid i unrhyw gais i benderfynu amodau'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â'r safle gael ei wneud ar y dyddiad adolygu neu cyn hynny, ac egluro canlyniadau peidio â gwneud cais ar y dyddiad hwnnw neu cyn hynny;

(f) esbonio'r hawl i wneud cais i ohirio'r dyddiad adolygu a datgan bod rhaid gwneud unrhyw gais o'r fath ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad neu cyn hynny.

(3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys—

(a) os yw awdurdod cynllunio wedi cyflwyno hysbysiad i berson a chanddo un neu ragor o fuddiannau o dan is-baragraff (1),

(b) os nad oes cais o dan baragraff 7 wedi dod i law'r awdurdod gan y person hwnnw, ac

(c) os yw'r cyfnod o 8 wythnos sy'n dod i ben â'r dyddiad adolygu wedi dechrau.

(4) Rhaid i'r awdurdod gyflwyno nodyn atgoffa ysgrifenedig i'r person ar y diwrnod sydd 4 wythnos cyn y dyddiad adolygu neu cyn hynny.

(5) Rhaid i'r nodyn atgoffa gynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan is-baragraff (2)(a) i (e).

(6) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae hysbysiad neu nodyn atgoffa o dan y paragraff hwn i'w gyflwyno pan na ellir darganfod enw neu gyfeiriad person a chanddo un neu ragor o fuddiannau ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol (a all gynnwys darpariaeth i hysbysiad neu nodyn atgoffa gael ei gyflwyno drwy arddangos copi ohono ar y tir o dan sylw).

(7) Pan fo rheoliadau yn cael eu gwneud o dan is-baragraff (6), nid yw adran 399 yn gymwys.

*Cais i ohirio'r dyddiad adolygu*

6 (1) Caiff person a chanddo un neu ragor o fuddiannau sy'n ystyried bod amodau'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â'r safle mwyngloddio yn foddhaol wneud cais i'r awdurdod cynllunio i ohirio'r dyddiad adolygu.

(2) Rhaid gwneud cais o fewn 3 mis ar ôl y diwrnod y cyflwynir hysbysiad i'r person a chanddo un neu ragor o fuddiannau o dan baragraff 5(1).

(3) Rhaid gwneud cais yn ysgrifenedig a rhaid iddo nodi—

(a) yr amodau y mae pob caniatâd mwynau sy'n ymwneud â'r safle yn ddarostyngedig iddynt,

(b) rhesymau'r ceisydd dros ystyried bod yr amodau hynny'n foddhaol, ac

(c) y dyddiad y mae'r ceisydd yn ei gynnig yn ddyddiad adolygu newydd.

(4) Os yw'r awdurdod cynllunio yn ystyried bod amodau'r caniatadau mwynau yn foddhaol, rhaid iddo ganiatáu'r cais a phenderfynu dyddiad adolygu newydd.

(5) Mewn unrhyw achos arall, rhaid i'r awdurdod wrthod y cais.

(6) Rhaid i'r awdurdod cynllunio—

(a) rhoi i'r ceisydd hysbysiad o'i benderfyniad ar y cais, a

(b) os yw'n caniatáu'r cais, roi hysbysiad i'r ceisydd o'r dyddiad adolygu newydd.

(7) Mae is-baragraff (8) yn gymwys os nad yw'r awdurdod cynllunio yn rhoi hysbysiad a grybwyllir yn is-baragraff (6)(a) i'r ceisydd o fewn—

(a) 3 mis ar ôl y diwrnod y daw'r cais i law yr awdurdod, neu

(b) cyfnod hwy y cytunir arno yn ysgrifenedig rhwng y ceisydd a'r awdurdod.

(8) Mae'r awdurdod i'w drin fel pe bai—

(a) wedi caniatáu'r cais, a

(b) wedi penderfynu mai'r dyddiad newydd ar gyfer yr adolygiad yw'r dyddiad a gynigir yn y cais.

*Cais i benderfynu amodau caniatâd mwynau*

7 (1) Caiff person a chanddo un neu ragor o fuddiannau wneud cais i'r awdurdod cynllunio i benderfynu'r amodau y mae'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â'r safle mwyngloddio i fod yn ddarostyngedig iddynt.

(2) Rhaid i gais fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo—

(a) nodi'r safle mwyngloddio y mae'r cais yn ymwneud ag ef, a'r adolygiad cyfnodol y gwneir y cais mewn cysylltiad ag ef (er enghraifft, yr adolygiad cyntaf neu'r ail adolygiad sy'n ymwneud â'r safle);

(b) nodi'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â'r safle;

(c) pennu'r tir sydd wedi ei gynnwys yn y safle y mae'r ceisydd yn berchennog arno, neu'r mwynau sydd wedi eu cynnwys yn y safle y mae gan y ceisydd hawlogaeth i fuddiant ynddynt;

(d) dangos, a rhoi cyfeiriad post ar gyfer, pob person arall y mae'r ceisydd yn gwybod ei fod, neu ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol y mae ganddo achos dros gredu ei fod, yn berson a chanddo un neu ragor o fuddiannau;

(e) nodi'r amodau y mae'r ceisydd yn cynnig y dylai'r caniatadau mwynau sy'n ymwneud â'r safle fod yn ddarostyngedig iddynt.

(3) Pan fo rheoliadau'n gwneud darpariaeth o dan adran 58[j436] a fyddai'n gymwys i gais am ganiatâd mwynau, mae'r ddarpariaeth yn gymwys i gais o dan y paragraff hwn gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

*Terfynu caniatâd os na wneir cais*

8 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os—

(a) yw awdurdod cynllunio yn cyflwyno hysbysiad o dan baragraff 5 mewn cysylltiad â safle mwyngloddio, ond

(b) na wneir unrhyw gais o dan baragraff 7 mewn perthynas â'r safle ar y dyddiad adolygu neu cyn hynny neu ar ddyddiad diweddarach y cytunir arno yn ysgrifenedig rhwng y ceisydd a'r awdurdod neu cyn hynny.

(2) Mae pob caniatâd mwynau sy'n ymwneud â'r safle ac sy'n cael ei nodi yn yr hysbysiad yn peidio â chael effaith, ac eithrio i'r graddau y mae'n gosod amod adfer neu amod ôl-ofal, ar ddiwedd y dyddiad adolygu neu'r dyddiad diweddarach y cytunir arno.

*Ymdrin â chais*

9 (1) Pan fo cais yn dod i law awdurdod cynllunio o dan baragraff 7, rhaid i'r awdurdod—

(a) rhoi cydnabyddiaeth ysgrifenedig i'r ceisydd o'r cais cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a

(b) penderfynu'r amodau y mae pob caniatâd mwynau y mae'r cais yn ymwneud ag ef i fod yn ddarostyngedig iddynt.

(2) Caiff yr amodau hynny—

(a) cynnwys unrhyw amodau y caniateir eu gosod ar roi caniatâd mwynau;

(b) cael eu gosod yn ychwanegol at, neu yn lle, unrhyw amodau presennol y mae'r caniatâd o dan sylw yn ddarostyngedig iddynt.

(3) Wrth benderfynu pa un a yw caniatâd mwynau i fod yn ddarostyngedig i unrhyw amod sy'n ymwneud â datblygiad y rhoddir caniatâd cynllunio ar ei gyfer gan orchymyn datblygu, rhaid i'r awdurdod cynllunio roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

(4) Os yw'r awdurdod cynllunio yn ystyried nad yw'n gallu penderfynu cais oni ddarperir rhagor o fanylion, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad i'r perwyl hwnnw i'r ceisydd o fewn 1 mis ar ôl y diwrnod y daw'r cais i law yr awdurdod.

(5) Rhaid i'r hysbysiad bennu'r manylion pellach sydd eu hangen ar yr awdurdod i benderfynu'r cais, a gaiff (er enghraifft) gynnwys—

(a) unrhyw wybodaeth, unrhyw blaniau neu unrhyw luniadau, neu

(b) unrhyw dystiolaeth i ategu unrhyw fanylion a ddarperir i'r awdurdod mewn cysylltiad â'r cais,

y mae'n rhesymol i'r awdurdod ofyn amdanynt.

(6) Mae is-baragraff (7) yn gymwys os nad yw'r awdurdod cynllunio yn rhoi hysbysiad i'r ceisydd o'i benderfyniad ar y cais o fewn y cyfnod o 3 mis neu gyfnod hwy y cytunir arno yn ysgrifenedig rhwng yr awdurdod a'r ceisydd.

(7) Mae'r awdurdod i'w drin fel pe bai wedi penderfynu, ar ddiwedd y cyfnod o 3 mis neu'r cyfnod hwy y cytunir arno rhwng yr awdurdod a'r ceisydd, mai'r amodau y mae pob caniatâd mwynau sy'n ymwneud â'r safle i fod yn ddarostyngedig iddynt yw'r amodau a gynigir ar gyfer y caniatâd hwnnw yn y cais.

(8) Yn y paragraff hwn, ystyr "y cyfnod o 3 mis" yw—

(a) mewn achos pan nad yw'r awdurdod yn cyflwyno hysbysiad o dan is-baragraff (4), y 3 mis ar ôl y diwrnod y daw'r cais i law yr awdurdod;

(b) mewn achos pan fo'r awdurdod yn cyflwyno hysbysiad o dan is-baragraff (4), y 3 mis ar ôl y diwrnod y daw'r holl fanylion pellach a bennir yn yr hysbysiad i law yr awdurdod.

(9) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy'n gosod gofynion ar awdurdodau cynllunio sy'n ymwneud â chyhoeddusrwydd ar gyfer ceisiadau o dan baragraff 7.

*Atgyfeirio ceisiadau at Weinidogion Cymru*

10 (1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod cynllunio i atgyfeirio cais a wneir i'r awdurdod o dan baragraff 7 atynt hwy i'w benderfynu yn hytrach nag ymdrin â'r cais ei hun.

(2) Caiff cyfarwyddyd ymwneud ag—

(a) cais penodol, neu

(b) ceisiadau o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Rhaid i awdurdod cynllunio atgyfeirio cais y mae cyfarwyddyd yn gymwys iddo at Weinidogion Cymru.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i geisydd, o fewn cyfnod a bennir yn y rheoliadau, fod cais wedi ei atgyfeirio atynt o dan y paragraff hwn (gan gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys hysbysiad a sut y mae rhaid ei roi).

(5) Pan fo cais yn cael ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru o dan y paragraff hwn, mae paragraff 9(1)(b)[J490S], (2)[J490S], (4)[J490S] a (5)[J490S] yn gymwys i'r cais, ond fel pe bai cyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio yn gyfeiriadau at Weinidogion Cymru.

(6) Mae Pennod [2] o Ran [14] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried cais a atgyfeirir at Weinidogion Cymru o dan y paragraff hwn.

(7) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar y cais yn derfynol.

*Yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad ar gais*

11 (1) Pan fo awdurdod cynllunio, wrth benderfynu cais o dan baragraff 7, yn penderfynu amodau sy'n wahanol mewn unrhyw ffordd i'r amodau a gynigir yn y cais , caiff y ceisydd apelio i Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid gwneud apêl drwy gyflwyno hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru cyn diwedd 6 mis sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r awdurdod cynllunio yn gwneud ei benderfyniad ar y cais.

(3) Rhaid i hysbysiad o apêl—

(a) bod ar ffurflen a gyhoeddir neu a ddarperir gan Weinidogion Cymru neu berson a awdurdodir ganddynt, a

(b) rhoi'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y ffurflen, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol.

(4) Ar apêl o dan y paragraff hwn caiff Gweinidogion Cymru—

(a) caniatáu neu wrthod yr apêl, neu

(b) gwrthdroi neu amrywio unrhyw ran o benderfyniad yr awdurdod cynllunio (pa un a yw'r apêl yn ymwneud â'r rhan honno ai peidio),

a chânt ymdrin â'r cais fel pe bai wedi ei wneud iddynt hwy yn y lle cyntaf.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg cyn neu yn ystod penderfynu'r apêl, yn ystyried bod yr apelydd yn gyfrifol am oedi gormodol yng nghynnydd yr apêl—

(a) cânt roi hysbysiad i'r apelydd y bydd yr apêl yn cael ei gwrthod oni bai, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, fod yr apelydd yn cymryd camau a bennir yn yr hysbysiad i gyflymu'r apêl, a

(b) os yw'r apelydd yn methu â chymryd y camau hynny o fewn y cyfnod hwnnw, cânt wrthod yr apêl.

(6) Mae Pennod [2] o Ran [14] yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried apelau o dan y paragraff hwn (gan gynnwys darpariaeth iddynt gael eu penderfynu gan arolygwyr).

(7) Pan fo rheoliadau'n gwneud darpariaeth o dan adran 58[j436] a fyddai'n gymwys i gais am ganiatâd mwynau, mae'r ddarpariaeth yn gymwys i apêl o dan y paragraff hwn gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol.

(8) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar yr apêl yn derfynol.

*Yr adeg pan fo amodau caniatâd yn cymryd effaith*

12 (1) Pan fo cais wedi ei wneud o dan baragraff 7 mewn cysylltiad â safle mwyngloddio, mae pob caniatâd mwynau sy'n ymwneud â'r safle yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r amodau a benderfynir o dan yr Atodlen hon o'r adeg y penderfynir y cais yn derfynol.

(2) Penderfynir y cais yn derfynol—

(a) mewn achos pan fo paragraff 9(7) yn gymwys, pan fydd yr awdurdod cynllunio i'w drin fel pe bai wedi penderfynu'r amodau;

(b) mewn unrhyw achos arall, pan fydd—

(i) yr amodau wedi eu penderfynu o dan baragraff 9(1)(b),

(ii) unrhyw apêl o dan baragraff 11[J490S], ac unrhyw achos o dan adran 376 ar gyfer cwestiynu penderfyniad gan Weinidogion Cymru ar y cais neu ar apêl, wedi ei phenderfynu neu ei thynnu'n ôl neu wedi ei benderfynu neu ei dynnu'n ôl, a

(iii) unrhyw gyfnod ar gyfer apelio o dan baragraff 11[J490S], neu ar gyfer gwneud cais o dan adran 376 am ganiatâd i wneud cais am adolygiad statudol o benderfyniad gan Weinidogion Cymru ar y cais neu ar apêl, wedi dod i ben.

*Ceisiadau a wneir yn electronig*

13 Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch defnyddio cyfathrebiadau electronig mewn cysylltiad â cheisiadau o dan baragraff 6 neu 7.

*Dau gais neu ragor*

14 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo cais o dan baragraff 6 neu 7 wedi dod i law awdurdod cynllunio mewn cysylltiad â safle mwyngloddio.

(2) Ni chaiff y ceisydd wneud cais arall o dan y paragraff o dan sylw mewn cysylltiad â'r safle.

(3) Os penderfynwyd y cais (pa un a yw wedi ei benderfynu'n derfynol ai peidio, yn achos cais o dan baragraff 7), ni chaiff unrhyw berson arall wneud cais o dan y paragraff o dan sylw mewn cysylltiad â'r safle.

(4) Mae is-baragraff (5) yn gymwys os, cyn penderfynu'r cais, daw cais gan berson arall o dan y paragraff o dan sylw i law'r awdurdod cynllunio mewn cysylltiad â'r safle.

(5) At ddibenion penderfynu'r ceisiadau ac unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad ar y ceisiadau hynny, mae'r Atodlen hon yn cael effaith—

(a) fel pe baent yn un cais a wnaed i'r awdurdod cynllunio ar y diwrnod y daeth y cais diweddarach i law;

(b) fel pe bai cyfeiriadau at y ceisydd yn gyfeiriadau at bob un o'r ceiswyr.

*Dehongli*

15 Yn yr Atodlen hon—

mae i "dyddiad adolygu" ("*review date*") yr ystyr a roddir gan baragraff 2 (ar gyfer adolygiad cyfnodol cyntaf) neu baragraff 3 (ar gyfer ail adolygiad cyfnodol neu adolygiad cyfnodol dilynol);

ystyr "perchennog" ("*owner*"), mewn perthynas â thir, yw—

(a) perchennog ar yr ystad rydd-ddaliadol, neu

(b) tenant o dan les a roddir neu a estynnir am gyfnod penodol sydd ag o leiaf 7 mlynedd yn weddill;

ystyr "person a chanddo un neu ragor o fuddiannau" ("*interested person*") yw—

(a) perchennog ar unrhyw dir sydd wedi ei gynnwys yn y safle mwyngloddio y mae adolygiad cyfnodol yn ymwneud ag ef, neu

(b) person sydd â buddiant mewn unrhyw fwyn sydd wedi ei gynnwys yn y safle;

mae i "safle mwyngloddio" ("*mining site*") yr ystyr a roddir gan baragraff 1(2).

## ATODLEN 10 [J605S]

*(a gyflwynir gan adran 108[j605])*

## DOSRANNU AC ADENNILL DIGOLLEDIAD AM DDIBRISIANT

*Rhagarweiniad a thermau allweddol*

1 (1) Mae'r Atodlen hon yn gymwys pan fo digolllediad yn dod yn daladwy gan awdurdod cynllunio o dan adran 105[j602] neu 106[j601] sy'n cynnwys digolllediad am ddibrisiant o fwy nag £20.

(2) Yn yr Atodlen hon—

(a) ystyr "digolllediad am ddibrisiant" yw digolllediad am golled neu ddifrod sy'n ddibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir;

(b) ystyr "buddiant mewn tir" yw buddiant rhydd-ddaliadol neu fuddiant tenant o dan les (ac nid yw'n cynnwys unrhyw fuddiant arall mewn tir);

(c) mae i "hysbysiad digolledu" yr ystyr a roddir gan baragraff 3(2);

(d) ystyr "cofrestredig", mewn perthynas â hysbysiad digolledu, yw wedi ei gofrestru yn y gofrestr pridiannau tir lleol a gedwir o dan adran 3 o Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975 (p. 76).

*Dosrannu digolllediad a phenderfynu anghydfodau*

2 (1) Rhaid i'r awdurdod cynllunio y mae digolllediad yn daladwy ganddo—

(a) dosrannu'r digolllediad am ddibrisiant rhwng rhannau gwahanol o'r tir y mae'r hawliad am ddigolllediad yn ymwneud ag ef, os yw'n ystyried ei bod yn ymarferol gwneud hynny, a

(b) os yw'n dosrannu'r digolllediad, roi manylion y dosraniad i'r hawlydd ac i unrhyw berson arall â buddiant mewn tir y mae'r awdurdod yn ystyried bod y dosraniad yn cael effaith sylweddol arno.

(2) Wrth wneud dosraniad, rhaid i'r awdurdod rannu'r tir yn rhannau a dosbarthu'r digolllediad am ddibrisiant rhwng y rhannau hynny yn ôl sut y mae'n ystyried y bo'r penderfyniad cynllunio neu'r gorchymyn y mae'r digolllediad yn daladwy o ganlyniad iddo yn cael effaith wahanol ar rannau gwahanol o'r tir.

(3) Os yw unrhyw un neu ragor o'r personau a ganlyn yn herio dosraniad digolllediad, cânt atgyfeirio'r dosraniad i'r Uwch Dribiwnlys—

(a) yr hawlydd;

(b) unrhyw berson arall y rhoddwyd manylion y dosraniad iddo;

(c) unrhyw berson arall sy'n dangos bod ganddo fuddiant mewn tir y mae'r dosraniad yn cael effaith sylweddol arno.

(4) Mae gan yr hawlydd a phob person arall y mae manylion y dosraniad wedi eu rhoi iddo hawlogaeth i gael gwrandawiad gan yr Uwch Dribiwnlys pan wneir yr atgyfeiriad.

(5) Pan gaiff dosraniad ei atgyfeirio, rhaid i'r Uwch Dribiwnlys—

(a) naill ai cadarnhau ynteu amrywio'r dosraniad, a

(b) hysbysu'r partïon am ei benderfyniad.

(6) Pan ddangosir, ar atgyfeiriad i'r Uwch Dribiwnlys, fod dosraniad—

(a) yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â'r un materion â dosraniad blaenorol, a

(b) yn gyson â'r dosraniad blaenorol i'r graddau y mae'n ymwneud â'r materion hynny,

ni chaiff y Tribiwnlys amrywio'r dosraniad mewn modd sy'n anghyson â'r dosraniad blaenorol i'r graddau y mae'n ymwneud â'r materion hynny.

(7) Mae is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys i ddosraniad gan yr Uwch Dribiwnlys, ond fel pe bai cyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio y mae digollediad yn daladwy ganddo yn gyfeiriadau at y Tribiwnlys.

*Hysbysiad digolledu*

3 (1) Rhaid i'r awdurdod cynllunio y mae digollediad yn daladwy ganddo roi hysbysiad i Weinidogion Cymru bod digollediad wedi dod yn daladwy sy'n cynnwys digollediad am ddibrisiant.

(2) Pan roddir hysbysiad i Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (1) rhaid iddynt beri bod hysbysiad o'r ffaith honno ("hysbysiad digolledu") yn cael ei gyflwyno—

(a) i'r cyngor ar gyfer y sir neu'r fwrdeistref sirol y mae'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef ynddo, a

(b) os nad y cyngor hwnnw yw'r awdurdod cynllunio dros yr ardal y mae'r tir ynddi, i'r awdurdod cynllunio dros yr ardal.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan y paragraff hwn bennu—

(a) y penderfyniad cynllunio neu'r gorchymyn y mae'r digollediad yn daladwy o ganlyniad iddo a'r tir y mae'r hawliad am ddigollediad yn ymwneud ag ef, a

(b) swm y digollediad am ddibrisiant ac unrhyw ddosraniad ohono o dan baragraff 2.

(4) Mae hysbysiad digolledu yn bridiant tir lleol, ac at ddibenion Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975 (p. 76) y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y cyflwynir yr hysbysiad iddo yw'r awdurdod tarddiadol o ran y pridiant.

*Peidio â chynnal datblygiad hyd nes y bo digollediad yn cael ei dalu neu ei sicrhau*

4 (1) Ni chaiff person gynnal datblygiad y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo ar dir y mae hysbysiad digolledu wedi ei gofrestru yn ei gylch hyd nes y bo unrhyw swm sy'n adenilladwy mewn cysylltiad â'r digollediad a bennir yn yr hysbysiad yn rhinwedd paragraff 5 wedi ei dalu neu ei sicrhau er boddhad Gweinidogion Cymru yn unol â pharagraff 6.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i—

(a) datblygiad—

(i) sydd o natur breswyl, fasnachol neu ddiwydiannol, a

(ii) sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar ffurf adeiladu tai, fflatiau, siopau neu swyddfeydd neu adeiladau diwydiannol (gan gynnwys warysau), neu unrhyw gyfuniad ohonynt;

(b) datblygiad sy'n weithrediadau mwyngloddio;

(c) datblygiad y mae Gweinidogion Cymru, gan roi sylw i werth tebygol y datblygiad, yn ystyried ei bod yn rhesymol i'r paragraff hwn fod yn gymwys iddo.

(3) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i ddatblygiad yn rhinwedd is-baragraff (2)(c) os yw Gweinidogion Cymru, ar gais a wneir iddynt, wedi ardystio nad ydynt, gan roi sylw i werth tebygol y datblygiad, yn ystyried ei bod yn rhesymol i'r paragraff hwn fod yn gymwys iddo.

(4) Pan fo'r digollediad a bennir yn yr hysbysiad digolledu wedi dod yn daladwy o ganlyniad i—

(a) rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau, neu

(b) gorchymyn o dan adran 102[j465] yn addasu caniatâd cynllunio,

nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i ddatblygiad yn unol â'r amodau hynny nac i ddatblygiad yn unol â'r caniatâd a addaswyd.

*Y swm sy'n adenilladwy gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â digollediad*

5 (1) Y swm sy'n adenilladwy mewn cysylltiad â'r digollediad a bennir mewn hysbysiad digolledu cofrestredig yw—

(a) os yw'r tir y mae datblygiad i'w gynnal arno yn cynnwys yr holl dir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef (pa un ai ar ei ben ei hun neu gyda thir arall), swm y digollediad a bennir yn yr hysbysiad;

(b) os yw'r tir y mae datblygiad i'w gynnal arno yn cynnwys rhan yn unig o'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef (pa un ai ar ei ben ei hun neu gyda thir nad yw'r hysbysiad yn ymwneud ag ef), swm y digollediad a bennir yn yr hysbysiad y gellir ei briodoli i'r rhan honno,

ond mae hyn yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ganlyn yn y paragraff hwn.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ohirio adennill y swm cyfan neu ran o'r swm a fyddai'n adenilladwy fel arall mewn cysylltiad â datblygiad tir penodol os ydynt yn ystyried, gan roi sylw i werth tebygol unrhyw ddatblygiad priodol o'r tir hwnnw, nad yw datblygiad priodol ohono yn debygol o gael ei gynnal onid ydynt yn arfer eu pwerau o dan yr is-baragraff hwn.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn gohirio adennill rhan yn unig o'r swm a fyddai'n adenilladwy fel arall mewn cysylltiad ag unrhyw dir, rhaid iddynt beri bod yr hysbysiad digolledu cofrestredig o dan sylw yn cael ei ddiwygio fel mai swm y digollediad a nodir ynddo, i'r graddau y gellir ei briodoli i'r tir hwnnw, yw'r swm y maent wedi gohirio ei adennill.

(4) Pan fo swm wedi dod yn adenilladwy o ran digollediad mewn cysylltiad â datblygiad tir, nid oes unrhyw swm yn adenilladwy o ran y digollediad y gellir ei briodoli i'r tir hwnnw mewn cysylltiad ag unrhyw ddatblygiad diweddarach ohono.

(5) Nid yw is-baragraff (4) yn gymwys i swm i'r graddau y gohiriwyd adennill y swm mewn cysylltiad â'r datblygiad cynharach.

(6) Os yw swm wedi dod yn adenilladwy oddi wrth awdurdod caffael o dan baragraff 7 (adennill pan fo caffaeliad gorfodol neu werthiant) mewn cysylltiad ag unrhyw ddigollediad, nid oes unrhyw swm yn adenilladwy mewn cysylltiad â'r digollediad hwnnw yn rhinwedd y paragraff hwn.

(7) At ddibenion yr Atodlen hon, mae swm y digolllediad a bennir mewn hysbysiad digolledu y gellir ei briodoli i ran o'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef i'w gyfrifo—

(a) os yw'r hysbysiad yn cynnwys dosraniad o'r digolllediad rhwng rhannau gwahanol o'r tir o dan baragraff 2, ar y sail—

(i) bod y digolllediad yn cael ei ddosbarthu rhwng y rhannau hynny yn unol â'r dosraniad, a

(ii) bod y digolllediad y gellir ei briodoli i bob rhan yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal yn ôl arwynebedd dros y rhan honno;

(b) os nad yw'r hysbysiad yn cynnwys dosraniad, ar y sail bod y digolllediad yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal yn ôl arwynebedd dros y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

*Talu etc. swm sy'n adenilladwy*

6 (1) Mae swm sy'n adenilladwy yn rhinwedd paragraff 5 mewn cysylltiad â datblygiad tir yn daladwy i Weinidogion Cymru—

(a) fel un taliad cyfalaf,

(b) fel cyfres o randaliadau cyfalaf a llog wedi eu cyfuno, neu

(c) fel cyfres o daliadau blynyddol neu gyfnodol eraill o'r symiau, ac sy'n daladwy ar yr adegau, a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

(2) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-baragraff (1)(c), rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan y person a fydd yn cynnal y datblygiad.

(3) Os nad yw'r swm sy'n daladwy o dan is-baragraff (1) yn cael ei dalu fel un taliad cyfalaf, rhaid iddo gael ei sicrhau gan y person a fydd yn cynnal y datblygiad yn y modd (pa un ai drwy forgais, drwy gyfamod neu fel arall) y mae Gweinidogion Cymru yn ei gyfarwyddo.

(4) Os yw person yn dechrau datblygiad y mae paragraff 4 yn gymwys iddo yn groes i'r paragraff hwnnw, caiff Gweinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad i'r person—

(a) sy'n pennu'r swm y maent yn ystyried ei fod yn adenilladwy o dan baragraff 5 mewn cysylltiad â'r digolllediad o dan sylw, a

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person dalu'r swm hwnnw i Weinidogion Cymru o fewn cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad fod o leiaf 3 mis sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

*Adennill digollediad oddi wrth awdurdod caffael pan fo caffaeliad gorfodol neu werthiant*

7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo—

(a) buddiant mewn tir yn cael ei gaffael yn orfodol neu'n cael ei werthu i awdurdod sy'n meddu ar bwerau prynu gorfodol,

(b) hysbysiad digolledu yn cael ei gofrestru mewn cysylltiad ag unrhyw ran o'r tir, pa un ai cyn neu ar ôl cwblhau'r caffaeliad neu'r gwerthiant, ac

(c) y digollediad a bennir yn yr hysbysiad yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad cynllunio neu orchymyn a wnaed cyn cyflwyno'r hysbysiad i drafod telerau, neu cyn gwneud y contract, y mae'r caffaeliad neu'r gwerthiant wedi ei gyflawni yn unol ag ef.

(2) Mae gan Weinidogion Cymru hawlogaeth i adennill oddi wrth yr awdurdod caffael swm sy'n gyfwerth â swm y digollediad a bennir yn yr hysbysiad digolledu y gellir ei briodoli i'r tir a gaffaelwyd neu a werthwyd.

(Gweler paragraff 5(7) am ddarpariaeth ynghylch cyfrifo swm y digollediad y gellir ei briodoli i ran o'r tir y mae hysbysiad digolledu yn ymwneud â hi.)

(3) Yn union ar ôl cwblhau'r caffaeliad neu'r gwerthiant, os yw person ac eithrio'r awdurdod caffael yn parhau i fod â buddiant yn y tir a gaffaelwyd neu a werthwyd, nid yw'r swm sy'n adenilladwy o dan y paragraff hwn yn dod yn daladwy hyd nes naill ai y bo'r buddiant yn peidio â bodoli neu y bo gan yr awdurdod caffael hawlogaeth i'r buddiant.

(4) Nid oes unrhyw swm yn adenilladwy o dan y paragraff hwn mewn cysylltiad â'r caffaeliad neu'r gwerthiant os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y buddiant o dan sylw yn cael ei gaffael at ddibenion defnyddio'r tir fel man agored.

(5) Mae pŵer o dan unrhyw ddeddfiad i dalu grant mewn cysylltiad â gwariant yr aeth yr awdurdod caffael iddo mewn cysylltiad â'r caffaeliad neu'r gwerthiant yn cynnwys y pŵer i dalu grant mewn cysylltiad ag unrhyw swm sy'n adenilladwy oddi wrth yr awdurdod o dan y paragraff hwn.

(6) Yn is-baragraff (1)(a) ystyr "awdurdod sy'n meddu ar bwerau prynu gorfodol" yw—

(a) person y gallai fod wedi ei awdurdodi neu sydd wedi ei awdurdodi i gaffael yn orfodol y buddiant o dan sylw at y diben y gwerthir y buddiant ar ei gyfer, neu

(b) cyngor cymuned y gallai cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol fod wedi ei awdurdodi ar ei ran neu sydd wedi ei awdurdodi ar ei ran i gaffael y buddiant at y diben hwnnw (gweler adran 125 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol).

(7) Yn is-baragraff (1)(c)—

(a) mae'r cyfeiriad at gyflwyno hysbysiad i drafod telerau i'w ddarllen, mewn achos pan drinnir hysbysiad o'r fath fel pe bai wedi ei gyflwyno yn rhinwedd deddfiad, fel cyfeiriad at y diwrnod y trinnir yr hysbysiad fel pe bai wedi ei gyflwyno;

(b) mae'r cyfeiriad at wneud contract i'w ddarllen, mewn achos pan fo buddiant yn cael ei drawsgludo neu ei aseinio heb gontract rhagarweiniol, fel cyfeiriad at weithredu'r trawsgludiad neu'r aseiniad.

(8) Gweler hefyd adran 12 o Ddeddf Digollediad Tir 1961 (p. 33) am ddarpariaeth ynghylch asesu digollediad am gaffael yn orfodol fuddiant mewn tir pan fo hysbysiad digolledu sy'n ymwneud â'r tir wedi ei gofrestru o dan yr Atodlen hon.

*Ad-dalu swm a adenillir i awdurdod cynllunio*

8 (1) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu unrhyw swm y maent yn ei adennill o dan baragraff 6 neu 7 i'r awdurdod cynllunio a dalodd y digollediad y mae'r swm yn ymwneud ag ef.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ddidynnu o'r swm y maent yn ei dalu i'r awdurdod cynllunio swm unrhyw grant a delir ganddynt o dan adran xref_C3_3[j103] mewn cysylltiad â'r digollediad hwnnw.

(3) Os yw'r swm a adenillir gan Weinidogion Cymru—

(a) yn rhandaliad o'r cyfanswm sy'n adenilladwy ganddynt, neu

(b) yn cael ei adennill mewn cysylltiad â datblygiad rhan yn unig o'r tir yr oedd y digollediad yn daladwy mewn cysylltiad ag ef,

rhaid i unrhyw swm a ddidynnir o dan is-baragraff (2)[j103] fod y swm y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu yw'r gyfran briodol o swm y grant.

## ATODLEN 11 [J604S]

*(a gyflwynir gan adran 109[j604])*

## DIGOLLEDIAD AM NEWIDIADAU I GANIATÂD CYNLLUNIO AR GYFER DATBLYGIAD MWYNAU

### RHAN 1

### DIGOLLEDIAD PAN FO CANIATÂD CYNLLUNIO YN CAEL EI DYNNU'N ÔL, EI ADDASU NEU EI DDIRYMU

*Digolledíad mewn cysylltiad ag adeiladau, cyfarpar neu beiriannau*

1 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan gaiff caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mwynau ei dynnu'n ôl, ei addasu neu ei ddirymu.

(2) Nid oes digolledíad yn daladwy o dan adran 105[j602] neu 106[j601] mewn cysylltiad ag unrhyw adeiladau, unrhyw gyfarpar neu unrhyw beiriannau oni ddangosir na all yr hawlydd—

(a) gwneud defnydd rhesymol fuddiol o'r adeiladau, y cyfarpar neu'r peiriannau, neu

(b) gwneud defnydd rhesymol fuddiol ohonynt ac eithrio ar y golled a hawlir.

(3) Pan fo hawliad a herir am ddigolledíad o dan adran 105[j602] neu 106[j601] yn cynnwys hawliad am wariant, colled neu ddifrod mewn cysylltiad ag adeiladau, cyfarpar neu beiriannau, caiff yr Uwch Dribiwnlys roi cyfarwyddydau i ymdrin â'r rhan honno o'r hawliad ar wahân i weddill yr hawliad ar ddyddiad diweddarach a bennir yn y cyfarwyddydau neu sydd i'w osod gan y Tribiwnlys ar gais gan y naill barti neu'r llall.

(4) Yn is-baragraff (1) nid yw'r cyfeiriad at ddatblygiad mwynau yn cynnwys cynnal gweithrediadau mwyngloddio ar dir pan—

(a) bo'r tir yn cael ei ddal neu ei feddiannu gyda thir arall a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, a

(b) bo angen yn rhesymol y mwynau sy'n cael eu tynnu a'u gweithio at y defnydd hwnnw (er enghraifft, ar gyfer gwrteithio'r tir arall, neu ar gyfer cynnal a chadw, gwella neu addasu adeiladau neu waith ar y tir arall sy'n cael eu meddiannu neu ei feddiannu neu eu defnyddio neu ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth).

*Digolledíad pan fo caniatâd mwynau yn cael ei addasu drwy orchymyn*

2 (1) Pan fo gorchymyn o dan adran 102[j465] yn addasu caniatâd mwynau, nid yw digolledíad yn daladwy o dan adran 106[j601] oni fodlonir un neu ragor o'r amodau a ganlyn.

(2) Yr amod cyntaf yw bod y gorchymyn—

(a) yn gosod cyfyngiad ar hawliau gweithio mewn cysylltiad â'r tir y mae'n ymwneud ag ef, neu

(b) yn addasu neu'n amnewid cyfyngiad ar hawliau gweithio, ac eithrio un a osodir gan amod adfer neu amod ôl-ofal.

(3) Yr ail amod yw y rhoddwyd y caniatâd mwynau lai na 5 mlynedd cyn y diwrnod y gwnaed y gorchymyn.

(4) Y trydydd amod yw, mewn perthynas â'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, fod unrhyw un neu ragor o'r canlynol wedi digwydd yn y 5 mlynedd cyn y diwrnod y gwnaed y gorchymyn—

(a) gwnaed gorchymyn arall o dan adran [j465] yn addasu caniatâd mwynau;

(b) penderfynwyd cais o dan baragraff 1[J495S] o Atodlen 8[J495S] yn derfynol (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 5(2)[J495S] o'r Atodlen honno);

(c) penderfynwyd cais o dan baragraff 7[J490S] o Atodlen 9[J490S] yn derfynol (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 12(2)[J490S] o'r Atodlen honno);

(d) gwnaed gorchymyn datbarhau yn ymwneud â defnydd o'r tir ar gyfer cynnal gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau;

(e) gwnaed gorchymyn gwahardd.

RHAN 2

DIGOLLEDIAD YN DILYN ADOLYGIAD CYFNODOL O GANIATADAU MWYNAU

*Digolledidiad pan fo hawliau gweithio yn cael eu cyfyngu gan amodau newydd caniatadau mwynau*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan—

(a) bo cais o dan baragraff 7[J490S] o Atodlen 9[J490S] mewn cysylltiad â safle mwyngloddio wedi ei benderfynu'n derfynol (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 12(2)[J490S] o'r Atodlen honno),

(b) bo amodau newydd y caniatadau mwynau sy'n ymwneud â'r safle yn wahanol mewn unrhyw ffordd i'r amodau a gynigir yn y cais, ac

(c) mai effaith amodau newydd y caniatadau, o'u cymharu â'r amodau presennol, yw gosod cyfyngiad ar hawliau gweithio mewn cysylltiad â'r safle.

(2) Mae gan unrhyw berson a chanddo un neu ragor o fuddiannau mewn tir a gynhwysir yn y safle hawlogaeth, wrth wneud hawliad i'r awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod am—

(a) unrhyw wariant y mae'r person yn mynd iddo wrth gynnal gwaith a ddaw yn ofer o ganlyniad i gyfyngiad ar hawliau gweithio a osodir gan yr amodau newydd;

(b) unrhyw golled arall neu unrhyw ddifrod arall a ddioddefir gan y person y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i gyfyngiad o'r fath.

(3) Rhaid i hawliad am ddigolledidiad o dan y paragraff hwn gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y penderfynir yn derfynol y cais o dan baragraff 7[J490S] o Atodlen 9[J490S].

(4) At ddibenion y paragraff hwn, mae gwariant yr eir iddo wrth lunio planiau at ddibenion unrhyw waith, neu ar faterion tebyg eraill sy'n baratoadol i unrhyw waith, i'w drin fe pe bai'n wariant yr eir iddo wrth gynnal y gwaith.

(5) Yn ddarostyngedig i hynny, nid oes digolledidiad yn daladwy o dan y paragraff hwn mewn cysylltiad ag—

(a) gwaith a gynhaliwyd cyn rhoi'r cynharaf o'r caniatadau mwynau yr oedd y cais yn ymwneud â hwy, na

(b) colled arall neu ddifrod arall (ac eithrio colled neu ddifrod sy’n ddibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir) sy’n deillio o unrhyw beth a wnaed neu nas gwnaed cyn rhoi’r cynharaf o’r caniatadau hynny.

(6) Mae Atodlen 10[J605S] yn gymwys i ddigolllediad sy’n daladwy o dan y paragraff hwn fel pe bai’n ddigolllediad sy’n daladwy o dan adran 106[j601] o ganlyniad i orchymyn o dan adran 102[j465] yn addasu caniatâd cynllunio.

(7) Yn y paragraff hwn—

(a) mae i “safle mwyngloddio” yr ystyr a roddir gan baragraff 1(2)[J490S] o Atodlen 9[J490S];

(b) “amodau newydd” y caniatadau mwynau sy’n ymwneud â safle mwyngloddio yw’r amodau a bennir o dan yr Atodlen honno y mae’r caniatadau i fod yn ddarostyngedig iddynt;

(c) “amodau presennol” y caniatadau mwynau yw’r amodau yr oeddent yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn i’r cais gael ei benderfynu’n derfynol o dan baragraff 7[J490S] o’r Atodlen honno,

ac nid yw cyfeiriadau at amodau caniatâd mwynau yn cynnwys amod adfer nac amod ôl-ofal.

RHAN 3

DEHONGLI

*Ystyr cyfeiriadau at gyfyngiadau ar hawliau gweithio*

4 At ddibenion paragraffau 2[j465] a 3[J604S] mae cyfyngiad yn cael ei osod ar hawliau gweithio mewn cysylltiad â thir os yw unrhyw un neu ragor o’r canlynol wedi ei gyfyngu neu eu cyfyngu neu ei leihau neu eu lleihau—

(a) maint yr ardal y caniateir ei defnyddio ar gyfer gweithrediadau mwyngloddio neu i ddyddodi gwastraff mwynau;

(b) dyfnder eithaf unrhyw weithrediadau mwyngloddio neu uchder uchaf unrhyw ddyddodyn o wastraff mwynau;

(c) y gyfradd y caniateir echdynnu mwyn penodol neu ddyddodi gwastraff mwynau penodol yn unol â hi;

(d) y cyfnod y mae rhaid i unrhyw weithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau ddod i ben ar ei ddiwedd;

(e) cyfanswm y mwynau y caniateir eu hechdynnu o’r tir neu gyfanswm y gwastraff mwynau y caniateir ei ddyddodi arno.

# ATODLEN 12 [J618S]

*(a gyflwynir gan adrannau 110[j618] a 213)*

## HYSBYSIADAU PRYNU

### RHAN 1

### RHAGARWEINIOL

*Yr amgylchiadau pan fydd tir yn ddefnyddiadwy neu'n annefnyddiadwy*

1 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys at ddibenion adrannau 110[j618] a 213 a'r Atodlen hon.

(2) Mae cyfeiriadau at a yw tir yn ddefnyddiadwy yn gyfeiriadau at a oes modd gwneud defnydd rhesymol fuddiol ohono.

(3) Wrth benderfynu a yw tir yn ddefnyddiadwy yn ei gyflwr presennol, rhaid anwybyddu defnydd arfaethedig o'r tir os byddai'r defnydd hwnnw yn golygu cynnal datblygiad nad yw caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer ac nad yw awdurdod cynllunio na Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i roi caniatâd ar ei gyfer.

(4) Nid yw tir yn annefnyddiadwy yn ei gyflwr presennol os—

(a) achoswyd cyflwr presennol y tir gan dor rheolaeth gynllunio,

(b) dyroddwyd hysbysiad gorfodi, neu os gellid dyroddi hysbysiad gorfodi, sy'n ei gwneud yn ofynnol cymryd camau i unioni'r toriad neu unrhyw niwed i amwynder a achosir ganddo, ac

(c) byddai'r tir yn ddefnyddiadwy pe bai'r camau hynny'n cael eu cymryd.

*Dehongli*

2 Yn yr Atodlen hon—

ystyr "darpariaethau caffael perthnasol" ("*relevant acquisition provisions*") yw—

(a) mewn perthynas ag awdurdod lleol, adran 263 (caffael tir yn orfodol at ddibenion cynllunio);

(b) mewn perthynas ag ymgymerwr statudol, unrhyw ddeddfiad y mae ganddo bŵer oddi tano, neu y caniateir ei awdurdodi oddi tano, i gaffael tir yn orfodol at ddibenion ei ymgymeriad;

ystyr "hysbysiad prynu" ("*purchase notice*") yw hysbysiad a gyflwynir o dan adran 110[j618] neu 213;

mae "ymgymerwr statudol" ("*statutory undertaker*") yn cynnwys gweithredwr cod cyfathrebiadau electronig a chyn-weithredwr telathrebu cyhoeddus.

RHAN 2

CYFLWYNO HYSBYSIAD PRYNU

*Cyflwyno hysbysiad prynu mewn cysylltiad â thir y Goron*

3 (1) Ni chaiff perchennog ar fuddiant preifat yn nhir y Goron gyflwyno hysbysiad prynu mewn cysylltiad â'r buddiant hwnnw oni bai—

(a) bod y perchennog wedi cynnig gwaredu'r buddiant i awdurdod priodol y Goron am bris sy'n hafal i'r digolledoiad (ac os na chytunir arno, mae i'w benderfynu yn yr un ffordd â'r digolledoiad) a fyddai'n daladwy am y buddiant pe bai'n cael ei gaffael yn unol â hysbysiad prynu, a

(b) bod awdurdod priodol y Goron wedi gwrthod y cynnig.

(2) Dim ond awdurdod priodol y Goron a gaiff gyflwyno hysbysiad prynu mewn cysylltiad â buddiant y Goron neu fuddiant Dugiaeth mewn tir—

(a) sy'n rhan o Ystad y Goron,

(b) sy'n perthyn i'w Fawrhydi yn hawl Ei ystadau preifat,

(c) sy'n perthyn i'w Fawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn, neu

(d) sy'n perthyn i Ddugiaeth Cernyw.

(3) Ni chaniateir cyflwyno hysbysiad prynu mewn cysylltiad â buddiant y Goron neu fuddiant Dugiaeth mewn unrhyw dir arall.

*Darpariaeth bellach ynghylch cyflwyno hysbysiad prynu*

4 (1) Rhaid i hysbysiad prynu ymwneud â'r holl dir y mae'r penderfyniad cynllunio neu'r gorchymyn y cyflwynir yr hysbysiad o ganlyniad iddo yn ymwneud ag ef, ac nid ag unrhyw dir arall.

(2) Rhaid cyflwyno hysbysiad prynu o fewn 12 mis sy'n dechrau—

(a) yn achos hysbysiad sy'n ymwneud â phenderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio neu i'w roi yn ddarostyngedig i amodau, â'r diwrnod y gwneir y penderfyniad;

(b) yn achos hysbysiad sy'n ymwneud â gorchymyn o dan adran [j465] sy'n addasu neu'n dirymu caniatâd cynllunio, â'r diwrnod y mae'r gorchymyn yn cymryd effaith;

(c) yn achos hysbysiad sy'n ymwneud â gorchymyn datbarhau, â'r diwrnod y mae'r gorchymyn yn cymryd effaith.

(3) Mewn achos pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu apêl yn erbyn penderfyniad gan awdurdod cynllunio i wrthod caniatâd cynllunio neu i'w roi yn ddarostyngedig i amodau, mae'r cyfeiriad yn is-baragraff (2)(a) at y diwrnod y gwneir y penderfyniad i'w ddarllen fel pe bai'n gyfeiriad at y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu'r apêl.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg estyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno hysbysiad prynu mewn achos penodol, os ydynt wedi eu bodloni bod rhesymau da dros wneud hynny.

(5) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae rhaid cyflwyno hysbysiad prynu.

(6) Ni chaiff person sydd wedi cyflwyno hysbysiad prynu ddiwygio’r hysbysiad; ond nid yw hynny’n atal y person rhag cyflwyno hysbysiad prynu pellach sy’n ymwneud â’r un penderfyniad neu’r un gorchymyn.

(7) Os yw’r person yn cyflwyno hysbysiad prynu pellach sy’n ymwneud â’r un penderfyniad neu’r un gorchymyn, mae’r hysbysiad cynharach i’w drin fel pe bai wedi ei dynnu’n ôl oni bai bod yr hysbysiad diweddarach yn datgan nad yw’r person yn bwriadu ei dynnu’n ôl.

RHAN 3

CAMAU GWEITHREDU YN DILYN CYFLWYNO HYSBYSIAD PRYNU AC EFFAITH HYSBYSIAD

*Ymateb i hysbysiad prynu gan awdurdod cynllunio*

5 (1) Pan fo person wedi cyflwyno hysbysiad prynu i awdurdod cynllunio, rhaid i’r awdurdod gyflwyno hysbysiad derbyn neu hysbysiad gwrthod i’r person.

(2) Mae hysbysiad derbyn yn hysbysiad sy’n datgan naill ai—

(a) bod yr awdurdod cynllunio yn fodlon cydymffurfio â’r hysbysiad prynu, neu

(b) bod awdurdod lleol arall neu ymgymerwr statudol a bennir yn yr hysbysiad derbyn wedi cytuno i gydymffurfio â’r hysbysiad prynu.

(3) Mae hysbysiad gwrthod yn hysbysiad sy’n datgan—

(a) nad yw’r awdurdod cynllunio, am resymau a bennir yn yr hysbysiad, yn fodlon cydymffurfio â’r hysbysiad prynu ac nad yw wedi dod o hyd i unrhyw awdurdod lleol arall neu ymgymerwr statudol sy’n fodlon cydymffurfio ag ef, a

(b) bod yr awdurdod cynllunio wedi anfon copïau o’r hysbysiad prynu a’r hysbysiad gwrthod at Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid cyflwyno hysbysiad derbyn neu hysbysiad gwrthod cyn diwedd 3 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad prynu.

(5) Pan fo’r awdurdod cynllunio yn cyflwyno hysbysiad derbyn i berson, mae’r awdurdod hwnnw neu (yn achos hysbysiad sy’n dod o fewn is-baragraff (2)(b)) yr awdurdod lleol arall neu’r ymgymerwr statudol a bennir yn yr hysbysiad i’w drin—

(a) fel pe bai wedi ei awdurdodi o dan y darpariaethau caffael perthnasol i gaffael yn orfodol fuddiant y person, a

(b) fel pe bai wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â’r buddiant hwnnw ar y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad derbyn.

(6) Cyn cyflwyno hysbysiad gwrthod i berson, rhaid i’r awdurdod cynllunio anfon at Weinidogion Cymru—

(a) copi o’r hysbysiad gwrthod, a

(b) copi o’r hysbysiad prynu.

*Camau gweithredu i’w cymryd gan Weinidogion Cymru os caiff hysbysiad prynu ei wrthod gan awdurdod cynllunio*

6 (1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys pan fo copi o hysbysiad prynu yn cael ei anfon at Weinidogion Cymru o dan baragraff 5(6).

(2) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod yr amodau yn adran 110(3)[j618] neu 213(3) (fel y bo'n briodol) wedi eu bodloni mewn perthynas â'r tir y mae'r hysbysiad prynu yn ymwneud ag ef, rhaid iddynt gadarnhau'r hysbysiad; ond mae hyn yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ganlyn yn y paragraff hwn ac i baragraff 7.

(3) Yn hytrach na chadarnhau'r hysbysiad prynu, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) yn achos hysbysiad a gyflwynir o ganlyniad i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad, roi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad;

(b) yn achos hysbysiad a gyflwynir o ganlyniad i roi caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn ddarostyngedig i amodau, amrywio neu ddileu'r amodau hynny i'r graddau y maent yn ystyried bod hynny yn angenrheidiol i alluogi gwneud y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn ddefnyddiadwy drwy gynnal y datblygiad;

(c) yn achos hysbysiad a gyflwynir o ganlyniad i orchymyn o dan adran 102[j465] sy'n dirymu caniatâd cynllunio, ddirymu'r gorchymyn;

(d) yn achos hysbysiad a gyflwynir o ganlyniad i orchymyn o dan yr adran honno sy'n addasu caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad drwy osod amodau, amrywio neu ddileu'r amodau hynny i'r graddau y maent yn ystyried bod hynny yn angenrheidiol i alluogi gwneud y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn ddefnyddiadwy drwy gynnal y datblygiad;

(e) yn achos hysbysiad a gyflwynir o ganlyniad i orchymyn datbarhau, ddirymu'r gorchymyn neu ddiwygio'r gorchymyn i'r graddau y maent ystyried bod hynny yn angenrheidiol i'w atal rhag gwneud y tir yn annefnyddiadwy.

(4) Mae is-baragraff (5) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried y gellid gwneud tir y mae'r hysbysiad prynu yn ymwneud ag ef, neu unrhyw ran ohono, yn ddefnyddiadwy o fewn amser rhesymol drwy gynnal unrhyw ddatblygiad arall y dylid rhoi caniatâd cynllunio ar ei gyfer.

(5) Yn hytrach na chadarnhau'r hysbysiad mewn perthynas â'r tir neu'r rhan honno ohono, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo, os gwneir cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad hwnnw, fod rhaid ei roi.

(6) Wrth ystyried a ddylid arfer unrhyw un neu ragor o'r pwerau a roddir gan is-baragraffau (3) a (5), rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) rhoi sylw i'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal y mae'r tir y mae'r hysbysiad prynu yn ymwneud ag ef ynddi ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, a

(b) gwneud eu penderfyniad yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn dangos fel arall.

(7) Y caniatâd cynllunio y caniateir ei roi o dan is-baragraff (3) yw unrhyw ganiatâd cynllunio y gellid ei roi ar gais o dan Ran [3] o'r Ddeddf hon.

(8) Mae Atodlen 3[J445S] (amodau sy'n ymwneud â gweithrediadau mwyngloddio a dyddodi gwastraff) yn gymwys, gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddir gan Weinidogion Cymru o dan yr is-baragraff hwnnw fel y mae'n gymwys mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a roddir gan awdurdod cynllunio.

(9) Gweler hefyd Bennod 9 o Ran [3] o'r Ddeddf hon am ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau sy'n ymwneud â hyd a gweithrediad y caniatâd.

(10) Wrth gadarnhau hysbysiad prynu caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gan roi sylw i'r defnydd tebygol yn y pen draw o'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, addasu'r hysbysiad mewn perthynas â'r holl dir neu unrhyw ran ohono drwy roi awdurdod lleol arall neu ymgymerwr statudol yn lle'r awdurdod cynllunio y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo.

(11) Os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod yr amodau yn adran 110(3)[j618] neu adran 213(3) (fel y bo'n briodol) wedi eu bodloni mewn perthynas â'r tir y mae hysbysiad prynu yn ymwneud ag ef, rhaid iddynt wrthod cadarnhau'r hysbysiad.

*Dim dyletswydd i gadarnhau hysbysiad prynu sy'n ymwneud â phenderfyniad cynllunio os yw defnydd o dir wedi ei gyfyngu*

7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan—

(a) cyflwynir hysbysiad prynu o dan adran 110[j618] o ganlyniad i benderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio neu i roi caniatâd yn ddarostyngedig i amodau, a

(b) bo'r holl dir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, neu unrhyw ran ohono, yn dir y mae'r defnydd ohono wedi ei gyfyngu yn rhinwedd caniatâd cynllunio blaenorol sy'n parhau i gael effaith.

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae defnydd o dir wedi ei gyfyngu yn rhinwedd caniatâd cynllunio blaenorol os yw'n rhan o ardal fwy y mae'r caniatâd cynllunio blaenorol yn ymwneud â hi a naill ai—

(a) mae'r caniatâd yn ddarostyngedig i amod sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y rhan honno yn aros heb ei datblygu neu'n cael ei gwarchod neu ei gosod mewn ffordd benodol fel tir amwynder mewn perthynas â'r gweddill, neu

(b) rhoddwyd y caniatâd ar gais a oedd yn ystyried (yn ddatganedig neu drwy oblygiad angenrheidiol) na ddylid cynnwys y rhan yn y datblygiad y ceisiwyd caniatâd ar ei gyfer, neu y dylid ei gwarchod neu ei gosod fel y'i crybwyllir ym mharagraff (a).

(3) Caiff Gweinidogion Cymru wrthod cadarnhau'r hysbysiad prynu os ydynt yn ystyried y dylai'r tir y mae'r defnydd ohono wedi ei gyfyngu, yn unol â'r caniatâd cynllunio blaenorol, aros heb ei ddatblygu neu gael ei warchod neu ei osod fel tir amwynder mewn perthynas â gweddill yr ardal fwy y mae'r caniatâd yn ymwneud â hi.

*Y weithdrefn cyn i Weinidogion Cymru gymryd camau gweithredu mewn perthynas â hysbysiad prynu*

8 (1) Cyn cymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â hysbysiad prynu o dan baragraff 6 neu 7, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o'u camau gweithredu arfaethedig—

(a) i'r person a gyflwynodd yr hysbysiad prynu,

(b) i'r awdurdod cynllunio y cyflwynwyd yr hysbysiad prynu iddo, a

(c) os ydynt yn cynnig rhoi unrhyw awdurdod lleol arall neu ymgymerwr statudol yn lle'r awdurdod cynllunio, i'r awdurdod lleol arall neu'r ymgymerwr statudol.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (1) bennu'r cyfnod y caiff unrhyw un neu ragor o'r personau y'i cyflwynir iddynt wneud archiad ysgrifenedig ynddo i Weinidogion Cymru am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo.

(3) Os yw unrhyw un neu ragor o'r personau y cyflwynwyd yr hysbysiad iddynt yn gwneud archiad o fewn y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i bob un o'r personau y'i cyflwynwyd iddynt cyn iddynt gymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â'r hysbysiad prynu o dan baragraff 6 neu 7.

(4) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (2) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad o dan is-baragraff (1).

(5) Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl i unrhyw bersonau ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo, yn ystyried ei bod yn briodol cymryd camau gweithredu o dan baragraff 6 neu 7 nad ydynt yn unol â'r hysbysiad a gyflwynir o dan is-baragraff (1), cânt wneud hynny.

*Effaith cadarnhau hysbysiad prynu neu fethu â chymryd camau gweithredu*

9 (1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cadarnhau hysbysiad prynu, mae'r awdurdod a grybwyllir yn is-baragraff (2) i'w drin—

(a) fel pe bai wedi ei awdurdodi o dan y darpariaethau caffael perthnasol i gaffael yn orfodol fuddiant y person a gyflwynodd yr hysbysiad, a

(b) fel pe bai wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â'r buddiant hwnnw ar y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn ei gyfarwyddo.

(2) Yr awdurdod y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) yw—

(a) yr awdurdod cynllunio y cyflwynwyd yr hysbysiad prynu iddo, neu

(b) os addasodd Gweinidogion Cymru yr hysbysiad prynu o dan baragraff 6(10)[J618S] drwy roi awdurdod lleol arall neu ymgymerwr statudol yn lle'r awdurdod cynllunio, yr awdurdod lleol arall neu'r ymgymerwr statudol.

(3) Os anfonir hysbysiad prynu at Weinidogion Cymru o dan baragraff 5(6) ac nad ydynt yn cymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas ag ef o dan baragraff 6 na 7 erbyn diwedd y cyfnod perthnasol—

(a) mae'r hysbysiad prynu i'w drin fel pe bai wedi ei gadarnhau ganddynt ar ddiwedd y cyfnod perthnasol, a

(b) mae'r awdurdod cynllunio y cyflwynwyd yr hysbysiad prynu iddo i'w drin—

(i) fel pe bai wedi ei awdurdodi o dan adran 263 (caffael tir yn orfodol at ddibenion cynllunio) i gaffael yn orfodol fuddiant y person a gyflwynodd yr hysbysiad, a

(ii) fel pe bai wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â'r buddiant hwnnw ar ddiwedd y cyfnod perthnasol.

(4) Yn is-baragraff (3), ystyr "y cyfnod perthnasol" yw pa un bynnag o'r canlynol sy'n dod i ben yn gynharach—

(a) 9 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad prynu i'r awdurdod cynllunio;

(b) 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod yr anfonwyd copi o'r hysbysiad at Weinidogion Cymru o dan baragraff 5(6).

(5) Ond nid yw'r cyfnod perthnasol yn cynnwys unrhyw amser pan fydd gan Weinidogion Cymru ger eu bron y naill a'r llall o'r canlynol—

(a) copi o'r hysbysiad prynu a anfonwyd atynt o dan baragraff 5(6)[J618S], a

(b) hysbysiad o apêl o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn sy'n ymwneud ag unrhyw ran o'r tir y mae'r hysbysiad prynu yn ymwneud ag ef—

(i) adran 73[j452] (apêl yn erbyn gwrthod etc. gais cynllunio), [j518] (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi) neu [j585] (apêl yn erbyn gwrthod etc. gais am dystysgrif cyfreithlondeb),

(ii) adran 100 (apêl yn erbyn gwrthod etc. gais sy'n ymwneud â chydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth) neu 127 (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol, neu

(iii) adran 21 o'r Ddeddf Sylweddau Peryglus (apêl yn erbyn gwrthod etc. gais sy'n ymwneud â chydsyniad sylweddau peryglus) neu reoliadau sy'n gwneud darpariaeth o dan adran 25(1B)(b) o'r Ddeddf honno (apêl yn erbyn hysbysiad tramgwydd sylweddau peryglus).

*Her gyfreithiol i gamau gweithredu a gymerir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â hysbysiad prynu*

10 (1) Os diddymir penderfyniad gan Weinidogion Cymru i gymryd unrhyw gamau gweithredu o dan baragraff 6 neu 7 mewn perthynas â hysbysiad prynu mewn achos o dan adran 376, mae'r hysbysiad prynu i'w drin fel pe bai wedi ei ganslo, ond caiff y person a'i cyflwynodd gyflwyno hysbysiad prynu pellach.

(2) At ddiben penderfynu yw'r hysbysiad prynu pellach wedi ei gyflwyno o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff 4(2), mae'r penderfyniad cynllunio y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef i'w drin fel pe bai wedi ei wneud, neu mae'r gorchymyn y mae'n ymwneud ag ef i'w drin fel pe bai wedi cymryd effaith, ar y diwrnod y diddymwyd penderfyniad Gweinidogion Cymru.

*Dim tynnu'n ôl hysbysiad i drafod telerau y bernir ei fod wedi ei gyflwyno o dan y Rhan hon*

11 (1) Ni chaniateir tynnu'n ôl o dan adran 31 o Ddeddf DigolledIad Tir 1961 (p. 33) hysbysiad i drafod telerau sy'n cael ei drin fel pe bai wedi ei gyflwyno yn rhinwedd paragraff 5(5) neu baragraff 9(1) neu (3)(b).

(2) Ond os tynnir yr hysbysiad prynu yn ôl neu os caiff ei drin fel pe bai wedi ei ganslo, mae unrhyw hysbysiad i drafod telerau sy'n cael ei drin fel pe bai wedi ei gyflwyno o ganlyniad iddo i'w drin fel pe bai wedi ei dynnu'n ôl.

*Didynnu digolledIad am newidiadau i ganiatâd cynllunio*

12 Pan fo digolledIad yn daladwy o dan adran 105[j602] neu 106[j601] am wariant yr eir iddo wrth gynnal gwaith ar dir, rhaid lleihau unrhyw ddigolledIad sy'n dod yn daladwy am gaffael buddiant yn y tir yn unol â hysbysiad prynu gan swm y digolledIad sy'n ymwneud â'r gwaith.

## RHAN 4

## HOLLTI TIR AMAETHYDDOL: YR HAWL I WNEUD PRYNU Y GWEDDILL YN ORFODOL

*Cyflwyno gwrth-hysbysiad yn gwneud prynu gweddill uned amaethyddol yn ofynnol*

13 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan—

(a) bo hysbysiad prynu wedi ei gyflwyno gan berson a chanddo fuddiant cymhwysol mewn tir amaethyddol ("yr hawlydd"),

(b) trinnir awdurdod caffael fel pe bai wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â'r buddiant hwnnw yn rhinwedd paragraff 5(5) neu baragraff 9(1) neu (3)(b), a

(c) bo gan yr hawlydd fuddiant cymhwysol mewn tir amaethyddol arall ("yr ardal nad effeithir arni") sy'n ffurfio rhan o'r un uned amaethyddol â'r tir y mae'r hysbysiad i drafod telerau'n ymwneud ag ef.

(2) Caiff yr hawlydd gyflwyno gwrth-hysbysiad i'r awdurdod caffael—

(a) yn honni na ellir yn rhesymol ffermio'r ardal nad effeithir arni fel uned amaethyddol ar wahân, naill ai ar ei phen ei hun neu ar y cyd â thir perthnasol arall, a

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod caffael brynu buddiant yr hawlydd yn yr holl ardal nad effeithir arni.

(3) Rhaid i'r hawlydd hefyd gyflwyno copi o'r gwrth-hysbysiad i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr ardal nad effeithir arni (ond nid yw methu â gwneud hynny yn effeithio ar ddilysrwydd yr hysbysiad).

(4) Rhaid cyflwyno'r gwrth-hysbysiad ac unrhyw gopïau ohono o fewn 2 fis sy'n dechrau â'r diwrnod y trinnir yr hysbysiad i drafod telerau fel pe bai wedi ei gyflwyno.

(5) Yn y paragraff hwn—

ystyr "buddiant cymhwysol" ("*qualifying interest*") yw buddiant mewn tir sy'n fwy na buddiant tenant am flwyddyn neu o flwyddyn i flwyddyn (pa un a yw'r person â'r buddiant yn meddiannu'r tir ai peidio);

ystyr "tir amaethyddol" yw tir a oedd, yn union cyn gwneud y penderfyniad cynllunio neu'r gorchymyn y cyflwynwyd yr hysbysiad prynu o ganlyniad iddo, yn dir amaethyddol o fewn yr ystyr a roddir i "agricultural land" gan adran 109(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 (p. 48);

ystyr "tir perthnasol arall" ("*other relevant land*") yw—

(a) tir sy'n ffurfio rhan o'r un uned amaethyddol â'r tir amaethyddol y mae'r hysbysiad i drafod telerau'n ymwneud ag ef ac nad oes gan yr hawlydd fuddiant cymhwysol ynddo, neu

(b) tir sy'n unrhyw uned amaethyddol arall, neu sy'n ffurfio rhan o unrhyw uned amaethyddol arall, a feddiennir gan yr hawlydd ar y diwrnod y trinnir yr hysbysiad i drafod telerau fel pe bai wedi ei gyflwyno, ac y mae gan yr hawlydd fuddiant cymhwysol ynddo ar y diwrnod hwnnw.

(6) Pan fo hysbysiad i drafod telerau wedi ei gyflwyno neu yn cael ei drin gan yr Atodlen hon neu Ran 3 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 (p. 66) fel pe bai wedi ei gyflwyno mewn cysylltiad ag unrhyw dir, nid yw'r tir hwnnw'n ffurfio rhan o'r ardal nad effeithir arni ac nid yw'n dir perthnasol arall oni bai a hyd nes bod yr hysbysiad i drafod telerau wedi ei dynnu'n ôl (neu yn cael ei drin fel pe bai wedi ei dynnu'n ôl).

(7) Nid yw'r paragraff hwn yn cyfyngu ar yr hawliau a roddir gan adran 8(2) a (3) o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 (p. 56) (darpariaethau ynghylch tir a rennir).

*Effaith gwrth-hysbysiad*

14 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os—

(a) cyflwynir gwrth-hysbysiad i awdurdod caffael, a

(b) nad yw'r awdurdod, erbyn diwedd y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad, yn hysbysu'r hawlydd yn ysgrifenedig ei fod yn derbyn yr hysbysiad.

(2) Caiff yr hawlydd neu'r awdurdod, o fewn 2 fis ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw, atgyfeirio'r gwrth-hysbysiad i'r Uwch Dribiwnlys.

(3) Pan atgyfeirir gwrth-hysbysiad, rhaid i'r Uwch Dribiwnlys—

(a) penderfynu a ellir yn rhesymol ffermio'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef fel uned amaethyddol ar wahân, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â thir perthnasol arall (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 13(5)), a

(b) cadarnhau neu wrthod yr hysbysiad.

(4) Os caiff y gwrth-hysbysiad ei dderbyn neu ei gadarnhau, mae'r awdurdod caffael i'w drin—

(a) fel pe bai wedi ei awdurdodi o dan y darpariaethau caffael perthnasol i gaffael yn orfodol y buddiant y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, a

(b) fel pe bai wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â'r buddiant hwnnw ar y diwrnod y trinnir yr awdurdod fel pe bai wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â'r tir arall yn yr uned amaethyddol o dan sylw yn rhinwedd paragraff 5(5) neu baragraff 9(1) neu (3)(b).

(5) Os caiff anghydfod ynghylch y digolllediad sy'n daladwy am gaffael y buddiant y mae'r gwrth-hysbysiad yn ymwneud ag ef ei atgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys a'i benderfynu ganddo, ni chaiff yr hawlydd dynnu'r hysbysiad yn ôl ar ôl diwedd 6 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r Tribiwnlys yn penderfynu'r digolllediad.

(6) Os yw'r hawlydd yn tynnu'r gwrth-hysbysiad yn ôl, mae unrhyw hysbysiad i drafod telerau sy'n cael ei drin fel pe bai wedi ei gyflwyno o ganlyniad iddo i'w drin fel pe bai wedi ei dynnu'n ôl.

(7) Ni chaniateir tynnu'n ôl dan adran 31 o Ddeddf Digolllediad Tir 1961 (p. 33) hysbysiad i drafod telerau sy'n cael ei drin fel pe bai wedi ei gyflwyno yn rhinwedd y paragraff hwn.

(8) Wrth benderfynu'r digolllediad sy'n daladwy am gaffael buddiant mewn tir yn unol â gwrth-hysbysiad, mae gwerth y buddiant i'w asesu—

(a) gan ragdybio na fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi ar gyfer unrhyw ddatblygiad o'r tir, a

(b) gan anwybyddu unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiad o'r tir, i'r graddau nad yw'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef wedi ei gynnal.

*Caffael ac ildio buddiant tenant o dan les*

15 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo neu pan fydd, yn rhinwedd paragraff 14[J618S], awdurdod caffael yn caffael les tir ond nid buddiant y lesydd.

(2) Rhaid i'r awdurdod gynnig ildio'r les i'r lesydd ar delerau y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn rhesymol.

(3) Caiff yr awdurdod neu'r lesydd atgyfeirio'r cwestiwn o ba delerau ildio sy'n rhesymol i'r Uwch Dribiwnlys.

(4) Rhaid i'r awdurdod atgyfeirio'r cwestiwn hwnnw i'r Tribiwnlys os, erbyn diwedd 3 mis ar ôl y diwrnod y cynigiodd yr awdurdod ildio'r les—

(a) nad yw'r awdurdod a'r lesydd wedi cytuno pa delerau sy'n rhesymol, a

(b) nad yw'r lesydd wedi atgyfeirio'r cwestiwn i'r Tribiwnlys.

(5) Os caiff y cwestiwn o ba delerau sy'n rhesymol ei atgyfeirio i'r Uwch Dribiwnlys a'i benderfynu ganddo, mae'r lesydd i'w drin—

(a) fel pe bai wedi derbyn ildiad o'r les—

(i) ar ddiwedd 1 mis ar ôl y diwrnod y mae'r Tribiwnlys yn gwneud ei benderfyniad, neu

(ii) ar ddiwrnod arall a gyfarwyddir gan y Tribiwnlys, a

(b) fel pe bai wedi cytuno â'r awdurdod ar y telerau ildio y mae'r Tribiwnlys wedi penderfynu eu bod yn rhesymol.

(6) Wrth benderfynu pa delerau ildio sy'n rhesymol, rhaid anwybyddu unrhyw delerau'r les sy'n ymwneud ag ildio.

(7) Pan fo swm yn daladwy i lesydd yn rhinwedd y paragraff hwn a bo'r lesydd—

(a) yn gwrthod derbyn y swm, neu

(b) yn gwrthod sefydlu teitl er boddhad yr awdurdod caffael neu'n methu â gwneud hynny,

caiff yr awdurdod dalu'r swm i mewn i'r llys.

(8) Mae is-adrannau (2) a (5) o adran 9 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965 (p. 56) (cymhwyso arian a delir i mewn i'r llys) yn gymwys i swm a delir i mewn i'r llys o dan is-baragraff (7)[J618S] fel y maent yn gymwys i ddigolllediad a delir i mewn i'r llys o dan yr adran honno.

(9) Pan fo'r awdurdod caffael yn gorff sydd wedi ei gorffori gan neu o dan ddeddfiad, mae ei bwerau yn cynnwys (os na fyddent yn gwneud hynny fel arall) y pŵer i ffermio'r tir y mae'r les yn ymwneud ag ef.

# ATODLEN 13 [J917S]

*(a gyflwynir gan adran 183(2)[j917])*

## ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL: COFRESTRAU CODI TÂL

*Llunio cofrestr codi tâl: gosod cyfraddau neu feini prawf eraill*

1 (1) Rhaid i awdurdod codi tâl, wrth osod cyfraddau neu feini prawf eraill ar gyfer ei gofrestr codi tâl, roi sylw, i'r graddau ac yn y modd a bennir mewn rheoliadau ASC, i—

(a) costau gwirioneddol a disgwyliedig seilwaith (pa un ai drwy gyfeirio at restrau a lunnir yn rhinwedd adran 196[j916] neu fel arall),

(b) materion a bennir mewn rheoliadau ASC sy'n ymwneud â hyfywedd economaidd datblygiad (a gaiff gynnwys, yn benodol, effeithiau economaidd gwirioneddol neu bosibl sy'n deillio o ganiatâd cynllunio ASC neu o osod ASC), ac

(c) ffynonellau cyllid gwirioneddol a disgwyliedig eraill ar gyfer seilwaith.

(2) Caiff rheoliadau ASC wneud darpariaeth arall ynghylch gosod cyfraddau neu feini prawf eraill.

(3) Caiff y rheoliadau, yn benodol, ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i awdurdod codi tâl wrth osod cyfraddau neu feini prawf eraill—

(a) rhoi sylw, i'r graddau ac yn y ffordd a bennir yn y rheoliadau, i—

(i) costau gweinyddol gwirioneddol neu ddisgwyliedig mewn cysylltiad ag ASC (gan gynnwys costau gorfodi);

(ii) costau gwirioneddol a disgwyliedig unrhyw beth, heblaw seilwaith, sy'n ymwneud â mynd i'r afael â gofynion y mae datblygiad yn eu rhoi ar ardal (pa un ai drwy gyfeirio at restrau a lunnir yn rhinwedd adran 196[j916] neu fel arall);

(iii) ffynonellau cyllid gwirioneddol a disgwyliedig eraill ar gyfer unrhyw beth, heblaw seilwaith, sy'n ymwneud â mynd i'r afael â gofynion y mae datblygiad yn eu rhoi ar ardal;

(iv) gwerthoedd a ddefnyddir neu ddogfennau a lunnir at ddibenion statudol eraill;

(b) integreiddio'r broses, i'r graddau ac yn y ffordd a bennir yn y rheoliadau, â phrosesau yr ymgymerir â hwy at ddibenion statudol eraill.

(4) Caiff y rheoliadau hefyd ddarparu, neu ganiatáu darpariaeth neu wneud darpariaeth yn ofynnol, ar gyfer cyfraddau gwahaniaethol a gaiff gynnwys darpariaeth ar gyfer taliadau atodol, cyfradd o sero, cyfraddau uwch neu ostyngiadau.

*Llunio cofrestr codi tâl: dulliau cyfrifo*

2 (1) Caiff rheoliadau ASC ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i gofrestrau codi tâl fabwysiadu dulliau cyfrifo a bennir yn y rheoliadau.

(2) Yn benodol, caiff y rheoliadau ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i gofrestrau codi tâl weithredu drwy gyfeirio at—

(a) disgrifiadau o ddatblygiad ardolladwy neu ddibenion datblygiad o'r fath;

(b) unrhyw fesur o faint neu natur datblygiad ardolladwy;

(c) natur y man lle y cynhelir datblygiad ardolladwy neu'r defnydd presennol o'r man hwnnw;

(d) mynegai a ddefnyddir ar gyfer canfod cyfradd chwyddiant;

(e) gwerthoedd a ddefnyddir neu ddogfennau a lunnir at ddibenion statudol eraill.

*Llunio cofrestr codi tâl: pryd y mae'n gymwys*

3 Caiff rheoliadau ASC ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i awdurdod codi tâl lunio cofrestrau codi tâl sy'n gymwys mewn perthynas â chyfnodau a bennir yn y rheoliadau.

*Llunio cofrestr codi tâl: ymgynghori etc.*

4 Caiff rheoliadau ASC ei gwneud yn ofynnol i awdurdod codi tâl ymgynghori, neu gymryd camau eraill, mewn cysylltiad â llunio cofrestr codi tâl.

*Llunio cofrestr codi tâl: tystiolaeth*

5 (1) Rhaid i awdurdod codi tâl ddefnyddio tystiolaeth briodol sydd ar gael i lywio'r gwaith o lunio cofrestr codi tâl.

(2) Caiff rheoliadau ASC wneud darpariaeth ynghylch effaith is-baragraff (1)[J917S].

*Llunio drafft a phenodi archwilydd*

6 (1) Rhaid i awdurdod codi tâl lunio drafft o'i gofrestr codi tâl.

(2) Caiff yr awdurdod codi tâl dynnu'r drafft o'i gofrestr codi tâl yn ôl.

(3) Rhaid i'r awdurdod codi tâl benodi person ("yr archwilydd") i archwilio'r drafft o'i gofrestr codi tâl.

(4) Rhaid i'r awdurdod benodi rhywun sydd, ym marn yr awdurdod—

(a) yn annibynnol ar yr awdurdod, a

(b) yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol.

(5) Caiff yr awdurdod, gyda chytundeb yr archwilydd, benodi personau i gynorthwyo'r archwilydd.

*Archwilio'r gofrestr codi tâl*

7 (1) Rhaid i'r archwilydd ystyried a gydymffurfiwyd â'r gofynion drafftio.

(2) Yn y paragraff hwn ac ym mharagraff 8[J917S], ystyr y "gofynion drafftio" yw'r gofynion yn yr Atodlen hon ac mewn rheoliadau ASC i'r graddau y maent yn berthnasol i'r gwaith o ddrafftio cofrestr codi tâl.

(3) Rhaid i reoliadau ASC ei gwneud yn ofynnol i awdurdod codi tâl ganiatáu i unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau ynghylch y drafft o'i gofrestr codi tâl gael gwrandawiad gan yr archwilydd; a chaiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch amseriad y gwrandawiadau, a'r weithdrefn ar eu cyfer.

(4) Caiff rheoliadau ASC wneud darpariaeth i'r archwilydd ailystyried penderfyniad gyda'r bwriad o gywiro gwallau (cyn neu ar ôl cymeradwyo'r gofrestr codi tâl).

*Argymhellion yr archwilydd*

8 (1) Rhaid i'r archwilydd wneud argymhellion yn unol â'r paragraff hwn a rhaid iddo roi rhesymau dros yr argymhellion.

(2) Ni chaiff yr archwilydd argymell cymeradwyo drafft o gofrestr codi tâl os yw'r archwilydd yn ystyried—

(a) na chydymffurfiwyd â'r gofynion drafftio mewn un neu ragor o ffyrdd, a

(b) na ellid unioni'r diffyg cydymffurfedd â'r gofynion drafftio drwy wneud addasiadau i'r drafft.

(3) Mae is-baragraffau (4)[J917S] a (5)[J917S] yn gymwys os yw'r archwilydd yn ystyried—

(a) na chydymffurfiwyd â'r gofynion drafftio mewn un neu ragor o ffyrdd, a

(b) y gellid unioni'r diffyg cydymffurfedd â'r gofynion drafftio drwy wneud addasiadau i'r drafft.

(4) Rhaid i'r archwilydd—

(a) pennu ym mha ffordd na chydymffurfiwyd â'r gofynion drafftio,

(b) argymell addasiadau y mae'r archwilydd yn ystyried eu bod yn ddigonol ac yn angenrheidiol i unioni'r diffyg cydymffurfedd hwnnw, ac

(c) argymell cymeradwyo'r drafft gyda'r addasiadau hynny neu addasiadau eraill sy'n ddigonol ac yn angenrheidiol i unioni'r diffyg cydymffurfedd hwnnw.

(5) Caiff yr archwilydd hefyd argymell addasiadau eraill y dylid cymeradwyo'r drafft gyda hwy os caiff ei gymeradwyo.

(6) Os nad yw is-baragraffau (2)[J917S] i (5)[J917S] yn gymwys—

(a) rhaid i'r archwilydd argymell cymeradwyo'r drafft, a

(b) caiff yr archwilydd hefyd argymell addasiadau y dylid cymeradwyo'r drafft gyda hwy os caiff ei gymeradwyo.

(7) Rhaid i'r awdurdod codi tâl gyhoeddi argymhellion a rhesymau'r archwilydd.

*Cymeradwyo cofrestr codi tâl*

9 (1) Ni chaiff awdurdod codi tâl ond cymeradwyo cofrestr codi tâl os—

(a) yw'r archwilydd yn argymell ei chymeradwyo o dan baragraff 8(4)[J917S] neu (6)[J917S], a

(b) yw'r awdurdod codi tâl wedi rhoi sylw i argymhellion yr archwilydd a'r rhesymau drostynt.

(2) Os yw'r archwilydd yn gwneud argymhellion o dan baragraff 8(4)[J917S], ni chaiff yr awdurdod codi tâl gymeradwyo'r gofrestr codi tâl onid yw'n gwneud hynny gydag addasiadau sy'n ddigonol ac yn angenrheidiol i unioni'r diffyg cydymffurfedd a bennwyd gan yr archwilydd (er nad oes angen i'r addasiadau hynny fod y rhai a argymhellwyd gan yr archwilydd).

(3) Os yw awdurdod codi tâl yn cymeradwyo cofrestr codi tâl, caiff wneud hynny gydag unrhyw un neu ragor o'r addasiadau a argymhellwyd o dan baragraff 8(5)[J917S] neu (6)(b)[J917S] neu hebddynt.

(4) Nid yw'r addasiadau y caniateir cymeradwyo cofrestr codi tâl gyda hwy ond yn cynnwys—

(a) addasiadau sy'n ofynnol gan is-baragraff (2)[J917S], a

(b) addasiadau a ganiateir gan is-baragraff (3)[J917S].

(5) Pan fo'r awdurdod codi tâl yn cymeradwyo cofrestr codi tâl y gwnaeth yr archwilydd argymhellion mewn cysylltiad â hi o dan baragraff 8(4)[J917S], rhaid i'r awdurdod codi tâl gyhoeddi adroddiad sy'n nodi sut y mae'r gofrestr codi tâl fel y'i cymeradwywyd yn unioni'r diffyg cydymffurfedd a bennwyd o dan baragraff 8(4)(a)[J917S].

(6) Caiff rheoliadau ASC wneud darpariaeth bellach ynghylch ffurf a chynnwys yr adroddiad hwnnw.

(7) Rhaid i gofrestr codi tâl gael ei chymeradwyo—

(a) mewn cyfarfod o'r awdurdod codi tâl, a

(b) gan fwyafrif pleidleisiau'r aelodau sy'n bresennol.

(8) Caiff rheoliadau ASC wneud darpariaeth ar gyfer cywiro gwallau mewn cofrestr codi tâl ar ôl iddi gael ei chymeradwyo.

*Cyhoeddi cofrestr codi tâl a'r gofrestr yn cymryd effaith*

10 (1) Caiff rheoliadau ASC wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi cofrestr codi tâl ar ôl iddi gael ei chymeradwyo.

(2) Ni chaiff cofrestr codi tâl a gymeradwywyd o dan baragraff 9[J917S] gymryd effaith cyn iddi gael ei chyhoeddi gan yr awdurdod codi tâl.

*Diwygio cofrestr codi tâl*

11 (1) Caiff awdurdod codi tâl ddiwygio cofrestr codi tâl.

(2) Mae paragraffau 1[J917S] i 10[J917S] yn gymwys mewn perthynas â diwygio cofrestr codi tâl fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chofrestr codi tâl.

*Cofrestr codi tâl yn peidio â chael effaith*

12 (1) Caiff awdurdod codi tâl benderfynu bod cofrestr codi tâl i beidio â chael effaith.

(2) Caiff rheoliadau ASC ddarparu na chaiff awdurdod codi tâl ond gwneud penderfyniad o dan is-baragraff (1)[J917S] o dan amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau.

(3) Rhaid i benderfyniad o dan is-baragraff (1)[J917S] gael ei wneud—

(a) mewn cyfarfod o'r awdurdod codi tâl, a

(b) gan fwyafrif pleidleisiau'r aelodau sy'n bresennol.

# ATODLEN 14 [J470S]

*(a gyflwynir gan adran 206)*

## GORCHMYNION DATBARHAU

### RHAN 1

### Y WEITHDREFN AR GYFER GORCHMYNION DATBARHAU A WNEIR GAN AWDURDODAU CYNLLUNIO

*Gofyniad am gadarnhad gan Weinidogion Cymru*

1 (1) Nid yw gorchymyn datbarhau a wneir gan awdurdod cynllunio yn cymryd effaith oni bai ei fod yn cael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru.

(2) Pan fo awdurdod cynllunio yn cyflwyno gorchymyn i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad o gyflwyno'r gorchymyn i—

(a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, a

(b) unrhyw berson arall y mae'n meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu o fewn pa gyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo.

(4) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw a'r awdurdod cynllunio cyn cadarnhau'r gorchymyn.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)[J470S] fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r gorchymyn ag addasiadau neu hebddynt.

(7) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i gadarnhau'r gorchymyn ag addasiadau yn cynnwys pŵer i ychwanegu, i ddileu neu i amrywio darpariaeth sy'n rhoi caniatâd cynllunio.

(8) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cadarnhau'r gorchymyn, rhaid i'r awdurdod cynllunio gyflwyno copi o'r gorchymyn i—

(a) pob person y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan is-baragraff (2)[J470S], a

(b) unrhyw berson arall sy'n dod o fewn is-baragraff (2)(a)[J470S] neu (b)[J470S] pan fo'r gorchymyn yn cael ei gadarnhau.

### RHAN 2

### Y WEITHDREFN AR GYFER GORCHMYNION DATBARHAU A WNEIR GAN WEINIDOGION CYMRU

*Ymgynghori a hysbysu mewn cysylltiad â gwneud gorchymyn*

2 (1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn datbarhau heb ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn ei ardal.

(2) Cyn gwneud gorchymyn datbarhau, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn arfaethedig i—

(a) yr awdurdod cynllunio;

(b) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, ac

(c) unrhyw berson arall y maent yn meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu o fewn pa gyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo.

(4) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw ac (os nad yr awdurdod cynllunio yw'r person hwnnw) i'r awdurdod cynllunio cyn gwneud y gorchymyn.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)[J470S] fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud y gorchymyn, rhaid iddynt gyflwyno copi o'r gorchymyn i—

(a) pob person y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan is-baragraff (2)[J470S], a

(b) unrhyw berson arall sy'n dod o fewn is-baragraff (2)(b)[J470S] neu (c)[J470S] pan fo'r gorchymyn yn cael ei wneud.

RHAN 3

GORCHMYNION DATBARHAU SY'N YMWNEUD Â GWEITHREDIADAU MWYNGLODDIO A DYDDODI GWASTRAFF

*Pŵer i gynnwys amod adfer ac amod ôl-ofal mewn gorchymyn datbarhau*

3 (1) Caiff gorchymyn datbarhau sy'n ymwneud â defnydd o dir ar gyfer cynnal gweithrediadau mwyngloddio neu dyddodi gwastraff osod un neu ragor o amodau adfer.

(2) Os yw'r gorchymyn yn gosod un neu ragor o amodau adfer, neu os oes un neu ragor o amodau adfer wedi eu gosod yn flaenorol o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, caiff y gorchymyn hefyd osod un neu ragor o amodau ôl-ofal.

(3) Mae paragraffau 1(3) i 5 o Atodlen [j445s] yn gymwys mewn perthynas ag amod ôl-ofal a osodir gan orchymyn datbarhau fel y maent yn gymwys mewn perthynas ag amod ôl-ofal a osodir pan roddir caniatâd cynllunio, ond—

(a) fel pe bai'r cyfeiriad ym mharagraff 2(1)(b) o'r Atodlen honno at yr adeg pan roddwyd y caniatâd cynllunio yn gyfeiriad at yr adeg yn union cyn i'r gweithrediadau mwyngloddio neu'r dyddodi gwastraff ddechrau, a

(b) yn achos gorchymyn datbarhau a wneir gan Weinidogion Cymru, gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol eraill.

# ATODLEN 15 [J470C]

*(a gyflwynir gan adran 208[j470b])*

## GORCHMYNION GWAHARDD A GORCHMYNION DIOGELU

### RHAN 1

### GORCHMYNION GWAHARDD

*Pŵer i wneud gorchymyn gwahardd*

1 (1) Caiff awdurdod cynllunio wneud gorchymyn gwahardd mewn perthynas ag unrhyw dir yn ei ardal.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn gwahardd mewn perthynas ag unrhyw dir yng Nghymru.

(3) Ni chaniateir gwneud gorchymyn gwahardd onid yw'r awdurdod cynllunio yn ystyried neu (yn ôl y digwydd) onid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried—

(a) bod y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef wedi ei ddefnyddio i gynnal gweithrediadau mwyngloddio neu i ddyddodi gwastraff mwynau, ond

(b) bod y gweithrediadau neu'r dyddodi wedi dod i ben yn barhaol.

(4) Ni chaiff yr awdurdod cynllunio na Gweinidogion Cymru ond casglu bod y gweithrediadau neu'r dyddodi wedi dod i ben yn barhaol—

(a) os nad oes unrhyw weithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau wedi eu cynnal neu ei gynnal i unrhyw raddau sylweddol ar y tir am o leiaf 2 flynedd, a

(b) os yw'r awdurdod yn ystyried, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael iddo, neu os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael iddynt, ei bod yn annhebygol y bydd y gweithrediadau neu'r dyddodi yn ailddechrau i unrhyw raddau sylweddol.

(5) Gorchymyn yw gorchymyn gwahardd sy'n gwahardd ailddechrau gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau.

(6) Caiff gorchymyn gwahardd hefyd osod un neu ragor o'r gofynion a ganlyn—

(a) gofyniad i gymryd camau i addasu neu symud ymaith gyfarpar neu beiriannau a ddefnyddiwyd at ddiben y gweithrediadau mwyngloddio neu'r dyddodi gwastraff mwynau y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hwy neu ag ef neu at ddiben sy'n atodol i'r diben hwnnw;

(b) gofyniad i gymryd camau a bennir yn y gorchymyn, o fewn cyfnod a bennir yn y gorchymyn, at ddiben dileu neu liniaru niwed i amwynder sydd wedi ei achosi gan y gweithrediadau neu'r dyddodi, ac eithrio niwed o ganlyniad i ymsuddiant a achoswyd gan weithrediadau mwyngloddio tanddaearol;

(c) gofyniad bod rhaid cydymffurfio ag amod y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y gweithrediadau neu'r dyddodi yn ddarostyngedig iddo, neu sydd wedi ei osod o dan y Ddeddf hon;

(d) amod adfer.

(7) Os yw gorchymyn gwahardd yn gosod un neu ragor o amodau adfer, neu os oes un neu ragor o amodau adfer wedi eu gosod yn flaenorol o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, caiff y gorchymyn hefyd osod un neu ragor o amodau ôl-ofal.

(8) Mae paragraffau 1(3) i 5 o Atodlen [j445s] yn gymwys mewn perthynas ag amod ôl-ofal a osodir gan orchymyn gwahardd fel y maent yn gymwys mewn perthynas ag amod ôl-ofal a osodir gan orchymyn datbarhau (gweler paragraff 3[J470S] o Atodlen 14[J470S]).

*Gorchymyn gwahardd a wneir gan awdurdod cynllunio: gofyniad am gadarnhad gan Weinidogion Cymru*

2 (1) Nid yw gorchymyn gwahardd a wneir gan awdurdod cynllunio yn cymryd effaith oni bai ei fod yn cael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru.

(2) Pan fo awdurdod cynllunio yn cyflwyno gorchymyn i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad o gyflwyno'r gorchymyn i—

(a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, a

(b) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod yn meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu o fewn pa gyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo.

(4) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw a'r awdurdod cynllunio cyn cadarnhau'r gorchymyn.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r gorchymyn ag addasiadau neu hebddynt.

(7) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cadarnhau'r gorchymyn, rhaid i'r awdurdod cynllunio gyflwyno copi o'r gorchymyn i—

(a) pob person y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan is-baragraff (2), a

(b) unrhyw berson arall sy'n dod o fewn is-baragraff (2)(a) neu (b) pan fo'r gorchymyn yn cael ei gadarnhau.

*Gorchymyn gwahardd a wneir gan Weinidogion Cymru: ymgynghori a hysbysu mewn cysylltiad â gwneud gorchymyn*

3 (1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn gwahardd heb ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn ei ardal.

(2) Cyn gwneud gorchymyn, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn arfaethedig i—

(a) yr awdurdod cynllunio;

(b) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, ac

(c) unrhyw berson arall y maent yn meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu o fewn pa gyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo.

(4) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw ac (os nad yr awdurdod cynllunio yw'r person hwnnw) i'r awdurdod cynllunio cyn cadarnhau'r gorchymyn.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud y gorchymyn, rhaid iddynt gyflwyno copi o'r gorchymyn i—

(a) pob person y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan is-baragraff (2), a

(b) unrhyw berson arall sy'n dod o fewn is-baragraff (2)(b) neu (c) pan fo'r gorchymyn yn cael ei wneud.

*Effaith gorchymyn gwahardd ar ganiatâd cynllunio*

4 (1) Pan fo gorchymyn gwahardd yn cymryd effaith, mae unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer y gweithrediadau mwyngloddio neu'r dyddodi gwastraff mwynau y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hwy neu ag ef yn peidio â chael effaith.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn effeithio ar ganiatâd cynllunio ar gyfer gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau a gynhaliwyd cyn i'r gorchymyn gwahardd gymryd effaith.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn cyfyngu ar bŵer yr awdurdod cynllunio na phŵer Gweinidogion Cymru, os caiff y gorchymyn ei ddirymu, i roi caniatâd cynllunio pellach ar gyfer gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau.

RHAN 2

GORCHMYNION DIOGELU

*Pŵer i wneud gorchymyn diogelu*

5 (1) Caiff awdurdod cynllunio wneud gorchymyn diogelu mewn perthynas ag unrhyw dir yn ei ardal.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn diogelu mewn perthynas ag unrhyw dir yng Nghymru.

(3) Ni chaniateir gwneud gorchymyn diogelu onid yw'r awdurdod cynllunio yn ystyried neu (yn ôl y digwydd) onid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried—

(a) bod y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef wedi ei ddefnyddio i gynnal gweithrediadau mwyngloddio neu i ddyddodi gwastraff mwynau, ond

(b) bod y gweithrediadau neu'r dyddodi wedi eu hatal neu ei atal dros dro.

(4) Ni chaiff yr awdurdod cynllunio na Gweinidogion Cymru ond casglu bod y gweithrediadau neu'r dyddodi wedi eu hatal neu ei atal dros dro—

(a) os nad oes unrhyw weithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau wedi eu cynnal neu ei gynnal i unrhyw raddau sylweddol ar y tir am o leiaf 12 mis, a

(b) os yw'r awdurdod yn ystyried, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael iddo, neu os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael iddynt, ei bod yn debygol y bydd y gweithrediadau neu'r dyddodi yn ailddechrau i raddau sylweddol.

(5) Gorchymyn yw gorchymyn diogelu sy'n ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd.

(6) Yn y Rhan hon ystyr "camau i ddiogelu'r amgylchedd" yw camau at un neu ragor o'r dibenion a ganlyn—

(a) gwarchod amwynder yr ardal y mae'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef ynddi yn ystod y cyfnod pan fo'r gweithrediadau neu'r dyddodi wedi eu hatal neu ei atal,

(b) diogelu'r ardal honno rhag difrod yn ystod y cyfnod hwnnw, neu

(c) atal unrhyw ddirywiad yng nghyflwr y tir yn ystod y cyfnod hwnnw.

(7) Rhaid i orchymyn diogelu bennu cyfnod, sy'n dechrau â'r dyddiad y bydd y gorchymyn yn cymryd effaith, y mae rhaid cymryd unrhyw gam gofynnol i ddiogelu'r amgylchedd ynddo, a chaiff bennu cyfnodau gwahanol i gymryd camau gwahanol.

*Gorchymyn diogelu a wneir gan awdurdod cynllunio: gofyniad am gadarnhad gan Weinidogion Cymru*

6 (1) Nid yw gorchymyn diogelu a wneir gan awdurdod cynllunio yn cymryd effaith oni bai ei fod yn cael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru.

(2) Ond mae gorchymyn diogelu a wneir gan awdurdod cynllunio yn cymryd effaith heb gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru—

(a) os yw'r gorchymyn yn dirymu gorchymyn diogelu cynharach, a

(b) os nad yw'r gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gamau newydd gael eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd.

(3) Pan fo awdurdod cynllunio yn cyflwyno gorchymyn i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad o gyflwyno'r gorchymyn i—

(a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, a

(b) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod yn meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(4) Rhaid i'r hysbysiad bennu o fewn pa gyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo.

(5) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw a'r awdurdod cynllunio cyn cadarnhau'r gorchymyn.

(6) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (4) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r gorchymyn ag addasiadau neu hebddynt.

(8) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cadarnhau'r gorchymyn, rhaid i'r awdurdod cynllunio gyflwyno copi o'r gorchymyn i—

(a) pob person y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan is-baragraff (3), a

(b) unrhyw berson arall sy'n dod o fewn is-baragraff (3)(a) neu (b) pan fo'r gorchymyn yn cael ei gadarnhau.

*Gorchymyn diogelu a wneir gan Weinidogion Cymru: ymgynghori a hysbysu mewn cysylltiad â gwneud gorchymyn*

7 (1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn diogelu heb ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn ei ardal.

(2) Cyn gwneud gorchymyn, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn arfaethedig i—

(a) yr awdurdod cynllunio,

(b) pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, ac

(c) unrhyw berson arall y maent yn meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu o fewn pa gyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo.

(4) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw ac (os nad yr awdurdod cynllunio yw'r person hwnnw) i'r awdurdod cynllunio cyn gwneud y gorchymyn.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

(6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud y gorchymyn, rhaid iddynt gyflwyno copi o'r gorchymyn i—

(a) pob person y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan is-baragraff (2), a

(b) unrhyw berson arall sy'n dod o fewn is-baragraff (2)(b) neu (c) pan fo'r gorchymyn yn cael ei wneud.

(7) Nid yw is-baragraffau (2) a (6) yn gymwys i orchymyn—

(a) sy'n dirymu gorchymyn diogelu cynharach, a

(b) nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gamau newydd gael eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd.

*Cofrestru gorchymyn diogelu yn bridiant tir lleol*

8 Mae gorchymyn diogelu yn bridiant tir lleol.

*Adolygu gorchymyn diogelu*

9 (1) Rhaid i awdurdod cynllunio—

(a) cynnal adolygiadau yn unol â'r paragraff hwn o orchmynion diogelu sy'n cael effaith yn ei ardal (pa un a wnaed hwy gan yr awdurdod cynllunio neu gan Weinidogion Cymru), a

(b) penderfynu, mewn perthynas ag unrhyw dir y mae gorchymyn o'r fath yn gymwys iddo, pa un a yw am wneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol ai peidio—

(i) dirymu'r gorchymyn neu unrhyw ran o'r gorchymyn;

(ii) gwneud gorchymyn diogelu newydd (boed hynny yn lle gorchymyn cynharach neu'n ychwanegol ato);

(iii) gwneud gorchymyn gwahardd.

(2) Rhaid i'r adolygiad cyntaf o orchymyn diogelu gael ei gwblhau o fewn 5 mlynedd ar ôl y diwrnod y mae'r gorchymyn yn cymryd effaith.

(3) Rhaid i bob adolygiad dilynol gael ei gwblhau o fewn 5 mlynedd ar ôl y diwrnod y cwblhawyd yr adolygiad blaenorol.

(4) Os yw dau neu ragor o orchmynion diogelu yn cael effaith yn llwyr neu'n rhannol mewn perthynas â'r un tir, rhaid i'r gorchmynion gael eu hadolygu gyda'i gilydd.

*Ailddechrau gweithrediadau neu ddyddodi ar ôl i orchymyn diogelu gymryd effaith*

10 (1) Nid yw gorchymyn diogelu yn atal ailddechrau gweithrediadau mwyngloddio na dyddodi gwastraff mwynau, yn unol â chaniatâd cynllunio, ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef.

(2) Ond ni chaiff person ailddechrau gweithrediadau mwyngloddio na dyddodi gwastraff mwynau heb yn gyntaf roi hysbysiad o fwriad y person i wneud hynny i'r awdurdod cynllunio y mae'r tir yn ei ardal.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu ar ba ddyddiad y mae'r person yn bwriadu ailddechrau'r gweithrediadau neu'r dyddodi.

(4) Rhaid i'r awdurdod cynllunio ddirymu'r gorchymyn diogelu os oes gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau wedi ailddechrau i raddau sylweddol ar y tir.

(5) Os nad yw'r awdurdod cynllunio yn dirymu'r gorchymyn cyn diwedd 2 fis ar ôl y dyddiad a bennir o dan is-baragraff (3), caiff y person a roddodd yr hysbysiad o dan is-baragraff (2) wneud cais i Weinidogion Cymru am ddirymu'r gorchymyn.

(6) Rhaid i berson sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o'r cais i'r awdurdod cynllunio.

(7) Os yw'r ceisydd neu'r awdurdod cynllunio yn gwneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am gyfle i ymddangos gerbron arolygydd a chael gwrandawiad ganddo, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r ceisydd a'r awdurdod cyn penderfynu a ydynt am ddirymu'r gorchymyn.

(8) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau wedi ailddechrau i raddau sylweddol ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, rhaid iddynt ddirymu'r gorchymyn.

(9) Os yw Gweinidogion Cymru yn dirymu'r gorchymyn, rhaid iddynt roi hysbysiad ei fod wedi ei ddirymu i'r ceisydd a'r awdurdod cynllunio.

# ATODLEN 16 [J614S]

*(a gyflwynir gan adran 212[j614])*

# DIGOLLEDIAD AM EFFEITHIAU GORCHMYNION SY'N YMWNEUD Â MWYNAU

## RHAN 1

## DIGOLLEDIAD YN DILYN GWNEUD GORCHYMYN DATBARHAU

*Digollediad pan fo gorchymyn datbarhau yn ymwneud â mwynau*

1 (1) Pan fo gorchymyn datbarhau yn ymwneud â defnydd o dir ar gyfer cynnal gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau, nid yw digollediad yn daladwy o dan adran 211[j613] ond os bodlonir un neu ragor o'r amodau a ganlyn.

(2) Yr amod cyntaf yw bod y gorchymyn—

(a) yn gosod cyfyngiad ar hawliau gweithio, neu

(b) yn addasu neu'n amnewid cyfyngiad ar hawliau gweithio, ac eithrio un a osodir gan amod adfer neu amod ôl-ofal.

(3) Yr ail amod yw nad yw'r gorchymyn—

(a) yn gosod amod ar barhau â'r defnydd o'r tir ar gyfer cynnal gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau, neu

(b) yn ei gwneud yn ofynnol addasu neu symud ymaith unrhyw adeiladau, unrhyw waith, unrhyw gyfarpar neu unrhyw beiriannau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gweithrediadau neu'r dyddodi y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hwy neu ag ef.

(4) Y trydydd amod yw bod y gweithrediadau neu'r dyddodi y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hwy neu ag ef wedi dechrau llai na 5 mlynedd cyn y diwrnod y gwnaed y gorchymyn.

(5) Y pedwerydd amod yw, mewn perthynas â'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, fod unrhyw un neu ragor o'r canlynol wedi digwydd yn y 5 mlynedd cyn y diwrnod y gwnaed y gorchymyn—

(a) bod gorchymyn datbarhau arall wedi ei wneud yn ymwneud â defnydd o'r tir ar gyfer cynnal gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau;

(b) bod gorchymyn gwahardd wedi ei wneud;

(c) bod gorchymyn wedi ei wneud o dan adran 102 yn addasu caniatâd mwynau;

(d) bod cais o dan baragraff 1 o Atodlen 8 wedi ei benderfynu'n derfynol (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 5(2) o'r Atodlen honno);

(e) bod cais o dan baragraff 7 o Atodlen 9 wedi ei benderfynu'n derfynol (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 12(2) o'r Atodlen honno).

(6) At ddibenion is-baragraff (2), mae cyfyngiad wedi ei osod ar hawliau gweithio mewn cysylltiad â thir os yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol wedi ei gyfyngu neu ei leihau—

(a) maint yr ardal y caniateir ei defnyddio ar gyfer gweithrediadau mwyngloddio neu i ddyddodi gwastraff mwynau;

(b) dyfnder eithaf unrhyw weithrediadau mwyngloddio neu uchder uchaf unrhyw ddyddodyn o wastraff mwynau;

(c) y gyfradd y caniateir echdynnu mwyn penodol neu ddyddodi gwastraff mwynau penodol yn unol â hi;

(d) y cyfnod y mae rhaid i unrhyw weithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau ddod i ben ar ei ddiwedd;

(e) cyfanswm y mwynau y caniateir eu hechdynnu o'r tir neu gyfanswm y gwastraff mwynau y caniateir ei ddyddodi arno.

## RHAN 2

## DIGOLLEDIAD YN DILYN GWNEUD GORCHYMYN GWAHARDD NEU ORCHYMYN DIOGELU

*Digolledlad o dan adran 211[j613] yn dilyn gwneud gorchymyn gwahardd*

2 (1) Mae is-adrannau (2)[j613] i (5)[j613] o adran 211[j613] yn gymwys pan wneir gorchymyn gwahardd mewn perthynas â thir yn ardal awdurdod cynllunio a bo'r naill neu'r llall o'r amodau a ganlyn, neu'r ddau ohonynt, wedi eu bodloni.

(2) Yr amod cyntaf yw bod y gweithrediadau mwyngloddio neu'r dyddodi gwastraff mwynau y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hwy neu ag ef wedi dechrau llai na 5 mlynedd cyn y diwrnod y gwnaed y gorchymyn.

(3) Yr ail amod yw, mewn perthynas â'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, fod unrhyw un neu ragor o'r canlynol wedi digwydd yn y 5 mlynedd cyn y diwrnod y gwnaed y gorchymyn—

(a) bod gorchymyn gwahardd arall wedi ei wneud;

(b) bod gorchymyn datbarhau wedi ei wneud sy'n ymwneud â defnydd o'r tir ar gyfer cynnal gweithrediadau mwyngloddio neu ddyddodi gwastraff mwynau;

(c) bod gorchymyn wedi ei wneud o dan adran 102 yn addasu caniatâd mwynau.

*Digolledlad mewn achosion eraill*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan wneir gorchymyn gwahardd mewn perthynas â thir yn ardal awdurdod cynllunio ac nad yw'r naill na'r llall o'r amodau ym mharagraff 2 wedi ei fodloni, neu

(b) pan wneir gorchymyn diogelu mewn perthynas â thir yn ardal awdurdod cynllunio.

(2) Mae gan unrhyw berson a chanddo un neu ragor o fuddiannau yn y tir hawlogaeth, wrth wneud hawliad i'r awdurdod cynllunio, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod am—

(a) unrhyw wariant y mae'r person yn mynd iddo wrth gynnal gwaith a ddaw yn ofer o ganlyniad i'r gorchymyn;

(b) unrhyw golled arall neu unrhyw ddifrod arall a ddioddefir gan y person y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i'r gorchymyn.

(3) Rhaid i hawliad am ddigolllediad o dan y paragraff hwn gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r gorchymyn yn cymryd effaith.

(4) At ddibenion y paragraff hwn—

(a) mae gwariant yr eir iddo wrth lunio planiau at ddibenion unrhyw waith, neu ar faterion tebyg eraill sy'n baratoadol i unrhyw waith, i'w drin fe pe bai'n wariant yr eir iddo wrth gynnal y gwaith;

(b) mae'r golled neu'r difrod y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i orchymyn yn cynnwys gwariant yr eir iddo wrth gynnal gwaith at ddiben dileu neu liniaru unrhyw niwed i amwynder a achosir gan weithrediadau mwyngloddio ar y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, oni bai bod y gwariant hwnnw wedi ei gynnwys mewn hawliad arall am ddigolledIad.

(5) Wrth gyfrifo swm unrhyw golled neu unrhyw ddifrod y gellir ei phriodoli neu ei briodoli i orchymyn, nid yw'r materion a ganlyn i'w hystyried—

(a) gwerth unrhyw fwyn na ellir ei dynnu na'i weithio o ganlyniad i'r gorchymyn,

(b) gwerth unrhyw wastraff mwynau na ellir ei ddyddodi o ganlyniad i'r gorchymyn,

(c) gwerth unrhyw wagle na ellir ei lenwi o ganlyniad i'r gorchymyn, na

(d) yn achos gorchymyn gwahardd, gost cydymffurfio ag amod adfer neu amod ôl-ofal o ganlyniad i'r gorchymyn.

(6) Rhaid lleihau'r digolledIad sy'n daladwy o dan y paragraff hwn gan werth i'r hawlydd unrhyw bren defnyddiadwy, unrhyw gyfarpar neu unrhyw ddeunyddiau eraill a symudir ymaith at ddiben cydymffurfio â'r gorchymyn o dan sylw.

*Didynnu o ddigolledIad o dan baragraff 3*

4 (1) Rhaid i awdurdod cynllunio ddidynnu'r swm a benderfynir yn unol â'r paragraff hwn o unrhyw ddigolledIad a delir ganddo o dan baragraff 3 o ganlyniad i orchymyn gwahardd neu orchymyn diogelu.

(2) Os yw'r awdurdod cynllunio wedi ei fodloni ar yr adeg pan fydd yn asesu'r digolledIad mai'r hawlydd yw'r unig berson sydd â hawlogaeth i hawlio digolledIad o ganlyniad i'r gorchymyn, rhaid iddo ddidynnu'r swm a bennir mewn rheoliadau.

(3) Os nad yw'r awdurdod cynllunio wedi ei fodloni mai'r hawlydd yw'r unig berson sydd â hawlogaeth i hawlio digolledIad, rhaid iddo ddidynnu'r swm hwnnw wedi ei luosi â'r ffracsiwn priodol.

(4) Y ffracsiwn priodol yw—

$$\frac{BH}{GC}$$

pan—

BH yw asesiad yr awdurdod o werth buddiant yr hawlydd yn y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef;

GC yw asesiad yr awdurdod o werth cyfanredol yr holl fuddiannau yn y tir pe baent yn cael eu dal gan un person.

# ATODLEN 17 [J271S]

*(a gyflwynir gan adrannau 280[j2701], 281[j2702], 288[j2709], 294[j2714], 297[j2717] a 300[j2720])*

## GORCHMYNION YN YMWNEUD Â PHRIFFYRDD

### RHAN 1

### Y WEITHDREFN AR GYFER GORCHMYNION A WNEIR GAN WEINIDOGION CYMRU

*Cymhwyso'r Rhan hon*

1 Mae'r Rhan hon yn gymwys i orchmynion o dan adrannau 280[j2701], 281[j2702], 286[j2707], 287[j2708] a 297[j2717].

*Cyhoeddi hysbysiad o orchymyn arfaethedig*

2 (1) Cyn gwneud gorchymyn, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad eu bod yn cynnig gwneud y gorchymyn yn—

(a) o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal berthnasol, a

(b) y London Gazette.

(2) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) datgan effaith gyffredinol y gorchymyn,

(b) enwi man yn yr ardal berthnasol lle y bydd copïau o'r gorchymyn drafft ac o unrhyw fap neu blan sy'n berthnasol iddo ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ac

(c) datgan y caiff unrhyw berson wrthwynebu i wneud y gorchymyn drwy roi hysbysiad i Weinidogion Cymru o fewn y cyfnod gwrthwynebu.

(3) Rhaid i'r dogfennau a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b) gael eu rhoi ar gael i edrych arnynt—

(a) yn ddi-dâl, a

(b) ar bob adeg resymol.

(4) Yn y Rhan hon—

ystyr "yr ardal berthnasol" ("*the relevant area*") yw'r ardal y mae unrhyw brifffordd neu dir y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hi neu ag ef ynddi;

ystyr "y cyfnod gwrthwynebu"("*the objection period*") yw 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad.

*Cyflwyno ac arddangos hysbysiad o orchymyn arfaethedig*

3 (1) Ar y diwrnod y maent yn cyhoeddi hysbysiad o dan baragraff 2 neu cyn hynny, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno i'r personau a grybwyllir yn is-baragraff (2) gopïau o—

(a) yr hysbysiad,

(b) y gorchymyn drafft, ac

(c) unrhyw fap perthnasol neu unrhyw blan perthnasol.

(2) Y personau yw—

(a) pob awdurdod lleol perthnasol y mae unrhyw briffordd neu dir y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hi neu ag ef yn ei ardal,

(b) unrhyw ymgymerwr statudol perthnasol sydd â cheblau, prif gyflenwad, carthffosydd, pibellau neu wifrau wedi eu gosod ar hyd, ar draws, o dan neu dros unrhyw briffordd sydd i'w chau neu ei gwyro, neu unrhyw dir y mae hawl tramwy drosto i gael ei diddymu, yn rhinwedd y gorchymyn, ac

(c) yn achos gorchymyn o dan adran 281[j2702] sy'n cynnwys darpariaeth o dan adran 284[j2705] sy'n awdurdodi cau mynedfa breifat i unrhyw dir, pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir hwnnw.

(3) Ar y diwrnod y maent yn cyhoeddi'r hysbysiad neu cyn hynny, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd beri i gopi o'r hysbysiad gael ei arddangos mewn safle amlwg ar bob pen i gymaint o unrhyw briffordd ag sydd i'w chau neu ei gwyro, neu gymaint o unrhyw hawl tramwy ag sydd i'w diddymu, yn unol â'r gorchymyn.

(4) Yn is-baragraff (2)—

ystyr "awdurdod lleol perthnasol" ("*relevant local authority*") yw—

(a) o ran ardal yng Nghymru—

(i) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

(ii) awdurdod Parc Cenedlaethol;

(iii) bwrdd cydgynllunio;

(iv) cyngor cymuned;

(v) comisiynydd heddlu a throseddu;

(b) o ran ardal yn Lloegr—

(i) cyngor sir;

(ii) cyngor dosbarth;

(iii) awdurdod Parc Cenedlaethol;

(iv) bwrdd cydgynllunio a gyfansoddwyd o dan adran 2 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8);

(v) cyngor plwyf neu gyfarfod plwyf ar gyfer plwyf nad oes ganddo gyngor ar wahân;

(vi) comisiynydd heddlu a throseddu;

(vii) gwasanaeth tân ac achub a grëwyd drwy orchymyn o dan adran 4A o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21);

(viii) bwrdd ffyniant economaidd neu awdurdod cyfun a sefydlir o dan Ran 6 o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p. 20), neu awdurdod sir cyfun a sefydlir o dan Bennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 (p. 55);

(ix) ymddiriedolaeth gweithredu tai a sefydlir o dan Ran 3 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50);

ystyr "perchennog" ("*owner*") yw—

(c) person, ac eithrio morgeisai nad yw ym meddiant, sydd am y tro â hawlogaeth i waredu'r ffi syml, pa un ai ym meddiant neu mewn dychweliad;

(d) person sy'n dal rhenti ac elw'r tir neu sydd â hawlogaeth iddynt o dan les sydd ag o leiaf 3 blynedd yn weddill;

ystyr "ymgymerwr statudol perthnasol" ("*relevant statutory undertaker*") yw—

(e) trwyddedai trydan sydd â hawlogaeth i arfer pŵer a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Trydan 1989 (p. 29) (gwaith stryd);

(f) trawsgludydd nwy;

(g) ymgymerwr statudol sy'n cyflawni ymgymeriad ar gyfer cyflenwi pŵer hydrolig;

(h) ymgymerwr dŵr neu ymgymerwr carthffosiaeth;

(i) Cyfoeth Naturiol Cymru;

(j) Asiantaeth yr Amgylchedd.

*Ystyried gwrthwynebiadau a gwneud gorchymyn*

4 (1) Rhaid i Weinidogion Cymru beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal os—

(a) cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu, daw gwrthwynebiad i'r gorchymyn arfaethedig i'w llaw gan—

(i) person yr oedd yn ofynnol iddynt gyflwyno hysbysiad iddo o dan baragraff 3, neu

(ii) unrhyw berson arall maent yn ystyried y bydd y gorchymyn yn effeithio arno, a

(b) nad yw'r gwrthwynebiad yn cael ei dynnu'n ôl.

(2) Ond nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal os—

(a) gwneir y gwrthwynebiad gan berson a grybwyllir yn is-baragraff (1)(a)(ii), a

(b) ydynt wedi eu bodloni, o dan amgylchiadau arbennig yr achos, nad oes angen cynnal ymchwiliad lleol.

(3) Cyn gwneud y gorchymyn, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried—

(a) unrhyw wrthwynebiadau i'r gorchymyn nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl, a

(b) pan gynhelir ymchwiliad lleol, adroddiad y person a gynhaliodd yr ymchwiliad.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y gorchymyn gydag addasiadau neu hebddynt.

*Gorchmynion penodol i fod yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd*

5 Mae gorchymyn o dan adran 280[j2701], 281[j2702], 286[j2707] neu 287[j2708] yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd os—

(a) yw'n cynnwys darpariaeth o dan adran 283(5)(a)[j2704] neu 288(3)(a)[j2709] sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson wneud taliad neu gyfraniad,

(b) yw person y byddai'n ofynnol iddo wneud y taliad neu'r cyfraniad yn gwrthwynebu i'r ddarpariaeth cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu, a

(c) nad yw'r gwrthwynebiad yn cael ei dynnu'n ôl.

*Hysbysiad o wneud gorchymyn*

6 (1) Yn union ar ôl gwneud gorchymyn, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad eu bod wedi gwneud y gorchymyn yn—

(a) o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal berthnasol, a

(b) y London Gazette.

(2) Rhaid i'r hysbysiad enwi man lle mae copi o'r gorchymyn ar gael i'r cyhoedd edrych arno yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol.

(3) Mae paragraff 3 yn gymwys i hysbysiad o dan y paragraff hwn fel y mae'n gymwys i hysbysiad o dan baragraff 2.

*Dehongli*

7 (1) Yn y Rhan hon, mae i "y cyfnod gwrthwynebu" ac "yr ardal berthnasol" yr ystyron a roddir gan baragraff 2(4).

(2) Pan fo cyhoeddi hysbysiad o dan baragraff 2 neu 6 yn digwydd ar fwy nag un diwrnod, mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad yn gyfeiriadau at y diweddaraf o'r diwrnodau hynny.

## RHAN 2

## Y WEITHDREFN AR GYFER GORCHMYNION A WNEIR GAN AWDURDODAU CYNLLUNIO AC AWDURDODAU LLEOL ERAILL

*Cymhwyso'r Rhan hon*

8 Mae'r Rhan hon yn gymwys i orchmynion a wneir o dan adrannau 293[j2713] ac 300[j2720].

*Dyletswyddau awdurdod cynllunio neu awdurdod lleol*

9 Cyn cyflwyno gorchymyn i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau neu gadarnhau gorchymyn fel gorchymyn diwrthwynebiad, rhaid i'r awdurdod a wnaeth y gorchymyn gydymffurfio â pharagraffau 10 ac 11.

*Cyhoeddi hysbysiad o orchymyn*

10 (1) Rhaid i'r awdurdod gyhoeddi hysbysiad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal berthnasol ei fod wedi gwneud y gorchymyn a'i fod yn bwriadu cyflwyno'r gorchymyn i'w gadarnhau neu ei gadarnhau fel gorchymyn diwrthwynebiad.

(2) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) datgan effaith gyffredinol y gorchymyn;

(b) enwi man yn yr ardal berthnasol—

(i) lle mae copi o'r gorchymyn ar gael i'r cyhoedd edrych arno yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol, a

(ii) lle caniateir cael copïau o'r gorchymyn am dâl rhesymol ar bob adeg resymol;

(c) pennu'r cyfnod y caniateir gwneud sylwadau neu wrthwynebiadau mewn perthynas â'r gorchymyn ynddo, a'r modd y caniateir gwneud hynny.

(3) Rhaid i'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad am y tro cyntaf.

(4) Yn y Rhan hon ystyr "yr ardal berthnasol" yw'r ardal y mae'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef ynddi.

*Cyflwyno ac arddangos hysbysiad o orchymyn*

11 (1) O leiaf 28 o ddiwrnodau cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad a gyhoeddir o dan baragraff 10, rhaid i'r awdurdod—

(a) cyflwyno copïau o'r hysbysiad a'r gorchymyn i'r personau a grybwyllir yn is-baragraff (2), a

(b) cyflwyno copi o'r hysbysiad i bob person sydd wedi gwneud cais o dan is-baragraff (3) sy'n gymwys i'r gorchymyn.

(2) Y personau y mae rhaid cyflwyno copïau o'r hysbysiad a'r gorchymyn iddynt o dan is-baragraff (1)(a) yw—

(a) pob perchennog, pob meddiannydd a phob tenant ar unrhyw ran o'r tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef;

(b) pob awdurdod lleol perthnasol (ac eithrio'r awdurdod a wnaeth y gorchymyn) y mae ei ardal yn cynnwys unrhyw ran o'r tir hwnnw;

(c) unrhyw ymgymerwr statudol y mae unrhyw gyfarpar ar y tir hwnnw yn eiddo iddo, neu sy'n defnyddio unrhyw gyfarpar o'r fath, at ddibenion ei ymgymeriad;

(d) unrhyw bersonau eraill a bennir mewn rheoliadau;

(e) unrhyw bersonau eraill y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Caiff unrhyw berson, wrth dalu unrhyw dâl rhesymol a godir gan yr awdurdod, wneud cais i'r awdurdod roi hysbysiad i'r person o'r holl orchmynion o dan adrannau 293[j2713] ac 300[j2720]—

(a) sy'n cael eu gwneud gan yr awdurdod mewn cyfnod penodedig,

(b) sydd o ddisgrifiad penodedig, ac

(c) sy'n ymwneud â thir mewn ardal benodedig,

ac yn yr is-baragraff hwn ystyr "penodedig" yw a bennir yn y cais.

(4) O leiaf 28 o ddiwrnodau cyn diwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad a gyhoeddir o dan baragraff 10, rhaid i'r awdurdod beri i gopi o'r hysbysiad gael ei arddangos mewn man amlwg—

(a) ar bob pen i gymaint o unrhyw lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig ag sydd i'w gau neu ei wyro neu i'w chau neu ei gwyro, neu gymaint o unrhyw hawl tramwy ag sydd i'w ddiddymu, yn rhinwedd y gorchymyn,

(b) yn swyddfeydd llywodraeth leol yn ardal leol y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef, ac

(c) mewn unrhyw fannau eraill y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn briodol.

(5) Gyda phob copi o'r hysbysiad a arddangosir o dan is-baragraff (4)(a) ar bob pen i gymaint o ffordd ag y mae'r gorchymyn yn effeithio arni, rhaid arddangos plan sy'n dangos effaith gyffredinol y gorchymyn i'r graddau y mae'n ymwneud â'r dramwyfa honno.

(6) Yn y paragraff hwn—

ystyr "awdurdod lleol perthnasol" ("*relevant local authority*") yw—

(a) o ran ardal yng Nghymru—

(i) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

(ii) awdurdod Parc Cenedlaethol;

(iii) bwrdd cydgynllunio;

(iv) cyngor cymuned;

(b) o ran ardal yn Lloegr—

(i) cyngor sir;

(ii) cyngor dosbarth;

(iii) awdurdod Parc Cenedlaethol;

(iv) bwrdd cydgynllunio a gyfansoddwyd o dan adran 2 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8);

(v) cyngor plwyf neu gyfarfod plwyf ar gyfer plwyf nad oes ganddo gyngor ar wahân;

(vi) gwasanaeth tân ac achub a grëwyd drwy orchymyn o dan adran 4A o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21);

(vii) bwrdd ffyniant economaidd neu awdurdod cyfun a sefydlir o dan Ran 6 o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p. 20), neu awdurdod sir cyfun a sefydlwyd o dan Bennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 (p. 55);

ystyr "swyddfeydd llywodraeth leol" ("*local government offices*") yw swyddfeydd neu adeiladau awdurdod lleol perthnasol;

nid yw "tenant" ("*tenant*") yn cynnwys—

(c) tenant am fis neu lai;

(d) tenant statudol o fewn yr ystyr a roddir i "statutory tenant" yn Neddf Rhenti 1977 (p. 42) (gweler adran 2 o'r Ddeddf honno).

*Cadarnhau gorchymyn fel gorchymyn diwrthwynebiad*

12 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) os na wneir unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau mewn perthynas â gorchymyn yn unol â'r hysbysiad a gyhoeddir o dan baragraff 10, neu

(b) os gwneir sylwadau neu wrthwynebiadau ond maent i gyd yn cael eu tynnu'n ôl.

(2) Caiff yr awdurdod a wnaeth y gorchymyn gadarnhau'r gorchymyn ei hun yn hytrach na'i gyflwyno i Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i'r awdurdod gadarnhau'r gorchymyn heb unrhyw addasiadau.

*Ystyried gwrthwynebiadau*

13 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os—

(a) gwneir unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau mewn perthynas â gorchymyn yn unol â'r hysbysiad a gyhoeddir o dan baragraff 10, a

(b) nad yw'r sylw neu'r gwrthwynebiad yn cael ei dynnu'n ôl.

(2) Os gwnaed y sylw neu wrthwynebiad gan awdurdod lleol, rhaid i Weinidogion Cymru beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal cyn cadarnhau'r gorchymyn.

(3) Os gwnaed y sylw neu'r gwrthwynebiad gan unrhyw berson arall, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn cadarnhau'r gorchymyn, naill ai—

(a) peri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, neu

(b) rhoi cyfle i unrhyw berson y gwnaed sylw neu wrthwynebiad ganddo yn unol â'r hysbysiad a gyhoeddir o dan baragraff 10 ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl, gael gwrandawiad gan arolygydd.

(4) Cyn cadarnhau'r gorchymyn, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried adroddiad y person a benodir o dan is-baragraff (2) neu (3) i gynnal yr ymchwiliad neu i wrando ar sylwadau neu wrthwynebiadau.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r gorchymyn gydag addasiadau neu hebddynt.

(6) Ond ni chânt addasu gorchymyn fel ei fod yn effeithio ar dir nad oedd y gorchymyn fel y'i cyflwynwyd iddynt yn effeithio arno oni bai eu bod wedi cydymffurfio â'r darpariaethau a ganlyn yn y paragraff hwn.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru roi cymaint o hysbysiad ag y maent yn ystyried ei fod yn briodol o'u cynnig i addasu'r gorchymyn.

(8) Rhaid i'r hysbysiad bennu'r cyfnod y caniateir gwneud sylwadau neu wrthwynebiadau mewn perthynas â'r addasiad arfaethedig ynddo, a'r modd y caniateir gwneud hynny.

(9) Rhaid i'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad am y tro cyntaf.

(10) Os gwneir unrhyw sylw neu wrthwynebiad mewn perthynas â'r addasiad arfaethedig yn unol â'r hysbysiad ac nad yw'n cael ei dynnu'n ôl, rhaid i Weinidogion Cymru naill ai—

(a) peri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, neu

(b) rhoi cyfle i unrhyw berson y gwnaed sylw neu wrthwynebiad ganddo yn unol â'r hysbysiad ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl gael gwrandawiad gan arolygydd.

(11) Cyn cadarnhau'r gorchymyn gyda'r addasiad arfaethedig, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried adroddiad y person a benodir i gynnal yr ymchwiliad neu glywed sylwadau neu wrthwynebiadau.

(12) Yn is-baragraff (2) mae "awdurdod lleol" yn cynnwys awdurdod lleol, o fewn yr ystyr a roddir i "local authority" gan adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8), ar gyfer ardal yn Lloegr, ac awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yn Lloegr.

*Penderfyniadau i gael eu gwneud gan arolygwyr*

14 (1) Mae penderfyniad o dan baragraff 13 i'w wneud gan arolygydd yn hytrach na chan Weinidogion Cymru oni bai—

(a) bod yr achos o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau, neu

(b) bod Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod y penderfyniad i'w wneud ganddynt hwy yn hytrach na chan arolygydd.

(2) Mae penderfyniad a wneir gan arolygydd i'w drin fel penderfyniad Gweinidogion Cymru.

(3) Rhaid i gyfarwyddyd o dan is-baragraff (1)(b) ddatgan y rhesymau dros ei roi a rhaid ei gyflwyno i—

(a) yr arolygydd (os oes un) a benodir i wneud y penderfyniad,

(b) yr awdurdod a wnaeth y gorchymyn, ac

(c) unrhyw berson y gwnaed sylw neu wrthwynebiad ganddo yn unol â'r hysbysiad a gyhoeddir o dan baragraff 10 ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl.

(4) Ar unrhyw adeg cyn i arolygydd wneud penderfyniad, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) dirymu penodiad yr arolygydd, a

(b) penodi arolygydd arall ("arolygydd newydd") i wneud y penderfyniad.

(5) Pan fo penderfyniad i'w wneud, yn rhinwedd is-baragraff (1)(b) neu (4), gan Weinidogion Cymru neu arolygydd newydd yn hytrach na'r arolygydd a benodwyd gyntaf i'w wneud, mae unrhyw beth a wneir gan yr arolygydd cyntaf neu mewn perthynas ag ef i'w drin fel pe bai wedi ei wneud gan, neu mewn perthynas â, Gweinidogion Cymru neu'r arolygydd newydd (yn ôl y digwydd).

*Darpariaeth arbennig ynghylch gorchmynion o dan adran 293 sy'n effeithio ar ymgymerwyr statudol*

15 (1) Mae gorchymyn o dan adran 293[j2713] yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd os—

(a) yw ymgymerwr statudol yn gwrthwynebu'r gorchymyn yn unol â'r hysbysiad a gyhoeddir o dan baragraff 10, neu'n gwrthwynebu addasiad yn unol â hysbysiad a gyhoeddir o dan baragraff 13, ac nad yw'r gwrthwynebiad yn cael ei dynnu'n ôl, a

(b) yw'r ymgymerwr yn gwneud y gwrthwynebiad ar y sail bod y gorchymyn yn darparu (neu fel y'i haddesir y byddai'n darparu) ar gyfer creu hawl tramwy cyhoeddus dros dir a orchuddir gan waith a ddefnyddir at ddibenion ei ymgymeriad neu dros gwrtil tir o'r fath.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru gadarnhau gorchymyn o dan adran 293[j2713] sy'n diddymu hawl tramwy dros dir lle mae unrhyw gyfarpar sy'n eiddo i ymgymerwr statudol neu a ddefnyddir ganddo at ddibenion ei ymgymeriad, oni bai bod yr ymgymerwr wedi cydsynio i gadarnhau'r gorchymyn.

(3) Ni chaniateir atal cydsyniad yn afresymol.

(4) Caniateir rhoi cydsyniad yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid i'r gorchymyn gynnwys darpariaethau sy'n rhesymol ofynnol gan ymgymerwr i'w ddiogelu.

(5) Os bydd cwestiwn yn codi o dan y paragraff hwn ynghylch a yw atal cydsyniad yn afresymol, neu a yw unrhyw ofyniad gan ymgymerwr statudol yn rhesymol, mae'r cwestiwn i'w benderfynu gan y Gweinidog priodol.

*Hysbysiad o gadarnhau gorchymyn*

16 (1) Cyn gynted â phosibl ar ôl i orchymyn gael ei gadarnhau, rhaid i'r awdurdod a wnaeth y gorchymyn gydymffurfio â'r darpariaethau a ganlyn yn y paragraff hwn.

(2) Rhaid i'r awdurdod gyhoeddi hysbysiad bod y gorchymyn wedi ei gadarnhau mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal berthnasol.

(3) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) datgan effaith gyffredinol y gorchymyn;

(b) enwi man yn yr ardal berthnasol—

(i) lle mae copi o'r gorchymyn a gadarnhawyd ar gael i'r cyhoedd edrych arno yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol, a

(ii) lle caniateir cael copïau o'r gorchymyn am dâl rhesymol ar bob adeg resymol.

(4) Rhaid i'r awdurdod gyflwyno copi o'r hysbysiad i bob person—

(a) a oedd â hawlogaeth i gael copi o hysbysiad wedi ei gyflwyno iddo o dan baragraff 11, a

(b) sydd wedi anfon cais i'r awdurdod i gael hysbysiad wedi ei gyflwyno iddo, gan bennu cyfeiriad ar gyfer ei gyflwyno.

(5) Rhaid i'r awdurdod gynnwys copi o'r gorchymyn a gadarnhawyd gyda phob copi o'r hysbysiad y mae is-baragraff (4) yn ei gwneud yn ofynnol iddo ei gyflwyno i—

(a) person yr oedd yn ofynnol iddo gyflwyno copi o hysbysiad iddo yn rhinwedd paragraff 11(2)(a), (b) neu (c), a

(b) yn achos gorchymyn a gadarnhawyd gydag addasiadau, person yr oedd yn ofynnol iddo gyflwyno copi o hysbysiad iddo yn rhinwedd paragraff 11(2)(d) neu (e).

(6) Rhaid i'r awdurdod beri i gopïau o'r hysbysiad bod y gorchymyn wedi ei gadarnhau gael eu harddangos yn y ffyrdd a ddisgrifir ym mharagraff 11(4).

*Hysbysiad o benderfyniad i beidio â chadarnhau gorchymyn*

17 Cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud penderfyniad i beidio â chadarnhau gorchymyn, rhaid i'r awdurdod a wnaeth y gorchymyn gyflwyno hysbysiad o'r penderfyniad i bob person y mae paragraff 11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gyflwyno hysbysiad iddo.

*Hysbysiad bod gorchymyn wedi dod i rym*

18 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo gorchymyn yn dod i rym ac eithrio—

(a) ar y diwrnod y caiff ei gadarnhau, neu

(b) ar ddiwedd cyfnod a bennir yn y gorchymyn sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw.

(2) Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r gorchymyn ddod i rym, rhaid i'r awdurdod a wnaeth y gorchymyn gyhoeddi hysbysiad ei fod wedi dod i rym mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal berthnasol.

*Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch y weithdrefn*

19 Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â gwneud gorchmynion, cyflwyno gorchmynion a chadarnhau gorchmynion o dan adrannau 293[j2713] ac 300[j2720].

*Dehongli*

20 Yn y Rhan hon mae i "yr ardal berthnasol" yr ystyr a roddir gan baragraff 10(4).

# ATODLEN 18 [J712S]

*(a gyflwynir gan adrannau 315(7)[j712], 317(7)[j714] a 318(4)[j715])*

# GORCHMYNION SY'N YMWNEUD AG YMGYMERWYR STATUDOL A GWEITHREDWYR RHWYDWAITH

## RHAN 1

## DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH GORCHMYNION I DDOD Â HAWLIAU DROS DIR YMGYMERWYR STATUDOL A GWEITHREDWYR RHWYDWAITH I BEN ETC.

*Darpariaeth atodol ynghylch gorchmynion o dan adran 315(3)[j712]*

1 (1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion o dan adran 315(3)[j712].

(2) Cyn gwneud gorchymyn, rhaid i'r Gweinidogion roi cyfle i'r ymgymerwr neu'r gweithredwr y cyflwynwyd yr hysbysiad symud ymaith iddo i wrthwynebu'r cais am y gorchymyn.

(3) Pan fo'r ymgymerwr neu'r gweithredwr yn gwneud gwrthwynebiad, cyn gwneud y gorchymyn rhaid i'r Gweinidogion—

(a) ystyried y gwrthwynebiad;

(b) rhoi cyfle i'r ymgymerwr neu'r gweithredwr i ymddangos gerbron person a benodir gan y Gweinidogion a chael gwrandawiad ganddo;

(c) rhoi cyfle i'r awdurdod lleol neu'r ymgymerwr statudol a gyflwynodd yr hysbysiad symud ymaith i gael gwrandawiad ar yr un achlysur.

(4) Caniateir gwneud y gorchymyn naill ai ar y telerau a nodir yn y cais am y gorchymyn neu gydag addasiadau.

(5) Yn y paragraff hwn ystyr "y Gweinidogion" yw Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol.

*Darpariaeth atodol ynghylch gorchmynion o dan adran 315(4)[j712]*

2 (1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion o dan adran 315(4)[j712].

(2) Cyn gwneud gorchymyn, rhaid i'r Gweinidogion—

(a) llunio drafft o'r gorchymyn, a

(b) rhoi cyfle i'r ymgymerwr neu'r gweithredwr y cyflwynwyd yr hysbysiad symud ymaith iddo i wrthwynebu'r cynnig i wneud y gorchymyn.

(3) Pan fo'r ymgymerwr neu'r gweithredwr yn gwneud gwrthwynebiad, cyn gwneud y gorchymyn rhaid i'r Gweinidogion—

(a) ystyried y gwrthwynebiad;

(b) rhoi cyfle i'r ymgymerwr neu'r gweithredwr i ymddangos gerbron person a benodir gan y Gweinidogion a chael gwrandawiad ganddo.

(4) Caniateir gwneud y gorchymyn naill ai ar y telerau a nodir yn y gorchymyn drafft neu gydag addasiadau.

(5) Yn y paragraff hwn ystyr "y Gweinidogion" yw'r adran o'r llywodraeth a gyflwynodd yr hysbysiad symud ymaith a'r Gweinidog perthnasol.

RHAN 2

Y WEITHDREFN AR GYFER GWNEUD GORCHMYNION I ESTYN NEU ADDASU SWYDDOGAETHAU YMGYMERWYR STATUDOL

*Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i sylw a gyflwynir o dan adran 317(1)[j714]*

3 (1) Cyn gynted â phosibl ar ôl cyflwyno sylw a grybwyllir yn adran 317(1)[j714], rhaid i ymgymerwr statudol, awdurdod lleol neu adran o'r llywodraeth—

(a) cyhoeddi hysbysiad o'r sylw, a

(b) os yw'n cael ei gyfarwyddo i wneud hynny gan Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol, gyflwyno copi o'r hysbysiad i bob person a bennir, neu sydd o ddisgrifiad a bennir, yn y cyfarwyddyd.

*1990, s.276(1).*

(2) Rhaid i hysbysiad o dan y paragraff hwn—

(a) cael ei gyhoeddi ar y ffurf ac yn y ffordd a bennir mewn cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol,

(b) rhoi unrhyw wybodaeth am y materion y mae'r sylw yn ymwneud â hwy a bennir mewn cyfarwyddyd o'r fath,

(c) datgan y caniateir gwneud gwrthwynebiad i wneud gorchymyn ar y sylw i Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol, a

(d) pennu ym mha ffordd, ac o fewn pa gyfnod, y caniateir gwneud gwrthwynebiad.

*Gofynion ar gyfer gwrthwynebiad i wneud gorchymyn*

4 Rhaid i wrthwynebiad i wneud gorchymyn o dan adran 317[j714]—

(a) cael ei wneud yn y ffordd, ac o fewn y cyfnod, a bennir yn yr hysbysiad o dan baragraff 3[j713], a

(b) cynnwys datganiad o sail y gwrthwynebiad (naill ai yn y gwrthwynebiad neu mewn dogfen a gynhwysir gydag ef).

*Effaith gwneud gwrthwynebiad i wneud gorchymyn*

5 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo gwrthwynebiad i wneud gorchymyn o dan adran 317[j714] wedi ei wneud yn unol â pharagraff 4[j713] ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl.

(2) Wrth ystyried a ddylid gwneud gorchymyn (pa un ai yn unol â'r sylw o dan adran 317(1)[j714] neu gydag addasiadau)—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol ystyried sail y gwrthwynebiad a nodir yn y datganiad a gynhwysir yn y gwrthwynebiad neu mewn dogfen a gynhwysir gydag ef ("y datganiad gwreiddiol"), a

(b) caiff Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol ei gwneud yn ofynnol i'r gwrthwynebydd gyflwyno datganiad pellach o fewn cyfnod penodedig sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion y mae'r gwrthwynebiad yn ymwneud â hwy ("datganiad pellach").

(3) Ond nid yw is-baragraff (2)[j713] yn gymwys os yw—

(a) Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol yn penderfynu, heb roi sylw i'r gwrthwynebiad, beidio â gwneud y gorchymyn, neu

(b) Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol yn penderfynu gwneud addasiad y mae'r gwrthwynebydd yn cytuno ei fod yn bodloni'r gwrthwynebiad.

(4) I'r graddau y mae Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol wedi eu bodloni, ar ôl ystyried sail y gwrthwynebiad a nodir yn y datganiad gwreiddiol ac mewn unrhyw ddatganiad pellach, fod y gwrthwynebiad yn ymwneud â mater y gellir ymdrin ag ef wrth asesu digollediad, cânt ddiystyru'r gwrthwynebiad.

(5) Os yw—

(a) Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol wedi eu bodloni, ar ôl ystyried sail y gwrthwynebiad a nodir yn y datganiad gwreiddiol ac mewn unrhyw ddatganiad pellach, eu bod yn gwybod digon am y materion y mae'r gwrthwynebiad yn ymwneud â hwy, neu

(b) gwrthwynebydd yn methu â chyflwyno datganiad pellach o fewn cyfnod penodedig fel sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol,

caiff Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol benderfynu a ddylid gwneud y gorchymyn heb gynnal ymchwiliad pellach i'r materion y mae'r gwrthwynebiad yn ymwneud â hwy.

(6) Os nad yw is-baragraff (4)[j713] na (5)[j713] yn gymwys, cyn penderfynu a ddylid gwneud y gorchymyn, rhaid i Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol roi cyfle i'r gwrthwynebydd i ymddangos gerbron person a benodir ganddynt a chael gwrandawiad ganddo.

(7) Os yw'r gwrthwynebydd yn manteisio ar y cyfle hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol roi cyfle i bob un o'r personau a ganlyn i gael gwrandawiad ar yr un achlysur—

(a) yr awdurdod a gyflwynodd y sylw a grybwyllir yn adran 317(1)[j714], a

(b) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(8) Er gwaethaf darpariaethau blaenorol y paragraff hwn, os yw Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol yn ystyried bod angen ymchwilio i'r materion y mae'r gwrthwynebiad yn ymwneud â hwy mewn ymchwiliad lleol cyn iddynt benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn, rhaid iddynt beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal.

(9) Pan fo Gweinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol yn penderfynu peri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, nid yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ofynion is-baragraffau (2)[j713], (6)[j713] a (7)[j713] na chydymffurfiwyd â hwy ar adeg y penderfyniad hwnnw.

*Y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo gorchymyn*

6 Mae gorchymyn o dan adran 317[j714]—

(a) pan y'i gwneir gan Weinidogion Cymru ac un o Weinidog y Goron, yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig Senedd Cymru a gweithdrefn arbennig Senedd y Deyrnas Unedig, a

(b) pan y'i gwneir gan Weinidogion Cymru yn unig [(gweler adran 308(2)(b)[j705])], yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig Senedd Cymru.

RHAN 3

Y WEITHDREFN AR GYFER GWNEUD GORCHMYNION I RYDDHAU YMGYMERWYR STATUDOL O RWYMEDIGAETHAU ANYMARFEROL

*Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i sylw a gyflwynir o dan adran 318(1)[j715]*

7 (1) Caiff y Gweinidog priodol gyfarwyddo ymgymerwr statudol sy'n cyflwyno sylw a grybwyllir yn adran 318(1)[j715] i roi cyhoeddusrwydd i'r sylw yn y naill neu'r llall o'r ffyrdd a ganlyn neu'r ddwy ffordd—

(a) drwy gyhoeddi hysbysiad;

(b) drwy gyflwyno copi o'r hysbysiad i bob person a bennir, neu sydd o ddisgrifiad a bennir, yn y cyfarwyddyd.

(2) Rhaid i ymgymerwr statudol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir iddo o dan is-baragraff (1)[j715] cyn gynted â phosibl ar ôl cyflwyno'r sylw y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan y paragraff hwn—

(a) cael ei gyhoeddi ar y ffurf ac yn y ffordd a bennir mewn cyfarwyddyd a roddir gan y Gweinidog priodol,

(b) rhoi unrhyw wybodaeth am y materion y mae'r sylw yn ymwneud â hwy a bennir mewn cyfarwyddyd o'r fath,

(c) datgan y caniateir gwneud gwrthwynebiad i wneud gorchymyn ar y sylw i'r Gweinidog priodol, a

(d) pennu ym mha ffordd, ac o fewn pa gyfnod, y caniateir gwneud gwrthwynebiad.

*Gofynion ar gyfer gwrthwynebiad i wneud gorchymyn*

8 Rhaid i wrthwynebiad i wneud gorchymyn o dan adran 318[j715]—

(a) cael ei wneud yn y ffordd, ac o fewn y cyfnod, a bennir yn yr hysbysiad o dan baragraff 7[j714], a

(b) cynnwys datganiad o sail y gwrthwynebiad (naill ai yn y gwrthwynebiad neu mewn dogfen a gynhwysir gydag ef).

*Effaith gwneud gwrthwynebiad i wneud gorchymyn*

9 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo gwrthwynebiad i wneud gorchymyn o dan adran 318[j715] wedi ei wneud yn unol â pharagraff 8[j714] ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl.

(2) Wrth ystyried a ddylid gwneud gorchymyn (pa un ai yn unol â'r sylw o dan adran 318(1)[j715] neu gydag addasiadau)—

(a) rhaid i'r Gweinidog priodol ystyried sail y gwrthwynebiad a nodir yn y datganiad a gynhwysir yn y gwrthwynebiad neu mewn dogfen a gynhwysir gydag ef ("y datganiad gwreiddiol"), a

(b) caiff y Gweinidog priodol ei gwneud yn ofynnol i'r gwrthwynebydd gyflwyno datganiad pellach o fewn cyfnod penodedig sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion y mae'r gwrthwynebiad yn ymwneud â hwy ("datganiad pellach").

(3) Ond nid yw is-baragraff (2)[j714] yn gymwys os yw—

(a) y Gweinidog priodol yn penderfynu, heb roi sylw i'r gwrthwynebiad, beidio â gwneud y gorchymyn, neu

(b) y Gweinidog priodol yn penderfynu gwneud addasiad y mae'r gwrthwynebydd yn cytuno ei fod yn bodloni'r gwrthwynebiad.

(4) I'r graddau y mae'r Gweinidog priodol wedi ei fodloni, ar ôl ystyried sail y gwrthwynebiad a nodir yn y datganiad gwreiddiol ac mewn unrhyw ddatganiad pellach, fod y gwrthwynebiad yn ymwneud â mater y gellir ymdrin ag ef wrth asesu digollediad, caiff y Gweinidog ddiystyru'r gwrthwynebiad.

(5) Os yw—

(a) y Gweinidog priodol wedi ei fodloni, ar ôl ystyried sail y gwrthwynebiad a nodir yn y datganiad gwreiddiol ac mewn unrhyw ddatganiad pellach, fod y Gweinidog priodol yn gwybod digon am y materion y mae'r gwrthwynebiad yn ymwneud â hwy, neu

(b) gwrthwynebydd yn methu â chyflwyno datganiad pellach o fewn cyfnod penodedig fel sy'n ofynnol gan y Gweinidog priodol,

caiff y Gweinidog priodol benderfynu a ddylid gwneud y gorchymyn heb gynnal ymchwiliad pellach i'r materion y mae'r gwrthwynebiad yn ymwneud â hwy.

(6) Os nad yw is-baragraff (4)[j714] na (5)[j714] yn gymwys, cyn penderfynu a ddylid gwneud y gorchymyn, rhaid i'r Gweinidog priodol roi cyfle i'r gwrthwynebydd i ymddangos gerbron person a benodir gan y Gweinidog priodol a chael gwrandawiad ganddo.

(7) Os yw'r gwrthwynebydd yn manteisio ar y cyfle hwnnw, rhaid i'r Gweinidog priodol roi cyfle i bob un o'r personau a ganlyn i gael gwrandawiad ar yr un achlysur—

(a) yr ymgymerwr a gyflwynodd y sylw a grybwyllir yn adran 318(1)[j715], a

(b) unrhyw berson arall y mae'r Gweinidog priodol yn ystyried ei fod yn briodol.

(8) Er gwaethaf darpariaethau blaenorol y paragraff hwn, os yw'r Gweinidog priodol yn ystyried bod angen ymchwilio i'r materion y mae'r gwrthwynebiad yn ymwneud â hwy mewn ymchwiliad lleol cyn i'r Gweinidog benderfynu a ddylid gwneud y gorchymyn, rhaid i'r Gweinidog beri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal.

(9) Pan fo'r Gweinidog priodol yn penderfynu peri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, nid yw'n ofynnol i'r Gweinidog gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ofynion is-baragraffau (2)[j714], (6)[j714] a (7)[j714] na chydymffurfiwyd â hwy ar adeg y penderfyniad hwnnw.

*Y weithdrefn yn Senedd Cymru neu Senedd y Deyrnas Unedig pan wneir gwrthwynebiad*

10 (1) Pan fo gwrthwynebiad i wneud gorchymyn o dan adran 318[j715] wedi ei wneud yn unol â pharagraff 8[j714] ac nid yw wedi ei dynnu'n ôl cyn yr adeg berthnasol, mae'r gorchymyn—

(a) pan fo i'w wneud gan Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig Senedd Cymru, a

(b) pan gaiff ei wneud gan un o Weinidogion y Goron, yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig Senedd y Deyrnas Unedig.

(2) Yn is-baragraff (1)[j715] ystyr "yr adeg berthnasol" yw—

(a) mewn perthynas â gorchmynion sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru, yr adeg y mae Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r olaf o'r gofynion sy'n gymwys o dan baragraff 9[j715];

(b) mewn perthynas â gorchmynion a wneir gan un o Weinidogion y Goron, yr adeg y gwneir y gorchymyn.

*Rhoi cyhoeddusrwydd i orchymyn ar ôl iddo gael ei wneud*

11 Yn syth ar ôl gwneud gorchymyn o dan adran 318[j715], rhaid i'r Gweinidog priodol—

(a) cyhoeddi hysbysiad—

(i) sy'n datgan bod y gorchymyn wedi ei wneud, a

(ii) sy'n enwi lle y mae copi ohono ar gael i'r cyhoedd edrych arno ar bob adeg resymol, a

(b) cyflwyno copi o'r hysbysiad—

(i) i unrhyw berson a wnaeth wrthwynebiad yn unol â pharagraff 8[j714] ac sydd wedi anfon cais am hysbysiad at y Gweinidog priodol, gan bennu cyfeiriad ar gyfer ei gyflwyno, a

(ii) i unrhyw bersonau eraill y mae'r Gweinidog priodol yn ystyried eu bod yn briodol.

*Y dyddiad y mae gorchymyn yn cymryd effaith*

12 (1) Mae gorchymyn o dan adran 318[j715] yn cymryd effaith ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad am y tro cyntaf yn unol â pharagraff 11(a)[j715].

(2) Ond—

(a) nid yw is-baragraff (1)[j715] yn gymwys pan fo'r gorchymyn yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig Senedd y Deyrnas Unedig, a

(b) mae is-baragraff (1)[j715] yn ddarostyngedig i unrhyw orchymyn interim a wneir gan yr Uchel Lys o dan adran 377(7)[j2504] i atal dros dro weithrediad y gorchymyn.

# ATODLEN 19 [J951S]

*(a gyflwynir gan adran 323[j951])*

# TIR O DAN FALLTOD

## RHAN 1

## CATEGORIAU TIR O DAN FALLTOD

*Tir a ddyrennir ar gyfer swyddogaethau cyhoeddus mewn cynlluniau, etc*

1 (1) Tir a nodir at ddibenion swyddogaethau cyhoeddus gan gynllun datblygu perthnasol ar gyfer yr ardal lle mae'r tir wedi ei leoli.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr "cynllun datblygu perthnasol" ("*relevant development plan*") yw—

(a) cynllun datblygu strategol neu gynllun datblygu lleol sydd wedi ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo at ddibenion Rhan [*cynllunio datblygu*];

(b) diwygiad i gynllun datblygu strategol neu gynllun datblygu lleol o dan adran [j317] sydd wedi ei fabwysiadu neu ei gymeradwyo at ddibenion y Rhan honno;

(c) cynllun datblygu strategol neu gynllun datblygu lleol—

(i) sydd wedi ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w archwilio'n annibynnol o dan adran [j313] (ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl o dan adran [j321] neu [j322]), neu

(ii) y mae Gweinidogion Cymru yn peri i archwiliad annibynnol gael ei gynnal mewn cysylltiad ag ef o dan adran [j320](2)(b) neu [j323](3);

(d) diwygiad i gynllun datblygu strategol neu gynllun datblygu lleol o dan adran [j317] —

(i) sydd wedi ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w archwilio'n annibynnol o dan adran [j313] (ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl o dan adran [j321] neu [j322]), neu

(ii) y mae Gweinidogion Cymru yn peri i archwiliad annibynnol gael ei gynnal mewn cysylltiad ag ef o dan adran [j320](2)(b) neu [j323](3);

ystyr "swyddogaethau cyhoeddus" ("*public functions*") yw—

(a) swyddogaethau adran o'r llywodraeth, awdurdod lleol neu ymgymerwr statudol;

(b) darparu rhwydwaith cod cyfathrebiadau electronig gan weithredwr cod cyfathrebiadau electronig neu ddarparu rhwydwaith cyfathrebiadau electronig cyhoeddus neu wasanaeth cyfathrebiadau electronig cyhoeddus gan gyn-weithredwr telathrebu cyhoeddus.

(3) Yn is-baragraff (2)[J951S], ym mharagraff (b)[j317] o'r diffiniad o swyddogaethau cyhoeddus, mae i "gwasanaeth cyfathrebiadau electronig cyhoeddus" a "rhwydwaith cyfathrebiadau electronig cyhoeddus" yr ystyron a roddir i "public electronic communications service" a "public electronic communications network", yn y drefn honno, ym Mhennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21) (gweler adran 151 o'r Ddeddf honno).

2 (1) Tir a nodir at ddibenion swyddogaethau cyhoeddus gan Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru.

(2) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i dir sy'n dod o fewn paragraff 1[J951S].

(3) Yn y paragraff hwn—

ystyr "Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru" ("*the National Development Framework for Wales*") yw—

(a) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, neu Fframwaith diwygiedig, a gyhoeddir o dan adrannau [j302] i [j305];

(b) drafft o'r Fframwaith sydd wedi ei osod gerbron Senedd Cymru o dan adran [j304](3);

(c) drafft o Fframwaith diwygiedig sydd wedi ei osod gerbron Senedd Cymru o dan adran [j304](3) fel y'i cymhwysir gan adran [j305](3) ond nid os yw Gweinidogion Cymru yn gosod copi o hysbysiad gerbron Senedd Cymru o dan adran [j305](5)(b) eu bod wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r diwygiad;

mae i "swyddogaethau cyhoeddus" ("*public functions*") yr ystyr a roddir gan baragraff 1(2)[J951S].

3 (1) Tir a nodir mewn cynllun a gymeradwywyd fel tir y gallai fod ei angen at ddibenion swyddogaethau cyhoeddus.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr "cynllun a gymeradwywyd" ("*approved plan*") yw cynllun (heblaw am gynllun datblygu perthnasol) a gymeradwywyd drwy benderfyniad awdurdod cynllunio at ddiben arfer ei bwerau o dan Ran [3] (caniatâd cynllunio) neu Bennod [1] o Ran [6] (rhwymedigaethau cynllunio);

mae i "cynllun datblygu perthnasol" ("*relevant development plan*") a "swyddogaethau cyhoeddus" ("*public functions*") yr ystyron a roddir gan baragraff 1(2)[J951S].

4 Tir y mae awdurdod cynllunio mewn perthynas ag ef—

(a) wedi penderfynu cymryd camau er mwyn ei ddiogelu ar gyfer datblygiad at ddibenion swyddogaethau cyhoeddus (o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 1(2)[J951S]), neu

(b) wedi ei gyfarwyddo gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfyngu ar roi caniatâd cynllunio er mwyn ei ddiogelu ar gyfer datblygiad o'r fath.

*Trefi newydd*

5 (1) Tir o fewn ardal a ddisgrifir fel safle tref newydd arfaethedig yn y drafft o orchymyn y cyhoeddwyd hysbysiad yn ei gylch o dan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Trefi Newydd 1981 (p. 64).

(2) Mae'r paragraff hwn yn peidio â bod yn gymwys—

(a) os daw'r gorchymyn yn weithredol (pa un ai ar ffurf y drafft neu gydag addasiadau), neu

(b) os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â gwneud y gorchymyn.

6 Tir o fewn ardal a ddynodir yn safle tref newydd arfaethedig drwy orchymyn o dan adran 1 o Ddeddf Trefi Newydd 1981 (p. 64) sydd wedi dod yn weithredol.

*Ardaloedd datblygu trefol*

7 Tir o fewn ardal a ddynodir yn ardal datblygu trefol drwy orchymyn sydd wedi ei wneud o dan adran 134 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (p. 65) (pa un a yw'r gorchymyn wedi dod i rym ai peidio).

*Ardaloedd clirio ac adnewyddu*

8 Tir o fewn ardal y datganwyd ei bod yn ardal glirio drwy benderfyniad o dan adran 289 o Ddeddf Tai 1985 (p. 68).

9 Tir y mae awdurdod tai lleol wedi penderfynu ei brynu o dan adran 290 o Ddeddf Tai 1985 (p. 68) fel tir sydd wedi ei amgylchynu gan ardal y datgenir ei bod yn ardal glirio, neu'n cyffinio ag ardal o'r fath, drwy benderfyniad o dan adran 289 o'r Ddeddf honno.

10 Tir a nodir gan wybodaeth a gyhoeddwyd o dan adran 92 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42) fel tir y mae awdurdod tai lleol yn cynnig ei gaffael wrth arfer ei bwerau o dan Ran 7 o'r Ddeddf honno (ardaloedd adnewyddu).

*Ardaloedd gwella cyffredinol*

11 Tir a nodir gan wybodaeth a gyhoeddwyd o dan adran 257 o Ddeddf Tai 1985 (p. 68) fel tir y mae awdurdod tai lleol yn cynnig ei gaffael wrth arfer ei bwerau o dan Ran 8 o'r Ddeddf honno (ardaloedd gwella cyffredinol).

*Priffyrdd*

12 (1) Tir a nodir mewn cynllun datblygu fel—

(a) tir y cynigir adeiladu priffordd arno, neu

(b) tir i'w gynnwys mewn priffordd y cynigir ei gwella neu ei newid.

(2) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i dir sy'n dod o fewn paragraff 1[J951S] neu 2[J951S].

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "cynllun datblygu" yw—

(a) cynllun datblygu perthnasol o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 1(2)[J951S], neu

(b) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 2(3)[J951S].

13 (1) Tir—

(a) sydd ar neu gerllaw llinell priffordd y cynigir ei hadeiladu, ei gwella neu ei newid, fel y'i nodir mewn gorchymyn neu gynllun, a

(b) y caiff pŵer caffael gorfodol a roddir gan Ran 12 o'r Ddeddf Priffyrdd (gan gynnwys pŵer i gaffael yn orfodol unrhyw hawl yn rhinwedd adran 250 o'r Ddeddf honno) ddod yn arferadwy mewn perthynas ag ef oherwydd bod ei angen at ddibenion y gwaith adeiladu, gwella neu newid arfaethedig.

(2) Yn is-baragraff (1)(a)[J951S] mae'r cyfeiriad at orchymyn neu gynllun yn gyfeiriad at—

(a) gorchymyn neu gynllun sydd wedi dod yn weithredol o dan Ran 2 o'r Ddeddf Priffyrdd, neu

(b) gorchymyn neu gynllun a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, neu a luniwyd ar ffurf drafft gan Weinidogion Cymru, o dan Ran 2 o'r Ddeddf Priffyrdd ac y mae hysbysiad wedi ei gyhoeddi mewn cysylltiad ag ef o dan baragraff 1, 2 neu 10 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

(3) Mae is-baragraff (1)(b)[J951S] yn peidio â bod yn gymwys os—

(a) yw'r gorchymyn neu'r cynllun yn dod yn weithredol (pa un ai ar ei ffurf wreiddiol neu gydag addasiadau), neu

(b) yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chadarnhau neu wneud y gorchymyn neu'r cynllun.

(4) Yn y paragraff hwn, mae'r cyfeiriad at dir sydd ei angen at ddibenion adeiladu, gwella neu newid yn cynnwys tir sydd ei angen at ddibenion adran 246(1) o'r Ddeddf Priffyrdd (lliniaru effeithiau andwyol adeiladu neu wella priffyrdd).

14 (1) Tir a ddangosir ar gynllun a gymeradwywyd fel tir sy'n safle priffordd y mae awdurdod priffyrdd lleol yn cynnig ei hadeiladu, ei gwella neu ei newid.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "cynllun a gymeradwywyd" yw cynllun a gymeradwywyd drwy benderfyniad gan yr awdurdod priffyrdd lleol.

15 (1) Tir sy'n safle priffordd y mae'r awdurdod priffyrdd perthnasol yn cynnig ei hadeiladu, ei gwella neu ei newid, os yw'r awdurdod hwnnw wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r cynnig i'r awdurdod cynllunio, ynghyd â mapiau neu blaniau sy'n ddigonol i adnabod y tir o dan sylw.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "awdurdod priffyrdd perthnasol" yw Gweinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu gwmni priffyrdd strategol.

16 (1) Tir a ddangosir ar gynllun a gymeradwywyd fel tir y mae awdurdod priffyrdd lleol yn cynnig ei gaffael o dan adran 246(1) o'r Ddeddf Priffyrdd.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "cynllun a gymeradwywyd" yw cynllun a gymeradwywyd drwy benderfyniad gan yr awdurdod priffyrdd lleol.

17 Tir a nodir mewn hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu gwmni priffyrdd strategol i'r awdurdod cynllunio fel tir y maent yn cynnig ei gaffael o dan adran 246(1) o'r Ddeddf Priffyrdd mewn cysylltiad â phriffordd y maent yn cynnig ei darparu.

*Prynu gorfodol, etc.*

18 Tir sydd—

(a) wedi ei awdurdodi drwy ddeddfiad arbennig i'w gaffael yn orfodol, neu

(b) o fewn terfynau'r gwyriad y mae pwerau caffael gorfodol a roddir drwy ddeddfiad arbennig yn arferadwy o'i fewn.

19 Tir—

(a) y mae gorchymyn prynu gorfodol mewn grym mewn cysylltiad ag ef ac mae gan yr awdurdod priodol y pŵer i gyflwyno, ond nid yw wedi cyflwyno (ac nid yw'n cael ei drin yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad fel pe bai wedi cyflwyno), hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad ag ef, neu

(b) y mae gorchymyn prynu gorfodol mewn grym mewn cysylltiad ag ef sy'n darparu ar gyfer caffael hawl drosto ac mae gan yr awdurdod priodol bŵer i gyflwyno, ond nid yw wedi cyflwyno (ac nid yw'n cael ei drin yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad fel pe bai wedi cyflwyno), hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â'r hawl.

20 (1) Tir y mae gorchymyn prynu gorfodol—

(a) wedi ei gyflwyno i Weinidogion Cymru neu i un o Weinidogion y Goron i'w gadarnhau mewn cysylltiad ag ef, neu

(b) wedi ei lunio ar ffurf drafft gan Weinidogion Cymru neu un o Weinidogion y Goron ac y mae hysbysiad wedi ei gyhoeddi o dan baragraff 3(1)(a) o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael Tir 1981 (p. 67) mewn cysylltiad ag ef.

(2) Mae'r paragraff hwn yn peidio â bod yn gymwys os—

(a) daw'r gorchymyn prynu gorfodol perthnasol i rym (pa un ai ar ei ffurf wreiddiol neu gydag addasiadau),

(b) yw Gweinidogion Cymru neu un o Weinidogion y Goron yn penderfynu peidio â chadarnhau neu wneud y gorchymyn, neu

(c) yw'r gorchymyn (ar ôl ei gadarnhau neu ei wneud yn amodol) yn dod i ben yn rhinwedd adran 13BA(2)(b) o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p. 67) neu baragraff 4AA(2) o Atodlen 1 iddi.

21 Tir—

(a) y mae ei gaffael yn orfodol wedi ei awdurdodi drwy orchymyn o dan adran 1 neu 3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (p. 42), neu

(b) sydd o fewn terfynau'r gwyriad y mae pwerau caffael gorfodol a roddir drwy orchymyn o dan y naill neu'r llall o'r adrannau hynny yn arferadwy o'i fewn.

22 Tir sy'n destun cynnig y dylai fod yn dir o fewn paragraff 21[J951S] pan fo'r cynnig hwnnw wedi ei gynnwys mewn—

(a) cais a wneir yn unol â rheolau o dan adran 6 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (p. 42), neu

(b) gorchymyn drafft a luniwyd o dan adran 7(3) o'r Ddeddf honno.

23 Tir—

(a) y mae ei gaffael yn orfodol wedi ei awdurdodi drwy orchymyn cydsyniad seilwaith, neu

(b) sydd o fewn terfynau'r gwyriad y mae pwerau caffael gorfodol a roddir drwy orchymyn cydsyniad seilwaith yn arferadwy o'i fewn.

24 Tir y mae cais am gydsyniad seilwaith yn ceisio awdurdod i'w gaffael yn orfodol.

25 Tir —

(a) y mae ei gaffael yn orfodol wedi ei awdurdodi drwy orchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu, neu

(b) sydd o fewn terfynau'r gwyriad y mae pwerau caffael gorfodol a roddir drwy orchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu yn arferadwy o'i fewn.

26 Tir y mae cais am orchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu yn ceisio awdurdod i'w gaffael yn orfodol.

[27 Tir y mae ei feddiant dros dro wedi ei awdurdodi o dan adran 18(2) o Ddeddf Cynllunio Cymdogaeth 2017 (p. 20).]

*Tir a nodir mewn datganiad polisi seilwaith*

28 (1) Tir mewn lleoliad a nodir mewn datganiad polisi seilwaith fel tir sy'n addas (neu a allai fod yn addas) ar gyfer math o ddatblygiad a bennir yn y datganiad.

(2) Mae'r paragraff hwn yn peidio â bod yn gymwys pan fydd y datganiad polisi seilwaith—

(a) yn peidio â chael effaith, neu

(b) yn peidio â nodi'r tir fel tir sy'n addas neu a allai fod yn addas ar gyfer y math hwnnw o ddatblygiad.

*Tir a nodir mewn datganiad polisi cenedlaethol*

29 (1) Tir mewn lleoliad a nodir mewn datganiad polisi cenedlaethol fel tir sy'n addas (neu a allai fod yn addas) ar gyfer disgrifiad o ddatblygiad a bennir yn y datganiad.

(2) Mae'r paragraff hwn yn peidio â bod yn gymwys pan fydd y datganiad polisi cenedlaethol—

(a) yn peidio â chael effaith, neu

(b) yn peidio â nodi'r tir fel tir addas neu a allai fod yn addas ar gyfer y disgrifiad hwnnw o ddatblygiad.

## RHAN 2

## YSTYR "PERCHEN-FEDDIANNYDD", "PERCHEN-FEDDIANNYDD PRESWYL" A "GWERTH BLYNYDDOL"

*Rhagymadrodd*

30 Mae'r Rhan hon o'r Atodlen yn darparu ar gyfer ystyron perchen-feddiannydd, perchen-feddiannydd preswyl a gwerth blynyddol at ddibenion Rhan 13 o'r Ddeddf hon.

*Perchen-feddiannydd ar hereditament*

31 Ystyr "perchen-feddiannydd" mewn perthynas â hereditament yw—

(a) person—

(i) sy'n meddiannu'r cyfan neu ran sylweddol o'r hereditament ar sail hawl buddiant perchennog ynddo, a

(ii) sydd wedi gwneud hynny am y cyfnod cyfan o 6 mis sy'n dod i ben â'r diwrnod perthnasol, neu

(b) os yw'r cyfan neu ran sylweddol o'r hereditament wedi bod heb ei feddiannu am ddim mwy na 12 mis sy'n dod i ben â'r diwrnod perthnasol, person—

(i) a feddiannodd y cyfan neu ran sylweddol o'r hereditament ar sail hawl buddiant perchennog ynddo, a

(ii) a wnaeth hynny am y cyfnod cyfan o 6 mis sy'n dod i ben yn union cyn y cyfnod pan nad oedd wedi ei feddiannu.

*Perchen-feddiannydd preswyl ar hereditament*

32 Ystyr "perchen-feddiannydd preswyl" mewn perthynas â hereditament yw perchen-feddiannydd o fewn paragraff 31[J951S]—

(a) sy'n unigolyn, a

(b) sy'n meddiannu neu a fu'n meddiannu (fel y cyfeirir ato ym mharagraff 31(a)[J951S] neu (b)[J951S]) y cyfan neu ran sylweddol o'r hereditament fel annedd.

*Perchen-feddiannydd ar uned amaethyddol*

33 Ystyr "perchen-feddiannydd" mewn perthynas ag uned amaethyddol yw—

(a) person—

(i) sy'n meddiannu'r cyfan o'r uned honno ac sydd wedi gwneud hynny am y cyfnod cyfan o 6 mis sy'n dod i ben â'r diwrnod perthnasol, a

(ii) sydd ar bob adeg yn ystod y feddiannaeth honno wedi bod â hawlogaeth i fuddiant perchennog yn y cyfan o'r uned honno neu ran ohoni, neu

(b) person—

(i) a feddiannodd y cyfan o'r uned honno am y cyfnod cyfan o 6 mis sy'n dod i ben heb fod yn hwy na 12 mis cyn y diwrnod perthnasol, a

(ii) sydd ar bob adeg yn ystod y feddiannaeth honno wedi bod â hawlogaeth i fuddiant perchennog yn y cyfan o'r uned honno neu ran ohoni.

*Dehongli paragraffau 31[J951S] i 33[J951S]*

34 (1) Ym mharagraffau 31[J951S] i 33[J951S], ystyr "buddiant perchennog", mewn perthynas â hereditament neu uned amaethyddol, yw—

(a) buddiant rhydd-ddaliadol yn yr hereditament neu'r uned amaethyddol, neu

(b) les o'r hereditament neu'r uned amaethyddol a roddir neu a estynnir am gyfnod penodol sydd ag o leiaf 3 blynedd yn weddill ar y diwrnod perthnasol.

(2) Ym mharagraffau 31[J951S]] i 33[J951S] ac is-baragraff (1)[J951S], ystyr "diwrnod perthnasol", mewn perthynas â hereditament neu uned amaethyddol, yw'r diwrnod y cyflwynir hysbysiad mewn cysylltiad ag ef o dan adran 324[j952].

*Gwerth blynyddol*

35 (1) Ystyr "gwerth blynyddol" yw—

(a) yn achos hereditament a ddangosir ar restr ardrethu annomestig leol ("y rhestr"), y gwerth a grybwyllir yn is-baragraff (2)[J951S] neu (3)[J951S];

(b) yn achos unrhyw hereditament arall, y gwerth y gellir ei briodoli i'r hereditament hwnnw o dan is-baragraffau (4)[J951S] a (5)[J951S].

(2) Os nad yw'r hereditament yn cynnwys eiddo domestig neu eiddo sydd wedi ei esemptio rhag ardrethu annomestig lleol, y gwerth yw'r hyn a ddangosir ar y rhestr fel gwerth ardrethol yr hereditment hwnnw.

(3) Os yw'r hereditament yn cynnwys eiddo domestig neu eiddo sydd wedi ei esemptio rhag ardrethu annomestig lleol, y gwerth yw cyfanswm—

(a) y gwerth a ddangosir ar y rhestr fel gwerth ardrethol yr hereditament hwnnw, a

(b) y gwerth y gellir ei briodoli i ran anardrethol yr hereditament hwnnw yn unol ag is-baragraffau (4)[J951S] a (5)[J951S].

(4) Yn achos eiddo domestig, y gwerth y gellir ei briodoli i hereditament, neu i'r rhan anardrethol ohono, yw'r gwerth a ardystiwyd gan y swyddog prisio perthnasol fel 5% o'r digolllediad a fyddai'n daladwy mewn cysylltiad â gwerth yr eiddo hwnnw—

(a) pe bai wedi ei gaffael yn orfodol wrth arfer pŵer statudol gyda meddiant gwag, a

(b) pe bai'r digolllediad sy'n daladwy yn cael ei gyfrifo yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Digollediad Tir 1961 (p.33).

(5) Yn achos eiddo sydd wedi ei esemptio rhag ardrethu annomestig lleol, y gwerth y gellir ei briodoli i hereditament, neu i'r rhan anardrethol ohono, yw'r gwerth a ardystiwyd gan y swyddog prisio perthnasol fel y gwerth a fyddai wedi cael ei ddangos fel gwerth ardrethol yr eiddo hwnnw pe bai'n hereditament annomestig perthnasol a oedd yn eiddo annomestig yn gyfan gwbl, nad oedd dim ohono wedi ei esemptio rhag ardrethu annomestig lleol.

(6) Yn is-baragraffau (4)[J951S] a (5)[J951S], ystyr "swyddog prisio perthnasol" yw'r swyddog prisio a benodir o dan adran 61 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41) ar gyfer yr awdurdod bilio y mae'r hereditament wedi ei leoli yn ei ardal.

(7) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y paragraff hwn yr un ystyr ag yn Rhan 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

RHAN 3

YSTYR "AWDURDOD PRIODOL"

*Rhagymadrodd*

36 Mae'r Rhan hon o'r Atodlen yn darparu ar gyfer ystyr awdurdod priodol at ddibenion Rhan 13 o'r Ddeddf hon.

*Awdurdod priodol: cyffredinol*

37 (1) Ystyr "yr awdurdod priodol", mewn perthynas â thir o dan falltod, yw'r person—

(a) yn unol â'r amgylchiadau y mae'r tir yn dod o fewn paragraff o Ran 1 [J951S] o'r Atodlen hon yn eu rhinwedd—

(i) a allai gaffael buddiant yn y tir neu hawl dros y tir, neu

(ii) sy'n cynnig caffael buddiant yn y tir neu hawl dros y tir, neu

[(b) sydd wedi ei awdurdodi i gymryd meddiant dros dro o'r tir fel y'i crybwyllir ym mharagraff 27[J951S].]

(2) Mae'r paragraff hwn yn ddarostyngedig i baragraffau 38[J951S] i 41[J951S] sy'n gwneud darpariaeth ynghylch ystyr "awdurdod priodol" mewn perthynas â thir penodol.

*Awdurdod priodol: trefi newydd*

38 Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 5[J951S] neu 6[J951S], "yr awdurdod priodol" yw Gweinidogion Cymru hyd nes y sefydlir corfforaeth ddatblygu ar gyfer y dref newydd.

*Awdurdod priodol: ardaloedd datblygu trefol*

39 Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 7[J951S], "yr awdurdod priodol" yw Gweinidogion Cymru hyd nes y sefydlir corfforaeth datblygu trefol ar gyfer yr ardal datblygu trefol.

*Awdurdod priodol: tir a nodir mewn datganiadau polisi seilwaith*

40 Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 28[J951S], "yr awdurdod priodol" yw—

(a) os yw'r datganiad polisi seilwaith yn nodi ymgymerwr statudol fel person priodol i gynnal y math penodedig o ddatblygiad yn y lleoliad, yr ymgymerwr statudol;

(b) mewn unrhyw achos arall, Gweinidogion Cymru.

*Awdurdod priodol: tir a nodir mewn datganiadau polisi cenedlaethol*

41 Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 29[J951S], "yr awdurdod priodol" yw—

(a) os yw'r datganiad polisi cenedlaethol yn nodi ymgymerwr statudol fel person priodol i gynnal y disgrifiad penodedig o ddatblygiad yn y lleoliad, yr ymgymerwr statudol;

(b) mewn unrhyw achos arall, yr Ysgrifennydd Gwladol.

*Awdurdod priodol: hysbysiad malltod sy'n cynnwys hawliad mewn perthynas ag ardal nad effeithir arni*

42 Mae cyfeiriadau at "yr awdurdod priodol" mewn perthynas â hysbysiad malltod sy'n cynnwys yr hawliad a'r gofyniad a grybwyllir yn adran 335(2)[j963] yn cael effaith fel pe bai'r ardal nad effeithir arni o uned amaethyddol yn rhan o'r ardal yr effeithir arni.

*Cwestiynau ynghylch awdurdod priodol*

43 (1) Mae is-baragraff (2)[J951S] yn gymwys os bydd cwestiwn yn codi ynghylch—

(a) pa un ai Gweinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, cwmni priffyrdd strategol neu awdurdod priffyrdd lleol yw'r awdurdod priodol mewn perthynas ag unrhyw dir;

(b) pa un o ddau awdurdod lleol neu ragor yw'r awdurdod priodol mewn perthynas ag unrhyw dir;

(c) pa un ai Gweinidogion Cymru neu ymgymerwr statudol yw'r awdurdod priodol mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 28[J951S];

(d) pa un o ddau ymgymerwr statudol neu ragor yw'r awdurdod priodol mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 28[J951S].

(2) Mae'r cwestiwn i'w atgyfeirio at Weinidogion Cymru y mae eu penderfyniad yn derfynol.

(3) Mae is-baragraff (4)[J951S] yn gymwys os bydd cwestiwn yn codi ynghylch—

(a) pa un ai'r Ysgrifennydd Gwladol neu ymgymerwr statudol yw'r awdurdod priodol mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 28[J951S], neu

(b) pa un o ddau ymgymerwr statudol neu ragor yw'r awdurdod priodol mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 28[J951S].

(4) Mae'r cwestiwn i'w atgyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol y mae ei benderfyniad yn derfynol.

(5) Os atgyfeirir cwestiwn o dan is-baragraff (2)[J951S] neu (4)[J951S]—

(a) mae'r cyfeiriad at y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad malltod yn adran 325(3)[j954] yn cael effaith fel pe bai'n cyfeirio at y diwrnod hwnnw neu, os yw'n ddiweddarach, y diwrnod y penderfynir y cwestiwn;

(b) mae'r cyfeiriad at 6 mis yn adran 348(3)(d)(ii)[j977] yn cael effaith fel pe bai'n gyfeiriad at y cyfnod hwnnw wedi ei estyn gyhyd ag y mae'n ei gymryd i gael penderfyniad ar y cwestiwn;

(c) mae'r cyfeiriadau at 12 mis ym mharagraffau 31(b)[J951S] a 33(b)[J951S] yn cael effaith fel pe baent yn gyfeiriadau at cyfnod hwnnw wedi ei estyn gyhyd ag y mae'n ei gymryd i gael penderfyniad ar y cwestiwn.

## RHAN 4

## YSTYR "DEDDFIAD PRIODOL"

*Rhagymadrodd*

44 Mae'r Rhan hon o'r Atodlen yn darparu ar gyfer ystyr deddfiad priodol at ddibenion Rhan 13 o'r Ddeddf hon.

*Deddfiad priodol: cyffredinol*

45 (1) Ystyr "y deddfiad priodol", mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff o Ran 1[J951S] o'r Atodlen hon, yw'r deddfiad sy'n darparu ar gyfer caffael yn orfodol dir sy'n dod o fewn y paragraff hwnnw.

(2) Mae'r paragraff hwn yn ddarostyngedig i baragraffau 46[J951S] i 56[J951S] sy'n gwneud darpariaeth ynghylch ystyr "deddfiad priodol" mewn perthynas â thir penodol.

*Deddfiad priodol: cynlluniau datblygu, etc.*

46 (1) At ddibenion paragraff 45(1)[J951S], mae deddfiad i'w gymryd fel un sy'n darparu ar gyfer caffael yn orfodol dir sy'n dod o fewn paragraff 1[J951S], 2[J951S], 3[J951S] neu 4[J951S] os yw'n darparu ar gyfer caffael tir yn orfodol at ddibenion—

(a) y swyddogaethau a nodir yn y cynllun fel y swyddogaethau y dyrennir y tir neu y cynigir ei ddatblygu at eu dibenion, neu

(b) pan na fo unrhyw swyddogaethau penodol wedi eu nodi yn y cynllun, unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau cyhoeddus y dyrennir y tir neu y diffinnir y tir fel safle datblygiad arfaethedig at eu dibenion.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr "y cynllun" ("*the plan*") yw—

(a) cynllun datblygu perthnasol o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 1(2)[J951S];

(b) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 2(3)[J951S];

(c) cynllun a gymeradwywyd o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 3(2)[J951S];

(d) penderfyniad neu gyfarwyddyd fel y cyfeirir ato ym mharagraff 4[J951S];

mae i "swyddogaethau cyhoeddus" ("*public functions*") yr ystyr a roddir gan baragraff 1(2)[J951S].

*Deddfiad priodol: trefi newydd*

47 Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 5[J951S] neu 6[J951S], "y deddfiad priodol" yw adran 353(1)[j983] hyd nes y sefydlir corfforaeth ddatblygu ar gyfer y dref newydd.

*Deddfiad priodol: ardaloedd datblygu trefol*

48 Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 7[J951S], "y deddfiad priodol" yw adran 354(1)[j983A] hyd nes y sefydlir corfforaeth datblygu trefol ar gyfer yr ardal datblygu trefol.

*Deddfiad priodol: ardaloedd clirio*

49 Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 8[J951S] neu 9[J951S], "y deddfiad priodol" yw adran 290 o Ddeddf Tai 1985 (p. 68).

*Deddfiad priodol: prynu gorfodol, etc.*

50 (1) Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 19[J951S] "y ddeddfiad priodol" yw'r deddfiad sy'n darparu ar gyfer caffael yn orfodol y buddiant yn y tir neu'r hawliau dros y tir.

(2) Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 20[J951S], "y deddfiad priodol" yw'r deddfiad a fyddai'n darparu ar gyfer caffael yn orfodol y buddiant yn y tir neu'r hawliau dros y tir pe bai'r gorchymyn prynu gorfodol yn cael ei gadarnhau neu ei wneud.

51 (1) Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 23[J951S], "y deddfiad priodol" yw'r gorchymyn cydsyniad seilwaith.

(2) Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 24[J951S], "y deddfiad priodol" yw gorchymyn cydsyniad seilwaith yn nhelerau'r gorchymyn y gwnaed cais amdano.

52 (1) Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 25[J951S], "y deddfiad priodol" yw'r gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu.

(2) Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 26[J951S], "y deddfiad priodol" yw gorchymyn yn nhelerau'r gorchymyn y gwnaed cais amdano.

53 Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 27[J951S], "y deddfiad priodol" yw'r offeryn a grybwyllir yn adran 19(2) o Ddeddf Cynllunio Cymdogaeth 2017 (p. 20) y mae'r awdurdod caffael a grybwyllir yn adran 18(1) o'r Ddeddf honno wedi ei awdurdodi i gymryd meddiant dros dro o'r tir odano.

*Deddfiad priodol: tir a nodir mewn datganiadau polisi seilwaith*

54 Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 28[J951S], "y deddfiad priodol" yw adran 355[j983B].

*Deddfiad priodol: tir a nodir mewn datganiadau polisi cenedlaethol*

55 Mewn perthynas â thir sy'n dod o fewn paragraff 29[J951S], "y deddfiad priodol" yw adran 356[j984].

*Deddfiad priodol: dibenion priffyrdd*

56 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan, yn unol â'r amgylchiadau y mae tir yn dod o fewn Rhan 1[J951S] o'r Atodlen hon yn eu rhinwedd, nodir y cynigir caffael y tir at ddibenion priffyrdd.

(2) At ddibenion paragraff 45(1)[J951S], dylid cymryd bod deddfiad yn darparu ar gyfer caffael y tir yn orfodol os yw awdurdod priffyrdd wedi ei awdurdodi o dan y deddfiad i gaffael y tir yn orfodol at ddibenion priffyrdd, neu y gallai gael ei awdurdodi i wneud hynny pe bodlonir yr amodau perthnasol.

(3) Yn is-baragraff (2)[J951S], ystyr "yr amodau perthnasol" yw pa un bynnag o'r canlynol sy'n gymwys—

(a) dod i weithrediad unrhyw orchymyn neu gynllun gofynnol a wnaed, neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei wneud, o dan Ran 2 o'r Ddeddf Priffyrdd (cefnffyrdd, ffyrdd dosbarthiadol a ffyrdd arbennig);

(b) dod i weithrediad unrhyw gynllun gofynnol a wnaed, neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei wneud, o dan adran 106(3) o'r Ddeddf honno (adeiladu pontydd dros ddyfroedd mordwyol ac adeiladu twneli odanynt);

(c) gwneud neu gymeradwyo unrhyw gynlluniau gofynnol.

*Deddfiad priodol: hysbysiad malltod sy'n cynnwys hawliad mewn perthynas ag ardal nad effeithir arni*

57 Mae cyfeiriadau at "y deddfiad priodol" mewn perthynas â hysbysiad malltod sy'n cynnwys yr hawliad a'r gofyniad a grybwyllir yn adran 335(2)[j963] yn cael effaith fel pe bai'r ardal nad effeithir arni o uned amaethyddol yn rhan o'r ardal yr effeithir arni.

*Deddfiad priodol: dau neu ragor o ddeddfiadau*

58 Os, heblaw am y paragraff hwn, mai dau neu ragor o ddeddfiadau fyddai'r deddfiad priodol mewn perthynas ag unrhyw dir, y deddfiad priodol at ddibenion y Rhan hon yw'r deddfiad y mae'n fwyaf tebygol (heblaw am y Rhan hon), yn yr amgylchiadau o dan sylw, y byddai'r tir wedi cael ei gaffael gan yr awdurdod priodol odano.

*Cwestiynau ynghylch deddfiad priodol*

59 (1) Mae is-baragraffau (2)[J951S] i (4)[J951S] yn gymwys os bydd cwestiwn yn codi ynghylch pa ddeddfiad yw'r deddfiad priodol mewn perthynas ag unrhyw dir at ddibenion y Rhan hon.

(2) Os yw'r awdurdod priodol yn adran o'r llywodraeth heblaw am Weinidogion Cymru, mae'r cwestiwn i'w atgyfeirio at un o Weinidogion y Goron y mae ei benderfyniad yn derfynol.

(3) Os yw'r awdurdod priodol yn ymgymerwr statudol, mae'r cwestiwn i'w atgyfeirio at y Gweinidog priodol y mae ei benderfyniad yn derfynol.

(4) Mewn unrhyw achos arall, mae'r cwestiwn i'w atgyfeirio at Weinidogion Cymru y mae eu penderfyniad yn derfynol.

(5) Yn is-baragraff (3), nid yw "ymgymerwr statudol" ond yn cynnwys trwyddedai trydan os oes gan y trwyddedai hawlogaeth i arfer pŵer a roddir gan Atodlen 3 i Ddeddf Trydan 1989 (p. 29) (caffael tir yn orfodol gan drwyddedwyr).

# ATODLEN 20 [J105S]

*(a gyflwynir gan adran 365[j105])*

## PENDERFYNU APELAU GAN AROLYGWYR NEU WEINIDOGION CYMRU

*Pwerau a dyletswyddau arolygydd*

1 (1) Mae gan arolygydd yr un pwerau a dyletswyddau mewn perthynas ag apêl y mae adran 365[j105] yn gymwys iddi ag sydd gan Weinidogion Cymru, ac eithrio—

(a) swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru gan adran 365[j105] a'r Atodlen hon;

(b) swyddogaethau gwneud rheoliadau.

(2) Mae is-baragraff (3) yn gymwys pan fo unrhyw ddeddfiad (ac eithrio adran 365[j105] neu'r Atodlen hon) yn cyfeirio neu i'w ddarllen fel pe bai'n cyfeirio—

(a) at Weinidogion Cymru mewn cyd-destun sy'n ymwneud neu sy'n gallu ymwneud ag apêl y mae adran 365[j105] yn gymwys iddi, neu

(b) at unrhyw beth a wneir neu a awdurdodir neu y mae'n ofynnol ei wneud gan Weinidogion Cymru, iddynt neu ger eu bron mewn cysylltiad ag unrhyw apêl o'r fath.

(3) I'r graddau y mae'r cyd-destun yn caniatáu hynny, mae'r deddfiad i'w ddarllen, mewn perthynas ag apêl a benderfynir neu sydd i'w phenderfynu gan arolygydd, fel pe bai'r cyfeiriad at Weinidogion Cymru yn gyfeiriad at arolygydd neu'n cynnwys cyfeiriad o'r fath.

*Ymchwiliad lleol, gwrandawiad neu sylwadau ysgrifenedig*

2 (1) Caiff arolygydd gynnal ymchwiliad lleol neu wrandawiad mewn cysylltiad ag apêl os yw penderfyniad o dan adran 366[j106] yn darparu i'r apêl gael ei hystyried yn y ffordd honno.

(2) Mae costau'r ymchwiliad lleol neu'r gwrandawiad i'w talu gan Weinidogion Cymru; ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 372[j112].

(3) Caiff Gweinidogion Cymru neu arolygydd benodi asesydd i gynghori'r arolygydd ar unrhyw faterion sy'n codi—

(a) mewn ymchwiliad lleol neu wrandawiad a gynhelir gan yr arolygydd mewn cysylltiad ag apêl neu o ganlyniad i ymchwiliad neu wrandawiad o'r fath, neu

(b) mewn sylwadau ysgrifenedig a gyflwynir i'r arolygydd mewn cysylltiad ag apêl neu o ganlyniad i sylwadau o'r fath.

*Amnewid arolygydd*

3 (1) Ar unrhyw adeg cyn i arolygydd benderfynu apêl, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) dirymu penodiad yr arolygydd, a

(b) penodi arolygydd arall i benderfynu'r apêl.

(2) Pan fo penodiad newydd yn cael ei wneud, rhaid dechrau ystyried yr apêl, ac unrhyw ymchwiliad lleol neu unrhyw wrandawiad mewn cysylltiad â hi, o'r newydd.

(3) Nid yw is-baragraff (2) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson gael cyfle—

(a) i gyflwyno sylwadau newydd, neu

(b) i addasu neu dynnu'n ôl sylwadau y mae'r person eisoes wedi eu cyflwyno.

*Cyfarwyddyd bod apêl i'w phenderfynu gan Weinidogion Cymru*

4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 365(3)(b)[j105] bod apêl a fyddai fel arall yn cael ei phenderfynu gan arolygydd i'w phenderfynu ganddynt hwy yn lle hynny.

(2) Rhaid i'r cyfarwyddyd ddatgan y rhesymau dros ei roi a rhaid ei gyflwyno—

(a) i'r arolygydd (os oes un) a benodir i benderfynu'r apêl,

(b) i'r apelydd,

(c) i'r awdurdod cynllunio y mae'r tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef wedi ei leoli yn ei ardal, a

(d) yn achos apêl o dan adran [j452], i unrhyw berson sydd wedi cyflwyno sylwadau sy'n ymwneud â phwnc yr apêl y mae rheoliadau o dan adran [j441](2)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod eu hystyried.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle i'r personau a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b) i (d) i gyflwyno sylwadau pellach os yw'r rhesymau dros y cyfarwyddyd yn codi materion nad yw unrhyw un neu ragor o'r personau hynny wedi cyflwyno sylwadau yn eu cylch.

(4) Ac eithrio fel y'i darperir gan is-baragraff (3), nid oes angen i Weinidogion Cymru roi cyfle i unrhyw berson—

(a) i gyflwyno sylwadau newydd, neu

(b) i addasu neu dynnu'n ôl unrhyw sylwadau y mae'r person eisoes wedi eu cyflwyno.

(5) Wrth benderfynu'r apêl caiff Gweinidogion Cymru ystyried unrhyw adroddiad a wneir iddynt gan arolygydd a benodwyd yn flaenorol i'w phenderfynu.

(6) Yn ddarostyngedig i'r paragraff hwn, mae'r darpariaethau yn y Ddeddf hon sy'n berthnasol i'r apêl yn gymwys iddi fel pe na bai'r Atodlen hon erioed wedi bod yn gymwys.

*Dirymu cyfarwyddyd*

5 (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd pellach ddirymu cyfarwyddyd o dan adran 365(3)(b)[j105] ar unrhyw adeg cyn i'r apêl gael ei phenderfynu.

(2) Rhaid i'r cyfarwyddyd pellach ddatgan y rhesymau dros ei roi a rhaid ei gyflwyno i'r personau yr oedd paragraff 4(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarwyddyd o dan adran 365(3)(b)[j105] gael ei gyflwyno iddynt.

(3) Pan fo cyfarwyddyd pellach yn cael ei roi o dan y paragraff hwn, mae adran 365[j105] a'r Atodlen hon yn gymwys fel pe na bai cyfarwyddyd wedi ei roi o dan adran 365(3)(b)[j105] (ac yn unol â hynny rhaid i Weinidogion Cymru benodi arolygydd o dan yr adran honno i benderfynu'r apêl).

(4) Ond mae unrhyw beth a wneir gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan mewn cysylltiad â'r apêl a allai fod wedi cael ei wneud gan yr arolygydd (gan gynnwys unrhyw drefniadau a wneir ar gyfer cynnal ymchwiliad lleol neu wrandawiad), oni bai bod yr arolygydd yn cyfarwyddo fel arall, i'w drin fel pe bai wedi ei wneud gan yr arolygydd.

*Atodol*

6 (1) Nid yw'n sail i gais i'r Uchel Lys am adolygiad statudol o dan adran [j2503] [*TCPA s.288*], nac i apêl i'r Uchel Lys o dan adran [j2505] neu [j2506] [*TCPA s.289*], y dylai apêl fod wedi cael ei phenderfynu gan Weinidogion Cymru yn hytrach na chan arolygydd, oni bai bod yr apelydd neu'r awdurdod cynllunio yn herio pŵer yr arolygydd i benderfynu'r apêl cyn i'r penderfyniad ar yr apêl gael ei roi.

(2) Mae swyddogaethau arolygydd o ran penderfynu apêl a gwneud unrhyw beth mewn cysylltiad â hi i'w trin at ddibenion Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3) fel pe baent yn swyddogaethau Llywodraeth Cymru.